# *CANWYLL Y CYMRU*;

SEF,

# GWAITH

## Mr. *Rees Prichard*,

gynt Ficcer *Llanddyfri*.

Wedi ei Argraphu ynghyd yn Chwe Rhann, yn llownach a helaethach nag un Argraphiad a fu allan erioed o'r blaen, a chwedi ei fanwl chwilio, a'i ddiwygio yn ofalus o amryw Feiau a Chamgymmeriadau anafus, gan *J. H.*

---

## The Divine POEMS

OF

## Mr. *Rees Prichard*,

Sometime Vicar of *Llandovery* in *Carmarthenshire*.

---

*Yr Degfed Argraphiad gydag ymchwanegiad helaeth.*

---

Argraphwyd yn y *Mwythig* gan *Thomas Durston*, lle y gellir cael Brintio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar weithiau amryw Lyfrau Cymraeg a *Saesnaeg*.

BRITISH MUSEUM

44.
4. 6.
25

# Y Rhag-Ymadrodd.

Anwyl Gyd-wladwyr,

YN gymmaint a bod *Myſyrdod a Thueddiadau y rhan fwya o'r cyffredinol* Gymru *annyſgedig yn rhedeg ar ryw wag Rimynau ac ofer Benhillion diffrwyth, y rhai ſydd aflefol ac anfuddiol iddynt eu hunain a'u gwrandawyr; ac i* Dduw *weled yn dda o'i ddirfawr* Drugaredd *fendithio Gwaith y Parchedig Awdwr Mr.* Rhys Prichard, *yr hwn a ddoſparthwyd Chwech o Weithiau'n eich myſg; a bod yn gymmwyſedig yn y Llyfr hwn holl Swm a Sylwedd y Grefydd* Griſtnogol, *ynghyd ac Annogaeth ddifrifol i amryw Ddyledſwyddau Buchedd Sanctaidd; i ba un y bu'r Llyfr hwn yn un o'r Achlyſur mwyaf (oddigerth y* Bibl *Sanctaidd) i ddwyn llawer i'r iawn Ffordd, ac i 'madael a'u Camweddau a'u Pechodau: Yr hyn y fu'r Achoſion i'n rhoddi ni ar waith iw ail Argraphu yr Wythfed Waith hon, gan obeithio y bydd iddo'r tro hwn gael ei gyflawn Groeſo, fel y byddeſ arferedig a chael* Yng-Hymru. *Ym mha un chwi a gewch holl Waith y Ficcar yn Gyflawnach nag mewn un o'r Argraphiadau o'r blaen; at ba un y chwanegwyd y Chweched Rann, na bu'n Argraphedig o'r blaen, Ymore* Tudur *a* Grenwy, *y Gân o Groeſawiad y Brenhin* Charles *y Cynta adre' o* Spain, *pan oedd yn Dywyſog* Cymru; *hefyd chwi a allwch ddiſgwyl yr Argraphiad hwn, nid yn unig yn Gyflawnach, eithr yn burach oddiwrth Feiau a Chamgymmeriadau, nag un a fu erioed o'r blaen. Ac er bod Argraphiad Arall o Waith y Ficcar yn eich myſg, yn llawn Beiau anafus, a Llinellau Cyfain wedi gadel allan a Geiriau hefyd, ac i'r achos fod yn gorfod Gwerthu'r*

A 2 *cyfryw*

*cyfryw am lai na Hanner ac a dâl y Llyfr, ped ſae ond agos i ddlſai: Gan hynny y mae fy Ngobaith, na fydd i neb o honoch dybiaid rhoddi ei Arian allan mor ddifudd, ac y bydda byth Edifar gennych am y Llyfr hwn, o herwydd ei fynd trwy Law* Cymro *Cywraint, pa un a ddiwygiodd yn ofalus Feiau'r Argraphwaſg, a phe beth bynnag arall a ddigwyddodd ar gam yn yr Argraphiadau o'r blaen. Bellach nid oes geni ond ei gyflwyno i'ch Dwylo, heb ammeu nad dyma'r Argraphiad Perffeithia a ddaeth oddiwrth eich.*

*Ufudd Waſanaethwr*

**T. D.**

---

*HANES y Parchedig Mr.* RHYS PRICHARD *Ficar* Llanddyfri *yn Sir* Gaerfyrddin, *a gymmerwyd allan o Lyfr a elwyd* Athenæ Oxonienſes, *a Argraphwyd yn* Rhydychen *yn y Flwyddyn* 1619. *Yn y* 29 *Tu-dalen o'r Ail Llyfr y mae'r Geiriau canlynol.*

R*HYS PRICHARD* (fel y tybir) a anwyd yn *Llanddyfri* yn Sir *Gaerfyrddin*, ac a gafodd ei Ddygiad i fynu yn y Wlad honno, nes i ddanfon ef i *Golege* yr *Jeſu* yn *Rhydychen*, yn y Flwyddyn 1597. Ynghylch 18 Oed. Fe a Urddwyd yn Offeiriad yn *Witham* neu *Wytham* yn *Eſecs*, gan *John Suffragan* Eſgob *Rocheſter*, ddydd Llun y 25 dydd o Fis *Ebrill* yn y Flwyddyn 1602. ac ef a Raddiwyd ym *Mehefin* ar ol hynny yn Wyryf yn y Celfyddydau; ac ym mis *Awſt* yr un Flwyddyn fe a gafodd Ficceriaeth *Llanddyfri* gan *Anthony* Arglwydd Eſgob *Ty Ddewi*, ar y 19 dydd o Fis *Tachwedd*

*Tachwedd* 1612. Efe a Ordeiniwyd yn Berſon *Llanedi* yn Eſgobaeth *Dewi*, yr hon a gyflwynwyd iddo gan y Brenhin *Jaco* y Cynta; y Lle a feddiannodd ynghyd ar rhai rhagddywededig, trwy Gennadhad yr Arch-Eſgob; ac ar yr 28 dydd o fis *Hydref*, 1613 efe a ſicrhawyd trwy Awdurdod y Sêl Fawr y Brenhin, ar y 29 dydd o'r un Mis, ac a gyfaddaſwyd i'r galwedigaethau hynny trwy'r wneuthur yn Swyddog neu'n Gaplan i *Robert* Jarll *Eſecs*, yn y Flwyddyn 1614. Ar y 17 dydd o fis *Mai*, efe a wnaed yn Beriglor o'r Eglwys *Gadeiriawl* yn *Aberhonddi*, gan y rhagddywededig *Anthony* Eſgob *Dewi*, tan enw Athraw yn y Celfyddydau; efe a gymmellwyd i gymmeryd arno'r Graddau hynny gan ei Eſgob Dr. *Laud*. Efe a wnaed hefyd yn Ganghellwr *Ty Ddewi*, ynghyd a pha un y mae Perigloriaeth *Llowhadden* yn digwydd, ar y 14 dydd o *Fedi* 1626. pan ymadawodd *Richard Baylie* Gwyryf Difinyddiaeth o S. *John's* College yn *Rhydychen* ar lle hwnnw.

Y mae'n crybwyll hefyd am y Llyfr hwn o'i Waith ef, a Argraphwyd gynt yn Dair Rhann, ac yn Awr yn Chwe Rhann yn Llyfr Wythblyg tew, yr hwn a gynnwys amryw Ganiadau a Charolau Duwiol, y ſawl y mae'r *Cymru* yn arferedig o'i dyſgu a'i canu. Hefyd efe a Gyfieithodd amryw Lyfrau'n *Gymraeg*; ac a yſgrifennodd ryw beth ar y Namyn un deigiain Erthyglau Crefydd Eglwys *Loegr*, pa un a wnaethpwyd a'u Hargraphu a'u peidio ni's gwyddai'r Awdwr, eithr efe a welodd rai o'r Yſgrifennadau. Fe fu farw ynghylch mis *Tachwedd* yn y Flwyddyn 1644. yn *Llanddyfri*, ac y mae'r Awdwr y cwbl [illegible] ei Gladdu ef yn yr Eglwys honno.

Yn ei Fywyd efe a roddodd werth Ugain Punt yn y Flwyddyn o Dir i ſefydlu Yſgol Râd yn *Llanddyfri*, ynghyd a Thy iw chadw hi; a chwedi bod pedwar o'r

Athrawon Yſgol yn feddiannol ol yn ol o'r Ty a'r Yſgol, ar Arian a dalwyd iddynt, o'r diwedd *Thomas* Fâb *Roger Manwaring* gynt Eſgob *Ty Ddewi*, a briododd *Elizabeth* unig Ferch ac Etifeddes *Samuel*, yr hwn oedd Fâb *Rhys Prichard.* Hwnnw a attaliodd (fel y gwnaethpwyd yr Awdwr yn gydnabyddus trwy Lythyrau oddiyno) ac a gymerodd feddiannau o'r Tiroedd yn perthyn i'r Yſgol Râd, gan gymmeryd arno dalu i'r Athraw Yſgol yn Arian; yr hyn a wnaeth ef tros Flwyddyn neu ddwy, eithr cyn pen hir (fel y dywedwyd i'r Awdwr) yr Afon *Tywi* a dorrodd i'r Ty, ac ai dygodd ymmaith; a'r Tiroedd, oedd yn perthyn i'r Lle y pryd hwnnw, oedd ym Meddiannau *Roger Manwaring*, Mâb ac Etifedd y rhagddywedig *Thomas Manwaring*, yn y Flwyddyn 1682. Felly braidd gol clywed ſon am yr Yſgol.

# Llythyr yr Awdwr at ryw Arglwydd, ir hwn yr oedd yn ei fryd ef gyſſegru ei Llyfr.

ARglwydd graſſol na ryfedda,
Weld Eglwyſiwr tlawd i'th goffa,
Ac yn ‡ mentro Urddas Cymru,
Ar ſath Lyfrau dy † anrhegu:

Dy zêl at Eglwys Criſt a'i ‖ hurddas,
Dy Waſanaeth da i'th Brins a'th Deyrnas
Dy ſerch a'th § garc am genel Cymru,
Y bair i bawb dy anrhydeddu.

Ym mhlith miloedd a'th anrhegant,
A thalentau mawr ei moliant,
Arglwydd da cennada ſinne,
Dy gydnabod a'm demmeic.

Cymrodd Arglwydd yr Arglwyddi,
Rodd y weddw dlawd heb ſiommi,
Er na thalei rhodd ond Dimme,
Am roi'r cwbwl ag a ſedde.

Cymmer dithe Arglwydd Serchog,
Rodd o'r ſath gan wr dyledog,
Sy'n wllyſgar i'th anrhegu,
A rhodd well pe bae'n ei feddu.

Haeddaiſt well diddanwch Cymru,
Cawſit well pe baſſe genni;
Pwyſa'r rhodd yn ol yr 'wyllys,
Hi gyd-bwyſa roddion Prinſys.

‡ *I Feiddio.*
† *I Preſento*
‖ *Anrhydedd*
§ *Gofal.*

# Llythyr arall at y Darllenydd fel y mae'n dybygol.

** Deiſyfiad,* GOgoniant Duw, a lles Brittaniaid,
* Canlyniaeth ffryns a gwaed y gwciniaid
Y wnaeth printio hyn o Lyfran,
A'i roi rhwngoch Gymru mwyalân.

Abergofi pur bregethiad,
Dyſal gofio oſer Ganiad,
A wnaeth im droi hyn o werſeu,
I chwi'r Cymru yn ganiadau.

*† Y Pſalm Cymraeg o Gyfieithiad Mr. Saliſbury*
Am weld † Dwſn-waith enwog *Salſbury*,
Gan y diddyſg heb ei hoffi,
Cymrais ſeſur byrr cyn blaened,
Hawdd i'w ddyſgu, hawdd iw 'ſtyried.

Gelwais hon yn Canwyll Cymro,
** oddifriſ* Am im chwennych * brudd oleuo,
Pawb o'r Cymru diddyſg deillion,
I waſanaethu Duw yn union.

Er mwyn helpu'r annyſcedig,
Sydd heb ddeall ond ychydig,
Y cynnhullais hyn mor gyſſon,
Mae gan eraill well Athrawon.

Duw oleuo pawb o'r Cymru,
I wir nabod a'i waſanaethu;
Duw a wnel i hyn o Canwyll,
Roi ir dall oleuni didwyll.

*yngor*

---

## *Cyngor i Wrando ac i Ddarllen Gair Duw.*

O Cais gwr, na gwraig, na bachgen,
Ddyſcu'r ffordd i'r nefoedd lawen Pſ. 119. 19
Ceiſied air Duw iw gyfrwyddo;
Onid ê, fe aiff ar ddidro.
*Mae'r nef ym mhell mae'r ffordd yn ddyrys,* *Mat.* 7. 14.
*Mae'r trammwy'n fach, mae'r rhwyſtre an-* *Pſalm* 119.
*Mae'r porth yn gul i fyned trwyddo (happys* 105.
*Heb oleu'r Gair, nid aer byth atto.*
Mae'r nef uwchlaw yr haul a'r lleuad,
Mae'r ffordd yn ddierth itti ddringad,
Rhaid Criſt yn yſgol cyn dringuadech,
Ai air yn ganwyll cyn canfyddech!
Mae llawer craig o rhwyſtre onawdol,
Mae llawer môr o drallod bydol, *Mat.* 18. 7.
Cyn mynd i'r nef rhaid myned droſtynt, *a'r* 16. 24.
Heb oleu'r gair nid aer byth trwyddynt. *Pſ.* 119. 92.
Mae llawer mil o lwybrau ceimion,
O ddryſſwch blin, o ffoſydd dyſnion:
Cyn mynd i'r nef rwy'n dywedyd wrthyd,
Heb oleu'r gair ni elli ei * gweglyd. * *gochelyd.*
Di elli fynd i uffern danllyd,
Lwyr dy ben heb un cyfrwyddyd; * *Ynwyſg,*
Nid aiff neb i'r nef gwnaed allo, *Rhuf.* 1. 16.
Heb y 'fengyl iw gyfrwyddo.
Nid goleu'r haul, nid goleu'r lleuad,
Nid goleu'r dydd, na'r ſêr ſy'n gwingad,
Ond goleuo'r gair a'r 'fengyl hyfryd,
All dy oleuo i dir y bywyd.
Cymmer lantorn Duw'th oleuo,
A'r Efengyl i'th gyfrwyddo;
Troedia'r llwybyr cûl orchymmynwys,
Di ae'n union i Baradwys.

*2 Pet.* 1, 19. Y gair yw'r ganwyll a'th oleua,
Y gair yw'r gennad a'th gyfrwydda,
Y gair a'th arwain i Baradwys,
Y gair a'th ddwg i'r nef yn gymmwys.
Dilyn dithe oleuni'r gair,
Gwna beth archodd un Mab *Mair*,
Gwachel wneuthur a wrafynwys,
Di ei'n union i Baradwys.
Seren wen ſy'n arwain dyn,
O fan i fan at Griſt ei hun,
Yw'r Efengyl i gyfrwyddo,
Pawb i'r nefoedd ai dilyno.
Bwyd i'r enaid, bara'r bywyd,
Gras i'r corph, a maeth i'r Yſpryd,
*Jer.* 15. 16. Lamp i'r troed a ffrwyn i'r genau,
Yw gair Duw a'r holl ſgrythyrau.
Llaeth i fagu'r gwan yſprydol,
*1 Pet.* 2. 2. Gwîn i lonni'r triſt cyſtuddiol,
*Pſal.* 19. 8. Manna i borthi'r gwael newynllyd,
Ydyw'r gair a'r 'fengyl hyfryd.
Eli gwych rhag pob rhyw bechod,
*Dihar.* 4. 22. Oyl i ddofi gwŷn cydwybod,
Triag gwerthfawr rhag pob gwenwyn,
Ydyw'r gair a balſam addfwyn.
*Jer* 23. 29. Mwrthwl dur i barrio'n cnappe,
Bwyall lem i dorri'n ceingcie,
‡ *Taclu* Rheol gymmwys i'n ‡ trwſiadu,
Ydyw'r gair, ac athro i'n dyſcu.
‡ *galw.* Udcorn pres i'n ‡ gwyſſio i'r frawdle,
‖ *Lle Barn* Cloch in gwawdd i wella'n beie,
‡ *Cennad yn cyhoeddi* ‡ Herawld yn proclaimo'n heddwch,
Ydyw'r gair a'n gwyr ddiddanwch.
*Rhuf* 3. 20. Y gair yw'r drych ſy'n gwir ddinoëthi,
Ein holl frychau a'n holl frynti,
Ac yn erchi i ni eu gwelle,
Tra fo'r dydd a'r goleu'n para.

Y gair yw'r hâd ſy'n adgenhedlu, 1 Pet. 1. 23.
n blant i Dduw, yn frodyr Jeſu,
n deulu'r nef yn deml i'r Yſpryd,
n wir drigolion tir y bywyd.
Heb y gair nid wy'n dychymmig
wedd y bydd dyn yn gadwedig,
le mae'r gair yn Benna o'r moddion,
rdeiniodd Criſt i gadw Criſtion.
Heb y ‖ gair ni ellir nabod,
uw, na'i natur na'i lan hanfod,
a'i Fab Criſt, na'i Sanctaidd Yſpryd,
a rhinweddau'r Drindod hyfryd.
Heb y gair ni ddichon un dyn
Nabod 'wyllys Duw na'i ganlyn,
Na gwîr ddyſcu'r ffordd i addoli,
Nes i'r gair roi iddo oleuni.
Heb y ſcrythur ni ddealla,
Un dyn beth ei gwymp yn Adda,
Na'i drueni, na'i ymwared,
Trwy Fab Duw o'r ſath gaethiwed.
Heb y gair ni all neb gredu,
Yn Ghriſt Jeſu ſu'n ei brynu;
Can's o wrando'r gair † yn brudd,
Y mae i Griſtion gyrraedd ffydd.
Heb y gair nid yw Duw'n arſer,
Troi un enaid oi ddiffeithder,
Ond trwy 'r gair mae'n arſeredig,
Droi'r Eneidiau ſo cadwedig. Act. 13. 48.
Ar gair y trodd yr Apoſtolion,
Y Genhedloedd yn Griſtnogion;
Heb y gair peth dierth yw,
Droi pechadur byth at Dduw.
A phregethiad yr Efengyl, Act. 2. 41.
Y trodd Pedr gwedi tair mil,
O Iddewon i wir gredu,
Ar ôl iddynt ladd yr Jeſu.

‖ *Er wrth o-leuni natur a gwaith y Creadigaeth nabyddir Duw mewn rhan; etto i iechydwriaeth ni nebydd neb ef heb y gair.*
*Rhuf.* 1. 16.

*Rhuf.* 10. 14. 17.

† *O ddifri.*

Trwy

*Jac.* 1. 18. Trwy hâd y gair yr adgenhedla,
Yſpryd Duw'r pechadur mwya,
Ac ai gwna yn oreu ei ryw,
Yn frawd i Griſt, yn Fab i Dduw.
Y gair ſy'n cynnwys ynddo'n helaeth,
Faint ſydd raid at Jechawdwriaeth;
Chwilia hwn a chais e'n aſtyd,
Ynddo mae'r tragwyddol fywyd.
*Joan.* 5. 39. Criſt ſy'n erchi't lafurio,
Am y gair a'th draed a'th ddwylo,
*Jac.* 1. 19. Mwy nag am y bywyd y dderfydd,
O chwennychu fyw'n dragywydd.
*Jo.* 6. 27. Fel y llef dyn bach am fronne,
Fel y cais tir cras gawode,
Fel y brefa'r hydd am ffynnon,
Llef am eiriau'r fengyl dirion.
Gwerth dy dir a gwerth dy ddodrefn,
Gwerth dy gris oddi am gefn,
Gwerth y cwbl oll ſydd gennyd,
Cyn bech byw heb air y bywyd.
Gwell it fod heb fwyd heb ddiod,
Heb dy, heb dân, heb wely, heb waſcod,
Heb oleu'r dydd a'r haul garuaidd,
Na bod heb y 'fengyl ſanctaidd.
Tôſt yw aros mewn Cornelyn,
Lle na oleu'r haul trwy'r flwyddyn,
Toſtach trigo yn y chwarter,
Lle na oleuo'r gair un amſer.
Na thrig mewn gwlad heb lawer brydie,
Mewn glyn heb haul, mewn ty heb ole,
*Mewn tre heb ddwr, mewn llong heb gwmpas,*
*Mewn plwyf heb ryw bregethwr addas.*
* *Ymadel.* * Gado'r wlad a'r plwyf a'r pentre,
Gado'th dad, a'th fam, a'th draſſe,
Gado'r tai a'r tir yn ebrwydd,
Lle na bytho gair yr Arglwydd.

Gwell it drigo mewn gogofe,
A chael gwrando'r ſengyl weithie,
Nag it drigo mewn gwlad ffrwythlon,
Lle na bytho'r ſengyl dirion.
Toſt yw trigo mewn tywyllwch,
Lle na chaffer dim diddanwch,
Triſtach trigo yn rhy hair,
Lle na chaffer gwrando'r gair.
Nid gwaeth trigo ym myſc y Twrcod,
ydd heb ofni Duw nai nabod,
Nag it drigo'n doſt dy dreigyl,
Lle na chlywer Chriſt nai ſengyl.
Tynn i Loeger, tynn i Lundain,
Tynn dros fôr tu hwynt i Rufain,
Tynn i eitha'r byd ar dreigyl,
Nes y caffech gwrdd ar ſengyl.
Blin it weld yr haul a'r glaw,
Mewn plwyfe ddeutu yma a thraw,
A'th Blwyf dithe ( peth yſcymmun )
Heb na haul na glaw trwy'r flwyddyn:
Oni bydd un bregeth * ddurfing, * Lymdoſt
Yn y plwyf lle bech yn taring, Jac. 1. 19.
Dos † i maes i'r plwyf lle'i bytho; † allan.
Nad un ſabbath heb ei gwrando.
Pan fo eiſiau a'r dy fola,
Di ac i'r gell i geiſio bara,
Pan bo newyn ar dy enaid,
Nid ai un llo, i geiſio ei gyfraid.
Beth y dâl it borthi'r corphyn, Mat. 16. 26.
O bydd d' enaid marw o Newyn,
All dy gorph di gael difyrrwch,
Pan fo d' enaid marw o driſtwch?
Drwg it ladd y corph a newyn,
Eiſie bara tra fo'r flwyddyn;
Gwaeth o lawer lladd yr yſpryd,
Eiſie ei borthi a bara'r bywyd.

Lle

Llef gan hynny ar y ffeiriaid,
*Mal.* 2. 7. Am roi bwyd i borthi d' enaid;
Rwyt ti'n rhoi dy ddegwm iddyn,
Par i nhwyntau dorri'th newyn.
*Luc.* 10. 16. Gwrando'r gair o enau'r ffeiriad,
Fel o enau Criſt dy geidwad,
Criſt a rodd awdurdod iddo,
I'th gynghori a'th rybuddio.
O par Criſt i ffeiriad noethlyd,
2 *Pet.* 2. 16. Dy rybuddio wella'th fywyd:
Rwytti'n rhwym i wneuthur archo,
Pe doe aſſen i'th rybuddio.
Po doe *Suddas* i bregethu,
Fengyl Griſt ti ddylid ei dyſcu;
F' all y fengyl gadw d' enaid,
Er i'th athro doſt gamſyniaid.
*Mat.* 23. 2. 3. Os dy fugail ſydd anweddaidd,
Ai athrawiaeth yn Griſtnogaidd;
Dyſc y wers, na ddyſc ei arfer,
Gwachel feicu *Paul* a *Pheder*.
Na wna bris o'i wedd na'i wiſcad,
P'un ai gwych ai gwael fo'i ddillad,
Nid llai grym y fengyl gyngan
O'r ſiacced ffris na'r gaſſog ſidan.
Cymmer berl o enau llyffan,
Cymmer aur o ddwylo aflan,
Cymmer win o bottel fudur,
Cymmer ddyſg o ben pechadur.
Gwrando fengyl, Criſt yw hawdwr,
Pa fath bynna fo'r bregethwr,
Priſſia'r gair, na phriſſia'r gennad,
* *Danfonodd* Criſt ei hun ai * helodd attat.
Cadw'r geiriau yn dy galon,
Nad ei dwyn gan gigfrain duon;
Had yw'r gair i'th adgenhedlu,
*Luc.* 5. 12, 15. Os ir galon y derbynu.

Dyſ

Dyſal chwilia di'r Scrythyrau,
Darllen air Duw nos a borau, Jo. 5. 39.
Dilyn arch y gair yn ddeddfol,
Hynny'th wna di'n ddoeth anianol.
Cadw'r gair bob pryd i'th galon, Deut. 6. 6, 7.
Ac hyſpyſſa hwn i'th ſeibion,
Sonnia am dano nos a bore,
Y mewn, y maes wrth rodio ac eiſte.
Dod e'n gadwyn am dy * ſwnwg, * Gwddf.
Dod e'n rhactal o flaen dy olwg,
Dod e'n || ſignet ar dy 'tyſſedd, || Fodrwy.
Na ddos hebddo lêd y droedſedd. Pſ. 119. 98.
Gwna'r gair beunydd yn gydymmaith,
Gwna'r gywely it bob noſwaith,
Gwna e'n gyfaill wrth ſiwrneia,
Gwna'r peth archo wrth chwedleua.
Gwna fe'n ben Cynghorwr i ti, Pſ. 119. 24.
Gwna fe'n athro i'th reoli;
Fe ry'r gair it gan-gwell cyngor,
Nag a roddo un rhyw Ddoctor.
Nad e drigo yn yr Eglwys,
Gyda'r ffeiriad 'rhwn ei traethwys,
Dwg ef adref yn dy galon, Gen. 18. 19.
Ail fynega rhwng dy ddynion.
Gwna di'r gair yn ddyſclaid benna,
Ar dy ſord tra ſech yn bwytta, Jer. 15. 16.
Gwedi bwytta cyn cyſodi, Pſ. 119. 130.
Bid y gair yn || juncats itti. || feluſfwyd.
Rho i'th enaid nos a boreu
Frecfaſt fechan o'r Scythyrau,
Rho iddo ginio brudd a Swpper,
Cyn yr elych i'th eſmwythder.
Fel y porthi'r corph a bara,
Porth d' enaid bach a'r manna,
Nad ith enaid hir newynu,
Mwy na'r corph ſy'n cael ei fagu.

Mae

Mae'r Bibl bach yn awr yn gyſſon,
Yn iaith dy ſam iw gael er coron,
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw,
Mae'n well na thref dy dad i'th gadw.
*Pſ.* 119. 72. Gwell nag aur, a gwell nag arian,
Gwell na'r badell fawr, na'r crochan,
Gwell dodrefnyn yn dy letty, i
*Rhuſ.* 15. 4. Yw'r Bibl bach na dim a fedd.
Fe ry gomffordd, fe ry gyngor,
Fe ry addyſc gwell na Doctor,
Fe ry lwyddiant a diddanwch,
Fe ry't lawer o ddedwyddwch.
Fe ry Fara i borthi d' enaid,
Fe ry laeth i fagu'th weiniaid,
Fe ry gwin i'th lawenhau;
Fe ry eli i'th iachau.
Pwy na phrynne'r bibl ſanctaidd,
Sydd mor werthfawr ac mor gruaidd;
Pwy na werthei dy ai dyddyn,
I bwrcaſſu'r fath ddodrefnyn?
Dymma'r Perl y ſyn yr Jeſu,
I bob Criſtion doeth i brynnu,
† *Marſiandwr.* Fel y † Marſiant call a werthe,
I brynu ‡ hwn ſaint oll y fedde.
‡ *Y grâs yſonier am dano yn y Bibl.* Gan i Dduw roi inni'r *Cymru*,
Ei air ſanctaidd i'n gwir ddyſcu,
Moeſwch i ni fawr a bychain,
Gwympo i ddyſcu hwn ai ddarllain:
Moeſwch i ni wyr a Gwragedd,
‖ *ddeiſyf.* Gyda i gilydd heb ‖ ymhowedd,
Brynnu bob un iddo Lyſyr,
I gael darllain geiriau'r Scrythur.
Moeſwch i ni bawb rhag gwradwydd
Ddyſcu darllain gair yr Arglwydd,
Gan i *Dduw* ei ddanſon adre,
Attom bawb yn iath ein mamme,

Nadwn fynd y gwaith yn ofer,
Y ſu goſtfawr i wyr *Lloegr*,
Rhag na fedrom wneuthur cyfri,
Dydd y farn a gyfryw wrthuni.
Gwyr a gwragedd, merched, meibion,
Cymrwn ddyſg oddiwrth y Saeſon,
Rhai a fedrant bob un ddarllain,
Llyfr Dduw'n eu iaith eu hunain.
Gwradwydd blin i ninnau'r *Cymru*,
Oni cheiſiwn weithian ddyſcu,
Darllain gair Duw a'r ſcrythurau,
Gan eu printio'n iaith ein mammau,
Ni chyſt Bibl inni weithian
Ddim tu hwnt i goron arian,
Gwerth hên ddafad y fo marw
Yn y clawd ar nolwaith arw,
O meder un o'r tylwyth ddarllain,
Llyfr Duw yn ddigon § cywrain,
Fe all hwnnw'n ddigon eſmwyth,
Ddyſcu'r cwbwl o'r holl dylwyth,
Ni bydd *Cymro'n* dyſcu darllain,
Pob Cymraeg yn ddigon cywrain,
Ond un miſgwaith, beth yw hynny?
Os bydd 'wyllys ganddo i ddyſcu.
Mae'n gwilyddus i bob Chriſtion,
Na chylw arno ſtoſio coron,
Ac un miſgwaith o'i holl fywyd,
Ynghylch dyſcu'r ſengyl hyfryd.
Mae'r Cobleriaid ai morwynion,
Ac rhai gwaetha myſc y ſaeſon,
† Bob yr un a'r Bibl ganthynt,
Ddydd y nos y darllain ynddynt.
Mae'r pennaethiaid gyda ninnau,
A'u tableri ar eu ‖ bordau,
Heb un Bibl, nac un plygain,
Yn eu tai, da neb ſy'n darllain.

§ Cyfarwydd

† Laweroedd

‖ byrddau

Peth cwilyddis gweld cobleriaid,
Yn rhagori ar Benaethiaid,
Am gadwriaeth eu heneidiau,
Ar peth rheitia mewn neuaddau.
Y cobleriaid hyn a gyfyd
Ddydd y farn yn anian aethlyd,
I gondemnio'r ſath benaethiaid
Sydd mor ddibris am yr enaid.
* *Eurych.* Pob merch * tincer gyda'r Sacſon
Feder ddarllain llyfrau mawrion,
Ni wyr merched llawer Sewier,
Gyda ninne ddarllain Pader.
Gwradwydd toſt fydd i'r Bruttaniaid,
Fod mewn crefydd mor ddieithriaid.
Ac na wyr y canfed ddarllain
Llyfr Duw'n ei iaith ei hunain.
Bellach moeſwch i'n rhag cwilydd,
Bob rhai ddyſcu pwyntieu crefydd,
*Jon.* 17. 3. Ac ymroi i ddyſcu darllain,
Llyfr Duw a'n iaith ein hunain.
Felly gallu dyſcwn nabod
Y gwir Dduw ai ofni'n waſtod,
Ac ei nabod ai wir ofol,
† *di ddiwedd* Fe ry'r † di-drangc fywyd inni,
Duw ro gras a grym i *Gymru*,
Nabod Duw ai wir waſanaethu,
Chriſt a nertho pob rhai ddarllain,
Llyfr Duw'n eu hiaith eu hunain.

## *Hil Brutus.*

HIL *Brutus* fab *Sylſus* Brutaniaid brwd hoenus,
Caredig, cariadus, cyd-rodwch i'm bron,
I wrando'n wyllyſgar a chalon ufuddgar,
Fy llefain am llafar hiraethlon.

Mae rhôd y ffurfafen yn dirwyn y bellen
O'n heinioes nes gorphen heb orphwys nos na dydd
A ninne heb feddwl, nes dirwyn y cwbwl,
Yn chwympo i'r trwbwl tragywydd.
Fel llong dan ei hwyle, yn cerdded ei ſiwrne
Tro'r morwyr yn chawre, neu'n chwrnu ar y nen,
Mae'n heinioes yn paſſio, bob amſer heb ſtaio,
Beth bynnag a wnelo ei pherchen.
Mae'r ango glas ynto yn dilyn ein ſodle,
Ai * ddart ac ai ſaethe, fel lleidr diſôn,
Yn barod i'n corddi ynghanol ein gwegi,
Pan ſom ni heb ofni ei ddyrnodion.
A'n bywyd fel bwmbwl, ar lynwyn go drwbwl,
Sy'n diffodd cyn myddwl ei ſod ef yn mynd.
A ninne cyn ddyled, nad ym yn ei weled,
Nes darffo iddo ſyned i helynd
Mae'r byd ynte'r cleirchyn, yn glaf ar ei derfyn,
Bob ennyd yn rofyn, rhwyfo tu ai fedd,
Ai ben wedi dottio, ai galon yn ffeintio,
Ai ſwyſtil yn waſtio yn rhyfedd.
Rym ninnau b'ant dynnion, heb arſwyd nac ofon,
Yn tryſto gormoddion ir gwr marwaidd hên,
Fel morwyr methedig y dryſtent mewn perig
Ir llongau ſigedig nes ſodden.
O nedwch i'n dryſto 'r byd ſy'n ein twyllo,
Fel iâ pan y torro grie dan ein trâd,
A'n gollwng heb wybod i'r ſarn yn amharod,
Cyn i ni gydnabod ei fwriad.
Ond moeſwch yn garcus, i'n bawb ſod yn daclus;
I ſyned yn weddus ni wyddom pa awr,
O flaen y Meſſias, yngwiſc y briodas,
A thrwſſiad cyfaddas i'r neithiawr.
A nedwch ein dala, pan ddelo'r awr waetha,
Mewn medd-dod, puteindra, rhag rhwyſtir i'r [illegible],
Heb oyl yn ein lleſtri heb gownt o'n talenti,
Ac cwbwl o'n cyfri yn berffaith.

* Piccell

Mae

Mae'r fwyall ar wreidde y cringoed er's dyddie,
  Mae'r wyntill yn dechreu dychryn yr ûs,
Mae'r Angel ar cryman yn bwgwth y graban,
  Iw bwrw i'r boban embeidus.
Mae'r farn uwch ein penne, *mae'r dydd wrth y dryſau*,
  Mae'r udcorn bob bore yn barod rhoi bloedd,
Mae'r môr a'r mynwentydd ac uffern yn uffudd,
  Roi'r meirw i fynydd a lyngcodd.
A'r barnwr ſydd barod a'r ſaint ſy'n ei watchod,
  A'r dydd ſydd ar ddyfod i ddifa hyn o fyd,
An galw yr holl ddynion, o flaen y Duw cyfion,
  I gyfrif am y gowſon oi olud.
Rym ninnau'n ymbeſci, a bechod a brynti,
  Heb feddwl am gyfri, na gorfodd ei roi,
Yn waſtio ein talente, i borthi'n trachwante,
  Doed barn a dialo, pan deloi.
Fel *Cowri* cyn diluw, fel *Sodom* cyn diſtryw.
  Fel *Pharo* a'r cyfryw (eu cyfri nid gwaeth)
Yr ydym ni'n pechu, a'n grym aca'n gallu,
  Heb fedru difari yſowaith.
Ymbeſcu ar bechod fel môch ar y callod.
  Ymlenwi ar bob diod, fel ychen ar ddwr,
Ymdroi mewn putteindra fel perchill mewn llacca,
  Yw'n crefydd, heb gofio cyfyngdwr.
Tyngu a rhegu, a rhwygo cig Jeſu,
  Ac ymladd am gwnnu y gawnen i gyd,
Cyfreitha'n rhy ddiriaid, nes mynd yn fogeriaid,
  A gadel y gweiniaid mewn gofid.
Y mae'r *haul* ac mae'r *lleuad* yn gweld ein 'mddygiad
  Mae'r ddaiar yn beichiad, ein buchedd mor *ddrwg*
Mae'r ſanctaidd Angylion yn athriſt eu calon,
  O weled Criſtnogion yn gynddrwg.
*Mae'r ffeiriad, mae'r ffermwr, mae'r bwſman a'r crefftwr*,
  Mae'r Bayli a'r Barnwr, a'r bonnedd o'i bron,
Bob un am y cynta, yn digio'r gorucha,
  Heb wybod p'un waetha eu harferion.

Mae'r ffeiriad yn loettran, mae'r Barnwyr yn *bribian*
  Mae'r Bonedd yn tiplan o dafarn i [illegible]
Mae'r Hwſmon oedd echdo heb fedru [illegible],
  Yn yfed Tobacco yn ddidwlc.
Putteindra'r Sodomiaid, meddwdod y Parthiaid,
  Lledrad y Crettiaid, ( or credwch y gwir )
Ffalſtedd gwlad Græcia, gwangred Samaria,
  Sy'n awr yn lletteua ymhob rhandir.
Mae'n anfoes i'm draethu ein campau ni'r *Cymru*,
  Rhag cwilydd mynegu'n ymddygiad i'r byd,
Etto rhaid meddwl y tractha Duw'r cwbwl,
  Pan ddelo'r dydd trwbwl i trefnyd.
Gwelli i ni'r awran gael clywyd eu datcan,
  Er pori i ni'n fuan difaru tra fom ;
Na gweled ein taflu i'r tywyll garchardy,
  O eiſie difaru tra fyddom.
Gan hynny mi fynwn gael gennych, po gallwn,
  Ymbilio am bardwn yr ennyd y boch,
A gwella'n 'wyllyſcar, cyn eloi'n ddiweddar,
  Rhag bod yn edifar pan ddeloch.
Ma'en ofer difaru, a chrio a chrynu,
  Pan ddeli 'r i'n barnu, bawb ar y barr,
Ni cheir ond cyfiawnder, er cymmiant a grier,
  Pan eloi yn amſer diweddar.
Meddyliwn gan hynny, cyn delo Chriſt Jeſu,
  O'r nefoedd i'n barnu, bob un wrth ei ben,
Am fod yn edifaru, a deiſyf ei ffafar,
  Cyn taflar ni i'r carchar anibed.
FE ddaw yn dra diglon, a llu o Angylion, *Yr ail rhann.*
  I ddial ar ddynion eu ddirmyg mo'r ddu,
Yn daran echrydus i'r bobl anraſus,
  Sy 'rwan mor frowus yn pechu.
Yno e waith cymmaint y fydd y digofaint,
  Ei weiſion ai gereint y garu mo'r ‡ gu, ‡ *Anwyl.*
Ai ſanctaidd Angylion, y grynant yn greulon,
  Pan ddelo mor ddigllon i farnu.

Yr

Yr haul a dywylla, y lleuad a wridla,
Y nefoedd y gryna, bob modfedd yn grych,
A'r ſtowta o blant dynion, rhag echryd ac ofon,
A griau'n hiraethlon wrth edrych.
Fe dawdd y ffurfafen, fe ſyrthia pob ſeren,
Fe loſgar holl ddairen oddi arni'n boeth,
A'r tyrrau a'r Ceſtill a gwympant yn gandryll,
A phob rhyw bebyl a'n bilboeth
Y creigydd y holltant, y glennydd y doddant,
Y moredd y ſychant, ar ſyrthiad y Sêr;
A phob rhyw fwyſtfiled, ymluſciaid a phyſgod,
Y drengan ar waelod y dyfnder:
Pa waſgfa, pa wewyr, pa gynffwrdd pa gyſtur,
Y ſydd gan bechadur na chodo ei big?
Pan welo'r ſath drallod er bob peth yn dyfod,
O herwydd ei bechod yn unig.
Brenhinoedd cadarnblaid cowri capteinaid, *Dat.* 6.
Beilchion o gwiliaid gwcha'r awr hon. 15, 16.
A griant ar greigydd, am bwrian eu mennydd,
A'u cuddio rhag cerydd Duw cyfion.
Yn hyn o lwyr drafel, fe gân yr Archangel
Ei udcorn mor uchel ond awchus y cri,
Nes clywo rhai meirw (yn grai ac yn groyw)
Y llef yn eu galw i gyfri.
A'r meirw a godant, ar drawiad yr amrant,
O'r llwch lle gorweddant pan glywant y cri,
Ai byw a newidir, a phawb a gyrrhaeddir,
I'r wybren lle berni'r eu brynti.
Y Barnwr mawr ynte; yn gyflym ai Gledde,
Ar dafal ai bwyſe y bwyſa ddrwg a da;
Gan rannu'r eneidie, wrth gywir feſuro,
Y cyfion or gore a'r gwaetha.
Nid edrych e'n llygad, yr Empriwr na'r Abad,
Ni phriſia fe drwſſiad, na galwad un gwr,
Ond rhannu cyfiawnder i'r Brenin a'r beger,
Heb ofni diſpleſſer na chryfdwr.

Fe egir y Llyfre, fe rwyga eu calonne, *Dat.* 20. 12.
  Fe ddengys eu beie yn amlwg i'r byd;
Fe deifil anwiredd pawb yn eu danedd;
  Fe ddial ar gamwedd y gwynfyd.
Ni ddiangc gair ofer, na'r ffyrling y dreulier, *Mat.*
  Na'r funud y waſtar heb yſtyr a phwys, 12. 36.
Na gwagedd na gwegi, na beie na brynti, *Preg.* 12.
  Nes gorfydd eu cyfri yn gyfrwys. 14.
Putteindra'r gwyr mawrion a'r gwragedd bonddigion
  Sy'n harfer y gweiſion heb wybod i'r gwyr,
A'r mawr ddrwg *a'r mworddriad a'r ffalſedd a'r lladrad.*
  A wneir i bob llygad yn eglur,
Pa wyneb iradus, pa galon echrydus,
  Pa gynffwrdd gofidus? gwae a feddo i fath.
A fydd y pryd hynny, gan bobl ſydd heddu
  Mor ffyrnig yn pechu y ſywaeth.
Ni ddiangc na llymaid, na thippyn na thamaid, *Mat.*
  A roddir i'r gwannaid er mwyn Jeſu gwyn, 10. 42.
Heb ymdal am dano, a chyfri a chofio,
  Y briwſion a ballo'r cerlyn.
Yno y detholir y defaid a'r geifir,
  Ac yno y bernir pawb wrth y pôl;
Y defaid i'r deyrnas mewn herddwch ac urddas,
  A'r geifr i'r ffyrnas Uffernol.
Yno yr a'r cyfion yn llawen ei calon,
  Mewn gynnau tra gwynion yn union i'r nêf, *Dat.*
I dderbyn goreſcyn o'r deyrnas ddiderfyn, 7. 9.
  A roddodd Duw iddyn yn gartref.
A geifir damnedig a'r bobl fileinig
  Sy 'rywan yn dirmyg y Barnwr a'r dydd,
A deflir yn glymme, mewn cadarn gadwyno,
  I uffrn i'r poeno tragywydd.
Yn uffern y lleſan gan ffined eu lloſcſan,
  Yn ebrwydd ar *Abram*, am ddafn o ddwr,
Ond lleſent hyd ddiffin, ni chant hwy un droppyn,
  Na thamaid na thippyn o ſwccwr.

Gan's yno'n dragywydd, mewn carchar a chyſtudd
  Heb obaith y derſydd ei dirfawr gur,
I'r erus anwiredd yn rhingcian eu Dannedd,
  Heb derſyn na diwedd oi dolur.
Ac yno'r awn ninne, i eſtyn ein gweſle,
  Am dreulio'n dyddie mewn pechod mor dal,
O ddiffyg in wilio, a dyfal weddie,
  A gwellhau cyn dele dydd dial,
Meddylwn gan hynny, tro'r amſer yn gadu, *Mar.*
  Am brudd ediſaru, nid yw foru i neb, 13. 33.
A 'madel a'n brynti a'n gwagedd a'n gwegi,
  Cyn delom i gyfri ac atteb.
Duw Jeſu dewiſol y brynnaiſt dy bobol,
  O'r ffwrnais uffernol, oedd ffyrnig ei phwys,
Cadw'n eneidie, pan delont i'r frawdle,
  A dwg hwy i gadeirie Paradwys.
Os gofyn *Deheubarth*, na *Gwynedd* o un parth,
  *Pwy ganodd y doſparth i'ch diſpwyll rhag ing*,
Eglwyſwr ſy'n hoffi eich dadwraidd och didri,
  A'ch cofio am eich cyfri cyfing.

## *Truenus gyflwr Dyn trwy naturiaeth.*

A Dda werthodd bawb o'r Byd
  Ir hen ſarph am afal drud,
Ni ddaw un o grampe Satan,
Oes dêl Chriſt i dynnu allan.
  Y mae Satan ynte'n cadw,
Pob pechadur gwrryw a benyw,
Yn ei garchar tonnog tywyll, *Eſa.* 42. 7.
Nes del Criſt iw dorri e'n gandryll,
  Mae'r carchar cyn dywylled,
Ac nad ym yn abel weled,
On toſt gyflwr a'n gofidi,
Nes dêl Chriſt a goleu i ni. *John.* 8. 12.

Rym ni'n aros heddyw heno
Mewn tywyllwch dan ein dwylo,
Ac heb weled ein trueni, *Act.* 26. 18.
Nes dêl Chriſt i ddangos i ni.
Rym ni'n farw yn ein pechod, *Eph.* 2. 1.
Rym ni heb weled mo'n cûs ond ganfod,
Rym ni'n gorwedd mewn tywyllwch,
Ac heb geiſio gwell diddanwch.
Rwyt ti'n ymladd ymlhaid Satan,
Rwyt ti'n elyn it dy hunan,
Rwy ti'n myned byth ar ddidro, *Mat.* 18. 11,
Nes dêl Chriſt i'th droi a'th rwyſtro, 12.
Rwy ti eiſus gwedi'th golli,
A'th gondemnio † cyn dy eni, † *Sef yn* [illegible]-
Oni cheiſi Ghriſt i'th helpu, [illegible] *Adda.*
Yn golledig ir arhoſi.
Mae'r ſarph ai cholyn wedi'th frathu,
Mae dy enaid bach or brath yn chwyddu,
Cais Ghriſt yn feddyg i'th jachau,
Onis ceiſi ‖ marw y wnai. ‖ *Sef damna-*
Mae d'enaid gwedi'r diawl i ſpeilio, *dig fyddi.*
O'r holl ddonie a roes Duw iddo,
Cais gan Ghriſt ei ail ddilladu,
Onis ceiſi yn ſiwr dy ſythu. *Datc.* 3. 18.
Mae'r fall a'r ſollt o bechod tanllyd,
Gwedi'th glwyfo'n wenwynllyd,
Cais gan Ghriſt iachau dy glwyfe
Onis ceiſi'r fall a'th bie.
Mae d'enaid fach fel dafad wirion,
Rhwng palfau'r llew a'r bleiddiaid digllon
Cais Ghriſt mewn pryd i'th ddwyn o'i
Onis ceiſi 'r blaidd a'th bie. (grempe
Mae'r diawl fel ffowler gwedi dala 2 *Tim* 2. 26.
D' enaid bach a rhwyd o'r gryſa,
Ni ddoi byth o rwydau Satan,
Nes dêl Chriſt i'th dynu allan.

Rwyt

*Ioa.* 8. 34. Rwyt ti'n uſudd was i bechod,
Rwyt ti'n pechu bob diwrnod,
Cais gan Ghriſt roi gras a chryſder,
It i waſanaethu mewn cyfiawnder.
Rwyt ti'n blentyn i'r digofaint,
*Eph.* 2. 3. Wrth naturiaeth ſol dy geraint,
Cais gan Ghriſt dy adgenhedlu,
Rhag dros ſyth it aros felly.
Rwyt ti'n ſlaf i'r cythraul aflan,
Rwyt ti'n byw dan feddiant Satan,
Cais 'mhryd gan Ghriſt dy dynnu,
O law'r fall i aros felly.
*Luc.* 11. 21. 22. Mae'r gwr cadarn yn heddychlon,
Yn cadw gaſtell yn dy galon,
Nes cael Chriſt i ddwyn ei arfau,
Ni cadarn byth o'th aſgrau.
Rwyt ti yn gangen wyllt anffrwythlon
*Eſa.* 6. 4. Heb ddwyn ffrwyth ond grawnwin ſurion
Oni wellha Chriſt dy natur,
I dan uffern boeth i'th deflir.
Fe wnaeth y diawl di'n elyn Duw,
*Col.* 1. 21. O blentyn graſol gore i ryw,
* *Heddychu* Cais gan Ghriſt d * reconſilio,
Rhag aros byth yn elyn iddo.
Rwyt ti'n un o'r cywion bychain,
*Mat.* 13. 37. Y ſydd yn pori rhyng y cigfrain,
Os Chriſt Jeſu ni'th adaina,
Cigfrain uffern a'th ſclyfaetha.
Rwyt ti'n gorwedd mewn tywyllwch,
Heb wir nabod llwybrau heddwch,
Oni oleua Chriſt ein llwybrau,
Awn i uffern ar ein pennau.
‖ *Sef yn Adda* Rwyt ti'n haeddu pob caledi,
Gweddi'th ddamnio ‖ cyn dy eni,
Oni chei gan Ghriſt i'th helpu,
Yn ddamnedig ei yr arhoſi.

Rwyt ti'n elyn i'r gorucha,
Rwyt ti'n ſlaf i'r cythraul penna,
Rwyt ti'n crewyn Uffern iſod,
Nes dêl Chriſt i olchi'th bechod.
Rwyt ti'n euog o bob tramgwydd, Deut. 28. 15. 16, 17.
O bob nychdod, o bob aflwydd,
O bob gofid, o bob trallod,
Nes cael Chriſt i olchi'th bechod.
Drwg tu fewn, a drwg * tu faſ, * tu allan
Llawn o bechod tlawd o ras, Rhuf. 3. 10. hyd y 19.
Aflan, ofid, dwl, dy-wybod,
Nes cael Criſt i olchi'th bechod.
Dyma gyflwr bob rhyw Ghriſtion,
Medd y Scrythyr yn blaen ddigon,
Hyd nes delo Criſt ein prynwr,
I'n hail eni, i wellhau'n cyflwr.
Oni chawn ni Ghriſt 'n helpu, Rhuf. 5. 7.
A'n hail gweithio a'n gwaredu, Cor. 3. 5.
Ni all dyn o'i rym ei hunan,
Wellhau ei gyflwr mwy na Satan.
Ni all *Peder* ni all *Pawl*,
Ni all Angel, ni all Diawl,
Ni all neb ond Chriſt yn unig,
Gadw enaid dyn colledig.
Chwilia'r nef, a'r ddaiar, a'r Awyr,
Chwilia'r môr, a phob creadur,
Di gei weled na all un,
Ond Chriſt gadw enaid dyn.
Oni cheiſi Ghriſt ein Prynwr,
Gan ei dad i wellhau'th gyflwr,
I bwll uffern ir ai i drigo,
Eiſio ceiſio cymmorth gantho.
Ni bydd un dyn yn gadwedig,
O'r holl fyd er maint eu rhyfig,
Ond y dyn y gaffo ei gadw,
Er mwyn Chriſt ein ceidwad croyw,

Ac ni cheidw Chriſt un Chriſtion
Mat. 7. 21. O'r holl ſyd er maint a grion,
Ond y dyn a'r gretto yn brudd,
Yn Ghriſt trwy wir a bywiol ffydd.
Y neb a gretto Ghriſt yn Gywir,
Fe gaiff hwnnw ei gadw yn ſiccr,
Io. 3: 36. Y neb ni chredo ynddo'n ſyth,
Ni chaiff hwnnw ei gadw byth.

---

### *Bywyd a Marwolaeth Chriſt.*

POb rhyw Ghriſtion ac ſy'n caru,
Nabod Chriſt a ſu'n ein prynnu,
Clywch fi'n adrodd genedigaeth,
Prynwr crêd ai brudd Farwolaeth.
Io. 11: 3; Y gair mab Duw oedd or dechreuad,
Dihar. 1.22. Cyn bod nef na daiar na deilad,
1 Jo. 5. 7. Yn ail Berſun o'r Glân Drindod,
Rhwn a wnaeth y byd mor harod.
Ir oedd e'n Arglwydd cuwch ai Dâd,
Yn yr nefoedd yn llawn o râd,
Yn rheoli'r holl Angylion,
Cyn ei ddywad at blant dynion.
Rhuf. 9. 5. Roedd e'n Dduw galluog grymmus,
Roedd e'n Arglwydd anrhydeddus,
Roedd e'n frenhin mawr ei rad,
Roedd e'mhob pwynt cuwch ai Dâd.
Phil. 2. 67. Pan ddaeth o'r nef i brynnu dyn,
Fe gymmerth arno'n lliw a'n llun,
Jo. 3. 13. A'n gwir gnawd o Fair ei Fam,
Rhon oedd Wyryf bur ddinam.
Hi feichiogodd arno'n rhyſedd,
O rad yr Yſpryd Glân ai rinwedd,
Heb fod iddi wneud na nabod,
Gwr erioed, er bod yn briod.

Ac felly'r aeth Mab Duw yn ddyn, Jo. 1. 14.
O naturiaeth *Mair* ei hun,
( Heb ei halogi a dim pechod )
Yn y grôth trwy rad y Drindod. *Rhuf.* 1. 3, 4
Dwy naturiaeth amlwg un,
Sydd i'n prynwr Duw a Dyn,
Un o'i dad, a'r llall o'i fam,
Dwy wahanol dwy ddinam.
Mab i Dduw, a mab i ddyn,
Heb un Perſon iddo ond † un
Mab i ddyn, o fam heb dad,
Mab Duw mawr heb fam y câd.
O ran ei Ddyndod mae'n y myd,
I ddangos iwch ar hyn o bryd,
Y dull, a'r modd y ganed Jeſu,
Pan y daeth o'r neſ i'n prynnu:
Pan daeth *Mair* i *Fethlem* hygar,
I dalu treth i'r Emprwr *Ceſar*,
Daeth ei amſer i Eſcori,
Fel y tractha'r Efengyl i ni.
Ond waith cymmaint oedd y cwmpni
Oedd yn gorwedd ym mhob Oſtry,
F' orfu ar *Fair* yn fawr ei gofal,
Fynd i eſcori hwnt i'r ſtabal.
Yno ymhlith y mud nifeilod,
Heb ddim ‡ ſtado, Duw'n i wybod,
Fe eſcorodd *Mair* wen ddiddig,
Ar ein prynwr ddydd Nadolig.
Gweddi geni'n prynwr hyfryd,
Heb fod arni boen na gofid,
Yn dra llawen hi a rwyme,
Brenin nefoedd mewn cadache.
Gwedi ei rwymo, hi rhoi i orwedd
Yn y preſeb yn ddiryfedd,
Ac y fydde bodlon ddigon,
I bob peth oedd Duw'n i ddanfon.

*† Y mae'r Duwdod yn Dri Pherſon, ond yr Ail Berſon a gymerodd atto natur dyn, ac ei hunodd yn y fath fodd a'r Duwdod, ac nad yw'r ddwy natur ond un perſon.*

*‡ Gwachdra*

Yno cyn i'r wawr gael torri,
Fe ddanſone Dduw gwmpeini
O fugeiliaid, mewn gwiriondeb
Iw addoli yn y preſeb.
Rhai ddanſonwyd gan Angylion,
Yn dra llawen iawn eu calon,
I dre *Fethlem* o wir bwrpas,
I gael gweled y * Meſſias.
Ac i † faneg i bawb hefyd,
Fel y dwedſe'r Angel hyfryd,
Mae fe oedd Chriſt y gwir geidwad,
Rhwn addawſid o'r dechreuad.
Ac y byddei fawr lawenydd,
I'r holl fyd o'r chwedel newydd,
O ran geni'r boreu hwnnw,
Y Jachawdwr y ddoi'n cadw.
Yno y dawe lu o Angylion,
Ac y canen hymnau mwynion,
I'r Tad nefol o'r uchelder,
Am roi i ddynion y fath fwynder,
Ar hyn fe'm ddangoſſe ſeren,
Rymmus, raſol, yn yr wybren,
Rhon y ddywedo a'i goleuni,
Fod y prynwr gwedi eni.
Yno dawe hên wyr doethion,
O'r dwyrain dir yn dra union,
I *Judea* wrth y ſeren,
I ymofyn Chriſt yn llawen.
Rhai y geiſiant gael copined,
Gan y brenin creulon *Herod*,
Ble gennaſid Chriſt y Cyfion,
Brenin graſol yr *Iddewon*.
Yna y dywede'r ffeiriaid mwya,
Mae ym *Methlem* tref o *Juda*,
Y ſuwr genid y Meſſias,
Medde'r Prophwyd hên *Micheas*.

* Yr eneiniog
† gyhoeddi.

Pan y clowe'r doethion hyn,
aethont yn faith ac yn dynn,
dre *Fethlem* wrth y Seren,
an ymofyn Chriſt yn llawen.
Ond pan ddaethont hwy yn agos
'r ty, lle 'roedd Chriſt yn aros,
e ddiſgynne'r Seren drws,
c arholle uwch ben y drws.
Yno yr aent i mewn yn llawen,
Lle roedd *Mair* a *Chriſt* yn fachgen,
c y gwympent ar eu daulin,
addoli'r graſol frenin.
Rhoddent hefyd * fial roddion,
Y berthyne i Chriſt yn † gyſſon:
u'r, a Ffrancinſens o'r gore,
A Myrrh gwerthfawr teg a'rogle.
*Herod* ynte pan y clywaiſ
Eni Chriſt y gwir Feſſias,
Efe fynnei ladd e'n blentyn
Bach yn ſugno yn ei rwymyn.
Os fe helodd lu o ſwyſwyr,
Gwaedlyd, creulon, dig difeſur,
I ladd yr holl blant bach o ddeutu,
Cyn y methe ladd y Jeſu.
Hwynte laddſon yr holl feibgin,
Oedd ym *Methlem* etto'n egin,
Fach a mawr dan ddwy flwydd oedran,
A mab *Herod* gas ei hunan.
Yno y gorfu ar *Fair* fyned
Ganol nos i ddechreu cerdded,
Tua'r *Æipht* a'i phlentyn ganthi,
Lle archaſſe'r Angel iddi.
Yno y bu Chriſt yn aros,
Gyda'r Sibſiwns lawer wythnos
Nes cael clywed marw *Herod*,
Oedd yn ceiſio'i ladd heb wybod.

* *Rhagorol.*
† *Gyttun.*

Yn ol marw *Herod* greulon,
Fe ddoe Chriſt i wlad Iddewon,
Luc. 2. 41, 46. Ac y ſyddai oſtyngedig,
* I *Fair* ac i *Joſeph* ddiddig.
Pan yr oedd e'n ddeuddeg oed,
Peth rhyſedda a ſu erioed,
Efe ymbyngcie a Doctoriaid,
Nes bae'r doethion arno'n ſyniaid,
Yno yn ddeg a hugain oedran.
Pan fedyddiwyd ef gan *Joan*
Fe ddeſcynei arno yr *Yſpryd*,
Ar lun clommen hygar hyfryd.
Ac fe Ieſa Dduw ei hunan,
Fry o'r nef lle clywe'r cwyſan,
Hwn yw f' unig Fab aberthwyd,
Ynddo ef ym llwyr ſodlonwyd.
Gwedi'r *Yſpryd* ddeſcyn arno,
Fe ddoe'r Cythraul ynte i demptio,
Ond er maint oed cyrch y cythrel,
† Cwymp Rhodd Chriſt iddo † ffwyl ddiogel.
Yn ol hyn fe ai i bregethu,
Yr Efengyl wen oi ddautu
Ac i ddechreu gwneuthur gwrthie,
Ymhob tir y ffordd y cerdde.
Fe drodd y dwr yn gynta'n win,
Jo. 3. Fe lwyr Jachaodd pob cleſyd blin,
Mat. 11. 5. Ac fe wnaeth i'r deillion weled,
Ac i'r byddar cluſt drwm glywed.
Luc. 13. 13. Fe wnaeth i'r cripliaid yn ddi-fraw
Neidio a thripio yma a thraw,
Ac fe wnaeth i'r gwreigyn grwcca,
Godi chefn o'r uniawna.
Ynte rodiodd ar y môr,
Gan oſtegu ei rwyſ a'i rôr,
Ac fe wnaeth ir Storm wynt,
Beidio a chwythu yn ei hynt.

I ddanges inni i fod e'n Dduw,
Fe gododd tri o farw i fyw,
Merch i *Jairus*, mab i'r Weddw,
*Lazar* gwedi drewi a marw.
Porthodd pum mil a phum torth, *Luc.* 7. 8,
Mawr oi bwer, da oi borth;
Llanwodd ddwy long o'r pyſg mwya. *Jo.* 11,
Pan y methe ar bawb eu dala. *Luc.* 5.
Bwriodd lawer cythrael allan,
Or rhai cleiſion, lloerig egwan,
A chluſt *Malchus* gwedi dorri, *Luc.* 22.
A iachaodd ef ‡ toc heb eli. ‡ *yn ebrwydd*
Llawer gwrthie gyda hyn,
Y wnaeth ein prynwr Jeſu gwyn,
Cyn i *Suddas* frwnt ei werthu,
I'r *Iddewon* ai fradychu.
Ni chaed twyll erioed oi ene,
Nid oedd un dyn a'i hargyhoedde,
Roedd e'n ddiddrwg fel yr oen,
Yn fach i barch yn fawr ei boen. 1 *Pet.* 2. 22,
Pan ddaeth yr awr 'roedd Duw yn ei oſod, *Jo.* 8. 46.
I aberthu dros ein pechod,
Fe ddoe *Suddas* ac ai gwerthe,
I'r *Iddewon* am geinioge.
Nid chadd ddim ond hanner coron,
Am ei roi e'n llaw'r *Iddewon*,
I fynd ac ef yn rhwym at *Gaiaphas*, *Mat.* 19. 16;
Gwedi holi yn doſt gan *Annas*.
Yn y man y daeth at *Gaiaphas*,
Fe ddoe tyſtion ffals oi gwmpas,
Ac y ſynent brwſio arno,
Lawer peth nas gwydde oddiwrtho,
*Gaiaphas* ynte ai ‖ hexame, ‖ *Hole.*
Yn galed iawn am fill o bethe,
Ac ai tynge trwy'r Duw byw, *Mat.* 26. 63.
Gyfadde ai ef oedd Fab i Dduw,

Ac am ir Jeſu adde'n glir
Mae fe oedd Chriſt, Mab Duw yn wir,
Braidd na fynne pawb ei lethu,
A'i labyddio cyn ei farnu.
Yno y poerwyd yn ei wyneb,
*Mar.* 14 56. Bwbach daliwyd mewn ffolineb,
Ffyſtwyd ei ben a gwielyn,
A chernodiwyd e'n yſcymmyn.
Ar y bore yr *Iddewon*
A'r offeiriad, a'r gwyr mawrion,
Y ddoent a Chriſt gwedi glymmu,
At *Bilatus* iddi i farnu.
*Pilat* gwedi hole e'n galed,
Heb gael ynddo fai na niwed,
*Mat.* 27. Dan lanhau a golchi ei ddwylo,
Y rodd barn marwolaeth arno.
Cynta peth y farne *Pilat*,
Oedd ei chwippio heb ei ddillad,
Yn ol hynny i groeſhoelio,
† *Marw*. Ar y crog pren nes † departo.
Felly chwippiwyd Chriſt yn doſt,
O hewl i hewl, o boſt i boſt,
Ac ni adewid modfedd arno,
* *Fflangellu* O'i ben iw draed heb ei * ſcwrgio.
Gwedyn dewo filwyr *Pilad*,
† *Ddioſcent*. Ac hwy † *ſtripent* Chriſt o'i ddillad,
Ac ai gwiſcent e'n cyn brafied,
Mewn hên fantell goch i ſcarled.
Yn ol hyn fe blethe rhain,
Anfad goron fawr o ddrain,
Ac i gwiſcent ar arleiſio
Chriſt, nes rhede ei waed yn bibe.
Rhoddent hefyd yn ei law
Gorſen dan ymgrymmu draw,
A'i watwaru a geiriau mwynion,
Dydd' dawch brenin yr *Iddewon*,

Gw

Gwedi dloſc Chriſt drachefen,
Rhoeſent y groes ar ei gefen, Jo. 19. 17.
Iddo i lluſco i'r Benglogſa,
Lle croeſhoeliwyd ar ei hucha.
Pan yr aethont iw groeſhoelio,
Tyllwyd ei draed a'i ddwy ddwylo.
Ac hwy hoeliwyd yn fileinig,
A thair hoel a haiarn ffyrnig.
Er maint oedd ei boen ai loeſe
Etto er hyn ni gore oi ene,
Ac ni yngane wrth y poenwyr Act. 8. 32.
Mwy na'r ddafad dan law'r cneiſwyr.
Ond fe offrymme ar y groes,
Pan oedd chwerwa a blina'r loes,
Ei enaid gwynn, ai waed i gyd
Yn aberth, dros bechodau'r byd.
Ac orchmyne ei enaid gwirion, Luc. 23. 34.
Yn llaw ei Dad ein Barnwr cyfion, 46.
Dan ‡ ymhwedd arno am fadde
Ir *Iddewon* a'i croeſhoelie.
Felly y bu farw'r Ieſu,
Ar y pren croes wrth ein prynnu,
Ac y rodd ef waed ei galon,
Dros eneidiau'r gwir Griſtnogion.
Felly y rhodd Duw ei anwylyd,
I groeſhoelio trwy fawr benyd,
Er mewn prynu ein eneidie,
‖ A'u gwaredu o'u holl boene.
Rhoddwn ninne foliant iddo,
Ddydd a nos heb ddim ddiffygio,
Am ei gariad ai drugaredd,
Yn prynu enaid dyn mor rhyfedd:
Diolch mawr a moliant hyfryd,
Y fo i'r Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd,
Am brynu enaid dyn mor dritted,
Ai ddwyn i'r aer o doſt gaethiwed.

‡ *ddeiſyf.*

‖ *Fe waredir y ſawl a gretto ac edifarhao.*

Adroddiad

## *Adroddiad o gariad Chriſt at y Byd.*

CLywch adrodd mawr gariad Mab Duw at y Byd,
Pan ddaeth ef or nefoedd i'n prynu mor ddryd,
Er peri i chwi gofio am gariad Mab Duw,
Ai foli'n waſtadol tra fyddoch chwi byw.
Pan dwyllodd y Cythrael ar afal y wraig,
I dorri'r Gorchymmyn trwy demtiad y ddraig,
Fe'n gwerthwyd am afal i'r diawl cymain un,
Heb neb allo'n prynnu ond Mab Duw ei hun.
Mâb Duw pan y gwelodd ein cyflwr mo'r dôſt,
Fe ddaeth yn ei hun ſwydd, o'r nefoedd yn bôſt,
O blith yr Angelion, i grôth y wen *Fair*,
I gymryd ein natur, i'n gwared ni o'r pair.
*Mair* a feichiogodd ar unig Fab Duw,
O râd y Glân Yſpryd (ond tra rhyfedd yw)
Pan oedd hi'n bur forwyn tra ieuangc mewn oed,
Heb fod iddi hanfod ac un gwr erioed.
Pan ddaeth amſer eſcor, f' aned Mab *Mair*,
Mewn ſtabal ym *Methlem* ar bottel o wair,
Lle i trowd ef mewn cadach ai oſod i lawr
I orwedd mewn preſeb, ond happus or awr.
Pan aned ein prynwr, danfonwyd o'r nef
Angelion rhialwych tra llawen eu llef,
I faneg dan ganu yr amſer a'r pryd,
Y ganed Chriſt Jeſu Jachawdwr y byd.
A'r Doethion o'r Dwyrain pan godſen ei pen,
A gweled ei Seren, mor wych ac mor wen,
Hwy ddaethant o'r dwyrain i *Fethlem* yn bôſt,
I ddoli'r dyn bychan mewn llawer o goſt.
*Herod* pan glywodd ef eni Mab Duw,
Fe helodd ei ſwytſwyr, i'w fwrdro fe'n fyw,
Ac rhag iddo ddiangc, fe laddodd bob un,
O fechgin bach-*Bethlem*, a'i blentyn ei hun.

*Mai*

*Mair* hithe gododd ar hyd nos heb ddim trwſt,
Ac aeth at y Sybſwns ai phlentyn ar ffrwſt,
Lle bu hi'n hir aros, ni wn i pa hyd,
Nas darfod am *Herod* ai ſwytſwyr i gyd,
Pan ddarfu am *Herod* daeth Chriſt yn ei ol,
Or *Aipht* i *Judea*, at genedl ry ffol,
Lle bu e'n pregethu 'r Efengyl yn hir,
Bobl ben galed na chreden mor gwir.
Gwrthie tra gwerthfawr y wnaeth ef lawer pryd,
I ddangos mae'r Jeſu oedd ceidwad y Byd,
Ni chrede'r *Iddewon* na wrthie nai wir,
Ond ceiſio ei fradychu ar fôr ac ar dir.
*Suddas* fradychus a chuſan tra chas
A'i gwerthodd yn nwylo'r *Iddewon* di ras,
Trachwant ar arian ai gyrodd e'n boſt,
I ymgrogi mewn cebyſt, ei ffortun oedd doſt.
Y nos y bradchywyd fe chwyſodd y gwaed,
Yn daran doſturus oi ben hyd i draed, *Luc.* 22. 44.
Wrth feddwl cyn chwerwed a blined a'r loes,
Gorfydde arno oddef am bechod pob oes.
Dalie'r *Iddewon* ê a ffaglau ac a ffynn.
Pan oedd e'n gweddio yn ol Swpper yn ſyn,
Hwy rhwyment a chordau hwy lluſcent trwy fraw,
At *Annas* a *Caiphas* iw holi dan law.
*Pilat* yn fynych ai holodd, e'n ‡ chwai, ‡ *Yſgafn.*
Heb allel cael ynddo na pechod na bai,
Ond dan olchi ei ddwylo fe wnaeth ac ef gam,
Fe'i barnodd i farw heb wybod pa ham.
Fe farnodd ei chwippio oi ben hyd ei draed,
Nes bod ei gorph purwyn yn lliwio gan waed,
Ac chwedyn i hoelio ar grogpren trwy gur,
Trwy ei ddwylaw ai ddeu droed a hoelion o ddur.
Goronwyd Chriſt hefyd a choron o ddrain,
Fe wiſcwyd mewn mantell o Scarled coch main,
F' addolwyd mewn gwatwar dan blygu pob glin,
Fe gurwyd a chorſen dan yſtyn y min.

bren

Fe rowd ar ei yſgwydd y groes iw dwyn
Nes mynd i'r bonglogfa heb nemawr o gwyn;
Ar honno'n fileinig fe hoeliwyd yn fyw,
Ac felly ar grogpren fe grogwyd mab Duw.
Er maint oedd ei gyſtudd ai gamwedd ai gur,
Pan hoeliwyd ef felly, ar hoelion o ddur;
Ni gorodd ei enau, ni ofynodd pa ham (gam.
Mwy na'r oen dan law'r cneifiwr, er maint oedd ei
Ond llefan yn † irad o'r groes ar ei dad, † *Doſt.*
Am fadde i'r *Iddewon* a ſugnent ei waed;
A achos na wyddent ar hynny o bryd,
Eu bod hwy'n croeſhoelio Jachawdwr y byd.
Ac felly bu farw Mab Duw ar y groes,
Wrth ddwyn ynddo ei hunan y blinder ar loes;
A'r poenau a'r pennyd a'r dial i gyd,
Oedd Duw yn ei ofyn am bechod y byd.
Trwy ange tra phoenfawr a phridwerth ei waed,
Fe wnaeth heddwch hyfryd rhwng dynion a'i Dad;
Fe'n dygodd ni eilwaith mewn ffafar a Duw,
Molianwn ni yr Jeſu tra byddom ni byw.
Fe ddygodd ar gorgpren ein pechod bob un,
Fe'n golchodd o'n beie trwy wir waed ei hun;
Fe'n gwnaeth ni'n *Frenhinoedd* a *Offeiriaid* i *Dduw*,
Molianwn ni yr Jeſu tra fyddom ni byw.
Cyflawnodd y gyfraith bodloned ei Dad,
Fe brynnodd ein pardwn fe'i ſeliodd ai waed;
Fe'n tynnodd o'r carchar fe rwygodd ein ſach,
Molianwn ni'r Jeſu yn fawr ac yn fach.
Ai angeu fel *Sampſon* fe droediodd i lawr
Gyhuddwr ein Brodyr y wyber goch fawr,
Fe rwygodd ei deyrnas, fe ſigodd ei ſiol, *Dat.* 12.
Molianwn ni'r Jeſu a ynnillodd y gol. 9. *&c.*
Fe ddyfodd lidiowgrwydd a dicter ei Dad,
Fe'n gwnaeth yn blant iddo trwy Fabwys a rhad,
Fe rodd i ni gyfran o deyrnas ein Duw, 1 *Pet.* 1.
Molianwn ni'r Jeſu tra fyddom ni byw. 3. 4.

Coronau gorcuraid ar bennau pob un — 2 *Tim.* 4. 8.
A gynau gwych gwynion trw lluniedd eu llun
A brynodd ef i ni, a theyrnas gwlad nef,
Molianwn ni'r Jeſu yn llawen ein llef.
Gogoniant a gallu, a diolch bob pryd.
A fytho i'r Glan Drindod am ein prynu mor ddryd,
A mawrglod a moliant i'n Prynwr a'n Pen,
A dyweded pob Chriſtion yn waſtad. *Amen.*

---

## *Awn i* Fethlem:

AWn i *Fethlem* bawb dan ganu,
Neidio, downſio, a diſyrru,
gael gweld ein Prynwr credig,
A aned heddyw ddydd nadolig.
Mâe e' *Methlem* wedi eni,
Yn yſtabal tu hwnt i'r † oſtri, — † *Ty lletty.*
Awn bob Criſtion i ‖ gyſlwyno, — ‖ *Offrwm.*
Ac i roddi golwg arno. — *iddo.*
Dymma'r Ceidwad a ddanſonwys
Tad toſturi o Beradwys,
'n gwaredu rhag † marwolaeth, — † *Damnedigaeth.*
Ac i weithio'n Jechydwriaeth.
Awn i *Fethlem* bawb i weled,
Y dull a'r modd a'r man i ganed,
el y gallom ei addoli,
A'i gydnabod gwedi gael.
Ni gawn Seren i'n goleuo,
Ac yn ferchog i'n cyfarwyddo,
Nes y dycco hon ni'n gymwys
'r lle ſanctaiadd lle mae'n gorphwys.
Mae'r Bugeiliaid gwedi blaenu,
Tua *Bethlem* tan lonychu,
gael gweld y graſol Frenin,
Ceiſiwn ninno bawb ei ddilyn.

Y mae'r plentyn yn y Stabal,
Gwedi drin gan *Fair* yn rhial,
A' roi orwedd yn y preſeb,
Rhyng yr ych a'i Dadmaeth *Joſeb.*
F' aeth y Doethion i gyflwyno,
† *Rhoddion.* Ac i roi † anrhegion iddo,
Aur a thus a myrrh o'r gore,
‡ *Offrwm.* A'i ‡ breſentio ar eu glinie.
Rhedwn ninne iw gorddiwes,
I gael clywed rhan o'i gyffes,
Dyſgwn ganthynt i gyflwyno,
A rhoi clôd a moliant iddo.
Yn lle aur rhown lwyr gred ynddo,
Yn lle Thus rhown foliant iddo,
Yn lle myrrh rhown wir ddifeirwch,
Ac fei cymmer trwy hyfrydwch.
Mae'r Angelion yn llawenu,
Mae'r ffurſafen yn tywynu,
Mae llu'r nef yn cannu hymne,
*Dan.* 2. 14. Caned dynion ryw beth hwynto.
Awn i *Fethlem* i gael gweled,
Y rhyfeddod mwya wnaethped,
Gwneuthur Duw yn Ddyn naturiol,
I gael marw dros ei bobol.
Awn i weld yr hên * ddihennydd,
A wnaeth y nef y mor a'r mynydd,
|| *Alpha* oediog Tâd goleuni,
Yn ddyn bychan newydd eni.
Awn i weled Duw y gair,
Brenin nef ar arphed *Mair,*
Gwedi cymryd cnawd dyn arno,
Yn fâb bach yn dechreu ſugno.
Awn i weled y Mab rhâd,
Hŷn * na'i Fam, cyfoed ai Dâd,
Mâb a Thâd y Fam a'i ſerch,
Yn lleia ei ſon yn fwya ei ſerch.

* *Er ei fod yn hen etto mae yn hardd heb ei dorri gan oedran.*

|| *Y cyntaf.*

* *Fel yr oedd ef yn Dduw*

Awn i *Fethlem* i gael gweled
*air* a Mâb Duw ar ei harffed,
*ari* yn dala rhwng ei dwylo
Mâb ſy'n cadw'r Byd rhag cwympo.
Awn i weld Congcwerwr Ange,
wedi rwymo mewn cadache,
'r Mâb a rwyga Deyrnas Satan,
n y craits heb allu crippian.
Awn i weled y Meſſias,
rynwr Crêd ein hedd a'n hurddas,
nig Geidwad ein eneidie,
r fraich *Mair* yn ſugno bronne.
Awn i weled hâd y wraig,
bwyttiodd Duw i bwnio'r ddraig,
c i ſigo ei ſiol wenwynig,
m beri bwytta'r ffrwyth gwarddedig.
Awn i weled y Mâb y gâd,
n rhyfedd iawn o'i fam heb dad,
i fam yn Wyryf jeuangc oed,
Mam heb nabod gwr erioed.
Awn i weld y ferch yn * fâm,
'r fam yn ferch ddinwyf ddinam,
Y ferch yn magu Thâd o'i rwymyn,
'r Tâd yn ſugno bronno'r Plentyn.
Awn i weld y pen ſaer gore,
Y wnaeth yr haul a'r holl blanede,
Y nefoedd fawr a'i rwm mo'r rhial,
Y ma'n gorwedd yn y ſtabal.
Awn i weld Duw'r Gogoniant,
Rhwn ſy'n meſur nef a'i * rychwant,
Yn y preſeb heb un gader,
Yr oen mwyn yn ſal ei biner.
Awn i weld yr Oen bendigaid,
Ni bu ſath o blaen Bugeiliaid,
Oen i Dduw y ddaeth mewn pryd,
Dynu ffwrdd bechode'r Byd.

*Heb.* 1. 3.

* *I Griſt fel yr oedd e'n ddyn, a Griſt fel yr oedd e'n Dduw*

* *ſpan.*

Awn i weld ein Prynwr hoyw,
Sydd i farnu byw a meirw,
Rhwn a'n dug i'r nefoedd dirion,
Ar adenydd yr Angylion:
Dymma gwelwch e'n ddiſtwr,
Y gore i gyd yn wanna gwr,
Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw,
Y gwelo'n llun tra dedwydd yw.

---

## *Chriſt ſydd yn oll yn oll.*

CHriſt ei hun ſydd oll yn oll,
Yn cadw dyn rhag mynd ar goll,
Nid neb nid dim, on Chriſt ei hun,
Y ddichyn cadw enaid dyn.
Y Sarph a'r afal ynt a'n twyllodd,
Y Sarph a phechod a'n gwenwynodd,
Y Sarph a'n tynodd o Beradwys,
‖ i ſtad o golledigaeth. Y Sarph i ‖ Uffern boeth a'n gyrrwys.
Mae mor ſiwr i bob dyn fyned
I bwll uffern i gaethiwed,
O + A phyt ſaem ni eiſioes ynddo,
Oni cheidw Chriſt ni rhagddo.
Chriſt y ddaeth o'r nef ni prynu,
O Chriſt o'n cadwodd gwedi'n damnu,
Chriſt o'n cyſtudd a'n gwaredodd,
Chriſt a'n dwg i deyrnas nefoedd.
O gramp y llew o ene'r wiber,
O rwyd y fall, o balfe'r Teiger,
O'r pwll, a'r pair o'r deyrnas aflan,
Y tynnodd Chriſt ei ddefaid allan.
Ni all Satan ladd a mwrddro,
Fwy nag all Mâb Duw ddadfywio,
Y laddo'r ddraig ai cholyn gau,
Gwaed yr oen oll ei jachau.

Jeſu Ghriſt yw hâd y wraig, *Gen.* 3. 15.
Y bwyntiodd Duw i droedio'r ddraig,
ſigo ei ſiol i rwygo ei theyrnas,
dynnu dyn o'i chrampe adcas.
Ni orchfyga neb o'r ddraig,
Ond trwy gymmorth hâd y wraig,
Ni ddaw dyn o'i theyrnas aflan,
Nes y tynno Chriſt ef allan.
Chriſt yn unig yw'r hâd ddinam, *Gen.* 22. 18.
Y bromeiſiodd Duw i *Abram*,
'n rhyddhau oddiwrth y felldith,
A rhoi i ni'r nefol fendith.
Chriſt yn unig ydyw'r Silo,
Y ddanfonodd Duw i'n ceiſio,
O gaethiwed pob rhyw bechod,
I waſanaethu'r ſanctaidd Drindod. *Gen.* 49. 16.
Chriſt ei hun yw pren y bywyd,
ſy'n rhoi maeth i bawb o'r holl fyd.
Ni bydd marw yn dragywyddol,
Neb y fwytto'r ffrwyth ſancteiddiol.
Chriſt yw'r arch a'r achles eſmwyth,
Cadwodd *Noah* rhag boddi a'i dylwyth,
Chriſt yw'r arch ſy'n cadw ninne,
Rhag pob dilyw a diale.
Chriſt ei hun yw yſgol Jago, *Gen.* 28. 12.
Oedd o'r nef i'r ddaiar yn pheico, *Jo.* 1. 51.
Ar yr hwn y mae i'n ddringad
Os i'r nef i mynwn ddwad,
Chriſt yw'r Prophwyd mawr y holodd *Act.* 3. 21.
Duw o'i fynwes fry o'r nefoedd,
I fynegi 'wyllys hyfryd,
Gwrandawn arno dan boen bywyd.
Chriſt yw'r Sarph o efydd preſlyd,
ſy'n Jachau brâth neider danllyd,
Awn bob rhai a'n dolur atto,
'n Jacha ond edrych arno.

Chriſt yw ffeiriad mawr offrymwys,
*Hb.* 9. 1. 12. Waed ei galon dros ei Eglwys,
Ar y groes ei Dâd ſadcteiddiol,
Dros y byd i gadw ei bobl.
*Pſal.* 2. 6. Chriſt yw'n brenin grymmus graſol,
‡ *rheoli.* Sydd trwy râs yn ‡ llywio ei Bobol,
Ac yn goſtwng ei gelynion,
Fel y gallent gael y goron.
Chriſt yw'r bugail ſy'n bugeilia
*Jo.* 10. 11. Enaid Chriſtion rhag ei ddiſa,
28. Ni chaiff Llew na blaidd na Llwynog
Dwyn ei braidd nac oen na mammog.
Chriſt yw Prins ein gwir dangnefedd,
*Eſa.* 9. 6. Y ddiffoddodd bob digllonedd;
*Col.* 1. 20. A gwaed i groes yn Dduw yn ddyn,
Y gwnaeth e'r ddwyblaid ddig yn un.
*Can.* 2. 1. Chriſt yw'r Rhoſſyn côch o Saron
Sydd ai liw yn confforddi'r galon,
Ac ai arogle yn rhoi bywyd,
I'r trwm ſeddwl ar gwan yſpryd.
*Jer.* 1. 22. Chriſt ei hun yw'r Balm o Gilead,
† *anobeithiol* Sy'n iachau pob archoll † ddeſprad,
A rodd Satan a dart pechod,
I'n eneidiau a'n cydwybod.
*Jo.* 6. 33. Chriſt yw'r Manna ddaeth o'r nefoedd
35. Duw ei hun oi râs ai rhoddodd;
Y neb yn ffyddlon ai bwyttatho,
Ni ddaw byth ddim newyn arno.
*Ex.* 30. Chriſt yw oen y paſc aberthwyd
Dros ein pechod pan groeſhoeliwyd,
Rhwn ſy ai waed yn cadw'r enaid,
Rhag i'r Angel drwg ei ſcliffiaid.
Chriſt yw'n Hallor arogldarthu,
Ar yr hon y mae aberthu,
Pêr Arogle mawl a gweddi,
Fore a hwyr i Dad goleuni.

Chriſt yw Meddyg y Criſtnogion,
Rhwn a gwerthfawr waed ei galon,
Sy'n Jachau archollion pechod,
Pan na all dim amgenach gydfod.
Chriſt yn unig yw'n cyfryngwr,
Sy'n cymmodi a'n creawdwr, 1 *Tim.* 2. 5.
Nid oes neb ond Chriſt ei hun,
All cymmodi Duw a dyn.
Chriſt yw'r Twyrne ſydd yn dadlo
O flaen Duw am fadde'n beie,
Pan bo Satan yn cyhuddo, 1 *Joan.* 2. 1
Ac yn canlyn ‡ grawnt i'n plago. ‡ *Cennad.*
Chriſt yw'n Brenin, Chriſt yw'n ffeiriad
*Chriſt yw'n Prophwyd, Chriſt yw'n ceidwad*
*Chriſt yw'n bugail, Chriſt yw'n barnwr,*
*Chriſt yw'n Pen, a Chriſt yw'n Prynwr.*
Chriſt cyn cynfyd ydyw'r Alpha,
Chriſt heb derfyn yw'r Omega,
Dechre, diwedd Jechydwriaeth,
Meibion dynion ai derchafiaeth. *Datc.* 1. 11
Chriſt yw dewr Gwngcwerwr angau
Chriſt a'i ſpeiliodd o'i holl arfau,
Chriſt a lyngcodd angeu melyn,
Chriſt y dynnod ffwrdd ei golyn. 2 *Tim.* 1. 10
Chriſt ſy'n cadw'r holl ‡ Allweddo, ‡ *Agoriade*
Sydd ar uffern ac ar Ange, *Datc.* 1. 18.
Ni faidd Diawl nac Angau † dwytſio, † *cyffwrdd.*
Neb nes cael gan Ghriſt ei ‖ lwo. ‖ *rhoicennad.*
Chriſt yw'r Pelican cariadus,
Sydd a gwaed ei galon glwyfus
Yn Jachau ei adar bychain,
Gwedi'r Sarph eu lladd yn gelain,
Chriſt yw'r Pelican trugarog,
Sydd a gwaed ei galon ſerchog
Yn Jachau ei frodyr priod,
Gwedi'r diawl eu lladd a phechod.

Nid oes eli ac y wnaethpwyd,
‡ *Feddyginiaeth.* Nac un ‡ ſetſwn a ddychmygwyd,
All Jachau un archoll pechod,
Ond gwaed Chriſt, gwir eli'r Drindod.
Chriſt yw'r perl a dd'lem 'moſyn,
*Mat.* 13. 45. 46. Nid tlawd perchen cyfryw berlyn;
Dos fôr a thir yw geiſio,
Gwerth ſydd gennyt cyn bod hebddo.
*Col.* 1. 19. Chriſt ſydd bob dim ſydd anghenrhaid,
O flaen Duw i gadw'r enaid,
Ni ſyn Duw ond Chriſt ei hun,
Yn iawn dâl am enaid dyn.
2 *Jo.* 22. Chriſt yn unig Chriſt ei hunan
Chriſt heb neb mewn rhan, na chyſran,
Chriſt heb ddim ond Chriſt ei hun
Yw unig geidwad enaid Dyn
† *pridwerth.* Chriſt yw'n † rhanſwm Chriſt yw'n haberth
*Chriſt* yw'n hoffrwm *Chriſt yw'n cyſnerth,*
*Chriſt* yw'n tryſſor, *Chriſt* yw'n golud,
1 *Tim.* 2. 6. *Chriſt* yw'n gwir Jachawdr heſyd.
*Heb.* 9. 14. *Chriſt* ſydd gyflawn o bob doniau,
Angenrheidiol i'n heneidiau;
Mae pob peth yn Ghriſt ei hun,
Ac ſydd raid i gadw dyn.
*Chriſt* ei hunan yw'n cyfiawnder
1 *Cor.* 1. 30. A'n Sancteiddrwydd, a'n gwir Ddoethder
A'n ymwared a'n holl bryniad,
*Chriſt yw'n cymffwrdd Chriſt yw'n ceidwad.*
*Chriſt* heb ddim ond *Chriſt* ei hunan
Sy'n dad ddigio Duw yn ſean;
*Rhuf.* 5. 1. *Chriſt* heb ddim, ond *Chriſt* yn unig
2 *Cor.* 5. 21. Sy'n cyfiawnhau dyn colledig.
*Chriſt* heb help na Sant na Santes,
*Chriſt* heb gymmorth dyn na dynes,
*Chriſt* heb neb ond *Chriſt* ei hun
Yw unig geidwad enaid dyn.

*Chriſt* yn unig 'ymdrabaeddodd,
Yn y wynwryf pan in Prynodd;
Ni bu neb o blant yr holl fyd *Eſa.* 63. 3,
Yn ei helpu i gadw ein bywyd. 5.
Ni wnaeth Peder ond ei wadu
Na'r Poſtolion ond difannu;
Ni wnaeth *Mair* ond wylo'n irad
Tra fu *Chriſt* yn chware'r ceidwad.
Ni ddûg nêb ond *Criſt* ei hunan *Eſa.* 53. 6.
Bwys, a baich ein pechod aflan,
Ni chwyſſodd neb o'r gwaed yn ddagrau
Ond Mab Duw, dan bwys ond beiau.
Ni chroeſhoeliwyd ond *Chriſt Jeſu*,
Am ein pechod wrth ein prynu;
Ni bu neb, ond *Chriſt* ei hun,
Yn boddhau Duw yn jachau dyn.
Ni bu neb, ond *Chriſt* ei hunan
Yn ein dwyn o feddiant Satan;
Ni bu neb yn lladd, yn llyngcu,
Angeu didrangc, ond *Chriſt Jeſu*. *Heb.* 2. 14,
*Chriſt* ei hun y lyngcodd Angau 15.
*Chriſt* y Speiliodd awdurdodau *Col.* 2. 14,
*Chriſt* y gwnnod ein † Bligaſſiwn, 15.
*Chriſt* y dalodd gwerth ein pardwn. † *Rhwymedigaeth.*
*Chriſt* ein hun y wnaeth ein heddwch,
*Chriſt* y brynodd ein dedwyddwch; *Col.* 1. 20.
*Chriſt* a'n gwnaeth yn feibion Duw, *Gal.* 4. 5.
*Chriſt* a'n cadwodd ‡ oll yn fyw. ‡ *Sef y ffyddloniaid.*
*Chriſt* ei hun y wnaeth y cwbwl;
Y dynnodd enaid dyn o'i drwbwl;
Nid neb nid dim, ond *Chriſt* ei hun
Dan Dduw y gadwodd enaid dyn.
Ni bu Angel, ni bu Brophwyd,
Ni bu Sant, na dyn a fagwyd,
Ni bu neb ond *Chriſt* ei hun
Yn gweithio Jechydwriaeth dyn,

Ni ſyn Duw na chymmorth Angel
*Cyfrwng* ſant, na'i draul, na'i drafel,
1 *Tim*, 2. 5. Gwaed Merthyri, na gwaith dynion
*Heb*. 7. 27. Ond Gwaith *Chriſt i gadw Chriſtion*:
*Chriſt* yw'r iawn ſydd am bob pechod
Jawn amgenach ni all gydfod ;
Ni ſyn Duw am bechod drewllyd
Jawn ſydd lai na gwaed ei Anwylyd.
Ma ddôd waed na gweithred un dyn,
Gyda gwaed dy brynwr purwyn,
Ni chyttina trech di byw,
Waed pechadur o gwaed Duw.
Gwaed yr Jeſu, gwad y cymmod,
Ydyw'r gwaed ſy'n golchi pechod,
* *Tyſtion* Ni all gwaed yr holl Ferthyri *
*Chriſt, a ddi-* Olchi ffwrdd y lleia o'th frynti,
*oddefaſant er* Nid gwaith ſaint, nid gwaith Angelion
*mwyn y gwi-* Ydyw cadw enaid *Chriſtion* ;
*rionedd*, Gwaith ein prynwr *Chriſt* yn unig,
Sydd yn cadw dyn colledig.
Gwaith dwy natur mewn un perſon
Sydd yn cadw enaid *Chriſtion* :
Rhaid i'n prynwr Duw a Dyn,
Weithio'r gwaith cyn cadwer un.
Nid gwaith Duw na dyn neillduol
Ond gwaith Duw a Dyn cyſſylltiol,
O ddwy nattur mewn un perſon,
Sydd yn cadw enaid *Chriſtion*.
Rhaid i'th Brynwr fod yn *Dduw*,
Ac yn dynn, (er dolwg clyw)
*Eſa*. 9. 6. *Cyn* y galler cadw d' enaid,
Nai rhyddhau o boen afrifaid.
Rhaid ei fod e'n Dduw galluog
I ddad ddigio d' Arglwydd llidiog,
*Col*. 1. 20. Ath ryddhau o feddiant Satan,
*Luc*. 1. 71. Ath elynon fawr a bychan.

Rhaid ei fod o'n ddyn di-frychau, *Heb.* 7. 26.
I gael marw dros dy feiau,
A'i farwolaeth yn cyſtadlyd,
A marwolaeth pawb o'r holl fyd.
Nid oes yn y nef na'r ddaiar,
O'r fath brynwr perffaith hygar,
Ond y gair y wnaed yn gnawd,
Jeſu Griſt ein Duw a'n brawd.
Nid oes neb gan hynny ddichon
Gadw enaid un rhyw Griſtion,
Ond y prynwr mawr *Chriſt Jeſu*,
Duw a dyn, a fu'n ein prynu.
Nid oes Jechydwriaeth ddiwall,
I ni gaffel mewn neb arall,
Ond y gaffom yn Ghriſt Jeſu,
Rhwn ordeiniodd Duw ein prynu.
Nid oes enw dan y nefoedd *Act.* 4. 12.
Gwedi roddi i ni'r bobloedd,
All ein gwneuthur yn gadwedig,
Onid enw'r Jeſu'n unig.
Ni fyn Duw ond *Chriſt* ei hunan,
Ni fyn Duw un ‖ partner aflan, ‖ *Cyfaill.*
I gydweithio gydai anwylyd, 1 *Tim.* 2. 5.
Yn y gwaith ſy'n cadw'r holl fyd.
Ni fyn Mab Duw neb yn Bartner, *Eſa.* 63. 3.
I gydweithio gwaith dau hanner
*Yn* y gwaith o'n jechydwriaeth,
Niu neb teilwng, o'r gwmpniaeth.
Fe fyn naill ai bod yn hollol,
*Yn Jachawdwr* idd ei bobol,
Neu na fwrw byth ynghyd,
A chreadur ſy'n y byd.
Ni fyn *Chriſt* roi i Sant nac Angel, *Eſa.* 42. 8.
Dyn na delw o un fettel,
Part na pharſel, rhan na chyfran
O'r gogoniant ſy'ddo ei hunan.

D L 6

Os bydd un rhyw ddyn mor angall,
Ac ymofyn ceidwad arall,
Cymred hwnnw yn Achubydd,
A gadawed Ghriſt yn llonydd.
Ceiſied eraill ſaint a delwe,
A'i gwaith gwael i gadw eu 'neidie,
Ni chais f' enaid archolledig,
Geidwad byth ond Chriſt yn unig.
Duw rho i mi dy anwylyd,
Chriſt yn arch wi'n geiſio genyd;
Rho i mi ſynnech gyda hynny,
Rhoiſt i'm ddigon o rhoi'r Jeſu.
Duw rho i mi Ghriſt yn geidwad,
Chriſt yn Frenin, Chriſt yn ffeiriad,
Chriſt yn Brophwyd, Chriſt yn Brynwr,
Chriſt yn help ym hob cyfyngdwr.
Os cai ddim ond Chriſt ei hunan,
Gan fy nefol Dâd im cyfran,
Mi gâf ddigon yn fy nghiſt,
Er na chaffwyf ddim ond Chriſt.
Os caf i Ghriſt, fe dry fy rhyw,
O fab i'r fall yn blentyn Duw,
O ddyn ar goll, o Slâf i Satan,
Yn wir aelod iddo ei-hunan.
Er cael Aur, ac er cael arian,
Er cael Tai a thiroedd llydan;
Beth wyf nes er cael pob cyfraid,
Nes cael Chriſt i gadw f' enaid.
Tynn fy llygaid, tynn fy nghalon,
Tynn fy ngolud am cyfeillion,
Tynn y cwbl oll ſydd gennif,
Cyn y tynnech Griſt oddiwrthyf.
Sonied Milwyr am ryfela,
Sonied Morwyr am dda'r India,
Sonied Carl am lanw ei Giſt,
Sonied *Chriſtion* byth am Griſt.

*Hi*

## *Hil Adda.*

HIL *Adda* gamweddus blant *Efa* drafaelus,
A deiliaid gofidus † Gehenna, † *Uffern.*
Dihunwch, dihunwch, o'ch trymder a'ch triſtwch
Daeth I chwi ddiddanwch o'r mwya.
Cans heddyw medd Gabriel, geirwir ei chwedel,
Negeſſwr o ‖ gwnſel Jehofa, ‖ *O Gynger Duw.*
Y ganed ein prynwr, Chriſt Jeſu ein Jachawdwr,
Mâb Duw, ein Achubwr ni'n benna.
Gan hynny ei chwennwch a gwir orfoleddwch,
A chennwch, a ſeiniwch § *hoſanna,* § *achub ni ddeiſyſwn.*
I Dduw yn'r uchelder, ir ddaiar eimwythder,
I ddynion y mwynder o'r mwya.
Cans hwn ydyw'r hedyn, a'r helpwr, a'r himpyn
Addewyd o'r gwreigin i' Adda,
I ſigo ſiol Satan (y Sarph) dan ei wadan,
Pan helwyd o'r berllan ‖ [illegible]raula. ‖ *Hyfryda.*
A dyma'r Hâd dinam, addeweis Duw i *Abram,*
Yn fendith o'n hên fam *Sara,*
A'i heppil lin olin, hyd *Dafydd* y Brenin,
O *Jeſſe* y gwreiddin ‡ rhiala. ‡ *Bonheddicca.*
A thymma i chwi'r Silo, oedd *Jacob* yn ſeinio,
Y ddawe i'n bendithio o *Juda,*
Pan ddygid y goron oddiar yr Iddewon,
A'i rhoddi i § eſtron Duw medda. § *Sef Herod.*
A thymma'r Prins addfwyn, Emmanuel ir fwyn,
Mab graſiol y forwyn *Faria,*
Addewid i *Achas* trwy Prophwyd *Eſaias,*
I'n harwain i'n deyrnas bradwyſa.
A dymma'r *Meſſias,* addawodd *Micheas,*
O *Fethlem* dinas *Ephrata,*
Y gennid i'r bobol, yn Frenin tragywyddol,
Iw harwain i'r nefol orphwyſa.

A thymma i'chwi'r Prophwyd, ar Brenin addawyd,
  A'r ffeiriad y bwyntiwyd yn benna,
I offrwm ei hunan, yn aberth bereiddlan,
  I ddattod gwaith Satan ſileina.
Chwi glowſoch i Satan gynt dwyllo'n yn berllan,
  A'i hocced y wreigan hên *Eſa*,
I ſwytta yn rhy ſyſig yr afal gwarddedig,
  A chwedyn rhoi ychydig i *Adda*.
Pan demptiodd y gelyn ar afal y ddeu ddyn,
  I dorri gorchymmyn Jehoſa.
F'aeth *Adda* a ninne, yn euog o Ange.
  I † Uffern a'i phoene diffeitha. † *I gyſlwr o golledigaeth.*
O Uffern ac Ange, nid oedd neb a alle,
  Yn prynu trwy boene pa bynna
On unig mab graſlon, yr Uſtus tra chyſion,
  Y ddygſom mor greulon o'r cynta:
A'r mab hwnnw ynte oedd rhaid iddo ddiodde,
  Ar grogpren yr ange diffeithia:
Gan wir gymryd arno gnawd dyn i'w groeſhoelio,
  A throſom ddad ddigio Jehoſa:
Ac os Duw ni ſynne roi un mab i ddiodde,
  Er cadw ein eneidie rhag poenſa,
Mewn carchar Uffernol, a phoene tragywyddol,
  Y baſſe'r holl bobol pwy bynna,
Pan welodd Duw graſſol, ein ſtad mor doſturiol
  O'i gariad rhagorol yn benna,
Fe addawodd ein helpu, trwy ddanſon i'n pryne,
  I un mab Chriſt Jeſu anwyla,
Ac ſelly pan welas Duw yr amſer cyfaddas,
  Fe'n gyrrodd o'i deyrnas bradwyſa,
I'r ddairen anhyfryd ei unig anwylyd,
  Ein cnawd i gymmeryd yn gynta.
A chnawd dyn y gymmerth, ein prynwr yn brydſerth,
  O Fair yr eneth anwyla;
Yn daran rhyfeddol trwy'r yſpryd ſancteiddiol
  Heb weithred dyn cnawdol nai goffa,

Ond rhyſedd, rhyſeddod! fe aned heb bechod
  O forwyn yn gwrthod a gwra,
Yn berffaith ddyn cnawdol, heb weithred gorphorol
  Trwy'r yſpryd ſancteiddol goruchaf,
Os merch wrth feichiogi, a merch wrth eſcori
  A merch wedi geni'r mab cynta;
Oedd *Mair* pan ei magodd, a merch pan briododd
  A merch pan || ddepartiodd oddiyma. || *Ymadawodd.*
O waith iddo gymryd, ein poene a'n penyd,
  Fe aned i'r triſtfyd yn llymma,
Mewn Stabal anghymmen, yn mhreſeb yr ychen,
  Lle trowd ef mewn gwlanen o'r tlotta.
Ac etto er peri i'r Byd ei addoli,
  Er maint oedd ei dlodi ai lymdra,
Fe wnaeth Duw ei Seren mor ddiſglair ar heulwen,
  I'w ‡ waitio yn yr wybren iſela. ‡ *diſgwyl*
Daeth hefyd wyr doethion Aſtronomers mawrion,
  Brenhinoedd o galon *Calaea*
Pob un ar ei ddeu-lin, i addoli'n ei rwymyn
  Eu Duw a'i Brenin ar hyna,
Tair anrheg rhagorol, yn gweddu'n berthnaſol
  I ſwydde neillduol *Meſſia*;
Offrymſont hwy hefyd, i'r Brenin bâch hyfryd,
  *Aur*, *Thus.* pêr aroglyd a *Myrra.*
Daeth hefyd Angelion, i fanneg i dynnion
  Mae ef oedd yr union Feſſia.
A'r ceidwad a'r Prynwr, a'r unig *Jachawdwr*,
  Addawſe'n Creawdwr o'r cynta.
A'r nefoedd agorodd a'r ddairen clouodd
  A'r Angel a lefodd yn lewa,
*Gloria in excelſis, Pax & in Terris*, *Gogoniant*
  Pan aned Prins happus *Europia*, *yn y goruchaf*
Yn goliſom yn wallus trwy Efa drachwantus, *ar y ddaiar*
  Yn ddigon anhappus o'r cynta, *tangneddyf*,
Ni gowſom drachefen, ond gwych oedd y fforten,
  Pan Anwyd y Bachgen *Meſſia.*

I ddattod gwaith Satan, i groeſi flin amcan
  A'n cynnull o'i gorlan dywylla,
Y daeth Chriſt ein Harglwydd, or nef yn ei unſwydd
  I'n cadw rhag aflwydd a phoenſa.
Gan gymmaint oedd cariad, y graſiol ucheldad,
  Tu ag attom blant anllad hên *Efa*,
Fe rodde ei 'nwylyd, iw grogi'n anhyfryd,
  I brynu ein bywyd o boenſa.
A chymmaint oedd cariad, Chriſt attom yn waſtad,
  Eu frodyr tra irad eu poenſa;
Ac y rhoi ynte'n danbaid, ei fywyd a'i Enaid.
  I farw dros ddefaid ei borfa.
Yr Ange a haeddaſom ſe'i talodd ei droſom,
  A'r ddyled adawſom heb gwpla,
Ein ſcrifen ſe dorrodd, a'r fforffet ſe dalodd,
  A'n pardwn ſe'i prynodd o'r pritta,
Gwaed gwerthfawr ei galon, ai fywyd gwyn gwirion
  Offrymmodd ef droſom yn fwyna,
Yn aberth i'r drindod, trwy gywilydd a dannod,
  Yn † ranſwm dros bechod pwy bynna, † *Pridwerth*
Duw dâd a ddad-ddigwyd, a'n ranſwm y dalwyd,
  A'n pardwn y ſeilwyd yn ſiwra,
Chriſt a'i pwrcaſodd, a'i fywyd ſe'i prynodd
  A'r ‡ byd a waredodd oi boenſa, ‡ *ſef pob credadyn:*
Dros bechod yr holl fyd, offrymmodd ei fywyd,
  I'w prynu o'i penyd a'i poenſa: *edifeiriol ufudd*
Os ynddo y credwn, mae'n ſiwr i ni bardwn
  Heb § ddanſier o ddwnſiwn Gehenna. § *heb berygl*
Canys Satan orchſygwyd, ac angeu gorchwerwyd,
  Ac uffern yſpeiliwyd yn ‖ ſpwylta: *garchar uffern.*
Encidie plant dynion o grampe'r gwyr duon ‖ *Anrhaith.*
  Y gariodd y gwirion *Feſſia*.
*Adda* a'n taſlwys, ei uffern heb orphwys
  O berllan beradwys eſmwytha;
Chriſt ynte a'n cododd, o uffern i'r nefoedd
  I orphwys yn Llyſoedd *Jehofa*.

Canys dymma'r oen tirion a ladde'r *Iddewon*,
Etiſedd gwyn gwirion *Jehofa*,
Dymuniad tra hyfryd cenhedloedd yr holl fyd,
Eu comffordd a'u heichyd gorucha,
A thymma'r Mae'n ſiccir, wrthode'r Adeilwyr,
Mae'n tramgwydd, craig rhwyſtyr, Judea.
Ein perl a'n Prins ninne yr holl genhedlaethe
Chriſtnogion ‡ ſy'n adde'r Meſſia,
Er bod ein pechode, heb feſur na phwyſe,
A'n brynti fel pentre *Gomorrah*.
Etto os credwn, a gwellhau tra gallwn,
Fe bair i ni bardwn y bara;
Un droppyn ſancteiddlon, o wir waed ei galon,
All olchi ein holl ffinion ddiffeithdra,
Pe baent hwy cyn goched ar Pwrpwl neu Scarled.
A'u gwneuthur cyn wyned ar Eira.
Weithian os credu a wnawn nine i'r Jeſu,
A chwympo iw waſanaethu'n ufudda:
Fe ddug yn eneidie i'r nef lle mae ynte,
I ganu holl hymne Jehofa.
Lle mae mwy hyfrydwch, a nefol ‡ rhialwch
Llawenydd a heddwch o'r mwya,
Nag allo clûſt glywed, na Llygad i weled,
Na chalon yſtyried pwy bynna.
Moliannwn gan hynny ac eitha o'n gallu,
Ein prynwr *Chriſt Jeſu* anwyla.
Am brynu'n eneidie, drwy chwerw loes ange,
O uffern ai' phoene diffeithia,
O molwn ni'n waſtod, pob perſon o'r drindod
Mewn undod mor barod er *Adda*,
I'n tynu mor raſol, o'r carchar uffernol,
I fyw yn y nefol orphwyſa.

‡ *Oni addefwn*
*ni Ghriſt*
*yn ein bywyd*
*yn gyſtal a*
*yn ein geiriau*
*ϸhdl ein ban-*
*ddeſtad ddim*
*Tit.* 1. 16.

‡ *go-*
*goniant*

---

## *Cyngor i Bechadur i ddyfod at Jeſu Ghriſt.*

*Mat.* 11.28. 29. DEre hên Bechadur truan,
Dere at Ghriſt trwy ffydd dan ruddfan,
Mae mab Duw yn d' alw atto,
Os yw pechod yn dy flino.
Chriſt ei hun ſy'n galw arnad,
*Jo.* 7. 37. Chriſt ſ'yn erchi i ti ddwad:
‡ *Adfywio.* Chriſt ſy'n cynnig dy ‡ reffreſio,
Os trwy ffydd i doi di atto.
Dere at Ghriſt er maint yw'th droſedd
Dere er cynddrwg oedd dy fuchedd
Dere'm mhryd cais gymmorth gantho,
F' all dy gadw yr awr y mynno.
‖ *gwbl.* Er dy golli yn ‖ gwitt yn Adda,
Er i'r cythrel câs dy ddala,
Er it ddigio Duw mor danllyd,
Crêd yng Hriſt fe geidw'th fywyd.
Er dy ennill mewn anwiredd
*Joan.* 3: 36. Er it fyw mewn aflan fuchedd
*Pſal.* 51. 5. Dere at Ghriſt cais gymmod gantho,
F'all dy olchi a'th ail greo.
Er dy fod ti'n elyn Duw,
*Zech* 13. 1. Wrth naturiaeth a'th ddrwg ryw;
*Crêd* yng Hriſt, fe'th wna yn elyn
*Rhuf.* 5: 10. I'th nefol dâd yn anwyl blentyn.
Er dy fod ti'n ſlâf ei Satan,
Ac yn wâs caeth yn ei gorlan;
*Eph.* 2. 2. *Crêd* yng-Hriſt fe'th dyn oi grampe
*Luc.* 1. 79. Fe'th ddwg o'i dywyll gell i'r goleu.
Er dy fod ti'n haeddu'th ddamnio,
*Rhuf.* 5. 18. A'th droi i uffern i'th boenydio,
*Joan.* 6. 47. Cred yn Ghriſt fe'th ddwg i'r nefoedd
I glodfori'r hwn a'th greuodd.

Er dy fod ti megis ‡ Rebel
Gwedi'th droi o ſant yn Gythrel;
Cred yn-Ghriſt, bydd un o'i blant.
Fe'th dry o Gythrel etto yn Sant.

‡ *gwrthryfelwr.*

1 *Cor.* 6. 11.

Er dy fod ti'n edyn damnedig
Yn hon Adda ein tad gwenwynig;
Cred yn Ghriſt fe'th geidw etto
Er ei Adda hôn dy ddamnio.

*Rhuf.* 5. 17. 19.

Er i Satan entrio i'th lettu
Ai oreſgyn heb ei nadu;
Cred yn Ghriſt, fe ddwg ei' arfau
Fe dry Satan tros y trothau.

Er i'r lladron ſpeilio d' enaid
A'th archolli yn dra † embaid;
Cred yn Ghriſt, y gwir Samariad,
Fe jacha d' archollion ‖ deſprad.

*Luc.* 10. 30.

† *Peryglus.*

‖ *Annobeithiol.*

Er ir danllyd ſarph dy frathu
A'th wenwyno nes dy nafu,
Cred yn Ghriſt, fe ddofa'r poen;
Fe jacha'r clwyf a gwaed yr oen.

Er it fynych gyfeiliorni,
Megis dafad gwedi cholli;
Cred yn Ghriſt, fe ddaw yn fuan,
O'r nef i'th droi or gors i'r gorlan.

Er it bechu fil o weithio,
Er it haeddu cant diale;
*Cred* yn Ghriſt ti gei faddeuant
Am dy bechod oll a'th drachwant.

*Eph.* 1. 7.

Er bodd lliw dy fai cyn goched,
Ac yw'r pwrpl côch ne'r Scarled
*Cred* yn Ghriſt, trwy waed fe'th olcha
Nes bech di mor wyn ar eira.

*Eſa.* 1. 18.

Er bod dy feio mewn rhifedi
Yn fwy na gwallt dy ben o gyfri;
*Cred* i'th Brynwr, Duw a dyn,
Fe'i maddeu i ti bob yr un.

*Act.* 10. 43.

Cymmun,

*Cymmur* gyſſur cwyn dy galon,
*Cred* yn Ghriſt dy brynwr tirion;
Ediſara am dy frynti
Chriſt a ſydd yn geidwad i ti.
Mae Chriſt i'th wawdd, mae Chriſt i'th (alw
Mae Chriſt i'th gymmell atto'n groyw,
Pam y byddi marw yn irad,
*Ezek.* 33. 11 Eiſie dwad at dy Geidwad.
Chriſt y ddaeth o'r nefoedd auraid,
*Luc.* 19. 10. Ir byd i gadw pechaduriaid;
Ei ſwydd, ai grefft ai waith yn unig,
*Rhuf.* 3. 23. Yn cadw eneidiau rhai colledig.
Dyn colledig ydwyt tithe,
Fel y mae pawb o honom ninne,
Pam na ddoi tra fytho'n galw,
At dy geidwad Chriſt i'th gadw?
Nid yw'th bechod ddrwg ddyn angall,
Fwy na phechod Saul neu arall;
Fe gadd Saul faddeuant gantho;
Ditheu cei os credu ynddo.
Nid yw'th bechod fwy nag allo,
‡ *Tynnu ym-maith.* Chriſt eu maddeu ai ‡ dileuo,
Na'th holl feie nath holl frynti
Fwy nag allo Chriſt eu golchi.
Ni all *Satan* byth dy lygru
Fel na allo Chriſt dy helpu,
Na'th ddiſwyno gwnaed ei waetha
Fel na all Chriſt dy wella.
Chriſt all wneuthur heb fawr drafel
Oen o flaidd, o Sant o gythrel,
*Act.* 9. 13, 14. 15. Hen ddyn aflan, yn ddyn ſuw,
A dyn ir fall yn ddyn i Dduw.
Ni wnaeth Chriſt ond ar Zache,
Ai droi'n Sant ar hynny o eirie;
Fe'th dry ditheu'n oen os myn
O lwdwn du yn llwdn gwyn.

Du

Duw galluog ydyw Chriſt,
n maddeu beiau'r truan triſt,
n newid naws, yn gwella natur.
n dattod gwaith diawl heb rwyſtur. 1 *Jo.* 3. 8.
Holl alluog yw dy Brynwr,
all § reparo gwaith y temptiwr, § *adnewyddu*
all ei daflu beunyd allan,
galonnau'r bobol aflan.
Pe bae ſaith rhyw gythrel ynod,
t ſae Leng tu ſewn ith gaudod: *Mar.* 5. 8, 9. 13.
uy Chriſt hwy oll fel cylion,
r gair cynta 'maes o'th galon.
Nid oes grym gan un creadur *Mar.* 6. 9.
indra ‡ gwaith dy Brynwr pryſur; ‡ *rwyſtro.*
i all dyn na diawl ei rwyſtro, *Jer.* 32. 17.
oi i ti râs os credu ynddo.
Nid oes dyn yn Ghriſt yn credu,
a bo'n cael grâs i diſaru;
c i wellhau ei fuched beunydd, *Act.* 15. 9.
es yr elo'n ddyn o newydd, 2 *Cor.* 5. 17.
Ni ddaeth dyn i geiſio gras,
t ſab Duw erioed nas cas,
ac i ſegian cymmorth gantho *Eſa.* 45. 19.
as rhodd Chriſt o'n ebrwydd iddo.
Dere dithe cais ras gantho,
ad ith bechod brwnt dy rwyſtro:
i ddaeth Chriſt i gadw enaid, *Mar.* 2. 17.
nd eneidiau pechaduriaid.
Ni ddaeth Chriſt i gadw oddifri,
nd y rhai oedd gwedi colli:
wydd a chrefft mab Duw yn unig,
dyw cadw rhai colledig.
Dere dithe'n fuan atto,
ae'n dy gathrain mae'n dy gyffro:
ere atto cred yn unig,
wna Chriſt di'n ddyn cadwedig.

Duw rô grâs i tithe ddwad,
Yn ddi-aros at dy Geidwad,
Trwy ffydd fywiol a difeirwch
I gael gan Griſt râs a heddwch.

---

## *Cyngor i Bechadur i ddyfod at Griſt.*

DEwch bawb ſyth drwm lwythog dan becboda *bai*
*Dewch at eich Jachawdwr ſy'ch gwawdd chwi bo*
*I laeſu'ch trwm lwythe a'ch blinder a'ch cryd*; *(rha*
Mae'n addo'ch reffreſio, dowch atto mewn pryd.
Dewch pawb at eich Ceidwad a'ch Prynwr *a'ch pen*,
A'ch Brenin a'ch Prophwyd a'ch ffeiriaid a'ch Llen;
A'ch meddyg, a'ch bugail a'ch Caſtell a'th Craig,
A'ch unig Jachawdwr, Concwerwr y ddraig.
*Dewch bawb at Griſt Jeſu ſy'n gwawdd pawb mor fwyn*
I ddwad hyd atto i wneuthur eich cwyn;
Ond dangos eich dolur, bid ef fawr, byd ef fach,
A deiſyf ei gymmorth fe'ch hela'n holl iach.
Fe'ch dad ddrys och driſtwch fe'ch gwna'n wyr rhydd
Fe dal eich holl ddyled fe'ch cymmorth yn brydd,
Fe laeſach trwm lwythe a'ch dagrau fei ſych,
*Fe gweiria'ch archollion fe'ch gwna chwi'n holl wych.*
Fe wna heddwch rhyngoch ar barnwr ei Dâd
Fe ſyn i chwi bardwn trwy bridwerth ei waed,
Fe'ch dug chwi drachefen mewn ffafr a Duw,
Fe'ch cadw mewn cariad tra fyddoch chwi byw.
Fe'ch gylch och pechodau a'i waed bob yr un,
Fe eſſyd byth ynoch ei yſpryd ei hun,
Fe'ch gwna chwi yn feibion yn ferched iw Dad,
A chyd etifeddion oi Deyrnas yn rhâd.
Fe droedia'ch gelynion fei teithl ir llawr,
Fe ddug ei holl arfau fei dylid fel Cawr,
Fe dyn i holl gryfder, fe ddadwraidd ei nyth.
Fe'ch gwna y gongcwerwyr ar Satan dros fyth:

Pe gwypech blant dynion, mor doſt ydyw'ch cas
ch cyflwr colledig heb nerth Duw a'i Ras
i chyſcech, ni ſwyttech nes dyfod at Chriſt,
wella'ch toſt gyflwr a chalon drom driſt.
Beth 'ym ni rhai goreu, wrth nattur a rhyw,
nd plant i'r digofaint, heb gyfnerth mab Duw,
gweiſion i bechod, a ſlafiaid i'r fall,
rhanwyd i uffern, plant Angeu di-ball?
Mae pawb gwedi nyrddo gan bechod, och! och!
yn ddued a'r Moyrys, cyn frynted a'r moch:
haid ddyfod at Jeſu i newid ein grân,
golchi'n aflendid, cyn gwneler ni'n lân.
Fe wnaeth yr hen Adda ni'n elynion i Dduw
n blant i'r digofaint, heb ddim modd i fyw:
haid ddyfod at Jeſu i'n cymmodi' a'i Dad,
yn gwneler ni'n feibion, trwy fabwys a rhad.
Fe dynnodd y gelyn pob dyn yn ei rwyd,
'r fale gwarddedig, trwy wall Efa lwyd,
i thorrir o'r groglath, ni'n tynnir ni maes,
es tynnor hail Jeſu a'i Rym ac a'i ras.
Mae'n henaid fel dafad yn Satan y blaidd,
nghrafangc y gelyn, a diangc nis baidd;
haid cymmorth y bugail, Chriſt Jeſu a'i ras
yn tynner un enaid o'i grafangc i maes.
Mae'r Angel diniſtriol goruwch ein tai,
n ceiſio'n deſtrywio, waith cymmaint yw'n bai,
haid iro'n cynnorau, a gwaed un mab Duw,
yn paſio'r fall heibio, na'n gadel yn fyw.
Mae holl blant dynion dad ſeddiant y fall,
ewn dwngwn ddu, tywyll, yn gorwedd, yn ddall,
rth gadwyn o bechod, nes delo mab *Mair*,
tynny o'r dwngwn a'i ras ac a'i Air.
Ni thynner dyn allan o deyrnas y fall,
pechod lle herys, gwnaed pawb ore ac all,
s rhwymo Chriſt Satan, trwy gryfder a ffors,
thynnu dyn allan, fel nifel or gors.

Mae pawb Mewn tywyllwch, wrth nattur yn byw
Dan gyſgod yr angeu heb nabod o Dduw ;
Mae'n rhaid i Ghriſt Jeſu'n goleuo a'i râs
A'n tynnu o'r tywyllwch, cyn deler i maes.
Mae phechod mor ſrainllyd, *mor ddrewllyd, mor grai*
Yn nyrddo, yn naſu, yn ſfecto pob rhai,
Ni olchir, ni thynnir ni ſlottir i maes,
Nes golcho gwaed Jeſu, mae ſrynti mor grâs.
Mae pechod ſel mynedd o blwm ar ein gwarr,
Mae'n gwaſcu cyn drwmed nes plygo pob garr ;
Fe'n hela trwy'r ddaiar i uffern yn grwn,
Oni ddawn at Ghriſt Jeſu i laeſu'r fath bwn:
Mae'r fall fel gwr cadarn, yn arfog heb grun,
Yn cadw goreſcyn o galon pob dyn,
Ni ddichon yr holl ſyd ei daflu o'i Blâs
Nes delo *Chriſt* attom i dwmblan o'i maes.
Mae'r fall gwedi'n clwyſo an brathu bob rhai
Mae'n harcholl yn rhedeg bob amſer heb drai :
Ni ddichon un meddyg dan Haul ein Jachau,
Nes delo Chriſt attom ai waed i'n glanhau,
Fe ddygodd y Gelyn ein trwſſiad a'n gras
Fe'n gadodd yn groen llwm, yn noeth ac yn gas :
Dewn at ein brawd hyna, Chriſt Jeſu bob un
Fe guddia'n holl noethder a'i ddillad ei hun.
Mae pawb gwedi marw mewn pechod bob pryd,
Heb bwer i wneuthur daioni'n y byd,
Nes delo'r Bywiawdwr Chriſt Jeſu i'n bywhau
A'n codi o bechod, ac felly'n cryfhau.
Dewch at y ſarph efydd dangholſwch eich clwyf,
Lle brathodd y neidr chwi'n ſynych trwy nwyf ;
Edrychwch yn graffus at Ghriſt ar y groes
Fe red yn holl wenwyn fe ddofa'r holl loes.
Dangoſwch eich dolur i'ch prynwr heb aeth
Ni bu dan y nefoedd un Meddyg o'i fath ;
Pob archoll, pob dolur, pob pechod, pob crach
A phur waed ei galon fel gyrr yn holl Jach.

Ni ddichon nac eli, na metſwm, na maeth,
Na phyſic, na phlaſtr, na llyſie, na llaeth,
Na dim ag a enwer, ond Gwaed Jeſu Ghriſt,
Jachau archoll pechod, mae'r archoll mor driſt.
Mae llawer all hela cornwydion yn Jach,
Ar ſrech fawr, ar cryge, ar claf gwan, a'r crach;
Ni ddichon meddygion y byd cymmain un;
Jachau archoll pechod, ond mab Duw ei hun.
Ni ddichon Angelion er amled o'u rhif,
Er cymmaint o'u cryſder er cyſtal o'u ‡ brif, ‡ *Anrhydeddi*
Gadw un enaid, rhag myned ar goll,
Nes cadwo *Chriſt Jeſu*, ein helpwr ni oll.
Ar Saint ar Santeſſau, pyt ſaent oll ynghyd
Er Amſer hen Adda, hyd ddiwedd y byd;
Ni allent hwy gadw un enaid traens byw
Rhag myned i uffern heb gymmorth mab Duw.
Pa rhoddit ti'n offrwm niſeiliaid y byd
Afonnydd o olew, a'th olud i gyd,
A'th gyntaf anedig, a'th fywyd, a'th waed,
Ni chedwit ti d' enaid heb help y mab rhad.
Pa chwilit ti'r nefoedd, a'r ddaiar ynghyd,
A'r awyr a'r moroedd hyd ddiwedd y byd;
Ni ellit ti ganfod, tra fyddit ti byw
Yn geidwad i'th enaid ond unig mab Duw.
Nac ymgais am Geidwad heb law Chriſt ei hun,
Mae'n geidwad galluog, yn Dduw ac yn ddyn.
Nid oes Jechydwriaeth [ nac enw dan nef ]
I gael mewn neb arall ond ſydd ynddo ef.
Ni chedwir un enaid or oes hon y ſydd,
Na'r oeſoedd y baſſodd, na'r oeſoedd y ſydd,
Ond unig eneidie y gatwo Mab *Duw*,
Y rheſt eiſie credu y gollir bob rhyw.
Ymafel yn dy Brynwr, yn Feſt a llaw dy ffydd
O mynni gael dy gadw, dal d'afel yntho'n brydd:
Na choll oth afael arno nes caffech rym a gras
Oddiwrtho i gadw d' enaid, a byth bodd iddo'n was.

*Na' mddiried ith weithredoedd nath ddyſc nath dda nath ryw*
Ni all dim gadw d' enaid, ond ffydd yn un mab Duw
O rhoi d' ymddiried yntho ni chollir d' enaid byth,
Heb Griſt o' ceiſi ei gadw ni a cholli ef tros byth.
Mae pawb o feibion dynion er Adda hyd ddiwedd byd
Gan bechod gwedi llygru a'u damnio bawb ynghyd
Ni chedwir un o honynt rhag ange ac Uffern driſt,
Gwnaed pawb i gore ac allant nes cadwer hwy gan Ghriſt.
Dewch bawb gan hynny'n gyfran at geidwad 'r holl fyd,
I gadw eich triſt eneidie y gollwyd oll ynghyd,
Yr un a ddelo atto fei dûg i'r nefoedd wen,
Yr un a beidio dwad f' a'i Uffern ar ei ben.
Na fydded neb mor angall mor ddwl mor ddall mor ffol
A throi oddiwrth ei ceidwad ſy'n galw'n eich hôl,
Ni ddiangc neb rhag Angeu ni ddringad un i'r nef
Ni byd un dyn cadwedig nes caffo ei gymmorth ef.
Ni chedwid *Noe* na *Daniel* nac *Abram Job* na *Phawl*
Na *Mair* nac *Ann* na *Martha* na neb o rwydau *Diawl*,
Na'r plentyn newydd eni, nac un o heppil dyn,
Trwy nerth au *gallu hunain* ond trwy nerth Criſt ei hun.
Ni chedwir neb tro gantho o hyn i ddiwedd byd,
Ond y rhai gadwo'r Jeſu mae pryniad dyn mor ddryd
Ni fyn y barnwr cyfion ſurhad am bechod dyn,
Llai nag ange gwerthfawr, a gwaed mab Duw ei hun.
Gan hynny ofer ceiſio help Angel Sant na dyn,
Na phardwn Pab, na Fferon ei gadw enaid un:
'Does dim a galler enwi beth bynnag ſytho i ryw,
All cadw enaid Chriſtion, ond Angeu un mab Duw.
Ni chymmer Duw'r dialau jawn lai am bechod dyn
Nag angeu holl blant dynion neu angeu'r cyfryw un
Y fae eu Angeu cyſtal ac angeu pawb o'r byd
Nid oes un Angeu felly, ond Angeu'r prynwr dryd.
Ni ddichon neb fodloni cyfiawnder Duw wrth hyn,
Heb angeu ac ufydd-dod ein prynwr Jeſu gwyn,
Y neb ni cheiſio ei gymmorth or cymmaint fo'i ſcil,
Ni bydd e'n abl atteb, i Duw am un o fil.

Ma

*Mae rhai'n credu gallant trwy gwaith a'i gwedd i hun*
A'i hympryd ai cardodau wir haeddu cymmaint un,
Gael diange poenau Uffern a dringo chwip i'r nef,
*Heb help y gwir Jachawdwr* Ffei ffei beth wnant ac ef.
*Ond pan ſo rhain yn tybied y dringant uwch y Ser,*
I uffern boeth y cwympant lle ſyrthiodd *Luciffer*:
Yn uffern y cant weled heb Griſt ai ddichon dyn,
Fynd byth i deyrnas nefoedd trwy rym ai allu hun.
*Ni ddichon un dyn heuddu trugaredd ar law Duw,*
Ni bu 'rioed arno ddyled ai bydd byth tra ſo byw,
Mae pawb yn rhwym i ddoli ac ſoli ac uchel lêf,
Heb ddled arno ef hynny a phawb yn ei ddyled ef.
Ni ddichon gweddi un dyn nai cardod o un rhyw
Nai hympryd nai diſeirwch, ſodloni'r cyfiawn Duw
Nes darfo i *Griſt* yn gynta, Gymmodi'r dyn ai Dâd
A golchi a ſancteiddio y weithred dda ai waed.
Mae'n rhaid i *Griſt* ail greu pechadur ar ei lûn,
Ai droi'n greadur newydd, a'r ddelw Duw ei hun,
A newid ei feddyliau ai [illegible] ai rym ai ryw,
*Cyn gallu un dyn feddiannu na gweled Teyrnas Dduw:*
*Mae'n rhaid i Griſt heddychu rhwng dyn a Duw ei dad,*
A'i olchi oi bechodau trwy rym ei werthfawr waed,
Ai wiſco ai Sancteiddrwydd ai holl rinwedde ei hun,
A dodi yſpryd ynddo, cyn gallu cadw'r dyn.
Mae'n rhaid i *Griſt* ein gwared, o law a gallu'r fall
*Sy'n cadw mewn caethiwed mewn carchar tywyll dall*
*Yn rhwym ein traed a'n dwylo mewn cadwyn pechod cas*
*Ynglyn a chyſcod angeu cyn delom fyth i maes.*
*Mae'n rhaid i Griſt ddi-arſu y fall ſy'n cadw Llys,*
Ynghalon pob pechadur ai rwymo'n ffaſt ai fys,
A'i daflu oi neuadd allan, a chadw'r llys ei hun
Cyn elo'r fall o'i gaſtell na'r ddraig o galon dyn.
*Mae'n rhaid i Griſt ein gwneuthur yn blant i Duw i dad*
*A'n hadgenhedlu'n feibion trwy fabwys prudd o rhad,*
A'n gwneuthur yn etifeddion i'r holl alluog Dduw
Cyn gallom gael Paradwys er cyſtlad y fo'm byw.

Mae'n rhaid i *Ghriſt* ein tynnu, o bob trueni mâs,
O rwydau'r fall uffernol, a gwefleu'r angeu glâs;
A'n gwneuthur yn gyfrannog o Ffafar Duw ai rad
Cyn gallo neb feddiannu, o'r deyrnas lle ma'i Dad.
*Amboſſibl yw gan hynny, i un rhyw fath o ddyn*
Feddiannu Teyrnas nefoedd, trwy rym ai allu ei hun
Na diangc o law Satan, gwefle'r angeu glas,
Na dial Duw ai felldith, heb gymmorth *Chriſt* ai râs.
O bwedd i diangc un dyn, rhag dial Duw a'i far
*Rhag melldith drom y gyfraith rhag carchar pechod taer*
*Rhag gallu Prins tywyllwch, rhag dannedd ange triſt*
*Trwy nerth a'i rym ei hunan, heb gymmorth Jeſu Griſt.*
*Mae'n rhaid i ninne'r dynion repentio a chalon brûdd*
*A chredu'n Ghriſt ein ceidwad trwy wir a bywiol ffydd*
*A pheunydd wella ei'n buchedd, trwy nerth ei yſpryd ef,*
*A bod vn bobl newydd cyn dycco Chriſt ni ir nef.*
*Deuwn bawb gan hynny'n gyfan, at Griſt ein ceidw*
*Trwy alar a difeirwch a gwir a bywiol ffydd (pru*
*Yr un a ddelo atto, fei dûg ir nefoedd wen,*
*Ar dyn a beidi'o dwad, ſa'i uffern ar ei ben.*

## *Cynhyrfiad i foli'r Arglwydd Jeſu.*

CYffredin o bonedd, trowch heibio bob maſwedd
A moeſwch or diwedd gytunno,
Ar foli'n garedig y bore Ddy' nadolig,
Ein prynwr arbennig a'i gofio.
Pan wnaeth Duw mor gymen y ddau ddyn o ddair
Fe rhodd hwy'n y berllan i dario:
I gymryd eu pleſſer, mewn heddwch a'ſmwythder
O'r prenê meluſ-per oedd yno:
Pan gwelodd ein gelyn'ni gyflwr y ddau ddyn
Ai bod hwy mor gyttun yn rhodio,
Ar ddaiar mor ffrwythlon, yn rhoi iddynt ddigon
Heb diafal ar ddynion lafurio.

Ac yno daeth Satan, mewn meddwl/ac amcan
A'r gaffel ym[illegible]ddan a hudo,
Yr union at *Efa* fel lleſtr o'r gwanna.
A gadel hen *Adda* ſynd heibio,
Be bwyttech ti dammed, o'r Afal goreured
Nad ydych yn beiddded ei ‡ dwiſhio; ‡ *Cyffwrdd*,
Eich llygaid agore; chwi ſyddech fel duwie;
Fel dymma'r rhinwedde ſydd arno.
Yr afal hi gymrodd, a'r tammaid hi bwyttodd
Ac *Adda* ni pheidiodd a'i ‖ daſto; ‖ *brofi.*
Nes caffel anſmwythder (ond ydyw yn beth ſceler, )
Yn dal am y pleſſer aeth heibio.
Hwy aethant eill dauwedd, oblegid eu balchedd
Yn euog o'r diwedd boenydio;
A ninne lin olin, ſy'n dyfod o'r gwreiddin.
Heb allel ond i dilyn hwy yno,
Pan gwelodd Duw cyfion y poene mor greulon
A ninne mor weinion yn † ſingco; † *Soddi.*
Rhodd i ni gyfryngwr, wrth weled ein cyflwr, *Rhuf.*
Chriſt Jeſu'n Jachawdwr i'n ſwccro, 5. 6.
Hwn aned yn unig y bore ddy 'nadolig;
(Hwn ydyw'r gwir Feddyg iw gofio)
Mewn preſeb anghymmen; ond gwych oedd ein fforten;
Pan cawſom ſath Gapten in, † Ledio. † *Arwain*
Dwy nattur neu rinwedd (heb gymmyſc ei ſylwedd
Sydd ynddo (heb ddiwedd iw cofio.)
Y Duwdod, y Dyndod, ynghyd iw cydnabod:
Ac felly mae'n gorfod conffeſio,
Mae Duwdod, cyn uchled a'i Dâd y gogoned,
Pob amſer i'w weled yn ‖ rheino. ‖ *Teyrnaſſu.*
A'i ddyndod heb allell cyrhaeddyd mor uchel
Os credwn ni † chwedel ein Credo. † *Geiriau.*
Ond mawr oedd y cariad, pan rhodde'r ûcholdad,
O fenyw'r fawr Geidwad i'n ſwccro,
Yn berffaith ddyn cnawdol fel pob un o'i bobol,
Ond pechod yn hollol ‖ excepto, ‖ *Wedi neillduol.*

E 2 Canys

Pan oeddem yn barod, oblegid ein pechod,
  I fynd i'r pwll iſod i drigo ;
Mewn ffwrnes uffernol, ac chyſtudd anfeidrol
  Heb obaith ‡ ymwrthol oddiyno ; ‡ *Dychwely*
Fe redodd yn ſeichie fe ſeliodd ein bande, *Heb.* 7. 2
  Fe'n unig a fedrei ddad-ddigio.
Fe'n dygodd ni o'r gofyd ; fe roddodd i'n rydd-dyd,
  Fe barodd i'n iechyd y baro.
Nid aur o' melyna, nid cyfoeth o'r *India*,
  Allaſſe bwrcaſſa pardwnio :
Ond bywyd y plentyn y gwir Dduw a'r gwir ddyn,
  Da iawn ydyw moſyn am dano.
Trwy hwn y bodlonwyd trwy hwn y dad-ddigiwyd
  Ac heb hwn ni allwyd ei bleſſio :
Er mwyn hwn yn union, mewn pob rhyw anghenio
  Y gwrendy pob Chriſtion e geiſio.
F' offrymmyd ei hunan, yn Aberth bereiddlan,
  Rhag ofan i Satan gongcwerio ;
Fe ſigodd e e'i ſowdwl, fe wnaeth wrth fy meddw
  Fe gadwodd y cwbwl a greito.
Er bod ein gweithred yn aml iw gweled, *Eſa.* 64.
  Mewn moddion aſſifed iw cownto ;
O ddiffyg ffydd hynod bob amſer yn barod,
  Nid ydynt ond pechod iw ‖ ſwmno. ‖ *Priſ*
Trwy ffydd i'n diddennir, trwy ffydd i'n perffeithir,
  Trwy ffydd i'n ennillir, ni'n gyfrdo ;
O ras trwy ffydd fywiol, medd *Pawl* yr Apoſtol,
  Mae Chriſt yn ein dethol ni atto. *Eph.* 2.
Ni cheiſiodd un bridwerth un dyn un aberth
  (Er cymmaint y cymmorth ê i blago.)
Ond yſpryd drylliedig, a chalon buredig ;
  O deweh yn garedig i wrando. *Pſal.* 51.
Trwy ffydd a derbynniwn, pob peth ag ofynnwn;
  Nid oes dim ag allwn ddymuno, *Mar.* 11.
Nas ceffir ond credu, yn hael gan yr *Jeſu*
  Can's fe fydd ar gallu lle mynno.

Tr

Trwy ffydd 'ngwaed gwirion ein Prynwr gwyn graſlon
  Fe olchir ein beion pan orffo.
Rhoi cownt am ein gweithred o flaen y gogoned,
  Ond iddo gael gweled repento,
O! byddwch yn addas, trwy fynych gymdeithas
  A gwiſc y briodas yn gryno,
I fynd i'r llawenydd, ymhell or aflonydd,
  Yn barod pan orfydd apirio.
A byddwch fal Seintie, ag oel i'ch lanterne,
  Bob nos a phob bore ich goleuo:
Rhag dyfod y *Priod*, heb rybydd na gorfod,
  Mewn amſer heb wybod i gnoccio.
A gwnewch eich gwaſanaeth, i'r Drindod yn helaeth
  Tra'r dydd Jechydwriaeth heb baſſio;
Rhag dyfod tywyllwch, rheſymmol y gwelwch,
  Pryd hwnnw ni ellwch mor Gweithio.
Gweddiwch yn dduwiol, ac eich cadw'n ddiangol,
  A bod yn waſtadol yn effro;
Gan agos yw'r amſer, medd *Matthew* dafod ber,
  Fe orfydd ar fyrder ymado.
O byddwch gariadus, wrth fodd Duw a'i wyllys,
  Chwi gewch fod yn ddilys y † rhainio, † *Teyrnaſu*
Mewn 'ſmwythder, dedwyddwch, llawenydd llonyddwch
  A phethau na fedrwch yſtyrio.
Nid oes yno glefyd, na thriſtwch nac adfyd,
  Na gofal na gofid i'w gofio: *Datc.* 7. 16, 17.
Ond ‡ miwſic pereiddlon, gan ſanctaidd Angelion, ‡ *Cerdd*
  Na ddichon un galon, fyfyrio.
Gan hynny blwyfolion, chwi gwympwch yn ffyddlon
  O ddyfnder eich calon weddio,
Ar Dduw o'i wir fawredd a'i aml drugaredd
  Yno'n dwyn ar ein diwedd i drigo.

## *Gwahoddedigaeth arall i foli* Chriſt Jeſu,

DEwch bawb yn garedig, yn ffres ac yn ffrolig
Yn awr yn nadolig i foli mab Duw,
A Pſalms ac a Hymne, yn hwyr ac yn fore
An gadw'n eneidie rhag diſtryw.
Dewch cenwch yn llafar, ner dadſain y ddaiar,
A dringad eich trydar i'r trydydd nef;
I gyffro'r Angylion, i gyd ganu a dynion
I Dduw am ei dirion dangneddef.
Pan na'lle na dynion, na Saint nac Angelion
Na dim daiarolion, mewn daiar na dwr;
Ein cymmorth na'n helpu, fe helodd Dduw ei'n prynu,
Er unig fâb Jeſu'n Jachawdwr.
Pe Dâd a fae perchen, deg plentyn ar hugien?
Y rodde'n aflawen y gwaetha iw ladd;
Ar grogpren echryſlon, i gadw ei elynion
Ai gyrrei yn greulon i ymladd.
Duw nid arbedodd, roi'r un mâb a feddodd,
Ar mwya a garodd o'r byd i gyd.
I farw dros ddynion, ar grogpren echryſlon
Pan oeddem elynion gwenwynllyd.
Gan hynny'n enwedig, trwy wylie'r nadolig,
Rhown ddiolch caredig ein cariadus Dâd:
Am roddi mor raſol, ei etifedd naturiol,
I fod i ni'n nerthol Geidwad.
A molwn yn neſa, a moliant or mwya,
Fab Duw gorucha gwir Jechyd y byd;
Am ddywad o'i fawredd ai nefol aurhydedd
I'n tynny mor rhyfedd o'n gofyd.
O'r nefoedd orucha, o fynwes Jehofa.
Daeth mab Duw anwyla iawn olud i ni:
I gymryd ei ddyndawd, o Fair at ei Dduwdawd,
Ai wneuthur yn gyd frawd i ni.

I'r Stabal anghymen, o'r nefoedd ddiſglairwen
  I breſeb yr ychen, o'i oruchaf Lys;
O blith yr Angelion, i gadw plant dynion,
  Y daeth yr oen tirion cariadus.
Mab Duw gorucha Duw'r gair mi ai henwa
  Etifedd *Jehoſa*, Duw mab y Duw mawr;
Y wnaed yn ddyn cnawdol, o *Fair* yn rhyfeddol,
  I achub i bobol drallod fawr,
Y Duw'r hwn a greodd, nêf, daiar, a dyfroedd,
  Y Duw'r hwn y luniodd yr Haul yn y nef.
Y wnaethpwyd yn blentyn, yn fachgen yn fwydyn
  A milwyr cyffredin ai lladdef.
Dewn bob rhai gan hynny, clodforwn yr Jeſu
  Ymrown bawb i ganu, gogoniant a mawl;
Ar Dafod a thanne, yn hwyr ac yn ſore,
  I'n prynwr mewn hymne nefawl.
A galwn y nefoedd y ddaiar ar moroedd
  A phawb o'r lluoedd ſydd ynddynt yn llonn,
I gyd ganu moliant, a chlod a gogoniant
  I Awdwr ein ffyniant yn ffyddlon.
Fel *Sadrach* or ffyrnes fel *Zachri* oi gyffes,
  Fel *Miriam* a *Moſes* ar lan y mor,
Clodforwn yr Jeſu, y ddaeth i'n gwaredu,
  O'r ffwrd a'r carchardy ‖ cateo. ‖ *gwangous*
A threuliwn ei wylie, er cof am ei ddonie
  Y modd ac y gwedde i wyl Jeſu gwyn
Mewn nefol hyfrydwch, a duwiol ddifyrrwch,
  A phrudd ddiolchgarwch gennyn.
Mae'r Arglwydd yn erchi, i'n bawb fod yn ffri,
  A llawen a llonni, mewn Llan ac mewn Llys;
Yn awdwr ein heddwch, a Thâd ein diddanwch
  Trwy fod ein difyrrwch yn weddus.
Gan hynny'n enwedig, yn awr y nadolig
  A'r galon yn *ffrolig* a'r wyneb yn *ffres*,
Gwir orfoleddwch yn Awdwr eich heddwch,
  Rhowch ymaith bob triſtwch anghynes.

E 4 Trwſſiwch

Trwffiwch eich Teie, hwyliwch eich byrdde,
A phob ſir or gore o gariad ar Ghriſt;
Gwahoddwch eu gilydd, i gynal llywenydd,
Na chedwch ei wyl ddydd yn athriſt.
Cwnnwch eich calon, cymmerwch eich digon,
Gochelwch ormoddion, mae meddwi yn gâs; ;
Na cheiſiwch lawenydd, mewn diod na bwydydd,
Ond yn eich Achubudd addas.
A chenwch drwyr' Gwylie, dduwiol ganiade,
Na ſoniwch am ſenne ar wylie'n gwir Sant,
Ond ſiriwch eich hunain ar Fab Duw ſy'n darllain,
Fod ganddo iw'ch gywrain faddeuant.
Nac ewch ir Tafarne, ar aflan Stiwdeie,
I Frolie y gwylie mae'n gwilydd y gwaith;
Amherch i Duw'n prynwr, bodloni'n gwrthnebwr,
Mae'r cyfryw au dwndwr diffaith.
Ymmaith ar Cardie, ar dwndrian a'r diſie,
A'r gloddeſt a'r gwledde bair Chriſtion yn glâf,
Ar meddwdod a'r tyngu, ſy'n nyrddo anaſu,
Nadolig Duw Jeſu anwylaf.
Cymrwch y Pſalmau, ar Fengyl wen olau,
Y lle'r par Cardiau, os gwyr da ych heb ddig,
Ffittiach a Griſtion na'r par cardiau brithion,
Yw'r Efyngyl wen dirion nadolig.
Gan hynny ymſiriwch, a gwir orfoleddwch,
A neidiwch a molwch eich prynwr mawr,
Cenwch glôd iddo, a churwch eich dwylo,
Hyfrydwch ynddo yn ddirſawr.
Rhowch ſoliant rhagorol, i'r Yſpryd Sancteiddiol,
Sy'n dangos i'r bobol o'r Bibl yn rhâd,
Fod pardwn ac Iechyd, a heddwch a bywyd,
I'w gael yn ein hyfryd Geidwad.
I'r Tâd rhwn a'n creodd, i'r Mab rhwn an prynodd
I'r Yſpryd a'n gloywodd a'r gair a'r dwr glân,
Y bytho bob enyd, ogoniant tra hyfryd,
Ym mhob mann o'r holl fyd yn gyngan.

*Annogaeth*

## *Annogaeth i Ddiolchgarwch am ein Prynedigaeth trwy Griſt.*

CUrwch bawb eich dwylo ynghyd, *Pſal.* 37.
Bendithiwch Dduw o bryd i bryd
Am roi unig ſab i'n prynu,
Pan yr oeddem gwedi'n ‖ damnu. ‖ *Colli.*
Cwympwch bawb ar ben eich glinie,
Aberthwch iddo nos a bore,
Clod a moliant nerth a gallu,
Am roi unig ſab i'n prynu.
Pys yſtyriem ſaint yw'r dyled,
Y ſydd arnom iddo o'r parthed,
Ni wnaen ſwydd y nos a bore,
Ond ei foli ar ein glinie.
Pan yr oeddem gwedi myned, *Act.* 26. 18.
Dan law Satan i gaethiwed, 1 *Jo.* 3. 8.
Fe rodd Duw ei ſab i'n prynu, *Eph.* 2. 2.
Pan na alle neb ein helpu. *Luc.* 4. 18.
Carcharorion dan law Satan,
Yn y * *dunſiwn* mawr yn cwynſan, * *Carchar.*
Byth y byſſom bawb yn gryddfu,
Oni byſſe'r Jeſu ein prynu.
Nid oedd lun i ‡ *reconſila*, ‡ *Heddychu.*
Duw'r cyfiawnder gwedi digio, *Col.* 1: 20.
Oni byſſe ei un mab Jeſu
Farw droſom er ein prynu.
Nid oedd lun gwaredu Enaid,
Un pechadur o'r pwll tanbaid
Oni byſſe i'r Jeſu gyfion,
Dalu droſto waed ei galon.
Chriſt y rodd ei werth fawr waed,
Yn bridwerth droſom ni iw Dâd;
Ac a'n tynnodd trwy fawr gryfder, *Heb.* 2. 14.
O law Satan oed y *Sieler*,

Adaf

Adar oeddem gwedi'n dala,
*Pſal.* 124. 7. Yn rhwyd Satan iddi dita,
Chriſt y dorrodd y rhwyd droſom,
† *ſef y ffyddloniaid.* Ninne'r † Adar a ddianghaſom.
Dafad oeddem aethe ar ddidro,
I blith bleiddiad i gyrwydro,
O'r wir gorlan ym mharadwys,
Ar ol Satan pan i'n temptiwys.
Chriſt yw'r Bugail y ddoe i' moſin
‖ *Anifeiliaid gwylltion,* Hon i blith ‖ Bwyſtfilod yſcymmyn,
Ac y ddyge'r Ddafad adre,
O eneu'r Diawl ar ei 'ſcwyddo.
Ni yw'r gwir y gas eu ſpeilio,
A'n harcholli wrth dramwyo,
I *Jericho* o *Jeruſalem*,
*Luc.* 10. 33, 34, 35. Heb neb a'n ewnne o'r clawdd lle 'roeddem,
Chriſt yw'r mwyn *Samaritan*
Y rwyme'n harcholl yn y man,
Ac a'n dyge hyd yr oſtri,
Yno i'n ſwccro a'n cynfforddi.
A Sarph a'n brathodd ym mharadwys,
A chol pechod pan i'n twyllwys:
Chriſt eliodd ein archollion,
Yn ſwyniawn a gwaed ei galon,
Nid oedd dim a alle helpu,
Iſrael gwedi'r Seirph eu brathu,
Ond golwg hyll ar Sarph o brês
Nid amgenach ei wnae lês.
*Jo.* 3. 14. 15. Nid oedd dim a'n helpei ninnau,
Gwedi'n brathu a chol pechodau
‡ *Arwyddocçau.* Ond Chriſt Jeſu gwedi hoelio,
Oedd y Sarph yn ‡ repreſento.
Tebyg oedd ein cyflwr egwan,
I adar bach y *Pelican*,
Y fae'r neider wedi nafu.
Nes cae'nt waed eu mam i'w helpu.

P

Pan y gwelodd Chriſt ein cyſſur,
Megis *Pelican* twym ei natur, *Heb.* 9. 14.
Fe roddi i ni waed ei galon
I elio ein archollion.
O conſidrwn ninne'n † câs † *cyflwr*.
A'r daioni mawr a'r gras,
Y ddaeth i ni'r Byd colledig,
Drwy ddioddefaint Criſt yn unig.
Slafiaid Satan, Gweiſion pechod,
Plant digofaint bwyd Bwyſtfilod
Oeddem bawb oni baſe'r Jeſu,
Ddaeth o'r nef ir groes i'n prynu.
Beth yw dyn heb gyfnerth Chriſt,
Ond gwas a ſlaf i'r cythrel triſt,
Gwedi Dduw ei farnu eiſwys
Fynd i uffern o beradwys.
Nid oes dyn a ddîchon gadw,
Ei enaid bach rhag iddo farw, *Jo.* 3. 18.
Nes y caffo gyfnerth Jeſu,
A'i waed gwerthfawr iddi olchi:
Nid oes dyn a ddichon wneuthur,
Jawn i Dduw am bechod budyr,
Nes y caffo waed yr Oen,
I dalu'r pris i ddofi's poen.
Chriſt yw'r Oen di fryche i gyd,
Sy'n tynnu ffwrdd bechode'r Byd,
Ac yn dofi llid ei Dad, *Heb.* 4: 14.
A'i fywyd gwyn, a'i werthfawr waed.
Chriſt yw'r ffeiriad ſy'n y nef, *Rhuf.* 8. 34.
Yn gwneuthur troſom wedi gref,
Gwedi offrwm gwaed ei galon.
Ar ý groes yn bridwerth droſom.
*Chriſt* yw gwir oleuni'r Byd,
*Chriſt* yw'n Bywyd oll i gyd,
*Chriſt* yw'n cynſtordd *Chriſt* yw'n ceidwad
*Chriſt* yw'n Helpwr o'r dechreuad.

*Jo.* 3. 36. Heb Griſt nid ym ond colledig,
Trwy *Griſt* yr ym ni'n gadwedig:
Heb *Griſt* ni chawn weled Duw;
*Datc.* 21. 8, 27. Trwy *Griſt* ni gawn ynddo ſyw:
Pob dyn aiff i uffern driſt,
Ond y gretto yn *Jeſu Griſt*:
Ac heb *Griſt* ni ddichon un dyn,
Fynd i'r nef er maint o'i roſyn.
Dyſgwn bawb gan hynny gredu,
*Act.* 3. 26. Yn ein prynwr mawr *Chriſt Jeſu*;
A meddyliwn wrando arno,
Os'n y nef y mynwn dario.
Prynodd *Chriſt* a Gwaed ei galon,
Yr holl ſydd o'i poenau trymion,
*Joan.* 3. 36, Llawer mîl o'r byd er hynny,
Ant i uffern eiſieu credu.
Er croeſhoelio'r Jeſu droſom,
*Mat.* 7. 19. 21. A rhoi taliad llawn am danom,
Etto ni bydd neb cadwedig,
Ond y gretto ynddo'n unig.
Credwn yn *Griſt* ac fe'n cedwir,
Oni chredwn yna i'n collir;
'R un y gretto gaiff ei gadw,
Rhwn na chretto collir hwnnw.
Nid aiff un na mawr na bach,
Byth i uffern i roi gwach,
Ond y dyn y beidio a chredu,
Yn y prynwr mawr *Chriſt Jeſu*.
Porth y nef ſydd lêd agored,
Ddydd a nos heb arno gaued,
I bob gradd o gywir Griſtion,
Ac y gretto ynddo'n ffyddlon.
Ni bydd ſon byth am ein beie,
Na'n drwg nattur, nae'n pechode:
‖ *dynir allan.* Hwy ſaddeuwyd, ac hwy ‖ *flotir*,
A gwaed *Chriſt* i maes o'r Llyfyr.

*Chri*

*Chriſt* a'n golchodd o'n pechodau,
*Chriſt* a brynodd ein eneidiau
*Chriſt* a'n † dwg i deyrnas nefoedd
Nyni biau'r maint y brynodd.
O molianwn ninne'r yr Jeſu
Ddydd a nos am iddo ein prynu,
Ac na anghofiwn tra chwyth ynom
Faint o bethau wnaeth ef erddom.
Clôd o gallu mawl a moliant
Gwir anrhydedd a gogoniant,
Y fo i'n Prynwr mawr a'n Pen,
A ddvreded nef a daiar, *Amen.*

† *ſef oſufudd-hawn idde.*

*Heb.* 5. 9.

---

### *Cynghorion i'r Sawl a ddymunai gael ffafr Duw, a maddeuant Pechodau.*

PWy byna geiſio madde
Ei bechod a'i droſodde
A chael pardwn gan Dduw gwyn
Rhaid dilyn hyn o werſe.
Yn gynta adde'th bechod
Yn ‖ brudd o flaen y Drindod
Na chais gelu dim rhag Duw,
Does dim nad yw'n ei wybod;
Gwedyn prawf ddeallu
Pa ddial wyt ti'n haeddu,
A pha angeu ‡ didrangc maith
Am dan dy waith yn pechu.
A deall fod dy foie,
Yn haeddu uffern boene;
Gwedyn cais a chalon driſt
Gan Dduw er *Criſt* ei madde.
A dyſc yn brudd gydnabod,
Nad oes o flaen y Drindod,
Iawn am bechod ond gwaed Chriſt
Ai angeu triſt a'i uſudd-dod.

*Dib.* 28. 13.
‖ *Oddifrif.*

*Rhuf.* 6. 23.
‡ *Tragwyddol.*

*Joel.* 2. 13.

*1 Pet.* 1. 18. A chred i'th Brynwr Jeſu
19. Yn gwbl gyflawn dalu,
*Mat.* 20. 28. Ar y groes yn ddigon drûd
Am feiau'r byd ſy'n credu:
*Mat.* 3. 17. A gwybydd fod Duw'n' fodlon
Yr iawn y wnaeth *Chriſt droſom*
Ac er ei fwyn yn barod iawn,
Roi pardwn llawn i'r ffyddlon.
A chred y madde i tithe
*Jo.* 3. 16. Dy bechod ath droſedde,
*Heb.* 8. 12. Ond it geiſio er mwyn *Chriſt*,
*Jo.* 14. 14. A chalon driſt eu madde.
Na chytcam geiſio celu
Mor Pechod wyt ti'n garu;
Adde'r cwbl ger bron Duw,
Peth ofer yw ei wadu.
1 *Cor.* 11. 13. A barn dy hun yn euog,
O flaen yr Holl alluog,
† *Barn.* Fel na'th farner ar dydd † brawd
Ar goedd trwy wawd digaſſog.
Alara am dy bechod,
*Jac.* 4. 9. Yn ol ei weld a'i nabod;
10. Ac ymofidia nos a dydd,
§ *Ddifrifol.* Nes i ti'n § brudd ei wrthod.
Gwna'r galon brudd ochneidio,
A'r llygaid ddyfal wylo;
A gwna i'r yſpryd brudd driſthau
Edifarhau a mwrno.
|| *Galaru,* A chais gan Dad goleuni
*Ezec.* 36. 26. Roi calon dyner i ti;
Ac ymofidia ymbell awr,
Am dan dy fawr drygioni.
Na orphwys byth yn ceiſio
Nes cael gan Dduw dy wrando,
A rhoi calon it driſthau,
Edifarhau ac wylo.

Yn ol it ſwrno ennyd, *Pſal.* 119.
  Am dan dy bechod oflyd, 114,
Dala afel tra fech byw *Mat.* 5. 4.
  Ar brommais Duw ai 'ddewid,
Mae Duw'n ei air yn addo,
  Ddiddannu rhai ſo'n † mwrno ‖ *galaru.*
A rhoi hefyd bardwn clir
  I bawb y wir ‖ repento. § *edifarhau.*
Repenta'th fywyd anllad
  A chred yn *Ghriſt* dy geidwad ; *Luc.* 13. 5.
Gâd dy feiau tra ynod chwyth *Jo.* 3. 16.
  Ni chollir byth o hanod. *Eſa.* 55. 7.
Mae Duw yn addo helpwr
  A cheidwad a diddanwr, *Eſa.* 35. 4.
I beb dyn difeiriol triſt,
  Sef *Jeſu Griſt* dy brynwr. *Eſa.* 1. 16,
Mae Duw yn addo madde, 17, 18.
  Dy bechod ath droſſedde
Ath olchi'n lân o'th frynti i gyd
  Ond gado ym mhryd dy feie,
O byddi di difeiriol,
  Mae'n addò bod yn raſſol *Jer.* 3. 12.
Diddig, tirion, mwyn, a † ffri
  A byth a thi'n heddychol. † *Hael.*
Mae'n addo dy lwyr olchi *Rhuf.* 5. 1.
  Oddi wrth dy feie ath frynti,
Yngwaed ei fab (o cofia hyn)
  Ath droi mor wynn ar Lili.
Dal afel ſiwr fel Chriſtion
  Ar hyn o addewidion.
Nef a daer ant heibio (clyw)
  Cyn torro Duw bromeiſion, *Mat.* 2[illegible]6.
Caſa dy bechod oflyd,
  Fel neidr gas wenwyn-llyd,
Sy'n ceiſio'th ladd o gyſgod llwyn *Rhuf.* 12. 9.
  Dan gêl, a dwyn dy fywyd.

Na ddere ir man lle gallo.
Dy bechod taer dy hudo!
*Dib*. 4. 14, Paſio heibio, neu dro'n d' ôl,
15, 16. Na ddos fel ffôl ith demptio.
Os doi a draws y neider,
*Dib*. 6. 27. A cholyn hon ſeth frathir;
28. O doi'n rhy agos at y tân,
Medd Scrythur lân ſeth loſcir!
Gan hyn ymgadw arnad,
Rhag tramwy lle bo'r temptiad!
2 *Pet*. 2. 20, Gwell it droi na mynd ir mann,
21, 22. Nid wyt ond gwann ac anllad.
Na thro at bechod eilwaith
Fel cî neu fôchyn diffaith,
Y rêd ir dom yn frwnt ei fri,
Yn ol ymolchi unwaith.
*Dib*. 24. 1. Na ddilyn ddrwg gyfeillach,
* *Yrro*. Ath † helo'n ffolach ffolach.
Ni thâl ceiſio troi at Dduw:
Nes gado'r cyfryw ffrythnach.
A glyn wrth bobol dduwiol
‖ *Graffa*. A ‖ Marca eu ymddygiad graffol,
*Pſ*. 119. 63. Da a difyr yw'r fath wyr,
*Phil*. 3. 17. Ith ddwyn ir llwybyr nefol.
*Pſ*. 51. 10. A chaiſt gan Dduw trwy weddi
Dy droi oddiwrth drygioni.
Ath gyfrwyddo tra fech byw,
I garu Duw a'i ofni.
A nad ir fall dy ddallu,
Ath annog mwy i bechu.
‡ *Sathra*. * *Damſſing* Satan dan dy draed,
*Rhuf*. 16, 20 Trwy rinwedd gwaed yr Jeſu.
Na ddere at y meddwon,
Rhag newid dy arferion,
Fel y newid y mor glâs
A heli flas yr afon.

Ym

Y mâd a phob cyfeillach ;
Ath helo'n annuwiolach :
Tynn oddiwrthynt, caſa eu ffyrdd,
Sef § pitch y nyrdd dy gadach: § *Pyg.*

---

*Cyngor i gredu yn Ghriſt, a dangoſſiad o'r newidiad rhyfeddol ſydd yn y Dyn a gretto.*

CRêd yn Ghriſt, llef am dy geidwad,
Mae Duw'n cynnig Chriſt i fagad ;
Derbyn Ghriſt pan y cynnico,
Onis gwnei ti ſyddi hebddo.
Y dyn a gretto yn Ghriſt yn * brudd, * *oddifrif.*
Trwy galon rwydd a bywiol ffydd,
Mae Chriſt yn rhoi i hwnnw râs,
fyw fel Sant o hynny maes.
Mae Chriſt yn rhoi ei yſpryd iddo,
ail eni, a'i ail lunio,
Ai lwyr droi yn ddyn o newydd,
O rebel ffol yn blentyn ufydd.
Mae'n rhoi ei air i wir oleuo, Jo. 7. 39.
Mae'n rhoi ei ras i gynnorthwyo, *Gal.* 5. 22.
Mae'n rhoi ei yſpryd i reoli ;
Mae'n rhoi ei hun yn bob peth i ni.
Nid oes lûn i ddyn wrth hyn,
Y gretto yn gryf yn Jeſu gwyn,
Na chaffo ras a grym oddiwrtho, Jo. 15. 5.
ſyw fel Sant os cred ef ynddo.
Mae crêd yn tynnu gras a gallu, *Act.* 15. 9.
Oddiwrth Ghriſt ir dyn ddifaru,
Am bob bai o'i fuchedd aflan,
A byw fel ſant o hynny allan. 1 Jo. 5. 5.
Oni bydd dy ffydd yn tynnu,
Gras o Griſt i'th adnewyddu ;
Dy ffydd ſydd ffalſt ni thal hi ddimme, Jac. 2. 14.
es tynno hi ras i wellhau'th feiſ,

F Mae

† *Allan.* Mae bywiol ffydd yn tynnu gras,
2 *Cor.* 5: 17. A grym o Ghriſt, O hynny † maes,
I roi heibio bob hen grefydd,
Ac i wneuthur oll o newydd.
Er creuloned a fo'th nattur,
Er bychaned a fo'th ſynwyr;
Cred yn Ghriſt a galw arno,
F' all dy wella'r awr y myno.
Er creuloned oedd y jailer;
Er bod *Saul* yn filain ſceler,
A Manaſſes gwaeth nag hwynte,
Fe wnaeth Chriſt hwy'n ſaint or gore.
Fe'th wna dithe o bechadur,
Offyd, aflan, drwg da nattur,
Yn wir ſant; os credu ynddo,
*Luc.* 7: 39, 50. A thynny gras a grym oddiwrtho.
Fe wnaeth Chriſt, o hen erlidwr,
*Saul* yn ebrwydd yn bregethwr;
Ac o'r wreigin ddrwg dros ben,
Y gigfran ddu, yn glommen wenn.
Cred yn Ghriſt a chalon gywir,
Fe wella Chriſt dy naws ath natur;
O fab ir fall fo'th wna di'n Griſtion,
O elyn Duw yn blentyn graſlon.
Na thyb dy fod yn credu'n gywir,
Oni newid Chriſt dy natur;
Y dyn a gretto yn Ghriſt yn ffyddlon,
Fe newid Chriſt ei ddrwg arferion.
Cenfydd *Saul*, a chenfydd *Zache*,
Cenfydd *Mari Magd'len* hithe;
* *newid.* Di gei weled Chriſt yn * altro,
Buchedd pob dyn dan y cretto.
Er bod *Saul* fel Blaidd y bore,
Cyn credu yn Ghriſt yn difa 'alle;
Fe wnaeth Chriſt cyn canol dydd,
Y Blaidd yn oen, pan drowd ir ffydd.

Cyn i Zache fyn'd yn Griſtion,
Roedd e'n pilio pawb o'r tlodion:
Gwedi credu fe rodd Zache,
Ran ir tlawd o'r maint y fedde.
Er i Fagdlen fyw'n rhyfygus,
Cyn credu yn Griſt a phechu'n rhwyſus
Fe fu *Fagdlen* ar ol credu,
Fyw fel Santes nes ei chladdu:
Felly ditho a newidi,
Dy arferion ond it gredu:
Nes newidiech dy arferion
Nid yw'th ffydd ond * phanſi ffinion. * *Tyb cas.*
Ffydd heb weithred dda'n ei dilyn,
Sydd ffydd farw; ffydd heb eulyn;
Ffydd i'th ddallu, ffydd i'th dwyllo,
Ffydd ſydd barod i'th gondemnio.
Ni bydd tân heb wres lle bytho;
Ni bydd dwr heb wlybrwydd ynddo; *Gal.* 5. 6.
Ni bydd 'fallen dda heb fale;
Na bywiol ffydd heb dduwiol ffrwythe.
Os dywaid un ei fod e'n credu,
Ac heb wella ei feie er hynny, 1 *Jo.* 3. 6.
Nid oes dim ffydd gan hwn, ond ffrôſt; *Heb.* 11.
Yn tywyllo'i hun yn daran doſt.
Ni all dyn ſy'n credu'n ffyddlon,
Lai na gwella ei ddrwg arferion, Jo. 7. 39.
Waith bod Chriſt yn rhoi dân yſpryd, *Gal.* 5. 22.
Ir pechadur 'wella ei fywyd.
Nad dy dwyllo ddryg ddyn aflan,
Lle bo ffydd mae buchodd burlan:
Od yw dy ffydd yn talu ei gweled,
Moes ei dangos wrth dy weithred. Jac. 2. 14.
Onid yw dy ffydd yn fywiol,
Yn dwyn gair a gweithred raſol, Jac. 2. 13.
Nid yw hon ond ffydd mewn enw,
Ffydd na ddichon byth dy gadw,

---

### *Cyngor i ochelyd cwmpeini drwg, &c.*

Y Neb a ſynno ſyw yn ddeddſol,
Yn ol gwllys ei Dad nefol,
*Dih.* 1. 10, Cynta peth ſydd raid i wneuthur,
15. Tynnu o blith y drwg weithredwyr.
*Pſ.* 26. 4, 5. A rhoi i ſynu ddrwg gwmpniaeth,
Yn dragywydd heb ddim hiraeth,
Megis *Moeſen* gwmpni'r *Aiphtiaid*,
*Heb.* 11. 27. *Lot* ac *Abram* y *Caldeaid.*
*Ge.* 12. 1, 4. Fel y tag y gwyg y Gwenith;
Fel y ſura ſineg lefrith,
Fel y nyrdda byg dy gadach;
*Dihar.* 22. Felly 'th naſa ddrwg gyfeillach.
24, 25. Gochel neidir rhag dy frathu,
Gwachel blag rhag dy ddiſethu,
Ac o ceri Jechydwriaeth,
Gochel ddilyn drwg gwmpniaeth.
Tynn o *Sodom* tyred allan,
Rhed o blith y bobol aflan,
Gad oſerwyr cadw d' enaid,
Tynn o blith yr anffyddloniaid.
Tra fu *Foeſen* gyda'r *Aiphtiaid*,
Tra fu *Abram* gyda'r *Syriaid*,
Ni 'mddangoſei'r Arglwydd iddynt,
Nes eu tynnu ymhell oddiwrthynt.
Rho gwmpniaeth plant y fall,
Heibio'n ebrwydd o dwyt gall:
Ni bydd cydfod rhyng Duw'r heddwch
A chyfeillion plant tywyllwch.
2 *Cor.* 6. 15. Gwedyn dilyn brudd gyfeillach,
‡ *Ddiniſtr.* Pobol dduwiol ddoeth ‡ ddiannach,
Rhai a ddyſcant itti adnabod,
*Dib.* 13. 22. Y gwir Dduw a'i ofnu'n waſtod.

Tra fu *Saul* yng hwmhni *Samuel*, 1 *Sam.* 19.
Fe aeth *Saul* yn ſant o gythrel: 24.
Tra fu'n dilyn pobol ddiffaith,
F' aeth y ſant yn gythrael eilwaith.
Dilyn Brophwyd, fe'th oleua;
Dilyn athro, fe'th gyfrwydda;
Dilyn ſant fe'th wna di'n ſanctaidd;
Dilyn ffôl ti ddoi'n ffiaidd.
Gwedy'n canlyn ar dy liniau,
Ar Dduw ddangos i ti lwybrau, *Pſal.* 25. 4.
Ath lwyr droi yn dra awyddus, *Pſal.* 119.
O bob llwybyr traws twyllodrus. 176.
Nes goleuo Duw dy lygaid,
Nes dadfywio Chriſt dy enaid, *Eph.* 5. 8.
Ni chanfyddi ffordd y bywyd,
Mwy na'r dall yr haul wen hyfryd.
Cymmer lantern Duw'n dy law,
I'th oleuo ymma a thraw;
Nid aiff neb i'dir y bywyd,
Heb oleuni'r *Scrythyr* hyfryd.
Gwna'r peth archo'r fengyl itti,
Paid a phob peth na boi'n erchi; Jac. 1. 22.
Hi'th gyfrwydd fyn'd o'r diwedd,
I gael bywyd a thrugaredd.
Gwedyn gwachel yn yſtyriol,
Rhag byw'n ôl dy 'wyllys cnawdol, *Rhuf.* 8. 13.
Nac wrth fôdd dy galon gynnil,
Ond yn ôl goleuni'r fengyl.
Ac os ceiſi gael derchafiaeth, *Pſal.* 128. 1.
Gras a dawn, a iechydwriaeth;
Dewis dilyn cerdd heb golli,
Y ffordd a dyſcor Arglwydd itti.
Hi fydd cyfyng ar y dechre,
A gwrthnebus ith drachwante: *Mat.* 7. 13.
Ar y diwedd hi fydd eſmwyth,
Ith ddwyn at Griſt yn ddiſymwyth. *Mat.* 11. 30.

Ffordd i ddeſtryw ſydd yn waſtad,
Ac yn eſmwyth ei dechreuad,
*Dihar* 14. Ond yn niwedd ffordd annuwiol,
12. Y mae'r pwll a'r ffos uffernol.
*Datc.* 2: 13. Gwedi dechreu'r ffordd trwy rinwedd
*Deut.* 5. 32. Praw ei dilyn hyd y diwedd;
Ac na chyfgam droi oddiarni,
Nes dy ddwyn i wlad goleuni.
* *Daith.* Nid wyt nês er dechreu'r * ſiwrne,
A throi gwedin at dy feie;
Nid oes Bromais gael y goron,
Heb barhau, hyd Angeu'n ffyddlon:
Fe ddechreuodd *Saul* a *Judas*,
*Heb.* 10. 28, Fynd tu ar nêf ar drot fol *Demas*,
29. Waith deffygio cyn diweddu,
*Mat.* 11. 19. F' aeth y tri ir poeth garchardy.
Dilyn Griſt ar air a gweithred,
Troedia'r *ffordd* y fu e'n gerdded;
Gwna'r peth archodd yn y ſcrythur,
Ni throi droedfedd dros y llwybyr.

---

*Golarnad Pechadur.*

O Arglwydd Tâd diddanwch,
Clyw gwynfan a diſeirwch,
‡ *Gyflwr.* Hên Bechadur gwael ei ‡ gas,
Sy'n deiſyf gras a heddwch.
Mi'th ddigiais di mor greulon,
Fy nhâd a'm Harglwydd tirion,
Fel na faidd fy 'nghalon drom
*Luc.* 18. 18. Droi attad o'm golygon.
Gan hynny am pen ir ddaiar,
Fel Publican edifar,
Ir wyf dyn annuwiolaf was,
Yn crio am ras a *ffafar.*

A

A'th ffafar wy'n ei ofyn,
  Er mwyn fy mhrynwr purwyn,
Y fu droſwi ar y groes,
  Yn godde loes eſcymmyn:
Ac oni chaſi Bardwn,
  Er mwyn ei loes ai § Baſſiwn, § Ddioddefaint.
F'orſydd arnai fynd yn boſt,
  I uffern doſt ai Dwngiwn.
Os Arglwydd er yn blentyn,
  'Rwi'n pechu'n doſt ith erbyn;
Heb wneuthur pris oth Gyfraith gaeth,
  Ond byw yn waeth nag un dyn.
Dy Enw mawr y geblais,
  Dy Scrythur a ddirmygais;
A'th Efengyl gywir iach,
  Fel chwedel gwrach y briſſiais:
Y gwerthfawr waed y gollaiſt,
  O'th galon pan i'm prynaiſt,
Wy'n ei dyngu ddydd a nos
  Heb briſio'r loes a gefaiſt.
Dy Sabboth a'th ddydd Sanctaidd,
  Y dreuliais innau'n ffiaidd,
Mewn cyfeddach, meddwdod brwnt,
  A maſwedd tu-hwnt i weddaidd.
Pan fo pawb ar eu gliniau,
  I'th foli nos a borau,
Mewn rhyw dwll yn chwareu'r Cnaf,
  Och! och! y byddaf innau.
Er bod dy Air mor felus, *Pſal.* 19. 10.
  Ar mêl ir enaid iachus,
Chwerwach oedd gen inne ei flas,
  Na'r wermod câs gwrthnebus.
Godineb a Phutteindra,
  Fal un o blant Gomorrah,
Fûm i yn eu ddilyn cyd,
  Nes mynd or byd gan mwya.

I

I Hyfed ai charowſio,
  A ſugno tarth Tobacco,
Fu fy ſwydd dros ennyd fawr,
  Gwae ſinneu nawr ei goſio!
Fy Jeuengctid mewn oferedd,
  Rhwyf, rhyfyg, ceccran, coegedd,
Y lwyr dreuliais gyda mam,
  Heb feddwl am fy niwedd.
Yr y wân er fy niwedd,
  Ni welai'n well fy muchedd,
Na'r pryd gwaetha 'rioed or blaen,
  Os dwedai'r plaen wirionedd.
Gan hynny rwi'n rhyfeddu,
  Pa fodd yr wyt ti'n gallu,
Godde cyd fy mhechod taer,
  Heb bery'r ddaer fy Llyngcu:
Os nid oes mawr o feie,
  O frynti a chamwedde,
Nad wyt ynthynt lawer pryd,
  (Gwae ſinne) hyd y cluſtie.
Oni bai fôd dy nattur,
  Yn raſol tu hwnt i feſur,
Yn uffern goeg, cyn hyn yn rhoſt,
  Y byſſei'n doſt fy nghyſur.
Os Arglwydd 'rwi'n cyfadde,
  I'm haeddu er ys dyddie,
Fyn torri'n gwitt o blith y byw,
  Waith cymmaint yw fy meie.
Ond bai fod dy fawredd,
  Yn raſol tu hwnt, i ryfedd,
Gwann obeithio'n gwit y wnawn,
  Fel *Cain* na chawn drugaredd,
Ond dymma ſ'ym comfforddi,
  Pan byddwi ym-mron ymdorri,
Fod Trugaredd Duw a'i Ras,
  Yn fwy na'm cas ddrygioni,

Fy meiau ſydd cyn amled,
A Swnd y mor er mâned,
Ond dy ras ſydd gan mil mwy;
Na'r mor ſy'n hwy'n amgyffred.
Gan hynny rwi'n ‖ gobeithio,
Lle caſas pechod rainio,
Y caiff dy rwydd ath neſol râs,
Ar bechod cas gongcwerio.
Di fuoſt Dduw trugarog,
I bechaduriaid enwog,
Na fydd waeth i minne am ras,
Bechadur cas anffodiog.
Pan drodd y *Niniſeaid*,
Oddiwrth eu beie afrifaid;
Er cymmaint oedd eu pechod cas,
Hwy gawſant ras eu llonaid.
Er cynddrwg oedd *Manaſſes*,
Y gwaetha 'rioed y glywes;
Fe gas gennyt bardwn mwyn,
Yn ol ei gwyn a'i gyffes.
A Dafydd Brophwyd ynte,
Er amled oedd ei feie;
Pan y llefodd am dy ras,
Yn rhwydd fe gas eu madde.
Fe gafodd *Mary Magdalen*,
Yn ol hir chwareu'r butten,
Wrth wylo'n hallt y dagreu dwr,
Dy ras a'th ffafwr lawen
Pan trodd y mab afradus,
Tuag attad yn ei un crys,
Fè add gwedi chwareu'r ffol,
Dy ras yn ol ei 'wyllys.
A minne ſy'n gobeithio,
Er immi'n doſt dy ddigio,
Y caf er mwyn fy mhrynwr ‡ gwar,
Dy ras ath ffafar etto.

‖ *Y dyn a gretto ac a ddychwelo oddiwrth ei ddrygioni a ddichon obeithio am drugaredd.* Eſa. 55. 7. *Ond barn ſy'n perthynu ir ſawl ſy'n mynd ym mlaen yn eu camwedde.* Pſal. 68. 21.

Pſal. 32. 5.
Luc. 7. 37. *Yr oedd ynddi ffydd a newydd-deb buchedd gyda galar am bechod.*

‡ *Mwyn.*

A'th ffafar wi'n ſegian,
Yn daer, yn dôſt yn druan,
Er mwyn Jeſu nôs a dydd,
Ar dagre o'm grûdd yn * dropian. ** Diſteru,*

O! cofia Arglwydd cyfion,
I Ghriſt ſy Mhrynwr tirion,
Offrwm droſwi yn * ſyr-had, ** Iawn.*
Ar grog pren, waed ei galon.

A chofia iddo dalu,
Dros f' enaid i'r pryd hynny,
Y cûr, a'r poen, a'r angeu, a'r bri,
Ag oeddwn i yn haeddu.

O moes gan hynny bardwn,
Er mwyn ei loes ai ‡ baſſiwn; *‡ Ddioddefaint.*
Ac er ei gûr ai waedlyd chwys,
Na chais ail * Satisffactiwn. ** Iawn.*

Ond maddeu'n raſol immi,
Fy meiau oll a'm brynti;
A golch yn llwyr ſy mhen a'm traed,
Yngwerthfawr waed ei * weli. ** Archollion*

Er bod ſy mai cyn coched. *Eſay. 1: 18.*
Ar pwrpl coch neu'r Scarled,
* Droppyn bach o'i waed er hyn, ** Dafyn.*
A'm gwna mor wyn ar § ſoled. *§ Gwiſc pen gwraig.*

Gan hynny mae ſy hyder,
Ar Griſt, ei waed, a'i ſwynder,
Y caf genyd, yn ddi nag,
Drugaredd ag eſmwythder.

A dwyn at Griſt yn gymmwys,
Fy enaid i Baradwys,
I gael rhan ym-mhlith dy Saint,
O'r nef, ar maint y brynwys.

I hon o'th ras a'th fawredd,
Duw dwg ni oll o'r diwedd,
I'th foliannu byth bob awr,
Am dan dy fawr drugaredd.

Cynghorio

---

## *Cynghorion Duwiol.*

FAnwyl blentyn * dere'n nes, * *Tyred.*
Gwrando gyngor er dy lês,
Prawf i ddilyn tra fech byw,
Os ceiſi fynd i Deyrnas Dduw.
Ofna Dduw tra bywyd ynod;
Parcha ei Enw mawr yn waſtod,
Galw arno a'th holl galon, *Jer.* 29. 13.
Gwrando ei Air, a chadw ei orchmynion.
Cymmair Air Duw yn waſtadol,
Yn Gynghorwr ac yn rheol;
I reoli dy holl fywyd,
Ym-mhob gorchwyl a fo gennyd.
Dyna'r Lantern a'th oleua:
Dyna'r Athro a'th gyfrwydda,
I wachelud pob drygioni:
Ac i'th ddwyn at Dad goleuni.
Gwachel wneuthur mawr na bychan,
Yn ôl d' wyllys ffol dy hunan;
Y mae pechod gwedi * llygru, * *Sef ewyllys dyn.*
Nes cael gras i adnewyddu.
Praw gan hynny ffrwyno ‖ phanſi; ‖ *Dy dyb.*
Ffiaidd gantho bob daioni,
Nes dêl gair Duw i'th gyfrwyddo, *Rhuf.* 8. 7.
Pob peth drwg ſydd felus gantho. *Tit.* 3. 3.
Gwachol bechod er bychaned,
Colyn Sarph ſydd dan ei ſiacced:
Pleſſer byrr a bair hir ‡ alaeth; ‡ *Triſtwch.*
Cyflog pechod yw marwolaeth.
Os cadd Adda gymmaint dial,
Am fwytta tammaid bach o Afal,
Duw pa faint y ſydd dialau,
'Sawl ſy'n byw ar gyfryw † falau. † *Sef pechodau.*

O

* *Digwyddedd.* O * bu Siawns id 'bechu unwaith,
Gwachel byth rhag pechu'r eilwaith;
Nid oes iawn am bechod bychan,
Ond gwaed calon Chriſt ei hunan.
Tro 'ddiwrth bechod na ddymchwela;
Cas yw'r cî a ſwytto ei hwdſa;
Ail yw hwn ir mochyn diffaith,
'El or dwr ir dommen eilwaith.
*Deut.* 1. 37. O dehorwyd *Moſen* ſwynlan,
Am un pecod ſynd i Ganaan;
Bwedd na rwyſtrir pobol ddiffaith?
Fynd ir nef am bechu ganwaith.
Caſa ſalchder megis Neidir;
*Dih.* 16. 18. Ymdderchafo, fe oſtyngir:
Yn ol balchder y daw codwm,
Balch ei droed a drip ir cawdrwm.
1 *Tim.* 3. 6. Os taflodd Duw ar Angel penna,
Am ei ſalchder ir pwll iſſa,
I ble taſlir llwch a lludw,
Y ſalchio'n waeth na hwnnw?
Byth na chwennych wely arall,
Rhwn ai gwnel nid yw ond angall,
*Dih.* 6. 28, Y neb y ſango ar y poeth dan,
29. Nid oes lun na loſco ei wadan.
Os cas *Pharoh* blag mor greulon,
*Gen.* 12. 17. Am chwennych *Sara* yn ei galon;
Pa fath blag a dial caled,
Gaiff y ſawl y wnelo'r weithred?
*Mat.* 5. 27. Gwachel dyngu dim ond ie,
Or diawl y daeth yr ofer lwe;
*Zech.* 5. 3, 4. Melldith Duw fel mwg y leinw,
Y ty lle cablir Duw a'i enw.
* *Y digred.* Os lladdwyd *Senacherib* y * Pagan,
*Eſay.* 37. 34. Am gablu Duw o lêd ei ſaſan,
Bwedd y diangc y Chriſtnogion,
Y gablo Chriſt y gwaed ei galon?

Er dy fywyd parcha'r Sûl,
Dere ir Eglwys gwrando, gwyl, *Ex.* 31. 14.
Galw ar Dduw, a gado'r pottian,
Na wna'r Sûl yn wyl i Satan.
Os pwyodd Duw a'r ſath ‡ ddihenydd, ‡ *Laddfa*,
Y dyn ddydd Sûl am gaſglu briwydd,
Bwedd y pwys bedwar aſcwrn, *Num.* 15. 35
Y dreulio'r Sûl yn waeth na'r Sadwrn. 36.
Na cham attal ddim o'th ddegwm,
Na ddarnguddi ddim o'th offrwm;
Rwytti'n Speilio Duw'r diale,
Wrth ddarnguddio dy ddegymme.
Melldigedig ym-hob rhyw, *Mal.* 3. 8, 9
Ydyw'r dyn a Speilio Dduw: 10, 11, 12.
‡ Stoppi'r nef, ar ddaer, ar llafyr, ‡ *Cauad.*
Y mae pawb or dam ddegymwyr.
Caſa feddwdod yn dy fywyd,
Nid air nef un meddw chwedlyd; 1 *Cor.* 6. 10.
Uffern goeg ſy'n lledu ſafan, *Eſ.* 5. 11,
Am gael llyngcu'r meddw aflan: 14.
Os daeth *Eſau* mor dannodus, *Gen.* 25. 24.
Am werthu fraint am † fes o bottus; † *Phiolaido*
Pa ddannodiaeth ddaw i'r meddw, *Gawl.*
Wertho'r nêf am bot o gwrw?
Na fydd gybydd, na fyn occor, *Deut.* 23. 19
Ciſt ir hael yw'r cybydd † angor; † *Brwnt.*
Y gaiſio'r Tad trwy gybydd-dra, *Dib.* 28. 8.
Mab afradys a'u gwaſtraffa.
Haws i gammel fynd yn fuan, *Luc.* 18. 25.
Ymma a thraw trwy'r nodwyd fechan,
Nag ir cybydd anrhugarog,
Fynd i fewn ir nêf oreurog:
Gwachel dreiſio neb or tlodion, *Dihar.* 22.
Chriſt ei hun yw'r Uſtus cyfion;
Y dreiſio'r tlawd fe big llygad,
Chriſt ei hun y cadarn Geidwad.

1 *Bren.* 21. *Ahab* frenin am ddwyn gwinllan,
*Naboth* ei gymydog truan,
2 *Bren.* 10, A gâdd golli ei frenhiniaeth,
7, 11. Llâdd ei blant a'i holl genhedlaeth.
Os daeth *Difes* dan law Satan,
Am ballu ir tlawd o'i dda ei hunan;
I ba law ddiawl yr a'r Gwyr mawrion,
Sy'n dwyn y maint ſy'n helw'r tlodion:
Gwachel ledrad, gwachel dwyllo,
*Zech.* 5. 2, Ni ddaw ennill byth oddiwrtho:
3. 4. Lle bo lledrad y bydd aflwydd,
Dial Duw, a dyſal dramgwydd.
Os lladdodd Duw holl dylwyth *Achan*
*Joſ.* 7. 24, Am grach guddio lledrad bychan,
25. Oni ddial Duw ar lladron,
Sy'n Dwyn maint ſy'n helw'r tlodion?
Gwachel gadw cam feſſurau,
*Micha.* 6, Yn dy dy nac amryw bwyſau;
10, 11. Ffiaidd cas yw'r dafal anwir,
Ger bron Duw, a'r pwys anghywir:
Maint ennillo dyn trwy ffalſtedd,
Ar y dafal o anwiredd,
Bob ychydig mae e'n goſſod,
Yn y cwd a'r pwrs heb waelod.
‡ *Sef ar gwyro barn.* Byth na chytcam dderbyn ‡ gwabar;
Honno lwngc ſy'th helw o heinar:
Ni ad gwabar Ben na chynffon,
Byth yn helw'r plant ar wyrion:
2 *Bre.* 5. 27. Y claf gwan y gas *Gehezi*,
† *Côd.* Gyda gwabar mewn † bwdgedi;
Am y wabar y mae'n rhigyl,
‡ *Diniſtrio.* Y ‡ handwya hi'r plant ar Eppil.
Gwachel gelwydd trech ar dîr,
Er dy fywyd dywed wir,
*Jo.* 8. 44. Y cythrel brwnt ar wiber lâs,
Yw tâd a mam y celwydd câs:

Os bu farw *Ananias*, *Act.* 5. 5. 10
‡ Too am ddywedyd celwydd atcas, ‡ *Yn ebrwydd.*
A'r wraig hefyd wrth farn Duw,
Caſawn gelwydd tra ſom byw.
Na lyſenwa neb er nam,
Y dwl, na'r dâll, nar cloff na'r cam;
Duw a wnaeth dyn, a'i lun, a'i liw,
Y gablo ddyn ſe gabla Dduw.
Os barna Chriſt ir ffwrnais danllyd
Y neb y alwo ei frawd yn ynſyd; *Mat.* 5. 25.
I ble barna'r neb ſy'n galw
Ei dâd a'i fam, ar gant llyſenw?
Na thâl ddrwg dros ddrwg i un dyn, 1 *Theſſ.* 5. 15.
Os mynni fôd i Dduw yn blentyn,
Helpa, ſwccra dy elynion, *Rhuf.* 12;20.
Na wna gam ag un rhyw Griſtion.
Pa ragoriaeth ſydd rhwng Chriſtion, *Mat.* 5. 46
A'r un gwaetha o'r Iddewon,
Os dai dalu drwg dros ddrwg,
Dant am ddant a gwg am wg?
Gwachel wneuthur drwg ar hyder,
Cael trugaredd pan ith farner:
Felly cei di farn anffafrol,
Fynd tros fyth ir tân tragywyddol. *Deut.* 29. 18 19, 20.
Os gorfydd atteb pan ein barner
Gerbron Duw am bob gair ofer;
B'wedd attebwn, gwae fynghalon! *Mat.* 12. 36.
Am ein drwg a'n câs fargenion?
Na cham arfer un or donie,
Roes dy nefawl Dâd i tithe,
Fe ddaw dydd y gorfydd rhoddi, *Mat.* 25:19. 39.
Am bob Talent gownt a chyfri.
Os taflodd Chriſt i'r twllwch eitha,
Y dyn ai dalent eiſio ei helwa;
I ble taflir § drimbwl drambwl, § *Bendra Mwnwgl.*
Y gwas y dreulio'r ſtoc a'r cwbwl.

‖ *Yn drwſſiadus.* Bydd di barod heddyw heno,
Ag oel ith Lamp, a'th wiſc yn ‖ Gyfrdrô,
Fynd o flaen dy farnwr Prydd,
Y foru o boſſibl ydyw'r dydd.
Os caeodd Chriſt y porth mor ebrwydd,
*Ir ſawl ymron oedd mewn parodrwydd*;
Bwedd y cant hwy borth agored,
S' eb ymgweirio er pan ganed?
Bwrw heibio pob pibyddiaeth,
Meddwl am dy Jechydwriaeth:
† *Mynud.* F' orfydd † paccio pawb iddi yma;
Naill ai'r nef, ai'r twllwch eitha.
Onid aer ir nôs heb ymwthio,
Ac ymdrechu a thraed a dwylo:
B' wedd y *Spidia*'r neb ſy'n credu,
'Rant ir nef wrth chwaro' a chyſcu?
1 *Cor*. 9. 14. Cyn cael cynglwyſt rhaid ymdrechu;
*Mat*. 7. 21. Cyn cael cyflog rhaid gwaſanaethu,
Cyn cael nefoedd mae'n rhaid byw,
Ymma yn gynta wrth 'wyllys Duw.
*Datc*. 2. 10. Ni ry Chriſt i neb moi goron,
3. 12. Ond ymladdo a'i elynion:
Ni ry i neb or geiniog fechan,
*Mat*. 20. 8. Ond y weithio dro'n y winllan.
Ni thal dwedyd Arglwydd, Arglwydd;
Ni cheir nef am eiriau maſſwydd;
Yn Griſtnogaidd f' orfydd byw,
Cyn 'tifedder Teyrnas Dduw.
O herwydd hyn 'rwi'n cynghori,
Pawb a garo'r nef o ddifri,
Fyw'n Griſtnogaidd ac yn buwr,
* *Sicer* Felly cant hwy'r nef yn * ſuwr,
Os daw goſyn pwy a'u cant,
§ *Triſt.* Bugail § chwerw mawr ei chwant,
Rwyſtro'r defaid ym mhob twll,
Ar eu pennau fynd ir pwll.

Cyn

## *Cyngor i wr ieuangc.*

F' Anwyl Blentyn cês dy lythyr,
Serchog, Sanctaidd llawn o Synwyr,
Sy'n dymuno cyngor ffyddlon,
Ith gyfrwyddo i fyw fel Criſtion.
Argoel Grâs yw'th weld cyn Janged,
*Mor fawr dy chwant, mor* || *brudd dy ſyched* || *Ddifrifol.*
I nabod Duw i ddyſcu'r Scrythur,
I ddofi'r Cnawd a * nwyfiant Nattur. * *Drwg chwant.*
I gyflawni dy ddymuniad,
Derbyn hyn o gyngor difrad,
I gyfrwyddo dy holl fuchedd,
O'th febolaeth hyd dy ddiwedd:
Yn dy ieuengctid F' enaid cofia, *Preg.* 12. 1.
Wir waſanaethu Duw gorucha,
Ac addoli dy Greawdwr,
Cyn i wendid waethu'th gyflwr.
Dechre ddyſcu tech yn blentyn, *Dib.* 22. 6.
Nabod Duw a'th Brynwr pur-wyn,
Hoffi Air a chadw ei gyfraith;
Hynny 'th wna yn hen-wr perffaith.
Tempra 'th leſter tra fo'n newydd,
A'r gwin gwyn o dduwiol grefydd;
Fe garoal hyd dy ddiwedd,
A gwyne peraidd dy lân fuchedd.
Planna'n gynar yn dy galon,
Hâd pob grâs a'th wnel yn Griſtion;
Rhag i'r gelyn blannu'r efrau,
Eiſie i hau a hâd Rhinweddau.
Cais flodeuo yn dra chynnar,
Gyda'r Spring fel Almond hygar;
pren na ddycco blodau'r gwanwyn,
Trwy'r cynhaiaf fe fydd difwyn,

Mae

*Ex.* 22, 29. Mae Duw'n gofyn gan ei dylwyth,
O flaen pob peth gael y blaen-ffrwyth,
Ac ni fyn y Duw goruchaf,
Gan ei blant na'r Ail na'r olaf.
Rho gan hynny flaen dy gryfdwr;
I waſanaethu dy Greawdwr;
Ac na ddyro trech yn blentyn,
Flaen ffrwyth d'oes i waſanaethu'r gelyn
Drwg it roddi'r gwin i Satan,
A rhoi i Griſt y gwaddod aflan;
*† I ryngu bodd.* Rhoi dy nerth i † bleſſio'r dryg-wr,
A rhoi 'th wendid i'th Greawdwr.
Melldigedig yw'r dyn ynfyd,
A ro i'r gelyn rym ei fywyd;
Ac na rotho i'w Brynwr diddig,
Ond yr henaint gwan methedig.
Gwachel arfer ddrwg yn blentyn;
Arfer ddrwg a'th nyrdda'n Scymmyn,
Ac a dry yn ail naturiaeth,
Nes yr eloch beunydd waeth waeth.
Os Arferu bechu yn blentyn,
A dibriſio Duw yn llengcyn,
*Jer.* 13. 23. Yn hên nid haws it wella hyn,
** dynion duon.* Nag i'r * Moyrys fynd yn wyn.
Rho gan hynny gorph ac yſpryd,
Yn dy ieuengctid yn dra hyfryd,
I waſanaethu dy Greawdwr,
Ac i ymladd a'th wrthnebwr.
*Dan.* 1: Megis *Daniel* trech yn llengcyn,
Gwrthod win a chwrw melyn,
Ac na ro dy fryd ar foethe,
Ond ar nabod Duw a'i ddeddfe.
*Sam.* 3: Dyſc fel *Samuel* trech yn fachgen,
Sefyll o flaen Duw yn llawen,
Ac ymwrando o *Air* y bywyd,
Beth y ddyweto'r Arglwydd wrthyd.

Fel *Joſias* yn llangc bychan, 2 *Br.* 22. 1, 2.
Rhodia'n union o wyth allan;
A rho'th fryd ar gadw'r gyfraith,
Ofni Duw, a byw yn berffaith.
Dyſc y Scrythyr lan o'th febyd,
Megis *Timoth* yn dra pherffid;
Honno'th wna di'n ddoeth anianol, 2 *Tim.* 3. 15.
Yn griſtnogaidd ac yn dduwiol.
Dôs fel Chriſt bob Sul i'r Eglwys,
Gyda'th Dad a'th Fam a'th Fagwys; *Luc.* 4. 16.
Ac o ddeuddeg oedran F' enaid, *Luc.* 2.
Dechre ymddiddan a'r Doctoriaid:
Gwrando'r fengyl, gwrando'r gyfraith
Dyſc bob un o'r ddau yn berffaith,
A chais fyw yn gynnil gynnil,
Yn ol cyfraith Dduw a'i fengyl.
Mewn tywyllwch 'rwy ti'n rhodio,
Cymmer Lantern Duw'th oleuo;
Heb oleuni'r Scrythur hyfryd,
Nid aer byth i dir y bywyd.
Er bod Duw yn y nefoedd ucha,
Mae yn ei Air a thi'n chwedleua,
Ac yn dangos ei holl 'wyllys,
Yn y Scrythyr itti yn hyſpys.
Edrych dithe yn y Scrythur,
Beth a fyn dy Dduw it wneuthur;
Gwna beth bynnag fo'n orchymyn,
Ac na * fedla fo e'n wrafyn. * *Na wna.*
Gwachel dorri'r Pwngcie lleiaf,
O holl gyfraith Dduw goruchaf, *Rhuf.* 6. 23.
Y mae lleia'n haeddu Angeu, *Deu.* 18. 15.
Melldith Dduw a didrangc boeneu. *Ezek* 18. 4.
Fe fyn Duw y barnwr cyfion, *Damnedigaeth.*
Am bob pechod y wnel dynion,
Naill ai * angeu'r dyn a becho, * *dioddefaint*
Neu angeu Chriſt yn daliad droſto:

Ac lle pechaiſt fil o weithie
*Act.* 3. 19. Yn erbyn Duw nes haedde angeu,
Edifara am bob pechod,
*Dih.* 28. 13. A chais bardwn gan y Drindod.
Adde'th bechod ger bron Duw,
Fawr a bychan o bob rhyw:
Ac 'mofidia am dy wegi,
Nes maddeua'r Arglwydd itti,
* *Drwg-* Edifara am dy wendid
*Chwantau.* A'th holl * nwyfiant yn dy ieuengctid
*Luc.* 13. 3. Oni wyli'r dwr yn heli,
Duw a'th farna am y rheini.
*Jer.* 31. 19, Ni chadd *Ephraim* nes cwilyddio
20. Ni chadd *Dafydd* nes ochneidio,
*Pſal.* 32. 5. Fadde nwyfiant ieuengctid iddyn;
Nis cei dithe nes eu canlyn.
Gwachel oedi hyd y foru
Rhag it farw heno wrthgyſcu
Ac i'r Angeu glâs dy luſgo
I'r farn yn llangc, cyn ymgweirio.
Mae yn uffern fil o filiodd
O wyr Ifaingc y bwrpaſſodd
*Yn* eu henaint brudd ddifaru,
Heb gael harfod wneuthur felly.
Edifara 'nawr gan hynny,
Ni wyddus pwy a fydd y foru,
Cymmer Barchell tra cynniger,
Rhag nas caffech pan y ceiſier.
Ac lle'rwyt ti'n pechu beunydd,
Edifara bob ddiwedydd;
Rhag i'r dwr ſy'n ſio'n ſceler,
* *ddiſpyddu.* Eiſie ei * blwmpo ſoddi'r lleſter.
Gwedi gwir ddifaru unwaith;
G[illegible]chel nyrddo'th draed yr eil-waith;
Na tiro'r hwch'r dommen,
A'r ei i fytta'th hwd drachefen.

O

Ond cais ddilyn buchedd newydd *Eph.* 4. 22,
Trwy Sancteiddrwydd a gwir grefydd, 23, 24.
A chall dreilio'th einioes fechan, 1 *Pet.* 1. 14,
Mewn duwiolder grudd ac ofan. 15, 18;
Dod daſg arnad nos a bore
Foli Duw ar ben dy linie:
Nad i ddiwrnod ſyned droſod *Pſal.* 55. 17.
Heb addoli'r Sanctaidd Drindod.
Ac i'th helpu fynd yn dduwiol,
I orchfygu nwyfiant cnawdol, *Pſ.* 19. 7, 8;
Cymmer gyfraith Dduw i'th ddyſgu *Rhuf.* 8. 13.
A'i lan yſpryd i'th gyfnerthu. 14.
Cyfraith Dduw ſydd daran rymmus
I droi'r Enaid cyfeiliornus, *Pſal.* 119. 9.
Ac i roddi dyſg a deall 99.
I'r rhai Jeuaingc annoeth angall;
Gwna beth archo'r gyfraith i ti,
Gwrando'r cyngor mae'n i roddi:
Os dilyni'r gyfraith gyfion,
Hi'th wna'n ddoethach na'th Athrawon,
Cadw afael ſiccir ynddi,
Plyg dy war ymoſtwng iddi,
Hi rydd ras a pharch a phower,
O'i chadw hi mae gwobor lawer.
Os arferu fyw yn berffaith *Pſal.* 19. 11.
Nawr yn llangc yn ôl y gyfraith
Fe fydd hawdd trwy fawr lawenydd,
It fyw'n ſanctaidd yn dragywydd.
Anrhydedda Dduw dy Dade, 1 *Sa.* 2. 30.
Duw a'th anrhydedda dithe:
Os dirmygu di i waſanaethu
Fe ddirmyga dy ddiwallu.
Os gwaſanaethu Dduw yn blentyn,
Duw'th waſanaetha dithe'n hen ddyn;
Ac a bair i'r brain dy borthi,
Cyn bo arnad fawr galedi. 1 *Br.* 17

Ni'th ddanſonwyd i'r byd ymma.
I waſanaethu'r byd na'r bola;
*Eſay.* 43. 7. Ond i waſanaethu *Duw* yn weddaidd,
Fel y gwna'r Angelion Sanctaidd.
*Pſ.* 139. 18. Pan y codech gynta o'th wely,
Coſia Dduw a chwymp i waſanaethu,
Ac na ddos o'th ſtafell allan,
Nes i addoli a pharch ac ofan.
Er Maint a fo dy ſuſneſſion,
§ *Goſidiau.* A'th § glamawri a'th orchwylion:
Na ddod law ar un o'r rheitia,
Nes addoli Duw yn gynta.
Ni bydd llwyddiant, ni bydd llonydd,
*Jer.* 10. 25. Ni bydd comfforddd, na llawenydd,
Lle bo trafferth o bob rhyw,
Heb ddim pris am foli Duw.
*Dan.* 6. 10. Er bod buſnes fawr gan *Ddaniel*,
Yn y cwrt dan Frenin Babel,
Tair gwaith beunydd y gweddie,
Yn ei ſtafell ar ei linie.
Pan yr elech o'r drws allan,
At un gorchwyl fawr na bychan,
|| *Oddifrif.* Cais gan Dduw dy || brudd fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.
Fel y llwyddodd Duw orchwylion,
*Gen.* 39. 3. *Joſeph* gynt a *Daniel* dirion;
*Gen.* 6. 3. Felly llwydda d' orchwyl dithe,
Os gweiddi arno'n ddie.
Ple bynna bech, beth bynna wnelech,
Ai da ai drwg y mann y mynnech,
Duw 'mhob man ſy'n diſgwyl arnad,
*Pſ.* 119. 7. Gwachel bechu yng-wydd ei lygad.
Gwna i eraill bob daioni,
*Mat.* 7. 12. Y dymunyd wneuthur itti,
Na roi arall waeth feſure,
Nag a ſynit roi i tithe.

Na wna weithred er dy gyffro,
Na bo Duw yn warant iddo,
Ac na allech yn ddiwawd,
Gyfri am dano ar ddydd § brawd. † *Barn.*
Gwna'r Duw byw yn wir Dduw itti,
Ac yn ‡ garcus cais i addoli; ‡ *Ofalus.*
Galw arno, a molianna, *Pſal.* 34. 10.
Felly yn waſtad fo'th ddiwalla.
Gwachel gymryd ar un amſer,
Enw'r Arglwydd mawr yn ofer,
Canys nid gwirion gantho hwnnw,
Gam arferu ei ſanctaidd enw.
Treulia'r Sabboth oll yn llwyr,
Mewn ſancteiddrwydd fore a hwyr,
Ac na da ddyro ran na chyfran, ‡*Ryn, u bedd*
O ddydd *Duw* i ‡ bleſſio Satan.
Anrhydedda dy Rieni, * *llawenha*
Parcha * llonna ſwccra rheini;
Felly heſtyn Duw dy ddyddie,
Ac y parcha d' eppil dithe.
Gwachel gytcam ddigalonni, *Dib.* 16. 18.
Na rhoi ammarch i'th Rieni; *Di.* 30. 17.
Odid gweled diwedd dedwydd, 1 *Th.* 4. 3, 4.
I Ferch falch neu fab anufydd. 1 *Cor.* 6. 15.
Gwachel rhag godineb ffiaidd,
Cadw'th gorph yn leſter ſanctaidd;
Ac na wna er golud Rhufain,
Aelod Chriſt yn Aelod puttain.
Gorwedd gyda'th wraig dy hun,
Na chais arall wrth dy ‡ wyn, † *Chwant*
Ac na chytcam wneuthur Temel, 1 *Cor.* 6 19.
Yſpryd Duw, yn wal i'r cythrel. *Eſa.* 28. 1. 7
Er mwyn Jeſu gwachel feddwdod, 8.
Gwaeth yw hwn nag un rhyw bechod, Dihar. 23.
Mae'n troi dyn i gyflwr cythrel, 29. &c.
Ugain gwaeth nag un anifel.

*Matt.* 22. 39 Car a'th galon bob rhyw Ddyn
Fel y carech di dy hun;
Ac na wna i un dyn niwed,
Ar air meddwl nac ar weithred.
*Gal.* 6. 13. Gwna i bob dyn ore ac allech,
Gwna yn ffyddlon yr hyn y wnelech,
Ond na chytcam er mwyn un dyn
‖ *Yngwabardd* Wneuthur dim a fo Duw'n ‖ gorafyn:
Gad i gyfraith Dduw'th reoli
Deut. 5. 32. Ym mhob gorchwyl y fo i ti:
Nid oes un rhyw orchwyl perffaith,
Ond yr un ſy'n ol y gyfraith.
‡ *Sicr.* Cofia f' enaid nad oes gennyd
Ddydd ſiertennol ar dy fywyd,
Treulia bob dydd mor ddigamwedd
A pha bae ef ddydd dy ddiwedd.

---

### *Cyngor i waſanaethu Duw.*

*Llwyddiant daiarol a Rhydd-had rhag aflwydd bydol y gaiff y duwiol cyn belled ac y bo hynny er dai-oni iddyn*[illegible]

Y Sawl y ſynno gael eſmwythder,
*Llwyddiant heddwch, cyfoeth, cryfder,*
Parch a ffynniant tra fo'nt byw,
Cwympent i waſanaethu Duw,
Y neb a ſynno ddiaingc hefyd,
Rhag trallodion toſt ac adfyd,
Nychdod, niwed, anhap, aflwydd,
Cwympent i waſanaethu'r Arglwydd.
[illegible]yled pob dyn tra fo byw,
[illegible] prudd waſanaethu Duw,
[illegible]lwyr gadw ei orchymynion,
*Pſal.* 34. 10. A[illegible] pryd o wyllys calon.
1 *Tim.* 4. 8. Rhoſtia gorchwyl, penna gweithred
‡ *Gweddill* Mwya ei ennill gore ei ‡ warged,
‡ *Oddifrif* Siwra ei wabar tra dyn byw,
Ydyw ‡ prudd waſanaethu Duw:

Dyna'

Dyna'r unig waith a bwyntiwyd
I bawb wneuthur pan ein creuwyd;
Dyna'r gwaith y gorſydd cyfri
Doſta am dano ddydd ein ‡ didri.

*Beth yw Gwaſanaethu* Duw

Gwrando'r gair a chadw'r Gyfraith,
Credu'r ſengyl yn ddiragraith,
Byw yn ol ei gwir oleuni,
Yw gwaſanaethu Duw o ddifri.
Gwneuthur y ſo Duw'n orchymyn,
Gwechlyd 'r hyn a ſo e'n wratyn
Dilyn ei Air tra ſom byw,
Ydyw gwir waſanaethu Duw.
Dau ryw o waſanaeth ffyddlon
Y ſyn Duw ar law pob Chriſtion,
Un trwy ffydd a chreſydd dduwiol,
Llall trwy ſoes a buchedd raſol.
n greſyddawl rhaid ei waſnaethu,
Trwy wir greſydd ai foliannu
Yn gyhoeddus, ac yn ddirgel
Yn y ty, ac yn y Demel;
Yn yr Eglwys yn gyhoeddus *Lev.* 23. 3.
Ar bob Sabboth yn dra pharchus *Luc.* 4. 16.
Gyda'r dyrfa ar ein glinie *Act.* 20. 7.
Ag un galon, ac un gene.
Ar ddydd gwaith mewn ſtafell ddirgel
Gydâ'n tylwyth fel mewn Temel *Mat.* 6. 6.
ore a hwyr trwy [illegible] arno, *Act.* 10. 30.
Gwrando ei Air, a'i wir fendithio. *Deut.* 6. 7.
Rhaid gwaſanaethu Duw yn foeſawl, *Joſ.* 24. 15.
Trwy lân fuchedd tra chriſtnogawl; *Jer.* 10. 25.
Ym-mhôb mann, ac ar bôb achos,
Hyd yr awr ddiwaetha o'n heinioes.
Rhaid yw byw yn ddi-eſceulus
Yn ol cyfraith Duw ai 'wllys
Nid yn ol ein * ffanſi'n hunain
Os gwaſnaethwn Dduw yn gywrain.

‡ *Cyfyngder,*

* *dychymig*

Rhaid yw dilyn buchedd ddeddſol,
Yn ol wllys ein Tad nefol,
Luc. 1. 74, A rhyngu fodd, tra ſom ni byw,
75. Os ceiſiwn wir waſanaethu Duw.
Y neb na waſnaethe *Dduw* yn brûdd,
Yn ol ei Air trwy fywiol ffydd:
Rhuf. 14.23 Ni all hwnnw gwnaed ei orc,
Byth fodloni *Duw* a'i Foeſe.
Mat. 22. 37. *Duw* y fyn i bob rhyw Griſtion,
Ei waſanaethu a'i holl Galon,
A'i holl enaid, a'i holl feddwl,
A'i Aelodau oll a chwbwl.
Rho dy Gorph yn aberth bywiol,
I waſanaethu dy Dad nefol:
A rho d' anwyl Enaid hefyd,
Iw Addoli ef yn hyfryd.
1 Cor. 6. 20. Chriſt a brynodd Gorph ac Enaid
Ar y groes a'i waed bondigaid;
Mae e'n diſgwyl cael ei Addoli,
Genym a phob un o'r rheini.
Ni fyn *Duw* ein Tad galluog,
Un gwaſanaeth dau hannerog:
Ond fe fyn ei Addoli'n hyfryd,
Gan bob Gwas a'r Corph a'r yſpryd.
*Yſpryd* ydyw Tad trugaredd;
Joan. 4. 24. Ac mewn yſpryd a gwirionedd,
Dih. 23, 26. *Y* mae yn gofyn ei addoli,
O'r tu mewn a chalon wiſci.
Ofer rhedeg dros badere,
‖ Allan. O'r tu † faes a geirie'r Geno,
*Oni* bydd y Galon hefyd,
*Yn gweddio yn yr yſpryd.*
Nid oes mann ar Gorph un Chriſtion,
Tu fewn, tu faes, yn oed y Galon,
Na fyn *Duw* ei lwyr Gyſſegru,
Oll a chwbwl iw waſanaethu.

Er bod Satan weithie'n fodlon,
Gymryd gennym ran o'r Galon,
Ni fyn Chriſt na phen na ſowdwl, *Mat.* 22. 37
Oni chaiff ef oll a chwbwl.
Rho dy Enaid iw fendithio,
Ac i orfoleddu ynddo:
Rho dy yſpryd i gydnabod, *Pſal.* 10. 3; 12.
Faint o bethau wnaeth ef erddod.
Rho dy fryd ar bethau neſol,
Ac na ſercha ddim daiarol:
Meddwl am y wlad y gorfydd, *Col.* 3. 2.
Aros ynddi yn dragywydd.
Rhoi dy gorph a'th holl Aelodau.
Fawr a bychan yn eu graddau,
Bod yr un mewn gweddaidd gyflwr,
I waſanaetheu dy Greawdwr. *Rhuf.* 12. 1;
Rho dy Galon iw bur garu,
Yn ddiragrith, a'i waſanaethu:
Ac i lynu'n ddyſal wrtho,
Gan roi llwyr ymddiried ynddo.
Rho dy Dafod iw Glodfori,
Dydd a nos ar eitha o'th allu; *Pſal.* 51. 15;
Ac i ddatcan i Ddaioni,
Ym-mhob tyrfa delech iddi.
Rho dy lygaid i * attendio, * *ddal ſulw.*
Ac i ddyfal ddiſgwyl arno,
Gan eu edrych tua'r mynydd, *Pſ.* 121. 1, 2.
O'r lle daw dy holl lawenydd.
Rho dy Gluſt i wrando'n barchus, *Jac.* 1. 19.
Ar ei Air, a'i Arch, a'i 'wyllys,
Ac i dderbyn yn ddiſigil,
Addewydion yr Efengyl.
Rho dy Ddwylo yn awyddus, *Deu.* 11. 11;
I bob Gweithred ſydd ddaionus,
A chyfranna ei fendithion, *Eph.* 4. 29;
Wrth eu rhaid i'th frodyr tlodion.

Rho

*Pſal* 94. 6. Rho dy Liniau iw addoli,
Ac i'm oſtwng iddo o ddiſri,
Gan roi parch ac ofan iddo,
Pa le bynna galwech arno.
Rho dy draed i droedio ei lwybrau,
Ac i rodio'n ffordd ei ddeddfau;
Ac i dramwy yn Griſtnogaidd,
Iw Lys ai Demel barchus Sanctaidd.
*Joſ.* 22. 6. Rho dy enaid Rho dy yſpryd,
Rho dy gorph a'th galon heſyd,
A pheb peth ag y ſydd ynod,
Ddydd a nôs i foli'r drindod.
Parch * Anrhydedd, union olyd,
Gwir ddyrchafiad, Hir oes iechyd,
Heddwch, ffynniant o bôb rhyw,
Y geir o wir waſnaethu Duw.
Dôs lle mynnech, doed y ddelo,
Gwnaed pôb gelyn waetha ag allo,
Yn ddigonol di gei ſyw,
Os ti a wir waſnaethu Dduw.
Yn y dref ac yn y wlad,
Ar bôb gorchwyl di gei rad,
A gwir lwyddiant ar y ſeddu,
Os yr Arglwydd a waſnaethu.
Bydd dy Faeſydd dy Winllan,
Bydd dy Letty, bydd dy gorlan,
Yn dra ffrwythlawn, heb ddim aflwydd,
Os ti wir waſnaethu'r Arglwydd.

* *O achos bod y duwiol yma mewn llawer o bethe'n llithro ac o achos bod Duw yn profi eu ffydd, a'u hymynedd hwynt y maent hwy fel eraill yn ſymych, heb anrhydedd, iechyd a golud bydol; a megis* Job *mewn adſyd: Ac o achos bod Duw trwy ei ddaioni y ceiſio arwain rhai i edifeirwch, y mae'r drwg weithie fel* Dive *yn y byd hwn yn anrhydeddus ac yn gyfoethog? fel na ddicho dy'n gaſglu oddiwrth ei lwyddiant neu aflwyddiant bydol, p'u ai da, ai drwg ydyw ſo.*

1. Duw a'th wnaeth yn ddyn deallus,
*Rheſymau* Ar ei lûn ei hun yn weddus:
Rwyti'n rhwym i waſnaethu'n ffyddlon
Am dy wneuthur felly'n Griſtion. 2. Chri

2. *Chriſt* a'th Brynodd o law Satan,
A'i wir waed, ac nid ac Arian,
Am i Griſt mor brid dy brynu,
Rwyt ti'n rhwym ei brûdd waſnaethu.
3. Duw a'th borthodd yn ddigonol,
O'r Grôth hyd yr awr breſennol,
Am dy Borthiant, os yſtyri,
Rwyt ti'n gaeth i wir Addoli.
4. Di Addewaiſt yn dy Fedydd,
Wir waſnaethu Chriſt yn ufydd:
Oni waſnaethu Dduw fel Chriſtion,
Rwyti gwedi tyngu'n udon.
5. Duw a wnaeth i bob Creadur.
Dan y nef d' waſnaethu'n bryſſur:
Rwyt ti'n gaeth ar ben dy linie,
Am y rhain i'waſnaethu ynte.
6. Duw a wnaeth ir Byd gweledig,
Brudd waſnaethu *Dyn* yn ‖ yſtig,
Fal y gallei'r dyn a'i ryw,
Ynte'n * brûdd waſnaethu Duw.
7. Y dyn a anghofio waſnaethu Duw,
Yn ei radd, tra fyddo byw,
Mae'n anghofio'r gweithred mwya,
Bwyntiodd *Duw* i wneuthur yma.
8. Nefoedd, daiar dwr, Angelion,
Adar, Pyſcod, Bwyſtfil gwylltion,
Ac ymluſciaid o bob rhyw,
Sy'n ei gradd yn moli *Duw*.
Nid oes un o'r holl greaduriaid,
Gwyllt na dóſ, na dwl na diriaid,
Heb waſnaethu *Duw* trwy fawl,
Ond yn unig dyn a diawl.
9. Cywilydd Gwradwydd maes o feſſur,
*Ydyw* gweled pob creadur,
*Yn Gwaſnaethu Duw yn ffyddlon*,
A'i ddibriſio gan blant dynion.

‖ *Oddiſrif.*

* Diwyd.

10. B'wedd

B'wedd y cyſyd dyn ei ben,
Pan ddwetto Chriſt o'r Orſedd wen,
Nad oes neb yn ei waſnaethu,
Waeth na'r dyn y fu e'n brynu.
Mae mwy dyled ar bob Chriſtion,
Lwyr waſnaethu *Duw* yn ffyddlon,
Nag y ſydd ar un Creadur,
Ac y wnaeth *Duw* dan yr awyr
Nid â i Uffern un Creadur,
Gyda'r Diawl i'r poen diteſſur,
Onid Dynion gwaetha eu rhyw,
Eiſie gwir waſnaethu *Duw*.
Rhag i tithe ſynd i † frwylian,
I dân Uffern gyda Satan,
Nag anghofia tra ſech byw,
Ym mhob man waſanaethu *Duw*.
Enoch *am waſanaethu Duw*,
Y gâdd fynd ir nêf yn *ſyw*,
Yn ei gnawd ai wir gorpholaeth,
Cyn cael gweled dim marwolaeth.
*Noah* am wir waſanaethu'r Arglwydd,
Gadd ei gadw yn ddi dramgwydd,
Yn yr arch, a'i Dylwyth hefyd,
Pan y ſoddodd *Duw* yr holl fyd.
*Abram* y gâdd barch a golud,
Eſaſar *Duw* ac *Iſaac* hefyd,
Holl wlad *Canaan*, au Thai mawrion,
Am waſanaethu *Duw* yn ffyddlon.
*Iſaac* yntef am fendithio,
*Duw*'n y maeſydd wrth ſyfyrio,
Y gadd lafur ar ei ganfed,
Gan yr Arglwydd am ei Weithred.
*Joſeph* ddiwair am waſanaethu,
*Duw* a phaidio godinebu,
Gas ei dynnu maes o'r dwngiwn,
A'i roi'n ben ar wlad y Sibſwn.

† *Lloſci.*

* *Er nad oes neb yn haeddu trugaredd a bywyd tragywyddol am eu gwaſanaeth; am fod ein Gweithredoedd goreu yn amherffaith etto y mae gwaſnaethwyr* Duw *i gael hynny oll am fod* Duw *ei gariad ai ras er mwyn Criſt wedi addo hynny iddynt.* Eph. 2, 7, 8, 9.

*Joſu*

*Joſuah* tymmus ynte am lynu,
Wrth yr Arglwydd a'i waſnaethu,
Y gadd ennill Brenhiniaethe,
A phob Tir a Gwlad a gerdde.
Hên *Elias* y gadd ei borthi,
Gan y Cigfrain yn ei dlodi,
Ai ddwyn ir nêf mewn * *Coits* danllyd, * *Cerbyd.*
Am waſnaethu Duw yn ei ſywyd.
*Shadrach, Meſach, Abednego,*
Am waſnaethu Duw ei gofio,
A waredwyd yn dra hyfryd,
O'r tan poeth a'r ffyrnes danllyd.
*Daniel* am waſnaethu'n uſydd,
Duw'n ei Stafell dair gwaith beunydd,
Y gadd ddiange rhag y Llewod,
A'i waredu * maes o drallod. * *Allan.*
Pwy erioed a wnaeth waſanaeth,
Ir gwir *Dduw* heb wabar helaeth?
Pwy a danodd ei ogoniant,
Na chadd gantho barch o ffynniant?
Ni agorodd un dyn etto, Deut. 28.
*Ddrws ei Demel heb ei wabro,*
Ac ni nynnodd un offeiriad,
Dan yr Allor heb lawn daliad.
Ni ry un dyn byth gwppanaid,
Er ei ſwyn o ddwr i'r Gweiniaid,
Ac ni chaiff ei wabar gantho, *Mat.* 10. 42.
Ar ei ganfed medd Sant *Mattho.*
Gore Meiſtr iw waſnaethu
Mwya ei barch yw'r Arglwydd Jeſu,
Goreu'n talu taliad ffyddlon,
Am waſnaethu i'w holl weiſion.
Meiſtr graſol meiſtr grymmus,
Meiſtr † rhial gogoneddus, † *Rhagorol.*
Meiſtr y wna ei holl weiſion, Datc. 1. 8.
Yn Offeiriaid a Thwyſogion.

Meiſtr a wna iddynt eiſte,
Yn y nefoedd mewn cadeirie,
Mewn eſmwythder a dedwyddwch,
Mawr ogoniant a thialtwch.
*Cor.* 2. 9. Meiſtr y rydd i'w holl weiſion,
Deyrnas hardd ac auraidd goron;
A'r ſeth betheu mawr arbennig,
Na all calon dyn ddychymyg.
Pwy gan hynny na waſnaetho,
Griſt yn ddyfal ar ei linie?
Rhwn ſy'n gwabru ei gywir weiſion,
A'r ſath deyrnas, a'r ſath goron.
*ddirmygel* Pwy na ſcornioi'r Byd ar Cnawd,
A'r cythrael câs, a'i ſaig ai Sawd,
Ac yſtyrie ſaint yw cyflog.
Holl waſnaethwyr *Duw* galluog?
Er nad oes un gwas yn haeddu
Cael un wabar am waſnaethu;
*Luc*; 17. 10. Etto o'i ras mae *Duw* yn addo
Teyrnas nêf ir rhai gwaſanaetho.
Gwâs i Bechod, gwâs i gythrel,
Gwâs i Angeu triſt trwy drafel,
Yw pob gwâs ſydd yn gwaſnaethu,
Na bo gwâs ir Arglwydd Jeſu.
*O flaen* Pan y delo'r Angeu digllon
*gorſeddfa-* Fynd ir barn a phob rhyw weiſion:
*inge Chriſt* O! p'un oreu'r amſer hynny,
*2 Pet.* 3. 7. Wâs ir Cnawd a gwâs ir Jeſu.
Pan y lloſco'r Byd yn chwil boeth,
A'i holl olud, a'i holl gyfoeth;
O! p'un oreu'r amſer triſt,
Wâs ir Byd, ai gwâs i Ghriſt?
Pan dderchafar Plant y drindod,
A throi i uffern weiſion pechod:
Hi fydd chwerw'r amſer hynny.
Addo'r Arglwydd heb waſnaethu.

Mw

Mwy o ennill ſydd o awr,
Yn gwaſnaethu'r Arglwydd mawr,
Nag a gaffom o'n holl fywyd,
Yngwaſnaethu'r Byd anhyfryd.
Am waſnaethu'r byd yn gyfan,
Ni cheir ond y poen a'r ‡ ffwdan, ‡ *Trafferth.*
A'r twyll tôſt wrth fynd o honno,
Yn noeth fel y daethpwyd iddo.
Am waſnaethu'r Cnawd trwy Bleſſer, *Gal.* 6. 8.
A'i fodloni ag eſmwythder,
Ni cheir cyflog gantho 'ſywaeth,
Ond oes ferr a ‡ llygredigaeth. ‡ *damnedigaeth.*
Am waſnaethu un rhyw Bechod,
Pe's Gwaſnaethem hwn yn waſtod,
Ni cheir gwedi'r hir waſanaeth,
Gantho ond gwradwydd a Marwolaeth.
Am waſanaethu Tad y celwydd,
Er ei fôd yn cynnig gwledydd,
Nid oes troedfedd dir gan Satan,
Ond pwll uffern iddo 'i hunan.
Am waſanaethu'r Arglwydd *Jeſu,*
Y mae Teyrnas iw meddiannu,
A Gogoniant a dedwyddwch,
A gwir fywyd mewn rhialtwch.
Ymrown ninne tra fom byw,
Bawb * i brûdd waſnaethu Duw: * *Oddifrif.*
Dyna'r Meiſtr gore i waſnaethu,
Dyna'r gorchwyl rheitia i bennu.
A meddyliwn bawb am ymladd,
A phob gelyn ſy'n ein gwrthladd,
Yn ein dwor, yn ein * ſteppi * *Rhwyſtro.*
Weithio'r gwaith ſydd reita i ni.
Ac fel gweithwyr cywir ffyddlon,
Call, cofiadur, † carcys, cyhon, † *gofalus.*
Cwympwn bawb i wir waſnaethu,
Duw tra amſer gras yn gadu. *Eſay.* 55. 6.

Oni waſnaethwn Dduw tro'n ymma,
A thro amſer grâs yn para,
Ni gawn ſynd ir pwll yn gyngan,
Ar ein pen i waſnaethu Satan.
Yn y pwll hi ſydd edifar,
Trwy ddifeirwch rhy ddiweddar,
Mor ddi-bris ddirmygu'r Drindod,
Luc. 13. 28. Ac mor rhwydd waſnaethu pechod.
Yno wylir heilltion ddagrau,
Yno bloeddir gan y poenau:
Ond pe wylid perfedd allan
Ni ddoir byth o grampau Satan.
Cwympwn bawb yn brûdd pan hynny
I waſnaethu Duw tra i'n heddy:
A rhown ffarwel bawb i bechod,
Trwy lwyr droi i waſnaethu'r Drindod.
Felly cawn ni pan fo rheitia
Gwedi' byrr waſanaeth ymma
Byth waſnaethu'r Arglwydd tirion,
Yn y nef ym-mhlith Angelion.
I'r hon nefoedd o'n Creawdwr,
Er mwyn Jeſu Ghriſt ein prynwr,
Dwg ni oll i'th wir waſnaethu,
Gyda'th Sainct a'th nefol *Deulu*.

---

### *Am Weddi ai pherthynaſau.*

TYnn d' Eſgidie cyn gweddiech,
Rhwym dy aſſyn cyn aberthech,
Golch dy draed cyn mynd i'r Cymmun
Yſtyria geiſiech cyn ei ofyn.
Cyn gweddio edifara;
Weth weddio dyfal weithia,
Yn ôl gweddi bydd ddiolchgar,
Pſ. 118. 21. Felly caiff dy weddi ffafar.

Y diawl a gais bob dydd dy demptio,
Y Cnawd bob awr a fyn dy dwyllo;
Y byd a'i bethau gais d'orchfygu;
Praw trwy weddi eu gwrthnebu.
Da yw gweddi ymhob lleoedd
Da yw gweddi bob amſeroedd; 1 *Tim*. 2. 8.
Da yw gweddi dros bob dynion,
Mae'n dda gweddi'm-mhob achoſion. 1 *Tim*. 2. 1.
Aberth hyfryd i'r goruchaf;
* *Whip* yn † Scwrgio'r *Diawl* a'i dyrfa; *Pſ*. 141. 2.
Nerth i'r gwan ym-mhob gofidi * *gwialen*
Nawdd rhag bob drwg ydyw gweddi. † *fflangellu*.
* Allwedd aur i ddatcloi'r bore, * *Agoriad*.
Bollt y nos i gau dy ddryſe,
Twr i'th gadw rhag drygioni,
Ddydd a nos yw deddfol Weddi.
Gweddi brudd ſydd drech na dynion, *Ex*. 17. 11.
Gweddi daer a drodd Angylion, *Gen*. 19. 3.
Gweddi a fwriodd Ddiawlaid allan, *Mat*. 17. 21.
Gweddi orchfygodd *Duw* ei hunan. *Ex*. 32. 14.
Na ddibriſia ddim o'th weddi,
Mae'n y nêf fel thus yn lloſgi,
Mae ar ddaear yn clwyfo Satan
Mae'n ennill fawr it dy hunan.
Mewn ffydd a pharch a llwyr fryd calon
Mewn Zêl, ac a awch a meddwl union,
Mewn deall * drud a dyfal geiſio. * *Cryf*.
Mewn hyder prudd y mae gweddio.
Cwyn d' olygon plyg dy liniau,
Tan dy ddwylo agor d' enau;
Deffro dy yſpryd cur dy ddwyfron,
Llwyr weddia a'th holl galon.
Nid a'r Baal na'r *Llo* na'r ddelw,
Sant na Santes y mae galw:
Ond ar *Dduw* trwy Griſt yn unig
Am bob peth ſydd arnat ddiffyg. *Joan*. 6. 23.

Ni wyr neb ond *Duw* o'n cyflwr
Ni all neb ond Duw roi ſwccwr,
Ni chlyw neb ond Duw ein gweddi
Ar Dduw'n unic y mae gweiddi.
Pſ. 50. 15. *Duw* ſy'n erchi galw arno
*Duw* ſy'n addo rhoi ond ceiſio,
*Duw* ſy'n gwrando pob prudd weddi;
*Duw* all tynnu pawb o'i tlodi.
Eſ. 63. 16. Ni wyr *Abram*, ni wyr *Jaco*,
Ym mha gyflwr yr ym ynddo;
Ni wyr neb ond Duw ei hunan,
Beth yw'n cais, a maint yw'n cwynfan;
Pſal. 65. 2. Peth perthnaſſol i Dduw'r lluoedd,
Ydyw gwrando gweddi miloedd,
A fo'n ceiſio mil o betho,
Ar un pryd mewn amryw Jeitho.
Ni wyr *Mair* i'm tyb ddim Saeſneg,
Ni wyr *Martha* ddim Gwyddeleg,
Ni wyr *Clement* Saint ddeallu,
Beth y ddywaid un o'r Cymru.
Ni wyr *Abram* ddim o'n cyflwr,
Ni all *Clement* roi i ni Swccwr,
Ni chlyw *Peder* ddim o'n gweddi,
Ar *Dduw*'n unig y mae gweiddi.
*Mat.* 4. 10. Parcha'r ſaint yn fawr yn fychan,
Ond addola *Dduw* ei hunan:
Rho anrhydedd gweddus iddynt,
Etto na weddio arnynt.
* *Ucheldad.* Ni bu * Batriarch, ni bu Brophwyd,
Ni bu Boſtol ag y glyw-wyd,
Wneuthur gweddi (a'r ddarllenes)
Etto 'rioed at Sant na Santes.
† *Addewid.* Nid oes † Brommais yn y fengyl,
*Jo.* 16. 23. I ni gael dim trwy fawr ymbyl,
24. Onid y g[illegible]om trwy ymbilian,
Er mwyn Jeſu Griſt ei hunan.

Ch

Chriſt yn unig yw'n cyfryngwr, 1 *Tim.* 2. 5.
Chriſt yw'n twrneu a'n dadleuwr,
Nid oes arall all gyfryngu,
Rhwng *Duw* a dyn ond Chriſt Jeſu.
Er mwyn Jeſu y mae ceiſio,
Faint y geiſiom wrth weddio,
Ar ddeheulaw'r Tad mae'n eiſte,
Er mwyn derbyn ein gweddie. *Rhuf.* 8. 34.
Cymred eraill hên Saint *Catrin*,
*Dewi Clement*, *Martha*, *Marthin*,
Byth ni cheiſiaf i gyfryngwr,
Rhyngwi a Duw ond Chriſt fy mhrynwr.
Cais yn eiriol wrth weddio,
Nerth yr yſpryd i'th gyfrwyddo,
Ni all neb weddio'n hyfryd,
Heb gyfrwydd-deb y glân yſpryd. *Rhuf.* 8. 26,
Heb yr yſpryd f' allir ſonio,
Am Dduw mawr ac am weddio,
Ond ni ddichon un dyn ddywedyd,
Wrth Dduw mawr heb nerth yr yſpryd.
Duw ni phriſia weddi'r Tafod
Heb y galon a'r gydwybod, *Mat.* 15. 8.
Gweddi'r enaid prudd a'r yſpryd
O flaen Duw ſydd aberth hyfryd.
Cais a'r genau cais a'r galon
Un o'r ddau ſydd lai na digon,
Cydia'r genau gyda'r yſpryd,
Hynny bair cynghanedd hyfryd.
Gwell yw'r galon heb y gene
I weddio ambell weithie,
Nag yw'r genau heb y galon,
Gweddi o'r fath ſydd weddi ffinion.
Gwell oedd gweddi *Moeſen* hyfryd
Wrth ſiwrneia heb ynganyd, *Ex.* 14. 15.
Na gwaith gwefus yr Iddewon
Yn gweddio heb y galon.

Cais a geiſiech trwy wir ffydd,
‖ *Oddiſtrif*, Na chymmer ball ond begia'n ‖ brudd,
Nac amme dderbyn 'rhyn a geiſiech,
O ceiſi'n daer di gei ofynnech.
Ni chau'r Adar bach o'u ſafne,
Nes y llanwo ei mam eu bolie,
Ac ni ddyle ddynion dewi,
Nes cyflawno *Duw* ei gweddi.
Rhyfedd yw mor daer y begian,
Llawer dyn am ſwyd ac Arian,
Ac mor llwfr y gweddiant,
Am drugaredd a gogoniant.
Haol yw Duw ir ſawl a'i ceiſiant,
Rhwydd yn rhoi ir thai ofynnant,
Rhoi yn brudd heb ddim danodiaeth,
*Act.* 1. 51. Rhoi eu rhaid i bawb yn helaeth.
Fal y gwrendy mam ar blentyn,
Pſ. 103. 13. Y ſo'n lleſain yn ei rwymyn,
Felly gwrendy Duw ein gweddi
Pan y lleſom mewn gofidi.
B'wedd na wrendy Duw dy weddi
*Rhuf.* 8. 26. Lle mae'r yſpryd glân yn gweiddi,
17, 34. A Chriſt Jeſu'n ymbil drosod,
Ar ddeheu law'r Tâd yn waſtod?
Os yn enw Chriſt y ceiſi,
*Joan*, 16. 23 Os yn eiriol y gofynni;
14. Di gei naill ai'r hyn ofynaiſt,
Neu beth gwell na'r hyn y geiſiaiſt.
* *Oedi*. Os bydd d' Arglwydd yn * dehirio
Rhoi ofynnech wrth weddio;
Mae e'n d' annog geiſio'n daerach,
Neu ddymmuno rhyw beth rheittiach.
Cais ogoniant Duw yn gynta
*Mat*. 6. 33. Cais nefolion bethau neſſa:
Cais ei deyrnas a'i gyfiawnder,
Di gei'r cwbwl heb ddim pungder.

Gwachel geiſio tra ſech byw, 1 Jo. 5. 14.
Ddim yn erbyn ewyllys *Duw*,
Digio *Duw* y mae dy weddi,
Os ceiſi'r peth na fynno 'i roddi.
Ffol yw ceiſio bydol bethau,
Pan aller cael nefolion dlyſau;
Serchu'n fawr mewn daiar domlud;
Heb wneuthur pris o'r nefoedd hyfryd.
Natur Mochyn brwnt anhygar,
Yw rhoi fryd ar drwyno'r ddaiar, *Col.* 3. 1. 2.
Nid naturiaeth un o'r bobloedd,
Sydd a'i Tâd yn nheyrnas nefoedd.
Cais y peth y mae *Duw*'n addo;
Yn ei Air ac yn ei ‡ lwo, ‡*Yn Cenhadu i ti ofyn.*
Cais y rhain er hyn yn weddus,
Os cenhada ei ſanctaidd 'wllys.
Gwna dy weddi byth yn ddiwall, *Mat.* 26. 39
Yn yr Iaith a ſech yn ddeall,
Gwell yw pum gair ac yſtyriech,
Nag yw deng-mil nas deallech. 1 *Cor.* 14 19
Gwatwor Duw a'i dwyllo ei hun,
Wrth weddio y mae oyn, † *dywedyd llawer.*
Pan y ceiſio wrth † friwgawthan,
Gan Dduw'r peth nas gwyr ei hunan.
Nad i'r min ragflaenu'r meddwl,
Pâr i'r galon bwyſo'r cwbwl, *Matt.* 15. 7, 8.
Ni all Duw yn amſer odde,
Heb y galon weddi'r gene. *Jer.* 17. 10;
Duw yw chwiliwr y calonnau, *Jo.* 4. 24.
Duw ei hun yw Tâd y golau,
Duw fyn gweddi brudd o'r galon,
Duw ni phriſia eirlau gweigion.
Tro bob meddwl aflan heibio
Pan y byddech yn gwddio,
A rhwym gartre dy fydolrwydd,
Trech yn † parlo ti a'th Arglwydd. † *ymddiddan*

H 4

Ni chae aſſyn *Abram* ſangu,
Lle bae *Abram* yn aberthu,
Gen. 22. 5. Nad i'th fydol feddwl dithe,
Dramwy lle bo dy weddie:
Megis *Abram* rhaid it darfu,
Pob rhyw rwyſtrau wrth aberthu,
Gen. 15. 11. A rhyfela ar buſneſſon,
Ath ddehoro i adail *Sion*.
Pa ddyfala ceiſio Satan,
Pan weddiech droi d' amcan,
Rhoittis 'gyd y ddylit weddio,
Jac. 4. 7. A'i wrthnebu nes y cilio.
Fel y cilia'r Llew crafangog,
Pan y clywo ganiad ceiliog;
Felly cilia Satan greulon,
O'r lle clywo weddi ffyddlon.
* Ych gwyllt. Ni all * Bual drigo'n heppell,
Lle bo gw'chiad cyw neu barchell,
Ni all Satan yntef drigo,
Lle bo dynion yn gweddio.
Oni bae fod Satan ddyrngas
Yn gweled gweddi'n rhwygo ei deyrnas
Ac yn awchlym yn ei glwyfo,
Byth ni rwyſtre i neb weddio.
Ond os ceri Jechyd enaid,
Na gogoniant Duw, nath gyfraid,
Nad i Satan byth dy rwyſtro,
Wrando'r gair, nac i weddio.
Wrth weddio llef heb orphwys,
Dros bob grádd fydd yn yr Eglwys:
‡ dyn digred Ac nac arfer megis ‡ Pagan,
Weddio'n unig it dy hunan.
Nid gwyr Blant yr Eglwys ſanctaidd,
Ond Baſtardiaid anghriſtnogaidd,
Yw pawb na weddio'n ffyddlon,
Dros yr Eglwys, Sanctaidd *Sion*

O

Os gweddiodd *Abram* ſwyna,
Dros dre *Sodom* a *Gommora*,
B'wedd na ddylem ni' Chriſtnogion, *Pſ.* 51. 18.
Alw ar Dduw dros dylwyth *Sion*.
Chriſt ſy'n erchi i bawb weddio:
Ar bob amſer heb ddeffygio,
A Saint *Paul* ſy'n chwennych i ni, *Luc.* 18. 1:
Ym-mhob man ymarſer gweddi. 1 *Tim.* 2. 8.
*Daniel* raſol a weddie, *Dan.* 6. 10.
Dair gwaith beunydd ar ei linie:
A'r Brenhinol Brophwyd Dafydd, *Pſal.* 119:
Y weddie ſaith waith beunydd. 164.
Chriſt ein prynwr ynte ynglos
A weddie tra fae'r nos: *Luc.* 6. 12.
Ac y dreulie'r dydd tro canto
Yn pregethu'n neu'n gweddio.
Ym-mhob man ac ar bob amſer,
Y mae gweddi o fawr bwer; *Jac.* 5. 16.
Os y galon a ſydd parod,
Iymbilian ar hael drindod.
Ar y moroedd ar y mynydd,
Yn ei Teie, ar ein maeſydd
Y ‡ *dirpere* i'n weddio, ‡ *Mae'n ddyledus.*
Ym-*mha* fan y bom ni ynddo.
Gyda *Pheder* yn ein lletty,
Gyda *Dafydd* yn y gwely. *Act*, 10:
Gyda *Daniel* rhyng y Llewod *Pſal.* 63. 6.
Y mae'n rhaid gweddio'n waſtod.
Ni ddiffodde ar un tymmor,
Or Tân ſanctaidd ar yr allor;
I fynegi byth na ddyle,
Ddiffodd * Zêl dy weddi dithe. * *Gwres.*
Dyn ſydd demel ir goruchaf *Lev.* 6. 13.
Calon dyn yw'r Allor bennaf,
Bore a hwyr y mae *Duw'n* ceiſio, *Num.* 28. 3, 4.
Gael o'th galon aberth iddo. *Dib.* 23. 26.

Nad dy demel er dy ſywyd,
Fore a hwyr heb aberth hyfryd;
Ac nad ganol dydd i baſſio,
Pſal. 55. 17. Heb roi clod a moliant iddo.
‡ Gyſeillachgar. Felly byddi di ‡ ffamiliar,
A'th Greawdwr ac mewn ffafar:
Felly cei di gan y Drindod,
Dy rwyddhau a'th helpu'n waſtod.
† Ddyle. 'Nid oes dim a † ddirpor rwyſtro,
Dyn gwllyſgar i weddio:
Ac i weithio ei orchwyl hefyd,
Pa ryw bynna fo'i gelfyddyd.
F' all dyn weithio ei gelfyddyd,
A gweddio'n ddyfal hefyd:
Ni chais gweddi'r galon rwyſtro,
Hynt y traed na gwaith y dwylo.
Ex. 14. 15. F' alle *Foeſen* wrth ſiwrneia,
Joſ. 10. 12. F' alle *Joſuah* wrth ryfela'
Mar. 1. 35. Chriſt wrth ymdaith, *Paul* wrth forio,
Act. 27. Dendio eu buſnes a gweddio.
Er bod eſgus yn lwfedig,
Lawer pryd mewn pwyntiau pwyſig,
Nid oes eſgus ellir enwi,
All d'eſcuſo am dy weddi.
Gelli beidio mynd i'r Eglwys
Pan fech glâſ o'r haint a'th rwyſtrwys,
Ond er clafed flin a fyddech,
‡ Ymadawiad. Rhaid gweddio nes ‡ departech.
Gelli beidio rhoi eluſen,
Pan na byddo'i yn dy berchen;
Ond er cymmaint a ſo'th dlodi
Nid oes peidio byth a gweddi.
Ym hob cyflwr ar bob amſer,
Y mae gweddi yn ei themper,
Nad gan hynny ddim dy rwyſtro,
Ym-mhob cyflwr brudd weddio.

Y

Yn ein trallod, yn ein gwynfyd,
Yn ein nychdod, yn ein iechyd,
Ym-mha gyflwr y bôm ynddo,
Y gall Chriſtion brudd weddio:
Nid yw carchar, nid yw cloion,
Nid yw rhwyſtrau holl blant dynion
Na'r bydd oll yn rhwyſtro gweddi
Fynd bob awr at Dâd goleuni.
Tyn di dafod dyn o'r gwreiddie;
Torr ei draed, a rho fe'n gwarche;
Fe all gweddi'r galon ſaethu,
Trwy bob clo at Dduw er hynny.
Ar wyl a gwaith, ar nôs a dydd,
Ar foreu a hwyr caiff gweddi brûdd,
Fynd at Dduw, y pryd y mynno;
Doed pan dêl, hi gaiff ei chroeſo.
Er na chae'r frenhines *Heſther*,
Fynd at Frenin ond rhyw amſer,
Fe gaiff gweddi heb ei rhwyſtro
ynd at Duw yr awr ei mynno.
Cwyn fel *Daniel* ar y wawr-ddydd, *Pſ.* 119. 62.
Cwyn di ganol nôs fel *Dafydd*,
Mae Duw'n barod gwrando geiſiech
Galw arno'r awr y mynnech.
Er na chaffo dyn ei hunan,
ynd i'r nêf at Chriſt i ymddiddan,
e gaiff gweddi Pob rhyw griſtion,
yned atto'r awr y mynnon. (a'r tonne
* Trwy'r gwynt, a'r glaw, trwy'r Aer * *Awyr*,
Trwy'r Sphêrs i gyd a'r holl Blanede,
r aiff gweddi fel † llycheden
flaen Duw uwch law'r ffurfafen. † *Mellt.*
Ni all nef, na Daer na dynion,
wdurdodau nac angelion,
wyſtro gweddi gael ymddiddan
ob rhyw awr a Chriſt ei hunan.

Nid rhaid iddi oſyn cennad,
Peder gwynn i gael agoriad,
Hi gaiff mynd trwy'r holl Angelion
‡ *hyf.* O flaen gorſedd Chriſt yn ‡ eon.
Hi gaiff gan Dduw wrando ei chyſur,
† *ddadle.* Hi gaiff gan Ghriſt † bledio ei dolur,
*Rhuf.* 8. 26. Hi gaiff gan yr yſpryd ruddſan
Ac ochneidio droſti'n gyngan.
Ni thry rhoddwr pob daioni
Adre'n waglaw mo'th brûdd weddi;
Ond fe leinw Chriſt ei bynwes,
*Eſay* 45.19. Ac ai nertha i gael ei neges.
Oni chaiff hi'r hyn a geiſio
Hi gaiff well na hynny gantho,
Os ni edy Chriſt un amſer,
Weddi ffyddlon fynd yn oſer.
O! pa ddyled ſ'arnom roddi,
I'r gwir Dduw am oddeu'n gweddi,
Fynd oi flaen yr awr y mynnom
A chael gantho'r hyn y geiſiom.
Braich yw gweddi ſy'n cyrhaeddyd
O'r byd hwn ir nefoedd hyfryd;
Ac yn cymryd o dryſore,
Duw beth bynna ſ'arni eiſie.
‡ *ddifrifol.* Gweddi ‡ brûdd ſydd gennad hy
A red droſ ddyn i'r nefoedd fry,
Ac y gaiff bob awr ymddiddan,
Yn ddi ſtop a Duw ei hunan.
Gweddi laddodd gawr tra chadarn,
1 *Sam.* 17. Gweddi agorodd byrth o haiarn,
45. Gweddi gauodd ſafne llewod:
*Act.* 12. 5. Gweddi dynn ddyn o bob trallod.
Jac. 5. 17. Gweddi glôdd y nef yn hir,
Gweddi droes y môr yn dir:
1 *Breñ.* 17. Gweddi wnaeth i'r meirw godi,
22. Nid oes dim mor gryf a gweddi.

O! ba ddiolch ſarnom roddi?
Ir gwir Dduw am adel gweddi
Fynd atto'r awr y mynnom,
A chael gantho'r pethau geiſiom.
Clôd a gallu, Diolch, Moliant,
Parch Anrhydedd a Gogoniant,
A fo i roddwr pob Daioni,
Sydd mor ſwyn yn gwrando'n gweddi.

PAn yr elech i weddio,
Ediſara am aeth heibio;
A llwyr ymolch o'th holl ſrynti, Joa. 9. 31.
Os dymynu wrando'th weddi.
Duw ni wrendy bechaduriaid,
A fo'n byw mewn pechod diriaid,
F' orſydd madel a drygioni,
Cyn gwrandawo Duw dy weddi.
Os mewn malis, rhyſyg, mwrddro,
Llid, a thrais, y doi weddio, *Eſay.* 1. 15.
I dy Dduw ar ben dy linie,
Duw a'th wrthyd a'th weddie.
Melldith Moab ſydd yn cwympo,
Ar yr enwir wrth weddio,
Ceiſio maent heb gael eu ‡ Canlyn, ‡ *Deſyfiad.*
Am ſod dwylo rhain yn ſcymmyn.
Y neb a alwo ar yr Arglwydd, 1 *Tim.* 2. 8.
Ymadawed a'i halogrwydd,
Ac ymolched ei ddwy ddwylo,
Oddiwrth waed o cais ei wrando. Joel. 2. 12.
Tirion yw Duw a thoſturiol, 13.
Ir rhai a ſydd ediſeiriol:
Ediſara am dy ſrynti,
Ac fe wrendy Duw dy weddi.
Os diſaru am y cwbwl
Pyt ſae'th ſai mor gôch a'r pwrpwl, *Eſay.* 1. 18.
Chriſt a'th olch mor wyn a'r lili,
Ac a wrendy'n rhwydd dy weddi.

Pan y delech i weddio,
Jer. 4. 14. Tro bob meddwl ofer heibio;
A rhwym gartre dy ſydolrwydd
‡ *Yn llefaru,* Trech yn ‡ parlo ti a'th Arglwydd.
Brwnt yw gweled pacc a ffardel
Ar dy gefen yn y demel;
Bryntach yw gweld dy ſydolrwydd
Pan gweddiech ar yr Arglwydd.
Pan gweddiech galw'n gymwys,
Ar Dduw dros bob ſtâd o'r eglwys;
Ac nac arfer megis *Pagan*,
Weddi'n unig it dy hunan.
1 *Tim.* 2. 1, 2. Galw'n gynta dros frenhinoedd,
Am gael grâs i drin eu pobloedd,
Mewn gwir grefydd a llonyddwch
Hedd, uniondeb, a dedwyddwch.
*Eph.* 6. 19. Gwedyn galw dros Eglwyſwyr,
Am gael grâs i draethu'n eglur,
Holl ddirgelwch yr Efengyl,
A phregethu'r gwir yn rhigyl.
A gweddia dros ſwyddogion,
Ar i Dduw roi grym a chalon,
Iddynt goſpi pob rhyw droſedd
† *Cynnal.* a † maintainio ffydd a rhinwedd.
Cais gan Dduw ſendithio hefyd
Pob ſcolheigion o gelfyddyd;
Fel y gallont lenwi'r gwledydd
A goleuni moes, a chrefydd.
Nac anghofia o'r cyffredyn,
Ond gweddio hefyd droſtyn;
Fel y gallont ſyw'n ei galwad,
Mewn ufydd-dod, hedd, a chariad.
A gweddio dros drueiniaid,
Sydd mewn trallod, cyſtudd embaid;
Ar i Dduw doſturio wrthynt
A rhoi help a chymfforddi iddynt.

Rhyby

## *Rhybydd i Ddyn feddwl am Dduw y bore, ac i roddi diolch iddo am ei gadw'r nôs rhag niwed.*

Y Bore pan ddihunech gynta,
Cod d'olygon at * Jehofa; * *Dduw.*
Meddwl am ei foli'n ddiwall,
Cyn meddyliech am ddim arall.
Cofia mai Duw oedd y Ceidwad,
Y fu neithiwr yn dy wiliad,
Heb roi amrant iddo i gyſcu
Rhag ir llew dy ladd a'th lyngcu.
Oni bae Dduw a'i Angelion,
Sy'n caſtellu bobtu ei weiſion, *Pſal.* 34. 7.
Dyn ni bydde heb i lyngcu
Gan y gelyn tra fae'n cyſcu.
Mwy yw perygl dyn *ſy'n* cyſcu
Yn ei wely heb nawdd Jeſu,
Nag oedd perygl *Ddaniel* hynod,
Gynt wrth gyſcu rhwng y llewod.
Y mae'r ſcrythur yn mynegi 1 *Pet.* 5. 8.
Fod y diawl yn troi o bob tu,
Ddydd a nôs yn ceiſio llarpio
Megis llew pwy bynnag allo.
Pwy ſy'n rhwyſtro'r llew i'n llyngcu,
Ond ein ceidwad mawr Ghriſt Jeſu? 1 *Pet.* 2. 14.
Rhwn ſydd nos a dydd heb heppian,
Yn cadw ei braidd rhag rhuthre Satan.
Meddwl dithe faint yw'r dyled
Y ſydd arnad ir gogoned;
Am dy gadw mor ddihangol,
Rhag y gelyn yn waſtadol.
Megis y mae'r dyled arnad,
Rho fawr foliant iddo'n waſtad;
Ac abertha ar dy linie,
Ddiolch iddo nos a bore.

Meddwl fel y gallſe Satan,
Yn dy gwſc dy ladd heb yngan,
A'th ddwyn i'r farn yn ymharod
Oni baſſe Griſt dy warchod.
  Meddwl fal y gallſe'r gelyn,
Oni baſſe i Griſt d'amdd[illegible]n,
Ladd dy Blant, a dwyn dy gyfoeth,
Lloſci'th dy, a'th ffino boenoeth.
  Coffa fal y gallſe'th daro,
Ag ynfydrwydd neu gwall bwyllo,
Fal na allaſſyd ddim o'r cyſcu
Oni baſſe i Griſt ei nadu.
  Bydd gan hynny dra diolchgar
I'th wir geidwad am ei ffafar,
Yn dy gadw mewn eſmwythder,
Rhag y gelyn yn ddibryder.
  Pe bae Iddew yn dy warchod,
Tra 'itti'n cyſcu rhwng bwyſtfilod,
Di roit ddiolch fil o weithie,
Am dy gadw o'u crafange.
  Er bod Chriſt ei hun i'th warchod
Trech yn cyſcu rhwng y llewod
Sydd bob awr yn ceiſio'th lyngcu,
Ni roi ddiolch iddo er hynny.
  Agor d'olwg, gwel ei ffafar,
Cymmer rybydd, bydd ddiolchgar,
A rho ddiolch ar dy ddau-lin,
I Griſt Jeſu am d'amddiffyn.
  Felly ceidw Chriſt di'n waſtod,
Ac y tann ei adain droſod;
Ac a'th geidw mewn eſmwythder,
Rhag pob perygl yn ddibryder.
  Gwachel feddwl dim a'th galon
Gwachel edrych a'th olygon.
Gwachel ddwedyd dim a'th ene,
Nes moliannu Duw y bore.

Rho iddo flaen ffrwyth dy wir galon Ex. 34. 26.
Blaen ffrwyth d'eirie a'th feddylion;
Duw a fynn y ffrwythau cyntaf
Mi fyn Duw na'r ail na'r olaf.
Cynta peth a wna'r uchodydd
Moli Duw pan torri'r wawr ddydd.
Cynta peth a ddyle ddynion
Foli Duw o ddyfnder calon.
§ Rhobin bach cyn gwlycho'i ene, § Y Frowrhuddyn.
A gân ir Arglwydd pſalm y bore,
Am ei chadw'r nôs rhag niwed,
Er bod gwely hon yn galed.
Llawer dyn yn waith na'r deryn,
Gwyn o'i wely megis moohyn
Heb gydnabod Chriſt ei geidwad,
Na rhoi diolch am ei warchad.
Peth cwilyddus i blant dynion
Fod yn waeth na'r Adar gwylltion,
Sy'n clodfori nos a boreu,
Dduw, mor ddyfal am ei ddonieu.

---

*Diolch Foreuol pan ddihuner gynta.*

DUw fy'ngheidwad, Duw fy'nghryſdwr,
Duw fy nghaſtell rhag y drygwr
Derbyn foliant ar fy nwylo,
Am fy nghadwr nôs aeth heibio.
Rwit ti'n gwilied daetu'ng woly,
Ddydd a nos tra fyddwi'n cyſcu;
Ac yn tannu d'adain drosof;
Pan ollwng wi'r Byd yn angof.
Rwyti'n rhoddi i'm eſmwythder
A llonyddwch mawr bob amſer,
Gan * reffreſio beunydd felly,
F'egwan gorph a melus gyſcu.

* Adſywio.

Ni winc, ni chwiſc, ni hun, ni heppian
Fy nhâd graſol tra ſwy'n * ſlwmbran
Ond fe'm ceidw yn ei geſſel
Tra ſwi'n cyſcu yn ddiogel.
Pa ſath ffafar yw hon ymma?
Dy fod ti y Brenin mwya,
Yn ymoſtwng i ddiwallu
Llwch a lludw tra fo'n cyſcu.
Byth ni byddai'n abal rhoddi
Y degfed ran o ddiolch itti;
Ag ſydd arnaf (Dad caredig!)
Am y ffafar hon yn unig.
Clod a gallu, diolch, moliant,
Gwir anrhydedd, a gogoniant,
Y fo nôs a dydd i'r Drindod,
Sydd mor ddiflin yn fy ngwarchod.

* *Gogyſgu.*

---

### *Diolch i Griſt am amddiffyniad ac eſmwythder.*

O Fyng Heidwad, o fy Mugel
Rhwn am cedwaiſt yn dy geſſel
Neithiwr rhag i'r blaidd fy llyngcu,
Rwy o'm calon i'th glodfori.
Dan dy adain Chriſt di'm cedwaiſt
Yn dy freichie di'm confleidiaiſt;
Rhoddaiſt i mi brudd eſmwythder;
Rwi'n ddiolchgar am dy ſwynder.
Nedaiſt Satan im difethu,
Nedaiſt ddynion im gorthrymmu;
Nedaiſt dân a gwynt fy ſpeilio
Nàc anhunedd im dihuno.
Bendigedig a fo d' enw
Chriſt fyng Heidwad am fy nghadw
A gogoniant itti rodder
Am roi i mi'r ſath eſmwythder.

Rhybyd

### *Rhybydd i ddyn wrth ddilladu y corph i weddio, am ddillad ac arfau i'r enaid.*

PAn y bech yn gwiſco'th dillad
Cais arfogaeth *Duw* am danad ;
Fal y gallech ymladd ynddynt,
Megis Criſtion a phob gelyn.
Nid wyt nes er dillad twymglyd
I guddio'r cnawd, i † ddyor anwyd, † *Rhwyſtre.*
Oni bae it gael pilynod,
I ddyor bai, i guddio pechod.
Cais gan hynny holl arfogaeth
*Duw* i'th gadw rhag gelyniaeth, *Eph.* 5. 11.
Ac rhag pechod, ac rhag traſel
Twyll y byd, a'r cnawd, a'r cythrel.
Heb y rhain nid ym ond noethion
I ryfela a'n gelynion,
Ac nid poſſibl i neb hebddyn
Gael y trecha ar un gelyn.

### *Gweddi wrth wiſco am danad yn ceiſio Arfogaeth Duw i'th gadw rhag gelyniaeth pechod.*

GWiſc dy * armwr oll am danaf, * *Arfau.*
O fyng Heidwad galluoccaf:
Fel y gallwyf megis Criſtion,
Ymladd ynddynt a'm gelynion:
Nâd o'm coryn hyd fyng wadne
Un rhyw aelod heb ei arfe;
Rhag fy nghlwyſo gan y Temptiwr,
Lle bo eiſie un rhyw armwr.
Nâd i'r byd a'i ofer bethe,
Nâd i'r cnawd a'i nwyfys chwante,
Nâd i'r Diawl a'i ruthreu Scymmyn
Beri immi bechu'n d'erbyn.

Ond rhoi immi rym a chryſdwr,
I orchfygu pob gwrthnebwr,
Ac i ymladd dan dy ſaner.
Nes ym dygech i'th eſmwythder.

*Arall.* CHriſt ſy nghraig am Iechydwriaeth,
Gwiſc am danaf dy Arſogaeth,
Nad un aelod heb ei wiſco,
Rhag ir gelyn ſy anrheithio.
1 *Theſſ.* 5. 8. Gwiſc y pen a Helm y gobaith,
* *Dwyfroneg* Breſt ar * groſlet gyfiawn berffaith,
Lwyne a gwregis gwir diſeirwch,
*Eph.* 6. 14. Traed a ſcidie efengyl heddwch.
16. 17. Rho dy Air yn gleddyf immi,
‡ *Train.* Ffydd yn ‡ ſwccler i ddiffoddi,
Holl biccellau tanllyd Satan,
A phrudd weddi i ſefyll allan.
A rho rym ſel milwr ffyddlon,
Im ryſela a'm gelynion,
Rhythreu Satan chwantau cnawdol,
Twyll y byd a pechod marwol.
A rho gymmorth iw gorchfygu,
A'u daroſtwng a'u gwrthnebu ;
Fel y gallwi byth d'addoli,
Megis plentyn ir goleuni.
Felly beunydd yn ddibryder,
Mi ryſela dan dy ſaner,
Ac y roddaf itti ſoliant,
O ſy Nuw tra ynwi chwythiant. *Amen.*

---

*Rhybudd wrth ymolchi.*

PAn yr elechi i ymolchi,
Cais yn daer gan *Dduw* trwy weddi,
Olchi d' enaid oddiwrth bechod
A'i lanhau a gwaed y cymmod;

Nid wyt nes er dwr yr Afon,
I olchi'r cnawd oddiwrth amrhyddion,
Nes y golchech dy gydwybod,
A gwaed Chriſt oddiwrth dy hechod,
Nid wyt nês er wyneb glan,
A chalon front heb ras heb ran ?
Ni fodlonir *Duw* yn bûr,
Ag wyneb glan, heb galon ‡ glûr.

‡ *Lân.*

---

*Gweddi ferr wrth ymolchi.*

GOlch O Ghriſt a'th waed fy mhechod
Golch fy enaid a'm cydwybod,
Golch fy meddwl oddiwrth wegi,
Golch fi'n llwyr oddiwrth fy mrynti:
Golch fy mhen, a'm traed, a'm calon
Fel y golchaiſt d' Apoſtolion,
Sych ar tywel main fy mrynti
A rho d'yſpryd ſanctaidd immi.
Golch fi'n ddeigrau ediſeirwch,
Golch fi'nn ffynnon gras a heddwch :
Golch fi a'th waed mor wynn ar lili,
Fal y gallwi'n bûr d' addoli.

*Jo.* 13. 5.

*Zech.* 13. 1.
*Datc.* 1. 5.

*Gweddi foreuol ; iw harferu ( o ran ei matter )*
*yn y man ar ol codi ac ymolchi.*

DUw trugarog tad toſturi,
Er mwyn Chriſt rho bardwn immi
Am fy meiau oll a'm pechod
Sydd mewn rhif yn ſwy na'r tywod.
Nid oes pwynt o'th holl gyfreithie,
Nas troſeddais llwyr, gwae finne ;
Nac un dawn a roddaiſt immi,
Nas arferais a ddrygioni.

*Pſal.* 40. 12.

Drwg fy nhyb, a gwaeth fy ngweithred
Brwnt fy nhafod, maith fy hocced,
Poeth fy nattur oer fy ngweddi ;
Arglwydd maddeu'r cwbwl immi.
Maddeu'r maint a wnaethoi'n d'erbyn
O bechodau er yn blentyn ;
*Pſal.* 26. 7: Ac na thywallt ar fy lletty,
O'r dialau maent yn haeddu.
Ond rho râs a chymmorth immi,
Byth o hyn allan dy addoli,
Ath waſnaethu mewn ſancteiddrwydd,
Pur uniondeb ac oneſtrwydd.
Tynn bob rhwyſtyr ſydd im hattal,
I'th waſnaethu di mor ddyfal ;
† *Gallu.* A rho † bwer yn ol hynny,
Immi'n ddiflin dy waſnaethu.
Llwyr ddiwreiddia o'm calon ofer,
Yr holl frynti ſum i'n arfer ;
A gwir blanna yn eu cyfle,
Râs a dawn tra chwyth i'm gene:
Dyſc fi gadw dy orchmynion,
A'u gwir garu a'm holl galon:
A'u cymmeryd yn lle rheol,
I fyw wrthynt yn waſtadol.
A chyfrwydda a'th lan yſpryd,
Ei 'reoli fy holl fywyd,
A'm holl eiriau a'n amcanion,
Yn ol d'wllys a'th orchmynion.
Arglwydd, ffrwyna fi rhag pechu
Byth yn derbyn mwy ond hynny,
A rho bwer immi'n waſtod,
Gael y trecha'n erbyn pechod.
Helpa fi ryfela yn erbyn,
Y Byd, a'r cnawd, a'r cythrel ſcymmyn,
Fal y gallwyf gael y goron,
A gorchfygu fy ngelynion.

Tanna droſwi d'adain raſol, *Pſal.* 17. 7.
Cydd fi dani yn waſtadol;
Nad un gelyn wneuthur niwaid,
Mewn un modd i'm corph na'm henaid,
Cadw fi rhag cwrp a thramcwydd
Cwilydd, Colled, anhap, aſlwydd,
Nychdod, niwed, a'r fath hynny,
Os bydd d'wyllys yn cenhadu.
Nertha fi a'th yſpryd ſanctaidd, 1 *Theſſ.* 4.
Dreulio'r dydd hwn yn griſtnogaidd, 11.
Trwy gymmeryd poen i'm galwad
I'th waſnaethu'n brûdd yn waſtad:
Pâr i'm dreulio'r dydd preſennol,
Mor ddeallus ac mor ddeddfol,
A pha gwypwn ar y * ſiwra * *Siccra.*
Mae'r dydd hwn yw'r dydd diwaetha.
Nad fi oedi gwella 'muchedd
O ddydd i ddydd hyd fy niwedd:
Ond tra heddyw byth yn para,
Par yn ddyfal immi wella. *Heb.* 3. 7, 8.
Nad ir cnawd rhyfygus embaid
Beri immi ddamnio'r enaid,
A'i roi boeni yn dragwyddol,
Am dippyn bach o bleſſer cnawdol.
Nad i wagedd y byd ymma *Preg.* 1. 2.
Rhwn fel llwyd-rew a ddiflana,
Beri im golli gwir lawenydd,
A mawr fraint y byd na dderfydd.
Tra fo'r dydd a'r goleu'n para,
Pâr im weithio ar yr eitha, *Jo.* 12. 35.
Y peth a berthyn at fy † Jechyd, † *Jechydwr-*
Rhag ir nôs fyng orddiweddyd. *aeth.*
Pâr im fod bob awr yn barod
Ag oyl im lamp, a'm goleu'n gwarchod
Dwad Chriſt im gwawdd i'r neithior,
Tra fo'r nef a'r porth yn agor.

Pan bwi ſiccra yn y carn,
Par im feddwl am dy farn,
A'r dydd du y gorfydd atteb,
*O flaen yr orſedd-faingc* Ar y * bar am bob ffolineb.
Gwna im feddwl am y cyfri,
Orfydd arnom bawb i roddi,
Am y pechod lleia wneler,
Hyd yn oed ein geiriau ofer.
Croeſa 'nawr y maes o'th lyfyr,
Yr holl frynti ſûm i'n wneuthur,
Ac na thaſſa yn fy nannedd,
Ddydd y farn o'm câs anwiredd.
Maddeu'n awr yr holl dalente,
S' arna i o ddyled yn dy lyfre;
‖ *Goſſod allan.* A llwyr ‖ flottia a gwaed Jeſu,
'Rhatlion eitha ſ' arna i dalu.
Gwedi maddeu'r cwbwl ymma,
Nertha fi ddiweddu'n ngyrſa;
Fel y gallo f' enaid orphwys,
Gyda Chriſt yng lân Beradwys.
Llé câf gyda'r holl Angelion,
§ *Ammeu.* A llu'r nêf heb § ddowt nac ofon,
Dy foliannu trwy lawenydd,
Mewn dedwyddwch yn dragywydd, *Amen.*

*Rhybudd i ymgadw tra fo'r dydd, rhag Rhuthreu'r Byd, y cnawd a'r cythraul ac i wiſco ac arferu Arfogaeth Duw yn eu herbyn.*

YN y man yn ol it godi,
Coſia fod tri gelyn itti,
§ *anafu.* Rhai amcanant dy § andwyo,
Oni ymgedwi rhag dy dwyllo.
Ar un gwanna o'n gelynion,
Sydd gan cryſach nag un Chriſtion,
Oni chawn ni gan Griſt Jeſu,
Nerth ac arfeu iw gorchfygu.

Llef gan hynny ar dy Brynwr,
Dy ffwrneiſio megis Milwr,
Ai arfogaeth ac a chalon.
I orchfygu dy elynion.
GWiſc dy ben a helm Griſtnogaeth
J ‡ Gobaith cryf am Jechydwriaeth,
Nad ir ſarph na'r Diawl dy glwyfo,
Ar dy ben trwy Anobeithio.
Gwiſc gyfiawnder am dy ddwyfron
Ni all Diawl a ‖ dwbwl canon,
Wneuthur byth na drwg na niwed,
r rhai wiſco'r cyfryw Gorſled.
Rhwym dy ganol a gwirionedd,
Na ragrithia yn dy fuchedd;
Hardd, a chryf, a chryno odiaith,
Ydyw gwregis gwir di-ragraith.
Gwiſc dy draed a ſcidiau'r fengyl,
Bydd ddioddefgar ym mhob treigyl:
Cans trwy oddef llawer trallod,
Y mae mynd i lys y Drindod.
Cymmer fywiol ffydd yn † ſwccler,
Dorbyn frâth a ſaetheu'n wiber:
Bywiol ffydd yn Ghriſt a all,
Ddiffodd tanllyd ſaethu'r fall.
Cymmer awchlym gledde'r Yſpryd,
Grymmus air y Scrythur hyfryd;
Dyna'r cleddyf llymm ei laſan,
y'n rhoi ffwyl a chlwyf i Satan.
Cadw arfeu Duw yn waſtad,
Cymain un bôb awr am danad;
Nad un pryd dy ddala hebddyn:
Rhag dy glwyfo gan y gelyn.
A gweddio ar y Drindod,
m gael grym a grâs i orfod;
tri gelyn hyn yn waſtad,
waſnaethu Duw yn d' alwad.

‡ *Ond bydded gennit ſail am dy obaith.*

‖ *Dryllmawr.*

*Eph.* 6, 14.

*Act.* 14. 22.

† *Tarian.*

Os cwrdd Satan a ni'n noethion:
Heb Arfogaeth Duw am danon:
Mae e'n chwareu'n dôſt a hwnnw,
Sydd heb Armwr gantho yw gadw.
Os bydd pen heb Helmet ddilys
‖ Dwyfron. ‖ Breſt heb bais, na lwyn heb wregys,
Troed heb eſcyd, llaw heb gledde,
Sarph a'n clwyfa, gwnawn ein gore.
Bydd gan hynny megis milwr,
Yn dy gylch bôb awr a'th Armwr,
Ym-mhob mann yn dyfal wilio,
Rhag i'r gelyn dy antheithio.
Pan yr elech gynta allan,
Gwachel ddirgel rwydeu Satan,
Rhwn ſy'n ceiſio dy fachellu,
Ar bob cam a'th hela i bechu.
Mae e'n fawr ei lîd a'i hocced,
Mwy ei dwyll na'i rym, er cryfed;
Mae fel llew yn troi o bobtu,
Ddydd a nôs yn ceiſio'n llyngcu.
* Dichell. * Hocced Sarph, llidawgrwydd Gwiber
Cryſder llew, ffyrnigrwydd Teiger,
Awydd Blaidd, Bradwriaeth Cadno,
Sydd gan Satan lle tramwyo.
Nid yw'n cyſgu, nid yw'n gorphwys,
Nôs na dydd er pan ei cwympwys:
Ond amcanu lladd a mwrddro,
Am ei chwyth pwy bynnag allo.
‖ Wiliadwriaeth. Bydd gan hynny ar dy ‖ wachel,
Ym-mhob mann rhag rhwyd y cythrel;
Cais gan Ghriſt bob awr dy helpu,
Chriſt a'th nertha ei orchſygu.

Gwedd

---

*Gweddi yn erbyn temptiad a rhuthre Satan.*

POrtho'r mawr y pwll di waelod,
Ceidwad dryſſeu uffern iſſod,
Rhwymwr Satan, llyngcwr ange,
Clyw ſy ngwaedd o'th nefol gartre.
Y mae Satan rhwng orchfygaiſt,
A'r ddraig waedlyd rhon a rwymaiſt,
Yn amcanu ſy * andwyo, * *Anafu.*
Oni châf dy help ei ffrwyno.
Mae ef nôs a dydd heb Gyſcu,
Megis llew yn ceiſio'n llyngcu, 1 *Pet.* 5. 8.
Ac yn barod i'm ‡ deſowrio, ‡ *Difa:*
Oni chedwi di fi rhagddo.
Mae e'n tannu ei groglaethe,
Ddydd a nos ar drws ſy llwybre:
Nid oes llun na ſyrthiwyf ynddynt,
Oni chedwi di fi rhagddynt.
Nid oes afal têg gwarddedig,
Na bo beunydd yn ei gynnig;
Nac un pechod na bo e'n ceiſio,
Genni wnouthur ith lwyr ddigio.
Nid oes twrn da ſwi'n amcanu,
Na bo'r ddraig yn ceiſio ei nadu,
Ac yn ‖ dyor yn rhy ſynych,
gwaith goreu ſwi'n ei chwennych: ‖ *Rhwyſtro.*
Ni chai ſwytta pryd o fara,
Ni cha'i gyſcu mewn eſmwythdra,
Ni cha'i yfed draucht o ddiod,
Na bo e yn ceiſio ei droi'n bechod.
Ni châf ddwedyd gair o'm gene,
a gweddio ar ſynglinie,
bo Satan yn amcanu,
ith weddio beri am bechu.

Pan bo mwya chwant ſy-nghalon;
Ith waſnaethu ( Chriſt ) yn ffyddlon
Dyna'r pryd y cais ſy rhwyſtro
‡ *Dichell.* A'r holl ‡ gwning a fo gantho.
A phyt ſaet ti'n gadel iddo,
Redeg arnai heb ei ffrwyno,
Gwn na byddeu well ſy nrheigil,
Nag oedd dien *Job* a'i eppil.
Arglwydd gwêl ei waedlyd ſwriad,
† *Lleihâ.* † Tola ei ſalchder, torr ei ruad;
Rhwym ei ferr, byrrha ei gadwyn
* *Attal.* Siga ei ſiol, a * ſtoppa ei wenwyn.
Tydi Ghriſt ſy'n rhwymo'r wiber,
*Luc.* 11. 32. Ti ſy a'r gadwyn am ei ddwyfer;
Tydi ſpeiliodd o'i holl arſe;
Tydi gedwodd ein eneidie.
‖ *Arfogaeth,* Gwiſc dy ‖ armwr oll am danom,
Dôd dy rymmus yſpryd ynom,
Dyſc ein dwylaw i ryfela,
Nad ith weiſion gael y gwaetha,
Nad O Ghriſt ir ſarph ein twyllo;
Nad ir wiber ein handwyo;
Nad ir llew ein lladd na'n llyngcu;
Nad ir gelyn ein gorchfygu.
Gwann ym ni, a chryf yw ynte;
Can mil cryfach Chriſt wyt tithe
Nertha'n gwendid trwy dy gryfdwr,
I orchfygu ein gwrthnebwr.
Call yw'r Sarph, a dwl ym ninne;
Doeth yw'r ddraig, a llawn bachelle;
Oni helpu di ni'n prynwr
Aiff dy bridwerth gan y Bradwr.
Gwna ni'n ddoeth i weld ei rwyde;
† *Call.* † Ffel i wechlyd ei groglathe,
‡ *Wrthwyne-* Cryf i ‡ wrthladd ei ddichellion;
*bu.* Call i wrthod ei gynygion.

Arglwy

Arglwydd edrych ar dy weiſion
Nertha'th frodyr gael y Goron;
Helpa bawb ſydd dan dy faner
Ddwyn eu croes a throedio'r wiber.

---

*Cynghorion yn erbyn profedigaetheu Satan.*

OS promeiſa Satan itti,
Dai a thirioedd am ei addoli,
Dywaid nad oes troedfedd fechan,
Ond pwll uffern gantho ei hunan.
Os bydd Satan yn dy annog,
I halogi gwraig cymmydog: *Heb.* 13. 4.
Dywaid fod dialau'n barod;
A barn Duw am gyfryw bechod.
Os cais Satan genyd feddwi
A * charowſio gwin yn wiſci; * *Yfed.*
Dywaid yr a'r holl rai meddwon, 1. *Cor.* 6. 9.
Ddydd y farn ir tan a'r brimſton. 10.
Os cais Satan genyd dyngu
Cig a gwaed yr Arglwydd Jeſu; *Zech.* 5. 2,
Dywaid nad oes un rhyw bechod, 3, 4.
Waeth na chablu gwaed y cymmod. *Heb.* 10. 29.
Os cais Satan genyd dreiſio,
Y rhai tlodion a'u handwyo; *Exod.* 22.
Dywaid nad gwaeth pigo llygaid, 22, 23, 24.
Chriſt ei hun na threiſio ymddifaid. *Dihar.* 22.
Os cais genyd wneuthur ffalſtedd, 22, 23.
Ac udonaeth ac anwiredd;
Dywaid fod Duw'r Barnwr cyfion [illegible] 3. 5.
Yn ei preintio ar dy galon. *Jer.* 17. 1.
Os cair genyd mewn dirgelwch
Weithio gweithred y tywyllwch; *Job.* 34. 21.
Dywaid fod Duw a ſaith lygad, 22.
Ym-mhob mann yn edrych arnad.

Os cais Satan gennyd gablu,
Dy gyd-griſtion gwedi naſu;
*Dib.* 17. 5. Mae e'n ceiſio megis bradwr,
Gennyd gablu dy Greawdwr.
Os cais gennyd ddwedyd celwydd,
Mae'n amcanu yn ddigwilydd,
*Datc.* 21. 8. Lâdd a dwyn dy enaid gwirion,
Ir pwll poeth a'r tân a'r Brimſton.
Os cais gennyd wan obeithio,
* *Ediſaru.* Am drugaredd, er * repento;
Mae'n ei ofryd dy ddwyn ir deyrnas,
Ir aeth *Cain*, a *Saul*, a *Suddas*.
Os cais Satan gâs dy rwyſtro,
I dy Dduw, y mae'n dymuno,
Dy droi maes or nef yn ddirgel,
Eiſie addoli Duw'n ei Demel.
*Rhuf.* 10. 17 Os cais gennyd droi dy wegil,
‖ *Rwyſtro* Pan pregethir yr efengyl;
Mae e'n ceiſio dy ‖ ddehoryd,
Rhag cael profi pren y bywyd.
Os cais Satan genyd gyſcu,
* *Gwatwar.* Yn yr Eglwys wrth waſnaethu;
Mae e'n ceiſio genyd * ſoccian
Duw'n ei lys ai dy ei hunan.
Gwachel gyſcu wrth weddio,
Gwaeth na'r diawl yw'r dyn y ſoccio,
Duw'n ei Demel, ar awr weddi,
Ar ei lin yn rhith addoli.
Os cais gennyd fynych arſer,
Oedi bwytta'r ſanctaidd ſwpper;
Wrth dy ddyor ir Comuniwn,
† *Mae'n ſêl* Mae'n dwyn ymaith † Sêl dy bardwn.
*o bardwn i'r* Os cais gennyd lwyr anghoſio
*graſol; nid* 'R ſengyl ſanctaidd gwedi gwrando;
*i'r anraſol.* Mae e'n ceiſio dwyn o'th galon
Hâd y gair a'th wnelo'n griſtion,

Os caiff gennyd fod yn fodlon,
Ddwyn heb ſulw enw Criſtion,
Fe wnae felly yn ddiogel,
Wâs i Ghriſt, yn wâs i gythrel.
Os cais gennyd ti broffeſſio
Ffydd heb weithred yn cydweithio;
Mae'n dy dwyllo trwy ffydd farw,
Dryſto'r ffydd ni all dy gadw.
Os cais gennyd ti ddihirio
Edifeirwch nes ‖ departo;
Mae'n dy rwyſtro geiſio ffafar,
Duw, nes eloi'n rhy ddiweddar.
Ni ad Satan un rhyw bechod
Nad am canſ gael dy orfod;
Ni ad garreg heb ei threiglo,
Nes y paro ie dramcwyddo.
Bydd bob hamſer ar dy wachel;
Nos a dydd y rhodia'r Cythrel,
Nid oes mann nad yw e'n tannu,
Ei groglaethu i'n bachellu.
Yn yr Eglwys, yn y berllan,
Yn y ſhiop ac oddiallan;
Ar y ford, ac yn y gwely,
A cais Satan dy fachellu.
Bydd gan hynny megis milwr,
Yn dy gylch bob awr a'th ‡ armwr,
Ym-mhob man yn dyfal wilio,
Rhag i Satan dy andwyo.
GWae'r dyn a fo gwyllt yn blentyn,
Glwth yn llangc a charl yn gleirchyn
Hwnnw dreuliodd ei holl oedran,
Ym-mhob oes wrth 'wllys Satan.
Gwachel f'enaid rwyde Satan.
'th fachellu ym-mhob oedran:
r bob llwybyr fe amcana.
rhyw groglath gael dy ddala.

*Jac.* 2, 14. 17.

‖ *Awrangeu*

*Preg.* 9, 10.

2 *Cor.* 2; 11;

‡ *Arfs.*

Yn dy ieuengctid ſo gais genyd
* Ddiſudd. Dreulio d' amſer yn * ddi-broffid
Mewn pibyddiaeth ac oferedd,
Heb na dyſc, na dawn, na rhinwedd.
Yn d' wroldeb, fo braw'th dynnu,
* Yfed. I * garowſio a gordderchu,
Ac i nyrddo dy lan leſtor,
A thrythyllwch a diffeithder.
Yn dy henaint, fe braw'th rwyſtro,
* Edifaru. Droi at Dduw trwy wir * repentio;
Ac y dry dy fryd yn benna,
At fydolrwydd a chybydd-dra.
Praw gan hynny ym-mhob oedran,
Lwyr ymgadw rhag twyll Satan,
Rhwn y gais dy gyfyrgolli,
Trwy'r peth mwya fech yn hoffi.

---

## *Cyngor i ddyfal weddio ar bob achos, ac ym mhôb gorchwyl.*

ER fy mendith nac anghofia,
Dair gwaith beunydd ar y lleia,
Bûdd weddio ar dy ddaulin,
Pſ. 55. 17. O flaen Duw dy dad a'th Frenin.
Cyn mynd allan y boreuddydd
Cyn ciniawna y canol-ddydd,
Cyn ſwpperu; o gweddia
'R tri phryd hyn yn ddiſceulusdra.
Côd dy ddwylo i weddio
Cyn goſtyngwch law i weithio
Cais gan Dduw fendithio d' orchwyl
Cyn y delech yn ei gyfyl.
1 Theſſ 5. Ac wrth wneuthur dy orchwylion,
19. Arfer brûdd weddia byrrion:
§ Yn ymbil. A bydd § eiriol yn dy weddi,
Ar i Dduw roi cymmorth itti.

Os bydd trym waith a ffrwſt arnad,
Os bydd trafferth ar ddydd marchnad,
Gwybydd (f' enaid) y gwna gweddi
Fwy o lês na rhwyſtr i ti. *Pſal.* 119, 194.
Er bod Dafydd yn rhyfelwr,
Ac mewn trafferth mwy nag un gwr,
Etto er hynny ſaith waith beunydd,
Y gweddie'r Brenin Dafydd:
*Joſuah* rymmus y weddie
Yn y * frwydr ac a ymladde, * *Yr ymladd-fa.*
'R oedd e ai galon yn gweddio, *Joſ.* 10, 12,
Ac yn ymladd a'i ddwy ddwylo. 13, 14.
Nid oedd gweddi rhain yn rhwyſtyr,
Ar un gorchwyl faent yn wneuthur,
Ond rhyddhau a llwyr fendithio,
Pob rhyw waith y wnel eu dwylo.
Arfer dithe weddi hyfryd,
Ym-mhob gorchwyl y fo genyd, *Pſal.* 34. 10.
Di gei weld y gwna gweddi,
Rwydd deb mawr a chynſſwrdd i ti.
F' all yr hwſmon, f' all y geilwad,
Alw ar Dduw a dala'r Arad,
Fel y gallont ddwedyd ffregod,
Wrth yr Ychen a'r neſeilod.
F' all Trafaeliwr ganu Pſalme,
A gweddio ar ei ſiwrne,
Fel y gallont ganu maſwedd,
A chwedleua am ofcredd.
F' all y Cryddion f' all y Taelwyr
Moli Duw a chwareu'r crefftwyr;
Gan roi eu breichie i ddyfal weithio,
A'u calonnau i weddio.
F' all y gwragedd hên wrth nyddu,
F' all y merched wrth ſidanu;
' all pawb ddilyn eu celfyddyd,
gweddio'n ddyfal hefyd.

Gyda *Moeſen* ar y mynydd,
Gydag *Iſaac* ar y maeſydd,
*Gen.* 4. 63. Gydag *Ifan* yn yr Eglwys,
Y mae gweddi yn dra chymmwys.
Cyn yr elech ir drws allan,
Ac un gorchwyl mawr na bychan,
* *Oddiſrif.* Cais gan Dduw dy * brudd fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo
Duw ſy'n rhoddi rhad a llwyddiant
Duw ſy'n danfon ffawd a ffyniant,
Lle'i cyſa cheir fe ry fendith,
Lle'i anghofi fe ddaw melldith.
Cais ei yſpryd ith gyfarwyddo,
Cais ei ras ith gynnorthwyo
Cais ei fendith ar bob gweithred,
Felly daw it rad o'i barthed
Dechre'r gwaith yn enw'r Jeſu,
Cais ei gyfnerth i ddibennu;
Yn ei ddiwedd cais ei ogoniant,
Felly cei o'th weithred ffynniant.
Fel y llwyddodd Duw orchwylion,
*Joſeph* gynt a *Daniel* ffyddlon,
Felly llwydda d'orchwyl dithe,
Os gweddi i arno'n ddie.
Oni wnei dy weddi'n addas,
Dug ei adail Bwth fel *Jonas*;
A Phyſcotta megis *Peder*,
Ac heb ddala dim un amſer.
Di gei dwttan a thraſaelu
Ac ymrwyſan a thrafferthu,
Ddydd a nos a phoeni'n ofer,
Heb fod dim yn well un amſer.
Ofer codi ar y wawr ddydd;
Ofer bwytta bara cyſtudd;
Ofer gwiliaid hir nos gaia,
Os yr Arglwydd ni'n bendithia.

O

Ofer adail teie newydd ;
Ofer cadw caere trefydd,
Ofer poeni trwy rymuſtra,
Os yr Arglwydd ni chyd-weithia.
Rhag i'th lafur fynd yn ofer,
O gweddia'n brudd bob amſer,
Ar i'r Arglwydd dy fendithio ;
Felly ffynna gwaith dy ddwylo.

Cyngor i'r Llafurwr.

CYn rhoi llaw ar gorn yr Aradr,
Cod dy ddwylo ti ath eilwad
At Dduw mawr am dy fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.
Ofer hau a rhedig llawer ;
Ofer llyfnu'r maint a haner ;
Oni ddyru Duw ei fendith,
Dan y gwys y pydra'r gwenith ;
Dyn ſy'n hau a Duw ſy'n hadu
Duw ſy'n peri'r llafur dyfu,
A dwyn ffrwythau ar ei ganfed,
Ir ſawl ſ' ynddo yn ymddiried.
'R un a geiſio ffrwyth o'r ddaiar Pſ. 104. 14.
Rhaid a llwyddiant ar ei heiniar,
Prudd weddied ar yr Arglwydd,
Fe gaiff lwyddiant heb ddim aflwydd.
Gwell yw gweddi gydag oged
I gael * llafur ar ei ganfed
Na chwech aradr ac ogedi ;
Lle na byddo ſôn am weddi,
Fe gai *Iſaac* wrth fyfyried
Lafur gan Dduw ar ei ganfed, Gen. 24. 63.
Pan bae eraill heb weddio
* Pring yn cael y chweched ganddo. Gen. 26. 12.
O gweddia dithe'r Hwſmon
Ar dy Dduw o ddyfnder calon,
Am roi rhad ar waith dy ddwylo,
Felly cei di ddigon gantho.

* Yd.

* Breidd.

---

## *Gweddi yr Hwſmon.*

LLuniwr Daiar, helpwr dynion
Awdwr hadau'r ddaiar ffrwythlon
‡ *Yd.* Rhoddwr gwlaw, Cynnyddwr ‡ llaſur,
Gwrando weddi Hwſmon pryſur.
Rwy fi'n mynd i drin y ddaiar
Ac i hau yn hon yr heiniar,
Heb gael gweled mwy mo honno
Oni roi dy fendith arno.
Arglwydd ofer ydyw plannu;
Hau yn gyngan a gorllyſnu,
Oni pheri di iddo egino,
A rhoi rhâd a chynnydd arno!
Ni ddaw hedyn byth trwy'r ddaiar,
O'r maint oll ſydd geni o heiniar,
*Oni* pheri di iddo darddu,
Tyſu allan a chynnyddu.
Rwy gan hynny'n begion bryſur,
Duw dy fendith ar fy llaſur,
Fel y gallwi gael oddiwrtho,
‡ *Cynnal.* Fôdd fel Chriſtion im ‡ maintumio.
Agor i'm ffeneſtri'r nefoedd
Gwlawia fendith ar fy nhiroedd;
Portha fi a braſder daiar,
A rho lwyddiant ar fy heiniar.
Nâd ir nefoedd fynd yn brês,
*Lev.* 16. 18, Na'r ddaer yn harn rhag gormod gwrês,
19, 20. Nad ir meuſydd mawrion fethu,
Am ein lleſgedd yn dy wasnaethu.
Rho wrth feſſur y gwlaw cynnar,
Yn ei bryd, a'r gwlaw diweddar,
‡ *Tymberus.* Hinon dempraidd gwrês ‡ cymmodrol
Rhâd a llwyddiant ar dy Bobol.

Gwar

Gwardd y § Locwſt, gwardd y lindis, § *pryſed,*
Gwardd y gwlith ſy'n brychu'r barlis, *Amos* 4, 9.
Gwardd y gwrês a'r Gwynt a'r † lluched † *Mellt.*
Sydd yn peri'r llafur niwed.
Corona flwyddyn a daioni,
Tywallt fraſder dy râd arni
Gwiſc y dolydd oll a defaid,
A'n mynyddoedd a nifeiliaid.
Dyro ymborth i blant dynion,
Dyro wellt i'r Scribliaid mudion;
Dyro win ac olew'n helaeth,
I ddiwallu d' etifeddiaeth.
Dyro i'n gynhaiaf ffrwythlawn,
Rhâd o'r maeſydd ac o'r fiſgawn,
Had o'r Ardd, a ffiwyth o'r Berllan
Mêl o'r graig a llaeth o'r gorlan.
A bendithia waith ein dwylo
Arglwydd graſſol byth tra chantho,
Felly ni'th fendithiwn dithe
Ar ein dau lin nos a bore.

---

## *Cyngor i'r Trafaeliwr.*

CYn y dodech droed mewn gwarthol,
Fynd i § ſiwrnai angenrheidiol: § *daith.*
Cais gan Dduw fendithio'r ſiwrne,
A'th ddwyn eilchwaith yn jach adref.
Cais ei Angel i'th gyfarwyddo,
Cais ei adain i'th § brotecto, § *Amddiffyn*
Cais ei fendith ar dy ſiwrneu
Fe rwyddha dy holl negeſeu.
Fel y helodd Duw ei Angel,
Gyda *Thobi* ar ei drafel,
Felly hol ef heddyw heno, *Pſal.* 50. 15.
Help i bawb a alwant arno.

* *Ucheldad* Dyſc gan wâs y * Patriarch gore,
Alw ar Dduw wrth fynd i'th ſiwrne,
*Gen.* 24.21. Am fendithio dy amcanion,
* *llwyddiant* Di gei * ffawd wrth fodd dy galon.
Oni cheiſi at dy linie,
Gan fab Duw ryddhau dy ſiwrne
Cei drafaelu ar yr ormes,
A dwad adre heb dy neges.
Gwell yw gweddi i Drafaeliwr,
Naw yw'r gwin yn amſer ſychdwr:
* *Mellt.* Gwell na chaſtell rhag y * lluched,
Gwell na dim rhag pob drwg dynged;
Gwell yw gweddi ith amddiffyn,
Wrth ſiwrneia rhag y gelyn,
Nag un cleddyf dir na Phiſtol,
Carneu meirch na mil o bobol.
O gweddia' dithe'n waſtod,
* *ymdeithio.* Wrth * ſiwrneia at y Drindod,
Ac fe ddyry ei Angelion,
Ith rwyddhau wrth fodd dy galon.

---

### *Gweddi Trafaeliwr.*

HElpwr pob trafaeliwr ofnus,
Ceidwad cryf pob gwan gofidus,
Gwrando'n raſol o'th orſeddfa:
Waedd trafaeliwr wrth ſiwrneia.
Arglwydd mae'n rhaid i'm drafaelu,
I wlad bell nad wi'n i medru,
Ac ni wn a ddo i mwy adre,
Oni lwyddi di fy ſiwrne.
* *rheoli.* Tydi Arglwydd ſydd yn * llywio,
*Rhuf.* 11.36 Y byd hwn a'r maint ſydd ynddo,
Fel na ddigwydd ond y ſynnech,
Ir rhai anwyl ac a garech.

Rw

---

Rw
O'th
*Ro*i i
Am d
Dar
Im cy
Im th
Am d
Tan
Cŵd
Nâd u
Ar y
Dar
Im rhv
Fel yr
I rwy
Byd
Bydd y
Im c
Megis
Di g
Gynt a
O! cy
Nes fy
Fel
Rhag y
Felly c
Rhag
Cadw
Ai aelo
A nâd
Im na
Nâd
Nâd y
Nâd ir
Nac un

Rwi gan hynny'n deiſyf arnad
O'th drugaredd ac o'th gariad,
*R*oi im rwydd deb yn ſy ſiwrne,
Am dwyn yn holl iach lawen adre,
Danſon d' Angel im cyfrwyddo
Im cymfforddi am * protectio, * *Amddiffyn*
Im rhwyddhau yn ſy negeſſe,
Am dwad eilchwaith yn iach adre.
Tanna droſwi d' adain raſol,
Cûd ſi deni yn waſtadol,
Nâd un gelyn wneuthur niwaid,
Ar y ffordd im corph na'm henaid;
Danſon *Raphael* dy anwyl was,
Im rhwyddhau am dwyn o gwmpas,
Fel yr helaiſt gyda *Thobi*,
I rwyddhau o bob * clamwri. * *Gofydi.*
Bydd o'm blaen fel niwl y boreu,
Bydd y nôs fel tanllwyth oleu,
Im cyfrwyddo, Chriſt dy hunan *Exod.* 13. 21, 22.
Megis Iſrael tua Chanaan.
Di gyfrwyddaiſt y gwyr doethion,
Gynt a'r ſeren ir ffordd union,
O! cyfrwydda felly ſinne,
Nes fy nwyn i ben ſy ſiwrne.
Fel y cedwaiſt *Dobi* ianga,
Rhag y pyſc a ſynnei ddifa,
Felly cadw ſinne'n raſol,
Rhag pob perygl yn ddihangol.
Cadw ſi rhag rhwyde Satan,
Ai aelode, pobol aflan;
A nâd iddynt wneuthur niwed.
Im na chwilydd, * ſtop, na cholled. * *Rhwyſtr.*
Nâd y * Dwrw, nâd y * llyched, * *Tryſte.*
Nâd y ſtorom wneuthur niwed, * *Melle.*
Nâd ir fall na'r ddraig ſy nrygu,
Nac un gormail ſy ngorthrymmu;

Cadw fi rhag bradeu lladron,
Perygl dyfroedd a drwg ddynion,
Letty anwir, bwydydd afiach,
Rhwyſtyr ffordd, a drwg gyfeillach.
Cwyn ſy nghalon, nertha f' yſpryd,
Rhwydda ſy ffordd a'th gymorth hyfryd,
Helpa 'nghoffyl a'm cyfeillion;
Dwg ni dre wrth fodd ein calon.
Rho di rwydd-deb yn ein buſneſs;
Helpa bawb i gael ei neges,
Ac ſy a meddwl oneſt gantho,
Fel y gallon dy ſendithio.
Arglwydd cadw ni rhag tramcwydd,
Cwilydd, colled, anhap, aflwydd,
Nychdod, niwed, croes a dolur,
Colli'r ffordd a'r cyfryw rwyſtur.
Arglwydd dwg ni yn iach lawen,
At ein ffryns i dre drachefen;
Fel y gallom dy glodfori,
Ddydd a nos am it ein helpu.

---

### *Cyngor ir Milwr.*

CYn yr elech i ryfela,
Dros y goron, oh! gweddia,
Ar Dduw'r lluoedd am roi calon,
* Scil a grym ir milwr ffyddlon.
Duw ſy'n rhoddi grym a chryfdwr,
A chyfrwydd-deb i bob milwr,
Scil ir byſſedd i ryfela,
‡ Toſſo'r Peic a thynnu'r bwa.
Duw y lluoedd ſydd ryfelwr,
Ac yn noddfa mewn cyfyngdwr,
Duw ſy'n rhoddi'r fuddugoliaeth;
Cais ei help, fe'rhy yn helaeth.

* *Cyfarwyddyd.* *Pſal.* 144. 1. 2.
‡ *Cyfodi.*
*Exod.* 15. 3.

Gwell yw gweddi mewn cyſyngdwr,
Wrth ryſela i bob ſawdiwr,
Nag un ‡ harnais i'w ymddiffyn;
Gwell na * glaif i glwyfo'r gelyn.
Mwy y laddodd dwylo *Moeſen*
Wrth eu dercha tua'r wybren,
Nag y laddodd cledde *Joſuah*,
A holl *Iſrael* wrth ryſela.
*Jonathan* a'i weddi laddodd,
O'r Philiſtiaid ſwy o filoedd,
Nag y laddodd *Saul* a'r cleddo,
A'i ryſelwyr oll a'u harſe.
Chwymach ydoedd gweddi *Dafydd*,
droi'r cawr a'i dorr i ſynydd,
Na'r holl gerrig aeth o'i goden,
r eu glynu yn ei dalcen.
Hên *Elias* heb ddim arſe,
Ond i weddi y ddiſethe
Ddau ben capten a'u cwmpeini;
eth ſydd gryfach nag yw gweddi?
Cryfach ydoedd gweddi *Judith*,
Na'r holl welydd cedyrn aryth,
ymddiffyn tre Bethulia,
hag *Holphernes* idd ei diſa.
Arfer dithe brudd weddio,
Wrth ryſela a'th ddwy ddwylo;
el arferodd dewr wych *Joſuah*;
i gei lwyddiant wrth ryſela.
Dôd dy ddwylaw i filwrio
ôd dy galon i weddio;
i gei weled y gwna gweddi,
wy na dwylaw o § wrhydri.

ARglwydd grymus, Llywydd lluoedd,
Pen rheolwr pob rhyſeloedd
nig roddwr buddugoliaeth,
wrando ngweddi o'm milwriaeth;

‡ *Arfogaeth.*
* *Pladur.*

Ex. 7. 11.

1 *Sam.* 14.

1 *Sam.* 17.

2 *Bren.* 1.

§ *Gwrolder-*

*Gweddi'r milwr.*

Rym ni ymma ym-mhlaen y goron,
A'n Prins a'n gwlad, a'n da, a'n dynion,
Yn rhyſela a gwir diras,
Sy'n amcanu treiſio'r Deyrnas.
Duw gwaradwydda eu amcanion,
A'u bwriadeu a'u dichellion;
Tola eu balchder torr eu cryſdwr,
Doſa eu hawch, goſtega eu cynnwr.
Nertha ninne dy wael weiſion,
Chware'r gwir ym mhlaid y Goron:
A rho inni rym a gallu;
Eu concwerio a'u gorchfygu.
Arglwydd graſſol cwyn ein calon
Ymladd droſſom a'n gelynion,
Hel dy fraw ath ofon arnynt,
‡ *Cwymp.* Dyro ‡ ffwyl a gwradwydd iddynt.
Er nad ydym yma ond gronyn
Ir fath niſer ſydd i'n herbyn,
Etto rym yn ddigon grymmys
Os tydi a ſydd o'n hyſtlys.
Arglwydd gwyn, nid llai dy bwer,
1 *Sam.* 14. Mewn ychydig nag mewn llawer,
Os mewn gwendid rwyt ſynycha
Yn mynegi d'allu mwya
*Barn.* 7. 6. Peraiſt gynt i *Gideon* ddifa,
Ef a thrychant o'r gwyr-gwanna,
Lû aneirif o'r Midianiaid
Oedd cyn amled a'r locuſtiaid.
* *Yr hwn oeddyn dwyn ei arfau.* *Jonathan* ai * gludydd arfe,
Helodd miloedd i droi cefne,
Pan y helaiſt ofon arnyn,
Pwy a feiddie droi yn o' erbyn?
*Barn* 3. 3 1. Rhoddaiſt rym i *Samgar* fraeni,
‡ *Irat.* Chwechant gwr, a'u lladd a'r ‡ ierthi,
*Barn.* 15. 15 Ac i *Sampſon* ladd heb orphen
Fil o wyr a gên yr aſſen.

Di ddiſethaiſt trwy law gwreigin
Ben tywyſog Brenin *Jabin*;
Ac a wnaethoſt ir planede *Barn* 4. 21.
Ymladd droſſot yn eu gradde. *Pen.* 5. 20.
Gelly Arglwydd mawr os mynny;
Roi i ninne rym a gallu,
I orchfygu ein gelynion,
Er nad ym ond milwyr gweinion.
Os tydi a ſydd o'n hochor,
Nef a daiar, dwr a chefnfor,
Haul a Lloer, a gwynt yſtormys
A ryfelant ar ein hyſtlys.
Arglwydd mawr os byddi o'n hyſtlys
Pet fae'r *Twrc*, a'r *Pab* a'r *Spanis*,
A holl uffern yn ein herbyn,
Ni roem ddim o'r garrai er ddyn.
Tydi'n unig ſydd ryfelwr,
Gennit ti mae ‡ ſcil a chryfdwr, ‡ *Meder.*
Ti ſydd roddwr buddigoliaeth,
Ti ſy'n achub rhag marwolaeth.
Ti ſy'n peri'r rhyfel beidio:
Ti ſy'n tor i'r † ſpêr yn * yſſio: † *Gwaywffon*
Ti ſy'n rhoddi'r march i gyſcu, * *Ynddarnau*
Ti yn unig ſy'n gorchfygu.
Doro gomffordd i'n calonne;
Doro gryfder yn ein breichie;
Doro ſcil i'n bawb ryfela,
Megis milwyr i'r goruchla.
Gwna'r capteniaid megis *Joſua*,
Ymwroli i ryfela;
A bydd gyda rhain dy hunan,
I gyfrwyddo ei * plot a'i hamcan.
Doro galon ym mhob milwr § *Bwriad.*
Deall, Dewrder, ſcil a chryfdwr,
Gallu gwllys hyder coin, * *Gwrthwy-*
I * gonffronto ein gelynion. *nebu.*

Dôd d' Angelion i'n caſtellu,
Rhag pob gelyn tra ni'n cyſcu:
A dod lu o'th filwyr penna,
I'n cyfnerthu wrth ryfela.
Bydd dy hun yn diſgwyl arnom,
Ac y † llywio'r hyn a wnelom;
† *Rheoli.* Nâd i'n wneuthur yn wrthnebus,
Ddim yn erbyn dy lân 'wllys.
Gwna ni'n gywir bawb i'n Brenin;
Gwna ni'n ffyddlon ir cyffredin,
Gwna ni'n ufydd i'n rheolwyr,
Ac heddychlon a'n lletteuwyr.
*Luc.* 3. 14. Gwna ni'n fodlon bawb i'n cyflog:
Nâd i'n ſpeilio un cymmydog,
‡ *Gorthrymmu,* Na ‡ gormeſlio mawr na bychan;
Ond byw'n weddus yn dy ofan.
Nâd i'n ddilyn afreolaeth,
Na chynhennu mewn cwmpniaeth,
Nac ymdynnu a'n Captenni,
Na byw'n aflan mewn drygioni,
Nad i'n dreiſio gwraig na morwyn,
Nac anrheithio un dyn addfwyn;
Rhag i'th lid gyfodi'n herbyn,
A'n troi bawb tan ddwylo'r gelyn.
Gwna ni bawb yng hanol rhyfel,
Fyw fel pobol yn dy demel:
Y fae bob yn awr yn galw,
Am dy gymmorth idd ei cadw.
Lle'r ym beunydd ym mhyrth ange,
Ar flaen peics a geneu'r gynne;
Pâr i'n fyw bob awr yn d' ofan,
A throi heibio'n buchedd aflan.
Ni wyr un pa awr, pa ennyd
Y rhy gyfrif am ei fywyd,
Gar dy fron o Farnwr cyfion;
Pâr in fyw gan hynny'n union.

Gwa

Gwna ni'n barod ddwad attad,
Bob rhyw awr O anwyl Geidwad:
Nad in fyw un awr mewn pechod,
Rhag ein cyrhaedd yn ymharod.
Nad i'n wneuthur dim drygioni,
Nac un † herc na allom roddi, † Gweithred.
‡ Gownt oi blegid heb gwilyddio, ‡ Cyfriſ.
Ddydd y farn pan doir i * ympirio: * Ymddangos
Arglwydd achub ni dy weiſion.
A gwradwydda ein gelynion:
Cadw ein Brenin a'i frenhiniaeth;
A rho iddo'r fuddugoliaeth.

---

## *Cyngor ir Porthmon.*

OS dwyd *Borthmon* dela'n onaiſt,
Tal yn gywir am y gefaiſt;
Cadw d'air, na thorr addewid;
Gwell nag Aur mewn côd yw credid.
Na chais ddala'r tlawd wrth angen:
Na thrachwanta ormod fargen:
Na fargenna a charn lladron:
Ni ddaw rhad o ddim y feddon.
Gwachel brynu mawr yn echwyn;
Pawb ar air a werth yn ſcymmyn:
Prynu'n echwyn y wna i *Borthmon*,
Ado'r wlad a mynd i'r Werddon. 1 *Theſſ.* 4. 6.
Gwachel dwyllo dy fargenwyr;
Duw ſydd Farnwr ar y twyllwyr;
Pa dihangit tu hwynt ir Werddon,
Duw ſyn ddial twyll y *Porthmon*.
Byth ni coſtia un o'r twyllwyr;
Rhyn y heliant medd y Scrythyr; *Dib.* 12, 27.
Ni ddaw twyll i neb yn ennill,
Fe red ymmaith fel trwy'r rhidill.

Gwachel feddwi wrth *Borthmonn*,
Gwin hel *Porthmon* i gardotta,
Os y *Porthmon* y fydd meddw
Fa'r holl ſtoc i brynu'r Gwrw.
‖ *Bydd ofalus* Dela'n union, ‖ cara d' enaid;
*am* Na ddifanna a da gwirieniaid:
† *Gwledydd* Pa difannyd ir † Low Cwntres,
*iſſel.* Dial Duw y ſyn d' orddiwes.

---

*Cyngor cyn mynd i garu.*

PAn yr elech gynta i garu
*Gen.* 24. 7. Galw ar Dduw os myn di ffynnu;
Cais ei yſpryd i'th gyfarwyddo,
*Dibar.* 19. Hebddo nid oes lûn it lwyddo.
14. Rhodd arbennig oddiwrth Dduw,
† *Addas.* Yw gwraig raſol, weddaidd † wiw:
Rhodd na chaiff pob rhai o honi
*Preg.* 7. 26. Ond y ſawl y ſo'n ei ofni.
*Dibar.* 10. Cais gan d' Arglwydd hyn o rodd;
14. Di gei ‡ faitſio wrth dy fodd,
‡ *Briodi.* Cais ei nerth ai help a'i gyngor,
Di gei bob rhai ar dy ochor.
Ymddaroſtwng i'th Rieni,
Cyn y ceiſiech briod itti;
*Gal.* 3. 20. Cais eu hwllys mewn modd addas;
Felly ffynna dy briodas.
*Gen.* 27. 46: Fe fyn Duw it ymgynghori
A'th Dad, a'th fam, cyn priodi;
[illegible]. 2. Ac ymfaitſio'n ôl eu hwllys;
Tro na choiſiont faits anweddus.
Ni fyn Duw i'th dad dy fwrw,
Lle na byddo Duw'n dy alw,
Lle na allo'r Galon hoffi,
Lle na bo cyfaddas itti.

Os llawn o ras, os glan o ryw,
Os pûr o gorph, a môdd i ſyw,
Os mwyn, os doeth, os da yw'r ferch,
Lle galwodd Duw di rho dy ſerch.
*Mae'r Tdd a'r fam yn rhwym ith* ffwrddro* * *Gynnorthwyo.*
Mae'n erbyn Duw in rhain dy rwyſtro:
Cyffroi'r yſpryd a wna hynny, *Bar.* 14. 4, 5.
A themptio'n cnawd i odinebu. *Col.* 3. 21.
Na ddigia'th dad o bydd lle i heidio 1 *Cor.* 7. 9.
Ym-mhob peth gweddus goſtwng iddo;
Cais ei gyſnerth yn barchedig;
Cais yn ſwyn, ſe ddyru'n ddiddig.
Cais wraig dduwiol o'r iawn ffydd,
O grefydd Ghriſt, heb nag, heb * nydd; * *gyndynrwydd.*
Mewn un gwely byth ni chytſydd,
Gwr a gwraig o amryw grefydd. 2 *Cor.* 6. 14.
Cais wraig * ddiwair o rieni, * *Oneſt*
Rhyw a ym lyſc i ddrygioni: *Ezek.* 16. 44.
Oni cheidw Duw rhag Nam,
Fe drippia'r ferch lle trippio'r fam.
Cais wraig hygar, gryno, gruaidd,
Na phanſia forwyn ffiaidd;
Triſt ac oer, a dóf, a diflas,
Y fydd cariad at un atcas.
Cais wraig ddiſtaw, dda ei ſwyde,
Ddôf ei nattur, bâch ei chwedle;
Gwaeth na deſni, gwaeth nag Arthes,
Gwaeth na gwiber yw Scoldies.
Cais wraig ſedrus, ddoeth rinweddol, *Dih.* 27. 15.
Honno'th gwyd yn Ben i'th bobol; *Dih.* 17. [illegible]
Honno leinw dy gornele,
Honno bair'th galon chwarae,
Cais wraig hygar, a gwraig ſedrus,
Cais un raſol a chyſſurus;
Llom yw'r ſord, ac oer yw'r gwely, *Dihar.* 31.
Lle bo'r wraig heb dreſnu'r lletty. 22, 23.

Cais wraig weddus ar ei gwên
Nid rhy ieuangc, nid rhy hên:
Dib. 17. 22. 'R hên rhy oer a'th ladd a'i phoſwch,
A'r llall a bair it aflonyddwch.
Cais un ufydd megis *Sarah*,
Cais un ddiſſym fel *Rebecca*:
Cais un ſerchog megis *Rachel*;
Cais un fedrus fel mam *Lemuel*.
Cais un raſol, hygar, hyfryd,
Syber, Sanctaidd, lan ei bywyd:
Araſ, weddus, dda ei hymddygiad,
Hi dal mwy na chyfoeth tair gwlad.
Dib. 11. 16. O wachel goegen falch ddifeder,
‖ *Un afrywiog.* Gwachel ‖ Soga fur, anſyber:
Gwachel un oludog ffrom ffôl:
Dib. 21. 19. Honno'th flina di a'th bobol.
Gwachel wraig rhy wen, rhy gynnes,
Hi fydd neidir yn dy fynwes;
Odid gweled medd y frân,
Wraig rhy wen a chalon lân.
* *Cynnyſgaeth.* Na chais wraig a * gwaddol lawer,
Ac heb fedru trin ei phwer:
Mwg a niwl, a llif yn treio,
Yw gwaddol mawr heb fedru drinio.
Os bydd ond dwy it gael dy dewis,
Un yn frais, a'r llall yn fedrus:
Gad i fynd y fras ddifeder,
Cais y fedrus a'th holl bwer.
Y ddoeth a'r dda, a ddaw i ddigon,
O ddydd i ddydd hi wella ei dynion,
Dib. 31. 15, Ni chwſc hi'r nôs, ni phaid ei byſſedd,
18, 23. Nes cael cyfoeth ac Anrhydedd.
Y ddol a fwrw ei Thy i lawr,
Dib. 14. 1. A'r ddoeth a adail Drefydd mawr,
Y ddol a bair i'w gwr ochneidio,
A'r ddoeth a ddwg anrhydedd iddo:

Y ffôl ei phen y ffina Gawr,
Ac anrheithia'r gwaddol mawr.
Gan lwyr droi ‖ *Phacs yn Phardel*,
Nes gwradwyddo'r ffrins a'r genel,
Archoll calon, baich aneſmwyth,
Defni dyfal, gwawd iw thylwyth,
Ja yn gwaſcu, Sarph yn priccio,
Iw gwraig ddrwg; gwae'r gwr a'i caffo.
Duw a'i yſpryd a'th gyfrwyddo,
I gael'r ore a'th fodlono,
O ddawn, o dda, o ras, o ryw,
Wrth fodd dynion, wrth fodd Duw.

‖ *Gan yr u llawer yn ychydig.*

---

### *Canmoliaeth Gwraig dda.*

GWell *Bachgen doeth na Brenin ynfyd*,
*Gwell Enw na nag enaint hyfryd*,
*Gwell pwyll nag Aur; gwell grâs na grym*,
*Gwell dyn na da; gwell Duw na dim*.
Gwell Igir ddoeth yn ofni Duw,
A 'chydyg bach o fodd i fyw,
Na'r ddol ddiddawn o genef grin,
A thryſſor mawr heb fedru ei rin.
Gwraig rinweddol, hygar, hyfryd,
Sydd gan gwell na byd o olud,
Gwell na Thir, na Thai, na thryſſawr,
Gwell na'r *Perls* a'r *Mini* gwerthfawr.
Llong yn llawn a werthfawr dlyſſe,
Perl a chan mil o rinwedde,
† *Gemm* na feidir neb ei briſſio,
Yw gwraig dda ir ſawl a'i caffo.
Piler Aur mewn morteis arian,
Twr rhag angeu i ddyn egwan,
*Coron* hardd, a Rhan ragorol,
Grâs ar ras yw gwraig rinweddol.

*Preg.* 4. 13.
7. 1.
*Dib.* 16. 32.

*Dib.* 15. 16.

*Dib.* 31. 10.
14.

† *Maen gwerthfawr*,

*Dihar.* 12. 4.

L

Rhybudd

## *Rhybudd o Chyngor ir Godinebwr.*

GWrando'r Godinebwr aflan,
I Air o gyngor genni'n gyngan;
Cyn yr elech di mor ddiriaid,
** Chwant.* Yn dy * wyn i ddamnio d' enaid:
Gwel dy fargain front anhywaith,
Cyn y bwriech dy hun ymmaith,
** Yſtyrio.* * Marca d' ennill, bwrw'th golled,
Yſtyr ble 'rwyt ti yn myned.
Rwyt ti'n mynd i dy putteiniaid,
*† Rhyngu bodd.* I † bleſſio'r corph, i lâdd yr enaid,
I ddigio Duw, i myrddo ei Demel,
I 'mado a Chriſt i'm lynu a chythrel.
Rwyt ti'n mynd fel ffôl i werthu,
D' enaid anwyl, pridwerth Jeſu,
Ffafar Duw, a'i deyrnas lawen,
Am gael gorwedd gyda phuten.
*Dib. 7. 27.* O! na wna mor dôſt a'th enaid,
Ai roi rwygo rhwng cythreuliaid.
A nhân uffern am gael gronin,
*§ Pleſſer.* O § drythyllwch ir cnawd melyn.
O na werth y nef gyfoethog,
Ffafar Duw a'th brynwr ſerchog,
Gwir Angelion, gwlâd goleuni,
Am gael pleſſer mewn drygioni.
Pwyll a, Aros, nad dy dwyllo,
Margain hallt yw'r fargain honno;
Am gael tippyn o drythyllwch,
Na werth nef, a'i holl ddedwyddwch.
Cno dy dafod, pig dy lygad,
Tro dy wegil na fydd anllad:
*‡ Gwachel.* ‡ Ymſwyn rhag ir fall d' orchfygu,
Ac na chytcam odinebu.

Cenſyd

Cenfydd Satan ſy'n dy arwain,
Wrth edeſyn i dy'r buttain,
( Megis arwain ych. ir lladdfa ) *Dibâr.* 7. 22
I ladd d' enaid trwy butteindra. 23.
Clyw'r 'poſtolion ar Prophwydi, 1 *Cor.* 6. 18.
A'r holl Scrythur i'th gynghori,
Wechlyd rhag y cyfryw bechod,
Rhag dy daflu i uffern iſod. *Eph.* 5. 5, 6.
Ai dy uffern i'th ‖ dormentio,
Ai di'r Brwmſtan poeth i'th * frwylio ? ‖ *Boeni.*
Am gael gorwedd megis filain, * *Bobi.*
Ambell pryd ym maglau puttain. *Datc.* 21. 8.
Ai di orwedd ir tywyllwch ?
Ai di'r carchor di ddiddanwch ?
Ai di drigo at blant Satan ?
Am gofleidio menyw aflan.
A droi di ffafar Chriſt oddiwrthyd,
A'i Angelion hygar, hyfryd ?
Heb gael dim oddiwrth y fargain,
Ond cuſanu gwefle Puttain.
Ffei rhag cwilydd, tro yn d' wrthol,
A dos adref yn ddifeiriol :
Na werth nef am gariad puttain ;
Ni wnai *Eſau* o'r fath fargain.
Cymmer gyngor, ofna Dduw ;
Carcca d' enaid tra fech byw :
Gwachel wneuthur ti a'th * Riain. * *Llangces.*
Aelod Chriſt yn aelod puttain, 1 *Theſſ.* 4. 3.
Cadw'th gorph yn lleſter Sanctaidd, 4.
Temel Dduw yw corph caruaidd,
Aelod Chriſt, preſwylfa'r Drindod ; 1 *Cor.* 6. 15,
Gwachel nyrddo hwn a phechod, 19.
Gwybydd nad oes pechod gaflach,
Na godineb brwnt a lleſcach,
wnaeth ddifa da a dynion,
'r dwr diluw, tân a brwmſton.

‡ *boddhau:* Digio Duw, a ‡ phleſſio'r cythrael,
Gryddſu'r yſpryd, nyrddo ei Demel,
Croeſhoelio Chriſt, halogi aelod,
1 *Cor.* 6. 9. Y mae'r rhyſyg brwnt yn waſtod.
10. Pydru'r corph, a damnio'r enaid,
*Dihar.* 5. 8. Llygru'r enw, nyrddo'r ddwy blaid,
9, 10, 11. Difa'r cyfoeth † Rainio'r oppil,
† *Difwyno.* Mae'r godineb brwnt yn rhigil.
Llanw'r deyrnas o faſterdiaid,
Llanw'r Eglwys o Butteinaid,
Llanw'r tai o gam 'tifeddion,
Mae godineb medd y doethion.
Hela dynion i gardotta,
Wna godineb a phutteindra,
*Dih.* 6. 26. Ac fel * gwaddath o dân pryſſur,
* *Fflam.* Difa cyfoeth godinebwyr.
Pan fo pob rhyw bechod diffaith,
Heb lâdd un ond un ar un waith;
Mae godineb brwnt mor ſceler,
Yn lladd dau bob-gwaith y gwneler.
Er nad oes un pechod atcas,
Ag all torri rhwym priodas:
Mae godineb câs yn torri,
'R holl briodaſeu mae'n halogi.
*Gwaeth na lleidir gwaeth na mwrddrwr,*
Gwaeth na neb yw'r godinebwr,
Sy'n lladd enaid dau ar un-waith,
*Dih.* 6. 30, Pan fo'r lleill yn lladd cydymmaith.
31. 32. Nid yw'r lleidir, wrth i ofyd,
Ond lledratta i gydw ei fywyd,
Mae'r putteiniwr yn ei afrad,
* *Ynfwy na'r* Wrth butteindra'n * lladd ei enaid.
*lleidr.* Er na fynnei'r Phariſeaid,
Lâdd y ſawl 'amharchei henafiaid:
Etto mynnent lâdd er hynny,
'R wraig a fyddei'n godinebu,

Cyfrait

Cyfraith Dduw ſy'n gaeth yn orchi,
Yn ddi ffafar ladd a meini ; Lev. 20. 10.
Y gwr a'r wraig a odinebo,
Mae'r godineb yn gas gantho.
Mae'r godineb brwnt mor § ffinion, § *Diffaith.*
O flaen Duw a'i holl Angelion ;
Ac na fyn i neb o'r brodyr, 1 *Cor.* 5. 11.
Fwytta 'nghyd a'r godinebwyr.
Mae mor ffinion mae mor wraidd,
Ac na fyn y Scrythur ſanctaidd,
Un waith enwi peth mor fudur, *Eph.* 5. 3.
Chwaethach arfer i ni iw wneuthur.
Chriſt ſy'n erchi cadw'r llygad,
Rhag y cyfryw bechod anllad :
Mynych trwy'r ffeneſtri'r llygaid. *Mat.* 5. 28.
Y mae hwn yn lladd yr Enaid. *Job.* 31. 1.
Cyn trachwantech un wraig wenn,
Tyn dy lygad ffwrdd o'th ben :
'Rhwn na ffrwyna lygad * wantan, * *godinebus,*
Yn Nhan uffern y caiſt * frwylian. * *Lloſci.*
Y mae'r pechod hwn mewn calon,
O flaen Duw yn bechod creulon :
Er na ddely byth mewn gweithred,
Mae a'i chwant yn lladd yr enaid.

---

## *Cyngor i'r Meddwyn.*

OS meddwyn wyt yn arfer chwiſſio,
Gwin, a Chwrw, a Thobacco,
Llêf am ras ar Dduw yn fuan,
I orchfygu meddwdod aflan.
Os cwympaiſt yn y wins o feddwdod,
Llef am gymmorth oddi-uchod ;
Ni all dyn na diawl nac Angel,
Godi o'r wins o'r cyfryw nifel.

Nid a'r cythrel meddw o'th goryn,
Mwy na'r cythrel mûd o'r plentyn,
Nes dêl Chriſt a'i nefol yſpryd,
I droi * maes trwy weddi ac ympryd.
O gweddi a dithe'n waſtod,
Am gael nerth yn erbyn meddwdod,
Ac ymprydia rhag gormoddion,
Ac rhac tramwy lle bo'r meddwon.
Nid gwell meddwyn er gweddio,
Heb wachelud ac ymprydio,
Gweddi ac ŷmpryd ſydd yn groyw
Yn gorchfygu'r cythrael meddw.
Os gweddi i'n erbyn meddwdod,
Ac heb ochelud toie'r ddiod:
Ni thâl gweddi i ti ddime,
1 *Th.* 5. 22. Eiſieu gwaglud y Tafarne:
Dannodd Llew yw dannedd meddwdod,
Ni chyll un ddant o'i graff o honod
Nes dêl Chriſt y Llew dioſan,
I ſigo ei ſiol a'th dynnu o'i ſafan.
Ni ddaw march or ffôs lle ſoddo,
Nes dêl chwech neu ſaith iw luſco;
Ni ddaw dyn o'i ſeddwdod aflan,
Nes del Chriſt iw luſco allan.
Na chymmell neb i yſed gormod,
Yſed pawb ei rhaid or ddiod,
Os myn un ſeddwi megis ci,
Meddwed ê na ſeddwa di.
Rho barch i'th well o doi iw plith,
Trwy'r berchu'r bol heb yſed rhith;
Os perchi'r gwr trwy chwaſſtio'r cwppan,
*Wrth berchu'r ffrind d' amharchu'th bunan.*
Jechyd triſt, ac Jechyd afiach,
Yw yſed Jechyd a'th wna'n glaſach,
Byth ni pharcha Jechyd un,
A waetho'm Jechyd i ſy hug.

Rhai ſy'n chwerthin am fy mhen,
Am fod yn ſobr heb fawr wen,
Minneu'n wylo'r deigreu heilltion,
Weld pob rhai o'r rhain yn feddwon. Pſal. 119. 136.
Y meddw chwarddodd am fy môd,
Yn cadw 'ngheiniog yn fy'nghôd,
Y nawr ſy'n wylo'r dwr yn ffrwd,
Wrth ſeggian ceiniog fâch o'm cwd.
Er mwyn Jeſu gwachel feddwdod,
Gwaeth yw hwn nag un rhyw bechod;
Mae'n troi dyn ar lûn y cythrel,
Ugain gwaeth nag un Anifel.
Tynn o'r Dafarn gochel feddwdod,
Na chais fynd yn drech na'r ddiod,
Ni chadd un mor trecha arni,
Ond y gilie'n chwrwydd rhagddi.
*Alexander* y * goncweriodd, * *Orchfygaiſt*
Yr holl fyd y ffordd y cerddodd,
Ond y ddiod yn dra ſceler,
A goncweriodd *Alexander*.
Gwell yw dianc nac ymdrechu,
Gwell yw cilio rhag ymdynnu.
Gwell rhoi'r gore i'r hwrſwn Cwrw,
Nag ymoſtwng iddo'n feddw.
* Treiaiſt feddwyn dy rym ddengwaith * *Preſaiſt.*
Cwympaiſt dan y ddiod ganwaith,
Oni chymru'r traed oddiwrthi,
Hi rydd etto godwm itti.
Rhai a fyn maſlud cwymp ar Cwrw,
A mynd yn drech na'r ddiod loyw,
Ni bu 'rioed y gâdd y trecha,
Ond y gilie oddiwrthi'n gynta.
O doi at dan fe luſc dy grimpe,
O doi at Sarph hi frath dy ſodle;
O doi at Bûg ond cwrdd fe'th nyrdda,
O doi at ddiod gref hi'th feddwa.

Cil rhag Sarph iddi'th frathu,
Cil rhag plag rhag iddo'th nafu,
Cil rhag tan rhag iddo'th loſci,
Cil rhag gwin rhag iddo'th feddwi.
O holl ſlafiaid y byd ymma,
Caetha ſlaf yw'r ſlaf i fola:
Ni chais hwn tra bywyd gantho,
Ond ei fol a'n feiſtir iddo.
** Tafarndy.* F'ar meddw ir * Inn yn gall yn gwmpli
** Fel dyn rheſymol.* Fe ddaw maes heb gôf heb gyfri,
F' a mewn fel dyn f' a maes fel nifel,
Fe chwd fel ci, fe roch fel cythrel.
*Dihar.* 23. 20, 21. F' ollwng meddwyn Duw ai ddonie,
Tai a thir i fynd i chware.
** ar bob fenyw ofer.* Fei geidw ei afal ar bob * Sini,
Fe gyll ei hun, a'i gof, a'i gyfri.
Gynt ni feddwe ond bedlemmiaid,
A'r rhai gwaetha o'r begeriaid,
'N awr ni chaiff bedlemmiaid tlodion,
Le feddwi gan fonddigion.
Brwnt gweld Barnwr mewn anhemper,
Neu Bendefig draw yn y gwtter,
*† Caethwas.* Brwnt gweld cawr yn † ſlaf i'r cwrw,
Brynta gyd gweld ffeiriad meddw
Cyfraith dda oedd dodi meddwon,
** Golygwr Drefnu.* Fel plant bychain dan * drycholion;
Os ni fedrant fwy na bechgin,
*§ pwrpas.* § Ordro ei hun ac ordro ei lifing.
Nid oes reſwm na naturiaeth,
Gan y meddw drin ei arfaeth,
** i arwain.* Eiſieu un o'r rhain i * arall,
Gwaeth yw'r meddw na'r anifail.
Blin na fedre un dyn meddw,
Nai reoli 'hun yn hoyw:
Och! na gadel i neb arall,
Lwyr reoli'r meddwyn angall.

Gwae modd Duw y dyn y gotto,
Y boreu glas ddydd i gwympnio, *Eſay. 5. 11.*
Ac arhoſo gyda'r ddiod,
Nes y nynnir ê gan feddwdod.
Y mae uffern boeth a Satan,
Yn lledannu ar lled eu ſafan,
Ac yn chwenych llyngcu'r meddw,
Yn ei feddwdod cyn bo marw.
Gwae fo cryf i chwafftio cwrw, *Eſay. 5. 14. 22, 24.*
Ac i gymmyſc diod loyw;
Ni ad Duw na gwraidd na himpin,
Heb ei difa ir fath feddwyn.
Gwae o ddiod gref i feddwi,
Ei gymmydog iw ddinoethi;
Mae Duw'n digio wrtho'n llidiog,
Am ladd enaid ei gymmydog.
Tynn ar frys o gors o feddwdod,
Rhag dy lyngcu yn anamharod,
O hir aros ar draeth ſugyn,
Llwyr i'th lwngc tra fech yn roſyn.
Pob pechadur a gais guddio,
Faint o feie a fo arno,
Ond y meddw ſyn ddinoethi,
A datcuddio ei holl frynti.
Adda geiſiodd guddio'n || garcus, || *Ofalus.*
Ei droſeddau a dail ffigys;
Noe y fynno lwyr ddatcuddio,
Yn ei feddwdod faint oedd gantho.
Chriſt ſy'n gwardd i Griſtion ſwytta, *Gen. 9. 21.*
Gyda'r meddw glwth ei fola,
Ac ymgadw rhag dwad atto,
Fel rhag dyn a'r cowyn arno. *1 Cor. 5. 11.*
Fel y gyrr y mwg o'r lleſter, *2 Theſſ. 3. 6.*
Yr holl wenyn o'i eſmwythder,
Felly gyrr y meddwdod aflan,
Ras a dawn o'r galon allan.

Ni bu meddant frenin *Babel*,
*Dihar.* 23. Ond ſaith mlynedd ar lûn nifel,
29, 30. Y mae'r meddw ar lûn mochyn
Hwy na hwnnw lawer blwyddyn.
Einioes ferr a chylla afiach,
Lletty llwm a drwg gyfeillach,
Coppa twnn a ſiacced frattog,
Y gaiff meddwyn yn lle cyflog.
Fe werth y meddwyn dref i Dâd,
A'r maint y fedd o fraint yn rhâd,
A phob nifel ſy'n ei helw,
Gwerth ei grys i brynu'r cwrw.
Fe medu'r meddw a'i holl bethe,
Ai air, ei arian a'i holl dryſore;
Ei Dai, ei dir, ei blant, ei briod,
Oni ni 'medu byth a'i feddwdod.
* *Bacchus oedd yr hên eulyn addolwyr yn ei gyfri yn* Dduw *yr gwin.* Gwir Dduw'r meddw ydyw * *Bacchus*,
Taſarn hwdlyd yw ei Eglwys,
Gwraig y Daſarn yw ei ffeiriaid;
Y pot ar bib yw ei * gyfneſſiaid.
* *Y rhai mewn Cymmundeb ac ef.* Bydd di'n ſobr trech di'n fachgen,
Nad ir bol y ſpeilio'r cefen;
Nad ir afrad ieuaingctid hala,
Bol mewn henaint i gardotta.
Cyfraith Dduw a ſyn labuddio,
*Deut.* 21. 18 Pob oferddyn ac a feddwo?
19, 20, 21. I ddiwreiddio'r cyſryw frynti,
*Luc.* 21. 34. Ac i rwyſtro eraill feddwi.
35. Fe ddaw Criſt yn chwyrn heb wybod,
Ac ddyn meddw i ddial meddwdod,
Fe' gwahana fe'i rhy orwedd,
Mewn tân poeth i ringcian dannedd.
Duw ro grâs i bob rhyw Griſtion,
1 *Cor.* 6. 9. Yſed deigryn lai na digon,
10. Cyn yr yſo fwy na'i gyfraid
I lâdd ei gorph, i ddamnio ei Enaid,

Ca

## *Cân ynghylch y Diawl a'r Meddwon.*

Y *Cythrael twyllodrus ſy beunydd heb or-*
*Ond ceiſio'n ofalus ein twyllo,* *phwys* 1 Pet. 5. 8.
wneuthur pechode, pob amryw o feie:
Duw gatwo'n heneidie ni rhagddo.
el y bydd cyſgod ar ddiſclair ddiwrnod,
I'n dilyn yn waſtod wrth rodio,
elly mae ynte yn canlyn yn ſodle,
Yn goſod ei ſagle i'n cwympo. (yfion
*uw gatwo pob Chriſtion* rhag Satan angh-
O 'wllys fynghalon rwi'n ceiſio,
*ael dwyn ein eneidie 'ddwrth bôb rhyw o feie,*
O ¶ uffern a'i phoene, a'i rwyſtro, ¶ *O gyflwr colledigaeth.*
eddwdod yw'r gore a'r penna o'r *heintie*
O hono mae'r beie yn himpio.
yngu, putteindra, glothineb, lladratta,
Ac ymladd yw'r mwya ſydd ynddo,
*le bo'r mwya gynlletdſa fe gân y * dantara*
Gyfeillion dewch yma i gwmpnio, * *Gân y trumpet.*
hala hi'n fuan trwy'r ffeneſt ac allan,
Mi fydda fy hunan yn campio,
*yna hewy ddawon fel Sawdwyrs yn fuan,*
I'r man lle bo Satan yn ceiſio.
*ymryd eu hafraid heb * garcce am yr enaid*
A llawer o'r gweiniaid ſydd hebddo. * *gafaln.*
*ebreuan yn llonydd, fel haul wen foreuddydd,*
*Nes cwnnu tês ſplennydd a thwymo,*
ddaurydd y gocha, y tafod y floeſga,
Y ddeu droed y ffaela a rhodio:
wedi darffo iddyn yſed, yn barod i fyned
Fym *Hoſtes* am hened moes etto;
anw di'r pottie, yn llawn o'r un gore,
Ni awn i ddechre ‖ carowſio. § *Ymyfed.*

Bellach moes ymma ddalen o'r *India*,
A'i henw hi'n benn *Tybacco*;
Pibell a thewyn, neu ganwyll i nynnyn,
Nad orfod eu gofyn hwy etto.
*Y ſtadan moes bellach, neu gig y ſo hallt, ach,*
** Cydyfed.* Spardyn * cyfeddach y baro,
Yf hefyd yn hoyw, neb bo rhai yn feddw,
A darfod y cwrw a'i ſpendio.
*Yno bydd dwndwr a briw, gwr llwfwr,*
Oni bydde a gwmpniwr i growſio;
** Arbedwch.* Gelwch yn galed, na * ſperiwch ag yfed,
Na chwrw na chlared lle bytho.
*Rhai fydd yn i fwrw rhai fydd yn i gadw,*
*‖ Hyfed.* A rhai ſydd yn arw yn i ‖ ſipio:
Rhai yn eu ſaeſneg, yn ei ffrangeg,
*§ Ymddadlu.* A rhai yng wyddeleg yn § pledio.
*Rhai fydd yn tyngu rhai fydd yn cynhenau,*
** Gyrchu attynt,* A'r cythrel yn gwenu'n eu * hawnto;
Atto f'eneidie, ceiſiwch eich harſe,
Nid rhaid i chwi odde ddim gantho.
Yno bydd cleiſie, ond odid glanaſtre:
Anhappus yw'r chware lle bytho,
*§ Twyllodrus* Y cythrael cenfigennus y bradwr, § hoccedus,
Anghenfil anghenus lle delo.
*Nid oes neb heb ei ſeie, yn llawn o bechod*
** Diangc.* Nid ydy rhai gore * yn ſcabio;
Na bon hwy'n rhy ufydd yn rhyw ſeie na'i
** Y Diafol.* Yn dilyn llyferydd y * Cadno. (gilydd,
O Arglwydd gorucha, 'rho ras i ni wella
A chadw blant *Adda* rhag llithro,
Maddeu'n pechode, a dwg ein heneidie,
I'r man lle bych dithe'n gorphwyſo.

*Cyngor i ymgadw rhag lletteua meddylie drwg yn'y galon, ac i troi hwynt i fyfyrio ar ddaioni.*

MAe holl feddwl dyn yſywaeth, *Gen.* 6. 5.
Gwedi llygru wrth naturiaeth:
Ni fyfyria ond drygioni,
Nes y darffo ei ail eni.
Nid oes dyn ag all myfyrio;
Meddwl da gwnaed goreu ag allo, 2 *Cor.* 3. 5.
Nes cael gallu Duw a'i radau,
I gyfrwyddo ei feddyliau.
O gweddia'n daer gan hynny, *Pſal.* 51. 1.
At ir Arglwydd adnewyddu,
Dy feddyliau a'th amcanion,
I fyfyrio ar yr union.
Felly denfyn Duw ei yſpryd,
I oleuo dy feddylfryd, *Luc.* 11. 13.
Ac i newid dy feddyliau,
I fwriadu'r hyn ſydd orau.
Nad i feddwl drwg letteua,
Yn dy galon rhag dy ddifa, *Jer.* 4. 14.
Gwâs yn ceiſio lletty Satan,
Bob yn awr yw'r meddwl aflan.
Dod dy feddwl a'th fyfyrdod,
Ar y pethau ſydd oddi uchod,
Lle mae Chriſt dy brynwr hygar, *Col.* 3. 1.
Nid ar bethau ſ' ar y ddaiar.
Rho dy fryd ar bethau nefol,
Ac na ſercha ddim daiarol,
Meddwl am y wlad y gorfydd,
Aros ynddi yn dragywydd.
Meddwl am y pethau brynodd,
Chriſt ai waed it yn y nefoedd,
Heddwch Duw a choron hyfryd,
Teyrnas hardd, a ‖ didrangc fywyd. ‖ *Tragywyddol.*

Meddwl dy fod tra bech byw,
*Pſal.* 139. Bob rhyw ddydd yngolwg Duw;
A bôd Duw yn gweld d' ymddygiaid,
Ym mhob mann a chil ei lygad.
Meddwl fod y gelyn gwaedlyd,
Ddydd a nos fel llew newynllyd,
1 *Pet.* 5. 8. Yn troi daetu ith orweddfa,
Bob yn awr yn ceiſio'th ddiſa.
Meddwl am reoli d' eiriau,
A'th weithredoedd, a'th feddyliau,
Wrth fodd Duw, rhag iddynt beri,
Gwaſcfa ith enaid ddydd dy gyfri.
Mddwl fal y daw dy Brynwr,
*Datc* 1. 7. Yn y cymmylau i chwareu'r Barnwr,
*Mat.* 25. 10. Ac ymgweiria iw gyfarfod,
Fel priod-ferch gwrdd a'i phriod.
*Rhuſ.* 14. 12 Meddwl fal y gorfydd rhoddi,
*Preg.* 12. 14. Ddydd y farn mor fanol gyfri,
1 *Cor.* 4. 5. Am y meddwl drwg a'r bwriad,
Ag y roir am weithred anllad.
Meddwl fal yr awn oddi ymma,
Ir ty priddlyd am y cynta,
*Datc.* 6. 8. Mewn Cwd canfas heb un * Beni,
Pa bae inni rent Arglwyddi.
* *Geiniog.* Meddwl fod * yr angeu aethlyd,
Ar farch glâs yn gyrru'n ynfyd;
Fel na ddichon hên nag ifangc,
Rhag ei ſaeth a'i ddyrnod ddiangc.
Meddwl hefyd y daw Ange,
*Preg.* 9. 12. Megis lleidir am ein penne,
Heb un udcorn i'n rhybuddio,
*Jac.* 4. 14. Yn ddi-ymgais i'n anrheithio.
* *Cloch ar ddwr.* Meddwl nad yw bywyd un dyn,
Ond fel * Bwmbwl ar y llyn-wyn,
Neu fel Pabell bridd neu wydur,
'Rwn yn hawdd y dyrr yn glechdur.

Meddw

Meddwl fal y rhêd ein heinioes, *Job.* 7. 6.
Megis llong dan hwyl heb aros, *Luc.* 12. 19.
Ac y dderfydd am ein hamſer, 20.
Cyn i'n dybied dreulio ei hanner.
Meddwl fod y byd yn gado,
Pawb yn llwm i fynd o hono,
Ac fel ia yn torri danynt,
Pan fo rheitia ei gymmorth iddynt.
Meddwl na ddaw aur nag arian,
Tai na thir or droedfedd fychan,
Gyda neb i fynd ir frawdle,
I roi cyfrif am eu beie.
Meddwl pan y delo ange,
Gorfydd gadw'r byd a'i bethe:
A mynd o flaen Chriſt yn wiſci,
Am y Cwbwl i roi cyfri. *Heb.* 9. 27.
Meddwl fal y bydd dy dlyſſeu,
A'th holl holi, a'th holl ſwyddeu,
Yn ymofyn newydd feiſtri,
Cyn y caffech gwbwl oeri.
Meddwl doſted y fydd pechod,
Yn dolurio dy gydwybod,
Pan y tafler yn dy ddannedd, Datc. 20. 12
Ddydd y farn dy holl anwiredd.
Meddwl fal y gorfydd rhoddi,
Ddydd y farn i Arglwydd gyfri,
Am bob gweithred ddrwg y wnelom, *Preg* 12. 14.
A'r gair ofer ac y ddwetom. *Mat.* 12. 36.
Meddwl fal y bydd gwyr gwychion, Dat. 6. 15,
ydd heb ofni Duw na dynion, 16.
Ddydd y farn yn crio'n ſcymmyn
m ir Creigydd gwympo arnyn.
Meddwl fal y bydd y duwiol, Datc. 7. 9.
n y nêf mewn braint rhagorol, *hyd yr* 16.
n clodfori Duw gorucha,
n bo eraill yn * Gehenna,

* *Uffern:*

Meddwl

*Dat.* 21. 8. Meddwl fal y mae'r annuwiol,
*Marc.* 9. 44. Yn ymdroi mewn tân uffernol,
Ar pryf didrangc yn ei bwytta,
1 *Jo.* 2. 15. Bob yn awr heb gael ei wala.
Meddwl am hyn, a dibriſſia.
Y byd hwn a'i wagedd mwya;
A myfyria trwy wir grefydd,
Ar air Duw a'r byd na dderfydd.
Meddwl dyn a rêd heb orphwys.
Ar y drwg neu'r da gyrhaeddwys,
Oni chaiff beth da i fyfyrio,
Ar y drwg fe rêd tra gantho.
Meddwl dyn fel maen y fel'n,
Y dreulia ei hun nes mynd yn gilyn;
Oni roir rhyw rinwedd dano,
Idd i falu a'i fyfyrio.
Meddwl weithio'r gwaith y bwyntiodd;
§ *Nerth.* Dy greawdwr pan ith greuodd,
*Pſal.* 84. 10. A'i waſanaethu a'th holl § bwer,
Yn dy alwad tra cech amſer.
Meddwl mae gwell un diwrnod,
Yn gwaſnaethu'r ſanctaidd Drindod,
Na'th holl ddyddiau a'th holl oeſach,
Yn gwaſnaethu dim amgenach.
1 *Theſſ.* 5. 3. Meddwl cyn y gwnelech bechod,
B'wedd i attebi ddydd dy drallod,
A pha fodd y gallu ddiangc,
Ddydd y farn rhag angeu didrangc.
Dôd dy feddwl ar ddaioni,
Nad ar wagedd iddo ymborthi;
Hawdd y gallu ei gyfrwyddo,
Os mewn pryd y ceiſi ffwryno:
Hawdd yw diffodd y wreichionen,
Cyn y'mafloi yn ei nenbren;
*Jac.* 4. 7. Hawdd yw newid meddwl aflan,
Os gwrthnebyr hwn yn fuan.

Tro gan hynny'n ebrwydd heibio,
Bôb ddrwg feddwl pan ddechreuo;
Rhag ir gelyn mawr ei ‖ hocced, *Dichell.*
Droi'r meddwl ir ddrwg weithred.
Lladd blant *Babel* tra font fechgin,
Sang a'r ſarph tra fo'n y pliſgin,
Tynn y † gangren cyn o'i gwreiddio, *Cancar.*
Torr ddrwg feddwl cyn cynnyddo.
Gâd wreichionen fach i gynnu,
Yn dy do, hi lyſg dy lettu:
Gad i feddwl drwg letteua,
Yn dy galon fe'th anrheithia:
Na letteua feddwl aflan,
Yn dy galon mwy na Satan;
Os lletteui rwyt ti'n derbyn,
* Yr Harbengir o flaen y gelyn. *Paratowr lle.*
Rho dy fryd ar gadw'r gyfraith,
A byw wrthi, yn ddiragraith;
Ac na ollwng Dduw o'th feddwl, 1 *Theſſ.* 5. 18
Ond bendithia am y cwbwl.
Na fwriada ddrwg o'th galon,
I anrheithio dy gyd griſtion: *Lev.* 19. 7.
¶ Mwrddwr yw'r fath feddwl gwaedlyd, 1 *Jo.* 3. 15.
Gwachel rhagddo er dy fywyd. *Lladdfo*
Na thrachwanta wraig cymmydog,
Ac na hoffa ei llygaid ferchog, *Mat.* 5. 28.
Nad ith feddwl redeg arni,
Cans godineb yw ei hoffi.
Gwachel roi dy fryd na'th fwriad, *Zech.* 7. 10.
Ar anrheithio un ymddifad, Dihar. 23.
Trais a blin orthrymder yw, 10, 11.
Y cyfryw fwriad o flaen Duw.
Gwachel chwennych Aur nag arian,
Tai na thir, trwy dwyll a chogian, 1 *Tim.* 6. 10
Nid yw'r cyfryw chwant a bwriad,
Ger bron Duw ddim llai na lledrad.

Rhwym dy feddwl, nâd o'i wibian,
Ar oferedd mawr na bychan,
Nac ar ddim na ellech roddi,
* Cyfrif. * Cownt am dano ddydd dy ddidri.
Cadw'th galon rhag drwg fwriad,
Fel y cedwi'th law rhag lledrad;
*Marc.* 7. 21. Mae'n rhaid atteb yn cyn gaethed,
*Zech.* 8. 17. Am ddrwg fwriad, a'r ddrwg weithred.

---

*Cyngor i lywodraethu'n geiriau wrth fodd Duw.*

BId dy eiriau yn waſtadol,
Yn griſtnogaidd ac yn raſſol,
Yn rhoi grâs i'r holl wrandawyr,
Ac adeiliaid tra chymmeſur.
*Eph.* 4. 29. Y mae bywyd, y mae Angau,
Yn y tafod, yn y genau:
*Dih.* 13. 3. Gochel ddywedyd geiriau diriaid,
Cadw d' enau, cadwi d' enaid.
Dilyn d' Arglwydd yn dy eirie,
Dywaid fel y dywede ynte;
Ni ddaeth twyll na gair anweddaidd,
1 *Pet* 2. 22. 23. Erioed y maes o'i enau ſanctaidd.
Tractha'n bwyllog, gwrando'n eſcud,
*Jac.* 1. 19. Mae dwygluſt, un tafod gennyd;
*Dih.* 10. 19. Aml eiriau bair cyfeiliorni;
Ni ddaeth drwg i neb o dewi.
Cyn y dywedych, meddwl ennyd,
B'wedd y myn mâb Duw id ddywedyd;
Yno dywaid 'r hyn ſydd raſſol,
*Mat.* 5. 37. A da i adail rhai an-neddfol.
Na ddoed ymadrodd brwnt o'th ene,
*Eph.* 5. 4. Na gair ffol, na chorg ddigrifo,
‡ *Gwawd.* Senn, na ffroſt, na ‡ *phrwmp, na chelwydd*
Ond bid raſſol dy lyferydd.

Cadw d' ene rhag gair diriaid,
Felly gelli gadw d' enaid;
Oni ffrwyni dafod anwir, *Pſal.* 39. 1.
Yn ol d' eiriau ith gondemnir. *Mat.* 12.37.
Arfer iaith ac † Aeg gwlad Canaan, † *Lleferydd.*
Bid am Dduw a'i air d' ymddiddan; *Pſ.* 145. 1.
Wrth dy eiriau y cair gwybod, *Col.* 3. 16.
O bwy wlad yr wyt yn hanfod. *Jac.* 1. 26.
Nad ith dafod arfer tyngu, *Jac.* 5. 12.
Cig a gwaed yr Arglwydd Jeſu; *Heb.* 10. 29.
Rwyt ti'n ‡ damſing gwaed y cymmod, ‡ *Sathru.*
Pan arferch gyfryw bechod.
Am air Duw nid oes id yngan,
Heb anrhydedd, parch, ac ofan;
Ac os cymri ei enw'n ofer,
Di ei'n euog pan ith farner.
Dywaid beunydd leia ag allech,
Dywed yn raſſol pan y dwedech;
Oni ddwedi eiriau hyfryd,
Gwell it dewi a ſôn na dwedyd.
Gwachel fod yn ddau dafodiog: *Dihar.* 6. 16
Cas gan Dduw bob dyn celwyddog: 17.
Tad y celwyd ydyw'r Cythrel *Joan.* 8. 44.
Gwas ir Diawl yw'r ffalſt ei chwedel.
Arfer draethu'r gwir o'th galon, *Zech.* 8. 16.
Hoff yw'r gwir gan Dduw a dynion; *Pſal.* 101. 7.
Ni chaiff dyn celwyddog gredu,
Gair o'i wir pan bo'n ei dyngu.
Na chno un dyn † llwyr ei gefen, † *Or tu cefn.*
Ac nac arfer gair * drwg abſen; * *Anair.*
Gwaeth na chledde llym dau-finiog,
Ydyw enllib dyn celwyddog. *Pſal.* 64. 3.
Na ddwg dafod drwg anhappus, *Dihar.* 4.24.
Gwaeth yw hwn na gwenwyn lindys, *Pſ.* 40. 3.
Gwaeth na'r marwor poeth yn lloſci, *Jac.* 3. 6.
Gwaeth na saethe un o'r Cewri.

1 *Pet.* 2. 1. Er fy mendith na lyſenwa,
*Mat* 5. 22. Neb yn rhwyl, neu'n ffol, neu'n † rhaca,
† *dyn gwag* Rhwn a alwo ei frawd yn lletffol,
Mae e'n haeddu tân uffernol.
Gwachel adrodd faint y glywech,
Gwachel ddwedyd faint y wypech,
Dywaid wir pan orffo ei draethu;
Nes bo rhaid gwell weithie ei gelu.
1 *Pet.* 3. 8. Bydd ddeallgar pan gammolach;
*Lev.* 19. 17. Bydd † gwrteiſiol pan cyfarchech;
† *Mwynaidd* Bydd gariadus wrth geryddu;
Bydd drugarog wrth gyfrannu.

*Gweddi am lywodraethu'y geirie, a'r geneu*
*wrth fodd Duw.*

Arglwydd agor fyng wefuſſedd,
*Pſ.* 51. 15. I foliannu'th Dduwiol fawredd,
A chyfrwydda di fy Nhafod,
I ddatcanu maes dy fawr-glod.
Llanw 'ngenau o'th wir foliant,
Ith fendithio am fy llwyddiant,
Ath glodfori, Dâd trugarog,
*Pſ.* 40. 10. Yn y dyrfa fawr luoſog.
Llunia 'ngeiriau † llywia'n Nhafod;
† *Llywodraethu.* A chyfrwydda fy myfyrdod:
Clo at datclo fy nwy wefus;
*Pſ.* 141. 3. Nâd fi draethu ond dy wllys.
Arglwydd cadw ddrws fy ngenau,
Nad fi draethu ffiaidd eiriau,
§ *Gwawd.* § Ffrwmp, na ffroſt, na ſenn, na chabledd,
Geiriau ffol, na dim anwiredd.
Bid myfyrdod fy holl galon,
*Pſal.* 19. 14. Bid fy ngweithred a'm amcanion;
Bid fy ngeiriau oll yn ddiddrwg,
A chymeradwy yn dy olwg.

Cyngor

---

### *Cyngor i ddyn fod bob amſer ai ymddygiad yn Griſtnogaidd.*

BId ymddygiad yn griſtnogaidd,
BY § gwrteiſiol ac yn gruaidd, § *ſwynaidd.*
Ym mhob tyrfa 'delych iddi,
Megis plentyn i'r goleuni.
Bydd fel ſeren yn diſgleirio,
Bydd fel canwyll yn goleuo,
Bydd fel patrwm o griſtnogaeth,
I'r rhai ddelo i'th gwmpniaeth:
Bydd dra Sanctaidd ir galluog,
Bydd yn union i'th gymmydog,
Bydd yn ſobr it dy hunan, *1 Pet.* 1. 15.
Dyna'r tri phwynt rheitia allan. *Tit.* 2. 12.
Bydd mor ddiddrwg ac yw'r Glomen,
Bydd mor gall ar Sarph drachefen,
Bydd ddioddefgar fal y ddafad;
Hoff gan Ghriſt y fath ymddygiad.
Bydd yn dempraidd megis *Daniel*,
Cadw'r cnawd mewn diet iſel,
Cwachel Win a bwyd rhy foethus,
Rhag dy fynd yn afreolus. *Eph.* 5. 18.
Bydd yn ddiwair, nid yn anllad,
Bydd fel Joſeph yn d' ymddygiad,
Rwyt ti yngolwg Duw bob amſer,
Bydd gan hynny lân a ſyber.
Dela'n union wrth fargenna,
Na thwyll un dyn wrth farchnatta; 1 *Th.* 4. 6.
Duw ei hun ſydd union farnwr, *Tit.* 2. 2.
Rhyng y gwirion plaen a'r twyllwr.
Bydd o ffydd a chrefydd union;
Ofna Dduw o ddyfnder calon; *Deut.* 6. 13.
Na wna ddrwg o flaen ei lygad;
Ym-mhob mann mae'n diſgwyl arnad,

*Heb.* 13. 7. Dilyn gyngor doeth bregethwyr,
1 *Pet.* 2. 17. Ymddaroſtwng ith Reolwyr.
*Rhuf.* 12. 18 Bydd gariadus a'th gymdogion.
Ac heddychol a phob Chriſtion.
*Pſal.* 15. 4: Bydd dra graſol yn d' eiriau,
*Mat* 5. 48. Bydd yn fedrus yn dy chwedlau,
*Rhuf.* 16 16 Bydd yn gywir yn dy bromais;
† *araſaidd* : Bydd ym-mhob peth lân a † llednais.
Bydd di berffaith ymhôb tyrfa,
Bydd fel Sant ym mhlith y gwaetha;
Er diffeithed y fo'r cwmpni,
Bydd fel Noah ym-myſc y cowri.
Cyfarch bob dyn an dra ſiriol;
*Rhuf.* 13. 1. Goſtwng i'th well yn gwrteiſiol:
7. Parcha'r henaint a'r Awdurdod,
*Lev.* 19. 32. A rho'r blaen i'th well yn waſtod.
Bydd ddioddefgar a chymmeſur:
*Cor* 3. 8. Na fydd boeth na thwym dy natur:
*Dih.* 16. 32. Godde gamwedd cyn cynhennu,
Y ddioddefodd hwnnw orfu.
Ymddaroſtwng i'th oreuon;
‡ *wrthwynebu.* Duw ei hun a ‡ wrthladd beilchion;
Ac fe ddyru râs yn † yſtig,
† *ddiwyd.* I'r rhai ufudd goſtyngedig.
*Dih.* 16. 5. Na falchia am un rhinwedd,
Nac am gyfoeth ac anrhydedd,
Ond rho ddiolch prudd am danynt,
Rhag i Dduw dy adel hebddynt.
1 *Tim.* 3. 9. Bydd di gryno yn dy ddillad,
Dos yn lân yn ol dy alwad,
Torr dy bais yn ol dy bwer,
Na fydd goeg na brwnt un amſer.
Gwachel bechu ir cwmpniaeth,
*Rhuf.* 6. 22: Cyflog pechod yw marwolaeth:
Cynnifer gwaith y bych yn pechu,
Cynnifer Angau wyt yn haeddu.

Mae cyfathrach er y dechre,
Rhwng pob pechod brwnt ac Ange;
Fal na ddichon un dyn bechu,
Na bo Angeu yn ei lyngcu.
Na ſydd anllad yn dy chwedle,
Na ſydd aflan mewn cornele; *Eph.* 5. 11.
Ym-mhob cornel bid d' ymddygiad. 12.
Fel pyt faed wrth groes y farchnad. *Eſay.* 29. 15:
Os dais dyn na Diawl mae Angel,
Gennyd bechu yn y dirgel, *Zach.* 4. 10.
Cofia fod Duw a ſaith lygad,
Ym-mhob man yn diſgwyl arnad.
Er nad ydyw dyn yn gweled,
Yn y dirgel lawer gweithred;
Y mae Duw yn gweld y cwbwl, *Jer.* 16. 17.
Pan na byddo dyn yn meddwl.
Os troſeddu yn y dirgel, 1 *Cor*: 4. 10:
Duw ddatcuddia dy holl * gwnſel, * *Cyngor*.
Ac y ‡ faneg dy ymddygiad, ‡ *Ddatcuddia*.
I'r byd yngwydd haul a lleuad.
Gochel ddilyn drwg gwmpniaeth,
Pobol anwir ddigriſtnogaeth: 2 *Theſ*. 3. 6:
Os fe nyrdda rhain d' ymddygiad,
Fel y nyrdda'r pitch dy ddillad.
Fel y hallta'r mor y * granffo, * *gyrhaeddyd*
O'r Dwr croyw ddelo atto:
Felly nyrdda pobol ſcymmun,
Foeſau'r goreu ddelo attyn.
Gochel neidir rhag dy frathu:
Gwachel bla rhag dy ddifethu, *Pſal.* 16. 4,
Ac o ceri Jechydwriaeth, 5.
Gochel ddilyn drwg gwmpniaeth.
Câr a'th galon pob dyn duwiol; *Pſal.* 119.
Bydd gyfeillgar ar rhinweddol, 36,
Dilyn arfer y rhai doethion,
A ffieiddia'r anuwiolion.

## *Cyngor ynghylch Bwytta ac Yſed.*

GOchel eiſte i lawr i fwytta,
Nes bendithio'r bwyd yn gynta;
Gochel godi pan eiſteddech,
Nes rhoi diolch am y fwyttech.
Jo. 6. 9. 11. Criſt ni fwyttei fara barlis,
‡ *plâs.* Chwaethach bwyd oedd well i ‡ relis,
*Deut.* 28. 15 Nes yn gynta ei fendithio,
18. A rhoi mawl iw Dâd am dano.
1 *Tim.* 4. 4, Pam y cytcam un dyn fwytta,
5. Bwyd ſy ar felldith er cwymp Adda;
Nes yn gyntaf ei fendigo,
A Gair Duw a gweddi droſto.
Toſt yw gweled mor anifeiliaidd,
Mor anneddfol, mor anweddaidd,
Y rhed llawer dyn i fwytta,
Bwyd fel buwch a red ir borfa.
Toſt yw eu gweld yn cwnnu,
Oddiar ford i fynd i gyſcu,
Fel y moch or crwcca ir dommen,
Heb roi diolch mwy na'r Aſſen.
Nid oes Sôn am râs cyn bwytta
Nac am fendith Duw goruchaf,
Nac am ddiolch gwedi porthi,
*Deut.* 6. 11, Mwy na'r moch y ſae'n eu peſci.
12. Er bod Duw yn rhoi gorchymmyn,
*Deut.* 8. 10. I bawb yn ôl torri newyn,
Roddi moliant ar yr eitha;
I'r Duw mawr am lanw eu bola.
Gochel fwytta ond dy ddigon,
Na fydd chwannog i ddanteithion,
§ *Ymborth.* Mwy na rhaid o § ffâr lyſieulyd,
Bair ir cnawd orchfygu'r yſpryd,

Os rhoi ir cnawd ſwy na'i gyfraid,
Rwyt ti'n porthi gelyn diriaid,
Os rhoi iddo lai na digon,
Rwyt ti'n lládd cydymmaith ffyddlon.
Nac yf ddiod tu hwnt ei feſur,
Gronyn bâch a waſanaeth nattur,
Diod gadarn ſydd yn peri,
I wyr nerthol gwympo deni. Gen. 9. 21.
Gwin a wnaeth i *Noah* ymnoethi, & 19. 33.
Gwin a yrrodd *Lot* i ymloſci,
Gwin a dorrodd gwddwg llawer, *Pſal.* 6. 9:
Gwin orchfygodd *Alexander*. 22.
Nad dy ford yn fagal it ti, *Hoſ.* 13. 6.
Trwy lothineb nâs a ſyrthni,
Rhag ir gelyn du dy hola,
Gablu Duw yn llawn dy fola.
Mae dau lygad yr ychedydd,
Yn eu gwaith wrth fwytta ei fwydydd,
Un yn gweld ei ymborth hyfryd, † *Diſgwyl.*
Llall yn gwarchad rhag y barcyd.
Bid dy lygaid ditheu'n waetian,
Ddydd a nôs rhwydeu Satan,
Rhwng y gais a'th fwyd dy faglu,
Wrth giniawia a ſwpperu.
Pan fo'r ceiliog côch yn bwytta,
Bydd ei lygaid hwnt ac yma,
Rhag ir barcyd llwyd ei ſcliffiaid,
Tra fo e'n bwytta heb feddyliaid.
Felly bydded dy ddau lygad,
Dithe uwch dy fwyd yn gwiliad,
Un yn canfod dy Greawdwr,
Llall yn gwarchod rhag y Temptiwr.
Gochel fwytta dim a baro,
Ith gyd griſtion gwan dramcwyddo,
Y mae'r Scrythur lân yn gwrafyn, 1 *Cor.* 8. 1
Id trwy fwyd dramgwyddo un dyn.

Na châr fwyta bwyd dy hunan,
Dyro rann i't tlawd a'r truan,
Galw'r gwann i brofi'th ginio,
Rhan a'r hwn ſ[illegible]eb damaid gantho.
Ni chimiawe hên *Dobias*,
Nes cae'r gweiniaid bach oi gwmpas,
*§ Archwaetha.* Ac ni § chorffe ddim danteithion,
Nes rhoi rhan ir bobol dlodion.
*Job* ni fwyttai fwyd yn felus,
*Job.* 31. 17. Nes bae ymddifaid wrth ei yſtlys,
Ac ni bydde iach ei galon,
Nes rhoi cyfran ir rhai tlodion.
Galw dithe'r gweiniaid tlodion
I gael cyfran o'th ddanteithion,
*Luc.* 14. 13. 14. Felly gelwir dithe ar fyrder,
I gael rhan or nefol ſwpper.
Gwachel rwgnach ond bydd fodlon,
I beth bynnag fo Duw'n ddanfon,
Bara Dwr oedd ffâr ddigonol,
** Uchelddadau.* Gynt ir * Patriarchiaid Duwiol.
*Daniel* bach a fydde fodlon,
*Dan.* 1. 12. Fwytta ffâ a ffacbys duon;
*2 Bren.* 4. 42. 44. A holl feibion y Prophwydi,
Cymrent fara Haidd yw porthi:
*2 Tim.* 6. 8. Pam na byddwn ninne fodlon,
*Gen.* 18. 8. I beth bynna fo Duw'n ddanfon,
Bid ef lawer bid ef ronyn,
Trwy gael modd i dorri newyn.
*‡ Criſt yn rhith Angel oedd un or tri a fwytadd gydag Abram canys fel gelwir ef yn farnydd y Byd.* ‡ Fe fu'r *Drindod Sanctaidd* fodlon,
Wledda gydag *Abram* ffyddlon,
Ar gig Llo a llaeth a menyn,
Bara twym heb fwy o'm heuthyn.
Nawr nid nês gan bob ofer ddyn,
Er cael bwydi dorri newyn,
Oni bae cael chwech o ſeigie,
Gwin a chae i borthi chwante.

Rhai

Rhaid cael ſaws, a rhaid cael finegr,
Rhaid cael capers, Sampier garlleg,
Cyn y gallo llawer fwytta,
Pryd o fwyd gan faint ei ‡ traha.
Y mae ſaws yn awr yn coſti,
Yr oes hon mewn gwrês a gwagi,
Mwy nag oedd y breiſion ſeigie,
Gynt yn coſtio i'r hên Deidie.
Gynt ni cheiſie *Alexander*,
Saws un amſer gyda'r ſwpper,
Ond y ſaws oedd yn ei gylla,
Chwant ir bwyd yn ol rhyfela;
*Cyrus* ynte fyddei fodlon,
I ſwppera ar lann afon,
Lle cai ddwr i dorri ſyched,
Ef ai Filwyr yn ei lludded.
Rhaid yn awr i bobol ofer,
Gael eu gwin ar ginio a Swpper;
Rhaid cael pint neu ddau o glared,
Cyn el tammaid bwyd i wared.
Duw ro fara ir bobol dlodion,
Duw a'n gwnelo ninne'n fodlon,
Duw faddeuo'n traha i ni;
Duw fendithier am ein porthi.

‡ *Balchder.*

## *Gras cyn bwyd.*

PORthwr mawr y pum mil gwerin,
A'r Pum torth haidd a'r ddau byſcodyn,
Portha ninne dy wael weiſion,
A'r hyn ymborth wyt yn ddanfon.
A bendithia'r bwyd a'r ddiod,
Rhwn a roddaiſt yma i'n gwarchod,
Fel y gwir fendithiaiſt cyn hyn,
Oen y Paſc, a'r ddau byſcodyn.

A rho iddynt rym i'n porthi,
I'th waſanaethu a'th addoli,
1 *Br.* 19: 1. Fel y rhyddaiſt rym o'th wiwras,
Gyntar deiſen hên *Elias.*
A phâr iddynt i'n cymfforddi,
*Dan.* 1. A'n cryſhau a'n gwir ddigoni,
‡ *Bwyd.* Fel y peraiſt ir ‡ ffâr iſel,
Ar y ffacpys borthi *Daniel.*
A nad i ni o'th ddanteithion,
Gymryd gronyn mwy na digon,
Ond y maint y fo'n i'n helpu,
Yn ein galwad i'th waſanaethu:
Eithr pâr i'n roddi moliant,
Ir bob amſer am ein porthiant,
‖ *Hollalluog* A chydnabod mae Duw ‖ Celi,
Ginio a ſwpper ſy'n ein porthi:

---

### *Grâs yn ôl Bwyd.*

Porthwr graſſol pob creadur,
*Pſal.* 145: Gwyllt a dôf yn ôl ei nattur,
15, 16. Derbyn foliant am ein porthi,
Mor ddigonol a'th ddaioni.
Er pan ddaethom o'r grôth allan,
Tydi'n porthaiſt fawr a bychan,
Am dy fwynder yn ein porthi,
Rym ni bawb yn diolch i ti.
Nid oes gennym ddwr i yfed,
Bara i fwytta grym i gerdded,
Goleu i ganfod nerth i godi,
1 *Chron.* 29: Ond y roddech Arglwydd i ni.
11, 12. It ti Arglwydd am ein porthiant,
*Mat.* 6. 11. Am ein iechyd am ein llwyddiant,
Am ein heddwch a'n llawenydd,
Y bo'moliant yn dragywydd.

## *Grâs cyn Bwyd.*

LLygaid pob creadur bywiol,
Sydd yn edrych Arglwydd graſſol,
Ac yn triſtio cael eu porthi,
Gennyd Rhoddwr pob daioni.
Rwyti'n agor dy law raſſol,
Ac yn porthi pob peth bywiol,
Gan roi ymborth wrth ei nattur,
Yn ei bryd i bob Creadur.
O bendithia ni dy weiſion,
A'r holl fwydydd a'r danteithion,
Y bartoaiſt ar ein meder,
I'n digoni ginio a ſwpper.
A rho inni râs i ledru,
Bawb yn ddyfal i'th glodfori,
Am dy § garc, a'th rodd, a'th fwynder,
Yn ein porthi ginio a ſwpper.

*Aarall cyn bywyd.*

DUw dod ſendith ar ein hymborth,
Duw rho iddynt rym a chymmorth,
I'n digoni a gwir gryfdwr,
I'th waſanaethu di'n Creawdwr.
Er bôd llawer bwyd yn * ddainti,
Nid oes ynddynt rym i'n porthi,
Nac i dorri dim o'n newyn,
Oni roi dy ſendith arnyn.
O gan hynny, Duw bendithia,
Yr holl fwydydd a roeſt yma;
Fel y byddo pwer ynddyn,
Borthi'n cyrph a thorri'n Newyn.
Lle mae llawer ſort o fwydydd,
Yn troin, geri yn ein colydd,
Am eu cymryd yn afradlon,
Ac yn magu câs glefydon.
Rho dy râs inn' Arglwydd ſanctaidd,
Gymryd pob bwyd yn dymheraidd,
Fel y gwnelont leſſiant inni,
Ac na ſagont haint na ſyrthni.

§ *Gofal.*

* *Foethus.*

Rho rym ynddynt i'n cyfnerthu;
Yn ein galwad i'th waſnaethu,
Ac i foli d' enw'n waſtad,
Er mwyn Jeſu Griſt ein ceidwad.

*Grâs yn ol bwyd.*

DErbyn Arglwydd foli'n gwefuſedd,
Am dy ffafar a'th drugaredd,
Yn ein porthi mor ddigonol,
A'r creaduriaid ſydd breſennol.
Derbyn Ddiolch ar ein dwylo,
Am roi inni gyſtal cinio,
Er nad ydym yn ei haeddu,
Mwy na'r ſawl ſydd yn newynu.
Rhoed pob geno ag y borthaiſt,
Foliant itti am y roddaiſt,
Ninne roddwn it' ogoniant,
Yn dragywydd am ein porthiant:

---

*Grâs cyn bwyd.*

DUW mawr o'r nêf ſancteiddia,
Ni oll a'r ymborth ymma,
Wyt ti'n roddi wrth ein rhaid,
I'th blant a'th ddefaid borfa.
A phar i ni gydnabod,
Fod pob daioni'n dyfod,
Oddi-wrthyd (graſol wyd)
Yn oed a bwyd a'r ddiod.
A dyſc in' bawb foliannu,
Dy enw a'th glodforu,
Am ein porthi well na neb,
Bob amſer heb ei haeddu.
Ac er mwyn dy anwyl blentyn,
Yr ym ni'n daer yn ‡ canlyn,
Arnad roddi bara a dwr,
I'r neb ſ'eb ſwccwr ganthyn.

‡ *deiſyf.*

A rhoddi grâs i ninne,
D' waſanaethu nôs a bore,
Nes ein dyccer lle mae'n † blys,
I'th nefol lys a'th Gartre.
Lle mae gwyr fwyd a diod,
Yn para byth heb ddarfod,
Yn dy blâs lle mae dy blant,
Heb arnynt chwant na thrallod.

† *Chwant.*

---

### *Grâs gwedi bwyd.*

DUw pam yr wyt i'n porthi,
Mor foethus ac mor ddeinti,
Yn waſtadol heb ddim trai,
A gadel rhai mewn tlodi?
Pa ham yr wyt yn danfon,
I ni dy waelaf weiſion,
Fwy nag ſydd raid i ni ym-mhell,
A gado'n gwell yn llymion?
Cans yr ym yn cyffeſſu,
Nad ydym neb yn haeddu,
Cael mwy ſwccwr ar dy law,
Na'r neb ſy draw'n newynu.
Ond dy fod ti o'th fwynder,
A'th gariad a'th drugaredd,
Yn rhoi inni fwy ym-mhell,
Na'r ſawl ſydd well ei buchedd.
Ar hyder y rhoem ninne,
Fwy ddiolch byth i tithe,
Na'r ſawl ſydd mor llwm ei * ffar,
I'th foli ar ei glinie.
I ti gan hynny rhodder,
O'n geneu ni bôb amſer,
Glôd a moliant tra ynom chwyth,
Ar glinio byth a ſwpper.

* *Ymborth.*

---

## Grâs cyn Swpper.

§ *Wynebpryd*
* *Paratowr drosom.*

COdwn bawb ein pen a'n § ffriw,
At Ghriſt 'rhwn yw'n * profeier.
A chanlynwn arno a'n daer,
Roi fendith ar ein Swpper.
Mae e'n porthi pob peth byw,
Er maint o'i rhyw a'i nifer,
Ag yn rhoi i'r rhain i gyd,
Eu bwyd mewn pryd a themper:
Nid yw un o Adar tô,
Yn deſcyn na bo ei fwynder,
Yn partoi i hwn ar * haſt,
Ei ginio, brecffaſt, Swpper.
Pa faint mwy y * careca Duw,
Am ddyn 'rhwn yw ei * bictor,
A rho iddo'i raid bob tro,
Ond bwrw arno ei hyder?
Mae e'n rhoddi i ddyn, yn fwyd,
Y grewyd ar ei feder,
Llyffie, llafur, 'nifail glân,
Pyſcadar mân heb nifer.
Ni wnaeth Duw un geno 'rioed,
Mewn tir, mewn coed, mewn dyfnder,
Nes partoi ei ymborth tyn,
I'r geneu cyn ei ganer.
Llawer rhyw o nifail glân,
A physcod mân ac adar,
Y rodd Duw i borthi dyn,
A'i llâdd bob un cyn bwytter.
Pam nad yſtyr dynion hyn?
A rhoddi cyn y cymer,
Glôd a moliant prudd bob tro,
Ir Arglwydd ginio a ſwpper.

* *Frys.*
* *Ofala.*
* *Ei lun.*

Duw agoro'n llygaid dall,
I weled heb wall a rodder,
A'n geneuau ar bob cam,
Iw foli am ei ſwynder.
Clod a moliant bob rhyw awr,
Ir Arglwydd mawr a rodder;
Am ddiwallu'n cylla gwag,
Ar ginio ag ar ſwpper.

*Gras yn ol cinio.*

DI lenwaiſt Griſt ein cylla,
Ag ymborth o'r dainteithia;
Llanw enau pawb o'th Blant,
A moliant am eu Bara,
Yn foethus iawn di'n porthaiſt;
Yn raſol di'n diwallaiſt,
Rho i ni weithian ras bob cam,
I'th foli am y roddaiſt.
Di roddaiſt inni'n cinio,
Ac ymborth in * maintumio;
Rym ni'n rhoddi nos a dydd,
It foliant prudd am dano.
Mae dyled arnom roddi,
It' foliant am ein porthi,
Oh! rho galon inni a chwant,
I roi mawr foliant itti.
Pob Bol ag wyt yn lanw,
Clodforent byth dy enw;
A bendithient ar bob cam,
Dy fawredd am eu cadw.

* *cynnal.*

---

### *Arall yn ol Swpper.*

RHown foliant ‖ prydd bob amſer,
Ir Arglwydd ginio a ſwpper,
Am roi ymborth in mor hael,
Heb adol † ffael na phringder.

‖ *difrifol.*

† *diffyg.*

Rhown iddo ddiolch hyfryd,
Am gael ein bwyd a'n jechyd,
A'n llawenydd a'i ſawr râs,
* *Allan:* In cadw maes o ofyd.
A cheiſiwn gantho'n raſol,
Er mwyn ei ſâb ſancteiddiol,
Borthi'r enaid yn ei bryd,
Ai air, a'i yſpryd nefol.
A thywallt ei fendithion,
Ai râs yn ddyfal arnon,
Fel y gallon nôs a dydd,
I foli'n brydd o'r galon.

---

## ARALL.

GWyr a gwragedd, gweiſion, plant,
Rhown foliant am ein porthi,
I'r hael Dduw f'o bryd i bryd,
Yn rhoi maeth hyfryd inni.
Mae'n diwallu pob peth byw,
Bob pryd a rhyw ddaioni,
Ac o'i law, a'i râs, a'i rôdd,
Yn rhoddi môdd i'n peri.
Mae'n rhoi bara inni o'r ddâr,
† *dôf.* A gwyllt a † gwar i'n peſci;
Pyſc o'r môr a mêl o'r graig,
A llawer ſaig heb enwi.
Mae e'n porthi pob rhyw gnawd,
Fel un dan ſawd ei coſti,
Heb anghofio'r adar mân,
Na'r llew, na'r frân ſy'n gweiddi.
*Pſal.* 147. 9. Mae ein porthi dyn yn rhin,
‡ *Moethus.* A chan a gwin yn ‡ ddeinti,
A brwd a rhoſt o lawer rhyw,
Heb neb ond Duw'n i peri.

O rhown ninne foliant prydd,
Bob nos, bob dydd heb dewi;
I'r hael Dduw am dan ei * borth, * *Help.*
Sy'n rhoi'r fath ymborth inni.

---

### *Cerydd am eſceuluſſo ceiſio bendith ar, a rhoi diolch am ymborth.*

FE gwilyddia hên ddyn bâs * * *Brwnt.*
Ddechreu'n henwr ddwedyd grâs;
Rheitach oedd i hwn gwilyddio,
Fod ê cyd heb ei * bracteiſio. * *Arferid.*
Na chwilyddied un rhyw ddyn, *Mat.* 15. 36.
Ddilyn arfer Chriſt ei hun;
Ond cwilyddied pob ofer ddyn,
Arfer bwytta ei fwyd fel mochyn.
Fe nebydd ych, fe nebydd aſſen,
Pwy yw porthwr, pwy yw perchen; *Eſay.* 1. 3.
Ac y roddant ddiolch iddynt,
Yn y meder y fo ganthynt.
Llawer dyn yn waeth na nifel,
Ni adwaenant Ghriſt eu Bugel,
Rhwn ſy'n waſtad yn eu porthi,
A'i trwm lwytho a daioni. *Act.* 14. 17.
Y mae'r adar bach yn canu,
Clod i Dduw yn ol ſwpperu,
Ac yn rhoddi moliant iddo,
Nos bo * llewyrch i'ni gwrando. * *Llawenydd*
Mae'n hwy bob un yn ymdynnu,
Am y gore allo ganu;
Mawl ir Arglwydd nos a bore,
Sy'n rhoi bwyd i lanw eu bolie.
Y mae dynion hwynte'n tewi,
Gwedi'r Arglwydd mawr eu porthi,
Heb roi clod a moliant iddo,
Mwy na's pyſc heb lafar ganthe.

Ond i dyle'r ſath gan hynny,
Fod yn uffern yn nowynu ?
Eiſie nabod Duw'n ei cymmorth,
A rhoi diolch am eu hymborth.
O na fydded un rhyw Griſtion,
Yn gyffelyb ir ſath ddynion;
Ac o byddant yn * ddigwnſel, * Dim ddi-ſtawrwydd.
Maent hwy'n waeth nag un anifel,

Gweddi
DUW Nâd inni fwytta o'th ddonie,
Fel y bwytty'r môch afale.
Heb dderchafu pen na llygad,
I weld o ble maent yn dwad.
Ond pâr inni godi'n pennau,
A chydnabod *fod* y donniau,
Oll yn dwad ſydd i'n porthi,
Oddiwrthyt Tâd goleuni.
A phar inni foli d' enw,
Am dy fwynder yn ein llanw,
Ath ſendithio yn dragywydd,
Am ein iechyd a'n llawenydd.

---

*Cyngor i gyfrannu a'r Anghenus yn ol ein gallu.*

GWae'r Goludog di doſturi
† Stoppio ei gluſt rhag gwrando tlodi, † *Gaeo.*
Fe gaiff hwnnw ddyfal grio, *Dih* 21. 13.
Yn y pwll heb neb iw ‡ wrando: ‡ *Uffern ferraint.*
Pan bo ei wraig, a'i blant, a'i draſſe,
Yn chwdu'r gwin yn nhai Tafarne,
Ynte ſydd mewn carchar caled,
Heb y dwr i dorri ei ſyched.
*Jaco* ddyweid nad oes crefydd,
Na Chriſtnogaeth yn y cybydd: *Luc.* 1. 27.
Ni ddiwallo'r gwragedd gweddwon, *Jac.* 2. 14,
Yn ei hadſyd, a'r rhai tlodion. 15, 16, 17.

Iſai

Ifan anwyl ynte ddwede, 1 *Jo.* 3. 17:
O gwel carl ei frawd mewn eiſie,
Ac heb roddi dim iw ‡ ſwccrio, ‡ *gynorthwyo*
Nid iw cariad Duw ddim ynddo.
Chriſt y ddywaid i'r a'r Camel, *Mar.* 10. 25.
Trwy gai'r nodwydd yn ddi-drafel,
Cyn yr êl y carl goludog,
I'r nêf, os bydd yn anrhugarog.
Chriſt a'n rhoddodd yn Stiwardiaid,
I gyfrannu rhwng y gweiniaid, * *goruchwyl-*
Y dâ roddodd dan ein dwylo, *wyr.*
Rhannwn rhyngthynt rhac ei ddigio.
Os bydd un marw rhag newyn,
Bydd gwaed hwnnw ar ein cobyn;
Ni all cyfoeth mawr yr holl fyd,
Wneuthur iawn am dan ei fywyd.
Rho dy gardod yn ddi attal,
Os bydd llawer dyro'n amal,
Os bydd ychydig dyro ronyn,
Ond rho'n llawen heb ei wrafyn.
Dyro'n ſiriol dy eluſen,
Hôff gan Dduw bôb rhoddwr llawen,
Dyro 'roddech yn gariadus, 2 *Cor.* 9. 7.
Ni fyn Chriſt un rhodd wrthnebus. *Luc.* 14. 13,
Er na roech i'r tlawd ond cyfran, 14.
Er mwyn Chriſt o'i dda ei hunan,
Mae e'n addo gwabar ffrwythlon,
Am gyfrannu hynny i'r tlodion.
Na ddihiria hyd y foru, *Dib.* 3. 27,
Roi'r peth allech roddi heddu: 28.
Rho yn rhwydd a rho yn hawddgar, *Gal.* 6. 10.
D·iflâs y fydd rhodd ddiweddar.
Rhown medd *Paul* tra genym bwer,
Gwnawn ddaioni tra chawn amſer:
F' all y * Monarch mwya heddu, * *Tywyſog.*
Fod yn begian dwr y foru.

Roedd gan *Dives* wrth giniawa,
§ *Matthuſa.* Lawer ſaig o'r bwyd § danteithia,
Nid oedd gantho ar ei ſwpper,
O'r dwr oer mewn fflam a phoethder.
Wrth frecwaſta ar danteithion,
Ni chai *Lazar* gantho o'r briwſion,
Wrth ſwpperu ni chae ynte,
Ddafan dwr er maint y grie.
Fe roi 'nawr y byd am lymmed,
O ddwr oer i dorri ei ſyched,
‖ *Daſn.* Pes rhoe'r nêſ ar ddaer am ‖ droppyn,
§ *Ceiſio.* O'r dwr oer nis cae er § canlyn.
Nid oes gantho o'i holl olud,
O'r dwr oer yn uffern danllyd,
Ni bydd gan y tlawna ei Giſtie,
Foru o boſſib ſwy nag ynte.
F' aeth mor noeth mor llwm oddiyma,
Ac y daeth ir byd o'r cynta,
Pe cae e'r nef am hanner ffloring,
Nid oes gantho iw phrynu or ffyrling.
Heddyw gall y gwyr goludog,
Rannu llawer ir newynog,
F'alle foru trwy ryw ddamwain,
Na bydd ganthynt ddim eu hunain.
Rhown gan hynny tra 'peth genym,
Ir dyn tlawd i dorri newyn;
Foru o boſſib ni bydd dimme,
I gyfrannu ir mwya ei eiſie.
*Eſay.* 58. 7, Torr dy ſara ir newynllyd,
8. Fe fendithia Duw dy olud;
Ni bydd llai dy gig i'th grochon,
Er y roddech i rhai tlodion.
*Bren.* 17. Ni bu'r weddw o *Sarepta*,
D' lottach er y gadd *Eliſha*,
Ni bu llai ei hoel na'i rhoeſyn,
Er rhoi teiſen iddo o ronyn.

Gwelai

Gwelais lawer o'r gwyr mawrion, *Dih.* 22. 16.
Yn cyrwydro am dreiſio tlodion,
Ond ni welais gwedi 'ngheni,
Ddyn ar feth am helpu tlodi.
Goegedd, † ſyrthni, trawſedd, § traha, † *diogi.*
Helodd lawer i gardotta, § *gwneuthur*
Oni ni yrrodd oddi Cardod,
Ddyn erioed i fynd ar anſtod.
Gwyn ei fyd medd Brenin Dafydd,
Y dyn dynno'r tlawd o'i gyſtudd:
Duw ei hun mewn amſer adfyd,
Ai tynn ynte maes oi oſyd.
Duw a'i gwared o'i drallodion, *Pſal.* 41. 1,
Duw a'i ceidw rhag gelynion, 2, 3.
Duw ei hun a gweiria ei wely, *Dih.* 19. 17.
Pen fo claf heb allel cyſgu.
Rhowch ir tlawd eu rhaid yn echwyn,
Chriſt ei hun a'n feichie troſtyn,
Ac y dâl i chwi drachefen,
Maint roddech wrth eu hangen.
Pwy ond Iddew brwnt ni || fentre? || *anturio.*
Roi yn echwyn ir fath feichie, *Mar.* 10.
Rhwn ſy'n talu ar ei ganfed, 29. 30.
I ddyledwyr ei holl ddyled.
Rychi'n triſtio gwaeth meichneon,
Na Mâb Duw am ſwmpe mawrion,
Triſtwch Griſt am grach dipynne,
Ceiſio'r tlawd mae'n abal meichie.
Mae e'n talu ar ei ganfed,
I bob Chriſtion ei holl ddyled:
Dwl yw'r cybydd ni all hebcor,
Dim ir tlawd am gymmaint occor. § *Ennill.*
Nid oes occor wi'n ei nabod,
Fwy ei faec [illegible] occor cardod:
Mae'n dwad [illegible] ar ei chanfed;
Pan fo rheittia cael ei gweled.

Nid

Nid oes dryſor ar ddaiaren,
Well na chardod ac oluſen:
* Hi ſydd gwell yn nydd dy drallod,
Nag aur coeth ac Arian parod.

** Duw a rad obrwydd y rhai y roddant eluſennau o gariad atto ef.*

Fe droulia'r Aur fe ryda'r Arian,
Fe ſwyty'r pryſed lawnt a Sidan,
Fe lwyda'r bwyd fe ſura'r ddiod,
Nid oes dim all gwaethu Cardod.

*Mat.* 10. 42.
*Ond o herwydd bod ein gweithredoedd goreu ni yn amherffaith: nid ydynt hwy yn haeddu bywyd tragywyddol.*

Pan loſco'r byd yn wenfflam ole,
A'r tai a'r tir a'r holl dryſſore,
Fe ſydd cardod uwchlaw'r boban,
Ym Haradwys yn dy * waetian. ** ddiſgwyl*

Pan ddêl Ange glâs i'th geiſio,
Fynd i'r barr yn noeth i ympirio,
Goreu ſtor medd Chriſt yw cardod,
Dydd y farn o flaen y Drindod.

Pan bo'r tai, a'r tir, a'r traſſe,
Gwedi'th ado dan law ange,
Fe ſydd cardod yn dy ddilyn,
Nes dy ddwyn i Lys y brenin.

*Eſay.* 64. 6.
*Luc.* 17. 10.
*Gal.* 2. 16.
*Er hynny lle bo ffydd y mae gweithredoedd do.*

Mwy o ennill ſydd yn dyfod,
I'r dyn ſydd yn rhoddi cardod,
Nac ir tlawd ſydd yn ei dderbyn,
Mae'n e'n cael llawer am y gronyn.

*Mar.* 7. 17.
*Jac.* 2. 18.
** dwr y bywyd.*
*Luc.* 16. 9.

Fe geir manna am y briwnſion,
*Aqua Vitæ* am ddwr afon,
Gwiſc ddiſgleirwen am hên gadach,
Ar law Chriſt a'i wir gyſeillach.

Gwna gan hynny ffrins o'r golud,
Ac or Mammon oll ſydd gennyd,
Felly ith dyner ar ddydd tywyll,
Attynt ir dragywyddol bebyll.

Storir lle bydd dy breſwylfod,
Gwerth ſydd gennit dyro cardod,
Na wanffyddia fel dyn llanas,
Werthu Tyddyn i gael Teyrnas.

Gyr

Gyrr o'th flaen yn nyrnau'r tlodion,
Dryſſor lle na ſpeila'r lladron,
Edrych beth a roddech iddyn,
O law Chriſt y cei i dderbyn.
A roech wraig a'th blant a'th draſe,
Dy wraig ath blant ath ffrins a'u pie:
Y roech i Griſt a'r tlawd a'r truan,
Storio'r wyt i ti dy hunan. *Luc.* 12. 33.
Tryſſora oth flaen ir nefol Bebyll, 35.
*Dod olew i'th lamp mae'r ffordd yn dywyll,*
*Gwna bwrs di-draul o'r da ni dderfydd,*
Mae Chriſt ei hun yn rhoi it rybudd. 2 *Cor.* 9. 6.
Haua'n amal tra cech amſer,
Fel y rhoddo Duw it bwer;
Ar ei ganfed di gei fedi, *Gal.* 9. 6.
Yn ei bryd yn ei ddeffygi:
Torr dy ſara i'r newynog, *Eſay.* 59. 7.
A dillada'r noeth anwydog,
I'r cyrwydran dyro letty, *Job.* 29. 12,
Duw ei hun ſy'n orchi hynny. 13, 15, 16.
Byd yn llygaid i'r rhai deillion,
Traed i'r Cloff a nerth i'r gweinion,
Rhyſcwy'r weddw car dieithriaid,
Mam a thâd ir plant ymddifaid.

### *Cyngor i bob penteulu i lywodraethu ei dy yn dduwiol.*

OS mynni fod yn ddyn i Dduw,
Yn Griſtion ſanctaidd tra fech byw,
Gwna dy dy yn Eglwys fechan,
A'th deulu 'n dylwyth Duw ei hunan.
Gwna dy dy yn demel * gyſſon, * *gyttun.*
Gwna dy dylwyth fal Angelion.
Yn eu gradde o bob galwad,
I waſanaethu Duw yn ddifrad.

Gwna dy dy yn demel ſanctaidd,
I addoli Duw yn weddaidd,
Gan bob enaid a ſo ynddo,
Foreu a hwyr yn ddi-ddeffygio.
Dewis ſeini o bobl raſol,
*† naddu.* Gwedi † ſgwario i gyd wrth reol,
Yn byw yn ſanctaidd ac yn gymmys
I adeilo dy lân Eglwys,
Nad un maen anghymwys ynddi,
Nac un drwg ddyn ddwad iddi,
Nid rhai aflan ond rhai cymmwys,
Y ſyn Duw yn ſeini Eglwys.
Tro'r maen aflan oll oddiwrthyd,
Ni ſyn Duw'r ſath ſeini ſarnllyd:
Ty i Griſt, nid ty i Gythrel,
Y ſydd d' Eglwys di a'th Demel.
Ffittiach ydyw pobl aflan,
Fod yn ſain i gorlan Satan,
Ac yn danwydd uffern driſt,
Nac yn ſain i Eglwys Griſt.
Main anghymwys main afluniaidd,
Sy'n anffurfio Temmel gruaidd:
Dyn aneddfol dyn aneſmwyth,
A bair anglod ith holl dylwyth.
Na ddod glogſain cas anghymwys,
Heb ei ſcwario yn dy Eglwys,
Ac na dderbyn i'th dy deddfol,
Rai di grefydd at rai graſſol.
Ni wna meini câs anghymmwys,
Ond diwreiddio gwelydd d' Eglwys,
Na'r rhai aflan drwg di grefydd,
*§ Ni ddaw* Ond troi'th dy ai dorr i fynydd.
*Criſt i gyſuro* Gyrr yr aflan ffwrdd oth deulu,
*neb ond y* Cyn y ceiſiech Griſt ith lettu:
*Sainct.* § Ni ddaw Chriſt ir lle ammherffaith,
*Jo. 14. 23.* Nes troi'n gynta'r aflan ymmaith.

By

Byth ni chydſydd mewn un Demel,
Wir blant Duw a phlant y cythrel,
Mwy na'r gwenin bach a'r mwg,
Mor yſpryd glân a'r yſpryd drwg.
Ni thrig Brenin lle bo môch;
Brwnt ei buchedd, cas ei rhoch:
Ni thrig Chriſt a'i Yſpryd gwiwlan,
Yn yr un ty ar rhai aflan.
Os bydd ith dy rai digreſydd
Meddwon, marllyd, ac anuſydd,
Tro hwy † maes fel Dafad Glafrllyd, † *allan.*
Rhag Clafrio'r faint ſydd gennyd.
Fel y bwriodd *Abram Iſmael,* *Gen.* 21.
Ffwrdd o'i dy, am chwareu'r *Rebel,*
Felly bwrw dithe'r aflan,
Ffwrdd o fyſc dy dylwyth allan.
Ni adawe *Dafydd* Frenin,
Was annuwiol yn ei gegin; *Pſal.* 101. 7.
Na ad dithe ddrwg weithredwr,
Yn dy dy nac yn dy barlwr.
Un gwâs aflan a bair anair,
I laweroedd o rai § diwair: § *Oneſt.*
Nâd gan hynny'r aflan orphwys,
Yn dy dy nac yn dy Eglwys.
Myn rai duwiol ith waſanaethu,
Os dedwyddwch a chwennychu,
Duw fendithia waith y duwiol,
Pan ddel aflwydd ir anneddfol.
Gwâs fel *Joſeph* Duwiol geirwir,
I dyn bendith ar ei feiſtir:
Ond y drwg ddyn megis *Achan,* *Jo.* 7. 25.
All ‖ andwyo'r ty ar Gorlan. ‖ *nafu.*
Os bydd gwâs crefyddol gennyd,
Duw fendithia da holl olud;
Fel y gwnaeth ef er mwyn *Jago,* *Gen.* 33 20.
I holl olud *Laban* lwyddo.

Gwell

* *Addfwyn.* *Gwell gwas duwiol, * llariaidd, llonydd,*
A dyn lwyddiant ar dy faeſydd,
Na'r digreſydd goreu gaffech,
A dyn aflwydd ar y feddech.
Gwell y llwydda gorchwyl gwâs,
Diddrwg, llariaidd, llawn o râs,
Nag y llwydda-gwaith anneddfol,
Gwas digreſydd grymmus graddol;
F' all gwaſanaethwr doeth creſyddol,
1 *Pet.* 3. 1, 2 Droi i feiſtr fod yn ddeddfol,
* *digred.* Fal y dichon gwraig y * Pagan,
Droi ei gwr yn Griſtion gwiwlan,
Oni cheiſi bobol ddeddfol,
Ith waſanaethu yn greſyddol,
Byth ni bydd dy dy yn Demel,
* *gwely.* Ond yn wal a * glwth ir Cythrel.
Nid wyd nes er gweiſion Cryſion,
I gyflawni dy orchwylion:
Oni byddant heſyd ( Clyw )
Gryf i gwplau gyrchwyl Duw.
Na fyn un ith dy a'th drigſa,
Nes bo o deulu'r ffydd yn gynta;
Nac un gwas tra fyddech byw,
Nes bo'n gynta'n was i Dduw.
Ni fyn Eglwys Dduw it dderbyn,
Twrc na Phagan itti'r Cymmun;
Na fyn dithe yn dy Deulu,
Rai di greſydd ith waſanaethu.
Ni bydd gwas digreſydd cywir,
Nac ir Arglwydd Dduw na i feiſtir;
Cans arferol ir fath ddryg was,
Werthu feiſtir megis *Suddas.*
Cais gan hynny bobol ſanctaidd,
Pobol dduwiol, pobol weddaidd,
Ith waſanaethu tra ſech byw,
Os gwnei dy dy, yn Eglwys Dduw.

By

Bydd dy hunan yn oleuni,
Ac yn batrwm o ddaioni,
Ith holl bobol mewn ſancteiddrwydd,
Glendid buchedd, ac oneſtrwydd.
A rho ſiampl dda i ddilyn,
Yn y neuadd, yn y gegin;
Mewn gair, gweithred ac ymddygiad,
I bob rhai fo'n diſgwyl arnad.
Rhodia gyda Duw fel *Enog*,
Bydd bob amſer yn * wagelog, * *Gochelgar.*
Cofia fod Duw a ſaith llygad,
Ym-mhob man yn diſgwyl arnad.
Gwachel ddwedyd dim nai wneuthur,
Ond y fytho tra chymeſſur;
O flaen Duw a chroes y ſarchnad,
A phar goſio hyn yn waſtad.
Bydd mor ſobr, bydd mor ſanctaidd,
Bydd mor gynnil, bydd mor weddaidd,
Bydd mor ddeddfol, bydd mor *gymmwys*,
Yn dy dy ac yn dy Eglwys.
Y mae dyled ar Ben-teulu,
Ddyſgu dylwyth wir grefydde,
Nabod Duw a chadw ei ddeddfe,
Credu yn Ghriſt a'i ddoli ynddie.
Fel y dyſce *Abram* ebrwydd, *Gen.* 18, 19.
Bawb oi dy i oſni'r Arglwydd,
elly dyſc dy blant ath Deulu,
nabod Duw a'i wir waſanaethu. *Jo.* 17. 3.
Dyſc dy blant a dyſc dy bobol.
wir nabod eu Tâd nefol,
A'r Jachawdwr a ddanfonwys,
Dyma'r ffordd ir nef yn gymmwys.
*Planna* gyfraith Dduw yn waſtadol,
Yng halonne pawb o'th bobol;
onia am danynt hwyr a bore,
mewn y maes wrth rodio ac eiſte,

Duw

*Deut.* 6. 6, 7, 8. Duw ſy'n erchi'r Tadau ddangos,
*Deddfau'r Arglwydd iw holl blantos,*
A rhoi'n laſie ar eu dillad,
Er mwyn cofio gair Duw'n waſtad.
Darllain bennod or ſcrythure,
Ith holl dylwyth nos a bore;
‖ *ail adrodd.* Par i bawb ‖ repeto allont,
Jac. 1. 22. A bw'yn ol y wers y ddyſcont.
Bydd Reolwr, bydd offeiriad;
* *Borwr.* Bydd Gynghorwr, bydd yn * Ynad,
Ar dy dy, ac ar dy bobol;
I reoli pawb wrth reol:
Bydd Offeiriad iw cyfrwyddo,
Bydd Gynghorwr iw rhybuddio;
Ac i draethu'r fengyl iddynt,
Ac i brudd weddio droſtynt.
† *gymmell.* Bydd reolwr i † gompelio,
Ac i goſpi'r rhai droſeddo,
Ac i beri bawb oth bobol,
* *Ag arferion da ganthynt.* Fyw'n griſtnogaidd ac yn * foeſol:
Bydd di Farnwr i gyfrannu,
Union farn rhwng, pawb oth deulu,
I roi tal ir da a'r duwiol,
A diale ir anneddfol.
*Gwna di gyfraith gyfiawn gymmwys,*
I reoli'th dy a'th Eglwys;
Par ith bobol yn ddiragraith,
Fyw yn gymmwys wrth y gyfraith:
Dyſc i bawb yn gynta ei dyled;
Dangos b'wedd y dylent fyned,
Gwedi dyſcu'r gyfraith groyw,
Par ir wialen beri ei chadw.
Bydd a'th law, a bydd a'th lygad,
Yn llwyr ddiſgwyl ar eu ymddygiad;
Nad i neb, arair na gweithred,
Droi ar draws heb gerydd caled.

Pâr i bawb o'th dy ddiſcleirio,
Megis ſeren yn goleuo,
Yn rhoi llewyrch dyſc ac † urddas, † *Anrhydedd*
I bob rhai fo'n trigo o gwmpas.
Pâr ith dylwyth di ragori,
Mewn Duwioldeb a daioni,
Fel 'r oedd tylwyth *Noe* dduwiola,
Yn rhagori'r holl fyd cynta.
Par ith wraig fod megis Seren,
Siriol, Sanctaidd, lonydd, lawen,
Yn eſampl o Sancteiddrwydd,
Mewn gair, gweithred, ac oneſtrwydd. Jer. 35. 6.
Par ith holl blant fod yn foeſol,
Yn griſtnogaidd ac yn raſſol,
Yn ymoſtwng iw rhieni,
Fel plant *Rechab* yn y ſtori.
Par ith Dylwyth fod yn ffyddlon,
Megis tylwyth ty *Philemon*,
Rhwn y wnaeth ei Dy yn Eglwys,
Gan mor ſanctaidd ei rheolwys.
Par ith bobol fyw mor gymmwys,
Yn dy Dy ac yn dy Eglwys,
Ac mor ſanctaidd ym-mhob Cornel,
A pha baent ynghorph y Demel.
Nâd hwy ddangos gwaeth cynheddfe,
Nâd hwy wneuthur fryntach caſtie,
Yn y ty nag yn yr Eglwys,
Ond par iddynt fyw yn gymmwys.
Nad hwy dorri un gorchymmyn,
O rhai lleia heb ei gwrafyn,
Nad hwy ddilyn un drwg arfer,
Heb eu cyffroi wella ar fyrder.
Nad i fawr na bychan dyngu, *Dih.* 26. 3.
Enw'r Arglwydd mawr, na'i gablu, *ac* 23. 13.
Na dibriſſio gwaed y cymmod, 14.
Heb roi dial am ei bechod.

Nad

Nâd hwy drelio'r *Sabbath* ſancteidd,
Mewn oferedd anghriſtnogaidd;
Nac mewn gloddeſt a phibyddiaeth,
Heb roi union goſpedigaeth:
Nad un wrando'r gair yn ofer,
Heb ei ddilyn gwedi clywed;
Ai ail gnoi a ſon am dano,
A byw'n ol y wers y ddyſgo.
Nad un fynd y nos i gyſcu,
Nes penlinio wrth ei weli;
Ac addoli Duw yn gynta,
Cyn y rhoddo iw gorph eſmwythdra.
Nad un fyn y boreu allan,
At un gorchwyl mawr na bychan;
Nes addoli Duw'n ei ſtafell,
Ar ei ddaulin heb ei gymmell.
Nad un daro ei law ar Ared,
Nac ar orchwyl o un galwad;
Nes y Gotto ei law yn gynta,
Am gael Cymmorth Duw gorucha.
Nad un fyned i ſiwrneia,
Nac i forio, nac i ffeiria,
Nes ymbilio'n daer a'r Arglwydd,
I ddwyn adre yn ddi dramcwydd.
† *difrifol.* Nad un arfer megis mochyn,
Fwytta ei fwyd a llanw i growyn,
Nes bendithio'r bwyd yn gynta,
A chydnabod Duw gorucha.
Nad un godi megis niſel,
Gwedi llanw ei fola a'i fottel;
* *Gofalus.* Heb roi diolch * prudd a moliant,
I Tad nefol am ei borthiant.
Nad fod un o'th deulu'n eiſie,
Ar waſanaeth nos na bore:
Wrth waſanaeth, Duw bydd * garccus,
*Nes* gwaſanaethu neb e'n 'ſceulus.

N

Nad hwy arfer geirie lloerig,
Nac ymadrodd brwnt, llygredig,
Sen na rheg, na llw, nac enllib,
Ffrwmp, na ffroſt na dim cyffelyb.
Dyſc dy blant, a rhwym dy bobol,
I arferu geiriau graſſol,
Geiriau baro maeth a chyſſur,
Gras ac urddas ir gwrandawyr.
*Nad* hwy arfer caſtie bryntion,
*Nad* hwy watwor bobol wirion:
*Nad* hwy gablu rhai anafus,
*Na* buchanu'r tlawd gofidus.
*Nad* hwy § chwiffo yn y Seler,
*Nad* hwy feddwi ar un amſer;
*Nad* hwy * ſugno mwg o'r ddalen,
Sydd yn ſpelio'r bol a'r cefen.

§ *Yfed.*

* *gormod o'r Tobacco.*

*Nad* hwy hoffi ffaſiwn anllad,
Ar ei gwallt nac ar eu dillad;
Par i bob un fynd yn weddaidd,
Fynd yn gryno ac yn gruaidd.

1 *Cor.* 11. 14

Ar y Sabbath nad hwy ir pebyll,
Lle mae'r deillion yn ymgynnill,
*Nac* i dramwy ir tafarne,
Lle mae'r Diawl yn cadw ei wylie.
Dos ith || Eglwys blwyf y ſulie,
A'th holl Dylwyth wrth dy ſodle,
I addoli Duw'n gyhoeddus,
Gyda'r dyrfa yn ddiſceulus.
*Nad* ith dylwyth drigo gartre,
Amſer goſper ar y ſulie;
*Nad* hwy loetran ar y Sabboth,
Sawl y chwario chwarien drannoeth,
*Na* ddod ormod waith aneſmwyth,
Ddyddie'r wythnos ar dy dylwyth;
§ Llwa ambell awr yn llawen,
'r deffygiol godi gefen.
Ar y Sabboth nad hwy'n ſegur,

|| *Gwel Beth a ddywedir yn y pummed ddalen yngylch gwrando'r gair mewn plwyfe eraill oni bydd pregeth yn dy blwyf dy hunan.*

§ *Caniatta,*

Par i bob un chwilio'r ſcrythur,
Ac i weithio gwaith Duw'n eſcyd,
O flaen un gwaith a fo gennyd.
  Dyſc dy dylwyth ar y Sulie,
Bob rhyw un i ganu Pſalme,
Ac ymbwng cio'n † llon a'i gilydd,
Am air Duw a phyngciau creſydd.
  Ar bob Cinio, ar bob Swpper,
Par i ryw un ddarllain Chapter,
I roi ymborth i bob Enaid,
Pan bo'r Corph yn cael ei gyfraid.
  Nad dy dy, na hwyr na bore,
Heb waſanaeth a gweddie;
Gwell ith dylwyth fod heb ſwpper,
Tra font byw na bod heb oſper.
  Nad ith Eglwys fod un amſer,
Heb waſanaeth pryd a goſper,
Nac heb aberth hwyr a bore,
Ith Tâd nefol am ei ddonie.
  *Nad* un cornel a fo ynddi,
Heb ei yſgubo o bob brynti,
A'r yſcubell o ddiſeirwch,
Nes cael ffafar Duw a'i heddwch.
  Golch i llawr a heilltion ddagrau,
Trwſſia ei ‡ gwelydd a rhinweddau,
*Nâd* ei hallor heb dân arni,
Ac arogle mawl a gweddi.
  Cais dy hunan chwareu'r ffeiriad,
Galw ar Enw Duw yn waſtad;
Par ith bobl gyd fyfyrio,
Gyda thi trech yn gweddio.
  Pob penteulu Carccus cymmwys,
Ddyle fod fel gwr o'r Eglwys,
Yn Cynghori yn rhybuddio,
Pawb o'i dy yn ore ac allo.
  A'r fath drefn ſy'n yr Eglwys,
Yn rheoli pawb yn gymmwys,
Ddyle fôd yñ nhy pob Chriſtion,

† *Ymreſymmu.*
* *Llawn.*
‡ *Murian.*

I reoli'r Ty a'r dynion.
Goſſod un neu ddau o'th deuly,
Fel wardeniaid ith gyd-helpu,
Cadw ith bobol oll wrth drefen,
Ai rheoli yn dy abſen.
Rhaid yw diſgwyl ar arferion,
Ac ymddygiad pawb o'th ddynion,
Ac ar lwybre rhai ſy'n pechu,
Fel y gallech eu ceryddu.
Nad un drwg ddyn heb ei goſpi,
Yn ol meſſur ei ddrygioni,
Rhag i arall bechu ſwy ſwy,
Am it ffafrio'r anghymeradwy.
Dyro rybydd ir Troſſeddwr,
Dair gwaith, pedair, wellhau ei gyflwr,
Cyn ei daflu ffwrdd o'r gorlan,
Oni wella tro fe allan.
Os bydd meddwon na bydd ſobor,
Os bydd drel na dderbyn gyngor,
Un digrêd na charo grefydd,
Tro hwy maes yn ol cael rhybydd:
Os bydd morwyn yn ſcoldies,
Ac heb berchi *Sara* ei meiſtres;
Bwrw *Hagar* o'r drws allan,
Gad ei feiſtres gael ei hamcan.
Nad ith ddynion fod yn ſegur, *Gen.* 16.
Rho rhyw daſc i bawb iw wneuthur,
*Maeth diffrwythder mammaeth gwradwydd*
Yn cyd-ddwyn a ſegur llydrwydd.
Myn weld pawb o'th blant a'th deulu,
Yn mynd mewn pryd, pob nôs i gyſcu, *Preg.* 10. 18
Arfer ddrwg yw gadel gweiſion,
Fynd i gyſcu pan y mynnon.
Pan bo'i'n amſer mynd i gyſcu,
Cais gan Ghriſt fendithio'th deulu,
A bod arnynt oll yn geidwad,
Gwedyn cymmer di dy gennad.

A rho rybydd ith holl bobol,
† *Barchedig.* Alw ar Dduw yn ‡ ddeſoſionol,
Fawr a bach, ar ben ei glinie,
Cyn yr elont iw gwelaue.

Ac rhag ofn i Dduw gyrchu,
Rhai o'u Cwſc i ſynd iw barnu,
Pâr i bob un lwyr ymgweirio,
Fynd o flaen Duw cyn y cyſgo.

Os yn llyn y llywodraethu,
Dy holl dylwyth ath holl lettu;
Duw ſendithia'th dy a'th dylwyth,
*Jo.* 14. 23. Ac a'ch gwna chwi oll yn eſmwyth:

Chriſt a Breſſwyl yn dy demel,
1 *Sam.* 2. 30 Chriſt a'th wrendy yn dy drafel,
Chriſt a'th dderbyn o'th lân Eglwys,
Ar dy ddiwedd i Baradwys.

*Dyledſwydd plant iw rhieni.*

OS plentyn wyt, rho wir anrhydedd.
*Eph.* 6. 2. 3 Ith dâd ath fam, trwy barch a mawredd,
Duw ſy'n erchi eu hanrhydeddu,
Or grâs a hir oes a chwennychu.

Gwna'r peth archo dy rieni,
Praw ymmhob peth eu bodloni,
Trwy na cheiſiont gennyd bechu,
Gwna bob peth y ſont yn ſynnu.

Derbyn gyngor derbyn gerydd,
Derbyn goſp dy dâd, yn ufydd,
Derbyn ddyſc pan fo'n dy ſiacco,
*Diar.* 4. 1. Derbyn bob athrawiaeth gantho.

‡ *Lleuatglaf.* Os dwl, os dall, os poeth os ‡ lloerig,
Os anioddefgar a dotiedig,
Y fydd dy dad, a'th fam mewn henaint,
1 *Tim.* 5. 4. Godde ei gwendid trwy ddioddefaint.

O bydd dy dâd a'th fam mewn tlodi,
* *Math o Aderyn.* A chenyd tithe fodd iw peri,
Maetha'n dirion y ddau henddyn,
Fel y maethſont dithe'n blentyn.

Dilyn ſiampl y * Ciconia,

Sy'n porthi ei dâd, pan fo ef gwanna,
Yn cweirio ei nyth, yn ei adeinio,
Yn hen yn wann heb allu cyffro.
Dilyn arfer y * Dolphiniaid, * *Math ar*
Sy'n porthi eu Tâd a'u mam yn weiniaid, *byſcod.*
Gan ei cadw pan font gwanna,
Rhag ir pyſgod mawr eu difa.
Gwradwydd mawr ei feibion dynion,
Fod yn waeth na'r Adar gwylltion,
Gwaeth na'r pyſgod mewn caledi,
Wrth y rhai rodd bywyd inni.
Od wyt wr mawr o alwad uchel,
Ath dad yn dlawd, a'i radd yn iſſel,
Rho barch ith dad, er cuwch o'th alwad,
Anrhydedda'th fam yn waſtad. *Gen.* 45.
Er bod *Joſeph* yn rheoli,
Gwlad yr Aipht, a'i dad mewn tlodi,
Fe wnae *Joſeph* fawr anrhydedd,
Iw dad ei hun er maint o'i waeledd.
Er bod *Solomon* yn frenin, 1 *Bren.* 2.
Ar ei orſedd yn gyffredin,
Fe ddiſcynne oddiar ei orſedd,
I berchi fam a mawr anrhydedd.
Er bod Chriſt yn Dduw, yn ddyn,
Yn uwch na neb, yn well nag un, *Luc.* 2. 51.
Fe barche ei fam, fe barche ei dadmaeth,
Fe fydde ufydd iw hathrawiaeth.
Byd faet ti Duwc, nid llai dy ddyled,
I berchi'th dad a'th fam er tlotted,
Ni ry'chelfraint rydd-did itti,
Leuſu'th ddyled i'th rieni.
Mae'th dad yn dad, pyt fae ef cobler,
A thitheu'n fab, pyt fae ti'Sewier,
Tra fych di'n fab, mae Duw'n dy rwymo,
Roi parch 'th dad pwy bynna fytho.
Pan oeddyd wan heb fedru cwnnu,
Heb fwyd i gnoi, heb laeth i Lyngcu,
Heb glwtt ith gylch, dy fam a'th helpodd

Pa dal y roi ir hon a'th fagodd ?
Yn hir hi'th ddygodd dan ei gwregis,
Ai gwaed hi'th borthodd yno naw mis ;
Ai llaeth hi'th olchodd o'th holl frynti ;
Pa dal pwyth y wnai di iddi ?
Yn glaf hi geiſiodd dy ddiddanu,
Lawer nôs, gan golli ei chyſcu ;
Gan dy lwlan rhwng ei breichie,
Pan baet ti ar dorri'n rhenge.
Rho anrhydedd prûdd gan hynny,
I'th rieni am dy fagu,
Nad wall arnynt hyd dy farw,
Tro gwerth ceiniog yn dy helw.
Y parch, a'r bri, a'r bwyd, a'r trwſiad
* *Blinderus.* A roech i'th dad yn hênwr ingnad *
A ty dy fab i titheu'n henddyn,
Wrth union farn cyn del dy derfyn.
Y garthen rawn a fu ar wely,
Dy dad wrth orwedd, yn y beudy,
Y geidw'th fab i tithe orwedd,
Ar y daflod cyn dy ddiwedd.
Y meſſur cwtta'r hwn y roddech,
*Luc.* 6. 38. A roddir itti pan heneiddiech ;
Yr wyr y ddial medd y wlad,
Y meſſur bach y roech ith dad.
*Gen.* 26. 34, 35. Bydd gan hynny hael a ſerchog,
Rhwydd, a thirion, a thrugarog,
Wrth dy dad ath fam mewn henaint,
Fel y caffech ditheu'r cymmaint.
Na ddos fel Eſau i briodi
Heb gael cennad dy rieni ;
Odid i Dduw 'rioed fendithio,
'R fath briodas wyllt, na'i llwyddo.
Os anweddus yw'th Rieni,
Nid oes itti o'u hamherchi :
Na'i bychanu hyd eu diwedd,
*Gen.* 9. 25. Ond gweddio am wella ei buchedd.
*Gen.* [illegible] *Cham* am watwar *Noah* ei dad, Drwm

Drwm felldithiwyd yn ei had;
Ar felldith‡ hon heb ſyned etto;
O grwyn y * Mwrs y ddaeth o hone.
  *Abſalon* deg a fu yn anufydd,
A thraws iw dad, hen Frenin *Dafydd*,
*Duw* a'i crogodd wrth ei loeſen,
Am ei drawſedd wrth frig derwen.
  Parcha'th dad a'th fam gan hynny,
Helpa'r ddau pan fônt yn ffaelu,
Felly eſtyn Duw dy ddyddie,
Yn y tir lle bo dy dreigle.

‡ *pob adwyn*, 2 *Sam.* 18. 9.

*Pa bethau a ddyle ddyn ſyfyrio arnynt ar y Sabboth wrth ſyned ir Eglwys, a pha fodd y mae iddo ymddwyn ei hun yno.*

N

CYn dy-fynd ir Llann, wrth gerdded,
  Meddwl i ble rwyt ti'n myned?
O flaen pwy? ac i ba bwrpas,
A dôs gwedyn iddi 'n addas.
  Rwyti'n mynd i Dy'r Gorucha,
O flaen Duw yr Emprwr mwya,
I chwedleua ar dy ddau-lin,
A'th Greawdwr ac a'th Frenin.
  Rwyt ti'n mynd i lys *Jehofa*
I gael clywed Duw gorucha,
Yn ymddiddan a thi'n hyfryd,
Deg a thêg o air y bywyd.
  Rwyt ti'n mynd yn brudd i adde,
O flaen Duw dy holl gamwedde,
Ac i ddeiſyf ei drugaredd,
Gras a grym i wella'th fuchedd.
  Rwyt ti'n mynd ei geiſio pardwn,
Nawdd, a gras, ac * abſoluſiwn,
Gan dy Ghriſt, trwy enau'r ffeiriad,
Am dy bechod a'th gam'ddygiad.
  Rwyt ti'n mynd i lwyr weddio,
Ar yr Arglwydd mawr ſy'n addo,
Rhoi i ni bob peth ſydd angenrhaid,

* *Rhyddhad rhan o ſwydd gweinidog yw cyhoeddi maddeuant ir credadyn ediffeiriol ac*

*nid i neb a-tall.* At y corph, ac at yr enaid,
Rwyt ti'n myned i fendithio,
*Luc.* 24. 47. Duw am bob dawn y geiſt gantho,
Ac i roddi ir gorucha,
*Eſa.* 55. 7. Glod a moliant gyda'r dyrfa.
*Jo.* 20. 23. Rwyt ti'n myned i wrando'n hyfryd,
*Eſa.* 57. 21. Fengyl Ghriſt a gair y bywyd,
Gwllys Duw a'i gyfraith ſanctaidd;
*Num.* 6. 23. I'th gyfrwydda i fyw'n griſtnogaidd.
&c. Rwyt ti'n mynd i geiſio cyfran,
O hael fendith Duw ei hunan,
*Pſal.* 100. 2. Ith ryddhau y ffordd y cerddech,
Ac i lwyddo'r hyn a wnelech.
*Pſal.* 42. 1. Dos gan hynny trwy lawenydd,
I dy Dduw a dirfawr awydd,
A hiraetha am fynd yno,
Fel yr Hydd am ddyfroedd *Silo*.
Dôs yn llawen, dôs yn ſiriol,
† *byſ.* Dôs yn † eon, dôs yn foeſol,
Dôs yn fuan, dôs yn fore,
Dôs i dy Dduw ar dy linie.
Dôs i'r Eglwys gyda'r cynta,
Aros yn gyda'r ola:
Tra fech yno, na fydd ſegyr,
*Preg.* 9. 10. Gweithia waith dy Dduw yn bryſſur.
Na fydd ſegur yn nhy Dduw,
Gweithia ei waith yn brudd trech byw;
Melldigedig yw'r dyn gwallys,
Jer. 48. 10. A wnel gwaith ei Dduw yn 'ſceulus.
Cwymp yn iſſel ar dy ddau-lin,
Llef yn eiriol ar dy Frenin;
Jer. 29. 13. Prûdd weddia a'th holl galon,
*Mat.* 15. 7. 8. Na ragrithia o dwyd Griſtion.
Gwrando'r gair yn dra awyddus,
Derbyn hwy ir galon garcus,
*Dih.* 5. 1. Nad ir brain a'r fall i ſcliffied,
*Pſ.* 119. 11. Nes ei ffrwytho ar ei ganfed.
*Mat.* 13. 23. Gwachel edrych hwynt ac ym ma, Gwa-

Gwachel gyſcu na chwedleua,
Ond gwna naill ai ‡ prudd weddio,
Gwrando'r gair, a mynd oddiyno.
 Ni all Duw yr union farnwr,
Aros edrych ar ragrithiwr,
Y fo'n cymryd arno ddori,
Ac heb wneuthur hyn o ddifri.
 Pan weddio'r gwr eglwyſig,
‖ Cyd weddia ag e'n * yſtig;
Air yng air o'r dechre i'r diwedd,
Mewn cytſundeb a chynghanedd.
 Pan bregethir yr Efengyl,
Gochel droi at hon dy wegyl:
Gallu Duw yw'r fengyl helaeth,
Sydd yn gweithio'n iechydwriaeth.
 Craffa'n fanol ar y ffeiriad,
Tro'n pregethu a'th ddau lygad,
Cadw ei eiriau yn dy galon,
A chais ddilyn ei gynghorion.
 Cymmer bob gair ag y ddwetto,
Megis cyngor i'th rybuddio;
O bûr † enau Chriſt ei hunan,
I fyw'n weddaidd yn ei ofan.
 Na ddôs adre heb yſtyriaeth,
Nes cael diwedd y gwaſanaeth;
Ac na chytgam dan boen melldith,
Fynd i maes nes cael y fendith.
 Bydd d'ymddygiad yn yr Eglwys,
Yn griſtnogaidd ac yn gymmwys,
Megis yng-wydd Duw ei hunan,
Ai Angelion fawr a bychan.

‡ *oddifrif*

‖ *Sef yn dy galon.*

* *Yn ddyfal.*

*Rhuf.* 1. 16.

*Luc.* 4. 20.
*Luc.* 10. 6.
† *Mae Chriſt yn lleſaru trwy'r gweinidog pan mae efe yn lleſaru pethau cyttun a'r ſcrythyrau.*
*Eſa.* 8. 20.

### *Cyngor i ymbaratoi cyn dyfod i addoli'n gyhoeddus.*

TYn dy 'ſcidie, golch dy dillad,
Ym ſancteiddia, cyn dy ddwad:
dy'r Arglwydd i addoli,
O flaen gorſedd Tâd goleuni,

Cyffro d' yſpryd, cwyn dy galon,
Dring ir mynydd uwch daerolion;
Gwêl yr hwn ſydd anweledig,
Cyn ynganech wrtho orig.
Cyn y delech o flaen Duw,
Meddwl byth mae Brenin yw,
Ac na ddere at dy frenin,
Nes y delech ar dy ddau-lin:
Brenin nefoedd, Tad Angelion,
Creuwr daiar, Barnwr dynion;
Duw'r diale, Tad goleuni,
Wyt ti ar ſeder i addoli.
Dere'n barchus, dere'n barod,
Dere'n brûdd o flaen y Drindod;
Dere'n ſanctaidd, dere'n ffyddlon,
Di gei d'arch wrth ſodd dy galon.
Côd dy olwg, tan dy ddwylo;
Plyg dy ddau lin goſtwng iddo;
Cur dy ddwyfron, bydd edifar,
Addeu'th bechod, cais ei ffafar.
Galw ar y Tad yn danllyd,
Yn enw'r mab. trwy nerth yr yſpryd;
Cai ei deyrnas a'i gyfiawnder,
Di gei'r cwbwl yn ddi bringder.
Cais ogoniant Duw yn benna;
Cais nefolion bethau neſſa;
Cais ei ras yn dra awyddus,
Preg. 5. 1. Cais dy raid os bydd ei 'wyllys:
Cyn dy ſynd i ddrws yr Eglwys,
Edrych ſod dy droed yn gymmwys,
Bwrw heibio draws ſeddylie,
A gad ſydol ſwriad gartre.
Gen. 22. 5. *Abram* ffyddlon cyn addole.
Rwymeu aſſen yn yr Hendre:
Felly dyle bob dyn rwymo,
Traws ſeddylie cyn gweddio.
Exod. 3. 5. *Moeſen* hyfryd cyn y dewe,
O flaen Duw ſe dynnei 'ſcidie;

O tynn dithe dy fydolrwydd,
Cyn y doech o flaen dy Arglwydd.
*Joſeph* ynte fynne ymgweirio, *Gen.* 41. 14.
Cyn ymddangos o flaen *Pharo*,
Felly ymgweiria dithe'n † ſyw, † *Yn lan.*
Cyn ymddangos o flaen Duw.
*Heſter* Dduwiol hithe ymolchwys,
Cyn mynd o flaen *Ahaſuerus*:
Ymolch dithe o'th ddrygioni,
Cyn rhoech o flaen Duw dy weddi.
Pan y delech i dy Dduw,
Gwel mor hoff mor hawddgar yw,
A phan ddelech tyrd ac amcan,
Mewn anrhydedd, parch ac ofan.
Cwymp yn iſſel ar dy ddau-lin,
Yn ei lys o flaen dy Frenin,
Ac nac yngan air o'th ene,
Nes ymoſtwng ar dy linie.
Ni ry neb o'r *Saint* ‡ triumphant, ‡ *Yn gorfoleddu.*
Yn y Nêf i'r Arglwydd foliant,
Nes y tynnont eu Coronau, *Dat.* 4. 10.
Ac ymoſtwng ar eu gliniau.
Pan y cytcam llwch a llydy,
Dwad o'i flaen heb ymgrymmu;
Pan y delont i weddio,
Ac i ſegian pardwn gantho.
Chriſt ein Meiſtr fe ymoſtwnge, *Mat.* 26. 39.
Ar ei wyneb pan gweddie;
Braidd y goſtwng rhai or gweiſion,
Un o'i glinie pan gweddion:
*Jago* fwyaf gynt addole,
Griſt mor ddyfal ar ei linie;
Nes caledu yn y Demel,
Groen pob glin fel carn y Camel.
*Moeſen*, *Aaron*, *Joſua*, *Samuel*,
*Dafydd*, *Selef*, *Joas*, *Daniel*;
A'r holl Sainct ſy'n rhoi goleuni,
I ni ar linie brudd addoli.

Gwedi gwympech ar dy ddau-lin,
Mewn mawr barch o flaen dy Frenin,
Yſtyr beth trwy brudd fyfyrio,
Pſal. 5. 1. Sy'n dy fryd i ddwedyd wrtho.
*Daniel* raſſol y fyfyrio,
O flaen Brenin cyn llefaro;
Dithe ddylid brûdd fyfyrio,
O flaen Duw cyn yngan wrtho.
Dan. 4. 19. Yn ol yſtyr beth a ddwedech,
Cûr dy ddwyfron cyn gweddiech;
A chydnebydd d' anheilyngdod;
A chais bardwn am dy bechod.
Llef o'i flaen a chalon bryſſur,
Duw bydd raſſol im bechadur;
Syn anheilwng edrych arnad;
Chwaethach derbyn fy nymuniad.
Hael yw Duw ir ſawl a'i ceiſiant,
Rhwydd yn rho ir rhai ofynnant;
Rho i bawb heb ddim dannodiaeth,
Yn rhwydd ei rhaid yn daran helaeth.
Y peth geiſiech, cais trwy ffydd,
Na chymmer ball ond beggia'n brydd;
Nac amme dderbyn 'r hyn a geiſiech;
O ceiſi'n daer di gei ofynnech.
Nac amme 'wllys da dy Dad,
Nac gallu Duw, ſy'n rhoi mor rhâd,
Duw galluog, Tâd gwyllyſgar,
Helpwr rhwydd yw'n Harglwydd hygar.

*Gweddi'r hwn ſy'n myned i addoli Duw'n gyhoeddus.*

DUW trugarog Tâd goleuni,
Rhoddwr grâs a phob daioni,
Er mwyn Chriſt clyw weddi † eiriol,
Un o'th blant dros bawb o'th bobol.
Rym ni heddyw yn ymgynnull,
I'th addoli yn dy bebyll;
Duw rho allu in' a meder,

I't

† *Un yn ymbil.*

'th addoli fal y ‡ dirper. ‡ *Dyleu.*
A bendithia di'n cyfarfod,
chyfrwydda ein myfyrdod,
dod § awen yn ein calon, § *Awydd,*
'th adoli bawb yn ffyddlon.
Gwna ni'n addas ac yn weddaidd,
glodfore d' enw Sanctaidd;
Gwna ni'n barod, ac yn § garcus, § *Ofalus,*
awb i wrando d' air yn barchus.
Duw paratoa di'n calonnau,
hriſt ſancteiddia di'n meddyliau;
wcha'n zêl, chwanega'n awydd. * *Awydd-fryd.*
'th addoli mewn gwir grefydd.
Cwyn y galon, deffro'r yſpryd,
ynna a'th râs ein hawen oerllyd,
‖ Setla'r meddwl, dyſg y genau, ‖ *Sefydlo,*
'th glodfori am dy ddoniau.
Tynn oddiwrthym draws fwriadau,
Nâd i'r rhain wyr droi'n meddyliau;
ar in' wrando d' air yn fuddiol,
gweddio'n * ddefoſionol. * *Barchus.*
O cyfrwydda a'th lân yſpryd,
i weddio bawb yn danllyd,
el y caffom gennyd wrando,
rho inni fom yn geiſio.
Dod dy fyſodd yn ein cluſtie,
ar in' wrando d' air yn ole:
rho feder i bob calon,
ddeallu hwn yn union.
Gwedi deall hwn a'i gofio,
uw rho gymmorth iw † bracteiſio, † *Arferyd,*
i wir ddilyn yn awyddus,
es y dycco ffrwyth § toraethus. § *Helaeth*
Duw bendithia di'n pregethwr,
ho iddo ddeall gras a chryfdwr, 2 *Theſſ.* 3. 1
bregethu gair y bywyd,
nni'n bur o'th fengyl hyfryd:
Gole'i feddwl a'i fyfyrdod,

Nyn

Nynn oi galon dyſc ei dafod,
* Rawnu. Nertha i * barthu'r gair yn fedrus,
Inni bawb yn ol dy ewyllys.
  Nertha i'n tynnu o'r tywyllwch,
Act. 26. 18. I'r goleuni a'r diddanwch,
O gorlannau tywyll Satan,
I wir deyrnas Chriſt a'i gorlan.
  Gwna ei athrawiaeth inni'n rymmus,
Gwna inni ddilyn yn awyddus,
Gwna inni bawb i garu ynto,
Lle mae'n gwiliad ein eneidie,
  Duw bendithia ef a ninne;
Duw ſancteiddia di'n calonne,
Heb. 13. 14. Duw rho ras a meder inni,
Bawb yn bryſſur dy addoli.

*Parattoad i'r Cymmun.*

Pob rhyw Griſtion ag y garo,
  Ddyſcu'r modd y mae yngweirio,
Mynd yn lan i fwrdd yr Arglwydd,
* Yn fyrr bwyll. Dyſced hyn o werſeu'n ebrwydd.
  Cyn yr elych * rhwp i'r cymmun,
Yſtyr ble yr wyt ti'n roſyn,
A pha both yr wyti a'r feder,
† Ddiſgyn. I † reſcio yn y Swpper.
‡ pennaeth. Nid i ford rhyw Emprwr llidiog,
Ond i ford yr Hollalluog,
Rwyti'n roſyn mynd i fwytta,
Bwyd ſydd gan mil gwell na Manna.
  Gwell na manna os fel Chriſtion,
Jo. 6. 49, 50 Y derbynni hwn yn ffyddlon,
1 Cor. 11. 29 Gwaeth na gwenwyn os trwy anras,
Y derbynni hwn fel *Suddas.*
  Meddwl dithau am ei dderbyn,
Yn griſt'nogaidd fel y perthyn,
Mewn Sancteiddrwydd, ffydd a gobaith,
Glendid pur a chariad perffaith.
  Gwachel redeg yn amharod,
I ford Chriſt yn llawn o bechod,

Rha

Rhag it dderbyn barnedigaeth, *Exod.* 12.
Lle caiff eraill Iechydwriaeth.
Coſia'n garcus pa ſancteiddrwydd,
Pa ymgweirio pa barodrwydd,
Gynt oſſododd Duw ar Daſc, *Joan.* 13. 4,
Cyn cae *Iſrael* fwytta'r Paſc. 5.
Coſia heſyd pa ymolchi,
Pa lanhau a pha ſyberwi,
Y wnaeth Chriſt a'i ddwylo tyner,
Ar ei Saint cyn taſtio o'i ſwpper. * *profi.*
O na ddere ditheu'n ſarnllyd,
Yn dy rwd ath bechod drewllyd,
I ford Chriſt heb iwyr ymolchi,
O'th holl feie a'th holl frynti.
Bwrw lefein pob rhyw bechod, 1 *Cor.* 5. 7.
Llid cenfigen, malis meddwdod,
Rhyſyg, ffalſedd ffwrdd o'th galon,
Ni thrig Chriſt y man lle byddon.
Coſia fel y ‡ hentredd Satan, ‡ *Aeth i mewn,*
Gynt yn *Juddas* fradwr aflan,
Yn ol iddo fwyta'r tammaid, *Jo.* 13. 27.
Yn ei bechod brwnt mor embaid.
Gwachel dithe rhag digwyddo,
Y iath beth yr eilchwaith etto;
Os ti ddoi i ford yr Arglwydd, 1 *Cor.* 11. 30
Yn dy *aflendid* heb barodrwydd.
Coſia i'r *Corinthiaid feirw,*
A nychu'n hir o'r gwres ar gwayw,
O waith mynd yn amharodol,
Llwyr ei pen i'r bwrdd ſancteiddiol.
Gwachel dithe fynd yn rhwyſcus,
I'r ford hon heb ofan parchus,
Heb yſtyried beth ſydd arni,
Rhag dy farw yn dy frynti.
Hola dy hun a mynn wybod, 1 *Cor.* 11.
Wyti'n 'difar am dy bechod, 21. 31.
Ac oes genyd ffydd a gobaith,
Calon lân a chariad perffaith.

Rhag

Barna dy hun yn ddiweniaith,
Fel na farno Duw di'r eilwaith;
Ac lle gwelech ddim yn eiſie,
Cais gan Ghriſt ei roi neu ſadde.
Pedwar peth ſydd Angenrheidſol;
I rhai ſynn gymmuno'n ddeddſol
(1) *Ffydd griſtnogaidd*, (2) *gwir ddifeirwch*,
(3) *Cariad perffaith*, (4) *Diolchgarwch*.
Nid oes llun bod heb y lleia,
O'r rhai hyn cyn myned i ſwytta;
A'r neb él ir ſwpper heb ddyn,
Ni chaiff lês oddiwrth y Cymmun.
Ffydd ſy gynta'n angenrheidiol,
I gredu i Ghriſt roi hun yn hollol;
Ar y groes i farw droſtom,
Am y pechod oll a wnaethom.
Ffydd ſy'n cyrraedd ffrwyth y pardwn
* *Ddioddeſaint.* Y bwrcaſodd Chriſt trwy * baſſiwn;
Ac yn derbyn ar y ſwpper;
Criſt ei hun a'i holl gyfiawnder.
Nid yw Chriſt yn ſwyd ir bola,
I gnoi a dant ai roi ir cylla.
*Jo.* 6. 35. Bwyd yw Chriſt i borthi'r enaid,
Yn yſprydol trwy ffydd dambaid.
Ni all neb ſwynhau'n yſprydol,
*Eph.* 3. 17. Chriſt a'i waed, a'i gorph ſancteiddiol,
Ond yn unig trwy ffydd rymmus,
Ddêl o galon edifarus.
1 *Pet.* 3. 22. Mae'n Efengyl inni'n dangos,
*Jo.* 6. 63. Fod Chriſt yn y nêf yn aros;
Ac na ddichon un dyn cnawdol,
Fwytta Chriſt, ond yn yſprydol.
Ffydd gan hynny ſydd anghenrhaid,
I gyrraedd Chriſt i borthi'r Enaid;
Ac i ddercha'r galon etto,
O myn Enaid borthi arno.
Bwyd ir enaid, bwyd ir galon,
Bwyd yw Chriſt ir meddwl ffyddlon,

Bwyd i gymryd trwy ffydd ſywiol,
Bwyd i ſwytta yn Yſprydol.
Pan fo'r Corph yn cymryd Bara,
Yn y Cymmun er i goffa,
Cwynn dy galon y pryd hynny,
A thrwy ffydd mwynha Ghriſt Jeſu.
Neſſa at ffydd rhaid Edifeirwch,
Am bob Pechod trwy ddyfalwch,
A llwyr ſwriad gwella beunydd,
Troi at Dduw mewn buchedd newydd.
Edifara o ddyfnder Calon,
Am bob bai trwy ddagrau heilltion,
Ac na ddere i ford yr Arglwydd,
Nes difaru rhag cael tramcwydd.
Golch dy ſaril, carth dy waddod,
Na ddod Win mewn * Caſc o bechod,
Rhag i'r Gwin mewn lleſter aflan,
Dorri'r caſc a rhedeg allan.
Ni thrig Duw, na'r Oen, na'r Glomen,
Lle bo pechod a chynfigen;
Golch gan hynny'n lan dy leſter,
Os derbynni Griſt na'i ſwpper.
Chwd dy ſeddwdod, cladd dy ſrynti,
Gad dy ſalwedd brwnt ath wegi;
Attal nwyſiant ffrwyna nattur,
Gwella'th fuchedd na ſydd ſegur.
Golch dy ddwylo mewn gwiriondeb,
Golch dy feddwl mewn duwioldeb,
Golch mewn cariad ben y chynffon,
Os derbynni Ghriſt ith galon.
Car gyfiawnder, dilyn ſobrwydd,
Arfer lendid a ſancteiddrwydd;
Gwiſc am danad gariad perffaith,
Nad un bai dy nyrddo'r eilwaith.
Nid oes rhoi i gwn o'r pethe ſanctaidd,
*Na'r gwerthfawr berls ir mòch anghreuaidd,*

* *Lleſtr.*

2 Cor. 7. 1.

*Sacramentum requirit Sacramentem, Sancta. Sancte. Sanctis.*

Na'r manna gwyn mewn halog grochan,
*Mat.* 7. 6. Na chymmun Chriſt mewn chylla aflan.
*Heb.* 9. 4. Mewn pott o aur y dodir manna,
*Mat.* 27. 59 A chelain Chriſt mewn crys or meina,
† *Grawn.* A'r gwin o'r † Grap mewn baril greuaidd
A'r cymmun hwn mewn calon Sanctaidd.
Y trydydd peth ſy'n rhaid ei geiſio,
Yw cariad perffaith cyn reſeſio;
Heb ddwyn meddwl drwg at un dyn,
Pell, nac agos, car na gelyn.
* *Nodau.* Cariad ydyw'r * arms glan tirion,
Sydd gan Ghriſt ar lifreu weiſion;
Ac wrth gariad yr adwaenir
Defaid Chriſt oddiwrth y geifir.
Nid yw Chriſt yn derbyn un-dyn,
*Jo.* 13. 3. I fwynhau ef yn y cymmun;
1 *Cor.* 13. 1 Ond yr hwn y fo'n ddiragrith,
2, 3. A phob dyn mewn cariad perffaith.
Pyt fae gennyd fil o ddonie,
*Mat.* 5. 24, A bod cariad itti'n Eiſie;
44. Nid wyt deilwng byth i ddwad,
I ford Criſt heb berffaith gariad.
Car gan hynny dy Gymdogion,
Maddeu'n rhwydd i'th holl elynion,
Ac os gwnaethoſt gam ag undyn,
Cymmod cyn bwytteuch y cymmun.
Gwachel ddwad yn ddigofus,
I ford Criſt mewn llid a malis,
Rhag i Satan fynd i'th gylla,
Gyda'r tammaid gwedi fwytta.
Dyſc di gan y neidir dorchog,
Chwdu maes dy wenwyn llidiog,
Cyn dy fynd ir ford yn llawen,
Rhag i'th falis ladd ei pherchen.
Neidir fraith medd rhai a'i gwalas
Fwrw 'i gwenwyn ar y gamlas,

C

Cyn y hyfoi ddwr o'r afon,
Rhag ir gwenwyn dorri chalon.
  Bwrw dithe dy lid allan,
A'th ddrwg feddwl a'th draws amcan,
A'th holl falis a'th genfigen,
Rhag ir rhain † andwyo ei pherchen.

† *Noſu.*

  Os bydd gennyd y tri ymma,
(1) Fydd, (2) Diſeirwch, (3) Cariad coda,
Dere i'r cymmun mae i ti greſſo,
Chriſt ei hun ſy'n d'alw atto.

*Jo.* 19. 34

  Pan y gwelych dorri'r bara,
A thywalltu'r gwin i'r cwppa,
Cofia fel y torre'r waywffon,
Gorph dy Griſt nes gwaedu ei galon.

*Quid paras dentem & ventrem?*

  Pan derbynnech o law'r Ffeiriad,
Bara a gwin yn ôl cyſſegrad,
Derbyn Griſt trwy ffydd i'th galon,
Portha d' Enaid arno'n ffyddlon.

*Crede & manducaſti.* *Eph* 3. 17.

  Nid a dannedd y mae Bwytta,
Chriſt yn gnawdol a'i roi'r Bola,
Ond trwy ffydd y mae'n yſprydol,
Bwytta Chriſt o'r galon fywiol.

*Nolite parare fauces ſed cor ſurſum corda*

  Cod dy galon dring i'r nefoedd,
Edrych ar hwn a'th brynodd,
Cofia faint y wnaedd ef erddod,
Pan groeſhoeliwyd am dy bechod.
  Crêd i Ghriſt a'r groes a'i hoelion,
Offrwm droſſodd waed ei galon,
A phwrcaſſu bywyd itti,
Rwyt ti'n bwytta Chriſt o ddifri.
  Os gofynni pa ddaioni,
Ddyru Chriſt o'r ſwpper itti,
Pan dderbynnych hi'n Griſt'nogaidd,
Mewn gwir ffydd a chariad perffaidd,

*Mat.* 26. 28. Mae'n rhoi i ti gyflawn bardwn,
* *Rhyddhad* O'th holl bechod * abſoluwſiwn,
Gwedi'r Brenin mawr ei ſolu,
A gwaed gwerthſawr calon Jeſu.

Mae'n Rhoi pardwn mae'n rhoi bywyd,
*Joan.* 6. 51. Mae'n rhoi cynffwrdd mae'n rhoi iechyd;
1 *Cor.* 10. 16 Mae'n rhoi yſpryd glan a'i ddonie,
Mae'n rhoi hon ai holl rinwedde.

Mae'n dy wneuthur di'n gyfrannog,
O'i holl ddonie mawr galluog;
† *Tra fo ef.* Ac mewn yſpryd mae e'n trigo,
Yn dy galon byth † tro ganto.

*Joan.* 6. 55, 56. Mae'n porthi d' Enaid egwan,
A'i wir gorph a'i waed ei hunan,
*Eph.* 1. 13, 14. Ac yn rhoddi nefol Yſpryd,
Itti'n erneſt o'r gwir fywyd.

O ba ddyled mawr ſydd arnad,
I foliannu *Chriſt* yn waſtad,
Am dy wneuthur yn gyfrannog,
O'r fath Swpper fawr gyfoethog.

A phwy daliad ſy'n dy bwer,
I roi iddo am ei fwynder,
Felly'n porth d'enaid aflan,
Ai wir waed a'i gnawd ei hunan.

Na fydd dithe mor nifeiliaidd,
A mynd o'r llann yn anweddaidd,
Nes rhoi clod a moliant iddo,
Am yr ymborth y geſt gantho.

*Chriſt* ni fwyttei fara barlis,
‖ *Flas.* *Chwaethach* bwyd oedd well i ‖ relis,
Heb roi moliant mawr am dano,
I'w Dad nefol heb anghofio.

Pwy ſaint mwy na ddylit tithe,
Fwytta *Chriſt* y penna o'r ſeigie,
Heb roi diolch i'r Duw cyſſon,
Am ei fab o ddyfnder calon.

A gwawdd nef a daear a dynion,
Seraphiniaid ac Angelion,
I'th gyd helpu foli'r Arglwydd,
Am ei gariad a'i gredigrwydd.

---

## *Gweddi cyn derbyn y Cymmun.*

ARglwydd graſſol rhwn y roddaiſt,
Jeſu Griſt y mwya geraiſt,
Fod yn † ranſwm dros ein beiau,
Ac yn ymborth i'n eneidiau:
Dyro ras i minne'n ſanctaidd,
Ymbartoi fel *Chriſtion* gweddaidd,
Dderbyn *Chriſt* trwy ffydd i'm calon,
I borthi f'enaid arno'n ‖ con.
Carth fy meddwl am Cydwybod,
Golch fi'n llwyr oddiwrth fy mhechod,
Gwna fi'n lleſter glan i dderbyn,
Chriſt i'm calon yn y cymmun.
Cryfha fy ffydd amlha fyngobaith,
Ennyn ynwi gariad perffaith,
*Sancteiddia'r corph, cyfrwydda'r enaid,*
I dderbyn Chriſt y bywyd bendigaid.
Cwyd fynghalon cuwch a'r nefoedd,
Lle mae Chriſt yr hwn am prynodd;
Par i'm henaid borthi arno,
A thrwy ffydd gael grym oddiwrtho.
Par im gredu fod im bardwn,
Am fy mai er mwyn ei ‡ baſſiwn,
A rhan hefyd o'i holl ddonie,
Y bwrcaſſodd trwy loes ange.
Par im gredu y daw i drigo,
Yn fynghalon byth fo gantho,
Ac na 'medy 'ſanctaidd yſpryd,
Nes fy nwyn ir nefoedd hyfryd.

† *Bridwerth.*

‖ *Hyſt.*

‡ *diaddefaint.*

Nâd gan hynny i mi nyrddo,
1 *Cor.* 6. 19. Ei Demel Sanctaidd lle mae'n trigo,
Nac halogi byth om lleſter,
Ond ei gadw'n lân bob amſer.
Pâr im hefyd ei glodſori,
Nos a dydd ar eitha o'm gallu,
A'i ſendithio'n brudd bob amſer,
Am yr ymborth ſy'n ei ſwpper.

XX

---

*Pennillion ar gynneddfau, rhai dynion o phetheu ac y ſonier am danynt yn 'Scrythyr a'r Apocrypha.*

Dyſg ſy mâb wrth godwm *Adda*,
Weld mor brid yw'r pechod lleia,
Ac mor enbyd bwytta gronyn,
O'r peth y ſo Duw yn wrafyn.
*Eſa.* *Eſa* hên a'i chwymp a'i hanffod,
Sy'n rhoi itti rybudd hynod;
Na chytcamech tra ſech byw,
Wrando ar Satan o flaen Duw.
Os cadd *Adda* gymmaint dial,
Am ei waith yn bwytta Afal,
Yſtyr faint y ſydd dialo,
Rhai ſy'n byw ar gyfryw falo.
Blin yw'r Afal a wnae'r dincod,
Ar bob Dant o'r Byd heb wybod,
Na fydd un o'r rhai ddymuno,
Gael ei maeth ar gyfryw 'Falo.
Oni baſſei Griſt i ddiodde,
Ar Bren droſom ddu lloes Ange,
Baſſe'r Byd i gyd mewn attal,
Ym-mhwll uffern am un Afal.
*Hâd y wraig* Er maint y ſo drwg y Draig,
*Gen.* 3. 15. Dod dy driſt yn hâd y Wraig;
Mae ef gwedi ſigo ei ſiol,
Torri chrib a thynnu ei chol.

Os Brath ſarph a gholyn pechod, *Sarph:*
D'enaid bach heb allu orfod:
Nid oes, dim a wna id les,
Nes mynd at Griſt y ſarph o brês.
*Adda* gollodd hên Baradwys, *Paradwys.*
Am yr Afal gynt y fwytwys:
Gwachel ditho golli'r llall,
Am fath fale os wyd gall.
Y Dyn y wnelo ddrwg fel *Cain*, *Cain.*
Medd Duw'n amlwg ac yn blain,
Nid ymedy drwg a'i dy,
Nes dêl dial oddi fry.
Gwachel dywallt gwaed, dyn gwirion,
Megis *Cam* y Mwrddwr creulon;
Y dywallto gwaed yn ſiccir,
Ei waed yntef a dywolltir. *Gen.* 9. 6.
Na wna lanas yn y dirgel,
Duw ddatguddie fwrddrad *Abel*, *Abel.*
Yn y dirgel os gwnei fowr-ddrwg,
Duw a'i dial yn yr amlwg.
Bydd fyw'n wirion megis *Abel*,
Ofna Dduw, Arſer a'i Demel:
Offrwm iddo nôs a bore,
Aberth brûdd, ar ben dy linie.
Pan offrymmech ddim i Dduw, *Offrwm.*
Offrwm iddo'r gore o'i ryw; *Mal.* 1. 13,
Ffiaidd gantho, ac nid hôff, 14.
Y Gwan, a'r Gwael, y Claf, a'r Cloff.
Os offrymmu a'th holl galon,
Duw y dderbyn dy anrhegion;
Oni offrymmu o'th lwyr fodd,
Byth ni dderbyn Duw dy rodd.
Pan fo pawb yn mynd yn ddiog, *Enos.*
I waſnaethu'r Holl-alluog;
Cyffro bawb o'r byd fel *Enos*, *Gen.* 4. 26.
I addoli Duw heb aros.

*Cais* gan bawb waſnaethu Duw,
Dyled pob gwir Griſtion yw:
Goſod allan ei Ogoniant,
* *Dedwyddwch.* Di gae gantho * ffawd a ffynniant.
Rhodia gyda Duw fel Enoc,
*Enoch.* Dilyn lwybreu'r Holl-alluog,
*Coſia* fod Duw'n diſgwyl arnad,
Ym-hob man a chil ei lygad.
Gwyl pa ymdal y gadd Enoc,
Am waſnaethu'r holl-alluog;
Mynd ir Nef cyn gwelod ange,
Pwy gan hynny nas gwaſnaethe.
Dyſc gan *Enoch* dair gwers raſol,
*Rhodia gyda* 1. Fod dy enaid yn anfarwol,
*Duw.* 2. A bod ith Gorph Adgyfodiad,
*Gen.* 5. 24. 3. Ac ir Duwiol nefol daliad.
Na wna frynti yn y Cornel,
*Cawri.* Mae Duw'n gweld pob pechod dirgel;
Ac am hynny meddwl ſyw,
Megis un ſi'ng olwg Duw.
Pet ſae itti gryfder cawr,
Duw y fyn dy dorri i lawr,
Ath roi'n fwyd i borthi'r chwilod,
Os ymroi di ddilyn pechod.
Oni alle Gawr ddifannu,
*Gen.* 6. Pan ddaeth Diluw Dwr i farnu;
Bwedd y dichon Gwangc ddihangyd;
*Noah.* Pan y del y Diluw tanllyd.
Er cynddrwg y ſo'r Byd o bobtu,
Er cymmaint y ſo rhai'n pechu;
Bydd di berffaith yngwydd Duw,
Dilyn No tra ſyddech byw.
Gwachel ddilyn arfer Tyrſa,
Y ſo'n pechu am y cynta;
Gwell na hynny yw dilyn un,
Y ofno Dduw, y barcho Ddyn.

Gw

Gwel mor ddrewllyd yw putteindra, *Dilyw.*
Gwel mor gâs gan Dduw ddiffeithdra;
an na waſnaethe ddyfroedd Lai,
Na'r Dwr Dilyw i goſpi'r bai.
Os byw y wnai di megis *No*, *Noah.*
n wr perffaith ar bob tro,
Byddi gyda *No* 'n gadwedig,
an bo eraill yn golledig.
Gwell it ddilyn *Noah* ei hunan,
Mewn perffeithrwydd, ffydd, ac ofan;
Nag it ddilyn yr holl fyd,
Mewn drygioni, a boddi gyd.
Gwna dy long tra i'n amſer grâs, *Arch neu Long.*
yn y delo'r diluw câs:
Mae'n ddiweddar gwneuthur Bad,
an bo'r dilyw'n boddi'r wlad.
Gwell o lawer, nid ychydig,
n bod gyda *No*'n gadwedig,
n y llong, na chyda llawer;
n y Diluw dû a'r dyfnder. *Bwa.*
Pan y gwelech fwa'r Drindod,
ofia farn Duw a'i gyfammod:
bendithia ei dduwiol fawredd,
m ei fwynder a'i drugaredd.
Yſtyr amryw liwiau'r Enfys,
las a choch yw'r ddwy farn gofys,
las oedd Dwr y Dilyw cynta,
och yw Tan y farn ddiwaetha.
Lle mae'r Bwa yn gyffredin,
i gyru ir ddaer, heb ſaeth, heb linin;
mae'n dangos mor heddychlon,
w hi yng *Chriſt* rhwng Duw a dynion. *Noah, Meddwdod.*
Gwachel Satan hên a'i rwyde,
n bech tra diofal gartre;
a'th ddilyn megis *No*,
s tho itti ffwyl ryw dro.

Oni ddichon Satan ddala,
*Noe* ai rwyde o butteindra,
Fe brawf ddala *Noe* heb wybod,
Yn enw gwr a rhwyd o feddwdod.

*Lot.* Od ei i drigo i *Gomorra*,
Lle mae meddwdod a phutteindra,
Cadw arnad megis *Lot*,
Rhag d' halogi a'n hwy a'r pot.

*Sodom,* Os gweld di'r dre lle bech yn byw,
Yn pechu'n gas yn erbyn Duw,
Tynn fel *Lot* i maes o *Sodom*,
Cyn diſgynno arni'r ſtorom.

*Lot.* Gwell bod gyda *Lot* ei hunan,
Ar y mynydd dan y geulan;
*Meddwdod* Na bôd gyda holl wyr *Sodom*,
*Lot.* Yn y Dre yn godde'r ſtorom.

Pwy ymgadwe yn well na *Lot*,
Ynghanol *Sodom* rhag y Pot?
Yn yr Ogof pwy y feddwe,
*Lloſcach Lot* Ar y Gwîn yn gynt nag ynte?

Or dihangaiſt rhag putteindra,
** Tai putteiniaid.* Rhwng y * ſtyw, dai yn *Gomorra*,
Gwachel wneuthur pechod aſlan,
Gartre ym-myſc dy ffryns dy hunan.

*Tân.* Os dihangaiſt rhag y Tân,
O ganol *Sodom* am fyw'n lan:
Gwachel rhag dy loſci'r eilwaith,
*Gwraig* Yn dy dy am fyw yn ddiffaith.

*Lot.* Os gadewaiſt *Sodom* un waith,
Na ddymchwela i *Sodom* eilchwaith:
Trowd gwraig *Lôt* yn Bil o halen,
*Gomorra* Ym droi hwyneb llwyr ei chefen,

*Puttein.* Agor d' olwg, gwel mor ffyrnig,
Y mae Duw yn coſpi rhyfig:
Pan y lloſce a than a brimſton,
Dre *Gomorra* o'i achoſſion.

Clyw mor uwch y gweiddia pechod, *Llef Sodom.*
Ddydd a nos yn ghluſtio'r Drindod,
Ac na ddichon pechod dewi,
Nes dialo Duw ei frynti.
*Och! mor ddrewllyd ac mor embaid,* *Gwlâd Sodom*
Ydyw lloſcach y Sodomiaid;
Pan bo'r wlad yn drewi etto,
A'r mwg a'r tarth lle bont yn trigo,
Gwachel haeddu rhêg dy Dâd,
Byth nis gorfu *Cam* na'i Hâd, *Cam.*
Melldith *Noe* ſy'n glynu'n ffinion,
Byth yng-hrwyn y Moyrys duon.
Megis *Sem*, trwy ddawn a châd, *Sem.*
Cuddia gwilydd *Noe* dy Dâd;
A phan ddêl mewn gwth o oedran,
Na watwara megis Canaan.
Parcha *Bathſeba* dy fam, *Solomon.*
Anrhydedda hi ar bob cam;
Rho'r llaw ddehau idd'n ufydd,
el y rhoddei *Selef Ddafydd.*
Cynta peth y wnel dy ddwylo,
a le bynna ir elech iddo,
Godi allor gydag *Abram*, *Abraham.*
addoli Duw'n ddigytcam.
Crêd bob Gair a enau Duw,
Gwir a phûr a pherffaith yw; *Ffydd Abraham.*
Nêf a Daiar a ddiflanna,
yn el jot o'i Air heb gwpla.
Lle harcho Duw itt' fyned, dos, *Ufudd-dod Abraham.*
peth orchmynno gwna yn glos;
ydd mor ufydd ac oedd *Abram*,
wna'r peth archo yn ddigytcam.
Offrwm d' *Iſaac* os Duw arch,
c enwaeda'r cnawd o barch,
ado Ddelwau aur dy *Dâd*,
os pan harcho maes o'th wlad.

Dyle

Iſaac. Dyſc gan *Iſaac* fod yn ufydd,
Mwyn a llariaidd, dof a llonydd,
Felly byddi ſuwr i fyw,
Mewn ffafar dyn, mewn ofn Duw.
Gwely'th Briod na haloga,
Rebecca. Ond bydd fodlon i'th *Rebecca*,
Fel y bydde *Iſaac* ſanctaidd;
O flaen Duw mae hyn y weddaidd.
Os bydd geiriau *Jacob* genyd,
Gwachel ddwylo *Eſau* waedlyd;
Jacob. Cais gan Dduw a pheth digwnt,
Yw'r geiriau braf ar gweithred brwnt.
Pan bwriadech geiſio gwraig,
Bydd i *Jacob* yn Schelhaig,
Dilyn gyngor Mam a Thad,
O mynni lwyddiant ar dy Had,
Na fydd lwth i lanw'th fola,
*Eſau* gas y cwilydd mwya,
Am roi i *Jacob* ei holl afel,
Eſau. Dros phiolaid o gawl Gruel.
Ffei or afrad, ffei or meddwdod,
Na werth nef am fwyd a diod:
*Eſau* gollodd Ganaan decca,
Am werthu faint i lanw ei fola:
Joſeph. Os cais Meiſtres yn y cornel,
Genyd orwedd gyda i'n ddirgel,
Gilia gyda *Joſeph* allan,
Na ladd d' enaid er ei chuſen.
Dos i garchar, godde gûr,
Cyffion. Gorwedd mewn cadwynau dûr,
Cyn y gwnelech megis filain,
Aelod *Chriſt* yn aelod puttain.
Na char buttain tra fech byw,
Na haloga Demel Dduw;
Ni wnai *Joſeph* beth mor ffinion,
O ſerch pydru yn y cyffion.

Margai

Margain front fel Margain Eſaw, **Puttein.**
Margain y bair cnoi ac wylaw,
Ydyw gwerthu'r nefoedd berffaith,
Am gyfeillach puttain noſwaith.
*Joſeph* waith na fynne orwedd, **Derchafiad Joseph.**
Gyda'i feiſtres mewn anwiredd,
Y gas mynd yn Brins ar bennig,
Ar yr Aipht am ſtopio rhyſig.
Gwell bod gyda *Joſeph* ddiwar,
Am Oneſtrwydd yn y carchar,
Na bod gyda *Herod* Frenin,
A *Herodias* rhwng ei ddaulin.
Os dringhady wely'th dad, **Reuben.**
Gyda *Reuben* hyna o'r gwaed;
*Judah* gaiff yr holl Difeddiaeth,
Ni chei ditheu ond yr hiraeth.
*Simeon* gwachel werthu'th frawd, **Simeon.**
Drwg y gwyddoſt beth yw'r ffawd,
Fe fydd *Joſeph* gwedi werthu,
Yn troi *Simeon* ir carchardy.
Dyſc gan *Foeſen* fod yn fwyn, **Moſes.**
Araf, lledneis, da dy gwyn,
Hawddgar, ffyddlon, prûdd, didwyll,
Cefnog, diddig, da dy bwyll.
Gwel pwy filwyr ſydd gan Dduw,
Yn plygu'r Brenin cryſa'n fyw, **Pharao.**
Llau, a llyffaint, ceiliog rhedyn,
Yn troi *Pharo*'i geiſio canlyn.
Os ceiſi fynd or Aipht i Ganaan, **Canaan.**
Lle mae'r mel a'r llaeth yn dropian;
Rhaid id fyned trwy'r mor coch,
Er maint ei rym, er cuwch ei roch.
Gwachel laru ar y *Manna*, **Manna.**
*Claf* iawn wyt oni elli fwytta;
Ac os ceiſi Bwmps a phannas;
O flaen *Manna*, mae'ti anras.

*Soſlieir.* Cyn gadawo Duw ddim eiſie,
Ar y ſawl y gatwo ei ddeddſe,
Pair ir neſoedd lawio Manna,
A Chwails iddynt hwy i'w ſwytta.
Na wrthneba byth o'r ffeiriad,
*Corab.* Angel Duw yw wrth ei alwad;
Gwachel rhag ir ddaer dy lyngcu,
Os fel *Corab* y gwrthnebu.
Gwachel ſedlo maes oth alwad,
Bethau berthyn at offeiriad;
*Offeiriad.* Ni ſyn Duw ond ffeiriad gweddaidd,
Drîn yr Arch a'r pethau Sanctaidd.
Gwêl mor gaeth y myn Duw i ni,
Gadw'r Sabboth heb ei halogi,
*Sabboth.* Pan y paro ir holl Gymmanſa,
Labuddio'r dyn am Sul ſriwedda.
Tieulia'r Sabboth byth yn Sanctaidd,
Dere i Demel Dduw yn weddaidd,
Ac nac arſer traſech byw,
Waith y Cythrael ar ddydd Duw;
Gwelwn allu Duw bob un,
Yn ſtoppio'r haul wrth weddi dyn,
*Haul.* Ac attal hon ddiwrnod cyfan,
Uwch ben ei lû heb ſynd or un-mann.
Coſiwn bawb mae'n cwilydd yw,
Os ſtoppia'r Haul pan barcho Duw,
A'n bôd ninnau crach ſudreddi,
Pan harcho Duw, heb ſedru ymſtoppi.
*Joſuah.* Os ceiſir genyd 'ddoli delwe,
Megis *Joſua* atteb dithe,
Nid Addolaf tra ſwy byw,
Mi am tylwyth ond fy Nuw.
*Zimri.* Zimri, Zimri, gwêl y cledde,
S'uwch dy ben gan Dduw'r diale,
A'r ffon wayw ſydd gan Phinees,
Ith drywanu ti ath Langces.

Balaa

*Balaam*, *Balaam* agor lygad, **Balaam.**
Gwêl yr Angel ſy'n dy warchad,
Tro yn d'wrthol, Gwachel ſribi,
Gwrando'r Aſſen yn d'argoeddi.
Na char buttain mwy na chythrel,
Na ro iddi byth o'th gwnſel ; ***Samſon.***
Hi dyrr gwddwg, hi dyn galon,
Gwr pyt ſao mor gryf a *Samſon*.
Na ſaintumia bobol ddrwg,
Ond bydd arnynt byth ar d'wg,
*Gibeah* loſcwyd a'i holl bobol, ***Gibeah.***
Am ymddwyn gwyr anneddfol.
*Benjamin* erdolwg clyw, ***Benjamin.***
Pam y tynny ddial Duw,
Ar dy dy a'th ben dy hunan,
Am ymddiffyn plant i Satan ?
Cymmer rybydd oddiwrth Eli,
Ddyſgu'th blant a'u dyfal goſpi ; ***Samuel.***
Lle na choſpo'r Tâd â'r wialen,
Duw a'r cledde dyrr eu cefen.
Dyſc gan *Samuel* trech yn blentyn,
Brûdd waſnaethu Duw ai ganlyn,
Ac arferu hyd dy ddiwedd, ***Eli.***
Byw yn gyfiawn, yn ddigamwedd.
Dyſc gan *Samuel* Farnwr gwych,
Na chymmerwch ſuwch nac ych ;
Ond rhoi barn ymmhob rhyw ſatter,
I bob dyn yn ol cyfiawnder.
Beth ennillodd *Joel* aflan, ***Joel mab Sa-***
Wrth gam farnu, ac wrth ſribian ? ***muel.***
Colli ſwydd ai etifeddiaeth,
Ennill cwilydd a damnodiaeth.
*Uzzah* gwachel gwrdd a'r Arc,
Gad ir ffeiriad hyny o garc ;
Trin dy ſwydd dy hun a'th alwad, ***Arch.***
Nid yw'r Arch yn perthyn attad.

*Job.* Bydd ddioddeſgar megis *Job*,
Trech ynglaſ, na lef ôb ob;
Yn dy golled gwachel gablu,
Duw ſy'n rhoi, a Duw ſy'n tynnu:
Pe dyge Dduw ſydd yn dy holw,
Pe'th drawe'n glaf, nes bae ti marw;
Dywaid, pyt ſae Dduw'n fy mlingo,
Etto mi ymddiriedaf ynddo.

*Daſydd.* Canol nos fel Brenin *Daſydd*,
Cod i lawr, penlinia'n ufydd,
A molianna Dduw'r pryd hynny,
Pan bo eraill yn chwyrn gyſcu.
Hoff o beth a hyfryd yw,
Ganol nos gloſſori Duw,
A rhai diolch iddo'r bore,
Am ei ras ai amal ddonie.
Bydd mor difar am dy bechod,
Ac oedd *Daſydd* Brophwyd hynod;
Ac na orphwys wylo'n irad,
Nes cael ffafar Duw ai gariad.
Wyla nes bo'th wely'n foddfa,
Bwyta ddeigre gyda'th fara,

** llwch.* Gwiſc di ſach, a rho mewn * llythrod,
Nes cael pardwn am dy bechod.
Er melyned y fo'th gydyn,

*Abſalon.* Gwachel f'enaid chwareu'r corgyn;
Ac nac arfer locſe hirion,
Rhag dy faglu fel *Abſalon*.
Os aiff *Daſydd* i felina,
Ganol nos at wraig *Uria*;
Fe ddaw un ganol-ddydd gole,
I felina iw felin ynte.
Gwel mor fyrr yw Pleſſer oſlyd,

*Amnon.* Y wnai *Amnon* golli fywyd;
Gwel mor chwerw yn y diwedd,
Yw blas pechod ac anwiredd.

Na ddod d'enaid byth mewn peryg, *Tamar.*
I gyflawni chwant a rhyfyg;
Fe fydd chwerw ac edifar,
Yn y diwedd dreiſio *Tamar.*
Dôd dy dy mewn ordor addas,
Fel y dode *Hezecias*; *Hezeciah.*
A bydd barod byth yn gwiliad,
Ange, cyn y delo attad.
Gwachel chwennych gwinllan *Naboth*,
Trais y lef am ddial boenoth; *Naboth.*
Gwinllan *Naboth* os trachwanttu,
Teyrnas *Iſrael* y fforffettu.
*Ahab*, *Ahab*, dela'n union, *Ahab.*
Na ddwg gwinllan *Naboth* wirion,
Ac os dygu trwy udonaeth,
Duw ddifetha dy hiliogaeth.
Er maint y fo'th boen a'th drafel,
Cwymp i addoli Duw fel *Daniel.* *Daniel.*
Dair gwaith yn y dydd o leia,
Dyna'r unig waith ſydd reitia.
Cau dy ſtafell plyg dy linie,
Côd d' olygon, agor d' ene,
c addola Dduw yn brûdd,
elly dair gwaith ar bob dydd. *Cae'r ſtafell*
Serch dy daflu i ſvſg y llewod,
Na 'ſceuluſa 'ddoli'r Drindod:
Y bwyſtfilod gwaeth eu nattur, *Ffau y Llewod.*
edrant ffafrio gwir Addolwyr.
Nac ymgrymma byth i ddelw,
O ſerch gorfod arnad farw,
A mynd gyda Sadrach yſryd,
r dy ben i'r ffwrnais danllyd. *Sadrach.*
Duw yn unig ſydd iw addoli,
Nid yw y ddelw ddim ond gwedi,
Coed a cherrig, Aur ac Arian,
wbach nad all helpu hunan.

*Belſazzar.* Pan bo'r cwppan wrth dy fin,
Yn cablu Duw, yn yfed gwîn,
Gwachel Angeu dig 'dy daro,
Fel *Belſazzar* wrth garowſio.
Pan bech yn carowſio'n dal,
*Llaw ar y wal.* Gwêl y llaw ſydd ar y wal,
Yn ſcrifennu o flaen d'wyneb,
Dy ſarn aethlyd a'th lothineb.
Bydd drugarog fel *Tobias*,
*Tobias.* Wrth bob tlawd y ſo o'th gwmpas;
Ac na ſwytta bryd yn iachus,
Nes rhoi chan ir tlawd anghenus.
Helpa'r gwan, a chlâdd y marw,
Swccr a'r noeth, cyſrwydda'r weddw;
Bydd yn Rhyſcwy ir ymddifaid,
Na ſydd anſwyn wrth ddieithriaid,
Pan y bech ar ſeder gwreicca,
Cais gan Dduw dy helpwr haela,
*Raphael.* *Raphael* ſanctaidd i'th gyſrwyddo,
Cyn ymlygrech wrth ymſatſio.
Cyn gorweddech gyda *Sara*,
Llaw yn llaw â hi gweddia,
*Sara.* Ar ir Arglwydd roi 'ti lwyddiant,
Help a chymmorth, ffawd a ffynniant.
Dyſc gan *Dobi* Ifangc berchi,
Dy Dâd a'th Fam a'u cymfforddi,
Pan bont marw, cladd hwy'n weddaidd,
*Tobi ifangc.* Hyn ſydd raſol a Chriſtnogaidd.
Bydd ſyw'n gyſiawn ac yn gynnyl,
*Efengyl.* Fel pyt ſact heb un Efengyl,
A bydd ſarw'n gyſtal d' obaith,
A phyt ſact heb weld y gyfraith.
Os gyſynni anwyl griſtion,
Pwy wnaeth hyn o werſeu byrrion,
Gwâs i Griſt ſy'n ceiſio d' hwppo,
Tua'r nef a'i draed a'i ddwylo.

*Llythyr*

## *Llythyr yr Awdwr at ryw Eglwyſwr a ddeiſyfodd arno droi ar gân Gatechiſm Eglwys* Loegr.

DY † Zeal at Dduw a'i Eglwys,
Fy Mrawd, mi wn a barwys,
It geiſio troi holl bwngciau'r ffydd,
Ar Gan mor brûdd, mor gymmmwys.

† *Awydd-fryd.*

2. Di weli ſod yn hawſach,
Gan *Gymru* ( heb eu hammarch )
Ddyſcu caniad ofer ſerth,
Na'r Peth ſydd werthfawroccach.
3. Gan hynny ceiſiaiſt genni,
Droi'r pyngcie hyn iw canu ;
Fel y gallo'n *Defaid* mân,
Yn rhwydd ar gân ei dyſcu.
4. Wrth weld dy dduwiol ſwriad,
Ni phellais o'th ddymuniad ;
Ond mi droes dy byngcie'n ſyrr,
Yn blaen, yn Eglur ganiad.
5. Ni cheiſiais ddim cywrain waith,
Ond meſſur eſmwyth, perffaith,
Hawdd iw ddyſcu ar ſyrr dro,
Gan bawb a'i clywo deir gwaith.
6. Derbyn yn greſſawgar,
A geiſiaiſt mor 'wllyſgar ;
Er nad ydyw'r gwaith ond gwael,
Mae'n chwennych cael dy ffafar.
7. O caiff ein Duw ogoniant,
Na'n defaid dippyn lleſſiant ;
Rym ni'n dau yn cael ein gwynn,
O'i gorchwyl hyn trwy lwyddiant.
8. Duw roddo dy ddymuniad,
Duw ſyddo ceidwad arnad ;
Waith bôd dy ffrwſt, a'm gwaith yn fawr
Mi gymra nawr ſy nghennad.

## CATECHISM.

*Holiad.* FY Mhlentyn hygar hoyw,
Er Chriſt beth yw dy enw,
Maneg i'm o galon brydd,
Dy grêd a'th ffydd yn groyw.

*Atteb.* Fy enw yw Cynedda,
Y gollwyd gynt yn *Adda*;
Etto ‡ gedwyd trwy râs Duw,
Yn Ghriſt 'rhwn yw'r Meſſia.

‡ *Os credadyn edifeiriol ufydd ac nid gweithredwr anwiredd wyt ti, feth gedwir di.*

H. Pwy roes dy enw itti,
Lle'r oeddyd gwedi 'th golli,
Gyda'r byd trwy *Adda* gaeth,
A'th droes i'r fath drueni?

*A.* Fy Nhadeu a Mammeu bedydd,
Trwy lân ac union grefydd,
Pan bedyddiwyd fi a dwr,
Wrth arch fy Mhrynwr ufydd.

*Heb.* 5. 9.
*Mat.* 7. 23.

*H.* Pwy lês ſy'n dwad itti,
O'th fedydd gwedi'th olchi,
Yn y Dwr gan ffeiriad Duw,
Waith cymmaint yw'th drueni?

*A.* Rwi'n * Aelod pûr im prynwr,
Rwi'n Blentyn ìm Creawdwr,
Rwi'n 'tifedd mawr o deyrnas néf
Rwi 'nghriſt yn oro 'nghyflwr.

* *Nid wyt ti felly mwy na Simon Magus er dy fedyddio a Dwr onid wyt ti hefyd wedi'th fedyddio a'th ſanctiddio a'r Yſpryd Glân Mat* 3. 11. *Rhuf.* 8. 14.

*H.* Pa beth yw'r llw a'r Ammod,
Y wnaeth dy feiche droſſod?
Pan dderbyniaiſt hyn o fraint,
*Ym-mblith y Sanct trwy gymmod.*

*A.* Addawſant dri pheth yn droſſof,
Nas gadaf byth yn angof,
Ond mi cadwaf hwynt i gyd,
Trwy Dduw, tro bywyd ynof.

*Hol.* Beth ydyw'r tri pheth hynny,
 Addawſant id' gyflawni?
Pan yr oeddyt mor ddirym,
 Mynega im os medru.
*At.* 1. Yn gynta dôd im wrthod,
 Y Diawl, a'i dwyll, a'i gymmod,
A'r byd anwir, mawr ei wawd,
 A chwanteu'r cnawd a'i bechod.
2. Yn neſſa bod im gredu,
 Holl byngcie ffydd Chriſt Jeſu,
Y rhai'n y Gredo, bob yr un,
 All bob rhyw ddyn ei dyſcu.
3. Yn drydydd cadw'n ‡ garccys, ‡ *gofalus.*
 Orchmynnion Duw ai 'wllys,
A byw'n ei hol yn dda ſy moes,
 Holl ddyddiau ſ' oes yn weddus.
*H.* Beth ydwyt ti yn dybied?
 I'th rwymyd di cyn gaethed:
Ac y rhaid itti' gredu hyn,
 A'i cwpla'n dynn trwy weithred.
*A.* 1. Yn wir rwi'n rhwym i gredu,
 Ac heſyd i gyflawni,
Hyn i gyd, a hynny wnâf,
 Trwy nerth Duw Nâf heb ffaelu;
2. Ac yr wyf yn ddiolchgar,
 Im Duw am gymmaint ffafar,
Am galwodd i ir cyfryw ſtâd,
 Yn Ghriſt ſyng Heidwad hygar,
3. Ac mi't olygaf arno,
 Roi grâs im byth i drigo,
Yn y cyfryw ſtâd trwy byw:
 Nes tynno Duw fi atto.
*H.* A Drodd immi yn bryſſur,
 A Holl fannau'th ffydd yn eglur;
A mynega im ar llêd,
 Beth yw dy Gred ath hydyr.

A. RWi'n credu yn Nuw galluog,
Tad Jeſu Griſt drugarog,
Creawdwr nêf a daer â dwr,
Joan. 14. 1. Au pen Rheolwr eñwog.
Ac rwyfi'n credu hefyd,
Yn Ghriſt fy Mhrynwr hyfryd,
Y wnaed yn Ddyn o'r wyryf *Fair*,
‡ *Lân.* Trwy râd ei ‡ ddiwair yſpryd,
Yr hwn a wir ddioddefwys,
Dros ddyn Bons Pilatwys;
Ac a hoelwyd ar y groes,
Nes mawr o'r loes a'i lladdwys.
A chwedi marw ar Groes pren,
Fe gladdwyd yn y ddairen;
Fe ddiſcynnodd er ein mwyn,
*Act*. 2. 31. I uffern dwym, aflawen.
Ar trydydd dydd fe gododd,
O farw lle gorweddodd,
Gwedi Gorfod Angau glâs;
A'r Gelyn câs a'n twyllodd.
Ac yno fe dderchafwys,
Ir drydedd nêf yn gymmwys,
Lle'r eiſte nawr ar law ddê'r Tâd,
Yn geidwad pur iw Eglwys;
O'r Nêf fe ddaw yn hoyw,
I farnu'r byw a'r meirw,
Mewn gallu a gogoniant mawr,
Pan ddêl yr awr i'n galw.
Rwi'n credu'n ffyddlon hefyd,
1 Joan. 5. 7 Ir glân a'r Sanctaidd Yſpryd,
Jo. 15. 26. Sy'n deilliaw oddiwrth y Tâd a'r Mâb,
Gwir Roddwr Rhad a Bywyd.
Rwi'n credu yn ſuwredig,
Fôd Eglwys lan Gatholig,
O bôb Naſiwn, oes â thir,
Gan Ghriſt yn wir gadwedig.

Rwi

Rwy'n credu bôd yn gyngan,
I bawb o'r Saint eu cyſran,
Yn Jeſu Criſt ein Prynwr drûd,
A'i ddoniau gyd yn gyſan.
Rwi'n credu bôd maddeuant, *Act.* 3. 9.
I bawb a wir' ddifarant,
Er mwyn Mab Duw a dalodd iawn,
Tra chyflawn am eu nwyfiant.
Rwi'n credu Adgyfodiad,
I'm Cnawd pan ddêl yr † Ynad, † *Barnwr.*
A'u udcorn mawr i'n codi o'r llywch,
I gyfri cywch a'r lleuad.
Ac yr wi'n credu'n hollol,
Fôd Bywyd mawr tragwyddol,
I holl Blant Duw a'i Saint ynghyd,
Yn ol y byd preſennol.
*H.* Pwy beth ei benna ddyſcaiſt, * *Pet.*
O'th Gredo' rhon adroddaiſt?
Cais grynhei yn fyrr ynghyd,
Ffrwyth hyn i gyd a draethaiſt.
*A.* Rwi'n dyſcu credu'n gynta,
Yn Nuw'r gwir Dad gorucha,
Rhwn a'm creawdd a'r holl Fyd,
Mewn dull a phryd o'r glana:
Yn ail yr wyf yn credu,
Yn Nuw'r Mab f' Arglwydd Jeſu,
A'm *Prynnodd* i a phôb rhyw ddyn,
A'i waed ei hun i'n helpu.
Yn drydydd credaf hefyd, 1 *Cor.* 6. 11
I Dduw'r Sancteidd-lan Yſpryd, *Eph.* 1. 4.
Am Sancteiddiodd a phob rhyw,
Etholodd Duw i fywyd.
*H.* Di addewaiſt trwy feichneon,
Lwyr gadw'r holl orchmynnion;
*Pa* ſawl un or rhain y ſydd,
Iw cadw'n brûdd o'r galon;

A

*A.* Mae deg gorchymmyn croyw,
  Y roes Duw inni cadw;
Nid oes torri un o'r rhain,
  Rhag mynd yn gelain farw.
*H.* Pa rai ei Chriſt yw rheini?
  Moes glywed, praw eu henwi;
Cais fyw'n ſanctaidd yn eu hôl,
  A gwna hwy'n Rheol itti.
*A.* Y rhai ar fynydd *Sina*,
  A draethodd Duw goruchaf,
Ai enau hun o'r tân a'r mwg,
  Yng olwg ei gymmanfa.
A'r rhai trwy ddwylo *Moeſen*,
  Y roes Duw ar ddwy * dablen; § *Llech.*
Gwedi printo a'i fys ei hun,
  Yn hawdd i ddyn ei darllen,
Y rhai ſydd ddigon eglur,
  Iw tynnu † maes o'r Scrythur, † *Allan.*
O'r Ugeinfed bennod dlws,
  O *Exodus* gymmeſſur.
*H.* Beth yw'r Gorchymyn cynta,
  A'r ail a'r lleill? mynega:
Praw eu traethu cymmain hun,
  Yn oed yr un diwetha.
*A.* 1. MYfi yr Holl-alluog,
  *Yw d' Arglwydd Dduw trugarog.*
Na fyn un Duw ond myfi,
  Sydd un a Thri Galluog.
2. Na wna un Ddelw itti,
  Cerfiedig iw haddoli;
Na llun dim o'r Nef na'r Ddaer,
  Na'r Dwr na'r ‡ Aer im * *Siomi*: ‡ *Awyr.* * *Digibi.*
Na oſtwng i'r fath wagedd,
  Na 'ddola'r fath oferedd?
*Pridd*, a choed, a cherrig yn,
  Gwaith dwylo dyn a'i fyſſedd.

Cans myfi dy Arglwydd cymmwys,
  A'th Jôr wyf Dduw eiddigus, * Arglwydd.
Sy'n ymweld a phechod cant,
  O dadau ar blant camweddus:
Ac yn rhoi coſpedigaeth,
  Hyd dair oes a chenhedlaeth,
O'r rhai ſydd yn fy 'nghaſau,
  Trwy garu gau addoliaeth,
Gan ddangos trugareddau,
  I'r ſawl a gatwo'n noddfau,
Ac iw plant, au had, au hil,
  Hyd fil o genhedlaethau.
3. Nac enwa Dduw un amſer,
  Heb ofon, parch, a phryder,
Cans nid gwirion yw dy lw,
  Os cymru ei enw'n ofer.
Cofia gadw yn ſanctaidd,
  Y Sabboth wenn yn weddaidd,
A threulio'r Sul tra fech di byw,
  Yn addoli Duw'n griſtnogaidd,
Fe rodd Duw chwe diwrnod,
  Id weithio d' orchwyl † priod; † Dy hun.
Y ſeithfed dydd rhaid cwympo'n faith,
  I weithio gwaith y Drindod.
Ar y diwrnod hwnnw:
  Na wna ddim gwaith ſerch marw,
*Na'th fâb, na'th ferch, na'th wâs na'th farch,*
  A'r dierth arch ei gadw;
O achos mewn chwech die,
  Y gwnaeth Duw'r byd ai bethe,
A'r nef a'r ddaer a'i mor, a'u llu,
  A'r cwbwl ſy'n ei ‡ dible. ‡ *Yny cwrrs eithaf o honynt.*
A'r ſeithfed dydd f' orphwyſodd,
  Gan hynny fe fendithiodd,
Yr Arglwydd Dduw y ſeithfed dydd,
  Ac ef a'i prudd ſanctaiddiodd.

5. Rho barch a gwir ufudd-dod,
I'th Dad a'th ſam yn waſted,
Fel 'heſtynno Duw yn hir,
Dy oes ar dir dy drallod.
6. Gwachel ladd un Chriſtion,
*Gen.* 4. 10. Na thywallt gwaed y gwirion;
Gwaed y lêf yn doſt ei lais,
*Dib.* 5. 15. 18. *Duw* ddial trais llofruddion:
7. Na wna odineb aflan,
Gwna'n fawr o'th wraig dy hunan;
* *Ffynnon.*—Yf dy ddwr o'th * wieſh dy hun,
Na chwrdd ag un oddiallan.
‡ *gronyn lleiaf.* 8. * Na ledratta ‡ fymryn,
Trech byw, olud un dyn;
Na thwylla neb; nac arfer drais,
† *Er.* † Serch godde clais a newyn.
9: Na fydd di dyſt celwyddog,
Yn erbyn dy gymmydog,
Dywaid wir am bob rhyw ddyn;
* *Na chamgyhudda.* Na * ſclandra un dieuog.
10. Na chwennych dy cymmydog.
Na'i wraig, na'i was calonnog:
Na'i forwyn wenn, na'i farch, na'i ych;
Na dim na bych perchennog.
*Gweddi.* O Arglwydd *Ddaw* bydd dirion,
Wrth bawb o'th Blant a'th weiſion,
Goſtwng di'n calonne'n faith,
I gadw'th gyfraith gyſion.
O Arglwydd graſol madde,
Ein pechod a'n troſſedde:
A ſcrifenna'r gyfraith hon,
Ar leche ein calonne.
*H.* Beth wyt ti'n ddyſcu'n benna;
O'r gyfraith hon? mynega;
A rho im, yn gryno ynghyd,
Ei ffrwyth i gyd yn gwtta.

. Rwy'n dyſcu dau beth enwog,
Fy nau ryw ddyled ſerchog,
n tuag at fy Arglwydd Dduw,
Llall at pôb rhyw gymmydog.
. Yn gynta moes im glywed,
Yn gyflawn beth yw'th ddyled,
i yr Holl-alluog Dduw,
Sy'th rwymo i fyw yn gyſtled.
. Fy nyled at Dduw, cyſon, *Heb.* 11. 6.
Yw credu ynddo'n ffyddlon. *Heb.* 12. 28.
'i ofni'n fawr trwy barch a ffydd, *Mat.* 22. 37
Ai garu'n brûdd o'm calon. *Deut.* 6. 22.
no i wir addoli, *Psal.* 145. 2
Fel y mae Air yn erchi;
'i fendithio bôb rhyw awr,
Am gael ei fawr ddaioni.
llwyr ymddiried ynddo,
A galw'n gywir arno,
erchi Air, a'u Enw'n brûdd,
A bôd yn ufydd iddo;
c felly ei Anrhydeddu,
Yn gywir, a'i waſnaethu,
dydd a nos tra ynof chwyth,
Ar eitha byth o'm gallu.
. Beth yw dy ddyled enwog,
Tuag at bob rhyw gymmydog?
oes i glywed immi'n glur,
O galon bur yn rhywiog:
. Fy nyled at gymmydog,
Yw garu'n daran ſorchog,
el y caraf fi fy hun,
Pyt fae fy ngelyn llidiog;
gwneuthur i bob Chriſtion, *Mat.* 22. 29
Fel y dymune 'nghalon, *Mat.* 5. 44
ddynt hwythe wneuthur im, *Mat.* 7. 12.
Heb ddangos llym feſſuron;

A charu ſy Rhieni,
A'i cymmorth hwy a'u Perchi:
1 *Tim.* 5. 4. A gwneuthur heb ddim nag, na ſon,
† *Sef pob* Bob * peth a ſon yn erchi.
*peth cyfryth-* Ac ufuddhau i'r Brenin,
*lon.* A'i ſwyddwyr ſy'n f* amddiffin,
1 *Pet.* 3. 13. A'i anrhydeddu trwy fawr barch,
14. A gweithio ei Arch yn ddiflin;
*Act.* 4. 19. A goſtwng i'm dyſcawdwyr,
Athrawon a chynghorwyr,
1 *Theſſ.* 5. Sy'n cyfrwyddo immi fyw,
12, 13. Wrth 'wllys Duw a'r Scrythur.
A pherchi mawr a bychan,
1 *Tim.* 6. 1. O'm gwell o bob rhyw oedran,
*Lev.* 19. 32. Ac ymoſtwng iddynt hwy,
Heb wneuthur mwy o dwrddan;
*Mat.* 5. 22. Ac na wnelwyf niwed,
*Lev.* 19. 17. I neb ar air na Gweithred;
1 *Theſſ.* 4. Na dwyn cas at un rhyw ddyn,
3, 4, 5. Na chlwyfo un ar aned;
*Mat.* 15. 28 A chadw 'nghorph yn dempraidd,
Yn ſobor ac yn ſanctaidd,
Rhag pob rhyfyg fel rhag plag,
* *Dihalog:* Y * ddiwair ag yn weddaidd;
*Eph.* 4. 28. A chadw'n nwylo'n benna,
1 *Theſſ.* 4. 6 Rhag chwiwio a lledratta,
Ac rhag gwneuthur twyll na cham,
Ond gweithio am eu bara;
*Eph.* 4. 25. A chadw 'nhafod beunydd,
*Pſal.* 50. 19 Rhag cabledd, twyll, a chelwydd,
* *Un heb* Ac rhag dwedyd drwg am neb,
*broffes griſt-* Fel * ethnic heb ei fedydd;
*nogol.* A chadw 'nghalon angall,
Rhag chwennych golud arall;
2 *Theſſ.* 3. Ond trafaelu wrth fodd Duw,
8, 10. I geiſio byw yn ddiwall.

Gwybyd

Gwybydd hyn yn eglur, *Rhu.* 7. 18.
 Nad wyt ti'n abal gwneuthur,
Hyn i gyd o'th rym dy hun, *Rhuf.* 3. 12.
 Lle 'rwyti'n ddyn pechadur.
Ni elli gadw'r Gyfraith,
 Na rhodio ynddi'n berffaith,
Na gwaſnaethu Duw'n ddifrad, *Jo.* 15. 5.
 Heb gael ei Rad ef † ( f' anrhaith. ) † *F' anwylyd*
Gan hynny rhaid id ddyſgu,
 Trwy weddi attolygu,
Ar Dduw mawr o hyn i maes,
 Roi neſawl Ras i'th helpu.
H. Moes glywed im gan hynny,
 A fedru di ſynegu
Gweddi'r Arglwydd yn ddibaid?
 Ond e mae'n rhaid ei dyſgu.
A. EIN Tâd o'r drydedd Neſoedd,
 Ein Tâd trwy Griſt a'n prynodd
Sancteiddier byth dy enw mawr,
 Gan bawb ( bob awr ) o'th lûoedd.
Deued dy deyrnas raſol,
 In plith dy blant, dy bobol;
A rheola ni bob pryd,
 A'th Air a'th yſpryd neſol.
Dy 'wllys di wnel dynion,
 Ar dir ym-myſg daerolion;
Fel yn y Nef y gwnair heb nag,
 Gan ‡ Thronau ag Angelion, ‡ *Gorſedd-feingciau, awdurdodau, ſef Angelion yſgatfydd o radd uchel.*
ho heddyw inni ſwytta,
 Bob rhai'n beunyddiawl fara.
phob peth ſydd raid ini,
 'Th wasnaethu di'r Gorucha,
maddeu i ni'n pechode,
 Fel y maddeuom ninne,
'r ſawl a wnaethont lawer gwaith,
 I'n herbyn ſaith droſedde.

Nac arwain ni yn ddirgel,
I brofedigaeth uchel;
** Damwain.* Ond gwared ni rhag pob drwg * ffawd,
O'r byd a'r Cnawd, a'r Cythrel.
Cans tydi bie'r deyrnas,
A'r nerth a'r gallu o gwmpas,
A'r gogoniant oll i gyd,
Hyd ddiben Byd yn addas.
*H.* Beth wyt ti yn ei geiſio,
Gan d' Arglwydd wrth weddio,
Yn y weddi fechan hon,
Gan droi d' olygon atto.
*A.* Yn gynta'r wyfi'n erchi,
Ar f' Arglwydd Tâd goleuni,
Roi i ni ras tra fom ar dir,
Bob rhai iw wir addoli.
*‡ Dymuno.* Gwedin i'r wyfi'n ‡ eiriol,
Am bob peth anghenrheidiol,
I'r eneidie a'r cyrph ynghyd,
Tra ni'n y byd preſennol;
A madde ein holl drygioni,
Ein beiau oll a'n gwegi,
A thrugarhau wrth bawb ar llêd,
A wnelont niwed inni;
A'n cadw yn ddiangol,
*† Mae pob pe-* Rhag pob rhyw bechod † marwol,
*chod yn far-* A phob perygl a phob plag,
*wol.* Corphorol, ag yſprydol.
*Rhuf.* 6. 23. A hyn yr wi'n obeithio,
*Ti elli obeith-* Y wna fy Nuw heb beidio,
*io felly os gra-* Er mwyn ei fâb fy Mhrynwr gwyn,
*ſol wyt ti.* Y gaiff ‡ fynghanlyn gantho.
*Joan.* 9. 31. *H.* Attebaiſt hyn yn gymmwys,
*‡ Fy arch.* Mynega im cyn gorphwys,
Pa ſawl Sacrament di driſt,
Ordeiniodd Chriſt iw Eglwys?

M. F' ordeiniodd ddau'n ei fywyd,
Tra rheidiol at ein iechyd,
Y cynta o'r ddau yw bedydd pêr,
Yn *Ail* yw'r Swpper hyfryd.
H. O dwyt ti yn deallu,
Dymunwn it hyſpyſſu,
Beth yw Sacrament yn bûr?
Mynega yn glîr os medru.
M. Mae'n arwydd plaen gweledig,
O ddirgel ras * arbennig.
Trwy'r hwn y rhoddir Chriſt ei hun,
Ai ddonie i ddyn cadwedig.

* *rhagorol.*
1 *Cor.* 10.

H. Pa nifer ſydd o rannau,
Ymmhawb o'r Sacramentau?
Maneg i'm ar goedd y Plwy,
A dangos hwy yn olau.
M. Mae dwy ran amlwg moddynt,
Ymhob rhyw un o honynt;
Yr arwydd amlwg or tu fâs,
A'r dirgel râs ſydd ynddynt.
H. Beth ydyw'r nod gweledig,
A'r arwydd digon tebyg,
Sy'n y Bedydd or tu fâs,
Yn ſelu'r grâs ar bennig?
M. Y Dwr yn y Bedyddſan,
Lle trochir y Dyn bychan,
Yn Enw'r Tâd a'r Mâb dri-phryd,
A'r Sanctaidd Yſpryd purlan.
H. Beth ydyw'r grâs Yſprydol,
Nas cenfydd llygad Cnawdol,
Y mae'r Dwr yn arwyddoccau,
Sy'n golchi brychau'r bobol.
M. Gwaed Chriſt mâb Duw ei hunan,
Sy'n golchi'r enaid aflan,
Oddiwrth bob rhyw bechod cas,
Lle'r oedd e'n wâs i Satan.

Ac

*Gwaed Chriſt ſy'ngwneuthur hyn.*

Ac hefyd yn i wneuthur,
Yn Griſtion o bechadur,
Ac yn Blentyn Duw trwy ras,
O Elyn cas trwy nattur.
*H.* Beth ydys yn ei geiſio,
Gan rai ddel iw bedyddio,
Beth ſydd raid mynega'n rhes,
I'r rhai gais lles oddiwitho.
*A.* * Ediſeirwch a ffydd ſywiol,
Sydd ddau beth angenrheidiol,
I bob dyn a ddel yn brudd.
I geiſio bedydd graſol,
Diſeirwch i ymwrthod,
Phob rhyw ſort o bechod;
Ffydd i gredu tra fo byw.
Addewid Duw a'i ammod.

* *Mae ffydd ac ediſeirwch yn angenrheidiol i fod (ar y lleia mewn proffes) yn y rhai y fedyddier mewn oedran, ſef y ſawl na fedyddiwyd erioed o'r blaen* Act. 2. 38. *ar*, 8. 36. 37.

*H.* Pa ham y rhwydd fedyddir,
Plant bychain pan eu genir?
Pan na allant yn ddiſeth,
Gyflawni'r peth a geiſir.
*A.* Y maent hwy trwy meichnaſon;
Yn cwpla eu Haddewidion,
Nes y delont hwy mewn maint,
I dalu'r ſaint addawſon.
*H.* Mynega pam ordeiniwyd,
Y Swpper pan ddechreuwyd,
Pam i'r ys yn arſer hon,
Trwy ddefod 'rhon ni * lyſwyd.
*A.* Er mwyn tragwyddol goffa,
Am Angeu Chriſt a'i laddſa,
A'r holl Loſad y ddaw i ddyn,
Oddiwrth ei wyn a'i boenſa.

* *wrthodwyd.*

*H.* Beth ydyw'r rhan a weler,
Tu allan yn y Swpper,
A'r nôd a'r arwydd or tu ſas,
Sy'n ſelu'r gras addawer.
*A.* Y Bara a'r Gwin o'r Cymmun,
Orchmynodd Chriſt ei dderbyn,
Er cofio ei Gorph a'r waed ei hun, *1 Cor.* 11. 24,
Sy'n cadw dyn rhag newyn. 25.
*H.* Beth ydyw'r rhan ni welwn, * *newyn Yſprydol.*
A'r gras ſydd o'r Comunlwn,
Rhwn arwyddocair wrth fara a gwin?
Mynega'n rhin er dolwyn.
*A.* Corph Chriſt ai waed ſanctëiddiol,
Offrymmodd dros ei bobol, ‡ *Yn eglur.*
I brynu dyn i dalu Duw; *Jo.* 6. 50.
A'n porthi i ſyw'n dragywyddol.
*H.* Pa lês a gaiff Criſtnogion,
Y gymro o † wllys calon, † *a chalon ediſeiriol ffyddlon ſanctaidd,*
Y Sacrament ſancteiddiol hyn,
O'r Swpper cyn dderbynion.
*A.* Cael porthi ein heneidie,
Ar Ghriſt ei hun ai ddonie,
A chadarnhau eu hegwan ffydd,
A madde yn brydd eu beie,
Fel y bydd y bara ffrwythlon,
A gwin yn porthi'r galon, *Mat.* 26. 26
Felly Chriſt ai waed wrth raid, 27, 28.
Sy'n porth'r enaid ffyddlon.
*H.* Pa beth ſydd rhaid o bryſur,
I bob rhyw Ghriſtion wneuthur,
Y ddel i Swpper Chriſt yn * llon, * *Llawer.*
O cais yn hon gael cyſſur. *Cor.* 1. 11. 28
*A.* Rhaid iddo holi'n ſanol;
A ſo ef wir ddiſeiriol,
Am ei bechod o bob rhyw,
Yn erbyn Duw ai bobol.

A hol yn neſa at hynny,
A ſo e'n llwyr ſwriadu,
Gwellau ei fuchedd wrth fodd Duw,
A chwedi byw heb bechu.
Ac hefyd mynn y gwybod,
Oes gantho ffydd dan ammod,
Am drugaredd Duw trwy Ghriſt,
I fadde ei athriſt bechod.
2 *Cor.* 13. 5. A chredu i'r Arglwydd Jeſu,
A'i werthfawr waed i brynu;
Pan na alle neb ond Chriſt,
Trwy Angau triſt ei helpu.
Rhaid hefyd holi eilchwaith:
*Mat.* 5. 23, A fo e mewn cariad perffaith,
24. A phob dyn gan fadde'n brudd,
*Luc.* 17. 3, 4 I bawb bob dydd eu drygwaith.

---

*Pethau iw hyſtyried, a'i harferu, pan ddel y nos.*

GWêl y mae d' oes yn darfod,
Mae'n llai beunydd o ddiwrnod,
Rwyt ei'n nês y leni ith ddiwedd,
O un flwyddyn nag y llynedd.
Gochel fynd un nos i gyſgu,
Yn dy bechod nes difaru,
A chymmodi a'r Duw cyfion,
Cyn y cauech dy olygon.
Nâd un nos ir haul fachludo,
*Eph.* 4. 26. Ar dy lid yn ol it ddigio:
Gwell it gyſgu gydag Arthes,
Nag a malais yn dy fynwes.
Mwy yw perigl Dyn ſy'n cyſcu,
Yn ei wely heb nawdd Jeſu,
Nag oedd perigl *Daniel* hynod,
Gynt wrth gyſgu rhwng y Llewod.

Y mae'r ſcrythur yn mynegu,
Fod y Diawl yn troi o bobtu,
Ddydd a nos y ceiſio llarpio,
Megis Llew pwy bynnag allo.
Pwy ſy'n rhwyſtro'r Llew i'n llyngcu,
Ond ein Ceidwad mawr Chriſt Jeſu, *Pſ.* 121. 4.
Rhwn ſydd nos a dydd heb heppian,
Yn cadw ei braidd rhag rhuthrau ſatan.
Llawer dyn ſy'n mynd iw wely,
Heb ddihuno mwy ond hynny,
Nes y galwo'r Udcorn aethlyd,
Hwynt ir ſarn i ddwyn eu penyd.
Yn ol dy boen a'th waith y dydd,
Pan ddelo'r nos ymro yn brudd,
I roi i Dduw brydnhawnol Aberth,
O galon bur a geiriau prydferth.
Diwedd a'r Ddydd fel y dechreuaiſt,
Cau dy ddryſau fel agoraiſt,
Gad i weddi † brudd bob dyddie, † *Difrifol.*
Gloi bob hwyr a datcloi'r bore.
Duw ſyn offrwm bêr brydnhawnol,
Fel yr aberth pêr foreuol, *Num.* 28. 4.
Mawl y nos fel mawl y bore,
Nad un pryd dy fawl yn eiſie. *Gen.* 18. 19.
Galw 'nghyd dy blant a'th bobol, *Joſ.* 24. 15.
Dywaid oſber yn dra deddfol;
Gwna dy dŷ demel fechan,
Chwareu'r ffeiriad doeth dy hunan.
Prudd weddia ar dy linio,
Darllain bennod o'r Scrythyre, *Deut.* 6. 6.
Dyſc dy blant mewn pwyntiau crefydd,
Duw 'th fendithia yn dragywydd. *Luc.* 19. 8.
Cofia'r nos dy waith y dydd, *Pſal.* 42. 8.
O gwnaethoſt gam, gwna iawn yn brudd,
Os digiaiſt Dduw, cais bardwn gantho,
Os cefaiſt ras rho foliant iddo,

Na ddôs i gyſgu yn dy bechod,
Rhag mynd o'th gwiſc ger bron y *Drindod*,
† *Huned.* A na † ſlwmbred dy ddau amrant,
Nes ymbilio am faddeuant.
‡ *Feiddia.* Y dyn y ‡ fentro fynd i gyſgu,
Yn ei bechod cyn difaru,
Mae e'n mentro mwy o lawer,
Na pho cyſgu gyda gwiber.
*Mat.* 24. 44. Rhag dy fynd ir barr i'th farnu,
Ganol nos tra fech yn cyſgu,
Gwachol fynd fel dyn diwybod,
Byth i'th wely yn ambarod.
Pan edrychech ar dy wely,
Cofia'r bedd lle'r ac i'th gladdu:
1 *Tim.* 6. 7. A chyn rhoi dy gorph i orwedd,
Dyfal feddwl am dy ddiwedd.
Pan y tynnech dy holl ddillad,
Ond dy grys oddi am danad,
* *Amwiſc.* Cofia fel y gorfydd gado,
*Yma'r* cwbwl ond yr * amdo.
1 *Cor.* 15. 52 Pan y cano ceiliog *Peder*,
*Jo.* 5. 28. Nes dihunech o'th eſmwythder,
Meddwl f' enaid fel y deffru,
Udcorn *Chriſt* di gwedi'th gladdu.

---

*Pſal.* 121. 4. *Hymn yw chanu i* Dduw *cyn mynd i gyſgu.*

FAnwyl Dâd am carcus Geidwad,
Rhwn wyt nos a dydd im gwiliad,
*Pſal.* 34. 7. Bendigedig y fo d' enw,
Nos a dydd am dan fy nghadw.
Di'm caſtellaiſt i'r dydd heddu,
‡ *Cynnal.* A'th Angelion bach o'm dautu,
Ac orchymynnaiſt iddynt f' atteg,
Rhag im daro'n rhoed wrth garreg.

Dithau

Dithau'm cedwaiſt yn ddihangol,
Rhag holl rwydau'r Sarph uffernol,
Rhwn ſydd nôs a dydd heb gyſcu,
Yn ceiſio 'nifa a'm bachellu.
Porthaiſt finne heddyw'n ddichwith,
A mêl o'r graig, a braſder gwenith,
Ac di roddaiſt immi yfed,
Phiol lawn i dorri'm ſyched.
*Dithe am cedwaiſt rhag pob tramgwydd*,
Cwilydd, colled, anap, aflwydd,
Nychdod, niwed; ac am hynny,
Rwi o'm calon i'th glodforu.
Cymraiſt gymmaint * garc am danaf, * *Gofal*,
Y dydd heddyw Dâd goruchaf,
A phyt faſſyt heb un plentyn,
Ond myſſ i garcu droſtyn.
Bendigedig yn dragywydd,
Y fo 'ngheidwad a'm derchafydd,
Rhwn ſy'n carcu cymmaint droſwyf,
Ddydd a nos ple bynnaf'r elwyf. *Amen*.

---

## *Diolch am dân a chynnheſſrwydd.*

PEn * profiwr pob anghenrhaid, * *Parotowr*.
Gwîr ymgleddwr corph ac enaid, *Pſ*. 145. 15.
Rwi'n bendithio d' enw hyfryd,
Am roi tan i dorri f' anwyd.
Duw mor raſſol yr ordeiniest,
Tan rhag anwyd, ty rhag temeſt,
Bwyd rhag newyn, Dwr rhag ſyched,
I ymgleddu dyn pengaled.
Oni byſſe itti greu;
Tan in ‖ Gweiniſ a'n cynheſſu, ‖ *Gwaſanaethu*.
Bwedd y gallſai ddyn ymdaro,
Heb y tan, pa baſſem hebddo.

Er bod tân yn beth anhepcor,
Etto 'ſowaeth nid oes nemmor,
Ym-mhlith miloedd y ront itti,
† Diokh. Am ei tân o'r † godamerſi.
Arglwydd agor ein golygon,
I gydnabod maint dy roddion,
A'n geneuau i'th glodfori,
Am ein ty' a'n tân, a'n gwely.
Y mae'n gwell yn gorwedd allan,
Yn yr oerfel tôſt yn gruddfan,
Duw cynnheſſa rhain a'th ffafar,
A gwna ninne yn ddiolchgar.

---

*Gweddi wrth fynd i'r gwely:*

CEidwad *Iſrael* a'i Achubwr,
Caſtell cryf pôb gwann di-ſwccwr,
Er mwyn d' anwyl fab Chriſt Jeſu,
Gwrando 'ngwaedd wrth fynd i'ngwely.
Arglwydd mawr 'r wi ar fy 'nglinie,
Wrth fy ngwely yn cyfadde,
Nad wyf deilwng edrych arnad,
Chwaethach dwad yn nesattad.
a Joan. 5. 14, 15. Etto er hyn yr wi'n hyderu,
Y caf er mwyn dy fab Chriſt Jeſu,
Joan. 26. 2. Nid yn unig gennad wrando,
Ond rho immi'r peth wi'n geiſio.
A bod immi byth yn gryfdwr,
Ac yn Geidwad, ac yn Swccwr,
Rhag pob niwed y ddigwydde,
Yn enwedig immi heno.
Arglwydd 'rwyfi'n mynd i orwedd,
Heb wybodaeth am fy niwedd;
Os ni wyr un dyn pan gyſco,
P'un a wna ai codi ai peidio.

Achos da i ddyn gan hynny,
Cyn yr elo'r nos i gyſgu,
Lwyr ymgweirio fynd at Dduw,
Rhag na chotto mwy yn fyw.
O herwydd hyn rwyfi yn dwad,
Attad ti fy Nuw am Ceidwad,
Ar fy naulin heno i 'mhwedd,
Am dy gymmorth a'th drugaredd.
Bydd di gaſtell, bydd di geidwad,
Bydd di graig a lloches ddifrad,
Im caſtellu yn ddibryder,
Heno rhag pob aneſmwythder.
Y mae'r Llew ſy' erioed heb gyſcu, 1 *Pet.* 5. 8.
Ddydd a nos a chwant im llyngcu;
Ac ni wela'i lun i rwyſtro,
Oni chedwi di fi rhagddo.
Derbyn fi gan hynny i'th fynwes,
Dod fi rhwng dy ddwy-fron gynnes,
Fel y gallwi'n eſmwyth orwedd, *Pſal.* 17. 8.
Heno'n mhreichiau dy drugaredd.
Arglwydd tanna droſwi d' adain,
Cadw fi rhag bradeu'r ſilain;
Fel y gallwi yn ddibryder,
Gyſcu deni mewn eſmwythder.
Goſod * werſyll oth Angelion; * *Llu.*
Im caſtellu rhag pob ofon: *Pſal.* 34. 7.
Par ir rhain fy llwyr ddiwallu,
Yn dy goel tra fyddwi'n cyſcu.
Bydd dy hun a'th raſol lygad,
Goruwch y rhain yn ſyng wiliad, *Pſal.* 34. 15.
Nad i neb rhyw ddrwg fy nrygu,
Na thramwyo lle bwi'n cyſcu.
Rho lonyddwch ac eſmwythder,
Immi heno a phob amſer;
Rho im henaid wir ddiddanwch,
Rho im corph ei hun a'i heddwch.

Ac rhag immi fynd im barnu,
Gar dy fron pan fyddwi'n cyſgu,
Nâd im fyned yn ddiwybod,
Byth im gwely yn amharod.
*Gydag addef* Nad im roddi cwſc im llygaid,
*pechod cyn* Nes ymbilio a thi'n dambaid,
*cael trugar-* Am gael pardwn am y cwbwl,
*edd rhaid* Ac y wnaethum mi o'th feddwl:
*credu yn* Pâr im addo fy holl gamwedd,
*Ghriſt ac* A'm holl wendid a'm hanwiredd,
*ymadel a phe-* Fel y gallwi gwedi hadde,
*chod.* Gael maddeuant gennyt tithe.
Par im wylo ac alaru,
*Act.* 13. 38, Am fy 'ngwaith mor rhwydd yn pechu,
39. A 'moſydio'n doſt gan gynddrwg,
*Dib.* 28. 13. Y fu muchedd yn dy olwg.
*Jac.* 4. 9. Par im fyned mor ddifeiriol,
Heno im gwely ac mor ddeddfol,
A pha gwypwn na chawn noſwaith,
Mwy i edifaru'r eilchwaith.
Pâr im grio'n daer am bardwn,
* *Diodde-* Er mwyn Chriſt a'i waedyd * baſſiwn,
*faint.* Am y wnaethum erioed o feie,
Fel na byddo un heb fadde.
Golch fi oddiwrth fy meiau'n llwyrddwys,
*Pſal.* 51. 2. Yng waed Chriſt yr oen a'm prynwys,
† *Archoll-* Clâdd fy mhechod yn ei † weli,
*ion.* Nad ef eilchwaith adgyfodi.
Nad fod un om ffiaidd fryntni,
*Yn* dy lyfyr heb ei groeſi,
Rhag i hwnnw fy ngwradwyddo.
* *Ymddanges* Gar dy fron pan ddelwy * ympirio.
*Mat.* 22. Par im fod ar wiſc briodas,
12, 13. Ddydd a nos bob awr o'm cwmpas,
*Mat.* 25. 4. Ac olew im lamp a hwnnw'n lloſci,
*Yn* diſgwyl Chriſt, im galw i gyfri.

Diogela 'nghalon egwan,
Fod yn ſicer immi gyfran,
O'r dedwyddwch y bwrcaſſodd,
Chriſt iw frodyr yn y nefoedd.
Weithian Arglwydd mi orweddaf,
Ac mewn heddwch myfi gyſgaf;
Canys tydi o Dduw'r diddanwch,
Am cyflei mewn diogelwch.

---

### *Myfyrdod pan ddihuner o gyſgu ganol nôs.*

MOr hyfryd ac mor weddus,
Yw canu i Dduw yn rymmus,
Ganol nôs pan fo pob dyn,
Yn cyſgu hûn yn felus.
Mor dda, mor ddwys, mor ddeheu, *Pſal.* 92. 12.
Yw moli ei Enw'r boreu!
A myfyrio yn ddi-ddal,
Am dan ei amal ddonieu;
A def' o'r corph cyſcadur,
A chalon barod bryſur,
I glodfori enw Duw,
Peth hyfryd yw ei wneuthur.
A chwnnu i lawr o'r gwely, *Pſ.* 119. 62.
Fel Dafydd iw foliannu,
Ar ein dau-lin ganol nôs,
Yn ddi-flin dros ein helpu;
A chofio ei drugaredd,
Ei gymmorth a'i ymgeledd.
I blant dynion bob rhyw bryd,
O ddechreu byd i ddiwedd;
A rho ar bwys y gwely,
Pan fyddo'r byd yn chwrnu,
Glod a moliant prudd, dinam,
Ir hael Dduw am ein helpu.

Clod a Gallu, Diolch moliant,
  Gwir anrhydedd, a gogoniant,
Y fo nos a dydd ir Drindod,
  Sydd bob amſer yn ein gwarchod.

---

## *Pſal.* 23.

FY Mugail yw'r Goruchaf,
  Pa fodd gan hynny ffaeliaf?
I rwi'n ymddiried ynddo fe,
  Ni edy eiſie arnaf.
Y mae ef im caſtellu,
  A'i râs, a'i rym o ddeutu,
Fel na ddichon gwr na gwraig
  Na Diawl, na draig fy nrygu.
Y mae ef im porfela,
  Mewn dolydd o'r ‡ areilia,
Lle mae dyfroedd tawel iawn,
  A Thir yn llawn o borfa.
Pan elw'i dros ei lwybre,
  Fe'm cyrch i eilchwaith adre,
Ac er mwyn ei enw ei hun,
  Fe'm try ir un ſydd ore.
Ac os digwydd weithie,
  Im rodio ynghyſgod Ange,
Nid rhaid immi ofni un,
  Cans Duw ei hun am cadwe.
Y mae ef yn breſennol,
  Im hachub yn waſtadol,
Ai wialen wenn, a'i fach, a'i ffonn,
  Am gwna i yn * llon anianol.
Er cyffordd im a chyſſur,
  O Anfodd fy ngwrthnebwyr,
Rhodd im ford gyfoethog iawn,
  A Seigie'n llawn o ſiwgur.

‡ *Hyfryda,*

* *Llawer, iawn.*

Eneiniodd f' Arglwydd hefyd,
  Fy mhen ag oel yn hyfryd,
Ac fe wnaeth fy mwttri'n llawn,
  A'i radlawn ddawn a'i olud.
Ei fwynder a'i drugaredd;
  Am dilyn hyd y diwedd,
Yn ei Demel tro ynwi chwyth,
  Y bydd fy nyth am || hannodd. || *Trigſa.*
Ir tâd, ir mâb, i'r yſpryd,
  Ir drindod, undod hyfryd,
Y bo clod a moliant mawr,
  Bob dydd, bob awr, bob ennyd.

---

*Y modd y dyle ddyn graſſol ddeffro ei gorph a'i enaid ganol nôs i glodfori Duw.*

DIhun, dihun o gyſgu
  Fy enaid bâch prawf ganu,
Glod a mawl o galon brûdd,
  Ir Arglwydd ſydd i'th helpu. *Psal.* 103. 1, 2.
Dihûn, hihun mae achos,
  Id wiliad fel yr Eos,
I glodfori d' Arglwydd mawr,
  Heb gyſgu awr or hir nos,
Dihûn dihûn a chofia,
  Drugaredd y gorucha,
A'r modd ith helpodd prynwr Crêd,
  Er pan ith aned gynta.
Y fe yw d' unig helpwr,
  Dy nawdd, dy nerth, dy ſwccwr,
Dy Ghriſt, dy graig, dy gadarn * Ior, * *Arglwydd.*
  A'th dynnodd o'r cyfyngdwr.
Fe'th greawdd cyn berffeithied,
  Fe'th dynnodd o gaethiwed,
Fe'th adgenhedlodd o'th ddrwg rân, *Joan.* 8. 26.
  Ai yſpryd glan bendiged.

Fe'th alwodd o blith deillion;
I gredu'r ſengyl dirion,
Fe'th gyfiawnhaodd yn rhâd trwy ffydd,
*Yn Ghriſt* d' Achubydd ffyddlon.
*Yn* ſoethus iawn fe'th borthodd,
*Yn* drefnus fe'th ddilladodd,
Fe'th ddyrchafodd i fawr fraint,
Rhag cwrp a haint fe'th gadwodd.
*Eſay.* 36. 5. Ferodd id enw hyfryd,
† *cymmeriad* A † chredit a ſyberwyd,
1 *Cor.* 3. 21, Heddwch llwyddiant, a grâs a dawn,
22, 23. A llawer iawn o olud:
Fe wnaeth it fyw mewn cariad,
Hawddgarwch a chymeriad,
‖ *Fath.* Gyda phob glân ‖ ſort o ddyn,
Heb gâs gan un or teir-gwlad,
Ni phallodd erioed etto,
O'r peth y ſae ti'n geiſio,
Er na haeddyt ſeger taer,
*Gen.* 32. 10. Mor briwſion ar ei ddwylo.
Nid oes un dyn ar aned,
Sydd arno fwy o ddyled,
I glodfori'r un Duw tri,
* *oi plegid.* Nag ſ' arnad ti oi * parthed.
Dihûn gan hynny a choſia,
Garedigrwydd y gorucha,
A'r modd i'th helpodd prynwr cred,
*Pſal.* 146. 2. Er pan ith aned gynta.
A thra ſo it ben a thafod,
Mynega byth ei fawrglod,
Ai ddaioni yn ddi ddal,
Tra chwyth ac anal ynod,
Ir Tâd ir Mâb ir *Yſpryd*,
Ir Drindod undod hyfryd,
Y bo clôd a moliant mawr,
Bob dydd bob awr bob enyd!

Diolch

---

## *Diolch am Etholedigaeth ac amryw ddonieu Yſprydol.*

O Arglwydd Dduw goruchaf,
Pa ddull, pa fodd y gallaf,
Roi it ddiolch llawn ar llêd,
Fel y mae'r ddyled arnaf?
Cyn gwneuthur nef a daiar,
O'th gâs yn Ghriſt a'th ffafar,
Di'm detholaiſt fod yn un,
O'th blant dy hun yn gynar,
Di'm creaiſt inne o'r priddyn,
Oedd frwnt a gwael ei eulyn,
Ar dy lun a'th wêdd dy hun,
Yn lana dyn o'r gweryn.
Di'm tynnaiſt yn dra lluniaidd,
O groth fy mam yn berffaidd,
Lle gallaſyd fy'n rhoi 'maes,
Yn grippil câs anghruaidd.
Di'm gwnaethoſt inne'n Griſtion,
Ym-mhlith dy bobol ffyddlon,
Lle galleſſyd heb ddim dyſg,
Fy'n rhoi ym myſg Iddewon.
A chwedi *Adda* 'ngwerthu,
I Satan gynt wrth bechu,
Di am prynaiſt o'i law'n rhâd,
A gwerthfawr waed yr Ieſu,
Ni ‡ Speriaiſt roddi i farw,
Dy unig fab i'm cadw,
Ac i † hongian ar y groes,
Dan lawer loes oedd chwerw:
Di'm adgenhedlaiſt gwedyn,
I fod yn anwyl blentyn,
It trwy fabwys prudd a grâs,
Pan oeddwn wâs y gelyn.

*Nidyw'r donie hyn yn perthyn i bawb, canys er bod llawer gwedi ei galw, etto ychydig a ddewiſwyd.* Eph. 1, 4.

‡ *arbedaiſt.*

† *Grogi.*

*Tit.* 3. 3, 4, 5, 6, 7.

Di aethoſt yn Dad i mi,
*Joan.* 1. 12. A minneu'n blentyn i ti,
Di'm ail wnaethoſt ar dy wedd;
*Eph.* 2. 10. Yn etiſedd i'r goleuni.
*Jac.* 1. 18. Di'm gelwaiſt inne hefyd,
A'th air a'th nefol yſpryd,
O blith miloedd o tai cas,
I gaffel gras ac Jechyd:
O blith y bobol feddwon,
A'r mud, a'r dwl, a'r deillion;
Di'm golwaiſt a'th air dwys,
I fonwes d' eglwys dirion.
A gwaed dy fab di'm golchaiſt,
2 *Pet.* 1. 4. A'th yſpryd dim ſancteiddiaiſt;
*Rhuf.* 3. 24, 25, 26. *ar* 6; 5. Rhan o'th nattur rhoiſt immi,
Am pechod ti ddirymaiſt;
Ac er fy mod yn ſarnllyd,
Am gweithred yn frycheulyd,
Di'm cyfiawnhaiſt o'th ras yn rhad,
Trwy ffydd yngwaed d' anwylyd:
A rhoiſt i'm gadarn obaith,
1 *Theſſ.* 4. 13, 16, 17. Er i mi farw unwaith,
O ran y cnawd pan ddel y cri,
Y caf gyfodi'r eilwaith.
‖ *Didwyll.* A derbyn yn ‖ ddiffuant,
*Col.* 3. 4. Gan f' Arglwydd wir ogoniant,
( Er mwyn Chriſt ) a nefol fraint,
† *Ac ſy'n gorfoleddu yn y nef.* Ym mhlith y Saint † triwmphant;
Lle caf fi wir lawenydd,
A heddwch yn dragywydd,
*Pſal.* 16. 11. Parch anrhydedd tra ynwy chwyth,
A gwynfyd byth ni ddarfydd.
Am hyn o ddoniau 'ſprydol,
Fy'nhad am Harglwydd nefol,
Rwy'n rhwymedig ar fy llw,
Glodfori d' enw graſſol.

A

A thro dim deall genni,
An ddyfal dy addoli,
A'th foliannu bob rhyw awr,
Am dan dy fawr ddaioni.
Ir hael dâd 'rhwn a'n creodd,
Ir Jeſu'r hwn a'n prynodd,
A byddo clod a mawl bob cam,
A'r Yſpryd a'm Sancteiddiodd.

---

### *Gweddi'n erbyn Gorthrymder Gwrthwynebwyr.*

DIhûn dihûn, pa ham y cyſgaiſt?
Erioed hyd hyn fy Nuw ni heppiaiſt
Nid *Baal* wyt: o danfon ſwccr!
Tynn dy was o doſt gyfyngdwr.
Sych fy nagre, torr fy magal,
Gwared f' enaid llaeſa 'ngoſal,
Gwel fy nghyſtudd clyw fy 'nghwynfan,
arn fy hawl rhyddhâ fi weithian.
Fy 'nhraig i wyt o nâd fi ſyrthio,
Fy Nhwr cadarn, nad f' anrheithio,
Fy Nuw fy ‡ Nêr, o dere im helpu! ‡ *Arglwydd*
Fy Nefawl Dad nad fy ngorthrymmu.
Galluog wyt di elli helpu,
Unig ddoeth y modd ei medru, *Pſal.* 46. 1.
Trugarog Dad o dere a ſwccwr,
Hawdd yw'th gael mewn toſt gyfyngdwr.
Gwradwydda fwriad fyngelynion,
*Tola falchder fy nghaſeion: * *Lleihau.*
Gwaſcar gyngor tyrfa waedlyd,
Er mwyn Chriſt rhyddha fi o'm penyd. *ymddiffynſa.*
DUw fyngrhaig, am Twr am nodded,
Duw fy Jechyd am ymddiried,
Goſtwng gluſt a gwrando 'ngweddi,
Mewn cyfyngdra a goſidi.

Duw rhoiſt gennad i'm gelynion,
Fy 'ngorthrymmu heb achoſion,
Am diſetha'n llwyr gan mwya;
Os tydi ar ſrys ni'm helpa.
Di roiſt gennad i eſtroniaid,
Lwyr amcanu diſa f' enaid
A'r ſawl nad wi'n nabod etto,
Lwyr amcanu fy anrheithio.
Rhai na wn i ddim oddiwrthyn,
Rhai na wneuthum ddim iw herbyn,
Rhai na chanſu 'rioed fy llygaid,
Sydd yn ceiſio ſpeilio f' enaid.
Arglwydd maent hwy gwedi 'maglu,
Ac yn barod im diſethu,
Ond ddoi di ym-mhryd a ſwccwr,
Im gwaredu om cyſyngdwr.
Deffro o gyſcu f' unig Geidwad;
Mae fy llong mewn trallod irad;
O cerydda'r gwynt ar tonneu,
Rhag im ſoddi yn ei rhwydeu.
† *Rhaffau,* Nad im llong am taccal dorri,
*Llong.* Bydd di borth ac Angor i mi,
Llaeſa'r Storom ſy'n fy mlino,
Moes dy law a nad ſi ſingcio.
Erchaiſt i mi ddwad attad,
*Pſal.* 50.51. Yn fy nhrallod, anwyl Geidwad,
‡ *Dyſod.* Attad ti fy Nuw'n ‡ trottian,
Danſon im ymwared weithian.
Di addewaiſt wrando yngweddi,
Yn fy nhrallod ond im weiddi,
Gweiddi arnad yr wi yn waſtod,
Arglwydd weithian tynn ſi o'm trallod.
Di wrandewaiſt weddi *Jonas*,
Gynt o ſol y morſil atgas,
Di achubaiſt o'i ſlindereu,
Gwrando 'ngwaedd ac achub ſinneu.

Di a waredaiſt *Daſydd* frenin,
Oddiwrth *Saul* oedd yn ei ddilyn,
Gwared ſinne o'm trallodion,
Ac o ddwylo ſy 'ngelynion.
Di waredaiſt hên *Elias*, 1 *Bren.* 19.
O law waedlyd gwreigin ddiras,
Gwared ſinne yn ſy nolur, *Mat.* 17. 15.
O law waedlyd ſy ngwrthnebwyr.
Di doſturiaiſt yn dra diddig,
Gynt wrth Dad y plentyn ‡ lloerig, ‡ *gwallgofus.*
O toſturia wrthiſ ſinne,
Sy'n dy ganlyn megis ynte;
Di roeſt help i'r wraig o *Ganaan*, *Mat.* 15.
Y ſu'n daerllyd yn ei ſegian,
O rho help a nerth i minne,
Sydd am cais mor daer a hithe.
Er nad oes ym'mhwer un dyn,
Rwymo'r Ddraig ſy'n codi im herbyn,
Etto Arglwydd mawr di-ellu, * *Cythraul*
Rwymo hon ei llwyr ddirymmu.
Gymmer yn dy law dy waywffon,
Cyfod, ymladd a'm gelynion:
Torr hwy ym-maith yn eu rhegi,
Nad hwy wneuthur trallod i mi.
Gyrr dy Angel i waſcaru,
*Sawl ſy'n chwennych ſy ngorthrymmu,*
Gyrr dy ſaetheu a diletha,
Sawl ſy a'i bwriad ar ſy niſa.
Duw di elli y modd y mynnech,
Fy'n rhyddhau y maes o orthrech;
Er dy fawredd dere a chymffordd,
A gwir rydd did im yn rhyw ffordd.
Nad im Gelyn gael ſy llyngcu,
Na'm gwradwyddo na'm gorthrymmu,
Nad i'r Byd y chwaith gael dwedyd,
Iddo gaffael arnai ei wnſyd.

Dangos i mi eglur arwydd,
O'th ddaioni a'th garedigrwydd,
Fel y gwelo'r byd o bobtu,
Mae tydi ſydd yn fyngharu.
Nid wi'n ceiſio help Gwyr mawrion,
Na Phenaethiaid na Th'wyſſogion,
Ond yn unig cymmorth difrad,
Gennit ti, fy Nuw a'm Ceidwad.
Nâd i minne gael fy nhwyllo,
Lle rwi'n hollol itti'n tryſtio,
Dere weithian ac ymwared;
Ynot ti mae f' holl ymddiried.
Nâd i minne gael fy nhwyllo;
Lle rwi'n hollol itti'n triſtio:
Dere weithian i'm diddanu,
Arglwydd nâd i'm llygaid ballu.
Dere Arglwydd dere bryſſia,
Gwared f' enaid o gyfyngdra,
Fel y gallwyf dy foliannu,
Trwy lawenydd am fy helpu.

---

*Diolch am ymwared o ddwylo Gelynion.*

ANgelion Duw, a meibion Dynion,
Nêf a daiar, eu Thrigolion,
Molwch Dduw ar eitha eich gallu,
Ddydd a nôs am fyngwaredu.
‡ *Caledfyd.* Mewn ‡ Ing trallod a chyfyngdwr,
Y gweddiais ar fy mhrynwr,
Ac o'r Nef o blith Angelion,
Clybu lef fynghwyn hiraethlon.
Sarph oſododd fagal enbaid,
A chryglathe i ddala f' enaid;
Rhwyd a chroglath Duw ai torrodd,
F' enaid inne fei gwaredodd.

Helodd Angel im dad-ddryſu,
Rhodd ei Yſpryd im diddanu;
Tanodd droſwi Adain hyfryd,
Ac fe'm tynnodd o'm holl ofyd.
Duw a glybu ein gwaedd iradus,
Chriſt * eiriolodd droſwi'n rymmus,
A'r glân Yſpryd a'm diddanodd,
Ac o'm trallod fe'm gwaredodd.
O molianned pob creadur,
F' Arglwydd mawr yn ôl ei nattur,
Am ei gymmorth a'i doſturi,
Yn fyngwared o'm gofidi.
Teirw Baſan am cylchynnodd,
Nadroedd tânllyd am herlidodd;
Bleiddiaid blin ac Unicorniaid,
Amcanaſant ddifa f' enaid.
Duw a barodd i'r rhain darfu,
Pan oedd mwya eu chwant i'm llyngcu
Duw a dorrodd gyrn a dannedd,
Y Bwyſtfilod hyn o'r diwedd.
O molianned pob creadur,
F' Arglwydd mawr a chalon bryſſur,
Am ei † gare yn achub f' enaid,
O rhyng cyrn yr Unicorniaid.
Gwyr digrefydd, gwragedd gwaedlyd
Y gynllwynodd am fy mywyd;
Ac amcanſant fy ‡ andwyo,
Difa f' enaid a'm anrheithio.
Duw ddatguddiodd eu dichellion,
Duw ddiddymodd eu hamcanion;
Duw a ddyryſſodd eu bwriade;
Duw waredodd f' enaid inne.
O molianned pob creadur,
Dduw fy nhraig a chalon bryſſur,
Am ddwyn f' enaid o drallodion,
A gwradwyddo fy ngelynion,

* *ymbiliodd.*

† *Gofal.*

‡ *Naſu.*

Clôd a gallu, Diolch, moliant,
Gwir Anrhydedd a Gogoniant,
Y fo nôs a dydd i'r Drindod,
Am fy 'nhynnu maes a drallod.

*Arall, byrrach* MEgis *Daniel* rhwng y llewod,
Megis *Jonas* rhwng Morfilod,
Y gweddiais ar yr Arglwydd,
Ac o'r nef fe'm clybu'n ebrwydd.
Stoppiodd ſafneu'r llewod rheibus,
** Morfyl mawr.* Ffrwynodd ên y * whâl afradus,
Torrodd awch y ſarph am llyngce,
Tynnodd f' enaid o'u craſange.
Neſoedd, Dair, Dwr ac Awyr,
Tan, a gwynt, a phob creadur,
Molwch f' Arglwydd mawr yn waſtod,
*‡ Allan.* Am fy 'nhynnu ‡ maes o drallod.

---

*Rhan o'r Pſalm 69.*

DUW achub f' enaid gwirion,
O'r lliſ a'r dyfroedd mawrion,
Sydd om hamgylch bob rhyw awr,
Im rhoi mewn dirfawr ofon.
Mi ſoddais mewn gofydi,
Nid oes ſefyllfa immi,
Y ffwrd a lifodd dros fy Mhen,
Yr wyf ar † haychen boddi.
*† Agos.* Mi griais nes im flino,
Fy nghê, ſydd gryg gan grio;
Hir ddiſgwiliais am dy ras,
Nes immi las ddeffygio.
Amlach yw 'ngelynion,
Na'm gwallt, neu'r gro o'r afon;
A'r rhai f' eb achos im caſau,
Ynt ffel, a chlau, a chryfion.

Cedy

Cedyrn yw 'ngwrthnebwyr,
  Sy'n ceiſio'm lladd heb yſtyr,
Telais iddynt fwy na'u rhan,
  A minne yn wann difeſſur;
Di 'dwaenoſt fy ffolineb,
  A'm gwendid a'm gwirionedeb:
A'm holl feie ſydd mor blaen,
  Bob awr o flaen dy wyneb.
Duw nad gwilyddio o'm plegyd,
  Y rhai ahoffant wrthyd,
Na gwradwyddo un o'th blant,
  A'th geiſiant yn eigofyd.
Mi ddygais lawer gwradwydd,
  Do er dy fwyn di Arglwydd.
A gwrthwyneb lawer pryd,
  Gan Blant y byd trwy aflwydd,
Mi aethym yn ddieithriol,
  Oddiwrth fy mrodyr cnawdol,
Ac fel eſtron, ar bob cam,
  Gan blant fy mam naturiol.
Cans zêl dy dŷ am * hyſſodd,
  A gwawd y rhai 'th wradwyddodd;
A ſyrthiodd arnaf er dy fwyn,
  Duw clyw fy nghwyn o'r nefoedd!
Mi wylais ddeigre heilltion,
  Mi ymprydiais ddyddie hirion,
Gan gyſtuddio f' enaid prydd,
  O ddydd i ddydd yn greulon.
Mi wiſcais ſach a lludw,
  Fel un y ſae mron marw,
A chalon driſt, ac wyneb tlawd,
  Nes mynd yn wawd i'r meddw.
Ond mi weddiaf arnad,
  Mewn pryd o Dduw ſyngheidwad;
Tad trugaredd gwrando fi,
  A dwg fy ngweddi attad.

* *Fwyttaodd.*

Duw

Duw tynn fi o'r pydew tomlyd,
A Nad fi gwympo oddiwrthyd:
Gwared fi oddiwrth fynghas,
A dwg fi maes o'm gofyd,
Duw nad i'r llif fy moddi,
Na'r pydew mawr fy llyngcu;
Nad i'r ffôs fy llimpro'n fyw,
Duw graſſol clyw fyngweddi:
Duw gwrando 'nghwyn iradys,
Dy fwynder ſydd gymffordddus,
Tro ar fyrder at dy was,
Dy help a'th ras ſydd felys.
Na thro dy wyneb graſſol,
Oddiwrth dy was cyſtuddiol;
Ryw mewn trallod dere ar frys,
A thynn fi o'r llys anweddol:
Neſſa at f' enaid gwirion,
A thynn fi oddiwrth drallodion:
Gwared fi oddiwrth fy mraw,
A Thynn fi o law 'ngelynion.
Di wyddoſt beth yw f' ofan,
angle. Am cwilydd maith am gogan,
Mae 'ngwrthwynebwyr ger dy fron,
Duw tro eu hamcanion aſlan.
Mae 'nghalon ymron torri;
Gan gymmaint yw 'ngofidi,
Ac ni feddai neb o rym,
A ddengys im doſturi,
Duw dere ar frys im helpu,
Im Cymmorth a'm diddanu,
Tynn fi o'm trallod er mwyn Chriſt,
† Chwerthino Gwna i 'nghalon driſt † grechwennu,
O dere Farnwr cyfion,
A barna di f' achoſion;
Gwel y camwedd wi'n i gael,
Ar ddwylo gwael elynion.

Mae

Mab Duw bydd di Ddadleuwr,
 * I bledio dros dy waſanaethwr, * *Ddywedyd*
Nad ir gelyn ddwyn ſy rhan,
 Lle rwyfi'n wann di ſwccwr
A thithe Tad diddanwch,
 Cynffordda ſi'n ſy nhriſtwch:
Cwyd ſynghalon driſt heb ffael,
 A phar im gael llonyddwch,
Dwg gymmorth im drachefen,
 O'th Jechydwriaeth lawen;
A'th hael yſpryd cynnal ſi. *Pſal.* 51. 8.
 Nad drallod dorri'nghefen.
Par i mi glywed beunydd,
 Orfoledd a llawenydd,
Fel y chwarddo 'nghalon wann,
 Y ddrylliwyd dan dy gerydd.

---

## *Pſal.* 30. *Diolch am ymwared o gyſtudd.*

OR Dwſt, o'r dom, o'r dyrfa,
 Or Llywch, o'r Llaid, o'r Llacca,
Di am derchefaiſt un Duw tri,
 Gan hynny mi'th folianna.
Di nadaiſt i'm gelynion,
 Gael arnai wynn eu calon,
Pan ir oeddwn glaf a gwan,
 Yn gorwedd dan drallodion;
Mi lefais arnad Arglwydd,
 Rhag mynd ir bedd trwy wradwydd,
Di wrandewaiſt ar ſy llef,
 Rhoeſt help o'r nef yn ebrwydd,
Gwaredaiſt ſ' enaid hyfryd,
 Rhag mynd i uffern danllyd,
Am corph egwan, triſt ei wedd,
 Rhag mynd i'r bedd lle dylyd,

Gan hynny feibion Dynion,
Wneuthur. Ac Sainct a'r holl Angelion,
Cenwch foliant un Duw tri,
Am ddelio a mi mor dirion.
Ni pheru ei lid ond ennyd,
† Heddwch. Ei † hedd ſydd well na bywyd;
Digofaint. Dy * fâr a erys dros brydnhawn,
Ac boreu cawn lawenfyd.
Tra ſum i yn llwyddianus,
Mi ddwedais yn rhyfygus,
Na'm ſymudud tra fawn byw,
Ond i cawn fyw'n fin felus.
Os Arglwydd o'th ddaioni,
Di fuoſt gryfder i mi,
gyflwr? Nes it ddigio wrth dy wâs,
Am troi i gâs anigri.
Pan droeſt oddiwrthwi dy wyneb,
O achos f' anuwioldeb,
Yno y ſysthiais bob rhyw awr,
I drallod mawr ddihareb.
Ac yno y llefais arnad,
Yn dacr, yn doſt yn irad,
* Arbed. Am doſturio wrthi ym mhryd,
* Diriaid. A ſpario mywyd anllad:
Pa les o Arglwydd hyfryd?
Y gai oddiwrth fy mywyd?
Pan ddeſcynwi'n doſt fyngwedd,
I'r pwll a'r bêdd lle dylyd,
A fydd i'r llwch glodfori,
Dy enw di o ddifri?
A fynegof dy wir fy nâf,
Pan byddaf gwedi trengi?
Clyw Arglwydd moes drugaredd,
A rho gynnorthwy rhyfedd,
I mi druan doſt fy 'nghâs,
Yn ôl dy râs bendigedd.

Di roeſt o Dduw yn hygar,
  Lawenydd yn lle galar,
A dioſcaiſt fy ſach-wiſc,
  Pan oeddwn myſc rhai'n trydar,
O Arglwydd fy Nuw graſol,
  Rhoſ ddiolch yn dragwyddol,
O herwydd ti'm gwaredaiſt i,
  I'th foli di yn hollol.

---

## *Am ddiwedd y Byd.*

PAwb ſy'n chwennych dyſcû'r pryd,
  Y daw Chriſt i farnu'r Byd,
Rheitiach yw i bob rhai ddyſcu,
Ymbartoi cyn mynd iw barnu.
  Ffôl o beth i feibion dynion,
Geiſio gwybod mwy na Angelion,
A deallu wrth draws amcan,
Ddirgel gwnſel Duw ei hunan.
  Nid oes dyn na diawl, nac Angel,
All ddeallu dim o'i gwnſel,
Na'r holl fyd yn abal dadclo,
Un cyfrinach y fo gantho.
  Ofer yw i neb chwennychu,
Nabod dim y fo Duw'n gelu,
A mynegi wrth draws amcan,
Beth nas * gwydde Chriſt ei hunan.
  Dyſc gan Ghriſt y peth hyſpyſſodd,
Na chais wybod dim y gelodd,
ni perthyn a ddarguddiodd,
Dduw'r cwbwl nas mynegodd.
  Na chais wybod tra fech byw,
Ddim o ddirgel beth[illegible] Duw ;
Ac os ceiſi mae'n ddiogel,
Boen a chwilydd am dy drafel.

*Mar* 13. 32.

* *Sef fel i'r oedd ef yn ddyn.*

*Deut.* 29. 29.

Y

Y mae'r môr yn boddi llawer,
Sydd yn chwennych gweld ei ddyfnder,
Ar haulwen yn dallu llygaid,
Pawb edrycho arnai'n ddiriaid.
Dydd y farn ſydd ſiwr i ddyfod,
Y pryd nid oes ond Duw yn ei wybod,
* *rhagfynegu* Ffol yw'r dyn y geiſio * ddrogan,
Y dydd nas gwyr ond Duw ei hunan.
Dwedyd pawb ei dewis chwedel,
Nid oes dyn na diawl nac Angel,
Wyr y dydd na'r awr, na'r flwyddyn,
Y daw Chriſt i farnu arnyn.
Gwiliwch bawb a byddwch barod,
A diſgwyliwch nes ei ddyfod,
Ar y dydd a'r awr nas gwypoch,
Y daw Chriſt yn ddirgel attoch.
*Mat.* 25. 13. *Jago* a *Pheder* gynt ofynnodd,
I Griſt cyn ei ddercha ir nefoedd,
A thraw dangos cyn dy ddercha,
I ni'r pryd a'r dydd diwaetha.
Chriſt atteb ai ei ddiſgyblion,
*Mat.* 24. 3. Nid perthynais i blant dynion,
36. Wybod Cwnſel y gorucha,
*Act.* 1. 7. Am y dydd a'r awr ddiwaetha:
Mae Duw'n cadw hynny'n ddirgel:
Iddo ei hunan yn ddiogel,
Gwiliwch bawb a byddwch barod,
Nes y dêl ni chaiff neb wybod.
Nid yw' doetha o blant dynion,
Na'r anwyla o'r Angelion,
Yn deallu hyn o amſer,
Gweglwch gredu chwedlau ofer.
*Elias* gynt medd rhai y ddwede,
Y parhau Byd chwe-mil o flwydde,
Yn ôl hynny ſe ddiweddid,
‡ *adnewydd.* Drwy Dan poeth, nes ail ‡ eniwid.

Dw

Dwy fil heb un Gyfraith * haychen,
Dwy fil dan gyfreithieu *Moeſen*,
Dwy fil dan Eſengyl Jeſu,
Os cae barhau cyd a hynny.
Tair oes meddant ſydd i'r byd,
Un || heb gyfraith oll i gyd,
Llall dan drymlwyth cyfraith *Moeſen*,
Drydedd dan y fengyl lawen.
Y ddwy oes gynta aethont heibio,
A'r drydydd oes ſy'n parhau etto,
Hyd pa hyd y pery weithian,
Nis gwyr neb ond Duw ei hunan,
Mil a Seith gant aethant heibio,
A phump ar hugain o'r oes mor gryno;
Fe all pawb wrth hynny wybod,
Nad oes fawr o hon heb ddarfod.
Pawb o'r doethion a gyttuna,
Mae byrra oes yw'r oes ddiwaetha.
Os er mwyn y detholedig,
Hi fydd ſyrrach nid ychydig.
*Ifan* alwe'r oes hon ymma,
Yn ei ddyddiau'r oes ddiwaetha,
Os diwaetha'r amſer hynny,
Mae hi'n awr ymron terfynu.
Diwedd pob peth oedd yn neſſid,
Pan oedd *Peder* yn y Pulpid,
Nid oes lun nad yw'r diwedd,
Nawr wrth hynny'n agos rhyfedd.
Yn amſer *Paul* yr oedd gan mwya,
Yr oes a'r dydd, a'r awr ddiwaetha,
Rwan yn ein hamſer ninnau,
Mae'r diwaetha o'r ‡ munudiau.
Y byd ſydd gwedi mynd yn gleirchyn,
c yn Grippil medd ſaint *Awſtyn*,
Mae e'n cerdded ar ffynn Maglau,
Nid oes nemmawr iddo o ddyddiau;

* *Agos.*

|| *ſef yn ſcriſennedig.*

1 *Joan.* 2.18

1 *Pet.* 4: 7.

‡ *Munud yw'r drigeinfed ran o awr*

Gwiliwn

*Mat.* 24. 33. Gwiliwn bawb a byddwn barod,
Mae'r dydd mawr yn agos dyfod,
Mae medd Chriſt ymron y dryſſau,
‡ *Lampau.* Trwſſiwn bob rhai ein ‡ Luſernau.
Siccr yw y daw ar ſyrder,
§ *anhyſpys.* § Anſertenol ydyw'r amſer:
Pwy cyn gynted nis gwyr un dyn,
* *Ymbârtoi i gyfarfod a Chriſt.* Dyddwn bob awr ar ein * rofyn.
Nid oes dyn medd Chriſt ei hunan,
Wyr y dydd ar awr yn gyngan,
Nac un Angel detholedig,
Na neb ond y Tâd yn unig.
Ofer yw gan hynny i ddynion,
* *Mynegu.* Geiſio * maneg yr amſeron,
Y mae'r Tâd yn gadw'n gyngan,
Yn dra dirgel iddo ei hunan.
Etto *Napeir* henwe'r flwyddyn,
Y gwnae Duw ar bob peth derſyn,
Ac y bydde'r flwyddyn hynny,
Cyn mil ſeithgant o oes Jeſu.
Dweded pawb ei dewis chwedel,
Nid oes dyn, na Diawl, nac Angel,
Wyr yr awr, na'r dydd na'r flwyddyn,
Y gwna Duw ar bob peth derſyn.
Byddwn barod bawb gan hynny,
Edifarhawn heno heddu;
Ar y dydd a'r awr nis gwypo'n,
Y daw Chriſt yn ddirgel atton.
Fel na nabu ſerchog *Rachel*,
* *Amſer eſcori.* Moi * thymp nes myned ar ei thrafel,
Felly ni chaiff dynion nabod,
Dydd yr Arglwydd nes ei ddyfod:
Pan ddae amſer *Rachael* wiſgi,
Ar ei phlentyn bach eſcori,
F' orfu eſcori ar y bachgen,
Ar y ffordd dan fon y dderwen,

Fel

Felly gorfydd ar y ddaiar,
Sy'n beichiogi er yn gynnar,
Gwympo i eſcori ar y meirw,
Pan ddel udcorn Chriſt i'w galw:
Fel y daeth y Tan ar Brwmſtom,
Yn ddiſymmmwth am ben *Sodom*, *Luc.* 17. 28,
Felly daw y dydd diwaetha, 29, 30.
Pan fo'r byd yn cyſcu'n ſmala.
Ni wyr neb mor awr na'r amſer,
Byddwn bob awr ar ein pryder,
A'n Luſernau yn ein dwylo,
Gyda'r merched call yn gwilio.
Mae'r arwyddion gwedi cerdded, *Mat.* 25. 4.
Y ſynegodd Chriſt cyn blaened,
Ond bod ychydig o'r *Iddewon*,
Etto heb gredu'r ſengyl dirion.
Fe ferthyrwyd y Poſtolion, *Mat.* 24. 9.
A mil miloedd o'r Chriſtnogion, *Act.* 12. 2.
Ym-mhlaid y ffydd a'r Efengyl;
Fo wyr holl grêd hyn yn rhigyl.
Fe ddyſtryw-wyd Tre *Gaerſalem*, *Luc.* 19. 43,
Nid oes maen ar faen lle gwelem; 44.
Hitheu'r Demel fawr a loſgwyd, *Mat.* 24. 2.
A'r Iddewon a waſcarwyd.
F' aeth y ſengyl hawddgar, hyfryd,
Ar farch gwynn ar draws yr holl fyd, *Mat.* 24. 14
Nid oes Cornel dan y nefoedd,
Na bu'r ſengyl ynddo'n rhyw-fodd.
Niſer mawr o Griſtiau ffeilſion,
Ynghred ac anghred a godaſon, *Mat.* 24. 24
A thrwy * hocced Tad y celwydd, * *Twyll.*
Troeſant lawer i gam grefydd.
Rhyfel blin rhwng Twrc a Chriſtion, *Mat.* 24. 6,
Y fu'n fynnych iawn ni glywſon; 7.
Son mawr ſydd am ryfel etto,
Rhoed Duw hedd ir ſawl ai caro,

Nowy

Newyn mawr a thoſt ddrudaniaeth,
Y ſu'n llawer gwlâd yſowaeth:
Haint, a Phlag, a chwarren waedlyd,
Y ſu'n hwyr ar hyd yr holl fyd.
Daiar gryn y ſu o'r mwya,
Nes ſyrthio Temel ſawr Ddiana,
Luc. 21. 11. A bwrw lawr y Treſydd mawrion,
‡ *Gan dryll.* Twre a cheſtyll yn ‡ ſeb wrthon.
‖ *Dywyllodd.* 'R haul ‖ ecclipſodd or' Tywylla,
Luc. 21. 25. Nes mynd dydd yn nos gan mwya;
A'r mor mawr aeth dros y bangcau,
Boddodd miloedd o eneidiau.
† *Y Pab.* Y mae † Anghriſt ynte'n rhochain,
Ys llawer dydd yn Eglwys Rhuſain,
* *Lladd.* Ac yn * mwrddro'r Saint heb orphwys,
Eiſiei alw'n benn ir eglwys.
Cariad perffaith ynte oeredd, *Mat.* 24;
Ni châr mâb o'r Tad a'i magodd; 12.
§ *Merch a mam yn y gyfraith.* Gwaudd § a chweger ſy'n ymſowtan,
Câs gan frawd ei frawd ei hunan.
*Mar.* 13. 12 Fydd yſowaeth ſy'n mynd lai lai;
* *Ymadaeru.* Crêd o grynfyd aeth yn garrai,
*Aſia*, *Affric*, *Græcia* ffyddlon,
*Luc.* 18. 8. Sydd yrwan heb griſtnogion.
Nid oes un o'r holl arwyddion,
Ond dymchweliad yr Iddewon,
Na bont eiſoes gwedi dyfod;
Gwiliwn bawb a byddwn barod.
Y mae'r Barnwr mawr yn cychwyn,
Mae ys dyddie ar ei rofyn;
*Act.* 10. 42. Fe ddaw weithian yn dra hoyw,
1 *Theſſ.* 4. I roi barn ar fyw a meirw.
16. Mae ef gwedi hogi gledde,
A golymmu ei holl ſaethe,
Mae ei fwa yn ei annel,
Ac y barod mynd i ryfel.

Mae fraich rymmus gwedi heſtyn,
Mae ei Angelion ar ei rofyn,
Fe ddaw fel y diluw tanllyd,
I roi barn ar bawb o'r holl-fyd:
O'r meddyliwn ninne am wiliad,
Ac am ddiſgwyl ei ddyfodiad,
A bôd bawb a'n cyfri'n barod,
Ac yn daclus cyn ei ddyfod.

Mat. 24. 37, 38, 39.

---

## Cyfiwch Angeu.

BYrr yw'n hoes ac || Anſertennol,
Heddyw'n fyw, y foru'n farwol;
Gynne'n Gawr, y foru yn gelain;
Dymma gyflwr dyn a'i ddamwain.
Ni bydd ymma am ben ennyd,
Un o honom heb ei ſymmud,
O meddyliwn am ein ſiwrne,
Heno yſgatfydd rhaid ei dechre.
Fel y rhed yr haul ir hwyr,
Fel y treulia'r ganwyll gwyr,
Fel y ſyrthia'r Rhoſlyn gwynn;
Fel y diffidd tarth ar lynn.
Felly Treulia, felly rhed,
Felly derfydd pobol Gred,
Felly diffydd bywyd dyn,
Felly ſyrthiwn bôb yr un.
Fel llong dan hwyl, fel poſt dan ſawd,
el ſaeth ar farc, fel Gwalch ar ffawd,
el mwg ar wynt, fel llif ar ddwr,
† Poſta ymmaith einioes gwr.
Fel ſaeth y rhed, fel Poſt y gyrr,
el Cwyr y Tawdd, fel ia y tyrr,
el dail y ſyrth, fel gwellt y gwywa,
l tarth y trig, fel Lamp y treulia.

|| Anſafadwy

† Rhedeg ar frys.

1 Pet. 1, 24.

Ni ddiſannwn fel y cyſcod;
Ni ſwyr doddwn fel y mannod;
Ni § ddiharffwn fel glaſwelltyn,
Ni ddiffoddwn fel yr Ewyn.
Ni cheir gweled mwy o'n hol;
Nag ol neidir ar y ddol,
Neu ol llong aeth dros y tonne,
Neu ol ſaeth mewn Awyr dene.
O! gan hynny, heddyw, heno;
Moeſwch i'ni bawb ymgweirio,
Fynd ar * ffrwſt, a thynnu oddiyma;
Lle na chawn o'r hir arhoſfa.
Mewn tai o glai yr ym yn trigo,
Storom gron y bair eu ſyrthio;
Gwiliwn rhag ir Angeu ein ſaethu,
A briwio'r wal Tra fom yn Cyſgu.
Fel y trewir Pyſc a thryfer,
Fel y ſaethir † Pheſant dyner,
Fel y torrir blodau'r ardd,
Fel y lleithia * gweunydd hardd.
Felly trewir dyn heb wybod,
Felly ſaethir yn ddiarfod,
Felly torri gwychder dyn,
Felly'n lleddir bob rhyw un.
Fel dwr dilw ar y cynfyd,
Fel tan gwyllt ar Sodom aethlyd,
Fel * llycheden, fel y ddraig,
Fel y gwewyr blin ar wraig.
Felly'n chwyrn, ac felly'n danllyd,
Felly'n † immwngc, felly'n aethlyd,
Felly'n flin, ac felly'n draws,
Y daw'r Angeu ar ein * traws.
Brau yw'n cnawd, a bach yw'n cryfdwr,
Gwann yw'n grym, a gwael yw'n cyflwr,
Tipyn bach o groes neu gerydd,
All yn troi a'n torr i fynydd.

* Celiwn ein harddwch.
* frys.
§ Ceiliog Coed
* Gweirgloddiau.
* Mellten.
† Diſymmwyth.
* Gwartha.

Gwra

Gwrach all ladd y Cawr a chogail,
Blewyn bach all dagu'r bugail,
Draen er draws all ladd yr hwſmon,
Duw mor ‖ ddifyrth yw plant dynion. ‖ *Dirym.*
Y gann, y gwael, y dwl, y dall,
Y ladd y cryf, y gwymp y call,
Y † bwr di barch a maen nid mawr, † *Drel.*
A briwa'n caer, a ddifa'n cawr.
Beth yw dyn wrth hyn ond tarth,
A mwg, a niwl, a gwellt, a gwarth,
A gwydyr crin, a rhew, a rhoſſyn,
A ſtên, o bridd, a gwynt, ac ewyn.
Y dewr, y doeth, y gwych, y gwalchaidd
Y cryf, y call, y capten cruaidd,
Ein pen, a'n pont, a'n grym, a'n gras,
Y gafodd gwymp gan angeu cas:
Fel y cwymp holl dail yr allt,
Fel y ‡ croppia'r gwelle'n gwallt, ‡ *Cneifia.*
Fel y gwywa lili'r maes,
Fel y tyrr y gwydyr glas:
Felly y gwywa, felly tyrr,
Felly * craccia'n bywyd byrr, * *Tyrr.*
Felly croppir einioes dyn,
Felly cwympwn bob yr un.
Fel ty bugail ein ſymmudir,
Fel ſtên briddlyd ein candrillir,
Fel dilledyn y darſyddwn,
Fel y llwydrew y diflannwn.
Ni chawn aros mwy na'n tadau,
Awn ir ffordd yr aethont hwyntau:
Rhaid i'n fynd i wneuthur cyfri,
A rhoi † rhwm i eraill godi. † *Lle.*
Nid oes lle in' aros ymma,
Ond dros ennyd i hafotta,
Gwedyn gorfydd ar bawr ſymmyd,
Fynd ir ffordd yr aeth yr holl fyd.

Y mae'r angeu glâs a'i ſwn,
Yn ein herlid ym-mhob tyrſa:
Nid oes un dyn all ddihangyd,
Rhag ei follt ai ſaeth wenwynllyd.
Mae e'n ddirgel yn marchogaeth,
Ar farch glas ym-mhob cenhedlaeth,
Nid oes dyn all dihangc rhagddo,
Aed ir wlad a'r mann y mynno.
Er bod *Haſael* gynt na'r ewig,
Er bod *Saul* fel eryr ffrolig,
Er bod *Jehu*'n gynt nag ynte,
Ni ddihangodd un rhag Angeu.
Er gwroled gwr oedd *Sampſon*,
* *Ymoſtwng.* F' orfu * ildio ir angeu digllon:
Felly gorfydd arnom ninnau,
Pyt fae ei gryfder yn ein breichiau.
† *Orchſy-godd.* *Alexander* y † gwngcweriodd,
Yr holl fyd y ffordd y cerddodd;
‡ *Orucbaſi-aeth.* Angeu gwedi'r ‡ concweſt ſoeler,
Y gwngcwerodd *Alexander*.
Lladdodd angeu bob Cwngcwerwr,
Lladdodd *Galen* y phyſſygwr,
Lladdod *Luc* y meddyg goreu;
Pwy all dihangc mwy rhag angeu?
* *Sathra.* Fel y * damſing meirch Rhyfelwyr,
‡ *Math.* Dan eu traed bôb ‡ ſort o filwyr;
Felly damſing angeu diriaid,
Y Brenhinoedd fel begeriaid:
Lladdodd angeu *Abel* wirion,
Lladdodd angeu Sanctaidd *Aaron*;
Lladdodd *Cain* a *Cham* yſcymmyn:
Nid yw'r angeu'n arbed undyn.
* *Tywyſogy,* *Pharo*'r * Prins ac *Eli*'r ffeiriad,
‖ *Barnwr.* *Eſay*'r Prophwyd, *Joël* yr ‖ Ynad;
† *Ucheldad.* *Noah*'r † Patriarch, ar hen Dadeu,
Y difethwyd gan yr Angeu.

Fe

Fel na arbede *Herod* greulon,
Ladd y bychain mwy na'r mawrion:
Felly gwn nad arbed Ange,
Hên nac iſangc mwy nag ynte.
Pe rhoed iddo Aur yn bynnau,
Mil o wledydd a'r Coronau,
Ni chaed gantho arbed bywyd,
Dyn, dros Awr, Pe rhoed yr holl fyd.
Ni chaiff heb * ganlyniaeth gantho,
Er ‡ ymhwedd ac er ceiſio,
Mwy nag y cae *Bilat* ddigllon,
O'i ganlyniaeth gan Iddewon.
Ni ry Angeu pan y dolo,
Awr o † reſbyt i ni ymgweirio,
Nac un rhybudd o'i ddyfodiad,
Mwy na'r Ci cyn lladd y ddafad.
Ond fel lleidr fo ddaw'r Angeu,
Yn ddiſymmwth am ein penneu,
Tro ni'n Cyſcu yn ddiofon,
Fel Philiſtiaid am ben *Sampſon.*
Os bydd diffig dim ir ſiwrne,
Oyl ir lamp, na gwiſo ir Cofne,
Ni chaer gan yr Angeu melyn,
Aros inni fynd i 'mofyn.
Ond fel Bronin Babel ddiras,
Yn Troi *Shadrac* ‖ whip ir ffrwnas;
Fe dry'r Angeu bawb y graffo,
Ir ffwrn briddlyd fel ei caffo.
Fel y daw y lleidir difiog,
Ganol nôs am ben goludog:—
Felly daw yr angeu i'n Cyrchu,
Yn ddiymgais tro ni'n Cyſcu.
Fel y teru gwr a thryſer:
Byſc tro e'n gorphwys yn ddibryder
Felly teru anged ddyrnod,
Ar blant dynion mor amharod.

* *Eiddymuniad.*
‡ *Ymbil.*
† *Amſer.*
‖ *Yn Ebrwydd.*
† *Gwyllt.*

T 2

Fel na wyr y glomen dyner,
* Adarwr. Nar pryd na'r mann y teru'r * ffowler,
Felly'n hollol ni wyr un dyn,
Na'r pryd na'r modd y bydd ei derfyn.
Mewn un ffordd yr ym yn dwad,
I'r Byd hwn dan wylo'n irad;
* Dal *ſulw.* A thrwy fil o ffyrdd heb * farccio,
Rym ni'm mynd y maes o honno.
Nid oes un mann yn ddi bryder,
Na ddaw 'r Angeu glâs a'i Dryfer,
I roi i ni ddirgel ddyrnod,
Ym-mhob mann, och! byddwn barod.
Wrth droi'r defaid mewn lle dirgel,
Y daeth angeu ar draws *Abel*
Gwachel ditheu gael ei ddyrnod,
Wrth droi ddautu dy anifeilod.
Ar y genffordd wrth ſiwrneia
Y bu farw *Rachel* fwyna;
Wrth ſiwrneia gwachel ditheu,
Rhag cyfarfod ar glâs Angeu.
Pan oedd holl blant *Job* yn gwledda,
Y daeth Angeu ar eu gwartha;
* Sicrwydd. Nid oes * gwarant gennyd titheu,
Yn dy wledd rhag ddyrnod Angeu.
*Holophernes* a fu farw,
Yn ei gwſc pan oedd ef meddw:
Gwachel dithe yn dy feddwdod,
Rhag i Angeu roi ti ddyrnod.
Dan. 5. *Belſazzar* er maint oedd gantho
‡ Ymyfed, Y fu farw wrth garowſo;
Wrth garowſio gochel ditheu,
Od wyt gall rhag dyrnod Angeu.
Act. 12. Fe rodd Angeu anfad ddyrnod,
Ar y faingc i frenin *Herod*:
Ar y faingc y dyle farnwyr,
Gofio Angeu mawr ei hydyr.
Saethodd Angeu ſaeth wenwynllyd,
Trwy gorph *Ahab* yn ei Gerbyd;

Yn dy ‡ *Goach* ymgadw ditheu — 1 *Bren.* 22.
Rhag dy daro a bollt Angeu. — ‡ *Cerbyd.*
Fe ddaeth angeu megis * mwrddriwr — * *lleiddiad.*
Ar draws *Eglon* yn ei barlwr; — *Barn.* 3.
Gochel dithe rhag ai biccel,
Trech yn gorphwys yn dy Stafell.
Pan oedd *Diſes* yn ei Sidan
( Ai phâr foethus ) oll yn hedfan,
Fe ddaeth angeu ac ai lladdodd
Gochel dithe balch ei wiſcoedd. — *Luc.* 12. 20.
Gwedi'r cerly'n adail llawer;
A chrynhoi dros hir fod amſer;
Fe ddaeth Angeu ac ai lladdodd,
Cyn cael profi o'r petheu gaſglodd.
Gochel ditheu'r ‡ Cob a'r Cerlyn, — ‡ *Gwyr gwladaidd, cyfoethog.*
Sy'n crynhoi dros lawer blwyddyn,
Rhag ir Angeu dy gyrhaeddyd,
Cyn cael profi dim oth olud.
Fe ddaeth Angeu i drywanu
Dau fab *Aaron* wrth Aberthu,
Wrth yr allor dyle'r ffeiriad,
Ofni Angeu oi ddyfodiad.
Pan oedd *Senacherib* y brenin, — *Lev.* 10. 2.
Yn y Domel at ei ddaulin,
Fe ddaeth angeu ac a'i lladdwys,
Ofnwch angeu yn yr Eglwys. — 2 *Bren.* 19. 25.
Fe rodd angeu frath ei *Zimri*,
Wrth gyd orwedd gyda *Choſbi*; — *Num.* 25. 8.
Gochel dithe wrth butteinia,
Rhag ir angeu glâs dy ddala.
Nyn dy lamp a gwiſg dy drwſſiad
Cyn dêl angeu'n agos attad;
Gwna dy gownt ath gyfri'n barod,
Cyn dy alw o flaen y drindod.
Bydd di barod heddyw heno,
Ag oel ith lamp, ath wiſc yn gyfrdo,
Fynd o flaen dy farnwr prudd,
Y foru o boſſib ydyw'r dydd.

Ni wyr *Peder* ni wyr *Pawl*,
Ni wyr Angel, ni wyr Diawl,
Ni wyr planed ni wyr dyn;
Na neb o'n hawr ond Duw ei hun.
Rhyd dydd, rhyd nos, yn glâf yn Jach
Ar for a thir yn fawr yn fach,
Mewn tre a gwlad bawb byddwch barod
Ni wys pwy wlad y cawn ni'r dyrnod.
Gweithiwch bawb tro'r dydd yn para,
Cyn cotto'r haul crynhowch y manna,
Derbynniwch ras, tro *Duw*'n ei gynnig,
Partowch eich rhaid cyn delo'r diffyg.
*Gamp.* Cyn colli'r Gôl cyn dele'r nôs,
Cyn torri'r pren, cyn cwympo i'r ffôs,
Cyn cae y porth, cyn mynd ir garn,
Cyn canu'r corn, cyn rhoddi'r farn.
*rhinweddol.* *Rhed am y chwyth gwna waith dy Dduw*
*Yn ebrwydd* Dwg ffrwyth yn rhin o'r gore ei ryw,
Dos chwip ir wledd ac yn gyfrdo
Cais dy gyfraid cyn ymado.

*Cân ar y Flwyddyn* 1629. *pan oedd yr Yd yn afiachus, trwy lawer o wlaw.*

D*Uw frenin trugarog Duw dâd hollalluog*
*Duw porthwr newynog na newyna ni,*
Sy'n canlyn dy ffafar a chalon edifar,
Yn ol dy hir watwar a'th Siommi.
Er mwyn dy drugaredd anfeidrol ath fawredd
*Er mwyn dy wir Tiſedd, doſa dy lid;*
*Gwrando di'n gweddi, madde'n drwg nwydi*
A chymmorth ein tlodi a'n hadfyd,
*Ni Bechaſom yn d' erbyn yn daran yſcymmyn*
Nes tynnu hir newyn, a niwed i'n plith;
Ac amryw ddiale ſy'n gryddfu'n calonne
Heb allel hir odde dy ſelldith.
Ni dorſom dy gyfraith ſydd gyfion a pherffaith,
Do lawer canwaith cyn cwnnu o'r man;

Fel rhai a fae'n tybiaid, na fae gennyd lygaid,
  I ganfod fileniaid mor aflan.
Dy enw gablaſom dy air y gaſauſom,
  Dy fengyl ta droedſem yn ddibris dan draed,
Dy Sabboth halogwyd, dy demel adawyd,
  Dy grefydd a lygrwyd yn irad,
Ni droſom dy ddeddfau fel pobl a dybiau,
  Na ddeuau dialau, am ddilyn ffordd ddrwg,
Neu rai a fae 'n credu na bae gennyd allu, * *Coſpi*
  I'n plagio am bechu yn gynddrwg, * *ddangos*
Pan yrraiſt gennadon i faneg ein beion,
  A'n troi i'r ffyrdd union yn dirion yn daer,
Ni gauſom ein cluſtie, rhag clywed eu geiriau,
  Fel Neidr a ſydde yn fyddar.
Pan yrraiſt dy weiſion i'n gwahawdd rai deillion,
  I'th ſwpper yn dirion i * dario 'n dy lys, * *Trigo*
Ni ballſom or dwad ni droeſom i'r Farchnad,
  A'n fferem yn anliad anhappus. *Luc.* 14.
Ni fynnwn mo'r Manna ni thrig e'n ein cylla,
  Ni charwn ni y Bara a beru byth,
Ond garlleg ac Winwyn a phanas a phompiwn,
  Fel Twrchod a garwn ni 'n aruth. *Num.* 11.
Ni fynnwn i'r Efengyl ſy'n ni cnoi mo'r rhigyl, 5, 6.
  Ni drown ein gwegyl at hon lawer gwaith,
Ni chaiff hi 'n ceryddu na'n dangos na'n dyſgu,
  Mae'n draws yn gwrthnebu ein dryg-waith:
Na adwn ni i'r yſcrythur reoli 'n drwg natur,
  Na'th gyfraith gymheſur gymhwyſo mo'r traws,
Ond byw wrth ein ffanſi i'n trachwant an gwegi,
  Heb fynu rheoli ein drygnaws. * *meddyl fryd,*
Gan hynny waith troedio dy gyfraith a gado,
  Ni aethom ar ddidro yn ddidrangc gwae ni,
Fal defaid a rede o'r llafur i'r ffaldie,
  A'r ol llanw eu bolie i boeni.
Mae'n gloddeſt a'n traha fel mawrddrwg *Gommerah*
  Yn llefain am waſgfa i waſgu ar ein cêſt,
Ni thaw byth o'i poene, nes delo diale,
  I waſcu ar ein crilie a dirweſt.

Mae pob gradd o ddynion o fychain i fawrion,
  Yn pechu yn greulon yn erbyn dy Griſt,
Fel pobl wrth raffe a dynne ddiale,
  O'r Nêf am eu penne yn athriſt.
Mae'r Offeiriad yn gadu dy Bobl i bechu,
  Heb geiſio eu nadu i uffern ar naid;
A'r un ac a geiſio a'r Efengyl eu rhwyſtro,
  Fe gaiff ele † anfrio yn ddiriaid, † *ambarch.*
Mae'n parchus reolwyr och Dduw yn rhy ſegur,
  Yn godde troſeddwyr driſt ſoddi'r Wlad,
Heb goſpi a'r Cledde na'r bobol na'r beio,
  Sy'n ‡ damſing dy ddeddſe mo'r irad. ‡ *Sathru.*
Mae'r Bobol gyffredin fel Iſrael heb Frenin,
  Na Offeiriaid i'w meithrin na Phrophwyd i'w maeth
Yn byw yn anhywaith fel pobl heb gyfraith,
  Heb grefydd heb obaith yſywaeth,
Mae rheibus Swyddogion yn ſpeilio rhai gwirion;
  Yn hyfach na'r lladron llwyr edrych ar hyn,
A'r Carliaid yn bwytta y tlodion fel bara,
  Neu'r morfil y lyngca'r Scadenyn. ‡ *pennog.*
Mae'r gweiſion cyflogc, ar hirwyr yn chware,
  Mae'r gweithwyr yn eiſte heb oſtwng eu pen,
Yn * tordain yn blino heb ſymnu o'r gweithio,
  Nes delech iw priccio ac angen. * *ynſtowt*
Mae'r Taner a'r Panwr a'r Barcer a'r Bwtſiwr,
  Gwydd Gôf a Thaeliwr a Thiler a Chryd;
A'r hwſmyn a'r Crefftwyr ar diffrwyth Uchelwyr,
  Yn mynd yn Dafarnwyr digrefydd.
Mae'r gwragedd yn gado eu nyddiad au cribo,
  A'i gweuad a'i gwnio i dwymo dwr,
Gwerthaſont eu rhode a'u cyffion a'i Cribo,
  I brynu Coſtrele Tafarnwr,
Mae'r mwrddwr a'r gwibiad ar bawdu cnaf anllad
  Ar lleidr ar gwiliad ar ffeiriad ffol;
A Shini a ſiangco, a liſens i witrio,
  Bir Cwrw, Tobacco heb reol, ‡ *Werthu*
Po ceiſi na'r Gythrel, na'i fam godi Capel,
  Wrth ochor dy demel er dime'n y dydd,

I

I gadw Tafarndy cyhoeddus yng-Hymru,
  Fe gae ni gennadu yn uſudd,
Duw dere oth arfer a chyngor ar fyrder,
  Torr lawer o'r nifer, ſy'n nafu'r byd,
Cyn bwyttont eu gilydd cyn nafont y gwledydd,
  Cyn llygront dy lan grefydd hyfryd.
Mae'r gweiſion mor ‖ ddainti na fynent hwy goffi,
Ond gwyn fara ei meiſtri neu fuſtro a wnant ‖ Foethus
A'r merched ar gyflog ond odid yn feichiog, * cadw
  Am fod yn rhy wreſſog meddant. ſtwr.
Mae pob rhyw o alwad, yn ddibris am danad,
  Yn ceiſio ei codiad, ai cadw ei hun,
Heb geiſio d' ogoniant ti Arglwydd ein llwyddiant,
  Na'th fawrglod na'th foliant na'i 'mofyn.
O achos gan hynny fod pawb yn troſeddu,
  A phob gradd yn pechu a'i buchedd ar draws
Di geiſiaiſt trwy fwyndra ac enyd o waſcfa,
  I'n cyffro i wella ein drwg naws.
Yn fwyn ac yn ſerchog fel Arglwydd trugarog,
  A fae'n dra chwannog i'n hynnill drwy dêg,
Di geiſiaiſt yn dirion, trwy amryw fendithion
  In tynnu ir ffordd union yn loywdeg.
Pan ffaeliodd dy fwynder wella'n drwg arfer,
  Bygythiaiſt a chryfder a llymder i'n llâdd,
Hogaiſt dy glodde, golymaiſt dy ſaethe,
  Paratoiſt dy arfeu i ymladd.
Ond gwedi ti ymgweirio, rhoeſt rybudd cyn clwyfo
  Bygythiaiſt cyn taro a'n torri ni i lawr,
Offrymaiſt i'n ffafar, o byddem ni edifar,
  A ninne'n dy watwar yn ddirfawr.
Pan welaiſt Dduw cyfion na thyccie fygythion,
  Di yrraiſt yn llymion dy ſaethe i'n lladd,
A'n curo a'n corddi a llawer o ofidi,
  Na allem na'i dofi nai gwrthladd.
Gelwaiſt dy weiſion, * mwrſtriaiſt d' angelion * *rhifaiſt*,
  A'th dri march mawrion, Côch glâs a du. *Dat.* 6.
A gyrraiſt hwy'n ddiriaid, a'r holl greaduriaid,
  I'n plagio fileiniaid a'n gryddfu.

Rhoeſt ddu-rew digaſſag haſ poethlyd * anffodiog,
  Gwynt ſtormus ſcethrog yn ſcathru'r yd, * aflwyddianus.
Llifeiriant i'n ſoddi ar moroedd i'n boddi,
  A chan ryw oſidi i'n herlyd.
Twymynne cynddeiriog drudaniaeth digaſſog
  Marwolaeth llym oriog mewn llawer mann,
A yrraiſt in cyffro i bryſur repentio, * anwadal
  A'n ‡ cathrain ith geiſio yn gyfan. ‡ Deiſyf.
Pan welaiſt na alle hyn oll o ddiale,
  Ein dadtroi o'n beie, i wellhau'n byd,
Di yrraiſt drachefn hir newyn a chwarren,
  A rhyfel aflawen i'n herlyd.
Y chwarren y laddodd ddiharebrwydd o filoedd,
  Mewn amryw leoedd a gormod llid,
Nes llenwi'r monwentydd a thlodi'r holl drefydd,
  Lle gyrraiſt dy gerydd i'w hymlid.
A'r rhyfel anffodiog, y ddaeth yn ddigaſſog,
  Cledde yn llidiog i'n tlodi a'n lladd,
Nes difa'n rhyfelwyr, a'n tryſoi a'n llafur,
  A'n gyrru'n ddi-gyſſur i ymladd.
Soddaiſt ein llonge, diddymaiſt ein * plotti * bwriade
  Traeſt fin ein cledde taflaiſt ni ir clawdd,
Dallaiſt ein doethion dychrynaiſt ein dewrion
  Gwerthaiſt ni ir caſſion a'n ceiſiawdd.
Y Cornwyd ar Gleddy, y wnaeth i ni grynu,
  A dechreu difaru dau ſoreu neu dri;
A chanlyn a chrio am dynnu'r plag heibio
  Nes itti lwyr wrando ein gweddi.
Pan dynaiſt di'r Chwarren a'r rhyfel aflawen
  Ni droeſom drachefen dri chyfydd i'n hôl;
Fel cwn at eu chwdfa, ith ddigio a'th hela,
  Yn dofi a'n difa 'n anffatriol:
Gan hynny di yrreſt y Storom a thempeſt,
  Ynghanol y gloddeſt i'n Plagio a gwlaw;
Nes mafu'n cynhaua a defnydd ein bara,
  A choſpi'n hir draha a churlaw.
*Tywalltaiſt dy felldith mor drwm ac mor dryfrith,*
  Ar farlis a gwenith a phob ymborth gwr.

Fe

Fel y gwrthneba niſeiliaid ei ſwytta
  Ni phraw'r cwn mo ſara y llafurwyr.
Mae'r March yn ffieiddio ar Mochyn yn gado
  Y llafur ſy'n llwyddo ar egin yn llawn,
Gan gynddrwg aflaſus, yw'r pilcorn ar barlis
  Y gaed o'r anilis Yſgawn.
O Arglwydd ni haeddſon dy felldith yn gyfion
  Ar lafur or ſiſgon a'r ſaſced a ſtor,
A newyn a nychdod, am hir anuſydd-dod,
  O ddiffyg it ragod ein geror,
Ein dirmyg a'n traha, ar ddiod a bara,
  A bair i ni ſwyta oni attal Duw ;
Y ffacpys ar callod ac ymhorth neſeilod,
  Ar crwſt ym ni'n wrthod heddyw,
Ni ſuom yn poeri y blawd oedd a rhydi
  A'r bara a'r pinni ni bwriem o'n pen ;
A'n begers mor ſoethus yn taoru ar ſarlis
  Ni phroſent ond canis * haychen. * yn agos,
'Ni fuom yn bwytta Gorfoddion o ſara,
  Fel pobol Gomorra'n cam arſer eu byd,
Heb ddiolch am dano na ſwpper na chinio,
  Nes i ni dy ddigio yn danllyd,
Ni fuom yn yfed, nes myned cyn dynned,
  Na allem ni gerdded, na myned, o'r mann
Nes arllwys ein ceudod, lle hyſsom ni'r ddiod,
  Yn waeth na'r niſeilod allan:
Bu deie'n taſarne, yn llawnach ddydd ſulie,
  O addolwyr eu bolie, yn addoli diawl,
Nag oedd ein heglwyſydd o ddynion o greſydd
  Ith 'ddoli di'n uſydd, Duw neſawl.
Tair gwaith o leia, y llanwn ni'r bola,
  Bob dydd pan bo bycra, gan bori ein bwyd :
Ond prin mewn ſaith die y coſiwn ni dithe,
  Syn llanw ein bolie a bras ſwyd.
Ni flinwn yn ebrwydd, yn d' eglwys o Arglwydd,
  *Er maint yw ein haſlwydd an hoſlyd * tra* * Balchder
Ni flinwn ni'n aros, mewn taſarn dros wythnos,
  Er oered o'r hirnos aia;

Fo

Fe yſ un cyn cinio, o ſir a thybacco,
  Faint y ddigono ddeugeinyn ar bryd:
Fe chwda drachefen, gan dynned ei botten,
  Heb feddwl am amgen a gofyd,
Mae'n meddwdod yn crio am newyn in pigo,
  Mae'n gloddeſt yn ceiſio dwyn prinder i'n ceſſ,
Mae'n hafrad yſowaeth yn gofyn drudaniaeth,
  A hirbryd trwy hiraeth ein cawell.
Yn gyfiawn gan hynny, O Arglwydd y gallu
  A newyn ein gryddfu am wrthod grâs;
A thorri a difa cynhalieth ein bara,
  A phere i ni fwytta ein carcas. * Cnawd.
Ond Arglwydd trugarog er mwyn dy eneiniog,
  Na ddanfon yn llidiog hir newyn i'n lladd,
Na nychdod ein gryddfu, na phlag i'n difethu
  Na rhyfel na chleddu i'n * gwrthladd. * Gwrthwy-
Ond madde yn raſſol ei trawſedd ‖ anguriol, nebu.
  Na wna ni yn Siampol, i bobol y byd: ‖ Rhyfeddol,
Ond arbed ni'n dirion a gwella'n harferion,
  A newid ein ffinion fywyd
Nac edrych Dâd cyfion ar droſſedd dy weiſion,
  Na'm beie mawrion, i'n lladd gan ei maint:
Ond edrych yn hyfryd, ar angen d' anwylyd,
  I ddofi dy danllyd ddigofaint.
Er mwyn ei rinwedde, a'i fywyd a'i ange,
  Ai fydd-dod ai wrthie ai werthfawr-waed,
Madde in i baſſwys tro ni ir ffordd gymmwys,
  A chadw ni yn dy eglwys yn waſtad.
Golch ein pechode, yng-waed ei welie,
  Croes-hoelia ein beie, a'n grygie ar ei groes,
Rhwyga'n ‖ bligaſſiwn, a dyro i ni bardwn, ‖ rhwym
  Er mwyn ei ddryd ‖ baſſiwn a'i hir loes. ‖ Ddiodde-
Na alw ni i gyfri, am dan ein drygioni, faint
  Na ddere i'n coſpi, am ein gwegi a'n gwaith:
Ond arbed dy weiſion, er mwyn dy fâb gwirion,
  A'th wnaeth yn dra boddlon unwaith.
A danfon dy yſpryd, i wella'n drwg fywyd,
  A'n helpu ddychwelyd, a chalon iach,

It

th gywir waſanaethu, a'th ofni, a'th garu,
A'n ‡ deor i bechu dim mwyach, ‡ *rhwyſtro*
Duw attal dy wialen, dad-ddigia drachefen,
Tro dy wyneb yn llawen, nad newyn i'n lladd:
Madde'n troſedde gwir wella'n drwg-nwyde,
Sanctoiddia'r calonne ſy'n d' wrthladd. * *Lawenydd.*
Duw gwella di'r tywydd, bendithia di'r maeſydd,
Tro'n triſtwch yn * wenydd, na newin i ni:
Rho rad ar y fiſgawn, gwna'r farchnad yn gyflawn,
Diwalla ni a'th radlawn ddaioni.
Rho ymborth ir Ghriſtion, rho ogor ir eidion,
Rho'r ſengyl ir gwirion y garo'r gair; ‡ *Anrhydedd.*
Rho heddwch ir deyrnas, ac iechyd ac urddas,
In pen * Llywydd *Charles* ddiwair. * *rheolwr.*
Mil chwechant ac ugain, a naw mlynedd cywrain,
Medd holl ddoethion Brydain oedd *oedran ein brawd*,
A'n Prynwr, a'n ceidwad, pan gwympodd y gawad,
Y lanwodd y farchnad a chwd-flawd.

RHeolwr y neſoedd a'r ddaiar a'r moroedd, *Arall*
*A'r tywydd, a'r gwyntoedd a'r glynoedd, a'r glaw*
Clyw gwynfan toſturiol, ac achwyn dy Bobol,
Gan dywydd dryc hinol a hir law.
*Y mae'r Gwynt, y mae Tonne, mae'r glaw a'r diale*
*A'r Sêr yn eu gradde; a'r neſoedd yn grych,* Barn. 5. 20.
Yn ymladd i'n herbyn droſſeddwyr eſcymmyn,
I'n plago a newyn yn ſynych.
Mae'r haul oedd i'n porthi, gwres a goleuni
Yn awr gwedi ſorri yn edrych yn ſur,
Gan ballu rhoi thwymder, a'i gwres wrth ei harfer,
Nes pydru'r naill haner o'n llaſur.
*Mae'r Lleuad yn wylo, fel Gwraig y ſae'n mwrnio*
*Bob nos mae'n ymguddio, mewn cwmwl o'n gwydd,*
I ollwng ein deigre, gan amled o'n beie,
Nes ſoddi'r *Llaſurie* ag aflwydd,
Mae'r tonne cynddeiriog a'r wybren gaſodog,
A'r cymmyle glybyrog yn glawio bob awr
Afonydd o ddrwg ſyd gan gynddrwg o'n bywyd,
I'n blago ag adfyd yn ddirſawr.

Mae'r ‡ ormes yn ſathru y llafur ſy'n tyſu ‡ *orthrymaid.*
Mae'r gwynt yn cawdelu y dalo o ſrig,
Nes iddo ddihidlo, mallu, ac eginio,
Gan wlaw yn ei guro yn ffyrnig.
Mae'r llafur ſ'eb fedi, yn barod i golli,
Heb dywydd i dori, na'i daro ynghyd,
Mewn cyflwr anhygar ; Duw moes i'n dy ffafar
I gwnnu o'r ddaiar topaſlyd.
Mae'r maint ſy'n ei helem, fel gwellt yn y dommen,
Yn ddigion anghymen, yng || hwman y dâs || *Bola.*
Yn twymo, yn mygu, yn llwydo, yn mallu,
A chwedi llwyr bydru o gwmpas.
Mae'r maint ſy'n yn ſcubor, gogyfor a gogor
Yn twymo heb gyngor, yn mygu heb gol,
Yn barod i nynu mab Duw dere i'n helpu,
A nad ti lwyr fethu ein trafel.
A'r maint ſydd ac feder ein cinnio a'n ſwpper,
Sydd gynddrwg ei biner, a'i dymmer mor doſt
Ac oni chawn gennyd Duw graſſol gyfrwyddyd,
Fe'n * plagir ni ag adfyd hir doſt, * *Coſpir.*
' Agor dy lygad, O Arglwydd ein ceidwad, † *Ofnadwy.*
'A Chenfyd mor irad, id weled mor † hyll
'Holl ymborth Chriſtnogion yn pydru, mor ffinion,
'O eiſie cael hinon i gynnull.
Duw graſſol toſturia, difwynodd ein bara,
( Hir nychdod y faga dan fogel dy blant )
O diffyg it ei rwyſtro, a'i ddyfal fendithio,
A rhoddi rhâd arno a llwyddiant.
'Duw beth y feddyliwn, am had yd y gwanwyn
'O bwy le ei ceiſiwn, o cawn fyw yn cyd,
'Mae pawb yn achwyngar, ddifwyno ei holl heiniar
'Duw dangos dy ffafar am had yd.
Duw graſſol toſturia, wrth ddefaid dy borſa,
Na thorr ffon ein bara i beri i ni boen, *Eſa.* 3. 1
Madde'n troſedde, gwolla'n drwg nwyde,
Cyſſura'n calonne † dihoen. † *Di lawenydd*
'Gorchymmyn i'r haul-wen, ymddangos dracheſn,
'Gwna'r lleuad, a'r Seren yn ſiriol i'th Saint ; Rh

'Rho hinon a chyſſur, i'r poenfawr laſurwyr:
'A Doſa dy bryſſur ddigofaint.
† Rhwylla'r wybrenne, a gwaſcar y cwmle † *Agor.*
Cerydda'r cafedo ‡ cu ydwyd a rhwydd, ‡ *cariadus.*
Goſtega'r doſt ormes, Rho degwch a chraſtes,
I'r llafur anghymes, Arglwydd.
'Ond yma Duw'r gallu 'rwi'n brudd yn cyffeſu,
'Mae'n pechod ſy'n tynnu'r fath ddial ar ein traws
'Ath ſtormydd anraſſol a'r tywydd drychinol,
I'n coſpi dy bobol rhy-draws.
Di lenwaiſt ein bolie, mor gyflawn a'th ddonie,
Na chodem o'n heiſte i oſtwng ein glin,
I roddi it foliant na chlod am ein porthiant,
Nes tynnu aflwyddiant i'n dilyn.
Yr eidion ar aſſen a edwyn eu perchen,
A'r ci ſydd llawen wrth ei portho a llaeth:
Ond pobol ddiwybod ni ſynant gydnabod,
Nac adde mae'r Drindod ei Tadmaeth.
Yr wyt yn ein porthi, ag amryw ddaioni,
Fel un a ſae'n peſci paſcwch yn rhin;
Ni chodwn on penne i weld mwy nag ynte,
O ble mae'r fath ddonnie yn diſgyn.
Gan hynny di yroſt y ſtorom a thempeſt,
I goſpi ein gloddeſt a dryc-hin a glaw;
I beri i ni nabod, a gweled mae'r Drindod,
Sy'n porthi ni yn waſtod a'i ddwylaw,
Er maint o ddiale y roeiſt am ein penne,
I goſpi ein beie, gan gynddrwg ym yn byw;
Ni buom er y ‖ concwoſt yn byw mor anoneſt ‖ *ar amſer*
A chymaint ein gloddeſt ac heddyw: William
A'r ſtorom yn chwythu a'r glaw yn ein gryddſu, *Gong-*
A'r llafyr yn pydru, heb adrodd ond gwir, *cwerwr.*
Yn Heie'r Tafarne yn chwydu ddydd Sulie,
A'r gablu rym ninne rhai anwir.
Pan ddylem weddio; a phryſſur repentio,
Mewn llwch, ac ymgrimo am bardwn a grâs,
A'th gywir waſnaethu, roem ninne'n dy gablu,
A'th rwygo a'th regu'n ddiras.

Pa fwya y ceiſiwyd ein troi a'n dymchwelyd,
  A gwella ein bywyd, a 'madel a'n bai,
Waeth waeth y pechem fwy fwy i'th ddigiem,
  Saith bellach y ciliem ninnai.
Po fwya ddiale y roed am ein penne,
  Bid newyn bid cledde, bid clefyd, bid glaw;
Fwy fwy fel *Pharo* yr ym yn dy gyffro,
  I'n poeni a'n plago a hir-law.
Nid 'rhyfedd gan hynny, dy fod yn ein maeddu,
  Gan ddyblu a threblu ein maethgen a thrwſt,
Ond mwy o ryfeddod na roit 'ni ddyrnod,
  A'n taflu i'r pwll iſſod yn ddidrwſt;
*Duw madde'u ſtyfnigrwydd, Duw do ſath lidiawgrwydd*
  Tyn ymmaith ein gwradwydd, a'n haflwydd hir;
Rho râs i ni fedru, fel *Ninif* ddifaru,
  A'th ddyfal waſanaethu yn gywir.

*Rhybydd i* Cymru *i edifarhau ar yr amſer yr oedd y* Chwarren *fawr yn* Llundain.

† *Galaru.*  Cymru, *Cymru*, † mwrna, mwrna,
  Gad dy pechod, gwella gwella,
Rhag ith bechod dynnu dial,
A digofaint Duw ith Ardal.
  Mae dy bechod gwedi dringad,
Cuwch a'r nêf yn crio'n irad,
Am ddiale ar dy goppa,
Megis *Sodom* a *Gomorrah*.
  Mae e'n gweiddi nôs a bore;
Fel gwaed *Abel* am ddiale:
* *Gau.*  Nid oes dim a * ſtoppia ei ſafan
Ond plâg Duw neu wella'n fuan.
  Mae e gwedi nyrddo'r ddaiar;
Fel pechodau'r Cowri cynnar;
Ac yn gofyn dy ddyſgybo,
‡ *Edifarhau.*  Oddi arni, neu ‡ Repento.
  Nid oes cornel mwy na *Ninif*,
Na bo'n llawn o feic anneirif,
Na chrach bentre na bo pechod,

Yn ſwrddanu cluſtiau'r Drindod.
Nid oes unrhyw radd na galwad,
Na bo gwedi ymlygru'n nad,
Ac yn ſynnu fel wrth reſſyn,
Blag a dial a dy * gobyn.	* Goppa
Mae'r Penaethiaid bob yr un
Yn ceiſio 'i mawl a'i lles eu hun;
Ac heb ymgais am wir grefydd,
Moliant Duw, na lles y Gwledydd.
Mae dy ffeiriaid hwyntau'n Cyſgu;
Ac yn gado'r bobol bechu,
Ac i fyw y modd y mynnon,
Heb na cherydd, na chynghorion.
Mae dy Farnwyr, a'th wyr mawrion
Yn cyd-ddwyn a Mwrddwyr, meddwon;
Ac yn godde treiſwyr diriaid
Speilio'r gweddwon a'r ymddifaid.
Mae'r Swyddogion hwyntau'n godde,
Cablu Duw, a meddwi'r Sulie,
Troedo'r ſengyl, caſau'r cymmyn,
Heb na chosp na cherydd arnyn,
Mae'r Shirifiaid, a'u debidion,
Yn anrheithio'r bobol wirion,
Ac wrth rym ei braint a'i ſwydde;
Yn eu ſpeilio liw dydd gole.
Mae'r Cyfoethog hwyntau'n llyngcu,
Faint ſy'n helwr tlawd ynghymru,
Ac wrth renti'n doſt, ac occra,
Yn eu gyrry hwy gardotta.
Mae'r cyffredin o bob rhyw,
Yn * delo'n ffalſt, yn ddigio Duw,	* Gwneuthur
Yn ddall yn ddwl heb ſynnu eu dyſgu,
Yn mynd i'r pwll, heb odde eu nadu.
Mae pob gradd yn pechu'n rhigyl,
Ac heb wneuthur pris o'r ſengyl,
Nac o gyfraith Duw gorucha,
Yn addoli'r byd a'r bola.
Mae pob gradd a thraſſau pechod,

Yn dirdynnu dial hynod,
Am eu penhu heb doſturi,
Oni thront oddiwrth eu brynti.
Mae'r fath feddwdod, mae'r fath dyngu
Ma'r fath gamwedd ynnot *Cymru*,
Ar fath waugred a gau dduwiaeth,
* *O'i fath.* Na bu 'nghred ei * ſut yſywaith.
Mae Duw cyſion yate'n canfod
Drwg ymddygiad pawb ai pechod,
Ac yn rhwym wrth ſwydd a nattur;
*Heb.* 10. 30. Ddial ar y fath droſſoddwyr
† *Ymbil.* Er ys dyddie mae'n † ymhwedd,
A'th holl blant am wella eu buchedd,
Eiſie gwella mae'n ‖ bwriadu
Weithian diale camwedd *Cymru*:
Duw a'th ddododd yn y taſſau;
Duw a'th gafodd lai na phwyſau,
Duw y ſyn rhoi maethgen itti,
Oni throi oddiwrth dy frynti.
Eiſie *Cymru* gymryd rhybydd,
Oddiwrth *Loeger*, yn ei holl gyſtydd,
Mae gwialen gwedi gwlychu,
Yn y Sicc ar feder *Cymru*.
Y mae plâg yn ôl dy bechod,
Gwedi lunio gan y Drindod,
Ac yn barod ddwad attad,
O waith cynddrwg o'th ymddygiad;
Y mae'n crogi uwch dy gobyn,
Ddydd a nos fel wrth edefyn,
Ac yn barod iawn i ſyrthio
Oni throi di a repentio.
Yr wyt tithe yn pentyrru,
Plâg ar blâg, heb edifaru,
Ac yn cam arferu'n rhyfedd,
Ffafar Duw a'i hir amynedd.
*Rwyt ti beunydd yn mynd waeth waeth*
Ac yn pechu fwy fwy 'ſywaeth;
*Rwyt ti'n tybied fod Duw'n cyſgu,* Tra'n

Tra'n dy † gathrain i ddifaru.

*† Delyf etand ti.*

Rwyt ti'n hwrnu yn dy bechod,
Heb yſtyried na chydnabod,
Fod Duw'n hogi'n llym ei gledde,
Trech ti'n hepian ar dy feie.
Edifara yn brûdd gan hynny,
Cyn del plag ith ardal *Cymru*,
Cyn y tynno Duw ei Gledde,
Cais ei ffafar ar dy linie.
Os digofaint Duw a nynna,
Pwy o'r holl fyd ai diffodda,
Os y chwarren wyllt a ddenfyn,
Pwy a'i tynn y maes o'th derfyn.
Os yr Arglwydd dig a ddechre,
Ladd dy blant a'i fôlt ai gledde:
Pwy all gadw rhag ei ddyrnod,
Un o'th blant os torri'r Drindod.
Gwel y lladdfa y wnaeth e'n *Llundain*,
Er maint oedd eu cri au llefain,
iſie gwneuthur hyn mewn amſer,
'e ddifethodd fwy nai hanner.
Gwyn gan hynny gwachel oedi;
lwyr ymwrthod a'th holl frynti:
lef am râs cyn del dy faethgen,
oru yſgatfydd y daw'r chwarren.
Mae dy blag mewn cydau Lliain,
tto'n ſiopeu * *Merchants Llundain*;
e ddaw'r plâg oddiyno i *Gymru*,
s ar fyrder ni ddifaru.

** Marſiandwyr.*

Os i *Gymru* y daw'r cornwyd,
ch! mor am-mhardol ydwyd,
ynd ir barr i wneuthur cyfri,
eb na gwiſc na dim goleuni.
Os i *Gymru* y daw'r clefyd,
fer ceiſio un gyfrwyddyd;
id yw'r byd yn abal ‡ ſtoppi,
int pan ddelo Duw i'n coſpi.

*‡ rhwyſtro.*

Ofer ceiſio Saeds a Ryw,

I wrthnebu Cleddu Duw:
Oni throi oddiwrth dy bechod
† *Meddyginiaeth.* Ni thal * metſwn un o'r chwilod.
Ofer cadw pyrth dy Dreſydd,
Fe ddaw'r plag dros ben y gwledydd,
* *Dryll mawr* Ni all Peics na * dwbwl Canon,
Attal plag os Duw ai danfon.
Ofer rhedeg hwnt ac yma,
Geiſio cilio rhag dy ddifa,
Dos lle mynnech ſy ſyn dyrnod,
Duw ai farn orddiwes pechod.
Goreu cyngor rhag y plag
*Amos*, 9. 2, 3. I ddyn gadw ei hun yn wag,
Nid rhag bwyd ac nid rhag diod
Ond rhag pob rhyw fath o bechod.
Os daw plag i goſpi *Cymru*,
Fe ddaw newyn i'th gaſtellu,
Triſtwch cerydd cas ac ofan;
Ni ddaeth plag erioed ei hunan.
Fe fydd dryg-fyd yn dy Dreſydd,
Fe fydd ochain rhyng dy welydd;
Fe fydd cwynfan ym mhob heol,
Fe fydd braw ar bawb o'th bobol.
Cariad brawdol a ddiffoddodd
Pob credigrwydd y ddifiannodd,
A naturiaeth a charrenydd,
A lwyr gollant ei cydnebydd.
Ni ddaw 'i fam i drin y ferch,
Na'r wraig ei gwr er maint ei ferch,
Na'r chwaer ei brawd na'r tad ei blentyn,
‖ *Pla.* Cas a thriſt, a thrwm yw'r ‖ cowyn.
Y mab y ladd ei dad ai anal,
A'r fam ei phlant er maint ei gofal,
A'r wraig ei gwr wrth roi ochenaid,
A'r brawd ei chwaer a'i holl gyfneſſiaid.
Y marw ladd y byw a'i claddo,
A'r gwan y gwych a ddel yw drinio,
A'r claf yr jach a fo'n ei faethu;

M

Mor gâs mor ffin yw'r plâg wrth hynny.
  Dyn ar plag ſy'n lladd a'i ddillad,
Fel y *Baſſiliſc* a'i lygad,
Ac a'i anal ſy'n gwenwyno,
Fel y § *Cocatrus* y granſio.
  Y plâg y bair i bob cymmydog,
Gaſhau'r llall fel ci cynddeiriog,
A chyfathrach ffrins a chenel
Gaſhau Câr fel blaidd neu gythrel.
  Hyn y bair garcharu'r cleiſion,
Yn y tai fel § Traetwyrs ffeilſtion,
Ai dchoryd i fynd allan,
I gael bwyd dros aur ac Arian.
  Yr Aur a ladd y rhai derbyniant,
Y ‖ ſtwff y ddiſa'r rhai ai § medlant,
Pan ddel plag er maint or diffyg
Ni thal arian fwy na cherrig.
  Hyn y bair ith bobol Cymru,
Pan ddel chwarron hir newynu,
Pan na chaffer bwyd dros Arian,
Na dim cymmorth er ei fegian.
  *Dy blag y ddaw yn § ym wngc hefyd,*
Fel y dilyw ar y cynfyd,
Neu'r tan gwyllt y ddoeth ar Sodom,
Yn ddi rybydd fel y § Storom,
  Pan fych bryſur yn ymdwymo,
Neu'n y Dafarn y § carowſio,
Neu'n cynhennu yn y farchnad
Y daw'r plag yn ymwngc arnad.
  Os mewn tafarn os mewn Stewdy,
Os mewn marchnad neu ddadleudy,
Os mewn maes ith derri'r cowyn,
Dyna'r man lle bydd dy derfyn.
  Yno cei di megis nifel,
Farw'n ymwngc trwy fawr drafel,
Heb un dyn i § weiniſ itti,
Na'th § areilia, na'th gomfforddi.
  Ni ddaw meddyg, ni ddaw ffeiriad,

§ *Math o Sarph.*

§ *Yr un ar Baſiliſc medd rhai.*

§ *Bradwyr.*

‖ *Dodrefn.*

§ *Cyffwrdd.*

§ *Diſymwth.*

§ *Temeſtl.*

§ *Yſed.*

§ *Butteindy.*

§ *waſanaethu*

§ *Ofalu.*

Ni ddaw ffryns yn agos attad,
Nac un carwr o'th holl genel,
Mwy nag at ryw anfad ‡ Rebel.
  Ni chei neb a ddel ith drinio,
Nac i'th eſtyn na'th ymwiſco,
Nac i'th arwyl nac i'th gladdu,
Ond a chladdiad buwch o'r beudy.
  O! pwy angeu O! bwy benyd:
‡ *pa.* O! pwy blâg a diwedd aethlyd?
O! pwy felldith a throm fforten,
Ydyw marw yn llyn o'r chwarren?
  Hyn i gyd a welodd *Lloeger*,
Yn nhre *Llundain* yn hwyr amſer,
Hyn a weli dithe Cymru,
Os a'th bechod ni 'madewi.
  O! gan hynny *Cymru* yſtyr,
Mor anhawddgar mor ddigyſur,
Mor ddigariad mor aflawen,
Ydyw marw yn llyn o'r chwarren,
  Dymma'r Angeu wyt yn haeddu,
Am dy bechod Cymru, Cymru!
Dymma'r Angeu ſy ar dy ſeder,
Oni throi at Dduw ar ſyrder.
  Mae Duw'n diſgwyl er's dyddie,
Am it droi a gado'th ſeie,
Eiſie troi mae Duw yn barod,
A phlâg ddial dy holl bechod.
  O gan hynny Gymru mwrna,
Gâd dy bechod edifara,
Dyſc gan *Ninif* geiſio heddwch,
Cyn del dial a diffaethwch,
  Cyn y tynno Duw ei gleddau;
Cais ei heddwch ar dy liniau,
Rhy ddiweddar it ymbilian,
Gwedi tynno ei gleddau allan.
  Cwymp i lawr wrth draed dy brynwr,
Megis *Magdlen* wyla'r hallt ddwr:
Sych a'th wallt ei ddou-droed raſſol,  Fe

Fe ddiddana'r edifeiriol.
Cyfod Allor megis Dafydd, 1 Cor. 21.
Offrwm iddo Yſpryd cyſtudd: *Pſal.* 51. 17.
Deiſyf arno * ſtoppio'r Angel, * *Attal.*
Sydd ar feder lladd dy genel.
Mwrn * mewn Sach fel pobol *Ninif*, * *Galaru*
Tro oddiwrth dy feie anneirif; *Jonah.*
Duw newidia'th farn a'th ferdid,
Os tydi newidia'th fywyd.
Tramwy i'r Demel nôs a Dydd,
Megis *Aaron* mwrna yn brudd,
Llef am râs ar Griſt dy geidwad,
Cyn y delo'r Cowyn arnad.
Cur dy ddwyfron yn gyſtuddiol,
Fel y Publican edifeiriol,
Cais gan Dduw doſturio wrthyd,
Cyn i'th dorrer ffwrdd ar clefyd.
Bwytta beunydd fara dagrau,
Megis *Dafydd* am dy feiau;
A gwna'th Wely'r Nôs yn foddfa,
Cyn i'r chwarren wyllt dy ddifa. *Pſal.* 6. 6.
Saf fel *Moeſen* yn yr * adwy, * *Bwlch.*
Lle mae'r Plag ar feder tramwy,
Cais gan d' Arglwydd droi ddigllonedd,
Felly dengys it drugaredd.
Megis *Phinees* cymmer * fiaſlyn, **Gwaywffon*
Lladd y rhai ſy'n peri'r cowyn, *Num.* 25. 7.
Coſp ar gyfraith afreolaeth,
Duw a'th geidw rhag marwolaeth.
Gado *Sodom* tynn i *Zoar*,
Gwachel ddyſtryw bydd edifar,
Gwrando'r Angel ſy'n rhoi rhybudd,
Cyn y dêl y plâg i'th drefydd.
Gado'r Môch a'r Bobol feddwon,
Fel y gado'r Mab afradlon,
Tyn i Dy dy Dad rhag newyn,
Cyn dy dorri lawr a'r cowyn. *Mat.* 26. 75.
Tynn fel *Peder* i ryw gornel,

Wyla'n chwerw dros dy genol,
Y mae 'r ceiliog yn dy gofio,
* Coſpi. Cais drugaredd cyn dy * blagio.
Gwna dy gwnt a'th gyfri 'n barod,
Cyn dy fynd o flaen y Drindod,
Mat. 22. 12 Nynn dy lamp a gwiſo dy drwſiad,
13. Cyn y delo 'r chwaren arnad.
Mat. 25. 4. Chwym yw'r chwaren pan ei delo,
* Amſer. Ni ry * reſpyt it ymgweirio,
Bydd barodol yn ei gwiliad,
Bob yr awr cyn deloi attad.
Os ymgweiria Cymru farw,
Ac i fynd at Dduw yn hoyw,
* Tybygolaf, * Hawſa i gyd i Dduw dy ſpario,
A rhoi iechyd hir it etto.
Duw fo graſlon wrthyd Cymru,
Duw ro gras it edifaru ;
Duw 'th achubo rhag y chwarren,
Arall. Duw ro itti Flwyddyn lawen.

CYmru Cymru mwrna mwrna,
Cwyn fel *Ninif* edifara,
Gwiſc dy ſach cyhoedda ymmpryd,
Llêf am ras a gwella'th fywyd.
Y mae *Lloeger* dy chwaer hynna,
Yn dwyn blinder toſt a gwaſgfa,
Dan drwm wialen y Duw cyfion,
Sy'n maddeu yn dra chreulon.
Y mae'r Plag yn difa ei phobloedd,
* Fflam. Fel Tan gwyllt y ddoi o'r Nefoedd,
Ac fel gwaddath ar ſych fynydd,
Yn goreſcyn ei holl drefydd.
Mae'n hwy'n meirw yn ddiaros,
Wrth y miloedd yn yr wythnos,
Ac yn cwympo ar ei gilydd,
Yn gelannedd mewn heolydd.
* cyfarwydd- Nid oes eli nid oes * metſwn,
yd. Nid oes dwr na deigre miliwn,
All ei ddiffodd, o'ch na'i laeſu,

Ond trugaredd Duw a'i allu.
Y mae *Llundain* fawr yn || mwrno,
Fel *Caerſalem* gwedi anrhethio;
Nid oes dim ond ochain ynddi,
Cwynfan tôſt a llêf annigri.
Mae'r fath alar, mae'r fath driſtwch,
Mae'r fath gwynfan a thrafferthwch,
Mae'r fath wewyr a'r fath ochain,
Na bu'r fath erioed yn *Llundain*.
Mae pob grâdd yn gweld yr Ange,
Ger ei bron yn cwnnu ei gladde,
Ac yn diſgwyl heno heddy,
Am y cart i dwyn i'w claddu:
Y mae'r Gwyr yn gweld y gwragedd,
A'u Plant anwyl yn gylannedd,
Yn y tai yn dechre * ſowſo,
Heb gael un dyn a'u hamwiſco.
Y mae'r gwragedd hwynte'n ochain,
Weld y gwyr a'u plant yn gelain;
Ac heb feiddio myned allan,
Yn gwall bwyllo'n flin gan ofan:
Mae'r ymddifaid bach yn gweiddi,
Yn y tai heb iw porthi:
Ac yn ſugno breſt eu mamme,
Gwedi marw er ys tridie.
Nid oes cymmorth, nid oes cyſur,
O'r nef o'r ddaer o'r mor nar awyr,
O'r Dre na'r wlad, o'r maes na'r winllan,
O'r Llann na'r Llys o'r gaer na'r gorlan.
Y mae'r jach yn gweld y trwcle,
Y fae gynt yn dwyn tommene,
Heb ddwyn dim o'r golo i gilydd,
Ond y meirw i'r monwentydd.
Mae rhai byw yn hanner marw,
Cyn del arnynt wyn na gwayw,
Wrth weld cymmaint yw'r diale,
Y'n digwyddo am eu penne.
Ni chair rhydd-dyd fyned allan,

|| Galaru.

* Drewi.

Ni chair bwyd i mewn dros arian,
Ni chair tramwy at un Chriſtion,
Ni chair madel a'r rhai meirwon.
Yn y tai mae'r plâg a'r cowyn,
Yn yr howl mae'r cri a'r newyn;
Yn y maes mae'r cigfrain duon,
Hwyntau'n pigo llygaid cleifion.
Y mae iowaeth Duw a dynion,
Gwedi gado'r rhain yn dlodion,
Heb roi help na ſwccwr iddyn
Yn eu nychdod tôſt a'u newyn,
*Dih.* 26. 28. Mae Duw'n chwerthin am eu penne,
* *Caued.* ' Ac a'i fys yn * ſtoppio gluſtie,
' Ac heb wrando gweddi canmil,
' Eiſie gwrando llais ei fengyl.
Y mae dynion anrhugarog
Yn eu ffoi fel cwn cynddeiriog;
Gwell yw ganthynt weled gwiber,
† *Gwr o Lundain.* Yn y wlad na gweled † *Lyndner.*
Waith bod dyn a'r plâg yn nyrddo,
Pob rhyw ddyn a ddelo atto,
Ac yn lladd a gwynt ei ddillad,
‖ *Sarph.* Fel y ‖ Baſiliſc a'i lygad.
Ni faidd Tad fynd at ei Blentyn,
Na gwraig dryn y Gwr a'r cowyn,
Na ffrind weld ei ffrind a'r clefyd,
Heb fawr berigl am ei fywyd.
‡ *Nafu.* *Y* mae'r fam yn lladd ai chuſſan,
Ei hanwylyd blentyn bychan,
Ac heb wybod yn andwyo,
Hwn a'r plag tra fytho yn ſugno.
*Y* mae'r Tad yn lladd a'i anal,
Ei blant anwyl yn ddiattal,
† *Sarph.* Ac fel † Cocatris gwenwynllyd
Yn ddi-ſon yn dwyn eu bywyd
*Y* mae'r plentyn y glefychodd
*Ynte*'n lladd ei fam a'i magodd,
* *Gwenwyno* Ac o'i anfodd yn * infectio,

Yr holl dylwyth lle bo'n trigo.
Mae'n hwy'n meirw yn ddiſymmwyth
Gwyr a gwragedd, Plant a thylwyth,
Wrth y pumcant yn y noſwaith,
Nes mynd *Llundain* megis anrhaith.
Mae'r fath wylo, mae'r fath ochain,
Ym mhob cornel o dre *Lundain*,
Ni bu 'rioed o'i fath yn *Rama*,
Gynt gan *Rachel* a'i chyfneſſa.
Mae'r offeiriaid a'r pregethwyr
Yn alaru maes o feſſur,
Weld eglwyſydd lle'r oedd miloedd,
Fel † llueſtai heb ddim pobloedd. † *Bwthau.*
Y mae'r * Merchants mawr a'u Shioppe * *Marſiand-*
Llawn o frethyn aur a laſie, *wyr.*
Heb gael gwerthu dim o'r llathaid,
I roi bara iw prentiſſiaid.
Y mae'r crefftwyr hwynte'n ochain,
Gwedi gweithio pethau * cywrain, * *Hardd.*
Heb gael un dyn yno yw prynu
Ac yn barod i newynu.
Mae lletteu wyr ar Gwyr mawrion,
A'r Arglwyddi, ar marchogion
A'u Hoſtrie mawr yn wâg,
Heb neb ynddynt ond y plag.
Y mai'r ‡ Water-men a'r Porters, ‡ *Badwyr.*
A'r * caraniſwyr oll a'r haliers, * *Rhai yn*
Heb gael lle i ennill dimme, *dwyn llwythe*
I roi bara yn eu bolie. *ar eu cefne.*
Mae'r Farchnatfa lle'r oedd llafur, † *Rhai yn*
Cig a phyſcod tu hwynt i feſſur, *hala cart.*
A phob moethi o'r danteithia, * *Rhai yn*
Heb na chig na blawd na bara. *lluſco pethau.*
Y mae llawer oedd yn ceiſio ‖ *Soflieir.*
Quails a † Pheſants erban cinio, † *Ceiliogau'r*
Nawr yn chwennych torri newyn *coed.*
Ar * bwr *Jon* a hên ymenyn. * *Phyſcod.*
Lle 'roedd beunydd fil o fade,

Yn

*balk ſych.* Yn dwyn ymborth, heb law llonge:
Nid oes heddyw bwnn yn dwad,
O flawd cawl, dros aur ir ſarchnad.
Lle 'roedd llawndid o bob ffrwythi
Ag oedd daer a dwr yn roddi
Nid oes heddyw ond y newyn,
Ar drudaniaeth waith y cowyn.
*§ Balchder.* Hyn yn barodd ein hen § draha
A'n glothineb, a'n putteindra,
A'n gau-dduwiaeth, a'n câs ſeddwdod,
A dirmygu'r gair yn waſtod.
*Deut* 28. 15 Dymma wabar, dymma ffrwythe
21. 27. Dymma gyflog ein pechode,
Dymma'r faethgen doſt haeddaſom
Am y bryntni gynt a wnaethom.
Dymma fel y gall Duw cyfion,
Dynnu lawr y trefydd mawrion,
Mewn byrr ennyd am anwiredd;
A'u daroſtwng am eu balchedd.
Dymma fel y gall Duw blygu,
Pobol drawſion y ſon pechu,
Ac heb wneuthur pris oi ddeddfe,
*‖ Goſod.* A'u ‖ committo dan law'r Angeu.
Hyn haeddaſom er ys dyddie,
Hyn y ddylem bawb ei adde,
Cyfiawn yw Duw a di[illegible]odd,
*Pſal.* 145. Yn ei ffyrdd a'i holl weithredoedd,
17. Ni hauaſſom bob diffeithder,
Gynt rhwng cwyſe anghyfiawnder,
Rym ni'n medi, rym ni'n caſclu,
*Y* crop y ddygodd pechod inni.
Dyma'r dial gynt addawodd,
Duw ei ddanfon ar y bobloedd,
Nâs gwaſnaethant a'i holl galon
Ac na chadwant ei orchymynnion.
*† Fe fu'r* Dymma'r faethgen y gaiff *Cymru*
*chwarren ar* Eiſie gwella a difaru,
*ei hyn yng-* A chymmeryd rhybudd dyner,

Odd

---

Oddiw
Pan
Ar y
Mae
Ar y
Pan
Rybud
Duw
Fel *Sa*
Pan
Oddiw
Ma'ma
Ar y
Pan
Dan ar
Ni ddi
Nes di
Pan
I dr *L*
Ma'rna
'R plag
Os p
I *Germ*
Eiſie i'r
F'aeth
Eiſie
Oddiwr
Y mae
*Yn* ſaith
Oni
Oddiwr
Ma'rnai
Blag yn
O gar
Gad dy
Dyſc ga
Cyn del
Cûr

Oddiwrth blag a dial *Lloeger.* *Hymru, a Rhyſel trwy 'r deyrnas.*
Pan y helodd Duw'r fath wialen
Ar y bobol dda o *Lunden,*
Mae arnai ofan y daw cleddu
Ar y bobol ddrwg o *Gymru.*
Pan na chymre bobol *Juda,*
Rybudd prûdd oddiwrth *Samaria,*
Duw rodd *Juda* i gaethiwaid
Fel *Samaria* dan law'r *Siriaid.*
Pan na chymer *Cymru* * warning, * *Rybydd.*
Oddiwrth *Loeger* yn ddidaring,
Ma'rnai ofan y daw dial, *Pſal.* 25 45:
Ar y *Cymru* a phlag * anial. * *Diffaith.*
Pan y glawiodd Duw gorucha,
Dan ar *Sodom* a *Gomorrah,*
Ni ddiffoddodd o'i lid tanllyd
Nes difethu *Zeboim* hefyd. *Deut.* 29. 23
Pan y helodd Duw y chwarren,
I d r *Loeger* ac i *Lunden,*
Ma'rnai ofan toſt na laeſa
'R plag, nes del ymweld a * *Chambria.* * *Cymru.*
Os pan helodd Duw a chledde,
I *Germania* a'i chyffinie,
Eiſie i'r *Ffrangcod* gymryd rhybudd,
F'aeth y cleddyf trwy ei holl drefydd.
Eiſie i *Loeger* gymryd § warning, § *Rhybydd.*
Oddiwrth *Bohem, Ffrainge a ffluſhing,*
Y mae Duw yn coſpi *Lloeger*
*Yn* ſaith gwaeth nag un o'r oifer.
Oni chymer *Cymru* rybudd
Oddiwrth *Loeger* driſt a'r chyſtudd;
Ma'rnai ofan gweld ar fyrder
Blag yng *Hymru* waeth na *Lloeger.*
O gan hynny *Cymru* * mwrna * *Galara.*
Gad dy bechod, edifara:
Dyſc gan *Ninif* geiſio heddwch
Cyn del dial a diffaithwch.
Cûr dy ddwyfron, wyla'r hallt ddwr,

Golch dy wiſc yng waed dy Brynwr,
Llef am ras, a gâd dy frynti,
*Joel.* 2. 12. Cyn dialer dy ddrygioni.
13, 14. Cyn y ſynno Duw ei gledde
Cwymp yn iſſel ar dy linie,
A chais râs a ffafar gantho,
Cyn i'r Ange dig dy daro.
Ofer crio gwedi'th glwyfer,
Ofer ymbil gwedi'th farner,
Ofer ceiſio torri'r wialen
Gwedi rhodder itti'r ſaethgen.
Cwyn gan hynny gwachel oedi,
‖ *Ebrwydd.* Bryſſia'n ‖ eſgyd, gâd dy frynti,
Gwel y farn ſydd uwch dy gobyn,
Tro, cyn caffoi arnad ddiſgyn.

### *Gweddi Eglwyſwr wrth fyned i ymweled a'r cleifion yn amſer y chwarren.*

DUW gwynn, Gwel mor beryglus
Yw ſwydd dy was trafaelus,
‡ *Myned.* Sydd yn twttan gaia a hâf,
At bob dyn clâf gwrthnebus.
Nid oes na gwr na bachgen,
Bid claf o'r frech na'r chwarren,
Neu ryw glefyd y fo gwaeth,
Nad wyfi gaeth i olrhen.
Os gwres os gwayw poethlyd,
Os chwys, os Twymyn ewchlyd,
F' orfydd myned uwch ei ben,
Bid claf o'r chwarren waedlyd.
A hyn ſydd dra echrydus
I galon egwan glwyfus,
Sydd heb bwer gantho ei hun,
I wechlyd twymyn awchus,
Gan hynny ar f' unig helpwr,
Am ceidwad am diffynwr,
Sy'n rheoli rhain i gyd,
Rwi'n crio'm mhryd am ſwccwr,

O Arglwydd mawr di elli,
Fy nghadw'n iâch os mynni,
Rhag yr heintiau hyn i gyd,
Er maint eu bryd im llyngcu,
Ac oni byddi helpwr
Im cadw mewn cyfyngdwr,
Nid oes le im ddiangc mwy,
Ond † ildio i nhwyn fel gwanwr. † Rhoddi lle.
Gan hynny Duw'r holl allu
Os d' wylla ſy'n cennadu,
Cadw fi dy waolaf wâs,
Rhag heintiau cas im cyrchu.
Tydi fy Nuw ſy'n clwyfo, *Hoſ.* 6. 1.
Tydi ſydd yn elio: 1 *Sam.* 2. 6.
Tydi ſy'n lladd ac yn bywhau
Tydi y gao'n * correcto. * *Ceryddo.*
an hynny tynna droſwyf
Dy adain fel dihangwyf;
ad i glwyf neu glefyd cas,
Ymlynnu a'th was dairol,
uw'r hwn y godwaiſt *Aaron*, *Num.* 16.48.
Yn iach ynghanol cloifion:
adw finne'n raſol rhag
Yr haint a'r plâg echryſlon,
i gedwaiſt *Abednego*
*Ynghanol* fflam heb dwymo,
adw finne 'nghanol plag, *Dan.* 3.
Er Jeſu nad ſy' andwyo.
i gedaiſt *Ddaniel* hefyd, ‡ *diſtrywiel*
O ſafn llew newynllyd, *Dan.* 6.
dw finne Arglwydd Dduw,
Rhag haint i fyw mewn iechyd.
telly mi'th folianna,
Mewn llan a llys a thyrfa,
a roddaf tra ynwi chwyth,
d ddiolch byth or mwya.

Fel

Dan. 6. 16. Fel *Aaron* yn y gangell
Pſal. 164. 2. Fel *Daniel* yn y ſtaſell;
Ac fel *Daſydd* tra ſwy byw,
Bendithiaf Dduw ſyng Haſtell.

---

## *Byrr yw oes Dyn:*

Job. 7. 6. FEl Gwenol *Job* mae'n hoes yn llithr
Fel Rhoſſyn *Daſydd* mae hi'n gwywo
1 Cor. 9. 24. Fel gyrſa *Paul* y mae'n diweddi,
Jac. 4. 14. Fel bwmbwl *Jaco* mae'n diſſoddi.
Fel canwyll gwyr mae'n hoes treulio,
Fel llong dan hwyl mae'n myned heibio
Fel poſt dan ſawd mae'n pedwar carnu
Job. 4. 19. Fel cyſcod cwmmwl mae'n diflannu.
Gwann yw'n tai, a chryf yw'n gelyn,
* *Hamſer.* Byrr yw'n * Terem ſiwr yw'n terſyn,
Anſertennol yw ddyſodiad,
Byddwn barod yn ei wiliad.

---

## *Cyngor ir Claf.*

PAN ith drawer gynta a chleſyd
Yſtyr o ble daeth mor danllyd,
A phwy helodd gleſyd attad,
A pha am ei dodwyd arnad.
Deut. 28. 22 Duw ei hun ſy'n danſon cleſyd,
Odd'wrth Dduw y daw mor aethlyd,
* *Ddanſon.* Am ein beiau mae'n ei * hela,
I geiſio gennym droi a gwella.
Edifara am dy feieu,
Deiſyf Bardwn ar dy linieu,
Cais gan Dduw doſturio wrthyd,
Fe'th gyſſura yn dy gleſyd.

Os nyddodd llid dy *Dduw* yn d'erbyn,
Nes rhoi arnat Glefyd ſcymmyn, *Hoſ.* 6. 1.
Gwaed yr oen a'ch * reconſilia, * *heddycha.*
† Deigreu heilltion a'i dad ddigia;

† *Er mai Gwaed Chriſt yw'r iawn am bechod.* 1 Pet. 1. 19. *etto mae'n rhaid ir ſawl a ddiſgwyliant am leſad oddiwrtho gredu yntho, a bod yn ediſeiriol, waith fod Duw wedi gorchymyn i ni ddyſod yn y modd hynny etto trwy ei fab* Jo. 14. 6. 1. Jo. 3 23. Jac. 4. 9. *Ond er y dylem ni alaru, etto na thebygwn fod yn deigre yn iawn am ein pechodau; pe buaſſe hynny yn gallel bod, ni buaſſe raid i Griſt ddioddef troſom.*

Goſtwng iddo mae'n drugarog, *Mat.* 7. 7.
Cais ei ras, fe rhy yn ſerchog,
Edifara ynte a fadde,
Wyla di Toſturio ynte.

Addef iddo dy gamwedde, *Act.* 3. 19.
Barn dy hunan am dy feio; *Pſal.* 32. 5.
Cwymp oi flaen a deiſyf Bardwn
Di gae ras ao * Abſoluſiwn. * *Rhyddhâd.*

Tro di atto, ynte a'th dderbyn
Er ei ddigio, rhaid ei ‡ ganlyn; ‡ *Ddeiſyfiad*
A phan gwelo heilltion ddeigrau
Fe bair laeſu dy flinderau.

Duw ei hun ſy'n danfon clefyd
Cennad *Duw* yw nychdod aethlyd;
Oddiwrth *Dduw* y daw clefydon;
Ni all neb ond Duw ei danfon.

Nid o'r moroedd nid o'r mynydd
Nid o'r ddaer, na'r Aer, na'r corfydd, † *Awyr.*
Y daw clefyd ar blant dynion,
Ond oddiwrth yr Arglwydd cyſion.

Gwres a gwayw, crâch cornwydion,
Crûd a haint, a ſyndra calon, *Deut.* 28. 22
Nychdod, nodau, Mall, diflanniad,
S' oddiwrth Dduw ei hun yn dwad.

Ni all 'Empwyr mawr yr hollfyd ‖ *Pennaethiaid.*
Ddanfon haint na thynnu clefyd,
Nid oes neb a'i tyn neu danfon,

Ond Duw mawr y barnwr cyfion:
† *Arch.* *Nid aiff clefyd ffwrdd wrth † bwyntment,*
*Lot* nac *Antwn*, *Cat* na *Chlement*,
Witch na dewin, Swyn na phlaned,
Nes cennado Duw ei fyned.
* *diotta neu fwytta gormodd* Os o * Swrffet, os o anwyd,
Neu dy afiach y ceiff glefyd,
Duw ei hun ſydd yn dy daro,
Pa fodd bynna daethoſt iddo.
‖ *Siawns.* Nid wrth ‖ ddamwain, nid wrth fforten
Nid wrth dreiglad lloer na feren,
Y daw clefyd, mawr na bychan,
Ond wrth bwyntment Duw ei hunan.
Na chais edrych fel dyn ynfyd,
Trwy pa fodd y daeth dy glefyd:
Gwell it edrych tua'r nefoedd,
Ar dy Dduw, a'r llaw a'th drawodd.
*Heb.* 11. 10. Duw a'th drawodd Duw a'th wella;
Duw a'th glwyfodd, Duw a'th elia;
Duw ſy'n coſpi dy gnawd diriaid,
I iachau dy gorph a'th enaid.
Derbyn Gennad Duw'n greſſawgar,
*Heb.* 12. 6. Ymddwyn dano yn ddiodefgar;
Neb a garo Duw fei coſpa,
Pob mab anwyl fei gwialenna.
*Jac.* 5. 10, 11. Bydd ddioddefgar dan dy drwbwl,
Ffol a wingad ar ben Swmbwl;
Duw a'th drawodd mor ddolurus,
Ofer it' wrthnebu ei 'wllys.
*Deut.* 28. Am ein pechod a'n drwg fywyd,
Y mae Duw yn danfon clefyd,
* *Cyſtuddio.* Ac yn awr * gryddfu meibion dynion,
Am droſſeddu ei orchymynion.
Darn o gyflog pechod aethlyd,
Ydyw nychdod ac afiechyd;
Pechod a ddaeth wrth ei gynffon,
A phob clefyd ar blant dynion.
Torri'r Sabboth, tyngu'n rhigyl,

Caſhau'r Eglwys a'r Efengyl
Diſtadl ffeiriad a ſwyddogion,
A bair llawer o glefydon.
Meddwdod, Maſwedd, a phutteindra,
Rhegu ‡ lootran a lledratta, ‡ *Segura*
Gwledda Gloddeſt, tre ſio tlodion,
Sy'n dwyn clefyd a thrallodion.
O's ceiſt glefyd o daeth gwaſcfa,
Pechod helodd hwn i'th ddala,
Ac a barodd i Dduw ddigio,
A rhoi'r clefyd hwn i'th daro.
Chwilia'n fanol dy gydwybod,
A chais gwrdd a'th ffiaidd bechod,
Llwyr groeſhoelia dy anwiredd, *Galar.* 3. 40
Ac ymbilia am drugaredd.
Os difaru am dy feie,
A llwyr droi ar Dduw yn foreu, *Act.* 3. 10.
Fe faddeua Duw dy bechod,
Ac a'th * dynn y maes o'th nychdod: * *Os bydd hynny er daioni i'th enaid di.*
Cais gan Dduw leihau dy ddolur,
Doſi'th boen a gwella'th gyſur,
Cais yn daer eſmwythder gantho,
F' all ei roi yr awr y mynno.
Pa ryw bynnag yn dy ddolur,
Fe all Duw oſtegu ei wewyr,
A'th iachau y môdd y mynno,
Bid e'r dolur mwya fytho.
Fe Jachâdd y claf o'r parlys,
Gwraig ar laſc a'r ceippyl naſus,
*Job* o'i grach a *Naaman* glafrllyd, *Mat.* 4. 24.
A'r rhai cleifion o bob clefyd
Nid yw clefyd ddim ond cennad,
Wrth arch Duw ſy'n dywad attad,
Fe ladd fe baid pan archo ei berchen
Fe ddaw fe aiff fel gwâs y Capten.
O gan hynny galw'n daerllyd, ‡ *Amddiffyniad.*
Ar dy Dduw ſy'n danfon clefyd,
Cais ei ‡ nawdd er mwyn dy Brynwr,

Di gei gantho help a ſwccwr.

## *Gweddi'r Clâf.*

ARglwydd cyfion Tâd fy Jechyd,
Barnwr pawb a'i helpwr hyfryd,
Gwrando weddi Dyn clefycca,
Er mwyn Chriſt ac edrych arna.
Yn glâf mewn corph yn driſt mewn enaid,
Yn drwm mewn meddwl ac uchenaid,
Rwy'n ymluſco o'nghreawdwr,
Attad ti i geiſio ſwccwr.
*Ex.* 34. 6, 7. Graſſol wyt a llawn trugaredd,
Hwyr dy lid a mawr dy ammynedd,
Hawdd i'th gael mewn tôſt gyfyngdwr,
Er mwyn Chriſt toſturia ynghyſtwr.
Di roeiſt Jechyd im ys dyddie,
Nawr di dwgaiſt am fy meie:
Ac y helaiſt boen a Nychdod,
I'm cyſtuddio am fy mhechod.
Duw mi haeddais rwi'n cyfadde,
Un oedd drwmmach er ys dyddie;
Yn dra chyfion Dduw goruchaf,
Y rhoeſt hyn o nychdod arnaf.
Di allaſyd ddanfon clefyd,
* *Diſymwth* * Imwngc câs i ddwyn fy mywyd,
Am troi i Uffern i boenydio,
Heb roi amſer i'm repentio.
* *Edifaru.* Etto'n ſwyn fel Duw trugarog
Di roeſt arna' glefyd ſerchog;
I'm rhybuddio am fy niwedd,
*Pſ.* 119. 71. A'm cyfrwyddo i wellhau 'muchedd.
‡ *Yr arwyddion o fod yn blant i Dduw yw ffydd ynghriſt galar am bechod a throad oddiwrthe.*
Rwy'n ei gymryd megis arwydd;
O'm ‡ Mabwyſiad, a'th garedigrwydd,
Yn fynghoſpi am Correcto,
Rhag i'm pechod 'y amdwyo:
Da yw'th waith o Arglwydd cyfion,
Yn coſpi'r corph ar fath drallodion,
Lle 'roedd fy Enaid er yſdyddie,
Yn dra chlâf gan ormod moethe.

*Cariad at y Duwiol, a chadw Gorchymynion Duw oni fydd dyn a'r pethe hyn ynddo, ni ddichon efe gaſglu oddiwrth ei glefyd ei fod ef yn blentyn i Dduw. Jo. 1. 12. Mat.* 5. 4. *Jo.* 3. 8, 9, 10, 14. *ac Jo.* 2. 3, 4.

Tra ces Jechyd ni ches weled
O'm Pechodau er ei hamled,
Ond yn awr gwae fi mewn Nychdod,
Nid wi'n gweled ond fy mhechod.
O ba nifer o Bechode
Wnaethum yn dy erbyn Duw gwae fine,
Maent yn amlach mewn rhifedi
Nag yw'r Sêr os ceiſia cyfri.
Pa fath Elyn gwyllt y fuo
Yn dy wrthwynebu megis *Pharo*
Gynt pan oeddyt yn ymhwedd,
A'm i'm droi a gwellhau 'muchedd.
Arglwydd graſol 'rwi yn cydnabod,
I mi haeddu cant mwy nychdod,
Ac i'm bechu yn yſcymmun,
O'm Maboliaeth yn dy erbyn.
Etto gwn dy fod ti'n graſol,
I bwy bynna fod edifeiriol,
Ac yn barod iawn i fadde,
I'r alarus eu camwedde.
Er na haeddais ond † trallodion
A dialau a chlefydon:
Gwna a mi yn ôl dy fawr drugaredd,
Ac nac edrych ar fy anwiredd.
Cymmer Angau Criſt a'i ufudd-dod,
Yn dal i ti am fy mhechod;
Cladd fy Meie yn ei weli
Er ei ſwyn bydd raſſol i mi.
Nad i'm farw yn fy amrynti,
Cyn i'm wneuthur dim daioni,
Ond rho amſer o'th Drugaredd,
Immi etto wellhau muchedd.
Dal dy law goſtega 'nolur,
Llaeſa 'mhoen lleiha fy ngwewyr;

† *Arthollion*

Ac na oſod arnai boene,
Fwy nac allo 'nghorph eu godde.
  Er bod fy Enaid weithie 'n dwedyd,
Dere Ghriſt a derbyn fy Yſpryd,
Mae fy nghnawd er hyn yn crio,
Duw tro'r Cwppan chwerw heibio:
  Y mae'r cnawd a'r Yſpryd etto,
Yn amharod i ymado,
Duw rho amſer i'm eu trefnu,
O bydd dy ewyllys yn cenhadu.
  Nid wy'n ceiſio gennyd amſer,
I fyw yn foethus mewn eſmwythder,
Ond i dannu dy anrhydedd,
Ac i wellhau peth o'm Buchedd.
  Duw os gweli fod yn addas,
Yſtyn fy oes fel *Ezecias*
Dyro i mi ryw gyfrwyddyd,
I'm jachau a thorri ynghleſyd.
  Ond os gweli fod yn ore,
Etto 'nghoſpi dros fwy ddyddie,
Duw dy ewyllys di gyflawner,
Ond cyfnertha fi 'r cyfamſer.
  Yn Jach ni wnaethum ond dy ddigio,
Yn glaf ni allai ond ochneidio,
Oni roi dy nefawl Yſpryd,
I'm diddanu yn fy nghleſyd.
  Arglwydd cymmorth fi'n mlinder,
Llaeſa 'mhoen a'm hanoſmwythder,
*Ofn,* Dwed wrth fy Enaid yn ei * alaeth,
Myfi yw dy Jechydwriaeth.
  Tydi Chriſt yw'r mwyn Samariad,
Minne yw'r claf trafaeliwr irae,
Gweiria 'nolur rhwym fy archollion,
Di a'mhoen cryfha fy nghalon.
  Mae dy Law yn orthrwm arnaf,
*Job.* 13. 15. Etto ynod mi ymddiriedaf
A pha lleddit fi a thrallod,

Duw mae fy holl ymddiried ynod.
  Gennyt ti mae 'r holl allwedde,
Sydd ar fywyd ac ar Ange;
Ni faidd Angau edrych arnaf,
Nes danfono ( Chriſt ) ef attaf.
  Gwna fi yn barod cyn y delo,
Par i'm ddiſgwyl byth am dano;
Fel y gallwi fynd yn addas,
Wrth ei *Scil i'th Nefawl Deyrnas. *Dat.* 1. 18.
  Nad i bethau'r Byd anwadal, * *Agoriadau.*
Na'th gyfiawnder ddydd y dial:
Nac i ofan Angeu i'm rhwyſtro,
Ymbartoi i rwydd ymado.
  Tynn o'm calon ofan Angeu,
Par i'm wadu'r Byd a'i betheu;
Golch a'th waed fy mhechod 'ſceler,
Cudd fy mrynti a'th gyfiawnder.
  Rho i'm Ffydd yn dy ‡ Brommeiſion, ‡ *addewidion.*
Gobaith cryf am gael y Goron;
Dioddefgarwch yn fynghlefyd,
Chwant ddwad attad a dattodyd.
  Chriſt rho d' Yſpryd i'm diddanu,
A'th Angylion i'm Caſtellu; *Phil.* 1. 13.
Gwna 'r awr ole fy awr ore, 2 *Tim.* 4. 8.
Rho i mi 'r Goron ar awr Ange.
  Chriſt fy Mugail cadw fy enaid,
Nad i'r Llew o'th law ei ſcliffiaid;
Tydi prynaiſt yn ddrud ddigon, *Cippio ei dryllio.*
Dwg ô i'r Nêf at dy Angelion.

*Rhybudd i'r Claf i alw am Weinidog a Phyſygwr, ac i ochelud Swynwr.*

PAn clafychech cais § Offeiriad,
  Yn ddiaros ddwad attad;
I weddio dros dy bechod,
A'th gyfrwyddo fod yn barod.
  Chriſt y bwyntiodd yr Offeiriaid,
Yn Byſſygwyr doeth i'r Enaid,

Ac a roddodd iddynt oll,
I wrthnebu pob Drygioni.
Addo'th Bechod wrth y Ffeiriad,
Fe ry itti Gyngor difrad;
Fel y gallo roi cyfrwyddyd,
Yn o nawsa a rhyw dy glefyd.
‡ Cred beth bynna ddwetto'r ffeiriad,
O air Duw yn bridd am danad:
Canys llais Chriſt ei hun yw hynny,
I'th * rebycco neu'th ddiddanu.
Deiſyf arno brudd weddio,
Ar i'r Arglwydd dy ‖ Recyfrio;
A rhoi itto gyflawn Jechyd,
Neu 'n raſol dderbyn dy Yſpryd.
Mae Duw yn addo gwrando'r ffeiriad,
Pan weddio yn ôl ei alwad:
Chriſt a ddyru ei ganlyniaeth,
Oni phwyntiodd dy Farwolaeth.
Deiſyf arno dy gyfnerthu,
Rhag i Satan dy orchfygu:
A llonyddu dy gydwybod,
Pan i'th flinir gan dy bechod.
Godde † lawnſo dy gornwydion,
Godde ir gair frynaru'r galon:
Fel y gallo fwrw ynddi,
Win ac olew gydag *Eli*.
Gwell it adael i'r Offeiriad,
Fynegu it dy ddrwg ymddygiad;
Fal y gallech ediſaru,
Nag oi blegid gael dy ddamnu;
Di gei ‡ gyngor rhag dy bechod,
I lonyddu dy gydwybod;
Di gae gomfford gan y ffeiriad,
Ni mewn pryd ei gelwi attad.
Na âd y Ffeiriad heb ei alw,
Nes ei bech yn hanner marw;
Ni all Ffeiriad y pryd hynny,
Na neb arall dy ddiddanu.

‡ *Pan leſara yr offeiriad allan o air Duw mae Chriſt yn lleſaru trwyddo*

* *ceryddu.*

‖ *Wella.*

Jaco. 5. 14, 15, 16.

‡ *llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn ond aberth yr annuwiol ſydd ffiaidd.*

*Dih.* 15. 8.

† *Chwilio,*

* *ddangos,*

‡ *Nith gedwir oni wnei yn ol cyngor Duw.*

Jac. 1. 12.

*Rhuſ.* 10. 7.

Oh! pa nifer o'r *Brutaniaid*,
Sydd yn Meirw fel Nifeiliaid,
Eiſie ceiſio Nerth y Ffeiriaid,
I gyfrwyddo eu ymadawiad.

Er bod Duw yn abal cadw,
Sawl a fynno heb ei galw,
Nid yw'n cadw mawr o Enaid,
Ond trwy ſwydd a gwaith Offeiriaid.

Cais gan hynny gynta ag allech,
Ffeiriaid attad pan glefychech,
I roi ‡ pwrg yn erbyn pechod,
Rhwn yw achos dy holl nychdod.

‡ *phyſygwriaeth*

*Rhuf.* 10 17.

*Trwy bregethiad y gair mae ffydd a throedigaeth i ffordd iechydwriaeth yn dyfod, ac am hynny yn cla-ychu fe ddylais arferu gwrando'r gair, rhac ofn y bydd hi rhy-hwyr yn ein clefyd i wneuthur felly, ni ddylem oedi a thybied mai pethau bychain yw ffydd ac edifeirwch a gwellhad buchedd herwydd mae pob un o'r rhain yn angenrheidiol i Jechydwr-aeth* Jo. 3. 3. 6 Luc. 13. 5. 1 Cor. 6. 9. Heb. 12. 14. *Er mwyn Chriſt yſtyriwch y 4 lle hyn o'r Scrythur a bernwch noch eich hunain gan na ellir bod yn gadwedig heb edifeirwch ffydd a newydd-deb buchedd fel y mae'r Scrythyrau hyn yn dangos yn eglur, onid yw ynfydrwydd i gadel hwy heb ei ceiſio yd amſer ein clefyd fe fydd yr enaid yr pryd hwnnw ymwrando dolur ac afiechyd y Corph, ac o herwydd hynny yn anghym-wys iawn i wrando Cyngor yr offeiriad ac i wneuthur yn ei ôl ely dyle ni ydym yn darllain ond am un ſef y Lleidr ar y roes ac a wir edifarhaodd ar yr awr ddiweddaf am un yr ydym n darllen hynny, fel nad amheuo neb, onid nid ydym yn dar-llain ond am un fel na ryfygo neb i oedi ei droedigaeth at Dduw yd yr awr ddiwaethaf.*

Yn ôl cyngor yr Eglwyſwr
Cais gyfrwyddyd y Phyſygwr,
Duw a roes i hwn gelfyddyd;
'th Jachau o lawer clefyd.

Duw ordeiniodd yr Offeiriaid,
I Jachau doluriau 'r Enaid,
Ar Phyſygwr a'r Meddygon,
ymgleddu cyrph y cleiſion:
Llawer Dyn ſy'n Marw'n ſudur,

Eiſie cymmorth y phyſygwr,
Gan ſyrhau eu hoes a'u hamſer,
Yn embydus eiſie eu harſer.
Corph pob Dyn yw ty ei enaid,
§ *Adnewyddu.* Rhaid § rheparo hwn a'i drefnaid;
Rhaid i bob Dyn hyd y gallo,
Gadw ei Dy ar draed heb gwympo.
Arſer gymmorth phyſſygwriaeth,
Yn dy glefyd trwy griſt'nogaeth,
Duw ordeiniodd hon yn gyſſur,
I blant Dynion rhag pob dolur.
Y neb wrthotto phyſygwriaeth,
Y roes *Duw* er Jechydwriaeth,
* *Natur.* Mae'n gwrthwynebu maeth ei Anian,
‡ *lladd.* Ac yn ‡ mwrddro ei gorph ei hunan.
Y llyſſewyn ſalwa welech,
Ar gyfrwyddyd waela gaffech;
All roi help ac Jechyd itti,
Os rhy Duw ei Fendith arni.
Swp o ffigys, os bendithia,
*Eſa.* 38. 28. All Jachau y Cornwyd mwya,
A'r gyfrwyddyd na thal un rhith,
All roi help ond cael ei Fendith.
Ond pe caet ti balm a Nectar,
Cennin *Peder* cerig *Bezar*,
Olew a Myrrh a gwin a gwenith,
Ni wnant lês neb gael ei fendith.
Nac ymddiried i'r Phyſygwyr,
‡ *Cyfrwyddyd* Nac i un ‡ fetſwn ſo'nt yn wneuthur,
2 *Chron.* 16. 12. Rhag dy ſarw megis *Aſa*,
Eiſie ymddiried i'r Goruchaf.
Nid oes rinwedd ar lyſieuach,
Grym mewn Eli na diodach,
I leihau o'n cûr a'n poenſa,
Os yr Arglwydd ni's bendithia.
Duw ſy'n rhoddi ‖ rhâd ar lyſſieu,
Grym mewn Eli, a chyfrddoneu,
Lle bendithio Duw hwy lwyddant,

Lle

le ni ſynno Duw ni thycciant.
Cais gan hynny ſendith hyfryd,
an dy Dduw ar bob cyfrwyddyd ; *Deut.* 18. 10
eb ei ſendith ni wna'r benna, 11, 12.
nd troi'n wenwyn yn dy gylla. *Lev.* 19. 31
Gwachel geiſio help gan ſwynwyr, 2 *Bren.* 1,
n dy flinder toſt a'th ddolur ; 2, 6.
ado Duw mae'r cyfryw ddynion,
o addoli'r gau Dduw Eccron.
Na chais help ir corph mor embaid,
an y diawl ſy'n lladd yr enaid,
id oes un Phyſſygwr allan,
aeth na'r Diawl i helpu'r egwan.
Nid yw ſwyn ond * hug i'th dwyllo, * *Twyll.*
wedi Satan ei ‡ defeiſio, ‡ *Dychymmyg.*
ddifethu di enaid gwirion,
an y Swynwr ith glefydon.
Nid yw'r Swynwr ond Apoſtol, * *Cennad.*
falſt i'r Diawl i Dwyllo 'r bobol ;
ddiwrth Ghriſt mewn poen athraſe,
butteinia'n ôl y cythrel.
Twyllo'r corph, a lladd yr enaid,
igio Duw bodloni diawliaid :
wrthod Chriſt a'r maint ſydd eiddo,
mae'r Swyn a'r ſawl ai cretio.
Ceiſio'r cythrel yn Byſſygwr, *Dat.* 2. 2, 1.
dyw ceiſio help gan Swynwyr ;
eiſio'r diawl i ddarllen teſni,
w a dewin ymgynghori.
Ceiſio gwir gan dâd y celwydd,
w ymofyn a drogenydd ;
eiſio help i ladd yr enaid,
dyw ceiſio Swyn ‖ Hudoliaid. ‖ *Twyllwyr.*
Na char ſwynwr mwy na chythrel,
ae'n dy demptio yn dy drafel ;
lun wrth Griſt er maint yw'th flinder,
ais ei nerth, Di gei eſmwythder.

*Gweddi*

## *Gweddi'r Clâf cyn cymmeryd Phyſygwriaeth.*

Awdwr Jechyd lluniwr llyſieu,
*Rhoddwr rhinwedd, rhwymwr angeu,*
Tywallt Fendith, rhâd ac Jechyd,
Ar y fetſwn wyf i'n gymryd.
Di ordeiniaiſt amryw lyſſiau,
Diod, Eli a * chyſyrddonau;
I ymgleddu Meibion dynion,
Yn ei gwendid a'u clefydion.
Yn ol dy 'wyllys a'th ordeiniaeth,
Rwy fi'n cymryd Phyſſygwriaeth,
I oſtegu peth o'm didri,
Rho dy Fendith Arglwydd arni;
Gwna na ddichon un Creadur,
Na chyfrwyddydd laeſu'ngwewyr;
Oni byddi di'n Bendithio,
'Rhyn a roer ar hwn a'i Cymro.
O gan hynny prîdd fendithia,
Y gyfrwyddyd a gymmera;
Fel y rhoddo hyn i'm gyſſur,
Ac y llaeſo fy holl wewyr.
Peraiſt gynt i'r ffigys diflas,
Jachau cornwyd *Hezekias*;
Par o Arglwydd i'r gyfrwyddyd,
Hon roi minne gyflawn iechyd.
Di Jachaiſt olygon *Tobi*,
Gynt ag a fu'r Pyſc anigri;
O Jachâ fy nolur inne,
A'r rhai hyn dy gyſyrddone,
Fel y peraiſt i ddwr *Jordan*,
Olchi ffwrdd wahanglwyf *Naaman*;
Felly pâr i'r ddiod ymma.
Dynnu i ffwrdd ſynghur am poenſa.
Fel y peraiſt gynt i'th hoeryn,
Rhoddi golwg i'r Cardottyn:
O par Arglwydd i'r gyfrwyddyd,
Hon roi i minnau gyflawn Jechyd.
Gwn y gelli trwy'r fath foddion,

* pethe i iachau pobol.

‡ oddifrif,

‡ Gwenwyr.

Mar. 8. 23.

Neu heb un Jachau cleſydon,
Llaeſa 'nolur yn ol dy allu,
Os bydd dy wyllys yn cennadu.
  Ond os pwyntiaiſt ti fy niwedd,
Am llwyr dynnu i'th drugaredd;
Duw dy wyllys di gyflawner,
Rwy'n ymoſtwng itti bob amſer.
  Ond rhoi-mi Râs a phwer,
Grym a gallu y cyfamſer;
Ddwyn fo nolur yn ddioddeſgar,
Megis Criſtion yn ddidrydar.
  A rhoi dy Yſpryd i'm cyfnerthu,
*Yn* fy mlinder i'th foliannu;
Ac i ddwyn dy groes a'th wialen,
*Yn* 'wyllyſgar ac yn llawen.
  A phar immi fod yn barod,
Ddwad attad ac ymddattod;
A rhoi f' Enaid yn ewyllyſgar,
*Yn* dy ddwylo Arglwydd hygar.
  O fy Arglwydd gwn y gallu,
Fy Jachau yr awr y mynnu;
Oni fynnu laeſu 'mlinder,
Duw dwg f' Enaid i'th eſmwythder.

*Gweddi fyrrach i'r Clâf iw harferu yn ei gleſyd.*

DUW trugarog Tâd diddanwch,
Awdwr Jechyd pen dedwyddwch;
Gwrando waedd pechadur oychlyd,
Sydd yn beggian cymmorth genyd.
  Daeth fy mhechod yn dy olwg,
A'm holl fuchedd oedd yn cynddrwg;
A chan gymmaint oedd fy ‡ nhraha,
Di ddanfonaiſt gleſyd arna.
  Haeddais Arglwydd drymmach penyd,
Daſtach dwymyn caffach gleſyd;
Blinach dolur, byrrach amſer,
By'm tylaſſyd wrth gyfiawnder.
  Di allaſyd dorri 'ngwddwg,

‡ *Balchder: dirmyg.*

Am ſy muchedd oedd yn cynddrwg,
* *Lladd.* Neu ſy moddi neu ſy * mwrddro,
Heb roi amſer immi ymgweirio.
'Nawr rwi'n gweld dy gariad attaf;
*Yn* rhoi cleſyd cruaidd arnaf;
I'm ceryddu am f' anwiredd,
Ac i'm cyffro wella muchedd.
Nid ewyllyſſi Duw 'r holl gyſſur,
*Ezec.* 33. Ddrwg Farwolaeth un pechadur:
11. Ond yn hyttrach gwella ei Fuchedd,
I gael bywyd a thrugaredd.
*Amos.* 4. 10. Trwy'r ſath gleſyd blin corphorol,
Rwyt i'm cofio mod yn farwol:
A thrwy flinder tôſt a thriſtwch,
*Mich.* 6. 9. Rwyt i'm gwahawdd i Edifeirwch.
Er i'm haeddu dy ddigofaint,
*Pſal.* 6. 1. A'th lidiawgrwydd toſt yn gymmaint:
Arglwydd graſſol na cherydda,
Fi a'th lid a'th gerydd mwya.
Mae dy faethau gwaedi 'nghlwyſo:
Mae ſy eſcyrn gwedi briwio,
Mae ſy *Yſpryd* gwedi gryddſu,
Arglwydd dere i'm diddanu.
Tydi i'm clwyfaiſt am ſy mhechod;
Miune haeddais hyn o drallod:
Nid oes neb ſy Nuw am hynny,
Ond tydi all ſymgwaredu.
Tydi ſy'n llâdd ac yn bywhau,
Tydi'n Clwyfo ach Jachau:
*Yn* dwyn i'r Bêdd yn adgyfodi,
*Yn* trugarhau ac etto yn coſpi.
Tydi o Dduw ſy'n danfon cleſyd,
1 *Sam.* 2. 6. Tydi yn unig all roi Jechyd;
*Hoſ.* 6. 1. Nid oes neb all llaeſu yn nolur,
Ond tydi na rhoi i'm gyſſur.
Er dy fwynder a'th drugaredd,
Er dy enw a'th anrhydedd,
Madde mhechod; lleſa 'nolur,

Gw

Gwared fy enaid, rho i'm gyſſur.
  Oni phwyntiaiſt fy marwolaeth,
A diweddu fy milwriaeth:
Arglwydd llaeſa ar fy mlinder,
A rho immi beth eſmwythder.
  Dymchwel Arglwydd im diddanu,
O fy Nuw pa hyd y Sorri?
Gwel fy mhoen, a chlyw fy nghwynfan,
Tro dy lid, iacha fi weithian.
  Cweiria 'ngwely yn fy nghyſtudd,
Tro fy nhriſtwch yn llawenydd:
Rhwyg fy ſach, a ſych fy Noigrau,
Llaeſſa mhoen, iacha noluriau.
  Maddeu mhechod, Torr fy nghlefyd,
Tynn fi o'r ffôs a rho im iechyd;
Fel y gallwyf dy glodforu,
Yn fy mywyd am holl allu.
  Yn y Bedd, o Dduw! pwy'th goffa,
Yn hir angeu pwy'th glodfora?
† Sparia mywyd Arglwydd graſſol,
I'th glodforu gyda 'r bywiol.
  Felly canaf itt' yn hyfryd,
Glôd a moliant am fy mywyd;
A thro ynof rym na chwythiant,
Mi ddatcanaf dy ogoniant.

† *Arbed.*
*Pſal.* 30. 9, 12.

*Rhybudd ir claf wneuthur ei Ewyllys mewn pryd a doſparthu ei bethau mewn ofn Duw.*

ONi wnaethoſt etto d' wllys, *
  Dod dy dy mewn trefn weddus;
Doſparth d' olud megis Chriſtion,
Yn griſtnogaidd ac yn union.
  Cais gan Dduw ei nefawl Yſpryd,
I roi itti lawn gyfrwyddyd;
I gyfrannu d' olud bydol,
Yn ol wyllys dy dad nefol.
  ‖ Rho dy enaid bach i'th Brynwr,
Chriſt ai pie dy Jachawdwr;
Rho dy gorph ir ddaer lle caſad,

* *Llythur cymmun.*
*Eſay,* 38. 1.
*Act.* 7, 59.
‖ *Os buoſt fyw yn*

Hyd

*dduwiol fe* Hyd nes delo'r adgyfodiad.
*dderbynnir* Tynn fel *Jacob* ddefaid *Laban*,
*dy enaid ir* Ar da eraill, o'th dda allan;
*Nêf: ond nis* Rho i bob dyn ei iawn eiddo,
*gwneir felly* Tal dy ddyled cyn ymado.
*os marw a* Na ddôd Geiniog yn dy 'wllys,
*wnel di yn* O dda eraill yn gamweddus;
*annuwiol.* Rhag eu taflu yn dy ddannedd,
*Mat.* 7. 21. O flaen Duw ar ddydd dy ddiwedd.
*Rhuf.* 13. 7. Ac na chytcam er dy fywyd,
Roi i'th blant anghyfiawn olud;
Ni wna hynny ond eu hela,
I gyrwydro a chardotta.
Er na feddech ond tair Anner,
I roi rhyngthynt trwy gyfiawnder;
Gwell y llwydda hynny i'th Eppil,
2 *Bren.* 9. Na thrwy gamwedd pe rhoit dair mil.
*Gen.* 30. Gwell y llwyddodd rhan dir *Abram*,
*Gen.* 31. Nag y llwyddodd teyrnas *Joram*;
A'r gwehilion y gadd *Jaco*,
‡ *Ddifa*, Na phraidd *Laban* gwedi ‡ hyſſo.
1 *Bren.* 2, 1. Fel y bwyttodd Gwinllan *Naboth*,
Deyrnas *Abab* a'i holl gyfoeth;
Felly bwyttu 'r geiniog ſceler,
Frint y feddech trwy gyfiawnder.
Ceiniog ddrwg pwy bynna caffo,
Sydd fel gwartheg truain *Pharo*;
Rhai fwyttaſſant ei dda tewon,
Heb fod llawnach eu coluddion.
Rho gan hynny 'r hyn ſydd union,
Rhwng dy blant, a'th ffrins, a'th weiſion:
*Exod.* 16. Ac na chytcam er dy fywyd,
1 *Bren.* 17. Roi i neb anghyfiawn olud.
Fel y llwyddodd Duw y Manna,
*Gen.* 25. 5, 6. Toes y weddw o Sarepta;
Olew 'r weddw dlawd a'i meibion,
Felly llwyddor gronyn cyfion.
Rho i *Iſaac* dy etifedd,

---

Ei dif
A rho
Fedd i
Rho
Na ro
O rho
Fod y
Nâd
Rho i'
Nad dy
Crio'n
Cofi
Cofia'
Cofia'r
Os by
Os
Ac yn
Adail y
Lle ma
Cofi
Rho be
Rho y
Dymm
Mai
Dy wr
Y mai
Storio'r
Dyro
Gwna
Tal dy
Yn y p
Dyro
Dyro'r
Yn ei
Rhag d
Nad
Rhwn
Beri it

Ei diſeddiaeth yn ddi duedd,
A rho 'r lleill o'th blant o bob tu,
Fodd i fyw yn ôl dy allu,
  Rho i'th wraig ei chyfiawn drayan,
Na ro iddi la'i na'i chyfran,
O rhoi chwaneg, mae yn rhygil,
Fod y fath yn nafu 'r eppil.
  Nâd was ffyddlon heb ei wabar,
Rho i'th gar tlawd help o'r heinar;
Nad dy weithiwr heb ei gyflog, *Jac.* 5. 4.
Crio'n doſt y wna 'r fath geiniog.
  Cofia'r fengyl cofia'r Eglwys,
Cofia'r * *Coledg* a'th || fainteiniwys: * *Yſgoldy*
Cofia'r wlad a'r dre i'th faccer, || *Gynhaliadd*
Os bydd gennyd fodd a phower.
  Os goludog wyt heb eppil,
Ac yn caru Chriſt a'r fengyl:
Adail yſgol rhydd yng-Hymru,
Lle mae eiſie Dyſc yn methu. *Luc.* 19. 8.
  Cofia *Joſeph* ſy'n y carchar,
Rho beth help, i borthi *Lazar*;
Rho yn awr dy rôdd tra gallech,
Dymma'r rhôdd ddiwaetha roddech.
  Maint y roech i'th blant a'th draſſe,
Dy wraig o'th blant, a'th ffrins a'i pie;
Y maint y roech ir tlawd a'r truan,
Storio'r wyti it dy hunan.
  Dyro'n ôl yr hyn a dreiſiaiſt,
Gwna iawn dal ir rhai orthrymmaiſt,
Tal dy ddyled cyn dy ſymmud,
Yn y pwll ‡ nid oes ddychwelud.
  Dyro'r Badell, dyro'r Crochan,
Dyro'r Tai ar Tir ar Arian:
Yn ei hol ir rhai au pie,
Rhag dy fynd ir didrangc boene.
  Nad i Dydd yn y dyn gwirion, 1 *Cor.* 6. 9.
Rhwn a dreiſiaiſt yn anghyfion; * *Ti elli*
Beri it golli Teyrnas Nefol,

‡ *Nid oes dychwelud o'r pwll i wneuthur iawn ir rhai a orthrymmwyd; ond mae dychweliad oddiyno i gael barn.*

*wneuthur* Rho ei dyddyn yn ei wrthol.
*iawn i ddyn* Nawr di elli megis *Zache*,
*am ydreiſiaiſt* ‖ Wneuthur iawn am dy droſſedde;
*oddiarno.* Yn y pwll ni bydd i'th bwer.
*Preg. 9. 10.* Dalu 'r hatling pan ofynner.
*Mat. 5. 25.* Praw gyttuno a'th wrthnebwr,
Cyn dy ſynd o flaen y Barnwr;
‡ *Carch.* Rhag y droi ir ‡ dyngeon iſa,
Lle rhaid talu'r hatling eitha.
† *Dyndigred* Nawr ni fynny mwy na † Phagan,
Ddilyn cyngor Chriſt ei hunan;
Ond dy fwytti Gig dy freichie,
Eiſie ei ddilyn cyn mawr ddyddie.
Pa Sawl mil ſy 'n nhân uffernol,
Eiſie rhoddi trais yng-wrthol;
Rhai a roddant heddyw'r holl fyd,
* *iawn.* Yn * Sarhâd ir tlawd pes cymryd.
Os yn erbyn Duw y pechu,
Di gei bardwn ond 'difaru;
Os yn erbyn dyn ni fadde,
Duw nes y caffo 'r tlawd a ddyle.
Os bu farw 'r rhai a dreiſiaiſt,
Rho iw plant y maint y 'celiſſiaiſt;
Ac os aethont o'r wlad allan,
Rho eu rhan ir tlawd a'r truan.
‡ *Yſpeiliaiſt.* Na ro rhwng dy blaent yn angall,
Y peth a bie un dyn arall;
Ni wna hynny ond dy ddamnio,
A throi d' eppil i gyrwydro.
Na ro rhwng dy blant trwy wyllys,
Ddim ennillaiſt yn gamweddus;
Trwy Uſûriaeth trais neu ffalſedd,
Drwg y llwyddant yn y diwedd.
‡ *Occr.* ‡ Marca blant yr occrwyr mawrion,
Ar gorthrymwyr a'r carnlladron;
‡ *raſſa ar.* Yn ceiniocca mewn Eglwyſydd,
‡ *Cwd.* Ac yn dwyn y ‡ waled beunydd.
‡ *drwg.* Felly tygſydd i'th blant dithe,

O rhoi iddynt dda anniſe,
Os fe ddial Duw yn rhigil
Drais ar dadau ac ar eppil:
  Dod di ofon Duw gan hynny,
O flaen d' wyneb wrth ddoſparthu;
Rhoi i bob Dyn ei dda cyfion,
Rhanna'r cwbl lle bo achoſion.
  Duw a reddo it gyfrwydd-deb,
Ac a'th nertho wneuthur dy atteb;
Duw a'th gatwo rhag camſyniad,
Duw fo ceidwad ar dy enaid.

1 Theſ. 4. 6.
Exod. 20. 5.

*Llythyr yr Anrhydeddus Sir* Lewis Manſel *o* Fargam *yn Sir* Forganwg (*fel yr ydys yn tybied at Ficcer* Prichard.

GWr wyf yn dioddef maethgen,
  Y Rhyw bendro doſt fy 'm talcen,
Er's amſer hir (yr Arglwydd hael)
Heb allel cael ei orphen.
  Ceiſiais gyngor gyda Phractus,
Doctoriaid gwyr Synhwyrus;
I geiſio help nid llai fy mloedd,
Er mynd tros Foroedd tryblus.
  Pan ffaeliodd lles corphorol,
Rwy'n danſon at Wyr duwiol,
Eglwyſig call dros Dir a môr,
I geiſio cyngor hollol.
  I ddyſgu p'un mae'r haeldad,
O ddigter neu o Gariad,
Yn danſon ar ei bridwerth blâ,
Ryw groes neu boenſa irad.

*Atteb i'r Anrhydeddus Sir* Lewis Manſel *yn ei glefyd.*

ANwyl Criſtion clywais ddywedyd,
  I Dduw ddanſon arnad glefyd;
Ac na wyddoſt p'un o gariad,
Ai o gâs yr hlodd attad.

† Toſt:

Rwi

Rwy'n dy atteb mewn byrr eirie,
* Mynegu. Ac yn * maneg itti'n ole;
‖ digofaint. Nad o gerydd ond o gariad,
Y rhodd Duw ei wialen arnad.
Nid dy Elyn ſy'n dy faeddu,
Dy Dâd graſſol ſy'n dy ddyſgu;
Trwy ddaroſtwng dy gnawd diriaid,
Fel y galler cadw d' Enaid.
Nid yw'r clefyd hwn ond cennad,
Helodd Chriſt dy Brynwr attad;
* Brofi. I * droio'th ffydd ath hir ammynedd,
A'th rybuddio am dy ddiwedd.
Derbyn gennad Duw'n greſawgar,
Ymddwg dano yn ddioddefgar;
A rho ddiolch o wraidd calon,
I'th Dâd Nefol am ei ddanfon.
* phyſigwriaeth. Ni wna'r clefyd niwed itti,
Mwy na'r * pwrg ſy'n carthu'r geri,
Ni wna 'hindrawns ond dy buro,
I gael oes o newydd etto.
Ni bu gwin erioed heb waddod,
Ni bu ur erioed heb ſorod;
Joan. 1. 8. Ni bu wenith heb ei faſclo,
Ni bu ddyn ond un heb feie.
Yr oedd *Adda* hên a'i bechod,
*Lot* a'i loſcach *Noah* a'i Feddwdod;
*Moſes*, *Aaron*, a'u camweddau;
Num. 20, 10 *Peder*, *Paul*, a Mil o Feiau.
Gwybydd ditheu'r Marchog hyfryd,
Er hawddgared yw dy fywyd;
Nad wyt heb ryw fai i'th ddible,
Canys Dyn wyt er maint yw'th ddonie.
I nithio dy us i ddoddi 'th ſorod,
I wella'th fai i dynnu 'th waddod;
I ddofi'th gnawd i nerthu dy Yſpryd,
Pſal. 19. 12. Y danfonodd Duw di glefyd.
* amburedd. Nid i'th waethu ond i'th wella,

Nid i'th faeddou nag i'th ddiſa,
Ond i'th ddyſcu a'th gyfrwyddo,
Y mae'r Arglwydd yn dy daro.
  Er troi heibio fydol foethe,
A gwir hoffi nefol ddonie,
Caſhau 'r byd a'r maint ſydd ynddo,
A dilyn Chriſt a'th draed a'th ddwylo.
  Rho fawr foliant prudd gan hynny,
I'th Dâd nefol am dy ddyſgu,
Rhwn ſy 'th wneuthur drwy ſerchowgrwydd,
Di 'n gyfrannog o'i ſancteiddrwydd.
  Y neb a garo Duw fe 'i Coſpa, *Heb.* 12. 10.
Bob Mâb anwyl fe'i ffonnodia,
Y dyn ni choſpa Duw ei bechod,
Baſtard yw nid Mâb o Briod.
  Mae Duw yn Coſpi'r rhai anwyla,
A rhyw groes neu gilydd yma,
Rhag eu myned yn ddamnedig, 1 *Cor.* 11. 3
Gyda phlant y byd gwrthnyſſig.
  Nid glân Gwenith nes y Nithier,
Nid gwynn Cambrig nes eu golcher,
Nid pur Aur côch nes ei doddi,
Nid da Criſtion nes ei goſpi. *Pſal.* 119.
  Ni ry'r grawn Wîn nes eu gwaſgu, 67 71.
Ni ry'r * Thus * Sent nes ei ſygu ; * *Frankin-ſenſe*
Ni ry'r fflint dân nes y ffyſtor,
Na dyn ffrwyth da nes cyſtuddier. * *Aroglau*,
  Y Cloſs a arogla yn well o'u pwnian
Y Fein y danna'n well o'i chroppian ; ‖*Winwydden*
Y Palm y dyf yn well o'i blygu, 1 *Pet.* 1. 6,
Ar dyn y ſydd yn well oi faeddu. 7.
  Pa fwya ſanger ar y Genmil,
Mwy 'rhogla ei gwynt yn rhigyl,
Pa fwya gwaſcer ar y Chriſtion,
Mwya fydd ei ffydd a'i oſon.
  Yſtyr mae er lleſiant itti,
Y mae'r Arglwydd yn dy goſpi ;
Ni pheru'r coſp ond enyd fechan,

Fe

*† Sef os bydd* Fe beru'r llês dros hir oes gyfan;
*ef yn gweled* Na wan ſyddia yn dy gleſyd,
*hynny'n dda* Yn llaw Dduw y mae dy ſywyd;
*itti.* Fe ry oes ac Jechyd etto,
Ac eſmwythder ond ei geiſio.
Cymmer gyſſur côd dy galon,
Ymwrola bydd obeithlon;
Fe ddaw Chriſt a help ar fyrder,
*Hoſ.* 6. 1. Ac y laeſa dy aneſmwythder.
Y llaw a'th drawodd honno a'th helpa,
Rhwn a'th glwyfodd a'th elia;
Ar neb yrrodd attat gleſyd,
Hwnnw tynn gan roi itt' iechyd.
Galw am help ar Dduw dy geidwad,
Dy Dâd yw fe wrendy arnad;
Cais ei gymmorth ac fe dyrru,
Llef yn daer ni feder ballu.
*Mat.* 7. 7. Pa beth bynnag yw dy gleſyd,
F' all laeſu ai diffoddyd,
Cais ei gyfnerth ac fe'i llaeſa.
Tryſto ynddo ac ni'th dwylla.
Onis llaeſa 'r awr y mynnech,
Pwylla aros dan dy orthrech;
Fe ddaw help o'r Nêf yn danbaid,
Pan fo gwell ar les dy enaid.
Ni chei aros awr ymmhellach,
Yn dy gleſyd na mynd glafach;
Nag y gwelo Duw yn angenrhaid,
Er lleſhâd i'th gorph a'th enaid.
Godde ronyn bâch o gyſtudd,
Di gei gwedyn hir lawenydd:
Bydd ddioddeſgar nes y delo,
Di gei oes o newydd etto.
Rhwn a nerthodd *Job* mor hygar,
Ddwyn ei gleſydd yn ddioddeſgar;
Nerthed dithe a'i lân yſpryd,
*Luc.* 22. 43. Mor ddíoddeſger ddwyn dy gleſyd.
*Luc.* A'r hwn helodd un oi Angelion

I gymfforddio fâb wrth *Cedron*,
Helo o'r nef ei Angel hyfryd,
I'th gomfforddi yn dy glefyd.
  Di roeſt Siampal dda'n dy Jechyd,
Inni fyw mewn buchedd hyfryd;
Rho inni etto Siampal hygar,
I ddwyn clefyd yn ddioddefgar.
  Godde'th nefawl Dâd dy drinio,
Godde dynnu 'r draen ſy'th bigio;
Godde waſcu 'r crawn lioſgedig,
Carthru'r clwyf a ſugno'r yſſig.
  Diodde i Ghriſt gael tynnu'r gwbwl,
Gôl y Sarph ſydd yn dy ſowdwl;
Rhag i'r gwenwyn ddrycha'r galon,
Ac † inffecto 'r enaid gwirion. † *Llygru.*
  Mae Duw'n ‡ garcus iawn am danad, ‡ *ofalus.*
Gwell it odde loes na bagad; *Psal.* 121. 3.
Mae'n dy * byrgio nawr trwy gyſtudd, * *lanhau.*
I gael Jechyd yn dragywydd.
  Mae'n dy wneuthur ymma yn addas,
I gael rhan o'i Nefol deyrnas;
Mae e'n carthu'r holl ddrygioni,
Sy'n dy rwyſtro i wir oleuni.
  Rwyt ti'n un o fain y Demel,
Rhaid dy naddu gyd wrth lefel;
Rhaid i'r mwrthwl dy lwyr bario, ¶ *Rheol.*
Os yn y Nêf y mynnu drigo. || *Rhag*
  Rwy ti'n wenith ir gorucha:
Rhaid dy ddyrnu tra fech yma;
Tynnu 'r ûs ar eol oddiwrthyd,
Cyn bech i Griſt yn fara hyfryd. *Mat.*
  Di geſt lawer o feluſder,
Ar law Duw er dechre d' amſer;
Rhaid it || daſtio peth o'r chwerw, || *Prof.*
Gyda'th Brynwr cyn dy farw.
  Yf o'r Cwppan chwerw lymmaid,
Yfodd Chriſt o'th aen ei lonaid;
F' orfydd ar bob Gwas i daſtio,

Nid yw'r diſgybl well nai Athro.
Coſia i Griſt dy Brynwr odde,
Dros dy bechod ei a minne,
Fwy o flinder ing ac yſſig,
O! goddefwn ninne ychydig.
Yſtyrnad oes Sanct yn gorphwys,
Mewn gogoniant ym Mharadwys;
Na ddioddefodd ſyw o gyſtudd.
Goddef dithe a bydd lonydd.
F' orſu ar *Abel* odde i fraenu,
F' orſu ar *Joſeph* odde ei werthu;
F' orſu ar *Eſay* odde i liſio.
* *Trigo* Cyn cael mynd i'r Nôf i * dario.
* *Llabuddio.* F' orſu ar *Stephan* odde ei * bwnian,
* *Bobl.* Fe orſu ar *Lawrens* odde ei * frwylian;
Fe orſu ar *Jago* odde ei wanu,
Cyn cael Nefoedd i'w meddiannu.
Fe orſu ar *Bedr* odde ei hoelio,
*Act.* 12. 2. Fe orſu ar *Bartholem* odde ei flingo,
Fe orſu ar *Ifan* odde ei ſerwi,
Cyn cael mynd at Dâd goleuni.
*Joan.* 21. 18 Nid oes un yn credu'n gywir,
19. Ynghriſt Jeſu hyn ſydd ſiccir;
Nad rhaid iddo odde 'n rhywſodd,
*Act.* 14. 22. Gyſtydd mawr cyn mynd i'r Nefoedd.
Nid eir o'r *Aipht* i *Ganaan* hyfryd,
*Mat.* 7. 13. Ond trwy'r môr a'r Mynydd tanllyd;
Nid aiff neb i'r Nêf i daring,
Ond trwy'r porth a'r llwybyr cyſyng.
Mae'n rhaid dwyn y groes yn gynta,
Cyn cael dwyn y goron benna;
Ni ddarllennais yn fy oes,
*Mat.* 16. 24. Gael y goron heb y groes.
Dwg dy groes ſel milwr ffyddlon,
2 *Tim.* 2. 12 Di gei gwedyn ddwyn y goron;
2 Cyd ddioddef gyda'r Jeſu,
Di gei gwedyn gyd-deyrnaſu.
Na chais nefoedd ar y ddaiar, Na

Na chais wynfyd yn rhy gynar ;
Na chais Jechyd di drangc * dowlwys,
Nes y delech i baradwys.
  Ni chair melus heb y chwerw,
Ni chair gwyn fyd nes i'n farw :
Ni chair Coron heb y groes
Ni chair Nefoedd heb ryw loes.
  Ni chadd un or ‖ Patriarchiaid,
Na'r Prophwydi, na'r * Merthyriaid ;
Na'r poſtolion na'r Meſſiah,
Fynd o'r byd heb lawer gwaſcfa.
  Na chais dithe fy anwylddyn,
Gael y peth nas cafodd undyn ;
Ond * ymddoro yn ddi-drwdar,
Ddwyn dy ddolur yn ddioddefgar.
  Cofia i Griſt dy Brynwr odde,
Mwy o flinder am dy ſoie :
Cofia ei groeſhoelio droſſot,
Di anghofi'r loes ſydd ynot.
  Ac na feddwl nad o gariad,
Y rhôdd Duw y clefyd arnad :
I'th * ſuwrhau dy fod yn un,
O'i ddetholedig blant ei hun.
  Cofia fod pob peth yn gweithio,
Ar y gore ir dyn y gretto ;
Hyd yn oed ei glwyf a'i glefyd,
A'i golledion a'i holl adfyd.
  Cofia hefyd nôs a boreu,
Nad all croes, nac ing, nac Angeu ;
Na dim arall ein gwahanu,
Oddiwrth gariad Duw a'r Jeſu.
  'Rhwn a gododd ei ffrind *Lazar*,
Yn iach o'r bedd dan y ddaiar ;
Hwnnw 'th gotto yn iach lawen,
O'th glaf wely'n wych drachefen.
  'Rhwn a ſpariodd Fywyd *Iſaac*,
Gwedi offrwm ar ben *Moriac*.
Hwnnw ſparo'th fywyd dithe,

* *Di-leet*,

‖ *Uchelda-dau*.

* *Tyſtion, Chriſt*.

* *Ymegnia*.

* *Fe ddichon y credadyn edifeiriol ufydd ſiccrhau ei hunan o hynny*.

Etto ennyd o flynydde.
Rhwn a helodd gynt *Eſaias*,
I Jachau clwyf *Hezekias* ;
* *Ddanſon.* Hwnnw * helo o'r nêf Angel,
I Jachau Sir *Lewis Manſel.*

### *Rheſſymmau yn cyffroi'r claf i fod yn ddioddefg*

ONi bae fod yn anghenrhaid,
Dofi'r corph wella'r enaid ;
Ni ddanſone Dduw glefydon,
Byth ar un oi anwyl feibion.
Yr oedd Duw yn gweled ei enaid,
Yn glaf iawn o bechod diriaid ;
Nid oedd lun i gadw ei fywyd,
Nes di goſpi a'r fath glefyd.
Oni baſſe'r cwppan chwerw,
Fe allaſe d' enaid farw :
† *Edifaru.* Yn ddiſymmmwyth heb † repentio,
A mynd dros fyth i boenydio.
|| *Toſt.* Trwy gyſtudd corph a chlefyd || diriaid
*Pſal.* 119.7: Y mae Duw'n Iachau dy enaid ;
70. Ac yn d' arwain trwy ddifeirwch,
At dy Griſt i gael ei heddwch.
Trwy glefyddon mae Duw'n tynnu,
Dyn i geiſio cymmorth Jeſu ;
A gwir Jechyd pur iw enaid,
Rhag ei fynd i uffern embaid,
A chlefydon bach amſerol,
Mae'n rhag-achub poen tragwyddol ;
Ac wrth goſpi'r corph mor ddiriaid,
* *Yr enaid graſſol.* Dofi'r cnawd a * chadw'r enaid.
Nid clefydon ond dialau,
Blin, a haeddodd dy bechodau ;
Dwg gan hynny yn ddioddefgar,
Y fath glefyd cruaidd hygar.
Fe allaſſe dorri d' wddwg,
Am dy fuchedd oedd yn gynddrwg,
A'th roi i uffern i boenydio,

eb roi amſer itt' repento.
Rho gan hynny yn ddiwegi,
diolch iddo am dy goſpi:
le gallaſe dy lwyr ddiſa,
'th roi * Frwylian yn Gehenna.
* Loſci yn Uffern.
Fe allaſe Dduw dy roddi,
an law gelyn câs i'th goſpi;
lc mae'n raſol iawn yr ywan,
n dy goſpi a'i law ei hunan.
Nid yw'r Arglwydd yn dy blagio,
legis gelyn i'th andwyo;
nd yn dirian yn dy faethryn,
legis Tâd yn trin ei blentyn.
Er bod Arglwydd yn dy faeddeu,
lae er hynny yn dy * garu;
* Sef os graſſol wyt ti.
ob gwialennod ag a roddo,
dd fel plaſter i'th elio.
Ni ry Duw ſydd mor ddaionus,
a'th Dâd nefol ſydd mor * garcus;
* Oſalus.
lefyd arnad na chaledi,
a wnel itti fawr ddaioni.
Fe wyr Duw beth yw dy ddolur,
y rym dy ryw, dy naws, dy nattur;
rydd dy groes, yn ol dy gyflwr,
i bydd dy hwn uwchlaw dy gryſdwr.
Er bod Aloes yn beth chwerw,
lae e'n achub dyn rhag marw;
r bod clefyd yn dy flino,
Mae'n dy achub rhag dy ddamnio.
Y mae miloedd yn * gehenna,
hai a ddygent fwy o boenfa;
* Sef os edifarhei di. Luc. 13. 5. * Uffern.
ros fil miloedd o flynydde,
caent rydd-did o'u poenydie.
Arwydd têg o'i râs a'i ffafar,
w cael coſp trwy glefyd hawddgar;
dd yn gwneuthur dyn yn barod,
yn yr el o flaen y drindod.
Clefyd ſydd fel chwip i'th goſpi,

Nid fel cleddef llym i'th dorri;
Swmbwl awchlym i'th ddihuno,
Ac nid bwyall i'th ddiſtrywio.
Ffuſt i ddyrnu ffwrdd dy ffwlach,
* Ffan i nithio dy holl ſothach;
Ffwrn i buro dy amrhyddion,
Chwyp i'th goſpi yw clefydon.
*Nid da mei i'r llawn ddigonol,*
*Nid da gwynfyd i'r annuwiol;*
*Nid da gwin ir poeth ei * golydd,*
*Nid da iechyd i'r anufydd.*
*Nid* oes arnad gymmaint dolur,
Ag a fu ar rai o'th frodur:
Sydd yr wan mewn eſmwythder,
Yn y nefoedd gwedi'r blinder.
Bu ar *Lazar* glefyd flinach,
Bu ar *Job* ddoluriau trymmach;
Bu ar Griſt ei hun fwy blinder,
Maent yr wan mewn eſmwythder.
Ac os tithe fydd ddioddefgar,
Fe ry Duw itt' hyn o ffafar;
Fe wna naill a llaeſu'th flinder,
Ai fe'th gymmer i eſmwythder.

### *Ymddiddanion cyſſurus rhwng y claf Duwio enaid yn erbyn ofn Angeu.*

O Fy enaid pam ei hofni,
Fynd at Griſt a fu'n dy brynu:
Ag a gollodd waed ei galon,
I'th rhyddhau o law d' elynion?
* Pam yr ofni fynd ir nefoedd,
Lle mae Chriſt yr hwn a'th brynodd;
A'th Dad nefol, a'r glan yſpryd,
A'r holl Sainct mewn braint a bywyd.

* *gwintill.*

* *Cylla.*

* *Ni ddichon y dyn diras ddywedyd fel hyn wrth ei enaid o herwydd os bydd efe marw yn ei bechod, heb ffydd ac edifeirwch, ni c efe fyned ir nefoedd.* 1 Cor. 6. 9, 10. *ac am hynny tra yn aros ac yn byw yn ei bechodau heb droi oddiwrthynt y gantho achos i ofni. Edifarha gan hynny bydd*

*n newydd graſol gan ymheddychu a Duw trwy Griſt, at yno*
*lli ddywedyd, O ſy enaid Pam yr ofni &c.*

Mae fy mlaen i yno euſiwys,
n Jachawdwr 'rhwn am prynwys;
riſt tynn finne d' aelod attad,
anhawſed gennif ddwad.
Oh! fy enaid cwyn dy galon,
m 'r ofni mor echryſlon:
wel Fâb Duw, ai waed, ai weli,
dynnodd ffwrdd oedd raid itt' ofni.
Oh! fy enaid gwel dy brynwr,
wel dy geidwad a'th Jachawdwr;
wel dy bardwn gwel dy garto,
wel y nêf a'r hwn a'th bie.
Oh! nac edrych ar dy bechod,
wel yr Oen a laddwyd droſſod;
c nac ofna wedd y Barnwr, 1 *Jo.* 2. 1.
riſt ei fab yw dy Ddadleuwr.
Ac nac ofna 'r Angeu melyn, 1 *Cor.* 15.
riſt a dynnodd ffwrdd ei golyn; 55. 57.
all Angeu ond dy ſymmyd,
r byd hwn i dir y bywyd. *Luc.* 16: 22.
*Nac* arſwyda rhuthreu Satan, || *Ddiſgwyl*
wel Angelion Duw i'th || waetion; *wrthyt.*
Chriſt Jeſu a ſaith lygad,
ydd a nos bob awr i'th wiliad:
Ac nac ofna'r bedd lludlychlud,
wely Chriſt yw hwn fy anwylyd;
mae'r prynwr gwedi dwymo,
bob Chriſtion nes cyfotto.
*Na* wna bris o uffern boene,
wel gan bwy y mae * allwodde; * *Agoriade.*
an dy Griſt y mae cadwriaeth, *Datc.* 1. 18.
lwedd uffern a marwolaeth.
Oh gan hynny cwyn dy galon,
m ir ofni mor echryſlon?
wel fâb Duw a'i waed a'i * weli, * *Ai glwyfe.*
dynodd ffwrdd oedd raid itt' ofni.

Gym-

Cymmer gyſſur cwyd di olygon,
Dring uwch law pôb daiarolion;
Gwel y Nêf a brynwyd itti,
2 *Tim.* 4. 8: A'r Tifeddiaeth ſydd itt' ynddi.
*Datc.* 7. 9. Gwel dy orſedd, gwel, dy goron,
* *Palmwydd* Gwel dy * Balme, a'th wiſcoedd gwynion
*i arwyddoctau* Rhai a brynodd Mab Duw itti,
*buddugoliaeth.* Fry yn nheyrnas y goleuni.
Gwel dy Griſt a'i holl Angelion,
Gwel y ſainct a'r holl rai cyfion;
Yn dy odiſgwyl ddwad attyn,
Ac yn barod bawb i'th dderbyn.
† *Math o* Gwel dy delyn, Gwel dy † feiol,
*caffes yn* Gwel dy wers a'th ganiad nefol;
*cerdd.* Fry yn diſgwyl fynd i ganu,
*Deut.* 15. 2. I'th Jachawdwr am dy brynu.
Llef gan hynny am d' ymddattod,
I gael mynd at Griſt dy briod;
*Phil.* 21. 3. O garchardy 'r corph a'th lygrwys,
I gael trigo ym Mharadwys.
Lle mae Duw a'i holl Angelion,
Chriſt a'i Sainct, a'i Apoſtolion,
Mewn Gogoniant a rhialtwch,
Yn teyrnaſſu mewn dedwyddwch.
*Dat.* 21. 4. Nid oes yno ddim Anghyſſur,
Poen, na chlefyd cwrp na dolur:
Na marwolaeth na dim triſtwch,
Ond llawenydd a dedwyddwch.
Oh Hiraetha am gael hedſan,
I'r wlad lawen hon yn fuan:
At dy brynwr Chriſt a'th briod,
Mae dy Neithior ynddi'n barod.
O fy enaid meddwl dithe,
Am dy 'mdrwſſio yn dy dlyſſo:
I fynd o flaen Chriſt yn addas,
Yng wiſc ſanctaidd y briodas.
*Zech.* 13. 1. Golch dy hun yn ffynnon Dafydd,
‖ *Gwaed.* ‖ Gwaed yr oen, a doigreu cyſtudd;

Yn

mlanha mewn gwir ddiſeirwch,
ydd yn Ghriſt Gwiriondeb Heddwch.
Gwiſc ſancteiddrwydd Chriſt am danad,
i gyfiawnder yn lle trwſiad;
eth dy wallt mewn grâs a gobaith,
ardda'th freſt a chariad perffaith.

*Chriſt yn uni-*
*ig ſydd yn*
*glanhawyr e-*
*diſeiriol odd-*
*iwrthbechod,*
*Dat.* 1. 5.

Cais dy lamp a nynn dy Ganwyll,
wg ith luſern olew didwyll;
wilia, Gwarchod, a Gweddia,
es del Chriſt na chwſc, na ſlwmbra.

*‡ Hoppian.*

Deffro, diſgwyl am dy briod,
lef am dano nes oi ddyfod:
el yr Hydd na orphwys freſiad,
es del Chriſt dy Briod attad.
Dywaid wrtho dere weithian,
ere Arglwydd, dere'n fuan;
ere, Jeſu Ghriſt ſyng hariad,
ere, tynn fy enaid attad.
*Ith ddwy ddwylo Arglwydd hyfryd,
r wi'n brudd yn offrwm f' yſpryd;
ans ti brynaiſt Duw 'r gwirionedd,
wg ei weithian i'th drugaredd.

* *Os creda-*
*dyn edifeiriol*
*ſanctaiddwyr*
*ti elli yn hyd-*
*erus offrwm*
*enaid i ddwylo Chriſt canys fe a'i derbyn i'r nefoedd.* Act.
59. Luc. 23. 43. Ond am y rhai ſy'n marw heb roi
udd-dod i'r Arglwydd Jeſu, fe a ddywaid wrthynt
wy, ewch ymmaith oddiwrthiſ chwi holl weithredwyr
wiredd. *Luc.* 13. 28. *gair toſt yw hwn.*

### *mddiddan arall rhwng y claf duwiol a'r enaid am ofni Marwolaeth.*

O Fy Enaid dywaid immi,
Mewn pryſſurdeb, Pam yr ofni;
ydd at Griſt a'i wir angelion,
'r byd brwnt a'i holl drallodion.

*Holiad.*

Toſt athrwm yw gorfod gadel,
wraig a phlant, a ffryns a chenel;
ai a thir, a Da, a Dodrefn,
ch eu gweled mwy drachefen.

*Atteb.*

O

O f' anwylyd cymmer gyſſur.
*Sef ar graſ- ſol wyt ti.* Di gae olud * mewn mwy meſſur!
Siwrach ffryns, a gwell cyſeillion,
Gyda Chriſt a'i wir Angelion.
Os da blant a ofna'r Arglwydd,
Ai waſanaethu mewn Sancteiddrwydd;
Di gae weld dy blant drachefen,
Mewn Gogoniant yn dra llawen.
Yn lle ffryns a mwyn gyfeillion,
Di gae'r ſainct a'r holl Angelion;
I'th fawrhau a'th gywir garu,
A'th blant eilchwaith i'th ddiddanu:
Gad dy wraig, a'th blant a'th bobol,
I gadwriaeth dy Dad nefol;
* *Cynbaliwr,* * Rhwyſcwy'r weddw, Tad ymddifad,
Pſ. 146. 9. Yw'r goruchaf wrth ei alwad.
‖ *Yr hwn a* Na wna bris ddim am dy olud,
*orchfygodd* Nac o'r dodrefn wael ſydd gennyd;
*ran fawr or* Mae 'n y Nêf fwy ar y ſeder,
*Byd.* Nag y ſeddodd *Alecſander.*
Na wna bris o'th neuadd lwydlas,
* *Maen* Mae'n y neſoedd dai o * *Dopas*;
*gwerthfawr.* Gwedi Dduw o berls i gwneuthur,
Yn diſcleirio fel y gwydur.
Nad hiraetha am dy Diroedd,
Na'th Berllannau na'th winllanoedd;
Mae 'Mharadwys dir ſydd deccach,
* *mwy hyfryd* Ffrwyth ſydd well a Gerddi * araulach.
* *Gyfryſ.* Na wna * gownt am Aur nac Arian,
* *Gerddedd* Mae'n y neſodd Aur iw * damſian;
*troſto.* Perls a gems yn gweithio gwelydd,
*Datc.* 21. Aur yn paſio 'r holl heolydd.
*ar* 19. 8. *Na* wna bris am un o'th Swydde,
Mae'n y nefoedd fwy o radde:
Y mae'r gwaetha ſy'nddi yn ffeiriad,
Ac yn Frenin mawr ei alwad.
Na wna bris am dillad gwychion,
Mae 'mharadwys wiſcoedd gwynion;

Yn diſgleirio ar dy gefen, *Mat.* 13.43.
Mewn gogoniant fel yr haulwen. *Dat.* 22.
*Na* wna bris o'th ſwyd newynllyd,
Mae 'mharadwys Bren y bywyd;
Manna yn ſwyd ‡ *Aqua Vitæ* yn ddiod, ‡ *Dwfr y bywyd.*
Gwledd heb ddiwedd oes heb ddarfod.
*Na* wna bris am ddim difyrwch,
Rhwn ſydd yma'n blaenu triſtwch;
Mae yn y nefoedd wir lawenydd,
Sydd yn parhau yn dragywydd.
*Na* wna gownt o ddim ſydd genyd, *Psal.* 16. 11.
Ond ymgweiria am dy fywyd: *Mat.* 25. 21.
Fynd yn rhwydd trwy lawn barodrwydd,
I lawenydd Chriſt dy Arglwydd.
Lle mae mwy o wir eſmwythder,
A dedwyddwch ar dy ſeder; 1 *Cor.* 1. 9.
*Nag* all calon dyn chwenychu,
*Nag* un Tafod i ſynegu.
Dôs gan hynny dôs yn llawen,
Dôs at Ghriſt dy ben dy berchen:
Gado 'r byd ar maint ſydd yntho,
Mam a Thâd i ſyned atto.
Yn lle 'r pethe darſodedig,
A geiſt yma gantho eu benthyg:
Di gei bethau na ddarſyddant,
I'w meddiannu mewn gogoniant. 1 *Pet.* 1. 4.
Di gei Jechyd heb ddim nychdod,
Ac eſmwythder heb ddim trallod:
Gwir lawenydd heb ddim triſtwch,
Oes heb ddiwedd mewn dedwyddwch:
*Ni* chaiſſ clwyf na haint na dolur,
*Newyn* ſyched nac anghyſſur:
Trallod triſtwch ochain wylo,
*Nac* un Gelyn mwy dy flino.
Di gei ſyw mewn mawr lawenydd, *Dat.* 21. 4.
A dedwyddwch yn dragywydd:

Ym mhlith miloedd o Angylion,
I foliannu dy Arglwydd tirion.
'Di gei eiſte mewn * Côr Euraid,
I glodfori 'r oen Bendigaid;
Ac i ganu ‡ *Halelujah*,
Yn dragywydd i'r Gorucha.

* *Tyrfa o gantorion.*
*Dat.* 1. 19.
† *Molwch yr Arglwydd.*

Pwy gan hynny na ymadawe,
A'r Byd hwn a'i boen a'i bethe;
I fynd at ei Brynwr heddu,
O bae 'r Arglwydd yn cenhadu:
Duw agoro dy ddau lygad,
I weld Teyrnas Chriſt dy geidwad;
Duw ro ei Yſpryd i'th gyfrwyddo,
Ymbaratoa i fyned atto.

### *Agoriad byrr yn erbyn ofn Ange, ar daioni sy*
### *yn dyfod oddiwrth dduwiol Farwolaeth.*

‡ *Craffwch ar y geiriau duwiol.*

*farwolaeth nid yw'r daioni hyn yn canlyn marwolaeth y rhai drwg*

OH! na wyddeu Dyn pa ddonieu,
Sydd yn dwad oddiwrth Angeu;
Byth nid ofne o'i ddyfodiad,
Ond fe leſe am ei ddwad.
Y mae Angeu'n gwneuthur diwedd,
Ar ein cyſtudd a'n hanwiredd;
Ac yn dwyn o Fôr trafferthwch,
Ddyn i'r * Porthlâdd o ddedwyddwch.
Y mae'r Angeu 'n tannu 'n gwely,
Gwedi'n trafferth inni gyſcu;
Ac yn rhoddi mawr eſmwythder,
Gwedi'r trallod taſt a'r blinder.

* *Hafan.*

Y Mae Angeu 'n claddu 'n beiau,
Ein cleſydon a'n doluriau;
Fel na ddichon pechod mwyach,
Nac un cleſyd flino ymhellach.

*Eſa.* 67. 1. 2.

Y mae Angeu'n tynnu'r cyfion,
Lawer pryd rhag gweld trallodion;
A ddigwydda yn dra rhigil,
Ar eu gwlad ac ar eu heppil.
Mae e'n tynnu rhai gwirionniaid,

Sydd yn myſg câs Bechaduriaid;
Rhag ir rhain eu hudo i bechu,
Ac i weithio'r peth nas dylu.
  Y mae Angeu 'n dioſc dynion.
O'u hen frattieu ſarnllyd brwnton:
I ddillattu 'r rhain yn helaeth,
Mewn hardd wiſcoedd iechydwriaeth:
  Mae'n rhyddhau yr enaid hyfryd,
O'r carchardy tywyll tomlyd:
I gael gweld goleuni'r Arglwydd,
A'i waſnaethu mewn perffeithrwydd:
  Y mae Angeu * toc yn dattod,
Enaid o'r corph caeth i bechod;
Ac heb aros yn cyſſylltu,
Hwn ai briod mawr Chriſt Jeſu.
  Y mae angeu'n tynnu dynion,
Ir nef ole at Angelion;
O'u ty candryll ſydd ers dyddie,
Ym-mron cwympo ar eu penne.
  Mae e'n tynnu † maes o Sodom,
I'r Mynydd dir rhag y Storom;
Ac yn mynd o'r Aipht i *Ganaan*,
Air rhai Duwiol yn ddiofan.
  Y mae Angeu 'n tynny dynion,
O'r byd hwn i gael y *Goron*;
A bwrcaſiodd Chriſt trwy Angeu,
I rhai ffyddlon a'i gwaſnaethu.
  Y mae'n tynny dyn oi ofyd,
A'i drueni a'th drist fywyd;
I ogoniant ac hyfrydwch,
I gael byw mewn gwir ddedwyddwch.
  Pwy gan hyn a ofno Angeu,
Sydd yn helpu dyn mor ddeheu;
I fynd allan o bob trallod,
A'i † droſglwyddo i lys y Drindod?
  Gâd i'r ‖ Pagans di rinwedde,
Gad i'r Tyrcod ofni Ange;

* *yn ebrwydd*

*Phil.* 1. 23.
2 *Cor.* 5. 1.

† *Allan*

2 *Tim.* 4. 6. 8.

† *Ddwyn-droſodd.*

Ond nac ofned un gwir Griſtion,
Fynd trwy Angeu i gael y *Goron.*
Lu. 25. 10. Dydd ein *Jubil* a'n gollyngdod,
Dydd ein rhydd-did o bob trallod;
Dydd ſy'n gollwng ein Eneidie,
O'r carchardy yw dydd ange.
Dydd ein Neithior a'n Priodas,
A Chriſt Jeſu 'r gwir *Feſſias*;
* *Dydd i gael y Goron.* Dydd ein gwledd a'n * Coronaſiwn,
Yw'n dydd diwedd os yſtyriwn.
Dydd ſy'n gorphen ar ein gyrſa,
Dydd ſy'n tynnu o gyfyngdra;
Dydd ſy'n talu ein Cyfloge,
† *Dydd i ddyfod ac ben yr yrſa.* Dydd y † gôl yw dydd ein Ange.
Dydd ſy'n derbyn i Baradwys,
At Fâb Duw yr hwn a'n prynwys;
Dydd ſy'n rhoddi'r *Gown* a'r *Goron*,
Yw dydd Angeu i bob Chriſtion.

### *Gweddi i gyfarwyddo 'r clâf am y pethe rheitia iw ceiſio ac i fyfyrio arnynt mewn Clefyd.*

DUW 'r diddanwch llaeſa mlinder.
Tâd toſturi rho i mi 'ſmwythder:
Meddyg pob clyf Jacha nolur,
Jeſu Mâb Duw rho im gyſſur.
Act. 16. 18. Tynn fi o dywyll Deyrnas Satan,
Ac o bôb dallineb allan:
Fal gallwy weld fy mhechod,
A llonyddu fynghydwybod.
Gwna fel *Dafydd* i'm repentio,
† *Ediſara* Gwna fel *Magdalen* i mi wylo:
*Pſal.* 51. Gwna fel *Ninif* im gydnabod,
*Jonah* 3. A'm ofudio am fy mhechod.
2 *Chron.* 33. Gwna mi geiſio pardwn gennyd,
12. Fal *Manaſes* yn ei ofyd:
*Eph.* 1. 7. Ac ymbilian am drugaredd,
‡ *atoddeſaint* Megis *Peder* am f' anwiredd,
Gwna 'mi gredu fod im bardwn,
Gwedi ſelu a gwaed dy baſiwn;

A

A bod f' enaid gwedi olchi,
Yn dy waed oddiwrth ei frynti.
Gwna fi hefyd yn ddioddefgar,
Dan fy nolur megis *Lazar*;
A throi arnat ti fy hyder,
Megis *Job* er maint fy mlinder.
Gwna mi geiſio ymwared gennyd, *Job.* 13. 15.
O'm trallodion ac om clefyd;
Fal *Elias* o'i flindere,
Modd y gwelech fod yn ore. 1 *Bren.* 19. 4
Gwna a mi megis *Hezecias*,
Droi 'r byd heibio a'i berthynas;
A throi f' wyneb ar y pared,
I roi yng Hriſt fy holl ymddiried.
Gwna im feddwl am y cyfri, *Eſa.* 38. 2.
Ddydd y Farn fydd rai dim roddi;
Am y gwaith a'r geiriau ofer, *Rhuf.* 14. 12
Oni cheiſiai râs mewn amſer. *Mat.* 12. 36.
Gwna im wrando ar dy Fengyl,
A'th ‡ bromiſion ynddi'n rhigyl, ‡ *addewidiad*
Gwna im ddala gafael ffyddlon,
Ar d' addewid a'th bromiſon.
Gwna im feddwl am y bywyd,
Yr ai iddo ar fyrr ennyd,
Lle mae Sabboth o eſmwythder,
Heb na chur na phoen na blinder.
Gwna i'm wadu'r by'd twyllodrus,
A'i holl wagedd anwireddus;
Ac ymgweirio ddwad attad,
Yn diaros anwyl geidwad.
Gwna im offrwm heb ddeffygio,
Gorph ac enaid yn dy ddwylo;
Ac ymbilio hyd y diwedd,
Am dy ffafar a'th drugaredd.

### *Diddanwch rhagorol i'r enaid galarus yn erbyn gwan-obaith.*

O Fy enaid pam i'r ofni,
Faint dy bechod os difaru?

Lle bu'r Jeſu farw droſſod,
I'th ryddhau oddiwrth dy bechod.
Pam ei ofni farn yn Barnwr,
Chriſt yw'th Dwrneu a'th ddadleuwr;
*Jo.* 3. 18. Mâb yr Juſtus trwy Farwolaeth,
A'th ryddhaodd o ddamnedigaeth.
Ni chondemnir yn dragwyddol
Un a gretto i Ghriſt yn fywiol;
Ond hwy baſſiant wrth eu ſymud,
O farwolaeth i wir fywyd.
O fy Enaid ymlonydda:
Dy Dduw graſſol a'th gyfiawna:
*Rhuf.* 8. 33, 34. Pwy all gwedyn dy gondemnio?
Mae Chriſt droſſod gwedi hoelio.
Chriſt ai waed a ylch dy bechod,
Ac a'th wnaiff mor wynn ar manod;
*Eſa.* 1. 18. Er dy fod mor gôch ar Scarled,
§ *Agor.* Chriſt a'th ylch mor wynn ar foled.
Yr Haul a * tywlia'r Cwmmwl tewa,
Sebon ylch y dillad buttra;
§ *Os fel bwythau yr edifaru ac y credi di* Rhinwedd Chriſt a gudd dy frynti,
Ei waed a'th ylch mor wynn ar Lili.
Duw faddeuodd bechod *Peder*,
Rhyfyg *Dafydd* a'r Mâb ofer:
Rhwyf *Manaſſes* a'i holl feie,
Duw a fadde'th bechod dithe.
Cymmer gyſſur cwyn dy galon,
Lladdwyd Mâb Duw ar yr hoelion:
Am dy bechod a'th gamwedde,
Er ei fwyn di gei eu madde.

‖ *ddifrifol.* *Gweddi* ‖ *brûdd am faddeuant pechodau.*

O Fy Nuw yr hwn am creaiſt!
O fyngheidwad'r hwn am prynaiſt!
O'r glan yſpryd! o'r gwir Drindod,
Cadw f' enaid maddeu mhechod.

E

Er mwyn Jeſu'r hwn am prynodd,
Ac ym hob peth a'th fodlonodd:
Maddeu i mi oll a chwbwl,
Ar a wnaethum i o'th feddwl:
Golch a'i waed fy mai a'm mrynti;
Clâdd fy mhechod yn ei weli:
Cûdd fyngwradwydd a'i gyfiawnder,
Madde im fy holl ddiffeithder.
Gwiſc fy enaid o gylch gwmpas,
A gwiſc ſanctaidd y briodas:
Gwna fi'n barod ddwad attad,
O fy *Nghriſt* mewn gweddus drwſſiad.
Dod d' Angelion im caſtellu,
Nâd i Satan fynghorchfygu:
Cadw fy enaid yn dy ddwylo,
Nâd o *Ghriſt* i'r Llew ei larpio.
Pan y delwi i'r § Barr i atteb,
Ger dy fron am fy anuwioldeb:
Gwared f' enaid er mwyn Jeſu,
Na ro i mi o'r farn wi'n haeddu.
Cymmer Angeu Chriſt e'i fudd-dod,
Yn jawn i ti am fy mhechod;
Fo gondemniwyd am fy meie,
Er ei ſwyn na ddamma finne.
Haeddais Angeu haeddais § Dopheth,
Haeddais Farn rhagrithiwr diffeth:
Duw na ddyro'r hyn wi'n haeddu,
Rho i mi'r hyn a haeddodd Jeſu.
Fe gyfiawnodd droſſwi'r gyfraith,
Fe'th fodlonodd droſſwi'n berffaith:
Fe groeshoeliwyd am fy mrynti,
Er ei ſwyn rho bardwn i mi.
Nid oes genni na ſancteiddrwydd,
Na chyfiawnder na pherffeithrwydd,
Nac ymwared iawn na ſwccwr,
Ond ſydd gennyd Chriſt fy Mhrynwr.

§ *O flaen yr orſeddfainge*

§ *Uffern Rhuf.* 6. 23.

*Chriſt yw ynghomffordd Chriſt yw ynghyſſur,*
Chriſt yw yngobaith yn fy ngwewyr:
Chriſt yw fy helpwr ar awr Ange,
Chriſt yw 'ngeidwad ddydd diale.
Fe fu farw yn anghyfryd,
Er pwrcaſſu immi fywyd,
Er yr Angeu a ddioddefwys,
Duw dwg fy Enaid i Baradwys.
*Gweddiau* Duw rho Gluſt i wrando 'ngweddi
*byrrion.* Duw rho d' yſpryd i'm cymfforddi:
*Am Eſmw-* Duw rho olwg ar fy nolur,
*ythder.* A'th law raſſol llaeſſa yngwewyr:
Oen Duw maddeu i mi fy mhechod,
Sela Bardwn i'm cydwybod:
*Am faddeu-* Cladd fy meiau yn dy weli,
*ant.* Nad hwy ei chwaith adgyfodi.
*† Archollion* Rwy fi'n ofni dy gyfiawnder,
Rwy'n brawychu rhag dy ddigter;
*Am Ddi-* Rwy'n marnu am fy mhechod,
*ddanwch.* Duw diddana fy nghydwybod.
Dod o Griſt dy Angeu gwirion,
*Am ddoniau* Rhyngwyfi a'th farn echryſlon;
*Chriſt a'i* Dod dy fudd-dod rhwng cyfiawnder,
*gymmorth.* Dy Dad cyfiawn am diffeithder.
Chriſt a'th Waed gwna heddwch etto,
*Am gym-* Rhyngwi a'th Dâd ſydd gwedi digio,
*mod.* A'th waed diffodd ei ddigofaint,
Fel na byddo mlinder cymmaint.
*Amgyſnerth* Egwan wyf, o Criſt cryfhau fi,
Gwann a clâf fy Nuw iacha fi;
Trwm a thriſt, ac ofnus ddigon,
*Am gyſſur.* Cryfha fy ffydd a chwyn fy nghalon.
Duw'r diddanwch llaeſa mlinder,
Tad toſturi rho imi eſmwythder;
Meddyg pob clwyf, iacha nolur,
Jeſu Mab Duw rho i'm gyſſur.

Llaeſa

*Amheuad.*

 Llaeſa 'mlinder doſa 'nolur,
Gwel ſy mhoen a therr ſy ngwewyr,
Treſna'n niwedd penna 'n trallod,
Dwg fi attad trwy'n dy warchod.

*Am nerth yſprydol.*

 O ſy Nghriſt corydda Satan,
Cadw ſy Enaid rhag ei Safan;
Cynnal fi a'th haelwch Yſpryd,
Dwg fi attad i'r gwir fywyd.

*Am Drugaredd.*

 Oen Duw maddeu im ſy mhechod,
Oen Duw pura ſy nghydwybod;
Oen Duw gwilia ar ſy niwedd,
Oen Duw derbyn fi'th drugaredd.

*Am wir gredyniaeth.*

 Dywaid Arglwydd wrth f' enaid,
Itti bwrcaſſu'r Nêf fendigaid;
A'th waed gwerthfawr trwy fawr boene,
Iw rho immi wedi Ange.

*Am Nefol ddewid.*

 Dywaid Arglwydd wrth ſy enaid,
Dywaid Arglwydd, dywaid dywaid;
Heddyw cei di'n gynnar orphwys,
Gyda mi yngwlad peradwys.

*Am gadwriaeth.*

 Chriſt ſy Mugail cadw ſy enaid,
Nâd'r llew o'th law ei Scliffiaid,
Tydi 'm prynaiſt yn ddryd ddigon,
Dwg fi i'r nefoedd at dy Angelion.

*Am dderbyniad ei enaid.*

 Derbyn f' enaid anwyl Geidwad,
Derbyn f' enaid weithian attad;
Digon bellach o'r fath ddyddiau,
*Nid* wi gwell na'r rheſt o'm Tadau.

*Am dduwiol ymadawiad.*

 Rwi'n gwyllyſſio cael ſy nattod,
A dwad attad, Chriſt ſy mhriod;
Tynn fi weithian Arglwydd Jeſu,
Os bydd d' wyllys yn cenhadu.

*Am gadw ei yſpryd.*

 I'th ddwy ddwylo Arglwydd hyfryd,
I'r wy'n brudd yn offrwm ſy yſpryd:
*Nad* ymhwer neb ei ſcliffio,
*Nai* ddwyn mwyach byth o'th ddwylo,

Chriſt

*Ynerbynrbuthre Satan.* Chriſt fy Mugail cadw f' enaid,
Nad i'r llew o'th law ei ſcliffiaid;
Rhwn ſy 'n ceiſio fy ngorchfygu,
Yn fy ngwendid a'm traflyngcu.
Dyma 'r pryd y cais ef drecha,
*§ Camp.* Fynd ar § Gof pan byddwi gwanna;
*Nertha* fy ngwendid Arglwydd cyfion,
Gadw'r gôl rhag colli 'r Goron.
Dôd dy Yſpryd yn fy nghalon,
Dod o bob tu'm dy Angelion;
Dod d' arfogaeth oll am dana,
*Nad* i'r Gelyn gael y trecha.
*Nertha* fi ddiweddu yn gyrfa,
Gwna 'r awr ore fy awr ddiwaetha;
Arnad Arglwydd mae fy hyder,
Derbyn f' enaid i'th eſmwythder.

*Gweddi fyrr i'r clâf duwiol iw harferu ar yr awr ddiwaethaf.*

NAwr o Arglwydd y gollyngu,
Fi mewn heddwch o'm carchardy;
Gwna im llygaid cyn marwolaeth,
Weld dy nerthol Iechydwriaeth.
Daeth y dydd a'r awr a roddaiſt,
Daeth yr amſer a derfynnaiſt,
Daeth y Tymmor daeth y terfyn,
*Nid* oes lle i'm fyned droſtyn.
Y mae yngyrfa ar ei gorphen,
Am dydd diwedd ar ei ddiben;
Y mae 'r terfyn gwedi dwad,
Arglwydd derbyn fy enaid attad.
Megis *Stephan* rwy fi 'n dwedyd,
*Arglwydd Jeſu, derbyn fy Yſpryd:*
*Act.* 7. 59. Dere Arglwydd, dere 'n fuan,
Cymmer fi i'th drugaredd weithian.

*Myfy*

---

### *Myfyrdod ar Fywyd ac ar Angeu.*

PA gynta bytho marw Chriſtion,
Cynta derbyn hwnnw ei Goron;
Pa hwya bytho Chriſtion byw,
Hwya bydd heb weled Duw.
Pa hwya bytho dyn heb farw,
Mwya ſydd gofynion hwnnw:
Pa gynta tynner dyn oi wegi,
Lleia gyd y ſydd ei gyfri.

---

### *Toſt gyflwr y dyn annuwiol gwedi Marw.*

GWyr a gwragedd Meibion Merched,
Dewch y nes rhowch Gluſt i glywed;
Cwyn a chyngor hên Ofer ddyn,
Sydd yn gorwedd dan y Brethyn.
Mi fum gynt fel yr ych chwithau,
Yn fawr fy nwyf, ymhlith fy § nhraſſu: § *Ceraint.*
Nawr heb nwyf, yn noeth yn iſſel,
Rwy fi'n gorwedd dan y treſtel.
Pan oedd fwya ymryd ar faſwedd,
Lleia meddwl am fy niwedd:
Fe ddaeth Angeu glâs heb wybod,
Ac a rodd i'm Farwol ddyrnod.
Pan yr oedd y Byd yn gwenu,
A phob Margain genni'n ffynnu:
Fel yr Jâ fe dorrodd dana,
Ac am trodd yn noeth i'r gladdfa.
Pan yr oedd fy nghorph yn Jachus,
A phob aelod genni'n rymmus,
Fel Yſten bridd fe aeth yn § ddrefion, § *Ddarnau.*
Pan ddaeth Ange ar fy Nghalon.

Gyn

Gynt roedd genni aur ac arian,
Tai, a thir, a chyfoeth llydan:
Nawr ni ſeddaf yr un ‡ Beni,
O'r holl olud gynne oed genni.
Gynt'roedd genni Geraint ddigon,
Gwraig, a phlant, a Ffryns, a gweiſion,
Nawr 'does neb ond Angeu melyn,
Y ddaw attaf dan y Brethyn.
Mi gawn lawer gynt im helpu,
Ym-mhob Ffordd y Bawn yn pechu,
Ni ddaw un yn awr i atteb,
Gydâ mi am ſy Ffolineb.
Y peth a ddaeth imi mor Sceler,
Y ddaw i chwithe Bawb ar ſyrder:
Byddwch barod cyn del ange,
Ni chewch rybydd mwy nâ minne:
Y mae Chriſt ai weinidogion,
Yn rhoi rhybydd inni ddigon;
Llawer mil ſy'n mynd i boeni,
Eiſie gwrando llais y rheini.
Y mae llawer rhyw o Bechod,
Yn dolurio ſyng hydwybod:
Nid oes un yn lladd mor rhigyl,
A Dibriſſio geiriau'r ſengyl.
Mi ſum Benffaſt a gwar-galed,
Ni wnawn bris or gair er cyſtled
Dweded Chriſt ai wyr, ei piniwn,
Ni wnawn inne ond y ſynnwn.
Gwell oedd genni wrando cyngor,
Crach Dafarnwr nag un * doctor, * Dyſcawdwr.
Er bod hwnnw im cyfrwyddo,
Ar Tafarnwr yn f' antheithio.
Gwell oedd genni awr yn llawen,
Yn'y Tafarn gydâ murſen,
Nâ diwrnod yn y demel,
Gydâ Chriſt ai anwyl genel.

Gwell oedd genni gas gyfeillach,
Moch a meddwon mewn Tafarnach,
Na chyfeillach plant goleuni:
Nawr mae'n gant edifar genni.
Gwell oedd genni 'wenydd ‡ aflan, ‡ *Llawenydd*
Na pharhau ond ennyd fechan,
Na gorfoledd teyrnas nefoedd,
Sydd yn para yn oes oeſoedd.
Gwell oedd genni bridd a cherrig;
Piês a phlwm; a moch, a cheſſig,
Na pharadwys ai Hangelion:
Na Duw mawr ai holl fendithion:
Gwell oedd genni'r cnawd na'r enaid,
Y drwg na'r da, Y moch na'r defaid,
Y byd na'r nef, y cam na'r cymmwys
Ar nos na'r dydd, ar gell na'r Eglwys.
Nawr mae'n difar gan fy'nghalon:
Fy mod mor ffol, mor ddall, mor ffinion,
A phob modfedd ſydd yn crynu,
Nawr wrth fynd ir ‡ Barr, im Barnu. ‡ *O flaen yr orſeddfaingc.*
Y mae 'nghorph yn mynd i bydru,
Ir bedd am dan fy nghwaith yn pechu;
Am henaid triſt yn mynd i atteb,
O flaen Duw am bob ffolineb.
Nawr mi Glywa-Griſt im galw,
Rhaid im atteb wrth fy enw;
F' orfydd mynd i wneuthur cytri,
Er Anhawſed ydyw genni.
O! * Bwy filoedd o Bechode, * *Bô.*
Y mae 'nghonſciens ‡ yn eu hadde, ‡ *Cydwybod.*
Rhai a wnaethym mor ddiofon,
Gynt yn erbyn Duw a dynion.
O! Bwy rol ſydd gan fy 'ngelyn,
Cyd a'r Dwyrain a'r Gorllewyn,
Yn cyhuddo ac yn traethu,
Y mann, a'r modd, y bum yn pechu.

O! pwy glywai im cyhuddo,
Ond y diawl y fu'n fy hudo,
Gynt i bechu yn y dirgel,
Gwae wrandawo ar y Cythrel.
Nid oes pechod ac a wnaethym,
Er yn blentyn na bo'n awchlym,
Yn ei daflu yn fy nannedd,
Gwae fi gynddrwg y fu 'muchedd:
‡ *Diles.* Mae e'n Achwyn mor ‡ Ddibroffid,
Gynt y treuliais fy holl ieungctid,
Mewn oferedd, a phibyddiaeth,
Heb Dduwioldeb na chriſtnogaeth.
‖ *Ymhonni.* Mae e'n ‖ claimio mae fe'm pie,
Waith fy enni'll fil o weithie,
Yn fe ieunctyd, ac na ddichon,
Duw roi iddo lai na'i gyfion.
Mae e'n dangos pob ffolineb,
Ag y wnaethym mewn Gwroldeb,
Am holl fedd-dod, am holl ryfyg,
Am trachwante câs llygredig.
*drwg.* Mae e'n dangos fy nigofaint,
* *Troeau.* Am holl * rimpe yn fy henaint,
Am Cybydd-dod, a'm hanwiredd,
‡ *Diofalrwydd.* Am ‡ Dimdawrwydd am fy niwedd.
Mae e'n taeru led ei ſafan,
Iddo f' ennill ym-mhob oedran;
A mod inne er yn fachgen,
Yn ei waſnaethu yn dra llawen.
* *Dadleu.* Mae * e'n pledio yn ddigwyddyl,
Wrth y Gyfraith ar Efengyl,
Mae fe'm pio eiſio Credu,
Gwella 'muchedd, a difaru.
A lle tybiais trwy anwybod,
I Griſt farw dros fy mhechod,
Ac na Chaffe'r Cythrel feddu,
Ar y ſawl na bae'n ei wadu.

Y mae'r cythrel ynte'n † pledio,
Na thal ſon am hynny wrtho;
Os ni cheidw Chriſt un Chriſtion,
Ond a gretto ynddo'n ffyddlon.

† *Dywedyd,*

Y mae'r Diawl yn ddwedyd eilchwaith;
Nad oedd genni ffydd na gobaith,
Na difeirwch, na Gwell amcan,
Nag oedd gan y Twrc a'r * Pagan.

* *Dyn heb broffes o griſtnogaeth.*

Mae e'n pledio ac yn taeru,
Nad oes immi nelwy a'r Jeſu,
Eiſie gwrando ei leferydd,
A bod yn greadur newydd.

*2 Cor. 5. 17.*

Er i mi gael enw Criſtion,
A'm bedyddio gyda'r ffyddlon;
Etto nid oedd well fy 'nghrefydd,
Medd y diawl na dyn di fedydd.

Mae e'n dwedyd, rwi'n ei glywed,
Nad oedd gwell fy ffydd am gweithred,
Na'm ymddygiad am harferion,
Na rhyw ‡ ethnic anobeithlon.

‡ *Un nad yw'n proffeſſu Chriſtnogaeth*

Mae e'n dwedyd na ddilynais,
Air o'r fengyl wen a glywais,
Mwy na'r Iddew nas cadd etto,
Râs iw dilyn na'i chofleidio.

Mae e'n dwedyd wrth Dduw'n amlwg,
Y rhy gennad torri ei wddwg,
Os adroddai iddo'n rhygyl,
Bedwar gair o'r holl efengyl.

Mae'n galw Duw ei hunan,
Ai Angelion fawr a bychan,
Yn dyſtiolaeth nad yw'n dwedyd,
Ond gwirionedd ar fy mywyd.

Mae fy * nghonſciens drom dan chwſſu
Gyda'r diawl yn tyſtiolaethu,
Ac yn dwedyd mewn gwirionedd,
Felly'n uniawn y bu 'muchedd.

* *Cydwybod.*

Mae

‡ *Yſpilio.* Mae'n dwedyd i mi ‡ ſbilio,
Pobol dlodion a'i hanrheithio,
Dwyn eu Tai a'i Tir oddiarnynt,
A Sclyſaethu'r maint oedd ganthynt.
Mae e'n dwedyd immi ſeddwi,
A phuteina ac ymloſgi,
Torrir Sabboth fil o weithiau,
A dibriſio Duw a'i ddeddſau.
Y mae'r Diawl gan hynny 'n goſyn,
Am i Ghriſt roi'r ſarn im herbyn,
Am troi i uffern byth ei boeni,
Am ſy mhechod a'm drygioni.
O! pa grynu O! pa gwynſan,
Y mae ſ' enaid rhag gwg Satan,
Sydd yn dyſod ai wyr duon,
Idd iw gyrchu at Dduw cyſion:
O! mor chwerw, O! mor ddiflas,
O! mor ffiaidd ac mor atgas,
Ydyw pechod gantho 'nawr,
Fu e'n garu gynt mor ſawr.
O! bwy gywilydd ſy arnai wrando,
† *Siccr.* Y cyhuddwr i'm cyhuddo,
Am gan peth na ſynne ſ' enaid,
Er y byd i'm mam ei 'ſtyriaid.
Gwell gan ſ' enaid pe cai ddewis
*Rhuf.* 2. 6. Fynd i uffern hyn ſydd ddilus,
*Na* mynd i'r barr at y Drindod,
I roi cyfri am ei bechod.
Etto 'ſ orfydd arno ymddangos
O flaen Duw nid oes lle aros,
I roi cyfrif llawn a derbyn.
Barn ſel y bo'r gwaith yn goſyn.
*Nid* wi'n clywed neb yn pledio,
*Nac* yn chwarau'r twrnai droſto,
*Nid* wi'n clywed arno atteb,
Un o filoedd oi ffolineb.

Rwy

Rwyfi'n gweled Duw a'r Llyfrau,
Yn yſpyſſu ei droſeddau,
Ac yn datcan yn * ddi-gwaſel,
Y pechodau wnaeth yn ddirgel.
Rwyfi'n clywed taflu fuchedd,
Front ddi greſydd yn ei ddannedd,
Ai gnawdolrwydd a'i afreolaeth,
Ai ddrwg arſer ddigriſtnogaeth.
Rwyfi'n clywed cyfri'r llwon,
A fu'n tyngu myſc y meddwon,
Ai ffieidd dra ar y Sabboth,
A'i ddrwg naws a'i eiriau annoeth.
Rwy'n ei glywed ynte'n tewi,
Ac yn gruddfan ac yn codi,
Heb agoryd dim ei enau,
Mwy na'r Pyſc ond ochain weithiau.
Rwyfi'n clywed Chriſt yn ‡ gwyſio,
R Diawl i glymmu ei draed ai ddwylo,
Ai daflu i'r tywyllwch eitha,
Lle nad oes ond cûr a phoenſa.
Rwyfi'n clywed Chriſt yn traethu,
R * ferdid arno gan ei farnu,
dân uffern yn dra union,
At y Cythrel ai Angelion.
Rwyfi'n gweled Satan ynte,
Yn ei rwymo mewn Cadwyne,
Ac i uffern yn ei dwmblio,
Gwedi clymu ei draed ai ddwylo.
Rwyfi'n clywed ynte'n lleſain,
Ac yn Beichiad ac yn ochain,
Wrth ei daflu mor anffafriol,
Llwyr ei ben ir tân uffernol,
Rwyfi'n gweled y cythreuliaid,
Hwyntau'n rhwygo ei gorph ai enaid,
Fel y rhwyge gwn di-gaſſog,
Wrth eu newyn iwrch neu ſcwarnog.

* *Yn gyhoeddus.*
*Preg.* 12. 14
*Rhuf.* 2. 16

† *Cwynfan.*

‡ *Erchi.*
*Mat.* 22. 13

† *Farn.*

* *Daflu.*

‖ *Yng wyſc ei ben.*

‖ *Deiſyfiad.* Rwyfi'n gwrando ei ‖ ganlyn yntau,
Yn crio'n doſt am gael ei angeu,
Ac er toſted y mae'n galw,
Nid yw nês er hynny farw.
Mae e'n gorwedd mewn tywyllwch,
*Mat.* 9. 43, Yn Nhan uffern heb lonyddwch,
44. Rhyng Cythreuliaid lle mae newyn,
A phoenydio nid oes derfyn.
Nid oes dim yn torri nghalon,
Mor ddigyffur ac mor greulon,
Ac yw meddwl fel na dderfydd,
Dim oi boenfa yn dragywydd.
*Jo.* 5. 28, Dymma'r mann a'r lle y gorfydd,
29. Arnaf inne'r corph di-grefydd,
‡ *Doſt.* Fynd i boeni atto'n ‡ irad,
Yn ol dydd yr Adgyfodiad.
A da beth y dylwn fyned,
I dan uffern er ei boethed,
Os myfi a barodd iddo,
† *Edifarhau.* Bechu'n fynych heb † repentio.
Dynna'r lle yr a'r holl bobol,
Ddrwg ddi grefydd gâs aneddfol,
Yn ôl hela 'r ty trwy'r ffeneſt,
Byw fel môch mewn glwth a gloddeſt.
Mi gynghorwn bawb gan hynny,
*Deut.* 21, 8. Ofni Duw a'i wir waſnaethu,
A byw'n ſanctaidd ac yn ddeddfol,
Rhag eu troi ir tân uffernol.
Byddwch ſobor byddwch ſanctaidd,
Byddwch union o Chriſtnogaidd,
Oni byddwch gwn yn ſiccir,
Mae i uffern eich condemnir.
Ofnwch Dduw gwrandewch y ſengyl
Gwoglwch droi at hon eich gwegil,
Byddwch fyw fel gwir Griſtnogion,
Os chwennychwch gael y Goron.

Nid gwiw ‡ pledio ffydd heb weithred, ‡ *Haeru.*
Nid plant Duw mor * Libertiniaid; * *Y rhai ſ'yn*
Nid gwir Griſtion dyn di grefydd, *cymryd rhydd-did i*
Plant ir fall yw'r rhai anufudd. *bechu.*
Ni thal dwedyd yr wi'n Griſtion, 1 *Jo.* 3. 8.
O bydd ffydd heb weithred ffrwythlon, *Jo.* 8. 44.
Ni bydd bywiol ffydd heb weithred,
Mwy na'r tân heb wrês pan gynned. *Jac.* 2. 14.
Byddwch oneſt byddwch union, *Mat.* 7. 17.
Duw ni odde gam fargeinion,
Os arferwch dwyll na ffalſtedd, 1 *Theſſ.* 4. 6.
Trwm o'r dial yn y diwedd.
Beth y ennill dyn wrth dreiſio,
Pilio'r tlawd ai lwyr anrheithio,
Os ‡ tormentir hwn o'r diwedd, ‡ *boenir.*
Yn nhan uffern am ei gamwedd. *Mat.* 16. 26
Beth y dal i ddyn dros ennyd,
* Bleiſio'r cnawd a chael ei wynfyd, * *Boddhau.*
Os a wedyn yn dragywyddol,
Ar ei ben ir tan uffernol.
Beth a dal ir ddyſal lanw,
'R bola dro ar win a Chwrw,
Od ae gwedyn am dy ſedd-dod,
I newynu i uffern iſſod.
Beth a ennill dyn wrth dwyllo,
Torri promis ac * amdwyo, * *Diſa.*
Ei gymmydog tlawd trwy gamwedd,
Od ai uffern am ei ffalſtedd.
Naded neb i'r Diawl ei dwyllo,
Y wnelo ddrwg fe atteb droſto,
Fel yr hauoch felly medwch, *Gal.* 6. 7, 8.
Fel y gwneloch y derbyniwch.
Mae mor hawdd ir Cythrel ſceler, 2 *Theſſ.* 5. 3.
Fynd ir nêf y dydd ei barner,
Ac ir drwgddyn glwth di grefydd,
Diangc uffern ddydd ei gyſtudd.

Hi

Hir i'r erus Duw heb daro,
Llwyr y dial pan y delo,
Am yr echwyn ar hir ſcori,
Fo ry gyflawn daliad inni.
2 Pet. 3. 9. Fe gyd ddwg a'r bobol waetha,
Luc. 13. 5. Ennyd hir i geiſio eu gwella,
Gwedyn eiſio torri'n ddiſeiriol,
Fe'i llwyr dry ir tân tragywyddol.
Duw ro grâs i bob dyn wella,
Tra ſo'r dydd ar goleu'n para;
Duw ach gwnel chwi bawb yn barod,
Cyn del Angeu i roi chwi ddyrnod.

---

*Cwyn a Cyngor* Deiſes *iw bum brodur.*

CLywch bawb gwyn a chyngor *Deiſes*,
O'r fflam boeth ar danllyd ffyrnes,
‡ *Geraint.* I bum brodur ai holl ‡ draſſe,
Rhag eu dwad i'r lle mae ynte.
O fy mrodyr clywch ſi'n traethu,
Fynhôſt gyflwr gwedi 'nghladdu,
Fel y galloch chwithau ddiangc,
Rhag y cyfryw boenau didrangc.
Mae arnai ddyled i'ch chynghori,
A rhoi rhybudd amlwg i chwi,
Rhag heb wybod i chwi ddwad,
I fath garchar di-dymchweliad.
A pha gwypech ſaint om trallod,
Am holl boen yn uffern iſſod,
Chwi wrandawech ar ſyngeiriau,
Rhag iwch ddwad ir fath boenau:
Gwn yn yſpus iawn po gwypech,
Faint om poen am cur am gorthrech,
† *Pentaeth.* Na chymmerech dda † amherod,
Er ei goddef un diwrnod.

Os ni ddichon dyn nac Angel,
Adrodd gymmaint yw ſy nhraſel,
Yn y fflam a'r Tan uffernol,
Llei'm poenydir yn dragywyddol.
Bum i gynt yn ſawr ſy rhyſig,
Yn y byd yn wr ar benig,
Yn rheoli ſal y mynnwn,
Ac yn gwneuthur ſaint wllyſiwn.
Bum yngolwg llawer un,
Heb ofni Duw heb berchi Dyn,
Mwy nag ‖ Inffidel neu Bagan,
Y ddilyne ei * ffanſi ei hunan.
O mi dybiais trwy gam greſydd,
Na bawn marw yn dragywydd,
Ac o byddwn marw unwaith,
Na ddoe * ymorol arnai'r eilwaith:
Er bod *Moeſen* ar Prophwydi,
Yn mynegi'n amlwg i mi,
Fod ſy enaid yn anſarwol,
Ni wnawn bris ou geiriau graſiol.
Er eu bod yn dangos immi,
Y gorſydde gwneuthur cyſri,
Ger bron Duw am bob mileindra,
Nid ae hynny yn ſynghloppa.
Nawr yn uffern rwin caol dyſgu,
Mae gwir oeddynt yn ei draethu;
A bod Enaid didrangc genni,
Yn y fflam yn gwneuthur cyſri.
*Tobiais* hefyd tra ſum byw,
*Nad* oedd un nêf nac un Duw,
*Nac* un uffern nac un Cythrel,
*Na* gwell diwedd dyn na nifel.
*Nawr* yn uffern wrth boenydio,
Y mae'r Diawl im Gateceiſio,
Ac yn dangos yn blaen ſimmi,
Fod Duw i ddial pob drygioni.

‖ *Dyn digred*
* *Dyb.*

* *Ymofyn,*

* *Addyſgu.*

Nawr

Nawr rwy'n Clywed ac yn canfod,
Fod y Diawl ac uffern iſſod,
A miloedd o Gythreuliaid,
Wrth y farn yn poeni f' enaid.
Rwyfi'n gweld yn eglur hollol,
Fod pob Enaid yn anfarwol,
Gwedi marw'r Corph a'i gladdu,
Bid drwg bid da fo'r Enaid hyny.
Mat. 24:35. Nawr y gwn mae gwir yw'r Scrythur,
Nawr y gwn fod Chriſt yn eir wir,
Nawr gwn y treulia'r nefoedd,
Cyn el Geirie Chriſt yn niffodd.
Eiſie Credu hon mewn amſer,
Nid yw 'nghrêd yn awr ond ofer,
Eiſie ei chredu yn fy mywyd,
Mi fum byw fel nifail ynfyd.
Felly byddwch chwithau 'mrodur,
Oni chredwch eirie'r Scrythur,
Ac amcanu byw yn ddeddfol,
Yn ei hol fel meibion graſſol.
Eiſie dilyn Geirie'r Scrythur,
Eiſie dofi trachwant nattur,
Eiſie byw 'ngoleuni'r ſengyl,
‖ Cyflwr. Rwi fi nawr mor ddrwg fy ‖ mhiccil.
Eiſie dilyn cyngor *Moeſen*,
Eiſie credu'r ſengyl lawen,
Eiſie cadw pwyntiau'r Gyfraith,
Y bu 'muchedd front mor ddiffaith.
Pan y troes i'r ſengyl heibio,
Fe ddaeth Satan im cyfrwyddo,
Ac im tynnu i bob drygioni,
Y fae 'nhrachwant yn ei hoffi.
Nid oes pechod alla'i draethu,
Nas dilynais nes im laru,
Nes mynd hywyd ffiaidd *Deiſes*,
Mor ddibareb a *Manaſſes*.

Gwnaethum Dduw o'm golud bydol,
Rhoes fy mryd ar bethau cnawdol,
Ym-mhob drwg mi aethym rhagof,
A gollyngais Dduw yn angof.
Felly gwedi toſt gamſyniaid,
Llwyr ddibriſiais am f' enaid;
Fel rhyw nifel na bae'n coffa,
Dim ond am y byd a'r bola.
Mynnais drwſiad gwych am danaf,
Pwrpl coch * bob dydd o'r meinaf,
Nawr yn uffern rwi'n noeth lymyn,
Am fy'ngoegedd heb Edefyn.
Mynnais * Sindon Lawnd a Chambrig,
Yn fy ngryſſe † awr ac orig;
Nawr gwae finne na bae Garthen,
Neu hws Ceffyl am fy nghefen.
Minnau fynnwn lanw mola,
Arddainteith fwyd o'r melyſſa,
Bob diwrnod tra fu'r flwyddyn,
Er bod f' enaid yn dwyn newyn.
Bum mor foethus ac mor * ddaintl,
Ac na fynnwn unwaith brofi,
Dim ond y fae tra danteithiol,
Brâs a melus drûd a manol.
Nawr mi ſynnwn pe cawn fwytta,
Soeg y moch i lanw 'mola,
Ac i dorri peth o'r newyn,
Sy'n dolurio pob Coluddyn.
Bum yn yfed ac yn chwiffio,
Bir a Gwin heb feſur arno;
Ac yn llanw mola ganwaith,
Nes ei chwdu fynu eilwaith.
Nawr mi rown y byd yn gyfan,
Ai holl dryſſor pe cawn ddafan,
O ddwr oer i oeri'n hafod,
Sydd mewn fflam yn lloſci'n wastod.

* [illegible]rled.

* Lliain main.

† Bob amſer.

* Finfelus.

Er bod ar fy mor i friwſion,
‡ *Ragad:* Alle borthi ‡ ſwrn o dlodion,
Fe gae'r Cwn y Cwbwl rhyngthyn,
Cyn cae *Lazar* un briwſionyn.
Nawr mae *Lazar* yntau'n talu,
Pwyth hyd adre, ac yn pallu,
Rhoi o'r ffynnon immi ddafan,
O'r dwr oer er maint wi'n fegian:
Er bod *Moeſen* a'r Prophwydi,
Yn rhoi llawer rhybydd im-mi;
Ni wrandawn ar ddim a ddwedent,
Ni wnawn un rhith ag a geiſient.
Nawr gan hynny rwi'n cael crio,
Ddydd a nos, heb gael fy ngwrando,
Ond cael taflu yn fy nannedd,
Mor annuwiol y fu muchedd.
Pan Bregethid yr Efengyl,
Minnau drown at hon fy ngwegil,
Ac y gyſgwn ar fy nyrnau,
Pan bae eraill yn cael gwerſau.
Nawr am gyſgu yn y demel,
† *Poenir.* Fe'm † Tormentir gan y Cythrel,
Fel nad wyf yn abal cyſgu,
Na marwinio mwy ond hynny.
Ac am flino gwrando'r ſengyl,
Ac Athrawiaeth Chriſt yn rhigyl,
Y mae'n gorfod arnai wrando,
Screch y Cythrel byth tra gantho,
Eiſie gwrando cyngor *Moeſen*,
Eiſie credu 'r ſengyl lawen,
Eiſie dilyn hon ai dyſgu,
* *Ochain.* Y mae yn uffern fil yn * gryddfu.
Minnau dreuliais ddydd yr Arglwydd,
‡ *Wantan-rwydd.* Mewn glothineb ac anlladrwydd ‡
Yn gan gwaeth mewn gloddeſt ſcymmyn,
Nag un dydd o ddyddiau flwyddyn.

Mae' ma filoedd o rai annoeth,
Am halogi'r Sanctaidd Sabboth,
Heb gael Sabboth nac Eſmwythdra,
Ond yn poeni haf a gaia.
Cymrais Enw Duw yn ofer,
Fil a weithiau wrth fy mhleſer,
Nid oedd blas ar chwedel genni,
Nes y tyngwn waed yr Jeſu.
O † bwy boenſa f' ar fy nhafod, † Ba.
Am ddirmygu gwaed y cymmod;
A phwy * dorment ſy'n fy ngryddfu, * Boen.
Am amherchu Enw'r Jeſu.
Minne offrymmais f' enaid ganwaith,
Yn y dydd ir Cythrel diffaith,
Am i roi mor fynych iddo,
F'aeth y Diawl a'r Enaid gantho.
Mae' ma lawer mil fel finne,
Yn y pwll mewn * irad boene, * Tyſt.
Am roi ei hun ir diawl dan regu.
Wedi i Griſt a'i waed eu prynu.
Llawer un a fum i'n hela,
O dra malis i ryfela,
Er mwyn Tywallt gwaed y *gwirion*,
*Eu* difetha heb achoſſion.
Nawr mae gwaed y rhain yn llefain,
Am ddialau arnai 'n filain,
Ac yn *Crio* ar y Cythrel,
Dalu immi am fy nhrafel.
Bum yn gweſt ar fywyd ganwaith,
Heb nac ofon Duw n'ar gyfraith,
Yn Condemnio llawer Gwirion,
Ac yn cadw * llofrudd, lladron. * *Lleiddi-*
Nawr mae'r * mwrddwyr dan eu henw, *aid.*
A'r drwg ddynion fum i'n gadw, * *Lleiddi-*
Yn y pwll yn ‖ llarpio f' enaid, *aid.*
Mor ddiffafar a'r Cythreuliaid. ‖ *Rhwygo.*

Larais ar fy ngwraig fy hunan,
Cymrais fenthig gwragedd aflan,
Llu o'r rhain fy nawr im pwyo,
Ym hwll uffern am eu hudo.
Mae'r baſtardiaid fûm i'n ennill,
O'r rhai aflan hyn fel perchill,
* Poeni. Oll yn llefain ac yn *Crio*,
Am ir Cythrel fy * nhormentio.
Minne orthrymmais blant ymddifaid,
Pan bae farw un om deiliaid,
* Brefu. Awn a'r ddau ych fawr o'r arad,
Rhag ir naill o'r ychen * freifad;
‡ Curir. Nawr am dreiſio'r fath wirioniaid
Fe'm toſt * ffyſtir gan Gythreuliaid,
Yn gan gwaeth nag y bydd Tanner,
Borcer. A'r Pawl mawr yn ffyſto'r lleder.
* Llogi. Bum yn * hirio anwir ddynion,
Lawer gwaith i dyngu'n udon,
Ac yn peri'r rheini dyngu,
Beth y fynnwn ond eu dyſcu.
Y mae rhain fel haid o nadredd,
Ddydd a nos yn Cnoi fy mherfedd,
Ac yn rhwygo'n deſt fy nghalon,
Am eu dyſgu dyngu'n udon.
Minnau elwais bobl wirion,
‖ Lleiddiaid. Weithiau'n ‖ ſwrddwyr, weithiau'n lladron,
Ac enllibiais wyr a gwragedd
Heb ddim achos ond fy'nrhawſedd:
Cedwais hûr a llawer Cyflog
‡ Anhappus. A'r fy ngwâs o'r tlawd * anffodiog,
Ac y berais ir Tlawd fedi,
Gynhaiaf. Fy holl * heiniar heb un beni.
* Geiniog. Nawr mae gwaed y rheini'n Crio,
Ar y drygwr am fy mhwyo,
† Anrheithio. Am im Gadw hur y rheini,
Ac † Andwyo'r Gyfryw, dlodi.

Rhoddais f'arian gynt ar * occor,
Ir dyn Tlawd fel cybudd § anger;
Nes im lyngcu ſedde'r tlodion,
A'i handwyo â'm bargennion.
Nawr mae llawer un o'r rheini,
Ymma'n uffern yn fy mhoeni;
Am eu gyrru i ledratta,
Gwedi f' occor brwnt eu dlfa.
Rhoddais ir Cyfreithwyr duon,
Wabar fawr om dreiſſio tlodion;
Mae'r Cyfreithwyr yn fy llethu,
Ymma'n uffern am eu llygru.
Rhoddais gennad im holl weiſion,
* Vexo pawb o'm Cymmydogion:
Nawr mae'r gweiſion am ei godde,
Yn vexo'n doſt fy enaid inne.
Prynais dir dan bris gan fagad,
Cedwais beth ar bawb o'u Taliad.
Nawr mewn Carchar rwi am hynny,
Heb fod gennif roit i dalu.
He bae ddimme'n abal prynu.
Rhydd-did im-mi om Carchardu,
Am dwyn o'r pwll ir noſ ole,
Nid wi'n abal cael o'r ddime.
Cefais rybydd fil o weithie,
Am roi dreiſiais cilwaith a dre;
Minnau awn ir Tân uffernol,
Cyn rhown ddimme yn ei gwrthol.
Pan y gwerthwn wlân allafur,
Rhown gam bwyſau rhown gam feſſur:
Yn yr yd mi werthwn raban,
Yr un bris a'r gwenith purlan.
Ac yn Erbyn Duw a'i ddeddfe,
Cedwais amryw ſort o bwyſe;
Pwys rhy fawr pan fawn yn prynu,
Pwys rhy fach, pan fawn yn gwerthu.

* *Llog.*
‡ *Trachwantus.*
* *Gorthrymmu.*

Nawr fe'm Curir ar fy' nghloppa,
Gan y Diawl â'r pwyſau mwya;
A phawb Eraill megis minne,
Y fu'n arfer anwir bwyſe.
* pwngc. Ni adewais * bwynt o'r Gyfraith,
Heb ei thorri lawer Canwaith;
Mi ymdrois ym-hob rhyw bechod,
Nes ir Angeu roi im' ddyrnod.
Mi fynegais iwch yn oleu,
B'wedd y bum i byw hyd Angeu;
Mi fynegaf i chwi weithian,
B' wedd im poenir dan law Satan.
Y mae'r pwll lle rwyfi'n trigo,
Yn ddwfn jawn heb waelod iddo;
Dat. 20. 3. A'i holl * welydd ſydd Cyn uchled:
* Muriau. Nad oes Gobaith Cael ymwared.
Y mae'r pwll dros fyth yn lloſgi,
O dân poeth fel mor yn berwi;
Y mae anal Duw ei hunan,
Eſa. 30. 33. Yn ei drin fel mor o frwmſtan.
Gwedi nynnu'r Tan hwn unwaith,
Byth ni ddiffodd hwn yr eilwaith;
Nid rhaid chwythu dim o hono,
Mat. 9. 44. Mae e'n Cynnu heb ei gyffro.
Y mae'r Tân dros fyth yn lloſci,
Yn 'dra ffyrnig ac yn poeni,
Ac er hyn nid yw e'n treulio,
Nac yn difa dim ei iddo.
Mat. 10. 15 Mae'r un tân yn poeni'r bobol,
Ond mewn dull a modd neillduol;
Rhai yn fwy neu lai o ronyn,
Fel y bythoi beiau'n gofyn.
|| Dyn du. Yr Haul a lyſc y || Mwr o's *India*,
Yn fwy na'r rhai a drig yn *Ruſſia*;
Uffern boeth y lyſc yn boethach;
Bechod mawr na phechod byrrach.

Nid oes yn y pwll yn Trigo, Mat. 22. 13.
Un heb twym ar draed a dwylo,
Mewn Cadwynau Tragwyddoldeb,
Am eu pechod a'u ffolineb.
Mae tywyllwch hefyd ynddo, *Mat.* 25. 30.
Ail pôb rhai yn hawdd ei deimlo,
Ac er dechreu'r byd ni welad,
Ynddo oleu'r Haul neu'r Lleuad.
Mae e'n drewi Cyn ffyrnicced,
Nad oes dim all drewi gaſſed;
Er bôd miloedd yn ei ayrddo,
Ni lanhawd erioed o hono.
Y mae pryfed ynddo'n bwytta, *Mat.* 9. 14.
† Conſciens dyn heb gael ei gwala, † *Cydwybod.*
Dydd a nôs yn fawr ei hawydd,
Ac heb farw yn dragywydd.
Y mae gwedi mil o filoedd, * *Poeni*
O gythreuliaid megis lluoedd, ‡ *un amſer.*
Yn * Tormentio'r rhai damnedig,
Ac heb orphwys ‡ *awr nas orig.*
Maent yn dyrnu ac yn pwyo,
Rhai damnedig heb ddeffygio;
Ac Er maint y ſont yn ddial,
Byth ni chymmer un ei * anal. * *Anadl,*
Y mae'r ‡ Torment yn dragwyddol, ‡ *Poen.*
Ac ar bawb yn gyffredinol,
Yn Tormentio pawb or neilldu,
*Ymmhôb* aelod y ſu'n pechu.
*Y* mae'r llygaid heb gael gweled,
Ond Gythreuliaid Er ei Caſſed,
Ac Eneidiau Rhai damnedig,
*Yn* y pwll yn wylo'n ffyrnig.
*Y* mae'r *Genau* ynteu'n bwytta,
Buſtyl * lindys, bwyd o'r chwerwa; * *Pryſed.*
Ac heb yfed dim ond Gwaddod, *Pſal.* 73. 8.
O ddigoſaint Toſt y Drindod.

*Y* mae'r *Cluſtiau* hwynte'n gwrando,
*Luc.* 13. 28. Sgrech y diawl a'i blant yn Crio;
A thôſt ochin rhai damnedig,
*Yn* ſcyrnygu dannedd ffyrnig.
*Y* mae'r *Tafod* ynte'n lloſci,
*Luc.* 16. Ac mewn Brwmſtan poeth yn berwi;
24, 25. Heb gael Cymmaint ag un dafan,
O ddwr oer i ddoſi'r lloſcfan.
*Y* mae'r *ffroenau* yn aroglu,
*Datc.* 21. 8. Gwynt y brwmſtan o'r Carchardu,
Sydd heb garthu etto Er *Adda*,
Ac yn drewi o'r ffyrnicca;
*Y* mae'r *Traed* a'r dwylo hwyntau,
Gwedi Clymmu mewn Cadwynau;
Ac heb Allel Troi na thraigio,
† *Poethi.* O'r lle'r ydys yn ei † brwylio.
*Y* mae *Dannedd* pawb yn rhingcian,
* *Swn.* *Yn* ſcyrnygu a'r fath * dwrddan,
Ag y bydd Echrydus gennwn,
‖ *Hagwedd.* Wrando ei llais, na gweld ei ffaſhiwn ‖
*Y* mae pryfed Câs anfarwol,
§ *cydwybod.* *Yn* Cnoi § *Conſcience* pôb anuwiol;
Ac yn bwytta'n llym Eſcymmyn,
Etto byth heb dorri newyn.
Fel y pechod pôb rhyw aelod,
Ag oedd gennif, 'noed fy nhafod;
Felly poenir fy aelodau,
Bôb yr un ag amryw boenau.
Mae pob aelod yn poenydio,
Mae pôb mann a dial arno;
Mae pob dial yn dragywydd,
*Yn* poenydio heb dim llonydd.
Ni bydd marw byth o'r pryfyn,
* *Cil ceigh.* Byth ni ddiffodd Tan yr * odyn;
Ni ddaw Angeu ar y geiſiaf,
Byth i wneuthur diwedd arnaf.

Ni bu'r diluw ond blwydd hynod,
Na thân *Sodom* ond un diwinod;
Newyn *Egypt* ond ſaith mlynedd,
Mae 'mhoen innau byth heb ddiwedd;
Po cawn rydd-did o'm holl boenau,
Am ben Cammil o flynyddau;
Byddeu hynny gynffordd im-mi;
Ond dros fyth mae'n rhaid im boeni.
*Y gair* byth ſy'n torri 'nghalon,
*Y gair* byth ſy'n Cnoi 'ngholuddion,
*Y gair* byth ſy'n peri im-mi,
Fwytta 'mreichiau a gwallgofi.
Toſt yw goddef hyn o gyſtudd,
Dan law Satan yn dragywydd;
*Y* mae Etto beth ſydd doſtach,
Colli'r Jeſu a'i gyfeillach;
Colli'r bywyd, Collir Goron,
Colli'r Jeſu a'i Angelion,
Colli'r nefoedd a'i || rhialtwch,
Colli Duw a phôb dedwyddwch;
Melldith Dduw i'r dydd im ganed,
Anad ddiwg ir awr im llunied,
Uffern boeth im mam na byſſe,
*Yn* dwyn llyffant yn fy nghyfle.
Gwae fi 'rioed na thorſei 'ngwddwg,
Ar y ploccyn pren a bilwg,
Cyn rhoi bron i fab anwadal,
I ddigio Duw, i ddwymei ddial,
Nid oes Cythrel na dyn ſcymmyn,
*Ymma*'n uffern a'i holl dorfyn,
Na bônt ar ei Cylch yn § Gyngan,
*Yn* fy mhwyo fawr a bychan.
Nid oes enaid dyn er Adda,
*Ym* hwll uffern mewn mwy poenſa;
Mewn mwy trallod mewn mwy eiſie,
Nag y mae fy Enaid inne.

* *Yr Alpht.*

2 *Theſſ.* 1: 9.

|| *Gogoniant.*

*Gwddf,*

§ *Gyttun:*

Dymma 'nghyſtudd dymma 'mhoenſa;
Dymma yngwewyr dymma'ngwaſcfa,
Dymma'r cyflwr yr wi ynddo,
Bob rhyw awr yn toſt boenydio:
O gan hynny fy 'mhum brodyr,
A phawb eraill ſydd o ſynwyr,
Cymrwch rybudd cyn del Angeu,
Rhag iwch ddwad lle rwy finneu.
Oni byddwch ediſeiriol,
Ffyddlon ufydd a Chriſtnogol;
Gwn na ddengys Duw yr dialau,
Iwch fwy ffaffar nag i minnau.

---

*Ofer yw gweddio tros y marw.*

FYng-Har o'm gwir anwylyd,
Goſynſoch gweſtiwn hyfryd,
Mae'n weddus im ym-mhlaid y ffydd;
† *Ddifrifol,* Roi atteb † prudd oi blegid.
Hyn ymma yw'ch goſyniad,
Ai gweddus yw i'r ffeiriad,
Weddio dros y marw'n brudd,
Yn ol y dydd ‡ departiad.
‡ *Ymadawiad* Rwi'n atteb i chwi yn groyw,
Na ddiodde'r Scrythur alw,
Na gweddio na' dydd na nos,
Yn ofer tros y marw.
*Heb.* 9. 27. Mae Duw yn barnu'r Enaid,
*Poeth* Ir nef neu uffern dambaid,
*allan.* Yr awr yr el o'r Corph i maes,
§ *cyflwr.* *Yn* ol ei gâs a'i weithred.
*Luc.* 16. 22. Mae enaid y dyn ffyddlon,
*Phil.* 1. 23. *Yn* mynd o'i gorph yn union,
*Act.* 7. 59. I'r neſoedd at Angelion gwar,
* *mwyn.* Fel enaid *Lazar* wirion.

Ma

Mae enaid yr anuwiol,
Yn mynd i'r pwll uffornol;
(Pan êl o'r Corph) i'r Tan a'r gwres,
'el Enaid *Deiſes* ſydol.
Mae'r duwiol mewn dodwyddwch, *Pſal.* 16. 11
Gogoniant a † rhialtwch, † *parch.*
Y ſath nid rhaid iwch geiſio mwy,
Gadawn ni hwy mewn heddwch.
Nid rhaid gweddio droſtynt,
Gan gyſtal yw eu helynt; *Datc.* 7. 13.
Maent hwy gyda'r Oen bob awr, 16, 17.
A Swpper fawr ſydd ganthynt. *Luc.* 16. 23.
Mae'r enaid anwir ynte, *hyd* 27.
Yn gruddſan yn y poene;
Ni ddaw hwn o'i boeni a'i blag,
'r gweddi nag offrymme.
Yn ol i un dyn farw,
A chael y farn yn groyw, * *Sef poenau*
Ofer yw`ir wlad ar plwy, *yr anuwiol;*
Weddio mwy dros hwnnw.
Pe ceiſiai *Job* neu *Ddaniel,*
Neu *Abram, Moeſen, Samuel,*
Laeſu'r boenſa yn y fflam,
Ni chaent ddim am eu traſel.
Pe delei ffeiriaid holl fyd,
grio droſto yn daerllyd,
A'u Haberthau o bob rhyw, ‡ *Ni newidie*
Ni altrie Duw moi ferdyd. *ei farn.*
Pe dele'r byd yn gyſan,
A gweiddi am laeſu'r boenſan;
Ni chae'n gwedi marw'r gwr, *Luc.* 16. 24.
Mo'r troppyn dwr yw ſaſan. * *daſan.*
Y farn y ſaif yn ddilys,
Lle cwympo'r pren fe erys, *Preg.* 11. 3.
Ni newid Duw mor farn y rodd, *Jaco.* 1. 17.
Erioed ni thrôdd oi wllys.

Mae Duw yn ddianwadal,
Y farn y rodd fe ai cynnal;
Ni all y byd a'u hymbil taer,
Na'r nef na'r ddaer ei hattal.
Yr amſer i weddio,
* *Marw.* Sydd cyn i ddyn * ddepartio,
Gweddi gwedi marw neb,
‡ *leſhau.* Sydd weddi heb ‡ brefailio.
Gan hynny rwy'n cynghori,
† *fywyd.* I bawb y garo weddi,
Geiſio hon tra yntho wrês,
*Eſay.* 55. 6. Os cais e les oddiwrthi.
Cais wiſc cais oel cais oleu,
Cais râs cyn delo'r Angeu,
Ni cheir gwedi paſſio'r dydd,
Mor dwr os bydd e'n eiſie.
* *marw.* Gan hynny cyn * departio,
*Ni* ddylem bawb weddio,
Dyna'r pryd heb ddim o'r ffael,
Mae inni gael ein gwrando.
Cyn marw y mae inni,
1 *Cor.* 9. 24. Ennill nef neu cholli,
*Luc.* 13. 27. Gwedi marw ni chaiff ffol,
Ond barn yn ol ei frynti.
‖ *Ediſarhau.* Cyn marw mae ‖ repentio,
Trai'n ddydd y mae ymgweirio,
Pan el hi yn nos medd Chriſt ei hun,
*Joan.* 9. 4. *Ni* all un dyn mor gweithio.
*Preg.* 9. 10. Mae Chriſt yn erch i'r treiſiwr,
Gyttuno a'i wrthnebwr,
Tro ar y ffordd cyn delo 'mlaen;
*Mat.* 5. 25. Rhag mynd o flaen y Barnwr.
26. Rhag rhwymo ei draed a'i ddwylo,
* *lloſci yn* A'i daflu i gael i * frwylio;
*uffern.* O eiſie gwneuthur iawn mewn pryd,
*Nes* tynnu y byd oddiyno.

Fe wyddi *Dafydd* Frenin, 2 *Sam.* 21. 23.
'an ddarfu am ei blentyn,
Aae ofer oedd gweddio mwy,
Dros hwnnw drwy hir ganlyn.
I ddangos hyn mor ofer,
un rhyw ddyn i arfer,
Gweddi gwedi marw'r ffrynd,
Yn ol ei fynd i'w eſmwythder.
Am hyn nid oes gweddio,
Dros ffrynd yn ol departio,
Y mae'n credu fynd yn noeth.
uffern boeth i dario.
*Nid* oes i neb ond deu-le,
fyned gwedi Ange,
*Nef* ac *uffern* medd gair Duw,
Tân pûr nid yw ond chwedle:
*Nid* rhaid i neb weddio,
Dros un a i'r nef i drigo,
Os yn uffern y gwna ei nyth,
*Ni* ddaw e byth oddiyno.
*Nid* oedd ond gweithred ofer,
A wnaeth i'r ffeiriad arfer,
Gweddi tros y marw mûd,
dwyllo'r byd di bryder.
*Nid* ydyw'r ffeiriad gore,
Yn godde'r fath weddie;
*Nis* gwna ond rhyw offeiriedyn ffol,
Sy'n ſerchu'n ol y ddimme.
Mae dyled ar bob ffeiriad,
Roi diolch am 'madawiad,
Pob dyn duwiol yn § ddi-ddoi,
Mewn gobaith o'i gyfodiad.
Ond am weddio droſtyn,
Yn ol eu clâdd a'u terfyn,
Peth diles gwaharddedig yw
*Nid* gwna ond rhyw ofer-ddyn.

§ *ddimme.*

Wel

Wel dymma i chwi atteb,
O'th chweſtiwn mewn ffyddlondeb,
Duw ro gynnydd ar eich ffydd,
A gras yn brudd i'th hwyneb.

---

### *Cynger Mr.* Prichard *iw Fâb.*

*SAMI* bâch er cariad Duw,
Coſia fyth tra fyddech byw,
Foli Chriſt ar ben dy linie,
Trech om golwg oddicartre.
‡*Oddifrif.* Galw'n ‡ brudd o ddyfnder calon,
Ar dy Dâd a'th Brynwr tirion,
Am d' amddiffyn nos a bore,
Rhag pob drwg trech oddi cartre.
Plyg dy ddeu-lin cod dy ddwylo,
Dial yn graff dy lygaid arno,
Cais ei rym a'i râs a'i ote,
Ymhob dim trech oddi cartre.
Felly ceidw Duw di'n waſtod,
Rhag pob niwed a drwg anffod;
Ac ni edi ddim yn eiſie,
Ar *Sam* bach tro oddi cartre.
Cria ar Dduw am help i ddyſgu,
*Nabod* Chriſt a'i wir waſanaethu,
Trech yn blentyn yn dy foethe,
Dymma'th ſwydd trech oddi cartre.
Arfer ofni Duw ai ganlyn,
Yn dy Jeuengctid trech yn blentyn,
‡*ſiccr.* Felly byddi ‡ ſiwr mewn gradde,
Foli Duw yn hen wr gartre.
Dôs yn llawen at dy Lyfur,
* *Ar frys.* Dyſc yn * glicc ac na fydd ſegur,
*Nid* wi'n gwardd er hyn id weithie,
Chware peth trech oddi cartre.

Cyn bech ſegur taro'r delyn,
Cân ſy pſalme ſy'n ei chanlyn,
Fe fydd hyn * ddifyr weithie,
Sam bach tro oddi cartre.
Can fel cricced ar bob cam,
Gwachel wylo, am dy fam,
Duw fydd mam a Thad o'r gore,
I *Sam bach* tro oddi cartre.
Duw roi i ras a'i fendith itti,
Duw 'th gyfrwyddo iw addoli,
Duw fo ceidwad nos a bore,
Ar *Sam* bach tra oddi cartre.

* hyfryd.

COD y bore ar y wawr ddydd,
Am y cynta a'r Ehedydd,
Hynny 'th helpa i gael hir iechyd,
Dyſc a dawn a chyfoeth hefyd.
Gwiſc yn § eſgyd dy holl ddillad,
Dôd y rhain yn gryno am danad;
*Nâd* fod bwttwm heb ei gaued,
Cyn y caffo neb dy weled.
Golch dy wyneb crib dy ben,
A'th gwff yn lan a'th fond yn wen,
A'th drwſſiad oll yn dra threfnus
O flaen Duw mae hynny'n weddus.
Gwedi ymdrwſſio dôs i'th weddi,
Yn ddiaros gochel oedi;
Cwymp o flaen Duw ar dy linie,
Cyn y gwlychech di dy ene.
Pan y delech o flaen Duw,
Meddwl *Sam* mai Brenin yw,
O flaen pwy mae'r holl Angelion,
Yn ymoſtwng mewn mawr ofon.
Dere ditho ar dy ddeu lin,
*Sami* bach o flaen dy Frenin,
Ac na chytcam wrtho yngan,
Heb anrhydedd parch ac ofan.

§ *Ebrwydd.*

Ar dy linie côd d' olygon,
*Pſal.* 95. 6. At dy nefol Dâd yn * con,
* *Hyſ.* Ac nac ofna ofyn iddo;
Bob peth ag ſydd raid it wrtho.
Er bôd Duw yn *Frenin* grymmus,
Holl-alluog anrhydeddus,
Etto er hyn mae Chriſt yn dwedyd,
Fod Duw mawr yn Dad id hefyd.
*Mat.* 6. 9. Galw dithe ar dy Dad,
Am roi itti ddawn a rhad,
Ac ni phall e ond ei geiſio,
Ddim ac y fo rhaid id wrtho.
*Pſal.* 34. 10. Os bydd arnat ddim ar wall,
Cais yn daer, ac na fyn ball,
*Jac.* 5. 16. Hoff gan Dduw y dyn y geiſio,
Yn daer bob awr am gymmorth gantho.
*Pſal.* 18. 30. Cais ei gymmorth ac fe ddyru,
Galw arno ac fe wrandu,
*Dib.* 8. 17. Rho di ynddo dy ymddiried,
Ac fe'th geidw rhag pob niwed:
Cofia Dduw fe'th gofia dithe,
Ac ni edy arnat eiſie:
Ei waſnaethwyr fe'u gwaſnaetha,
Ai ddirmygwyr fe'u dirmyga.
Os gwaſnaethu Dduw yn waſtad,
† *Gofal.* Fe gymmer cymmaint † garc am danad,
A phed fae ef heb un plentyn,
Ond tydi i garcu droſtyn.
Meddwl dithe Sami bach,
§ *arfer gor-* Yn gefnog p' un ai claf ai iach,
*chymynedig* Am waſnaethu Duw bob amſer,
*gan Dduw* Ddydd a nos wrth gwre ac arfer.
*Dib.* 22. 6. Os arferu nawr yn blentyn,
Waſnaethu Duw yn brudd a'i ganlyn,
Yn wr hen ni elli beidio,
La na'i waſnaethu byth tra ganto.

Du

Duw ro itti rym a gras,
fod iddo byth yn was,
Nes y caffech yn y diwedd,
Yn y nefoedd fod yn 'Tifedd.

---

## *Gweddi Mr S. P.*

ARglwydd rhoddwr pob daioni,
Brenin nef a Thâd goleuni,
Gwel a gwrando weddi egwan,
Plenton bach o ddeng-mlwydd oedran. *Jac.* 1. 17.
Rwy fi'n dwad ar fy neu-lin,
O'th flaen di fyngraſſol *Frenin*,
fegian arch ar dy ddwylo,
Er mwyn Chriſt na phall i'm honno.
Di orchmynaiſt immi ofyn,
Di addewaiſt roi ond * canlyn, * *Gyfyn*,
Canlyn rwyfi na phall immi, *Mat.* 7. 7, 8.
O'r un arch ag wyfi'n erchi.
*Solomon* gynt y Brenin hyfryd, 1 *Bren.* 3.
Y geiſie un arch *Doethineb* gennyd:
Ac di roddaiſt ei Arch iddo,
A llawer mwy nag oedd e'n geiſio.
*Jacob* ynte geiſiodd gennyd,
Fwyd a dillad nes dychwelyd,
Ac di roddaiſt hynny iddo, *Gen*. 28. 20.
A llawer mwy nag oedd e'n geiſio, *Gen*. 32. 10.
Minne ſydd yn dwad attad,
Ar fy naulin anwyl *Geidwad*,
Geiſio gennyd arch trwy weddi,
Er mwyn Chriſt na phall hi immi.
Nid wi'n ceiſio golud bydol, ‡ *meluſder*.
Uchelfraint, na phleſer cnawdol;
Ond yn unig gras a gallu,
Byth fel Chriſtion i'th waſnaethu.

Dyro ras a grym i minne,
Nawr yn blentyn gwympo i ddechre,
Dy waſnaethu mewn gwir grefydd,
A'i arferu yn dragywydd.
Nad im dreulio dyddie'm jengctid,
* *Gormo-* Mewn oferedd * rhwyf a rhydd-did;
*dedd.* Ond par immi yn fy nghryfdwr,
Dy addoli fy'ngrheadwr.
*Dan.* 1. Agor dryſſor dy ddaioni;
‡ *Y ſawl* Dyro ras a deall immi,
*oedd o'r un* Yn ddyn bach dy wir gydnabod,
*oëdran ac ef* Megis *Daniel* gynt a'i ‡ gyfod.
*Jer.* 1. *Jeremi* y prophwyd ynte,
Yn fab bach i'th wir addole;
*Rhuf* 12. 1, 2 Dyro ras fel *Jerem* immi,
Yn fab bach i'th wir addoli.
Rwi'n fy offrwm i'th waſnaethu,
Yn fy ieungctid yn hiraethu,
Arglwydd graſol derbyn finne,
I'th waſnaethu yn ddiamme.
Di dderbynaiſt *Samuel* gynta,
I'th waſnaethu ar y ianga,
Pan yr oe'd ef yn ei ſiacced,
1 *Sam.* 3. Yn fab bach yn dechre cerdded;
Derbyn finne Arglwydd graſol,
I'th waſnaethu mor naturiol;
Ac eglura dy hun immi,
Fel y gallwy'n fach d' addoli.
† *Cyflawna.* O † ffwrneiſia fi'n ddigonol,
A phob dawn ſy'n anghenrheidiol,
Immi gaffel bod yn enwog,
Yn was itti'r holl-alluog.
Agor lygaid fyng wybodaeth,
*Pſal.* 119. 18 Rho im ras a deall helaeth,
Fel yſtyriwyf yn dra pherffaith,
Bethau dirgel yn dy gyfraith.

Nym

---

Nynn
O'th w
Fel y llo
Yn dwy
Cwrd
Oddi ar
Fel y
Dy faw
Rho
Dy wir
Fel y g
Beth ſyd
Gwn
Yn f' y
Gan fy
Ym mh
Dym
Dymma
Er mwy
Ras yn
Nad
O hyn
Ond pa
Ynghyl
Tyw
Par im
Rho im
Ac i go
Byd
Bid d'
Byd dy
Bid dy
Clod
Mawl i
Gwir o
Y fo i

Nynn fyng halon a gwreichionen,
O'th wir ras tra fyddwi'n fachgen,
Fel y lloſcoi byth yn wreſog,
Yn dwyn * zêl ir holl-alluog. * *Awyddfryd.*
Cwrdd am calon a marworyn,
Oddi ar d' allor tra fwy'n Blentyn, *Eſay.* 6.
Fel y gallwi draethu'n ole,
Dy fawr glôd tro chwyth im gene.
Rho im bwer i ddeallu,
Dy wir air, a'i iawn ddoſbarthu,
Fel y gallwi iawn yſtyriaid,
Beth ſydd dda ar les fy enaid.
Gwna fi byth yn * batrwn bywiol, * *Eſampl.*
Yn f' ymddygiad i'th holl bobol,
Gan fyw'n ſanctaidd, yn fy muchedd,
Ym mhob § pwynt o'm dechre im diwedd. § *peth.*
Dymma f'arch a dymma ‖ 'nghanlyn, ‖ *Deiſyfiad.*
Dymma'r rhoddiad wi'n ei ofyn:
Er mwyn Chriſt na phall i immi,
Ras yn blentyn i'th addoli.
Nad im dreulio dim om hamſer,
O hyn allan byth yn ofer.
Ond par immi dreulio'n waſtad,
Ynghylch y peth y berthyn attad.
Tywallt fendith ar fy 'nhrafel
Par im ddyſgu yn ddiogel;
Rho im gymmorth i ddeallu,
Ac i gofio'r peth wi'n ddyſgu.
Byd dy lygaid im diwallu,
Bid d' Angelion im caſtellu,
Byd dy yſpryd im cyfrwyddo,
Bid dy ras im cynnorthwyo.
Clod iti a gras i minne,
Mawl im *Brenin* nôs a bore;
Gwir ogoniant yn dragywydd,
Y fo im *Harglwydd* am Achubydd, *Amen.*

Cyngor

## *Cynger Arall.*

* *Na wno yn rhy fawr o'r corph.* NA * phampra'r corph i lâdd yr enaid,
Na ddigia Dduw i bleſſio diawlaid
Na werth y nef i brynu daiar;
Na phecha mwy rhag bôd yn difar.
‡ *Ryngu bodd,* Be caet beunydd fwytta Manna,
Ar felus fwyd lanw'th fola;
Beth wyt nes, o dai'n ol hynny,
I Bwll uffern i newynu?
Be caet yfed gwin yn ddiod,
*Scarlet main.* Gwiſco * porphor ffein yn waſtod,
Dodi'th droed ar warr Brenhinoedd,
Beth wyt nes o coll'r nefoedd?
Be baet berchen aur yr India,
Da'r holl fyd a'r tiroedd teca;
Beth y dâl it hyn o wagedd?
*Mat.* 16. 29 A cholli d' enaid yn y diwedd:
Be caet orwedd gyda Fenus,
‡ *Goreu.* Pleſſio'th gorph o'r ‡ ffeindia gerddwys;
Beth yw d' ennill am dy drafel?
A mynd d' enaid gan y cythrael.
* *Taro* Be caet bawb i * ffyſto'th gefen;
Plant y byd i'th ſirio 'n llawen,
† *Gwenhaithio:* Beth wyt nes er hyn o † ffiattrio,
A Duw wrthyt wedi digio.
Gwell gwaſnaethu Duw na'r byd,
*Gwell ffrwyno'r corph na'th ddamnio i gyd,*
Gwell trafel byrr na phoen tragywyddol,
Gwell Bara a dwr na gwlêdd uffernol.
Gwaſnaetha Griſt, rhyfela a'r cythrel,
Di gae'r Goron am dy drafel;
* *ffrwyna.* * Coſpa'r cnawd i gadw d' enaid,
Di gei ran o'r wledd fendigaid.

*Achwy*

---

*Achwyn*

M
Ni châ
Gwach
Gwia
Er ys d
A'th an
Gwach
Hir i'
Llwyr
Am yr
Och! f
Mae'
Mae'n r
Cymm
Onid c
Pa hv
Am ddi
Waeth
Ond gw
Lle b
Heb roi
Trymm
Pan y d
Gwac
Fe ddaw
A'i drae
Lle dei
Teby
*Sodom* b
Rhai na
Nes eu t

## *Achwyn* Mr. Prichard *ynghylch Tre Llanddyfri, a'i Rybudd a'i gyngor ef iddi.*

M*Ene tecel* Tre *Llanddyfri*,
Pwyſodd Duw di yn dy frynti:
Ni châdd ynod ond y Sored,
Gwachel weithian rhag y drindod.
Gwialen dôſt ſydd barod itti,
Er ys dyddie am dy frynti;
A'th anwiredd ſy'n cynnyddu:
Gwachel weithau gael dy faeddu.
Hir i'r erys Duw heb daro,
Llwyr y dial pan y delo;
Am yr echwyn a'r hir ſcori,
Och! fe dâl ar un waith itti.
Mae'n rhoi amſer itti wella,
Mae'n rhoi rhybudd o'r helaetha;
Cymmer rybydd tra fo'r amſer,
Onid e gwae di ar fyrder.
Pa hwya mae Duw'n aros wrthyd,
Am ddifeirwch, a gwell fywyd,
Waeth waeth, waeth waeth yw dy fuchedd
Ond gwae di pan ddel y diwedd.
Lle bo Duw yn hir yn oedi,
Heb roi dial am ddrygioni,
Trymma oll y ſydd ei ddyrnod,
Pan y deli ddial pechod.
Gwachel dithe ddial *Duw*;
Fe ddaw ar frys er llaeſed yw;
A'i draed o wlân, a'i ddwrn o blwm
Lle delo'n llaes, fe dery'n drwm.
Tebyg ydwyt i *Gommorrah*,
*Sodom* boeth, a thre *Samaria*,
Rhai na fynnent wellhau hyd farw,
Nes eu troi yn llwch a lludw.

Tebyg ydwyt ti i *Pharao*,
Oedd a'i galon gwedi ſerio,
'Rhwn na fynne wellhau ei fuchedd,
Nes ei blagio yn y diwedd.
Cefaiſt rybydd lawer pryd,
** Ymheuthyn itti.* Nid yw cyngor * moethyn yd;
Nid oes lun it wneuthur eſgus,
O! gwae di y dre anhappus.
Bore codais gyda'r ceiliog,
Hir ddilynais byth yn d' annog,
Droi at Dduw oddiwrth dy frynti,
Ond nid oedd ond ofer immi.
Cenais itti'r udcorn aethlyd,
O farn Duw a'i lid anhyfryd,
Ith ddihuno o drym gwſc pechod,
Chwrnu er hyn wyt ti yn waſtod.
** Ddenois tynais trwy deg.* Minne'th * Lithiais a diſigil,
Addewidion yr Efengyl;
Yn ſwyn i'th wawdd i edifeirwch,
Ond ni chefais ond y triſtwch.
Mi'th fwgythiais dithe ar gyfraith,
A dialau Duw ar unwaith,
'Geiſio ffrwyno d'on rhag pechu,
From a ffol wyt ti er hynny.
*Mat.* 11. 15. Cenais bibe, ond ni ddawnſiaiſt,
Tôſt gwynfanais, nid alaraiſt:
Ceiſiais drwy deg, a thrwy hagar,
Ni chawn gennid ond y gwatwar.
Beth a alla'i wneuthur weithian,
Ond i thynnu i ochor ceulan,
I wylo'r deigrau gwaed pe gallwn,
*§ Uffern.* Weld dy arwain tu ar § dwngiwn.
Pwy na wyle weled Satan,
Yn dy dynnu wrth ede Sidan,
I bwll uffern yn dragwyddol,
*‖ Abwyd.* A'r bach a'r ‖ bait o bloſſer enawdol.

E

*Eſau* werthe ei diſeddiaeth,
Am phiolaid gawl yſowaith;
Dithe werthaiſt deyrnas nefoedd,
Am gawl brâg, do, do, om hanfodd.
Dymma'r peth ſy'n torri 'nghalon,
Wrth dy weld di nawr mor * ffinnion, * *Aflan.*
Orfod † prwſio hyn yn d' erbyn, † *Tyſtiolaethu*
Dydd y farn, heb gelu gronyn.
Tôſt yw gorfod ar y Tâd,
Ddydd y farn heb ddim o'r gwâd,
Dyſtiolaethu o led Saſan,
Yn erbyn brynti ei blant ei hunan.
Hyn y fydd, a hyn y ddaw, ‡ *Yn ebrwydd*
Oni wellhau ‡ y'maes o law;
Er mwyn Chriſt gan hynny gwella,
Rhag i ddial Duw dy ddala:
Gwiſca lenn, a ſach am danad,
Wyla nes bo'th wely'n nofiad; *Joel* 2. 12, 13.
Ac na fwytta fwyd na diod,
Nes cael pardwn am dy bechod.
Cur dy ddwy-fron, tynn dy wallt *Ezra.* 9. 3.
Wyla'r deigre dwr yn hallt: *Luc.* 18. 13.
Cria'n ddyfal iawn, ‖ *peccavi*, ‖ *pechais*,
Arglwydd madde 'miau immi.
Bwrw ymaith dy ddiffeithdra,
Twyll, a ffalſtedd, a phutteindra;
Gâd dy fedd-dod, clâdd dy frynti,
*Mae Duw 'n gweld dy holl ddrygioni.*
Mae dy farn wrth ede wenn,
Yn crogi beunydd uwch dy benn; *Jer.* 16. 17.
Mae dy blant a phob ei reffyn,
Yn ei thynnu ar dy gobyn.
Gwachel ballach, dal dy law,
Dial Duw fel bollt y ddaw, Ezec. 33. 7.
Rhoi it rybudd prudd ſydd raid, 8, 9.
Oni chymri rybudd paid,

*Achwyn*

## *Achwyn Eglwyſwr.*

DUW gwel drymmed yw fy nghalon
Weled faint pengledrwydd dynion
Cais eu harwain tua'r nefoedd,
Hwyntau ânt ir tân heb ddiffodd.
** Dynion duon.* Golchi'r * Moyrys du trwy Sebon,
Tro'r *Iorddonen* i ben *Hermon*,
Yw cynghori'r dyn pengaled,
*‡ Bod yn ofalus am.* Ofni Duw a ‡ char enaid.
Cais trwy deg a chais trwy hagar
*Pſa. 51.4.5.* Ofer canu ir neid'r fyddar,
Trinia fynnech ar bren pwdwr,
Byth ry'ti ffrwyth na ſwccwr.
Dyſc a dangos, gwawdd, ymhwedd,
Mâb y fall, ni wella o'i fuchedd;
Lladd a'r gyfraith, gwawdd a'r fengyl,
Ni thry attad ond ei wegil.
Gollwng arno'r holl Brophwydi,
A'r poſtolion iw gynghori;
*‖ Cure.* Nad gwaeth ‖ ffyſte pen wrth bentan,
Ni wna ond y fynno ei hunan.
Gwae fynghalon drom gan hynny,
*§ Gofal.* Na buaſſe Duw'n gwyllyſſu,
Fy rho'n fugail ar dda gwylltion,
*§ Flas neu drogl.* Cyn rhoi im ſiars y cyfryw ddynion.
Y corr y dyn y gwenwyn lindys,
O'r blodeu yn goreu ei relys;
A'r dyn drwg a dynn ryw amcan,
*Jud. 4.* O bur eiriau Duw ei hunan.
*Thuſ. 6. 1.2.* Waith i Griſt ein prynwr tirion,
Golli droſſom waed ei galon,
Ai roi'n bridwerth dros ein pechod,
Fe fyn llawer bechu'n waſtod.

Waith bod *Noah* a *Lot* yn feddw,
Waith bod *Jonas* hen yn chwerw;
Fe fyn llawer drocdlo ei beiau,
Heb ddilyn un o'i holl rinweddau.
Pôb gwâs gwych yn awr y feder,
Dyngu a rhegu gyda Pheder; *Mat.* 26.75
Pam na welai neb yn medru,
Gyda Pheder edifaru?
* Swrn ſy'n dilyn Dafydd Brophwyd * *bagad*
Mewn godineb, lle'i gwradwyddwyd,
Ond ni welai neb yn dilyn,
Edifeirwch Dafydd frenin.
Un y ddywaid mi § Repentia, § *Edifara.*
Fy meie i gyd y flwyddyn neſſa:
Beth medd Chriſt, o's aiff dy enaid, *Luc.* 12. 20.
Heno neſſa gan gythreulaid?
Llall y ddywaid helwn heddu,
Ni wellhawn ein beiau foru;
Heno lladd y gwr yn feddw,
Duw ble'r aeth 'difeirwch hwnnw!
Yn ol hwn y dweid y trydydd,
Byt fae fy mai yn fwy na'r mynydd,
Mae Duw mawr yn fwy Drugaredd;
Mi gâf bardwn ar fy niwedd.
Felly waith bod Duw yn raſſol,
Ac yn dirion i'r difeiriol,
Llawer dyn ſy'n pechu'n Sceler,
Heb wneuthur pris o'i gyfiawnder.
Er fod Duw yn llawn trugaredd, *Exod.* 34.
Yn hwyr ei lid, yn dda ei ammynedd; 6. 4.
Etto er hyn mae Chriſt yn dwedyd, *Nah.* 1. 2.3.
Fod Duw mawr yn gyfiawn hefyd.
Duw ſydd raſſol, Duw ſydd gyfion, *Heb.* 12.29.
Duw ſydd fwyn a Duw ſydd ddigllon:
Duw ſydd ddof, a Duw ſydd danllyd,
Duw ſydd hael, a chynnil hefyd.

Mae e'n madde'r mil talentau ,
Etto'n pallu'r hatling weithiau:
Mat. 18. Mae'n rhoi'r nef yn rhwydd i ryw un,
* Daſn. Etto ir llall yn pallu'r * droppyn ;
Eſa. 35. 7. Ir rhai ffyddlon edifeiriol,
Jo. 3. 36. Mae Duw'n ffyddlon ac yn raſſol ;
‡ Cyndyn Ond ir ‡ ſtwbwrn, cas gwrthnyſſig,
Pſal. 18. Mae Duw'n greulon, ac yn ffyrnig.
25, 26. O herwydd hyn 'rwi'n cynghori,
Na ddilyner hir ddrygioni,
Ond i bawb tra ſyddont byw,
Dreulio eu hoes mewn ofn Duw,

### *Rhaid glynu wrth Griſt heb adel i ddim* *troi ni oddiwrtho.*

OS Tâd, os mam, os mab, os merch,
Os tai, os tir, os gwraig trwy ſerch,
Y gais dy droi, yn draws neu'n driſt,
Oddiwrth dy grêd ath ſerch at Griſt;
Gâd dâd i droi, gad fam i wylo;
Luc. 14. 26, Gâd wraig i ſcol, gâd blant i grio,
Gad dai gad dir, gâd faeth gad fywyd.
Cyn gado Chriſt, gad faint ſydd gennyd.
Bydd Chriſt yn dad, yn fam, yn frawd
Yn graig, yn gaer, yn ffrynd yn ffawd.
† Anwyl. Yn gyfoeth mawr, yn lles yn llwyddian
Yn bob peth † cu i bawb as carant.
*Heb Griſt heb gred, heb faeth heb fywyd*
|| gobaith. *Heb ddull, heb ddawn, heb nerth heb iechyd*
*Heb || hôp, heb help, heb ras, heb rym.*
*Heb ddyſc, heb dda, heb Dduw, heb ddim*

### Gwell Duw na dim.

*GWell Duw na'r nef, 'na dim ſydd yn*
*Gwell na'r ddaer, na'r maint ſydd ar*
*Gwell na'r byd, na'i olud i'm,*
*Gwell le a dau well Duw na dim.*

Gwell na Thâd, na mam, na mamaeth,
Gwell na chyfoeth, na Thifeddiaeth,
Gwell na *Mari*, gwell na *Martha*,
Gwell na dim yw Duw gorucha. *Pſal.* 27. 10.
Os Duw ddewiſaiſt yn dy ran, *Dib.* 8. 19.
Cei Griſt i'th gynnal ym-mhob mann;
Cei'r Saint i'th gylch, cei'r byd i'th beri,
Cei'r nef ith ran cei'r fall ith ofni. *Pſ.* 73. 25, 26
Di ddewiſaiſt y rhan benna, *Rhuf.* 1. 31.
Pan ddewiſaiſt Dduw gorucha, *Pſ.* 91. 11, 12.
Rhan na ddygir byth odd'arnad,
Tra parhatho'r haul a'r lleuad.
Pan duo'r haul, pan wridio'r lleuad, *Luc.* 10. 42.
Pan ſyrthio'r ſer, pan ofno bagad,
Pan loſco'n boeth y byd a'i bwer,
Bydd dy ran di yn ddibryder.
Cwyn dy galon, na fydd wan,
Cadw d' afel ar dy ran:
Di ddewiſaiſt y rhan ore, *Dat.* 2. 10.
Gwachel newid hyd at Ange.

---

### *Chriſt yw Pren y bywyd.*

DEwch bob rhai at bren y bywyd,
Dewch at Griſt ein Prynwyr hyfryd,
Mwynhewch y ffrwyth a chredwch yntho, *Dat.* 2. 7.
Chwi gewch râs, a bywyd gantho. *Jo.* 3. 36.
Dymma'r pren y dynn y dingcod,
A'r newyn du, a'r poen, a'r pechod,
A'r melldith Dduw, a'r loes wenwynig a
Y ddaeth o fwytta'r pren gwarddedig.
O bwyttewch o'r pren yn rhâd,
O'r nef y daeth, oddiwrth y Tâd,
'n gyrru 'n Jach, i gadw'n bywyd,
dorri'n chwant, i roi i'n Jechyd.

*datc.* 22. 2. Mae'ffrwyth e'n bêr, mae ddail yn Jachu
*Jo.* 6. 35. Mae flas yn well na'r Manna melus,
49, 50. Ni all newyn byth, nac Angau,
Drwblio'r dyn y fwytty ei ffrwythau.
Chriſt yw'r Pren, Oh! dewch bawb at
Y ffrwyth yw'r bywyd y ſydd ynddo;
Y dail yw'r gair, a'i gyngor Jachus,
*Mat.* 11. 28. Sy'n bywhau yr enaid clwyfus.
Dewch bôb rhai, ſy'n flin eu cyflwr,
Dewch at Chriſt, ein gwir Jachawdwr,
Dewch i dderbyn gras ac Jechyd,
Cymmorth cynffordd, bawb o'r holl-fyd.
Dewn at y pren, bwyttawn ei ffrytha
Crynown ei ddail rhown wrth ein clwyf
Fe'n gwir Jacha, fe dyrr ein newyn,
Fe bair i'n fyw, dros fyth heb derfyn.

---

## *Chriſt a arwyddoccawyd wrth yr Oen paſ*

CHriſt yw oen y Paſc, a'n haberth,
*1 Cor.* 5. 7. *Chriſt yw'n hoen, â'n hoffrwm prydſe*
*Jo.* 1. 29. Oen Duw, oen da, oen gwyn i gyd,
Sy'n tynny ffwrdd bechodau'r byd.
Chriſt yw'r oen a laddwyd droſom,
Chriſt archollwyd am y wnaethom;
§ *Cwynfanus.* Ei waed gwerthfawr, (pan groes hoeliw
Am ein beiau, a dywalltwyd.
Blin a thoſt, a thrwm ac irad,
Poeni'r oen, am feiau'r ddafad,
Lladd mâb Duw, ar flaen yr hoelion
Am bechodau meibion dynion;
Adda'n bwytta 'falau pechod,
Dannedd Chriſt yn goddei'r ddingcol,
Dyn yn pechu, Chriſt yn masw,
Ble bu cariad o'r fath hwnnw?

O

Och! Pa galon na thoſturia,
Chwippio Chriſt am bechod Adda,
Lladd y Bugail am fai'r defaid,
Crogi'r * Prins i gadw'r deiliaid? * *Tywyſog*
Gwerthu'r Meiſtr i bryhu'r gweiſion,
Lladd y mab i gadw ei elynion,
* Mwrddro'r meddyg, brathu yſtlys, * *Lladd*
Gael ei waed i helpu'r clwyfys.

---

## *Chriſt a arwyddoccawyd wrth y ſarph Brês.*

Y Sawl y frathwyd gan y § ddraig, § *Diafol.*
Dewch at Griſt Jeſu, Had y wraig, *Gen.* 3. 15.
Fe drin y brath, fe dynn y colyn,
Fe rwym y ddraig, fe ſiga ei chobyn.
Rym ni bob rhai gwedi'n brathu,
Mae col pechod gwedi'n gryddfu:
Ni all neb ond Chriſt ein helio, *Jo* 3. 14, 15.
Fe yw'r *Sarph bres*, craffwn arno. *Num.* 21: 8.
Craffwn ar Ghriſt a groeſhoeliwyd,
Fel y craffei'r rhai a frathwyd;
Ar y Sarph brês yn y diffaith,
Fe a'r loes ar gwenwyn ymmaith.
Os edrychwn arno yn * brudd, * *Oddifrif.*
A chalon donn, a llygad ffydd,
Er ir Sarph a'i chol ein clwyfo, *Luc.* 4. 18.
Fe'n Iacha, ond edrych arno.
Oni ddewn at Ghriſt ar fyrder, *Jo.* 6. 40.
I gael help rhag brath y wiber,
Nid oes meddyg yn yr holl fyd,
Ond mab Duw all gadw ein bywyd.

## *Hymn neu gân ar Dydd Nadolig.*

POB Ghriſtion ag ſy'm clywed,
Am llais yn medru yſtyried,
Cenwch foliant gyda mi,
I'r un Duw tri gogoned.
Derchefwch eich calonnau,
Cyd genwch Pſalms o Hymnau.
Er clôd a mawl i'n Prynwr * cû, — * *Amwyl.*
‖ Y Aned heddu'r borau. — ‖ *Canys.*
Er dymma'r dydd a dylen,
Ymroi i fod yn llawen,
I glodfori bôb rhyw awr,
Ein ceidwad mawr a'n cefen,
Os dymma'r dydd y ganed,
Chriſt Ceidwad, Cynffordd holl gred,
Unig helpwr yr holl fyd;
A gwyn ein byd ei weled.
Dymma'r dydd y cafas,
Holl ‖ grêd ei gwyn a'i hurddas: — ‖ *Y Cywir ffyddloniaid.*
Dymma'r dydd y torrwyd pen,
Y Sarph a'r filen atcas.
Dymma'r dydd y cawſom,
Y gwynfyd gynt y gollſom,
Trwy wall *Adda* ein Tâd cû
Pan daeth *Chriſt Jeſu* attom.
Dymma'r dydd y dorrodd,
Y fagal gynt a'n rhwydodd;
Dymma 'r dydd y barodd och,
I'r wiber goch a'n hudodd.
Os dymma'r dydd y ganed,
Mab Duw yr had bendiged.
A ddawſyd gynt o hil y wraig,
I ſathru'r ddraig oedd embed;

O moeſwch i'n gan hynny,
  Sanctoiddio'r dwthwn heddy,
Er cof am brynwr yr holl ſyd,
  Y ddaeth mor ddryd i'n helpu,
A nedwch i'n anghofio,
  An ddyfal i ſendithio,
Am y cymmorth mawr i gyd,
  Y gadd y byd oddiwrtho,
Ond moeſwch i'n glodfori,
  Ei enw a'i foliannu,
Dydd a nos tro ynom chwyth,
  A'r eitha byth o'n gallu.
A heddyw yn enwedig,
  Yn gyfan ddydd nadolig,
Cenwch nes dat-ſeinio'r nef,
  Gan lais eich llef carodig.
O'r canniad cynta'r ceiliog,
  Ymrowch i godi'n gefnog.
I glodfori hyd y wawr,
  Eich prynwr mawr trugarog,
A phan y torro'n wawr ddydd,
  Cyd genwch ar uchedydd.
Foliant am eich * tynnu y maes,
  O'r tywyllwch câs tragywydd:
A chanol dydd heb orphen,
  Fel ceiliog y fwyalchen.
Cenwch Pſalme iddo'n ‡ glôs,
  Nes dycco nos y ſeren.
A chwedyn o'r dechreu nos,
  Yn ddyfal fel yr Eos,
Cenwch, cenwch, nac orphwyſwch,
  Nes gorphennu'r hir-nos.
Ac felly nôs a bore,
  A chanol dydd yn ddie,
Treuliwch y nadolig ddydd,
  Mewn diolch || prudd a Pſalme:

---

* *Mae rhai heb eu goleuo trwy eu bai eu hunain.* Jo. 5. 40.

‡ *Ddyfal:*

|| *Difrifol.*

Os dymma'r dydd i'n prynwyd,
  Ar dydd i'n * reconſeiliwyd,
Yn ffryns a Duw ein barnwr prûdd,
  A dymma'r dydd i'n helpwyd,

** Heddychwyd.*

Dymma'r dydd a'n cododd,
  O uffern hyd y nefoedd,
A'r dydd an gwnaeth yn † Blant i Dduw,
  Ond hyfryd yw weithredoedd.

*† Cynnifer, ac a'i derbyniaſant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw ſef i'r ſawl a gredant yn ei enw ef* Joan. 1. 12. *nid i neb arall.*

Dymma'r dydd ſy'n rhwygo,
  Ein ſach a'r dydd ſy'n datro,
Ein triſtwch i lawenydd trwch,
  O gorfoleddwch ynddo.
Os dymma'r dydd y ganed,
  Oen Duw yr hâd bendiged,
I dynnu ffwrdd, bechode'r byd,
  Oedd goch i gyd fel ſcarled.
Dymma'r dydd gan hynny,
  Y mae i'n orfoleddu,
A mynd i Lyſſoedd Duw yn lân,
  Dan ddiolch a than ganu.
Dymma'r dydd ſydd inni,
  Yn ddyfal i addoli,
A'i fendithio bob rhyw awr,
  Am dan ei fawr daioni;
A chofio'r modd in prynodd,
  Trwy'r gwerthfawr waed y gollodd,
O dan ei fron ar grog-pren croes,
  A'r chwerw loes y gaſodd,
Fel Pelican cariadus,
  Tuag at ei adar clwyfus,
Fe rodd gwaed ei galon bur,
  I helpu ei frodyr nafus.
Fe adawodd yr Angelion,
  I ddwad at iddewon,
I brynu enaid dyn yn rhad,
  A gwerthfawr waed ei galon:

O

O'r gader ym mharadwys,
  I'r ddairen fe ddeſcynnwys,
I gymryd cnawd o Fair wenn * dlos
  I farw dros ei ‡ Eglwys,
Fe gymrodd arno'n tlodi,
  A'n gwaeledd a'n gofydi.
A's holl ddial arno'i hun,
  Y haedde ddyn am frynti,
Fe wanwyd am ein beie,
  F' archollwyd am gamwedde.
Ond trwy gleiſie fe iachaws,
  Holl liaws ein pechode.
Fe Gollodd waed ei galon,
  Ar Grogpren hefyd droſſon,
Ac fe'n gwnaeth yn blant i Dduw,
  Pan 'roddem yn elynion;
Fe'n golchedd o'u pechode,
  Fe brynodd ein eneidie,
Ac fe'n dug i deyrnas nef.
  Er maint yw llef ein beie.

* *Dig.*

*Eph.* 5. 25. *Sef y bobol ag a alwyd neu a elwir i undeb ag ef ei hun trwy ffydd ac i ufyddhau iddo mewn cyfiawnder a ſancteiddrwydd.*

¶ *ni ddwg Chriſt neb o honom ni i deyrnas nef ac y fo byw a marw heb ffydd edifeirwch a ſancteiddrwydd buchedd Mae Duw yn dywedyd na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu ei deyrnas ef.* 1 *Cor.* 6. 9, 10. *Y mae efe wedi tyngu yn ei lid na chânt ddyfod i mewn iw orphwyſfa ef Heb.* 3. 11. *Fe ddywed Criſt wrth y cyfryw ewch ymmaith oddiwrthif chwi oll weithredwyr anwiredd* Luc. 13. 27. *Edrychwn ninne attom ein hunain a gochelwn aros yn ein pechode Er i Griſt ddyfod i gadw pechaduriaid (ac ſydd yn gwir gredu etto fe ddaeth i dorri gwddwg eu pechodau hwy.* 1 *Jo* 3. 8. *fel nad a neb ir nef heb ei ſancteiddio ar y ddaiar Heb.* 12. 14.

O moeſwch i'n gan hynny,
  Yn gefnog ei glodfori,
Ddydd a nos; chwi welwch pam,
  Mor raſſol am ein prynu.
A moeſwch inni gadw,
  Y gwylie ſydd ar ei enw,
Mewn duwiolder, rhinwedd, rhad,
  Credigrwydd, cariad crown;

A

A Moeſwch inni dreulio,
Yn Sanctaidd heb eu nyrddo,
Mewn oferedd yn y byd,
Ond pawb i gyd ſancteiddio.
Trown heibio afreolaeth,
A medd-dod a Phibyddiaeth,
Ac awn ynghyd i Demel Dduw,
Canys hynny, yw Chriſtnogaeth.
Nid gweddaidd i griſtnogion,
Ymdroi mewn beiau bryntion,
Ar wylio Chriſt ein prynwr prudd,
Y modd y bydd Iddewon.
Ond treulio rhain yn ſanctaidd,
Yn ſobor ac yn weddaidd;
Megis plant i'n nefol Dâd,
Mewn gras a chariad perffaidd.
*Pſal.* 51.17. Ac arfer pob diwrnod,
1 *Cor.* 6.20. Yn ddyfal iawn i ddyfod,
*Rhuf.* 12. 1. I Demel Dduw ai ſanctaidd Dy,
*Mich.* 6. 6, Bob rhai dân ganu mawrglod.
7. 8. Nid edrych ar ein dwylo,
Am roi un Aberth iddo,
Ond clod a mawl 'tu fewn ei Lys;
Cans hyn ſydd felus gantho.
O dewch iw byrth gan hynny,
Dan ddiolch a than ganu,
Fach a mawr a fore a hwyr,
Yn brudd iw lwyr foliannu.
O dewch iw Demel ſanctaidd,
Yn drefnus ac yn weddaidd;
I glodfori enw Duw,
Cans hyfryd yw a gweddaidd.
*Rhaid moli* Tra gweddaidd a pherthnaſol,
*Duw ar gal-* I bob rhyw Griſtion Duwiol,
*on ar tafod* Foli ein prynwr ddydd a nos,
*ac ar bywyd* Am farw dros ei bobol,

Dymma i gyd y taliad,
Y diolch ar aberthiad,
Y mae'n diſgwyl ar law 'r gwyr,
Am dan ei gur ai gariad.
Gan hynny curwch ddwylo,
A rhoddwch foliant iddo,
Yn ei Demel fawr a'i Lys,
Cans hyn ſydd felus gantho.
A nadwch i ni yn unlle,
I gablu a'n geneue,
Rhag yn mynd yn waeth ein * câs, * Cyflwr.
Na *Suddas* a'i bradyche.
I'r Tâd, i'r Mab, i'r Yſpryd,
I'r Drindod undod hyfryd,
Y bo clod a moliant mawr,
Bob dydd bob awr pob ennyd.

*Cyngor i geiſio yr Arglwydd Jeſu Ghriſt.*

O Cais gwr, na gwraig na phlentyn,
Gael y bywyd mawr di derfyn,
Ceiſient Ghriſt ſy'r bywyd ynddo,
Ac hwy gant y bywyd gantho. 1 Joan. 5.
Rhaid yw ceiſio Chriſt yn gynta, 12.
Lle mae'r bywyd yn lletcua,
Gwael yw'r gwaith a thrawſ a thriſt,
Geiſio'r bywyd oes cael Chriſt. 1 Joan 14. 6
Cais di Griſt yn geidwad itti,
Ac yn Arglwydd i'th Reoli;
Di gei'r bywyd † didrango ynddo, † *Tragywy-*
Ac ni cholli fyth mo honno. *ddol.*
Oni cheiſi Griſt yn Geidwad,
Ac yn ‡ Llywydd parchuſarnad,
Nid yw boſſib it ddychymmig,
B' wedd y byddi ddyn cadwedig; ‡ *Llywodra-*
Pawb a chwennych gael wrth farw, *ethwr.*
Ghriſt fel Geidwad pur i'w cadw;
Wrth fyw ni fyn ond rhai o'r rheini,
Ghriſt fel Arglwydd i'w rheoli.

Nad dy dwyllo Griſtion anllad,
Ni bydd Chriſt i neb yn Geidwad,
Ond i'r dyn gymro o ddifri,
Ghriſt yn Arglwydd iw reoli.
Rhwn na fynno ei reoli,
Gan Air Duw, a'i yſpryd gwiſgi,
Nac edryched y dyn hwnnw,
*Heb.* 5. 9. Gael gan un mab Duw ei gadw.
Cais gan hynny Ghriſt yn geidwad,
Ac yn *Ben rheolwr* arnad ;
Ni all un dyn gwnaed y fynno,
Byth fod yn gadwedig hebddo.
*Luc.* 16. 17. Pe caet ti'r Byd a'i bethau euraid,
Heb gael Chriſt i gadw d' enaid ;
Beth y dale y drwg fyd triſt,
Os colli d' enaid eiſie Chriſt ?
*Col.* 2. 19. Pe caet Ghriſt heb ddim ond hynny,
Di geit ddigon i'th ddiwallu :
Mae'n gryno yng Hriſt ei hun,
Oll ſydd raid i gadw dyn.
Och ! na welit mor anghenrhaid,
Yw mab Duw i gadw d' enaid,
Ac na elli weithio ſywaeth,
Hebddo ddarn o'th Jechydwriaeth.
Ond bod yn rhaid ac yn gorfod,
Arnad geiſio'r Jeſu droſod,
Weithio'r cwbwl ddechre a diwedd,
Cyn y gallech gael trugaredd.
Os ni ddichon dyn nac Angel,
Gwyllt na dôf nac un Anifel,
Wellhau dim o'ch cyflwr truan,
Nes cael gwellhad gan Ghriſt ei hunan.
Rhaid it Ghriſt yn Dduw yn Ddyn,
Ai ddwy natur dan yr un,
Weithio pob darn o'th brid bryniad,
Cyn bodloner Duw'r uchel-dad.

Rh

Rhaid i Griſt dy frawd ath Frenin,
eithio pob darn a phob trippin,
r gwaith mawr o'th Jechydwriaeth,
all eraill helpu yſywaeth.
O cais enaid dyn feddiannu,
riſt a'i ddonio iw ‡ ddiddanu,
aid ir enaid bach ymgweirio,
erbyn Chriſt cyn delo attad.
Gwna dy enaid bach yn barod,
gael Chriſt i drigo ynod,
wedyn planna dy hun ynddo,
thynn râs a grym oddiwrtho.
Rhaid it wneuthur anwyl griſtion,
Rwm i Ghriſt cyn del i'th galon,
chymmhennu ei le yn barod,
n y delo dan dy fargod.
Ni all Chriſt nai yſpryd ſanctaidd,
os byth mewn lle anghruaidd,
cais un dyn ei gyfeillach,
wnaed ei galon iddo'n lanach.
Ni ddaw Chriſt ir galon aflan,
s troi pechod oflyd allan,
i thrig Chriſt lle bo aflendid,
nctaidd yw a glân ei yſpryd.
Ni chyttuna Duw a Dagon,
riſt a Belial mewn un galon,
wy na'r Dwr a'r Tan pan ddoder,
gyd aros mewn un llofter.
Ni all calon lawn o falchder,
derbyn Chriſt nes ir arloeſer,
wy na baril llawn o blwcca,
derbyn llaeth nes * fento'r llacca.
Rhaid ymado'n lân a phechod,
i gaſau, a'i lwyr ymwrthod,
yn y gallo enaid un dyn,
ael cyfeillach Chriſt nai 'i dderbyn.

‡ *Er bod Chriſt yn dy-fod i lanhau y pechadur pan y mae efe yn aflan; etto nid yw efe yn dyfod i ddiddanu pechadur nes yn gyntaf ei ſancteiddio ef* *Act.* 9. 31. *Rhuf.* 15. 13 Joan. 14. 23

* *Bwrw allan.*

Rhaid ir enaid bach ymarllwys,
O bob pechod y mae'n gynwys,
Fel y gallo Chriſt a'i ddonie,
Lenwi'r enaid gwag ai rade.
*Ni* all un dyn dderbyn Chriſt,
Ir galon aflan druan driſt,
*Eſa.* 57. 25. *Nes* cymhenner hon yn gynta,
*Pſal.* 24. 9. I greſawi'r Brenin mwya.
† *Trefn.* Ni all un dyn wrth † gwrs nattur,
Chwennych Chriſt er maint ei ddolur,
Nes del Duw a'i râs i gyffro,
‡ *Er bod Dyn trwy na-* A dwyn y dyn o'i ‡ anfodd atto.

*tur yn anewyllyſgar i ddyfod at Chriſt, etto ar ol tywalltu yſpryd Duw arno, a gweithio grâs ynddo, y mae efe yn dyfod atto yn ewyllyſgar ac oi wir fodd.* Eph. 2. 1. Dih. 1. 2. Joan. 6. 44. Can. 1. 4. Pſal, 110. 3. 2 Cor. 3. Ph. 2. 1

Duw o'i râs i naws ei hun,
Sy'n cynnig Chriſt i gadw dyn,
Nid dim ond mwynder Duw yn unig,
Sy'n cynnig Chriſt ir dyn colledig.
Nid oes dim mewn dyn all gyffro,
Duw i ddangos ffafar iddo,
Duw oi nattur dda ei hun,
Sy'n rhoddi Chriſt i gadw dyn.
Mae Duw'n cynig dwr y bywyd,
Gras a dawn a didrange Iechyd,
Yn rhad yn rhwydd i'r dyn ai mynno,
Os daw at Chriſt a ſyched arno.
*Datc.* 21. 6. Mae Duw'n galw pawb yn rhîn,
† *Ieſ Chriſt.* I fwytta † Manna i yfed gwin,
*Eſay.* 55. 1, Yn rhad yn rhwydd heb aur heb arian,
2. Os at Chriſt y down dan drottan.
Nid yw Duw yn gwardd i un dyn,
*Eſay.* 1. 18. Dderbyn *Chriſt* ai gadw ai ganlyn,
Y mae'n gwardd i neb i wrthod,
Er ffieiddied y fo'i bechod.

Er bod Duw yn cynnig *Chriſt*,
bob pechadur truan triſt,
Ni ddaw un er hynny atto,
Nes del Duw a bach iw * luſco.

* *Pan ydys yn dywedyd fod Duw yn lluſgo dyn at ei fab Chriſt, ei yſtyr yw, fod Duw, trwy i yſpryd o'i ras yn gwneuthur dyn ſydd o hono ei hun yn an-wyllyſgar, i fod yn awr yn ewyllyſgar i dderbyn Chriſt.* Can. 14.

Ni ddaw un dyn gwnaed y ſynno,
At fab Duw er maint ymgweirio,
Nes y tynno Tâd trugaredd,
Ef at Ghriſt i gael ymgeledd.
Nid ddoe'r ddaſad aeth ar ddidro, Jo. 6. 44.
Byth ir goſlan nes ei † chario, † *dwyn.*
Na phechadur at ei geidwad,
Nes ei garrio fel y ddaſad.
Ni ddaw lleidr at yr Uſtus, *Luc.* 15.
Byth o'i fodd ond yn wrthwynebus, * *Er.*
Na phechadur * ſerch i flingo, *Gal.* 5. 17.
At ei Brynwr nes ei luſgo.
Y mae nattur yn gwrthnebu,
Mae cydwybod yn ei nadu,
Mae bechodau yn dywedyd wrtho,
Ei condemnir os daw atto.
Rhaid i Dduw'r Tâd agor llygaid,
Dyn i weld gofidi ei enaid,
A'i drueni a'i wael gyflwr,
Cyn 'mofynno am Jachawdwr. *Act.* 26. 18.
Ni ddaw'r iach i mofyn Meddyg, *Mar.* 2. 17.
Nes y gwelo ei glwyfo'n ffyrnig;
Ni ddaw dyn i mofyn ceidwad,
Nes y gwelo ei gyflwr ‖ irad. ‖ *Toſt.*
Rhaid i'n weled ein trueni,
A'n toſt gyflwr a'n gofidi,
A'r ddamnedig ‡ Stâd i'n ganed, ‡ *Cyflwr.*
Cyn gweld eiſie Chriſt er rheitied.

Rhaid i'r Tad a'i Air, a'i Yſpryd,
Oleuo dyn i weld ei ofyd,
*Hoſ.* 11. 4. Cyn y ceiſio dyn di wybod,
Help gan Griſt i fadde 'i bechod;
Rhaid ir Tad a bach o gariad,
Dynnu dyn fel tynnu dafad,
Cyn y delo un pechadur,
At fab Duw i geiſio cyſſur.
*Ezec.* 36. 26 Rhaid i Dduw droi'r galon garreg,
* *Tyner.* Yn galon gig mor * ſoft ar bloneg,
Nes dolurio i weld ei chyflwr,
Cyn mofynno'i am Jachawdwr.
Rhaid i Dduw'r Tad, ddangos itti,
Olud ei ras ai doſturi,
Yn rhoi fab droſſod i'w groeſhoelio,
‡ *beiddiech.* Cyn y ‡ mentrech ddwad atto.
Rhaid i'r Tad fynegu itti,
Mor anfeidrol o'i ddaioni,
Ac mor barod yw i fadde,
*Eſay.* 55. 7. I'r difeiriol ei holl feie.
A'i fod e'n gwawdd ac yn ceiſio,
Pob pechadur ddwod atto,
1 *Jo.* 3. 23. I gael cyfran o'i drugaredd,
Ond ymwrthod a'i ddrwg fuchedd.
Rhaid i Dduw orchymmyn itti,
Dan boen melldith drom a didri,
Gredu yn Ghriſt a ymddiried ynddo;
* *beiddiech.* Cyn y * mentrech ddwad atto.
‖ *deiſyf arnat.* Gwedi galw a Gorchymmyn,
Rhaid ir graſſol dad dy ganlyn,
Ddwad at Ghriſt i'th gymmodi,
* *gyffroi i ddigofaint* A'th Dad nefol gwedi * Siommi.
Rhaid dy ganlyn yn gariadus,
Mae dy nattur mor wrthnebus,
§ *ddeiſyf.* Cyn y delech trwy § ymhwedd,
I gael heddwch a thrugaredd.

Rhaid ir Brenin ganlyn Bradwr,
Ac † ymhwedd a'r Troſſeddwr; † *deiſyf.*
Cyn y delo i geiſio pardwn,
Am ei frâd a'i drais, ai ‖ dreſwn, ‖ *Bradwriaeth.*
Er nad gweddus iddo ganlyn,
Arnat ti ſy'n pechu iw erbyn;
Mae'n ymhwedd a thi'n deilwng, *Ezec.* 33. 11
Ddwad atto i geiſio pardwn.
Gwedi'r canlyn rhaid yw dangos,
Ddaed amynedd Duw a'i ymaros,
Mor ddioddeſgar ac mor ddiddig,
Yw ir Chriſtion llaes, hwyr frydig. 1 *Pet.* 3. 9.
Ac mor bwyllog y mae'n edrych,
Gan gyd ddwyn a'th feic'n fynych,
A hîr aros wrth dy leſſer,
I roi ymmaith bob diffeithder. *Mat.* 23. 37
Er dy * gathrain er dy gyffro, * *Gymmell.*
Er dy ganlyn a'th oleuo,
Ni ddoi byth at Griſt o'th bechod, *Act.* 2. 37.
Nes y pigo Duw'th gydwybod.
A'th gyhuddo, a'th rag farnu,
A'th gondemno, a'th lwyr adu,
Gan dy ‡ gonſciens dôſt dy hunan, ‡ *cydwybod.*
Am dy fuchedd oſſyd aflan.
Ac er pigo dy gydwybod,
A'th gondemnio am dy bechod,
*Ni* ddoi byth at Griſt er hynny,
*Nes* dêl yſpryd Duw i'th dynny. *Jo.* 6. 44.
Rhaid i Dduw a'i yſpryd gwiw lan,
Fwrw i * maes yn yſpryd aflan, * *Allan.*
Sy'n dy galon yn Teyrnaſſu,
*Cyn y ceiſiech help Chriſt Jeſu:* *Eph.* 2. 2.
Rhaid ir yſpryd glan dy dynnu,
A'th ryddhau, a'th lwyr waredu,
Oddiwrth Satan, a'th gyfrwyddo,
At fab Duw, cyn delech atto.

*Joan.* 14. 23 Rhaid dy dynnu oddiwrth dy bechod,
A rhaid puro dy gydwybod,
A ſancteiddio 'r galon aſlan,
* *Megis diddanwr.* * Cyn y delo *Chriſt* ith gyfran.
Plant digofaint wrth naturiaeth,
*Eph.* 2. 3. Ym ni bob rhai oll y ſywaeth,
Hyd nis gwnelo *Chriſt* ni, clyw,
Jo. 1. 12. O blant digofaint yn blant Duw.
Mae digofaint Duw mor greulon,
Yn lloſci yn erbyn pechod dynion,
*Nid* oes dim all ddofi ei loſcian,
Ond gwaed calon *Chriſt* ei hunan.
*Ni* all y dwr ſy uwchlaw'r ffurfafen,
*Na* dwr y mawr, na dyfroedd Hafren,
Ddiffodd digter Duw at ddyn,
*Nes* dofo *Chriſt* a'i waed ei hun.
*Rhuf.* 5. 1. 10. 'Rym ni bob rhai yn Elynion,
I'r *Duw* mawr y barnwr cyſion,
*Nes* y gwnelo *Chriſt* ei hun,
Heddwch têg rhwng *Duw* a dyn.
*Ni* all dyn, na *Diawl*, nac Angel,
*Na* nêf na daer mi dweda'n uchel,
‡ *Heddychu.* ‡ Reconſeilio *Duw* a dyn,
*Nes* Reconſeilio *Chriſt* ei hun.
*Gal.* 3. 10, 13. 'Rym ni bawb dan felldith greulon,
Am droſeddu'r Gyfraith gyſion;
*Ni* ddaw neb o dan y ſelldith,
*Nes gwaredo Chriſt e'n ddichwith.*
'Rym ni bawb yn weiſion pechod,
Joan. 8. 34, 26. Yn pechu beunydd bob diwrnod,
*Ni* all un dyn lai phechu,
*Nes* dêl *Chriſt* ai Adgenhedlu.
* *Caeth-weiſion.* 'Rym ni bawb yn * ſlaſs i Satan,
Ac mewn *Carchar* tywyll, aſlan;
*Luc.* 11. 21, 22. *Nes dêl Chriſt i ddwyn ei arfe,*
*Ni* ddaw dyn y maes o'i grampe.

R

'Rym 'ni bawb yn ſlafs i'r cythrel,
Ac mewn Carchar dû diogel;
Nes del Chriſt i rwymo Satan,
Ni ddaw neb o'i deyrnas allan.
Pe doe *Michael* a'i Angelion,
I ymdrechu a'r ddraig greulon,
Ni orchfygu byth mo hono,
Nes doe Oen Duw i'w † goncgwerio.
'Rym ni'n euog bawb o Angeu,
Ac o uffern boeth o'i phoene;
Ni all un dyn ddiangc rhagddynt,
Nes gwaredo Chriſt ni oddiwrthynt.
Fe'n condemniwyd cyn ein geni,
Bawb am droſedd ein rhieni;
Rhaid cael cymmorth Chriſt yn gynta,
Cyn cadwer un o eppil Adda.
Mi chaiff un dyn gwnaed a allo,
Fynd i Deyrnas Dduw i dario,
Nes ail aner hwn yn hyfryd,
Gan fâb Duw, a'r Dwr a'r Yſpryd.
Rhaid i Griſt ein Adgenhedlu,
A'n ail greo a'n newyddu
Cyn y caffo un dyn cnawdol,
Etifeddu'r Deyrnas nefol.
Ni alle neb orchfygu'r ddraig,
Na ſigo ei ſiol am dwyllo'r wraig,
Na'n tynnu maes * o'i dywyll gorlan,
Ond Hâd y wraig, mab Duw ei hunan.
Ni alle neb roi than o'r fendith,
Na'n tynnu maes o dan y felldith,
Ond Jeſu Ghriſt yr Hedyn dinam,
Oddawodd Duw o lwyne *Abraham*.
Ni alle un creadur hynod,
Ein tynnu maes o ddanedd pechod,
A'n dwyn i'r nef at Dduw i dario,
Ond Jeſu Ghriſt yr unig *Silo*.

*Joan.* 3. 8.
*Col.* 1. 13.
*Datc.* 12. 9. 11.
† *Gorchfygu.*
*Rhuf.* 6. 23.
*Rhuf.* 8. 1.
*Rhuf.* 5. 12. 17, 18.
*Joan.* 3. 5. 6.
* *Allan.*
*Gen.* 3. 14.
*Gen.* 3. 15.
*Gen.* 22. 18.
*Gal.* 4. 9. 10.

*† Sef os credwn ni ynddo ac os edifarhawn ni am ein pechodau, o bod yn ufydd iddo.*

Duw ddug *Iſrael* trwy law *Moeſes*,
O gramp *Pharo* i *Ganaan* gynnes;
Duw trwy Griſt a'n harwain † ninne,
O gramp Satan i'r nef olo.

Y Neidir brês a helpe'n oſcyd,
A rhai a frathe'r neidir danllyd,
Y Chriſt a'i waed a helpa'n ſuan,
Yr enaid prudd a frathe Satan.

Heb. 5. 9.
Exod. 12.
*§ allan.*

Gwaed yr oen y gadwe'r Angel,
§ Y maes o'r tai rhag difa *Iſrael*;
Gwaed mab Duw a geidw Satan
Y maes o galon pawb a gredan.

Fal y tynnodd *Dafydd* rymmus,
Oen o eneu'r llew afradus;
*Act.* 26. 18. Felly tynnodd Chriſt ein Bugel,
Enaid * dyn o eneu'r cythrel.

** Sef y credadyn.*

A'i farwolaeth lladdodd *Sampſon*,
*Barn.* 16. 30 Y rhai penna o'i elynion;
A'i ddioddefaint lladdodd *Jeſu*,
Angeu pechod, Diawl a'i deulu.

Maent hwy'n farwol gwedi clwyfo,
Er bod chwythiant ynddynt etto;
2 *Bren.* 5. Ni all eli ſy'n yr holl-fyd,
Iachau eu clwyf na chadw eu bywyd.

Nid oedd dim y olch *Naaman*,
O'i glwyf gwan ond dyfroedd *Jordan*,
Nid oes dim a'n golcha ninne,
Ond gwaed Chriſt oddiwrth ein beie.

*‖ danfonedd.*
*Dan.* 3.

‖ Helodd Duw ei Angel hyfryd,
I ddwyn *Sadrac* o'r ffwrn danllyd;
Helodd Duw ei fab ei hunan,
I'n dwyn ni o ffwrnes Satan.

*Jonas* a fu ym mol y Morfil,
Dridie a theirnos mewn mawr beril,
Felly bu ein prynwr hygar,
Drosom ninne ym mola'r ddaiar.

Fel offrymmodd *Abram Iſaac*, Gen. 22.
I *Jehoſa* arben *Moriac*?
Felly offrymmodd Chriſt ei enaid,
I Dad cyſion dros ei ddeſaid.
Neb a ymolcho ym mhwll *Betheſda*,
Feiachaid o'i glwyf pwy bynna; Joan. 5.
'Neb ymolcho yng waed y cymmod,
Feiachair o bob rhyw bechod,
Gwaed y Pelican ſy'n helpu,
Ei Adar gwedi'r Sarph ei brathu:
Gwaed yr oen all gadw'r *Chriſtion*,
Gwedi bechod frathu galon.
Yr Unicorn a'i gorn y * helpa, * Iacha.
'R Dwr lle chwdo'r Sarph ei chylla;
*Chriſt* a'i waed all cadw'r enaid,
Lle chwdo'r Sarph ei wenwyn embaid.
Mor gwilyddus inni wrthod,
Un mab *Duw* i fod yn briod;
A pha palle merch rhyw ſeger,
Fod yn wraig i Frenin *Lloeger*. Gen. 28. 12.
*Nid yw boſſib i neb ddringad,*
*Ir nef uchel uwchlaw'r lleuad,*
*Oni chymmer yſcol* Jaco.
*Rhon yw Griſt i ddringad arno.*
O gan hynny llef yn * irad, * Cwynfanus
Am gael gafel yn dy Geidwad:
Nad ir Byd na dim ſydd ynddo,
Beri it golli d' afal arno.
*Llef am Griſt fel hydd am afon,* Pſal. 42. 1.
*Mofyn Griſt a phob ffordd olion,* Cant. 5. 8.
*Cais e'n ddyfal nes y caffech,*
*Gadw dy afal pan canfyddech.*
*Cyn y gallech chwennych Chriſt,*
gadw d' enaid truan triſt,
Rhaid it weld, fod grâs a gallu,
Gan fâb *Duw* i'th gadw a'th brynu.

Rhaid

Rhaid it weld fod *Chriſt* yn raſol,
Yn *Dduw*, yn ddyn, yn rymmus hollol,
Yn well na dim, yn rheitiach wrtho,
Na'r byd i gyd, a'r maint ſydd ynddo.
Rhaid it weld fod *Chriſt* yn rheitiach,
Yn well ymhell, yn werthfawroccach,
Na'r byd a'i bethau darfodedig
I gadw d' enaid bach o'i berig.
Ni all y byd, a'i werthfawr bethau,
Brynu d' enaid byth o'i boenau;
Fe all *Chriſt* ei ddwyn i'r nefoedd,
O grafar gau'r Sarph a'i twyllodd.
Fe all *Chriſt* a'i waed ei olchi,
O'i bechodau fel y Lili,
Er eu bod mor goch a'r ſcarled,
A'u glanhau mor wyn a'r foled.
* *Atgweirio.* Fe all *Chriſt* dy Ail * repario,
Yn ddyn newydd er dy fyrddo,
A'th gyfnerthu tra fech byw,
I fyw mewn ſtafer dyn a *Duw*.
* *cymhwyſo.* Fe all *Chriſt* dy lwyr * ffwrneiſio,
Jo. 1, 16, A gras a grym i lynu wrtho,
A dyſc, a dawn a gwir wybodaeth,
I weithio gwaith dy iechydwriaeth,
* *Ennill yn ol.* Fe all *Chriſt* * recyfrio itti,
* *Adda ac Efa* Faint y gollodd dy * rieni,
* *Sicrach.* A rhoi itti * ſiwrach fywyd,
Nas gall Satan ddwyn oddiwrthyd.
Fe all mab *Duw* gadw d' Enaid,
Er ei fynd i fyſc y bleiddiaid,
A'i ddwyn adre i'r wir Gorlan,
Yn wych ar ei 'ſcwyddau hunan.
Ni all y byd a'r maint ſydd ynddo,
* *Ennill yn ol.* Gadw d' enaid na * recyfrio,
Faint y gollaiſt gynt yn *Adda*,
Ond dy ollwng i'r pwll iſſa.

*Cry*

*Crynhoi di 'nghyd dy rym, a'th allu,*
*Rho'th goel, a'th driſt, a'th bwys ar Jeſu,*
*Cais ef, cdr ef, craffa arno,*
*Bydd ſiwr i gadw d' afel ynddo.*
*Rhaid i Griſtion brudd 'wllyſio,*
*Cael mab* Duw *yn geidwad iddo;*
*Cyn y bytho'r Prynwr hawddgar,*
*Geidwad byth ir anwyllyſgar.*
Oni chwennych oni ‡ ſlyſia, ‡ *Hiraetha.*
Oni chais oni ſycheda,
Dyn am ſâb Duw gael i gadw,
Ni thry mab Duw byth drwyn hwnnw.
Ni ry Duw mo'i ſâb ei un dyn,
Nes bo chwannog bur iw dderbyn;
Rhaid yw chwennych Chriſt a'i geiſio,
Cyn y caffer gaſel arno.
Os bydd un dyn yn gwllyſio,
Yn hiraethu, yn dymuno, *Pſal.* 110. 3.
Derbyn Chriſt, a'i râs a'i ffafar, *Mat.* 5. 6.
Duw rhy iddynt yn wllyſgar.
Ni chais Duw gan ddyn ediſar,
Ond derbyn Chriſt yn dra gwllyſgar,
Y Dyn a'i ceiſio yn awyddus,
Fe caiff e'n rhad yn ol ei wllys. *Dat.* 22. 17.
Cyn cael Chriſt, a gras oddiwrtho, *Eph.* 3. 17.
Rhaid cael ffydd i maſlyd ynddo;
Heb ffydd ni all un dyn byw,
Gyrhaedd gaſel ar ſâb Duw,
Ni chaiff Chriſtion mwy na * Phagan, * *Dyn heb broffes Chriſtianogol*
Les, na ffrwyth, na rhan, na chyfran,
O'r maint oll a brynodd Jeſu,
Heb ffydd ſywiol i'w meddiannu. *Gal.* 5. 6.
Ffydd ſydd reitia peth iw cheiſio,
Byth ni chai di Griſt heb honno; *Mat.* 16. 16.
Cais y ſynnech yn dy ddydd,
Ni cheidw *Chriſt* di byth heb ffydd.

*Rhuſ.* 14.23 Heb ffydd ni bydd it wnel a *Chriſt*,
Heb ffydd mae'r weithred ore'n driſt;
*Heb.* 11. 6. Heb ffydd ni wir ſodlonir Duw,
*Rhuſ.* 1. 17. Wrth ffydd y bydd y cyfion byw.

Pa bae gennyd aur ſynydde,
A'r byd yn baec, a'i amryw bethe,
‡ *Ar ddydd* Beth ſyddit gwell ‡ ar ddydd angenrhaid,
*o anghen-* Os eiſie ffydd, y colli d' enaid.
*rheidrwydd.* Po baet mor dlawd a *Lazar* druain,
‖ *Cwd.* *Heb dai heb dir heb fwyd, heb* ‖ *ſcrepan*,
Heb dda, heb ddim ond ffydd yn unig,
Trwy ffydd yng-Hriſt ti wyt cadwedig.
*Luc.* 7. 50. Er na ddichon mynydd auraid,
Gyffro *Chriſt* i gadw d' enaid,
Gronyn bach o ffydd fel hedyn,
All i gyffro i gadw un dyn.

Heb ffydd ni ellir cael diddanwch,
Gwir lawenydd, na dedwyddwch,
Yn y nef nac ar y ddaiaren,
Bod heb ffydd ſydd beth aflawen.
1 *Pet.* 1. 8. Heb ffydd ni chei ran yng Hriſt,
Heb ffydd fe'th droir i uffern driſt;
‡ *bodloni.* Heb ffydd ni ‡ phleſſir mo Dduw'r *lluoedd*,
Heb ffydd nid ai di byth ir nefoedd.

Ni chair pardwn byth am bechod,
† *Difrifol.* Ni chair ffafor ar law'r Drindod;
* *Fydd ſyw-* Ni chair dim llawenydd † prydd,
*iol yw'r ffydd* Lle na byddo bywiol ffydd.
*ſydd ag edif-* Rhaid ir tlawd, rhaid ir cyfoethog,
*eirwch a* Rhaid ir diddyſc a'r llythyrennog,
*gweithred-* Rhaid ir Brenin rhaid ir beger,
*oedd da yn ei* Rhaid i bawb wrth ffydd cyn cadwer.
*chanlyn hi.* Rhaid i bawb ei ffydd ei hun,
*Act.* 20. 21. Nid ffydd arall wrth ei glyn;
*Act.* 15. 9. Os ni chedwir neb yn gyngan,
*Jaco.* 2. 18. Ond trwy 'i ffydd ai grêd ei hunan.

N

Nid ffydd dy fam, nid ffydd dy dâd,
Nid ffydd dy Brins ar penna o'r wlâd,
All tynnu grâs, o Griſt id allan, Ezek. 18. 20
Ond dy ffydd a'th gred dy hunan.
Ni cheidw ffydd y Tâd o'i blentyn,
Na ffydd y mab o'i Dâd eſcymmyn,
Pawb a gedwir pob yr un,
Wrth ei Ffydd a'i cred ei hun.
Wrth wrando geiriau *Duw* yn brydd,
Mae Duw yn arſer rhoddi Ffydd,
Heb wrando'r gair nid yw yn arſer,
Rhoddi Ffydd i neb un amſer.
Gwrando'r gair a chred addawo, *Rhuf.* 10.17
† Marca, a chofia 'r hyn a ddywetto; † *Graffa.*
A'ddawo Duw, fel tal yn ddilys,
Ni thorrodd Duw erioed o'i ‡ bromys. ‡ *addewid.*
Nid ein nattur, nid ein Tadau,
Nid ein dyſc na'n poen, na'n doniau, *Gal.* 5. 22.
Ond yſpryd *Duw* trwy air ei hun,
Sy'n gweithio ffydd ynghalon Dyn.
Gwrando'r gair, a chais yr yſpryd,
Lle am ffydd fel am dy fywyd;
Wrth weiddi am ras, gwrando'r fengyl, *Mat.* 7. 7.
Mae Duw yn rhoddi ffydd yn rhygil.
Nid y gair ‡ tu ſaes ei hun, ‡ *Tu allan.*
Sy'n gweithio ffydd yng-halon Dyn;
Ond yſpryd *Duw* yng-hyd a'r Gair,
Sy'n gweithio, ffydd ple bynna cair.

## *Pſal.* 38.

DUW graſol, Tad trugaredd,
Na faedda fi'n dy ddigedd,
Ac na choſpa fi'n dy far,
Mor ddigllon ar fy niwedd.

Duw mae dy ſaethe llymion,
  Yn glynu yn ſynghalon,
A'th law drom yn daran chwyrn,
  Yn briwo f' eſcyrn gweinion.
Nid oes im cnawd ond nychdod,
  Gan ſaint dy lid a'th ddyrnod,
Na dim Hedd im heſcyrn briw,
  Waith cymmaint yw ſy mhechod:
A'm camwedd a'm troſſedde,
  Sy'n pwyſo'n drwm (Gwae ſinne)
Fel baich gorthrwm ar ſyngwarte,
  Yn gwaſcu ar ſy 'ſowydde.
A'm cnawd ſy'n llawn o gleiſie,
  Waith trymmod yw'ch ddyrnodie,
A'm cleiſie'n pydru ſel hen glwyf,
  Gan ffolced wyſ, gwae ſinne.
Di grymmaiſt (*Dduw*) ſynghefen,
* *Ymoreni.*  Di'm helaiſt ir bedd * baychen;
Di'm goſtyngaiſt hyd y llawr,
  Rwi'n un yn awr a'r ddairen.
Rwi beunydd yn alaru,
  Rwi'r nôs heb allel cyſcu;
Rwi'n wylo'n doſt, rwy'n griddfan mwy
  Fy neigre aeth trwy 'nwely.
Gwyl driſted yw f'amcanion,
  Clyw droſted yw f'ochneidion,
Gwyl mor drwm yw'th lid a'th ſar,
  Yn gwaſcu ar ſy-nghalon.
I bery im ſwy o flinder,
  A gwewyr heb eſmwythder,
Mae'r holl gnawd yn aſiach iawn,
  A'm lwyne'n llawn o boethder.
Rwi'n egwan gwedi 'nghlwyſo,
  Rwi'n ochain ac yn ſhuo,
* *Anwyl.*  Gan ſaint poen ſy Mhrynwr * call,
  Rwi'n barod i wall bwyllo,

O dofa beth o'th ddigter,
  A llaeſa ddarn o'm blinder;
Na lwyr ddifa fi fy Nuw,
  Ond rho imi ryw eſmwythder.
Di wyddoſt Dduw fy ngheidwad,
  Beth ydyw fy neiſyfiad;
Ni chuddiwyd rhagot ti un pryd,
  Na'm poen, na'm cryd, na'm bwriad.
Mae 'nghalon drom yn curo,
  A'm nerth ſydd gwedi'n gado,
Am llygaid trymmion bob yr un,
  Sy'n weled dyn i'm ſwccro.
Fyng heraint a'm cyfeillion,
  O hir bell rhoent olygon,
Ac fy nrhallod blin a'm pla,
  Heb gyſſur, na chynghorion.
A'r rhai ddymune'n Nifa,
  Oſodent fagle im dala.
A'm gorthrymmu megis Cwn,
  Och! och! pan oeddwn wanna,
A minne yn fy nrhafel;
  Fe ddwede bawb ei chwedel,
Ac a'm barnent bob yr un,
  Yn waetha dyn o'm cenel;
A rhai ddychmygent gelwydd,
  A rhai'm gwatwarent beunydd,
A rhai chwardde'n uwch ar goedd,
  Gan gymmaint oedd fy-nghyſtudd;
A minne fel dyn byddar,
  Heb glywed dim o'u gwatwar,
Yn tewi a ſôn heb atteb neb,
  Fel mudan heb ei lafar.
Yr wi fel gwr heb glywed,
  Neu ffôl heb ſedru yſtyried,
Yn gado i bawb chwedleua eu hun,
  Heb amme dyn a'r aned.

Ond Arglwydd rwi'n gobeithio,
Dy fod di yn eu gwrando,
Ac yn atteb dros dy was,
I bawb a'i cas enllibio.
Duw nad im drwg elynion,
Caol arnai wynnu eu calon,
Na *chrechwenu tra font fyw, *Uchel-chwerthiad.
Weld cymmaint yw'n trallodion.
Pan lithro 'nhroed ond gronyn,
Hwy chwarddant bawb i'm herbyn,
Ac a wawdiant am fy-mhen,
Gan roi i'm ſen yſcymun.
Fe'n ganed i ddwyn poene,
Paratowyd fi i ddiale;
A blindere 'nghalon don,
Sydd ger fy-mron yn ddie,
O Arglwydd rwi'n cyfadde,
Fy mhechod a'm troſedde.
Mae'n flin gennif o fy Nuw,
Weld cymmaint yw fy meie.
Ond etto mae 'ngelynion,
Yn fywiol, ac yn gryſion,
A'r ſawl ſy'b achos im caſau,
Sydd yn amlhau yn greulon,
A'r rhai a dalant immi,
Dwrn drwg am fy naioni,
Sy'n gwrthnebu bob rhyw awr,
Trwy wneuthur mawr ddrygioni.
Ac am fy mod yn dilyn,
Y peth ſydd dda i'r gwerin,
Rwi'n gas gan bawb o'r bobol ddrwg,
A'r rhai ſy a'i gwg i'm herbyn.
Na wrthod di fy helpu,
O Dduw, fy Nuw, er hynny,
Gwna fi beunydd ar fy ngwell,
Ac na ſydd bell oddiwrthi.

Ond pryſſia i'm cynnorthwyo,
A'm helpu byth tra ganſio,
Duw ſy iechyd, *Un a Thri*,
Canys ynot ti rwi'n * tryſto.

* *Ymddiried.*

---

### *Am y Sabbeth.*

DEffro'n fore gyda'r ceiliog,
† Ffyſt d' adanedd, cân yn ſerchog,
Pſalm i'r Arglwydd yn blygeiniol,
Ar bob Sabboth yn dra ſiriol.
Gwiſc dy ddillad gore am danad,
* Ym ſancteiddia cyn dy ddwad,
O flaen Duw i'r Demel ſanctaidd;
Coff gan Dduw ei addoli'n gruaidd.
Gwedyn dos a'th dylwyth gennyd,
I dy Dduw a chalon hyfryd;
I addoli Duw'n y dyrfa,
Megis *Joſeph*, *Mair*, a *Joſua*.
Fe fyn Duw ei addoli'n barchus,
Ar bob Sabboth yn gyhoeddus,
Gyda'r dyrfa yn y Demel,
Nid yn ddirgel yn y cornel.
Duw ddibennodd ei holl weithred,
Ar y dydd o flaen y ſeithfed;
Gorphen dithe bob Gorchwylion,
Cyn y Sabboth od wit Griſtion.
Ym ſancteiddia cyn y Sabboth,
Cadw'n lân dy leſter boenoth;
Golch dy hun mewn edifeirwch,
Ofna Dduw, a chais ei heddwch.
Cyn y Sabboth rhaid ymgweirio,
A throi pôb bydol waith heibio,
I gael gweithio Gwaith yr Arglwydd,
Tra fo'r dydd mewn gwir ſancteiddrwydd.

† *Cura: Pſal.* 92, 1. 2.

* *Ymbaratoa trwy weddi.*

Gorphwys di, a'th dda, a'th ddynion,
Oddiwrth bob rhyw o orchwylion;
Ac na weithia ddydd yr Arglwydd,
Waith o * bleſſer na bydolrwydd. * *Difyrwch*
Gwerthu * liſiod, cario beichau, * *pob math o ymborth.*
Gweithio'n galwad, mynd i ſiwrne,
Pob ofer-waith pleſſeradig, *Neh.* 13. 15. 19.
Ar y Sabboth ſydd warddedig.
Cadw'r Sabboth oll yn bryd, *Eſay.* 58. 13.
Forea a hwyr, a chanol dydd,
Yn dy dŷ fel yn yr Eglwys,
Yn gwaſnaethu Duw heb orphwys.
Cymmer ſwy o * garc trech byw, * *Gofal.*
Weithio'r Sabboth waith dy Dduw;
Nag y gymrech un dydd amgen,
Ynghylch gweithio bydol breſſen.
Ar y Sul mae mor anghenraid,
Geiſio Manna i borthi'r enaid,
Ac yw ceiſio ar ddydd marchnad,
Fwyd i borthi'r corphyn anllad.
Côd y bore ar y wawr ddydd,
Am y cynta ar uchedydd,
I gael treulio dydd yr Arglwydd,
Mewn duwioldeb a ſancteiddrwydd,
Nid diwrnod i ni gyſcu,
Nac i dordain yn y gwely;
Ond diwrnod iw ſancteiddio,
Yw'r dydd Sabboth oll tro gantho.
Nid diwrnod itti loetran,
Nac i feddwi, nac i ſowlián,
Ond diwrnod itti weithio,
Gwaith dy Dduw yw'r Sûl tra dalo.
Dydd iw treulio mewn ſancteiddrwydd
Dydd i weithio gwaith yr Arglwydd,
Dydd i ddarllain, a gweddio,
Dydd i ddoli Duw a'i goſio;

Dyd

Dydd i orphwys rhag gwaith bydol,
Dydd i weithio gwaith ſancteiddiol,
Ac nid dydd i fod yn ſegur,
Yw dydd Duw medd geiriau'r Sgrythur.
Er bod Duw yn erchi coffa,
Cadw'r Sabboth yn ddiſigl;
Nid ym ninnau'n ceiſio cadw,
Un gorchymyn mwy nâ hwnnw.
O'r holl ddyddie nid oes un dydd,
Ym ni'n dreulio mor ddigrefydd,
Mor anneddfol, mor eſcymmyn,
Ar dydd Sabboth tra fo'r flwyddyn.
Dydd i feddwi, Dydd i ſowlian,
Dydd i ddawnſio, dydd i loetran,
Dydd i hwrian a gwylherſu,
Yw'r dydd Sabboth gan y cymru.
Dydd i eiſte * a dyfalu,
Dydd i ymladd ac ymdaeru,
Dydd i weithio gwaith y Cythrel,
Yw dydd Duw mewn llawer cornel.
Y dydd a ddylem ei ſancteiddio,
Ym ni fwya yn ei nyddo,
I amherchu ein prynwr tirion,
A dolurio ei gywir weiſion.
Treulia'r Sabboth oll yn llwyr,
Mewn ſancteiddrwydd fore a hwyr;
Ac na ddyro * bart na chyfran,
O ddydd Duw i addoli Satan,
Cofia gadw'r *Sabboth* ſanctaidd.
Duw fyn gadw hwn yn berffaidd;
Rhwn a dreulio'r Sul yn ofer,
Ni wna bris o ddim orchymynner.
Cadw'r Sabboth ti a'th genel,
Yn dy dŷ fel yn dy demel.
Gwna i'th dylwyth fyw mor gymmwys,
Yn dy dŷ fel yn yr Eglwys.

* *gwawdio*

* *Rhan*

*Gen.* 18. 19.
Joſ. 24. 15.

Tri rhyw waith all dyn arferu,
Ar y Sabboth heb droſſeddu,
* riberigl. Gwaith duwioldeb yn * ddiembaid,
Gwaith cariadol, Gwaith Angenrhaid:
Gweithred Duw yw trafaelu,
† Sef ê [illegible]rhydeddu Duw I dy Dduw iw † Anrhydeddu,
Ac i wrando'r fengyl hyfryd,
Pyt fae 'mhell o ffordd oddiwrthyd.
2 Bren. 4. 43. Gwaith cariadawl ydyw cadw,
Dyn a nifel rhag eu marw,
A rhoi ymborth iddynt ddigon,
Ac ymgleddu'r bobol weinion.
Gwaith anghenrhaid 'rhwn nis galli,
Gynt na chwedyn ei gyflawni,
Megis cadw Ty rhag lloſci,
Gwraig wrth eſcor, Buwch rhag boddi.
Gwachel ddilyn drwg gyfeillach,
Cyfaill drwg ſydd wybren aſiach,
Plag yn llygru, pyg yn nyrddo,
'R dyn duwiola a'i dilyno.

*Gweddi dros yr Eglwys, yn llawn o ddymu*
*iadau graſſol.*

ARglwydd graſſol cadw d' Eglwys,
A'r Winwydden deg y blanwys,
Pſal. 80. 14 15. Dy ddeheu-law di dy hunan,
O'r dechreuad yn dy winllan.
Nad ir baedd o'r coed i thirrio,
Pſal. 80. 13. Nad ir bwyſtfil gwyllt ei chroppio;
Nad un gelyn emmwyn Jeſu,
Ei anrheithio, byth na'i ſathru.
‡ Mar. Zec. 2. 5. 8. Bydd yn ‡ wal o dân o'i bobtu,
Ddydd a nos gan ei chwmpaſſu;
Eſay. 27. 2. 3. Bydd a'th lygad arni'n waſtad,
A'th fraich rymus yn ei gwarchad.

Cid

Cadw hi megis byw dy lygad,
Portha hi fel praidd yn ddiſtrad,
Trwſia hi fel dy anwyl briod,
Nad un gelyn byth i gorſod. *Pſ.* 51. 18.
Gwella ei gwelydd, côd ei bylchau;
Gwilia ei phyrth, a chweiria 'i thyrau;
Cadarnha bob barn ſydd ynddi,
Nad un gelyn i difrodi.
Nad i Dwrc, na Phab, na Phagan,
Nac un pennaeth waethu'th winllan; *Gen.* 12. 3.
Ond bydd elyn iw gelynion,
A difetha ei digaſſogion.
Glawia arni yn gaſode,
Dy fendithion nos a bore,
Nes i tanno * cigle ei gwinwydd,
Dros y Byd o'r môr i gilydd. * *Canghennau.*
Tafla i lawr, a dryllia'n gandryll,
Rhwyſc y ddraig, a'i theyrnas dywyll; *Datc.* 12. 9.
Adeilada ym-mhob cornel,
Deyrnas Chriſt, a Sathra'r cythrel,
Chriſt a'th anal llwyr ddifetha, 2 *Theſſ.* 2. 3. 4. 8.
Y ‖ mab anwir ſy'n ymddrycha:
A'r ‡ *Hen Buttain* goch ſyn yfed, ‖ *Y Pab.*
Gwaed dy Saint, i dorri ei ſyched. ‡ *Eglwys Rufain.*
*Gwna* i'r Efengyl wenn farchogaeth, *Datc.* 17. 1. 6.
Trwy'r holl-fyd at bob cenhedlaeth,
I gael gorſod a gorchfygu;
A thro bawb o'th blant i chredu.
Adeilada o gylch-gwmpas,
Ym-mhob Gwlad dy raſſol Deyrnas, *Dat.* 6. 2.
Ym-mhlith Groegiaid ac Iddewon,
Gwna hwy Arglwydd yn Griſtnogion: *Rhuf.* 11. 25. 26.
I Iddewon gwna drugaredd;
Dangos iddynt dy wirionedd: 2 *Cor.* 3. 16.
Tynn ei anghrediniaeth ymmaith,
Derbyn hwynt i'th goflan eilchwaith.

A benditha bob rhyw Deyrnas,
Lle addolir Chriſt yn addas;
Cadw'r fengyl ſanctaidd iddynt,
Nes del Chriſt i farnu rhyngthynt.

---

## *Am Dyngu.*

YR Iddew dig a rwyg ei wiſgoedd,
Pan y cabler Duw y lluoedd;
Llawer Chriſtion gwael ni * ſyfla, * *Chyth-ryblir.*
Pan y cabler Duw gorucha.
Os tyngei Sibſwn i ben *Pharo*,
Yng-ham, fe gae ei ddieneidio;
Os twng y chriſtion gorph ei Brynwr,
A'i gig a'i waed, nid oes Dialwr.
Gwn na frathei yr Iddewon,
Chriſt ond un-waith dan ei ddwy-fron,
Mae'r chriſtnogion a'u cas lyſe,
Yn ei frathu fil o weithie.
*Levi.* 18. 28. Na ryſedda weld gwyr mawrion,
*Hoſ.* 4. 3. 2. *Yn* gwerthu, Tir, a'r Teie gwychion;
Cablu Duw a bair yn ſuan,
Ir Tai, a'r Tir droi'r meiſtri allan;
Di gae weld *Yn Nhai* Gwyr mawrion,
Bedwar pâr o garde brithion,
I rai dyngu ac yn ymrigo,
Heb un llyſyr i weddio.
Rwy fi'n tybied ac yn credu,
Na chair clywed caſſach Tyngu,
Gan Gythreiliaid yn § Gehinnon, § *Uffern.*
Nag a glywer gan griſtnogion.
Nid oes Sôn yn nhei llawer,
Am enw Duw ond pan y cabler,
Nac am werthfawr waed yr Ieſu,
Ond tra ſyther yn ei dyngu.

Mello

---

Mell
Ac red
Ac a ly
Nes py
Gwe
Yn y g
Nag it
Yn y
*Naw*
Y laddo
Mewn
Enw'r
Mae
Pob rhy
*Nid* dic
Ac a gy
Pet fa
Yn rhy
*Duw* ei
Bawb a

DW
Fe
Wrth y
Dy fod
Par i't
Ganu'r f
Fel y g
Glywed
Par ir
Oddiwrth
Ber-arog
Bob rhyw

Melldith *Duw* medd *Zecharias*, *Zech.* 5: 2, 3, 4.
Ac red i *Dy'r* udonwr diras;
Ac a lyna wrth bob ceubren,
Nes pydru'r ty, a'i droi yn dommen;
Gwell it drigo lle bo powdwr,
Yn y gegin, yn y parlwr,
Nag it drigo lle bo tyngu,
Yn y parlwr neu'n y Penty.
*Naw* ugein mil o lu'r Aſſuriaid,
Y laddodd Angel *Duw* yn ddiriaid, 2 *Bren.* 19. 22, 25.
Mewn un noſwaith gynt am gablu,
Enw'r Arglwydd a'i ddirmygu,
Mae *Duw*'n erchi llwyr labyddio,
Pob rhyw ddynion ag a gablo,
*Nid* dieuog yw'r dyn ſceler, *Lev.* 24: 16.
Ac a gymro ei enw'n ofer.
Pet fae farnwyr yr holl *Deyrnas*,
Yn rhyddhau'r udonwr diras;
*Duw* ei hun a farn yn ſiccer,
Bawb a gymro ei enw'n ofer.

---

## *Dyledſwydd Gweinidogion.*

DWg ſancteiddrwydd yn dy dalcen,
Fel y gallo pobol ddarllen,
Wrth ymddygiad a'th ſancteiddrwydd, *Exod.* 28. 36, 38.
Dy fod ti yn was ir Arglwydd.
Par i'th glych ſydd wrth dy ſiacced,
Ganu'r ffordd y bech yn cerdded,
Fel y gallo pawb yn rhigyl,
Glywed gennit eiriau'r fengyl.
Par ir pomgranadau *ffrwythlon*, *Exod.* 28. 33 34, 35.
Oddiwrth ymyl ſiacced *Aaron*,
Ber-arogli a'th daioni,
Bob rhyw dyrfa ddelech iddi.

Par i 'rogle dy ymddygiad,
Par i lewyrch dy lân alwad,
Par i ffrwyth dy weſus draethu,
Mae gwas wyt ir Arglwydd Jeſu.
Gwr i Dduw wyt wrth dy alwad;
Gwas i Griſt ein pen a'n ceidwad,
Nid yw gweddus i was Brenin,
Fynd mod ſrwnt a Gwr cyffredin.
*2 Cor.* 5. 20. Cennad wyt ir Brenin mwya,
I ſynegi ei air ir dyrſa,
Nad un gair heb ei ſynegu,
O'r hyn archodd itti draethu.
Bugail wyt i gadw'r defaid,
*Act.* 20. 28. Brynodd Chriſt a'i waed bendigaid;
*Ezec.* 34. 8. Nad un ddafad farw o newyn,
*Deut.* 33. 8. Rhag mynd ei gwaed at dy gobyn.
Dwg ſancteiddrwydd gyda'th *Urim*;
Dwg wybodaeth gyda'th *Thwmmim*;
Dwg y ddau hyn ar dy galon,
*Luc.* 9. 29. Hyn yw dyled ffeiriad ffyddlon:
Rhoeſt dy law ar goron yr arad,
Dos o'th flaen a dylin d' alwad,
*Na* thro'n d' ol fel ci at chwdſa,
*Ni* chair coron heb hir-bara.
*2 Tim.* 4. 8. *Gwradwydd oedd i* Ephraim *Judyr*,
|| *Ymladdſa.* *Droi'n ei ol yn nydd y || ſrwydyr:*
*O troi'n ol oddiwrth dy alwad,*
*Gwaeth dy ddiwedd na'th ddechreuad.*
*Gado'r* llong fel *Jaco* a *Pheder*,
Dilyn Griſt tra caffoch amſer,
Rhaid i weiſion y Meſſia,
Ado'r byd fel *Leſi*'r dollſa.
Bwrw'r byd a'i bethe oddiwrthyd,
'Rwyt ti'n rhedeg am dy fywyd,
* *Llwyth.* * Ffardel gron o bridd a hindra,
*Rhwyſtra.* Cawr, neu farch wrth redeg gyrſa.

Tafla *ffwrdd* bob peth ſy'n pwyſo,
A'r pechodau ſy'n dy rwyſtro;
Rheded pawb y nefol, yrfa,
Trwy ammynedd am y cynta. *Heb.* 12. 1.
Portha ddefaid Chriſt yn ‡ gywrain, ‡ *Cyfarwydd*
Yn wllyſgar heb dy † gathrain; † *Cymmell.*
Pan ddanghoſſo Chriſt ei fawredd, 1 *Pet.* 5. 2,
Di gei goron ac anrhydedd. 3, 4.
Gwae pob Bugail mud anghynnil, 3.
*Na* phregetha Chriſt a'i fengyl; *Ezec.* 33. 8.
Gwaed eneidiau mil ofynnir,
Ar law hwnnw pan ei bernir.
Mewn tair Ffordd y dylit borthi,
Defaid Chriſt, au llon gymfforddi,
1. Ag Athrawiaeth bur 'fengylaidd,
2. Gweddi 'frwd, 3. a Bywyd ſanctaidd.
Gwell yw ffeiriad da nag Angel,
Gwaeth yw'r drwg na'r ddraig neu'r cythrel,
Y da a'n dwg i dir goleuni,
Y drwg a'n gollwng bawb i'n colli.
Trin dy Winllan, hi ddwg rawn-win,
Haia dy faes, feddwg egin,
Trin dy braidd, fe fydd llwyddiannus,
Dyſc dy blwyf fo fydd rinweddus.
*Dyſcwch* eich praidd, ac * arweiniwch, * *Sef trwy*
I Wladd *Canaan* trwy 'r *anialwch*; *eich ſiampl*
*Nid* nes ffeiriad fod yn *Ddoctor*, *dda.*
Oni *wnaiff* yn ol ei gyngor. *Eſay.* 40. 11.
Byddwch dirion wrth y defaid,
Cynnwch lef yn ol y bleiddiaid,
Mwynder a wna i'r *Ddafad* tori,
Llefain a wna'r Blaidd gynffoni. 1 *Cor.* 4. 21.
Rhowch y fron ir wyn cariadus, 2 *Cor.* 13. 2.
Rhowch y Ffon wrth Hwrdd cildynus,
Byddwch fwyn wrth rai diniwed,
Coſpwch bawb o'r rhai pengaled.

*† Sef cerydd-* Byddod † arfau yn eich dwylo,
*on a bygyth-* Fel plant *Iſrael* wrth adeilo;
*ion ac yſgym-* Llwy i ‡ fildo, cledd i ymddiffin,
*mundod.* Ac i ymladd dros y gwerin.
*Neh.* 4. 17. Porthwch bawb eich Praidd a Manna,
*‡ adeiladu.* Nedwch arnynt eiſie porſa;
1 *Pet.* 5. 2. Os bydd marw un rhag newyn,
*Ez* 33. 8. Bydd Gwaed hwnnw ar eich cobyn:
*Ez.* 34. 4. Cyrchwch adre trowch i'r gorlan,
Y diſperod aeth i ‖ ſtraglan;
*‖ gyrwydro.* Nedwch un i gyfyrgolli,
*Heb.* 13. 17. Fe fynn Duw am bob peth gyfri.
*Mat.* 5. 14. Canwyll i'ch i roi goleuni,
16. Yn eglwys Dduw ir holl gwmpeini:
O! diſcleiriwch fel canhwylle,
Fel y rhodiom yn eich golo.
Y lamp a dreulia'r llin o'r Thyſſur,
Yn goleuo'r gwir addolwyr;
Treuliwch chwithau 'ch oes mor *ffyddlon*,
*Mat.* 5. 13. Yn goleuo eich plwyfolion.
** tymmheru.* Halen i'ch i * ſeſno eneidie,
*† Aroglu.* Rhag drwg † ſawyr mewn pechode;
*‡ Tymmhe-* ‡ Seſnwch galon pawb ſy'n pechu,
*rwch.* Rhag i Griſt a'i droed eich ſathru.
Golwg doſt yw gweled defaid,
Yn eu llarpio'n ſafnau bleiddiaid;
Toſtach gweld eneidie'n griddſan,
*Hoſ.* 4. 6. Eiſie Dyſc yng hampe Satan.
** yd.* Toſt yw gweled maes o * lafyr,
Yn pydru eiſieu help medelwyr;
Toſtach gweled mil o ddynion,
Yn meirw eiſieu help Athrawon.
Toſt yw gweled plentyn bychan,
Eiſieu help, ar wres yn brwylian;
*Diha.* 29. Toſtach gweled eneidiau bagad,
18. Mewn Tan eiſie help *offeiriad.*

T

Toſt gweled mil yn mynd iw boddi,
Eiſieu i ryw un eu cynghori;
Toſtach gweled mil yſowaeth,
Aiff i uffern eiſie athrawiaeth. † y gura,
Y ceiliog gwyn y ffyſt ei adanedd,
I ddeffro 'i hun cyn deffro'i wragedd:
Fellv dyle'r holl offeiriaid,
Ddeffro'i hun cyn deffro'r defaid.
Fel y dyge wialen *Aaron*,
Ddail a blodau, a chnau *ffrwythlon*,
Pan oedd eraill o bob graddau,
Heb ddwyn *ffrwyth*, na dail, na blodau,
*Felly dyle'r gweinidogion*, *Num*. 17. 8.
*Mewn rhinweddau fod yn ffrwythlon*,
*Pan fo eraill o bob galwad*,
*Yn ddi rinwedd eu hymddygiad*.
Beth wnair ar dall i arwain deilliaid,
Beth wnair a'r mud i gyfarth bleiddiaid,
Beth wnair ar heſp heb laeth mewn brone, *Mat*. 15. 14.
I fagu plant, i borthi eneidie.
*Ni wnair dim a chi cyſgadur*,
*Ni wnair dim a gweiſion ſegur*,
*Ni wnair dim a halen diflas*,
*Ni wnair dim a ffeiriad llanas*. *Eſay*. 56. 10
Fe wnaid ſtalwyn o hen ſarch tywyll,
Fe wnair tân o hen dy candryll, *Mat*. 5. 13.
Fe wnair peth a chroochan tyllog,
Ni wnair dim a *ffeiriad* diog.
Pwy ddyd ddall i arwain deilliaid?
Pwy ddyd mud i gyfarth bleiddiaid?
Pwy ddyd ynſyd i roi cyngor?
Pwy ddyd ddwl i rannu tryſſor.
Dodi'r dall ar ben diſgwylfa,
Dodi'r dwl i ddyſcu tyrfa, * *Sef ſtern yr eglwys, iw rheoli*.
Dodi'r diddyſc wrth y * llyw,
Yw dodiad dyn, nid dodiad Duw.

Os

*Ezec.* 34. 2. Os *Doctor* wyt, o dyſc ni'r deillion,
1 *Cor.* 4. 1. Os bugail da ymgledda'r gweinion,
‡ *Goruchwy-* Os ‡ ſteward doeth cyſrana'n gywir,
*liwr.* Os gwâs i Griſt, gwna arch dy ſeiſtir.
Os ei cywir, cyfarth ladron,
Os pyſcodwr dala ddynion,
*Luc.* 12. 42. Os gwiliedydd, gwilia 'r gelyn,
*Eſa.* 56. 10. A rho 'mhryd y rhybydd iddynt.
*Mat.* 4. 19. Gwinllanwr wyt o gweithia'n ffyddlon,
*Ezec.* 33. 7. Nad ith winwydd fynd yn wylltion,
*Luc.* 13. 8, Trin eu gwraidd, a'u brig a'i bone,
9. Nad eu torri eiſieu ffrwythe.
Lle ni hauir had, ni ſedir,
Lle ni chanir corn ni chyffrir,
* *chynydda.* Lle ni phorthir praidd ni * phriſia,
† *Sef yn yſ-* Lle ni ddyſcir plwyf ni † lwydda.
*prydol.* *Peder*, *Peder*, od oes cariad,
*Joan* 21. 15 Gennyd at dy Ghriſt a'th Geidwad,
16, 17. Portha, Portha, Portha ei ddeſaid,
Mag ei wyn a tharfa'r bleiddiaid.
Nad ei ddefaid fynd ar ddidro,
Nad ir blaidd, na'r llew eu ſcliffio,
*Ezec.* 34. 4. Nad ir cwal a'r gwyd eu mallu,
Eiſieu trin, a'u troi, au maethu.
Oh! diſcleiriwch yn eich gradde,
Megis ſer mewn noſwaith ole;
*Datc.* 1. 20. Ac na fyddwch fel y lleuad,
Sydd a brychau yn eu llygad.
Gwnewch eich clywed yn yr Eglwys,
Fel Angelion ym-Mharadwys,
Gwnewch eich gweled yn y dyrſa,
Fel y ſêr pan bont ddiſcleiria.
Byddwch farw yn y pulpit,
Yn pregethu'r ſengyl hyfryd,
Nai'n 'r eglwys ar eich daulin,
Yn gweddio dros y Gwerin.

Bydded pob *offeiriad* glân,
Fel piler niwl, a'r piler tân, *Nehem.* 9. 19.
Yn cyfrwyddo'r Ffordd ir bobol,
Fynd o'r *Aipht* i *Ganaan* nefol.
A pha * gonſciens y gall *ffeiriad*, * *Cydwybod.*
Gippio'r cnyf heb borthi'r ddafad,
Bwytta'r *offrwm* mor ddiwybod, *Ezec.* 34. 2, 3.
Ac heb weiddi'n erbyn pechod.
O! ba lef ac achwyd ‡ irad, ‡ *Cwynſannus.*
Y ſydd dydd y farn gan fagad,
Am ir *ffeiriad* eu newynu,
Au handwyo eiſie eu dyſcu.

---

## *Am Ragluniaeth Duw.*

DUW ni attal un daioni,
Oddiwrth neb a fo'n ei ofni;
Fe ry ras ac urddas iddynt, *Pſal.* 84. 11.
Ni bydd *ffael* na diffig arnynt.
Bwrw d' ofal ar yr Arglwydd,
Ac fe'th bortha mewn helaethrwydd:
Ni ad Duw ir cyfiawn gwympo,
Na dwyn *diffyg* byth tra gantho.
Mae Duw'n dwedyd wrthyd ( craffa )
Lleda'th ſafan minneu llanwa, *Pſal.* 81. 10.
Cymmer boen mewn galwad union,
Mi fendithia'th holl orchwylion. *Eph.* 4. 28.
Er bod eiſieu ar y llewod,
A'r rhai cryfa o'r bwyſtfilod. *Pſal.* 34. 10.
*Ni* bydd eiſieu dim daioni,
Ar a dryſta i Dduw'r Toſturi,
Mae Duw'n porthi'r bobol aſlan,
Mae'n rhoi maeth ir *Twrc* a'r *Pagan*,
Mae'n rhoi ymborth iw elynion,
Oni phortha Duw ei weiſion? *Mat.* 5. 45.

Gwachel chwennych gormod golud,
Ymfodlona a'r maint ſydd gennyd;
*Heb.* 13. 5. Byth ni ffaela, byth ni edy,
Duw o'r dyn o fo'n ei waſnaethu.
*Heb.* 1. 16. Ym-mhob diffyg cais gan Dduw,
Rhoddwr pob daioni yw;
Gwachel dryſto i'th rwyd dy hun,
Rhag colli'r pyſcod, wrth dy glun.
Llawer dyn ſy'n dlawd yn byw,
Eiſie ceiſio cymmorth Duw;
A llawer dyn ſy'n mynd i fegian,
Am dryſto i rym a'i rwyd ei hunan.
Lle mae Duw mor hael ir gwerin,
Pam y marw cant rhag newyn?
Am roi coel ar rym eu breichieu,
Heb geiſio cymmorth Duw na'i oreu.
Ni chwſc ni hun 'n Ceidwad graſſol,
Sy'n gofalu am ei bobol;
*Pſ.* 121. 4. Tra fo'm bawb yn cyſcu'n eſmwyth,
Mae'n gofalu am ei dylwyth.
*Eſa.* 49. 15. A ddichon gwraig anghofio ei phlentyn,
A ſugno ei bronne yn ei rwymyn?
Nis anghofia hon ei meibion?
Byth ni anghofia *Duw* mo'i weiſion.
Cyn bo eiſieu arian arnad,
Os gwaſnaethu Dduw yn ddifrad,
*Mat.* 17. 27 Fe bair *Duw* ir pyſcod garrio,
Arian itti i'th ddi rwydo.
Er na bo dy ſtôr ond cwtta,
1 *Bren.* 17. Fel blawd y weddw o *Sarepta*,
16. Os gwaſnaethu Dduw yn ffyddlon,
Fe wna *Duw* fod hynny 'n ddigon:
Gwachel roi di bwys na'th hyder,
‡ *Medr.* Ar dy ‡ ſcil dy hun, a'th gryfder;
Ond ar Dduw dy helpwr unig,
Os ceiſi fod yn ddyn di ddiffig.

Mae Duw'r porthi'r Adar gwylltion;
ae'n dilladu'r lili gwynion,
ae'n rhoi maeth i bob peth bywiol,
ni phortha ei blant a'i bobol?
Ni hau'r fran, ni feder fedi,
id oes na chell, na ſcubor iddi;
tto er hyn mae Duw gorucha.
n prothi'r Brain bob haf bob gaia. *Mat.* 6, 26.
Ni chrib ni nydd, na'r Rhôs, na'r lili, 30.
i feder un na gwau, na 'ſtofi;
tto'r Arglwydd a'u dilladu, *Pſal.* 145.
ewn harddach gwiſc nair Brenin gwycha 15.
Llygaid pob creadur bywiol,
ydd yn diſgwyl ar Dduw nefol,
m roi maeth ac ymborth iddyn,
nte'n hael yn rhannu rhyngthyn.
Mae'n agoryd ei law raſol,
c yn porthi pob peth bywiol,
'i ras a'i rodd, mewn pryd a meſſur,
eb adael gwall ar un creadur.
Mae'n rhoi bwyd i gnawon llewod,
ae'n rhoi maeth i'r gwyllt fwyſtfilod,
ae'n porthi Plant y Gigfran, *Pſal.* 147. 9.
ni phortha ei blant ei hunan?
Ni chwymp un o wallt dy ben,
i ſyrth aderyn tô ar bren; *Mat.* 10. 29.
i ddigwydd dim, heb brydd ragweliad,
uw'n Creawdwr mawr a'n Ceidwad.
Duw rodd itti gorph, a bywyd,
nadl, einioes, cryfder, iechyd,
eall, Rheſwm, cof, a chyfri,
ni ddyry fara itti?
Fè werthir dau o adar y to;
m ffyrlling fechan lawer tro;
r gwaeled ynt, mae Duw'n eu porthi;
i dalu fwy na deg o'r rheini.

Er bod Duw'n gofalu'n gaeth,
A'm bob creadur ac a wnaeth;
Mae'n gafalu am ddyn a'i enaid,
Fwy nag ym yr holl greaduriaid.
Rho dy ofal ar dy Dduw,
1 *Pet*. 5. 7. Ma'en gafalu droſſod olyw,
Os gwaſnaethu Griſt yn gywir,
Mae dy gyflog gantho'n ſiccir.

## *AM Y PURDAN.*

*Y Mae'r Papiſtiaid yn dal fod heb law nef ac 'uffern Drydydd lle, lle mae enneidie rhai pobl, trwy ddiodaef coſpedigaeth tân yn rhoddi iawn i Dduw am ryw bechodau nas meddeuwyd iddynt yn y Byd hwn; Ac yn cael trwy hynny lanhad oddiwrthynt; Ac y dichon ffrins y marw trwy weddiau ac Offerenau, ac Arian a roddir ir pab, gal gollyngdod ir cyfryw eneidiau allon or purdan, yn erbyn yr athrawiaeth gelwyddog gythreulig hon mae'r Awdwr fel hyn yn dwedyd.*

NID oes dim all olchi Enaid,
Dyn ond gwaed yr Oen bendigaid,
* *Ymmdith*. Rhwn ſy'n golchi * ffwrdd bob pechod,
*Datc*. 1. 5. Ac yn puro'r holl gydwybod.
*Heb*. 9. 14. Nid oes ffordd ond dwy ir holl fyd,
*Mat*. 7. 13. Ffordd i ddiſtryw ffordd i fywyd,
Ni ddanghoſodd Chriſt yn un man,
Drydydd ffordd yn mynd i'r purdan:
Nid oes hefyd ddim ond dau le,
I blant dynion gwedi ange,
Nef ac uffern heb le trydydd,
Nid yw purdan ddim ond celwydd.
Nid oes ond dau ſort o ddynion,
Un yw'r anwir llall yw'r ffyddlon;
Y rhai anwir a ddifethir,
A'r rhai ffyddlon oll a gedwir.

Tan a ddichon boeni dynion,
Tân all loſgi daiarolion;
Ni all Tân na'r holl greaduriaid,
Ond gwaed Jeſu buro'r Enaid.
Tân all buro'r aur ar ſorod,
Tân all loſci'r ûs a'r callod,
Ni all Tân na dim er hynny,
Buro'r enaid ond gwaed Jeſu.
Y dyn nad elo i Baradwys,
Lle mae Jeſu Griſt an prynwys,
Nid oes lun nad el nad drottian,
I bwll uffern lle mae Satan.
Y dyn nad elo megis *Lazar*,
I glyd fonwos *Abraham* hawddgar,
Nid oes lun nad el i'r ffwrnes,
Lle mae'r Diawl yn poeni *Difes*.
Nid yw Purdan yn y nefoedd,
Yn y ddaiar yn y moroedd,
*Nag* yn uffern ble gan hynny,
Y mae Purdan yn cartrefu?
Rhai a ddwedant fod y pur-dan,
Yn y mor ſy'n fawr ei dwrddan,
Rhai'n yn y ddaiar, rhai yn Etna,
Ni'wn p'un o'r rhain a greda.
Rhai a ddwedant mae Angelion,
Rhai mae hên gythreuliaid duon,
Sy'n ‡ tormentio'r ſawl ſy'm-mhurdan;
Rhai ni wyddant beth y ddwedan.
Rhai ſy'n tybied mae tan ffyrnig,
Rhai mae tân a dwr berwedig,
Sy'n poenydio'r ſawl ſy'm mhurdan,
†Does mawr gydfod ar llaſan.
Rhai ſy'n tybied mae pechode,
Crynion bychain hawdd eu madde,
Y ſy'n coſpi yn y purdan,
Rhai mae beie marwol apian.

*Act*. 4. 22.
*Mat*. 1. 21.

‡ *Mynydd mawr o ba un y mae Tan yn dro mynych yn dyſod allan.*

* *poeni*

* *Nid oes Ar eu ſwm gelwydd,*

Rhai

* Poenir.

Rhai * dormentir yn y purdan,
Hyd ddydd barn, os gwir y ddwedan,
Rhai dros filoedd o flynydde
Rhai nes offrwm dros eu eneidie.
Fe all ffeiriad ond cael offrwm,
Fe all Eſcob os rhy bardwn,
Fe all Pab os gwir y ddwedan,
Dynny fynno maes o'r purdan.

† Clown
Cyfoethog
‡ am arian
y roddo,
ffrins.

Fe gaiff y † Carl am ‡ ddryll o arian,
Ei ryddhau o boene purdan;
Ond y tlawd ſy'eb geiniog gantho,
Fe gaiff ynddi hir boenydio.
Od yw purdan yn ein puro,
Oddiwrth bechod gwedi'n nyrddo,
I ba bwrpas yr offrymmodd,
Chriſt ei werthfawr waed a'n prynodd?
Os y purdan ſy'n ein golchi,
O'n pechodau oll a'n brynti,
Pam a dywaid y Scrythyrau,
Mae gwaed Chriſt ſy'n golchi'n beiau.
Ofer oedd i fab Duw cyfion,
Golli gwerthfawr waed ei galon,
I'n glanhau oddiwrth ein brynti,
Os y purdan ſy'n ein golche.
O cai waed fy Nghriſt i'm golchi,
Om holl bechod ac a'm holl frynti,
Cloed y Pab fi ynghanol purdan,
Ni bydd arnaj byth moi ofan.
Danedd gwaedlyd y pabyddion,
Sydd yn gollwng gwaed Chriſtnogion,
Sydd yn dangos nad gwir ddefaid,
Chriſt yw'r rhain, ond rhoibus fleiddiaid,

## *Am barhad mewn Stad o Ras.*

HOll alluog ydyw Duw,
Da a dian wadal yw,
Fe ddwg i ben yr hyn * arfaethodd, *purpaſodd.
Ni chyll ef un o'r rhai ddewiſodd.
Nid yw boſſib golli un,
O'r rhai ddewiſodd Duw ei hun ;
Ni all y byd na'r cnawd na'r Cythrel,
Dynny un o ddwylo'r Bugel.
Duw ſydd ffyddlon 'rhwn a'n golchodd, *Jo.* 10. 28.
Fe gyflawna rhyn arfaethodd, 1 *Theſ.* 5. 24.
Fe geidw yn lan y corph a'r yſpryd,
Nes del Chriſt iw dwyn ir bywyd.
Fe ſcrifennodd Duw cyn cynſyd,
Enwau ei Sainct, yn Rhol y bywyd ;
Ni all holl gyfrwyſdra Satan ; *Dat.* 20. 12.
Geafu un o'u henwau allan.
Y rhai ddetholodd Duw cyn byd *Rhuf.* 8. 30.
Rheini e lw Duw'n ei bryd ;
Rheini oll a wir ſancteiddia, 2 *Tim.* 2. 19.
Ac yn y nef fe'i gogonedda.
Duw medd Paul a oſſododd,
Siccr ſail ir rhai ddewiſodd, *Luc.* 12. 32.
Fe wyr pwy yw'r rhai ddetholodd, *Mat.* 25. 34
Fi chyll ef un o'r rhai ddewiſſodd. *Jer.* 32. 40.
O braidd bychain paid ac ofni,
Yr hael Dduw rodd deyrnas itti,
Er mwyn Chriſt er cyn dechreuad,
Ni all neb ei dwyn oddiarnad.
Duw addawodd roddi ei ofan,
Ynghalon pawb o'i ddewis Gorlan ;
Ac na chant hwy lwyr ymado,
Na throi byth yn † gwyr oddiwrtho, † *Gwbl.*

Mae'n Tâd nefol wedi ſelu,
*Cor. 21. 2:* Rhai ddetholodd e ynghriſt Jeſu,
* *Wyſtl.* A rhoi'r yſpryd glan yn * erneſt,
*Jo. 10. 28.* I bob un i cadw'n oneſt.
Mae Mab Duw yn rhoi danwarant
Dragywyddol fywyd ir rhai gredant
Byth ni chollir un o honynt,
Y mae Chriſt a'i yſpryd ganthynt.
Mae Duw'n cadw trwy fawr allu;
*Jo. 5. 12.* Ei blant ei hun rhag ffiedd beohu,
*1 Pet. 1. 5.* A thrwy ffydd yn rhoi yn helaeth,
*Jud. 24.* Nef i'r rhain ac Jechydwriaeth.
*Phil. 1. 6.* Duw a geidw ei blant rhag cwympo,
Duw au cynal rhag tramgwyddo:
Duw au ceidw yn ddiſeius,
Hyd ddydd barn yn dra gofalus.
*Mal. 3. 6.* Nid cadwedig ydyw *Jaco*,
Ac na newid byth o hono,
Ond cadwedig er hyn yw,
Am na newid byth ei Dduw.
† *Jechydwr-iaith,* *Nid* yw ſiccrwydd † Jechyd dyn
Yn ſefyll ar ei law ei hun,
*Heb. 10. 15* Ond ar bromais Duw ai ammod,
*hyd y 24.* Yn ei fab am faddeu pechod.
*Matt. 26.* Er ei Beder wadu ei feiſtir,
*Pſal. 51.* Er i Ddafydd gwympo'n fudur,
*Pſal. 37. 24.* Yſpryd Duw a wnaeth ir ddau-ddyn,
Edifarhau a gwellhau gwedyn.
Er bod meibion Duw yn cwympo,
Ac yn pechu wrth ei temptio,
Ni chwymp un or rhain mor ddifaith,
Ac na allont godi eilwaith.
Er i dafod Peder wadu,
Chriſt rhag efan e' garcharu,
Roedd ei galon etto'n ſiccir,
Yn gwir lynu wrth ei feiſtir.

Er ir ſaint dramgwyddo weithie,
Ac anghofio Duw ar brydie;
*Ni* all un er hyn dramgwyddo,
Fel dal allant ail * recyfrio: * *Codi*
O pecha un o'r detholedig, *drachefn.*
Mae yſpryd Duw ei gyffro'n ‡ dartig, ‡ *Daer.*
Edifarhau trwy dduwiol driſtwch; 2 *Sam.* 24.
Nes gwella'r bai ni chaiff lonyddwch. 10.
Os dewiſodd Duw di un-waith,
Byth ni wrthyd Duw di'r eilchwaith;
Os ni newid Duw mo'i gariad: *Jac.* 1. 17.
A garo dro, fei car yn waſtad. *Jo.* 13. 1.

---

## *Fe ddylei Gwraig fagu eu phlentyn* ( *ſef,* oni fydd hi gwann a chlaſycca ( *ai llaeth ei hunan.*

MAg dy blant a llaeth dy fronne,
Na fydd waeth na'r ddraig ir dreigie
Pob anifel, a phob bwyſtfil,
Berchen llaeth a fag ei eppil.
Fe wnaeth Dduw dy fronne ei fagu,
Fel y gwnaeth e'r groth i blannu;
Nid gwell y fron na rotho ſugyn,
Na chroth yr heſp na ddygodd blentyn.
Rhodd Duw laeth i'th fron trwy fendith, *Hoſ.* 9. 14.
Na chadw un i droi yn felldith;
Sara yn ddeg a phedwar ugien,
Fagodd *Iſaac* yn dra llawen;
O paratôdd Duw laeth i'th fronne, *Gen.* 21. 7.
I fagu'th blant a llaeth eu mamme,
Toſt it ddwyn oddiar dy blentyn,
Un peth y rodd naturiaeth iddyn.

Cyngor

### *Cyngor i wraig i beidio triſthau gormod ar*
### *marwolaeth plentyn.*

M*Artha*, *Martha* paid ac wylo,
Cymmer gyſſur gad dy ochneidio
Am dy blentyn bach y gymrwys,
Duw mor gynnar i Baradwys.
F' anwyl chwaer na thorr dy galon,
Yn wylo'n ol dy blentyn tirion,
Aeth gan Dduw, o boen a Blinder,
Ir nef at Chriſt, i gael eſmwythder.
Cennad Duw a ddaeth iw geiſio,
O blith y drwg lle 'roedd e'n tarrio,
I fynd ag ef i'r nefoedd ole,
At y Saint i ganu hymne.
Yr Angylion gynt a gyrchwys,
*Luc.* 16. 22. I goel *Abram* enaid *Lazrus*,
Aeth ir nefoedd yn eu breichiau,
Ag enaid bach dy blentyn dithau.
Duw a'i cippiod âr frys atto,
Cyn i * bechod caeth ei nyrddo,
Na chyfeillach ddrwg ei lygru.
Nair maleiſiwr du eiddrygu.
Nawr ni ddichon un gwrthnebwr,
Nac ofer ddyn, na maleiſiwr,
Wneuthur ſpeit na niwed iddo:
Gyda Chriſt y mae e'n tarrio.
Mae e'n gorphwys mewn eſmwythder,
Oddiwrth bob rhyw boen a blinder,
Mae ef gyda'r oen a'i gwmpni,
Yn clodfori Tad goleuni.
Cymmer gyſſur ewyn dy galon,
Goruwch pob rhyw ddaiarolion,
Gwyl y mae lle dy blentyn,
Gyda Chriſt, ni wyli ddefnyn.

* *Sef cyn i bechod gwaithredol ei nyrddo.*

G

Gwyl lle mae yr hwn a'i prynodd,
Gwedi dderbyn atto i'r neſoedd,
I blith miloedd o wyryfod,
Sydd a'u cyrph au lleſtri'n loywod. Dat. 14. 4.
Gwyl y wiſc o Syndom purwyn,
Y rodd Chriſt am dan dy blentyn,
Sy'n diſcleirio ſel yr Haul wen,
Yn y nef ynghylch dy fachgen.
Gwyl y goron o aur melyn, Datc. 7. 13.
Y ddododd Chriſt ar ben dy blentyn;
Gwyl orfoledd plant goleuni,
Wrth ei urddo a'i goroni: 2 Tim. 4. 8.
Gwyl y * Côr lle mae e'n gorphwys, * Llu o gantorion.
Gyda angelion ym Mharadwys;
Gwyl y gadair lle mae'n eiſte,
Gyda'r Saint i ganu pſalme.
Gwyl y delyn Auraidd hefyd,
y'n ei law yn canu'n hyfryd, Dat. 14. 2.
'r Tad nefawl rhwn a'i crewodd,
A'r oen ſanctaidd rhwn a'i prynodd.
Gwrando'r caniad mwy *Hoſanna*,
*aint*, *Saint*, *Saint*, ac *Haleluja*, Eſay. 6.
Mae e'n ganu i Dduw'r lluoedd, Dat. 19. 4.
n y man yr aeth i'r nefoedd.
Gwyl y ffrwythe pêr a'r Manna,
Mae dy blentyn yn ei fwytta,
Gyda'r ſaint ar ford yr Oen, Dat. 2. 17.
n ddibringder, yn ddiboen.
Gwyl y ffynnon wen fendiged,
'r Dwr bywiol lle mae'n yfed;
O'r hwn gwedi brofi unwaith,
Ni ddaw byth ddim ſyched eilchwaith.
Gwyl y dre lle mae e'n trigo,
g aur melyn gwedi phaſio,
i holl || welydd o gylch gwmpas, || Muriau.
*ein gwerthfawr*, Berl, Topas. Dat. 21.

Gwyl pwy ydyw ei gyfeillion,
Mat. 6. 20. Sef y ſaint, a'r gwir angelion,
Ar ba rai ni ddichon drygddyn,
Gwnaed a allo ddwad attyn.
Gwyl pa waith y mae e'n gwneuthur,
Datt. 4: 8, 9. 10. Cadw'r Sabbath fawr yn ddifyr,
Gyda'r Saint, heb ddim iw arfer,
*Ond* clodfori Duw bob amſer.
Datt. 21: 4. Gwyl nad oes na phoen, na thriſtwch
Nychdod newyn, na thywyllwch,
*Ond* dedwyddwch byth tra ganto,
Lle mae'th fab y nawr yn trigo.
Pam gan hynny fy chwaer dirion,
Y galaru mor hiraethlon,
Am dy blentyn o gyrhaeddodd,
Duw, o dallod atto i'r nefoedd.
Pam y hwyly weld dy Brynwr,
Yn ei dynnu o gyfyngdwr,
I eſmwythder a dedwyddwch,
† Gwg. *O* blith dynion ar eu † garrwch.
*Pan y hwyly weld Duw cyfion,*
*Yn ei alw i geiſio coron,*
Mar. 10. 14 *A gogoniant mawr di-derfyn,*
*Er nad oedd ef etto ond plentyn.*
Eſay 57. 1. Duw ſy'n tynny atto'n gynnar,
‖ Hoff. Ei rai anwyl, ‖ eu a hygar,
Rhag cael gweled dim o'r drygfyd,
Y ddaw'n immwngc ar ynfyd.
* Diſymmwth. Y mae Duw yn tynnu'n fuan,
Ei rai anwyl atto ei hunan,
* Gorthrymmu. Rhag ir anwir ei * gormeilo,
A'r drygionus ei gwradwyddo.
Lladdwyd *Abel* er gwirioned,
Gwerthwyd *Joſeph* er di ddrycced,
Taflwyd *Daniel* at y llewod,
Trwblwyd *Dafydd* a mawr drallod.

Mei

Meibion *Job* i gyd a lethwyd,
Holl blant *Rachel* hwythau laddwyd;
Crogwyd *Abſalom* wrth ei ‡ locſen,
Ni wyr Dyn beth yw dynghedfen.
Un a gwymp ar flaen y cledde,
Llall y grogir am ei ſeic,
Arall a ſawdd pan fo meddw;
Wylo ddylit weld ddiwedd hwnnw.
Toſt gweld lladd mab gwraig a bilwg,
Toſt gweld torri ei ben a'i wddwg,
Neu lwyr nychu yn y carchar,
Nid toſt marw o angeu hygar.
Pam i'r wyla gwraig gan hynny,
Weld yr Arglwydd gwynn yn tynny,
Ei blant anwyl atto'n gynnar,
Trwy ryw glefyd heffryd hygar.
O rhown ddiolch ir uchel-dad,
Am y cyfryw lan ymweliad,
Ac na wylwn dros ben meſſur
Ond ſydd raid i gynnwys nattur.
Ond rhown ddiolch i'n Tâd ſanctaidd,
Pan y tynno mor garuaidd,
Ei rai anwyl o'u mawr flinder,
Atto ei hun, i gael eſmwythder.
Duw ro cynffwrdd a diddanwch,
It fy chwaer i laeſu 'th driſtwch,
Duw'th gyſſuro am dy blantyn;
Duw ro i minne decced Terfyn.

‡ Cudyn.

1 Theſſ. 4.
13. [illegible]

*Rhybudd i ochelud gorthrymmu neb, ac i roddi yn ol yr hyn a dreiſiwyd oddiar neb.*

ENnill canpunt, colli'r ‖ credyd,
Ennill bawach, colli bywyd;
Ennill cyfoeth, colli Chriſt,
Ennill trwm, ond colled triſt.

‖ Cael parch.

Mat. 16. 26.

*Gwell ceiniog fach trwy ffordd ddi gamwedd,*
*Na'r chweigien aur trwy 'drais a ffalſedd,*
Y naill a lwydda'r ffordd y cerddech,
A'r llall a ſwytty faint a feddech.

* *un mael.* Gwell * Cae o dir trwy union bryniad,
Na Gwlad o dir trwy dreiſio bagad:
*Luc.* 19. 8. Trais hel d' enaid i boenydio,
*A'th wraig yn dlawd, a'th blant ar ddidro.*

*Mat.* 5. 25. Cyttuna ar frys a'r rhai orthrymmaiſt,
Rho'n ol fol *Zache* faint y dreiſiaiſt,
Na ddos medd Chriſt i'r carchar cyſyng,
Rhaid talu'r trais hyd at y ffyrlling.

1 *Theſ.* 4. 6. Na wna gam ag un rhyw ddyn,
Gwell godde deg na gwneuthur un;
Os cam a wnai rhaid atteb drosto,
Ond godde gam, cei iawn am dano.

Beth wnai di ar geiniog drêſt y dreiſech
*Eſay.* 61. 8. Fe ſwytty hon y maent y feddech,
Ni ſyn Duw, na'i dy mo honi,
Yn ffroene Chriſt mae'r ſath yn drewi.

Os prynu tir hi bair ei worthu,
Os adail Tai hi try yn lludy,
*Amos.* 5. 11. Os rhoi hi i'th blant hi gyrr ar anffod,
Os rho ir tlawd mae Duw'n ei gwrthod.

Rho'r geiniog drais iw hunain berchen,
Cyn tynnoi i'th dy ryw farn aflawen:
Ni lwydda hon ymhlith dy weiniaid,
Mwy na'r arch ymmyſc eſtroniaid.

*Gwahoddedigaeth i bechaduriaid i dyfod i dde*
*byn y pethau da ac y mae Duw yn eu gynnig*
*yr Efengyl trwy y ddammeg o'r Swpper faw*

*Mat.* 22. 4. DEwch fonddigion, dewch gyffredin,
*Luc.* 14. 16. Dewch i Swpper mab y brenin,
Dewch, a nedwch dim i'ch rhwyſtro,
*Dewch mae Duw'n eich gwawdd chwi atto.*

M

Mae'n y Swpper ſir o'r gore,
Bwyd, i ‖ lonni eich eneidie,
Mêl, a Manna, Bara'r bywyd,
Gwin gorfoledd doniau'r yſpryd.

*‖ Llawenychu*
*Eſay. 55. 2, 3.*

Chwi gewch ynddi un mab Duw,
Yr oen yn farw, ac yn fyw,
Gwedi ladd a chwedi ‡ roſtio,
A chwedi codi o'r bêdd i'ch * ſirio.

*‡ Gwedi dioddef poethder digofaint Duw.*
** Llawenhau.*

Cewch ei werthfawr waed i'ch golchi,
Cewch ei ſanctaidd ‡ gnawd i'ch porthi,
Cewch ei wiſc yn drwſſiad i chwi,
A'i fywyd gwyn ich adgyfodi.

*‡ Yr ufydd-dod a gyflawnodd efe yn ei gnawd.*

Chwi gewch heddwch Duw ar Drindod,
Chwi gewch bardwn am bob pechod,
Chwi gewch Yſpryd y diddanwch,
Chwi gewch Griſt a phob dedwyddwch,

Dewch yn llawen, Dewch yn ſiriol,
Dewch heb aros ir wledd nefol,
Dewch yn * gyfrdo i Briodi,
Chriſt, ſy'n cynnig ei hun inni.

** Gyfon gwbl heb ragrith.*

Naded neb i ddim ei § ſtayo,
*Na'r byd, na'r cnawd, na'r fall ei rwyſtro,*
Na'r Fferom fawr, na'r pum Jau ychen,
Na'r wraig newydd, na dim amgen.

*§ Cadwyno.*
*Luc. 14. 18, 19.*

Ond ewch chwi'n hy, yn hoyw,
I'r briodas wrth eich galw;
Gwr y ty ſy'n tyngu'n † ſcelor,
Na chewch * daſtio byth o'i ſwpper.

*Luc. 14. 24.*
*† oddifrif.*
** Broſi.*

Dewch gan hynny iddi'n addas,
Yng wiſc ſanctaidd y briodas,
Na ddewch iddi byth heb honno,
Rhag cael rhwym ich traed a'ch dwylo.

Gwynn a chôch yw'r wiſc o râs,
Gwynn tu ſewn, a chôch tu ‖ ſas;
Gwynn yn goſyn buchedd ſanctaidd,
Côch yn dangos ffydd griſtnogaidd.

*Mat. 24. 13.*
*‖ allan.*

Trwſſied pob rhai eu heneidie,
Mewn hardd wiſcoedd o rinwedde,
A ſo gweddus a chyſaddas,
‡ *Lawenychu* I ‡ ſirioli'r gwir Meſſias.
Os dewch ir wledd i'ch priodi,
Mewn diſeirwch, ffydd a gweddi,
Chwi gewch gan Ghriſt fod yn waſtod,
*Hoſ.* 2. 19. I chwi'n geidwad ac yn Briod.

*Pſalm*, 100.

DEwch holl Dylwythe'r ddaiar,
Dewch bawb a llawen lafar,
Cenwch glod a chalon rwydd,
I Dduw ein Harglwydd hawddgar.
Dewch fawr a bach drachefen,
Dewch bawb ſy'n troedo'r ddairen,
* *Llawen.* Dewch addolwch Dduw yn * llon,
Bob rhai a chalon lawen.
Gwybyddwch hyn yn ſicir,
Mae'r Arglwydd graſſol, geirwir,
Y ſydd Frenin nef a llawr,
‡ *Pennaeth.* Ac ‡ Emprwr mawr yr holl dir.
Gwybyddwch nad chwi'ch hunain,
Ach gwnaeth o'r pridd mor gywrain,
Ei waeth ef ych o'r llwch a'r llaid,
Er blant a'i ddefaid bychain.
O dewch iw byrth gan hynny,
Dan ddiolch a than ganu,
Fach a mawr ar fore a hwyr,
† *Oddifrif.* Yn † brudd iw lwyr foliannu.
O Dewch yw Demel ſanctaidd,
Yn drefnus, ac yn gruaidd,
I glodfori enw Duw,
Canys hyfryd yw a gweddaidd.
Daionus a thoſturiol,
Yw'r Arglwydd wrth ei bobol,
O oes i oes y peri Air,
Dros ſyth fe gair yn raſſol.

## *Y* BUMMED RAN O *Waith Ficcar* Llanymddyfri *ynghylch* Caerſalem *newydd.*

Y Brutaniaid o Ddeheubarth,
Ac o *Wynedd* fwyn o bob parth;
Clywch ſyfyrdod gwr o'r Eglwys,
Yn eich arwain i Beradwys.
Mae Teyrnas hardd uwchlaw'r ffurfafen,
Yn llawn o bob dedwyddwch llawen,
Wedi i Dduw o'i râs a'i fwynder,
Ei darparu ar ein meder.
Mae mab Duw yn helpwr tirion,
Wedi ei phrynu a gwaed ei galon,
I'w rhoi i ni ei frodyr truain,
Onis cyll ein gwall ein hunain.
Y mae llawer yn ei cholli,
Eiſiau gwybod dim oddiwrthi,
Ac fel Ffyliaid dwl di hyder,
Yn ei gwerthu am ddiffrwythder.
Un ai gwerthe am gael llanw,
Y Bledren front yn llawn o gwrw,
Arall ai gwerth megis filen,
Am gael gorwedd, gyda'r butten.
Adda werthe'r nef am afal,
*Cain* am ddyrnod ddig di attal,
*Eſau* am gawl, a *Hophni* am gigach,
A llawer dyn am betheu ſalwach.
Un ai chyll hi eiſieu gwrando,
Y fengyl ſanctaidd a'i phracteiſio,
Arall eiſie arfer gweddi,
O ddim dawrydd yn ei cholli.
Ni wyr un o'r ain y ſywaeth,
Eiſiau crefydd a gwybodaeth;
Faint yw'r deyrnas ynt hwy'n colli,
Heb ymorol dim am deni.

Mi ddangoſaf iwch yn eglur,
Beth o hanes hon or Scrythur,
I edrych a ſyn Duw o'i wiwras,
I chwi bawb chwenychu'r deyrnas.
Mae hi mor hardd mor wych mor uchel
Ac na ddichon dyn nag Angel,
Ddatcan degwm y chialtwch,
Na'i gogoniant, na'i dedwyddwch.
*Mae hi gan mil mwy na'r mor, na'r ddairen,*
*Mae hi nôs a dydd mor ole a'r haulwen* ;
Mae hi aia a haf heb rew, heb eira,
Heb wynt, heb law, ond hin o'r decca.
Mae'n blodeuo'n braf bob amſer,
Mae'n ddilwgwr, mae yn ddibryder,
Mae'n anfarwol, mae'n ddiſigyl,
Mae'n dragwyddol medd y fengyl.
Ni bydd newyn ni bydd ſyched,
Ni bydd triſtwch poen na lludded,
Ni bydd gwendid na gofidi,
Byth ar un ſy'n aros ynddi.
Nid yw'r nefoedd uwch ein penne,
Lle mae'r ſêr a'r holl blaenede ;
Er hawddgared yw'n diſgleirio,
Ond fel llawr or deyrnas honno:
Nid oes dim yn eiſiau ynddi,
Ac all calon dyn ei hoffi ;
Nid oes ynddi ddim yn tyfu,
Ac all calon dyn i wrthnebu.
Y Deyrnas hon y wnaeth *Jehofa*:
A'i ſys ei hun yn Llys or wcha ;
Iw haddoli gan Angylion,
A'i Glodfori gan Griſtnogion.
Ynghanol hyn o deyrnas dwymglyd,
Y mae Dinas hardd wych hyfryd,
*Yr* hon medd *Ifan* y gweledydd,
A elwir Tre *Gaerſalem* newydd.

Gwelydd hon i gyd o gwmpas,
Sydd wedi eu gweithio i gyda Thopas,
Beril, Jaſpis, Amethyſtys,
Saphyr hardd, a gloyw Sardys;
Pedwar ochrog fel y dis,
Yw'r deyrnas hardd-wych hon fewis:
Ei lled, a'i hyd, a'i hwychder hirdded,
Sydd gogyd, goguwch a gogyfled.
Deuddeg porth o berls ſydd arni,
I ollwng pobl Dduw ddwad iddi;
A deuddeg angel ſydd yn gwilio,
Rhag i ddim aflan ddwad yno.
Mae ei heolydd wedi eu paſio,
Ag aur melyn yn diſgleirio;
Fel y gwydr harddwych rhial,
Yn tywynu fel y criſtial.
Afon loyw fel yr arian,
Yn tarddu o orſedd Duw ei hunan,
Sy'n dyfrhau pob heol ynddi,
Dyfr ſy well nag acwafitti.
Pren y bywyd ſy'mhob heol,
Yn tyfu oddeuty'r afon ſywiol;
Yn ddwyn deuddeg rhyw o Ffrwythe,
I ddiwallu'r holl Eneidie.
Ni ddaw newyn, ni ddaw clefyd,
I'r rhai ſwytto pren y bywyd,
Ni ddaw ſyched na thrallodion,
Fyth i neb y yfo o'r afon.
Nid-oes neb yn trigo ynddi,
Ond angylion y goleuni,
Ar rhai duwiol Etholedig,
Y wir brynodd Chriſt yn unig.
Ni chaiff mwrddrwr na gwr meddw,
Na'r neb y ſy'n addoli delw,
*Na* Phutteinwr na dyn aflan,
Drigo yn *Ninas* Duw ei hunan.

*Nid* oes ynddi ddim tywyllwch,
*Nag* anwiredd na thrafferthwch,
Ond goleuni yn waſtadol,
*Nos* a Dydd yn dragywyddol.
*Nid* rhoid i'r dre hon un amſer.
Oleu'r haul na'r lloer na'r lanter,
Criſt yr oen a'r ſanctaidd Drindod,
Sy'n oleuni ynddi'n waſtod.
*Nid* oes un dyn ynddi'n trigo,
*Na* bo ei wyneb yn diſgleirio,
Fel yr heul-wen yn yr awyr,
Ar ddiwrnod hafedd eglur.
*Nid* oes ynddi bris am dryſawr,
Aur a pherls a meini gwerthfawr,
Aur ſy'n paſio'r holl heolydd,
*Meini gwer-thfawr.* * *Precious Stones* ſy'n bildio'r gwelydd.
Yngalon y Dre reial yma,
Y mae gorſedd y gorucha,
Wedi goſod ar yſgwydde,
Hardd Angelion eglur Throne.
Canopi fel bwa'r Drindod,
Hardd wych eglur o liw'r Emrod,
Sydd uwch ben yr orſedd hyfryd;
Lle mae'r Tâd ar Mab a'r Yſpryd.
Saith o lampau gwynion gole;
Yn arwyddoccau yſprydol ddonie,
Sydd yn lloſgi yn eglur ryfedd,
Bob rhyw awr o flaen ei orſedd.
O ddeuttu'r orſedd mae Cherubiaid,
Chwech adeiniog yn llawn llygaid,
Ddydd a nos yn rhoddi mawrglod,
Ynddi orffwys ir hael Drindod.
Gyda'r rhain y mae Seraphiaid,
Grymmus graſol tanllyd embaid,
Yn cyd ganu Sant, Sant, ganwaith,
I Dduw'r lluoedd yn dra pherffaith.

Yn neſſa at hynny mae henuriaid,
Gwynion reial mewn Côr euraid,
A'i Coronau yn eu dwylo,
Yn ymoſtwng i ſendithio.
Mae pob un a'i goron weddus,
Ar ei ben fel brenin grymmus,
Mae pob un ai wiſg wen gantho,
Fel offeiriaid yn bendithio.
Mae pob un ai goron euraid,
Yn canu mawl ir Oen bendigaid,
Mae pob un ai feiol gantho,
Yn arogl darthu diolch iddo.
Y maent hwy bob rhai yn eu gradde,
Yn canu'r Arglwydd Pſalms a hymne,
Ac yn rhoddi i'r Oen ganmoliaeth,
Am ei nerthol Jechydwriaeth.
Yr Angelion ſydd yn gynta,
Yn canu' i'r Arglwyd Halelujah,
A'r Saint hwynte yn eu hatteb,
O'u Cadeiriau mewn cyd undeb.
Nid oes yno Sant nac Angel,
Na bo'n canu Pſalms yn uchel,
Nid oes yno un yn ſegur,
Na bo'n canu mawl yn ddiſyr,
Yr un ganiad y ſydd ganthyn,
Trwy gyttundeb gyda'r delyn;
Yr un Tafod ar un genau,
Yn clodfori Duw yn ddiau.
Maent hwy yn canu Halelujah,
Yn dra hyfryd i'r goruchaf;
Ac yn rhoddi clôd a gallu,
I'r oen ſanctaidd am eu prynu:
Maent hwy yn canmol mawr drugaredd
Duw ſy'n eiſtedd ar yr, orſedd;
Ac yn moli'r oen bendiged,
Am eu prynu o'r caethiwed.

Mae mor hyfryd ac mor weddaidd,
Gant yn moli'r Drindod ſanctaidd,
Ac na allant ſyth ddeffygio;
Ond rhoi clôd a moliant iddo.
Maent yn gweled bawb yn gyngan,
Wyneb graſol Duw ei hunan,
Yn ei wyneb mae'n dragywydd,
Ddigonolrwydd o lawenydd.
Ynghylch yr Henuriaid gwynion,
Mae mîl miloedd o Angelion,
O bob naſiwn i addoli,
Duw mewn nymber heb riſedi.
*Y* mae wyneb *Duw* cyn decced,
Gan ei ſaint ſydd yn ei weled;
Ac na allont chwenych mwyach,
Edrych ſyth ar ddim amgenach.
Maent hwy'n ſefyll yn ddiogel,
O flaen *Duw* tu fewn i'r demel;
Ni all Sattan nag un golyn,
Wneuthur mwyach niwed iddyn.
Nid oes Empriwr dan y neſoedd,
*Yn* cadw llys fel *Duw* y lluoedd,
Lle mae'r gwaetha ſy'n ei ddilyn,
*Yn* benadur ac yn Frenin.
Maent hwy eu gyd yn Foneddigion,
O'r gwaed reiol un ar goron;
Maent hwy eu gyd yn blant i'r brenin,
Ac fel prinſis yn ei ddilyn.
Maent hwy yn frodyr i'r *Meſſias*,
Cyd difeddion o'r un deyrnas;
Maent hwy yn * ffelos i'r angelion,
Maent hwy eu gyd yn dywyſogion.
Nid oes un o'r rhai'n yn cyſgu,
*Dydd* na nos ond golchi canu;
*Nid* oes un ac all ddiffygio,
Mae mor ddifyr iddo yno.

* *Gyfeillion.*

M

Mae pob un a'i goron harddwych,
Ar ei ben ſel brenin dewrwych;
Mewn gogoniant yn teyrnaſu,
Gyda'n prynwr mawr Chriſt Jeſu.
Mae pob un a'i wiſg wenn ganaid,
Yn ei gylch mewn gorſedd euraid,
Megis 'ffeiriad yn aberthu,
Yn rhoi clôd a mawl i'r Jeſu.
Mae pob un a'i balmwydd ganto,
Fel Congcwerwyr yn treiwmpho,
Ar y byd a'r cnawd a'r cythrel,
Wedi ffwylo 'rhain mewn rhyfel,
Ni bu Selyf ai hyfrydwch,
Ni bu rhos a'i holl rhialtwch;
Mor drwſſiadus yn ei wiſgoedd,
Ac yw'r gwaetha ſy'n y nefoedd.
Maent hwy yn deccach yn eu hwyneb,
Nag oedd Abſolon deg dihareb
Yn diſgleirio'n ogoneddus,
Ar lûn corph ein prynwr grymus.
*Maent hwy yn gryfach nag oedd* Sampſon,
Maent hwy yn deccach nac *Abſalon*,
Mae pob un yn hardd fel Angel,
Ac ar draed yn gynt na *Haſel*.
*Maent hwy yn byw mewn mawr ddedwy-*
Gwir lawenydd a rhialtwch, *(ddwch*,
Hwnnw yn parhau yn dragywydd,
Heb na phoen na thrangc na chyſtudd.
Eu gwaith hwy gyd o fach i fwya,
Yw canu i'r Arglwydd *Halelujah*,
A rhoi moliant clôd a gallu,
I'r oen a laddwyd am ein prynu.
Bwyd pob rhai yw Manna hyfryd,
O hoff ffrwythe pren y bywyd;
O'r hwn ffrwyth pan fwyttaer unwaith,
Ni newynir byth yr eilwaith.

Eu diod oll yw dyfr y bywyd,
O afon Duw o'r ffynnon hyfryd;
*Yr* hon ſy'n tarddu'n grychias allan,
O dan orſedd Duw ei hunan.
*Y* difyrrwch ydyw rhodio,
Gyda'r oen ble bynna'r elo,
I Llân Ffynnon dyfr y bywyd,
I glodfori ei enw hyfryd,
Gwedyn pan y delont adre,
Mae gwledd rhial ar y byrdde;
Wedi ei goſod i groeſawi,
‡ *Daith.* Yr oen o'i ‡ brogras ai gwmpeini:
Ni bu wlêdd Ahaſuerus.
A'i Rialtwch mawr y barws,
Ddim cyffelyb i'r wlêdd yma,
Swpper mab y Brenin mwya.
Ni chlywodd clust ni welodd Llygad,
Ni ddychmygwyd o'r dechreuad,
Faint o foethe ſy'n y ſwpper,
Wedi trwſſio ar eu meder.
Nid oes ynddi neb yn bwytta,
Un rhy ymborth waeth na Manna,
Nag yn yfed ynddi hefyd,
Ddiod waeth na dyfr y bywyd.
Duw ei hun ſy'n coſtio'r Swpper,
Mab y Brenin ydyw'r ſewer;
Awdurdodau yw'r contrylwyr,
Arch angelion yw'r gwaſnaethwyr.
*Y* Cherubiaid ſydd yn canu,
Ar y delyn i ddifyrru,
Ar Seraphiaid gyda hwythe,
*Yn* canu ar dafod ac ar danne.
*Y* Caniade yw *Hoſanna*,
Sant, ſant ſant ag *Hallelujah*,
Diolch gallu mawl a mawr-glod,
*Y* fo fyth i'r ſanctaidd Drindod.

Mae pob ûn yn cael ei ddigon,
O bob peth wrth fodd ei galon,
Mae pob ſens yn cael ei porthi,
Ar y peth ſy'n perthyn iddi.
Y mae'r llygaid yn gweld digon,
O rialtwch rhwng angelion,
Y mae'r cluſtie yn clywed hwythe,
Ei gwir wala o bêr leiſie.
Y mae'r gene'n cael ei borthi,
Bob Dydd a manna ac acwaſeiti,
Y mae'r Tafod yn cael canu,
Ddydd a nos i'r Prynwr Jeſu.
Y mae'r cyrph yn hedeg hwythe,
Mor ddirwyſtr a'r Eneidie;
Y mae'r pen ar traed a'r cwbwl;
Cyn ebrwydded ac yw'r meddwl.
Nid oes aelod mewn un Chriſtion,
Fu'n gwaſnaethu Duw yn ffyddlon,
Na ſynu Duw ei ogoneddu,
*Ymharadwys* am ei waſnaethu.
Mae'r holl gorph pen ddelo yno,
Fel yr haul wen yn diſgleirio,
O diſgleiria'r corph mor gannaid,
Pa wedd i'r hardd diſgleiria'r Enaid.

Diwedd y Bummed Rann.

## *Y Chweched Rann.*
## *Ynghylch Pwyll at Amynedd.*

PWyll mewn dyn yw mantol Enaid;
I gadw'r meddwl ſydd angenrhaid,
Mae naill ai'n gywir union helaeth,
Neu ynteu prwfio'n ſiomedigaeth.
Dwl Naturiaeth Dynion trymllyd,
Sy weithie'n paſio am bwyll tros enyd;
Er bod arnynt eiſiau donieu,
A llawer iawn o'i gwir Gynneddfeu:
Fe ddyleu y rheiny gau'n Ciſteu,
Nid rhag dwyn eu Tryſſor goreu,
Ond rhag i eraill ddigwydd canfod,
Byth mor weigion yw eu gwaelod.
Nid rhaid canmoliaeth i'r Enuchied,
Am fod yn ddiwair ym myſg Merched;
Pan nad ydyw'n eu gallu,
Ddim angenach i'r rhai hynny.
Mae rhai'n cymryd arnynt arſer,
Fod yn bwyllig iawn bob amſer ;
Gan droi'n llygaid au hwynebpryd,
A lluſgo'u Geirieu or un ffunyd.
Eu Hymmadrodd a ddaw allan,
Bob yn ddefnyn deigryn bychan:
Ond os digwydd iddynt ddigio,
Chwi gewch Araith waeth na honno.
'Roedd un a gyfenwyd pwyllog,
O ran ei ffurf a'i ddull ragrithiog,
Ond ar ol chwareu rhwy brangc diofal,
Fe alwyd pwyllog yn anwadal.
Y Gwir Bwyll a 'mddengs allan
*Yn* ei ddull ai ſut ei hunan,
*Yn* ei fuchedd ai 'marweddiad,
*Yn* ei ymadrodd yn ei wiſgiad.

Fe a fernir Natur dynion.
Mewn llawer iawn o ffyrdd a Moddion,
Yn troieddu'n erbyn pwylledd,
Ac heb fod felly mewn gwirionedd.
Yn rhai mae rhyw yſpryd bywiol,
Au holl hynt fel Gyrſa ledffol,
Ac eraill o ymddygiad uchel,
Balch yr olwg yn eu hoedel.
Eraill ſydd yn bur dueddol,
Llawenydd yn waſtadol;
A nato Duw fod pawb o'r rheini,
Yn ddrygionus oll iw cyfri.
Pa nerth a grym all wrthladd natur,
Peth rhy anhawdd iw o'i yſtyr,
Porſiwn rhai yn y byd preſennol,
Au cynffwrdd hefyd yn feddianol.
Nid oes nemor awr nag ennyd,
Na bo rhai yn camgymmeryd,
Ymddygiad graſol ymyſg dynion,
Weithiau 'fernir yn Anghyſion.
Ped fae *Daſydd* nawr yn dawnſian,
O flaen Arch un Duw ei hunan,
Pawb ai barnau ef yn ynfyd,
Heb ddim pwyll na ſynwyr hefyd. 2 *Sam.* 6. 16.
Pa gwnae *Elias* ei weddiau,
Ai ben rhwng ei Draed ai liniau,
Dwedai pawb na bo ond ei grybwyll 1 *Bren.* 18. 42.
Wele! ddyn mewn Yſpryd ammhwyll.
Pe gwelit *Pedr* yn rhedegan,
c *Joan* at y Bedd yn fuan, *Joan.* 20. 14.
Rhodia 'n troi'n ôl heb agor,
r frys yn gado'r drws ar gyner. *Act.* 12. 14.
Y ſawl a graffo'r achoſion,
u fewn tu faes oedd ar y Dynion,
w cynnhyrfu ac i frysio,
hyw fel wreſog oedd iw pigo.

Mae

Mae danghoſiad eglur ddigon,
Fod y rheiny ol yn gyſion,
Ac yn bwyllog yn eu buchedd,
Gwir Dduwioldeb ac Amynedd.
Duw yw rhoddwr yſpryd Pwyllog,
Amyneddgar a lluoſog,
Efe yw Awdwr pob Rhinweddau,
A Thâd anwyl Trugareddau.

---

### *Am Weddi.*

PAn yr elech i weddio,
Edifara am aeth heibio;
A llwyr ymolch o'th holl frynti,
Os dymynu wrando 'th weddi.
*Joan.* 9: 31. Duw ni wrendy bechaduriaid,
A fo'n byw mewn pechod diriaid;
F'orfydd 'madel a drygioni,
Cyn gwrandawo Duw dy weddi.
Os mewn malis, rhyfyg, mwrddro,
Llîd, a thrais, y doi weddio,
I dy Dduw ar ben dy linio,
*Eſay.* 1. 15. Duw a'th wrthyd a'th weddio.
Melldith *Moab* ſydd yn cwympo,
Ar yr anwir wrth weddio;
‡ *Deiſyfiad.* Ceiſio maent heb gael eu ‡ Canlyn,
Am fod dwylo rhain yn ſcymmyn.
Y nêb a alwo ar yr Arglwydd,
*Tim.* 2. 8. Ymadawed a'i halogrwydd,
Ac ymolched ei ddwy ddwylo,
Oddiwrth waed o cais ei wrando.
Tirion yw Duw a thoſturiol,
*Joel.* 2. 12, Ir rhai a ſydd edifeiriol;
13. Edifara am dy frynti,
Ac fe wrendy Duw dy weddi.

Os diſaru am y cwbwl,
Pys fae 'th fai mor goch a'r pwrpwl, *Eſay.* 1. 18.
Chriſt a'th olch mor wyn a'r lili,
Ac a wrendy'n rhwydd dy weddi.
Pan y delech i weddio, 1 *Jo.* 1. 22.
Tro bob meddwl ofer heibio:
A rhwym gartre dy ſydolrwydd, *Jer.* 4. 14.
Trech yn * parlo ti a'th Arglwydd.
Brwnt yw gweled pacc a ffardel, * *Yn lleſaru.*
Ar dy gefn yn y Demel:
Brwntach yw gweld dy ſydolrwydd,
Pan gweddiech ar yr Arglwydd.
Pan gweddiech galw yn gymnwys,
Ar Dduw dros bob ſtâd o'r eglwys,
Ac nag arfer megis Pagan,
Weddi 'n unig it dy hunan.
Galw'n gynta dros frenhinoedd, 1 *Tim.* 2. 1.
Am gael gras i drîn eu pobloedd, 2.
Mewn gwir grefydd, a llonyddwch, *Eph.* 6. 19.
Hedd, uniondeb, a dedwyddwch.
Gwedyn galw dros Eglwyſwyr,
Am gael gras i draethu'n eglur,
Holl ddirgelwch yr Efengyl,
A phregethu'r gwir yn rhigyl.
A gweddia dros Swyddogion,
Ar i Dduw roi grym a chalon,
Iddynt goſpi pob rhyw droſedd,
A * maintainio ffydd a rhinwedd. * *Cynnal.*
Cais gan Dduw ſendithio hefyd,
Pob ſcolheigion o gelfyddyd,
Fel y gallont lanw'r gwledydd,
A goleuni, moes, a chrefydd.
Nac anghofia o'r cyffredyn,
Ond gweddia hefyd droſtyn,
Fel y gallont ſyw'n ei galwad,
Mewn ufydd-dod, hedd, a chariad.

A gweddia dros drueuniaid,
Sydd mewn trallod, cyſtudd embaid,
Ar i Dduw doſturio wrthynt,
A rhoi help, a chymffordd iddynt.

---

*Cynghor i'r Llyfyr, o waith y Sawl a'i dânfonodd ef gynt ir wlâd.*

DOS o Lyfyr bach i *Gymru*,
I ddatcuddio ac i ddyſcu,
Y ffordd union i Baradwys,
Ag ſy'n mynd at Dduw yn gymmwys.
  Er bod yno rai'n ei gwybod,
** Sef yn y ffordd ir nefoedd.* Ac yn rhodio * ynddi'n waſtod,
Etto mae ‡ 'no rai er hynny,
Na cherddaſant droedfedd ynddi.
*‡ Yno.* Mae 'no rai nad yw yn nabod,
Y gwir Dduw, nac ei lân hanfod,
Ei fâb Chriſt na'i yſpryd ſanctaidd,
*† Ac sydd fodd i wneuthar Duw'n gydnabyddus* Trwy ddibriſſio ei † eiriau puraidd.
  Mae 'no rai ſydd anghnabyddus,
O'u drwg ffyrdd, a'u ſtâd anhappus,
Trwy ddirmygu a dibriſſio,
'R moddion ſydd iw cyfarwyddo.
*Mat.* 7. 13. Mae 'no lawer yn annuwiol,
Yn tramwyo 'r ffordd uffernol;
Rhai ni thront ir ffordd fendiged,
Gan fyw'n ffrom-ffol, a phencaled.
*Joan.* 17. 3. Rhaid yw nabod Tâd goleuni,
A'r mâb rhâd ein Harglwydd Jeſu:
*Heb.* 12. 14. Credu ynddo, a byw'n raſſol,
Cyn yr aer ir deyrnas nefol.
  Dos gan hynny a goleua,
*‖ Yng-Hymru.* Y rhai tywyll ſydd ‖ yng *Hambria*,
A chyfeiria eu traed yn gymmwys,
Ir Ffordd union i Baradwys.

Canwy

*Canwyl Cymru* mae d' hen feiſtyr,
Yn dy alw mewn rhyw lyfyr;
Gwna dy ſwydd ar frys gan hynny,
Trwy oleuo 'r dall yng *Hymru.*
Llawer plwyf, och Dduw! ſydd yno,
Mewn mawr *ddiffyg* o'u cyfrwyddo,
Trwy dallineb, neu 'ſceuluſdra,
Rhai o'r *ffeiriaid* llawn * cybydd-dra.
Cans mae rhai o'r ‡ prif *offeiriaid*,
Yno 'n ddiofal am eu defaid,
Ac yn gadel idd eu dyſcu,
Rai na ſedrant wneuthur hynny.
Toſt yw gweled fâth Guwradiaid,
Sydd olygwyr ar y * defaid,
Dan Berſoniaid mawr cyfoethog,
A Ficceriaid uchel, enwog.
Deillion, meddwon, a gwatwarwyr,
Rhai heb nabod Duw na'r Scrythyr,
(Heb * ddim malis rwi'n ei ddweid-e)
Sydd fugeiliaid mewn rhyw fanne.
Nid am y Conſformiaid graſſol,
Rwy fi 'n dwedyd hyn yn hollol,
Nid am *Jerem*, nid am *Eli*,
Ond am *Phinees*, ai frawd *Hophni*.
Nid wi'n ‡ dwedyd ond y ddwedodd,
Yr Hen *Ficcer* pan lefárodd,
Gan roi allan a chyhoeddi,
Hyn o Bennill yn *Llanedi*.
Dodi'r Dall ar Ben Diſgwylfa,
Dodi'r Dwl i ddyſcu Tyrfa,
Dodi'r Diddyſg wrth y Llyw,
Yw Dodiad Dyn, nid Dodiad Duw.
Dós gan hynny, Bryſſia i *Gymru*,
A chyflawna'r diffyg dyſcu,
Y ſydd yno mewn rhyw fanne;
Ac nac ofna Ddyn yn un-lle.

* *Nid ydys yn dywedyd fod pawb felly*
‡ *Pennaf.*

* *Mewn byw leoedd.*

**Y mae Duw yn dyſt fy mod i yn di-wedyd hyn heb falis.*
*1 Sam. 2. 17.*
‡ *Mae'r Ficcer yn dywedyd llawer mwy yn ei gân am dayledſwyddau Gweinidogion.*

Gwêl

Gwir *Gonfformiſt* oedd dy feiſtir,
Ac am hynny ni'th ſcymmynir;
Ni throer arnat ti yn haerllie,
Waith dy dacclu gan † ffanatic.

*† Fe ddatcuddia Duw ryw ddydd pwy ſydd felly, Barned pobl a ſynnont*

Rwyt ti'n trio ſynu'r Gwylie,
Rwyt ti'n dala ffurf weddie,
Rwyt ti'n gwawdd rhai ir Eglwyſydd,
Rwyt ti'n ‡ llwo Tadau bedydd.

*‡ Yn ymſodloni â.*

Temlau, a Thai Dduw yw'r llannoedd
*Medd d' hên feiſtyr mewn rhyw leoedd*,
Ynnot ti; pa ham gan hynny,
M' arnat ofn fynd i *Gymru*.

Mae d' ail feiſtyr ynte'n dala,
Holl athrawiaeth y gymmanfa,
O Eglwys *Loeger*, gan ei thraethu,
Ym-mhob * tyrſa y dêl iddi.

** O'i wrandawyr.*

Mae e'n traethu ei hathrawiaeth,
Er na ‡ leica mo'i dyſcyblaeth;
Ond nid yw'n * cyhoeddi hynny,
Ble mae'n arfer o bregethu.

*‡ Er nadydyw ſodlon iw dyſcyblaeth*

** Sef, ei anfodlonrwydd ir dyſcyblaeth.*

Ymwrola, dos yn ebrwydd,
Na phrydera y cei aflwydd,
Am dy fod yn dwad o ddwylo,
Un nad ydyw yn confformo.

Canys mae llawer o'r confformiaid,
Graſſol, Sanctaidd hwyntau'n tybiaid,
Fel mae eraill, fod d' ail feiſtyr,
Yn ceiſio llwyddiant eu gyd wladwyr.

Di † geſt reſſo gynt yng *Hymru*,
Ac na ‡ thebyg nas cei hynny,
Etto, gan bob * ſort o bobol,
Oni fyddant balch, neu ffrom ffol.

*† Gefaiſt.*
*‡ Feddylie.*
** Math.*

Hwy ddioddefant dy geryddon,
Hwy a hoffant dy gynghorion,
Hwy'th ddarllenant yn awyddus?
Canys trwyddot rwy ti'n felus.

E

Er y byddi yn fwy coſt-fawr,
Nag y buoſt, ni bydd nemmawr,
O Deuluoedd yr holl *Gymru*,
Nas derbynnant di er hynny.
Ni bydd ffeiriad, ni bydd Meiſtir,
Ni bydd plantach na gwaſnaethwyr,
Na bugelydd ar fynydde,
Nas greſſawant ti yn * ddie.
Fe ddioddefir i ti ddwedyd,
Pethau nis baidd eraill ‡ 'nghanyd;
Ac pe 'nghanent mewn rhyw ſanne,
Hwy gaent gerrig am ei penne.
F' all y gwann gael ynot gyſſur,
Ac ychwaneg gras mewn meſſur,
I waſnaethu Duw yn dditrad,
Bob un yn ei † briod alwad.
Os Dyn graſſol ſydd ith ddarllen,
Os rhagorol fydd dy berchen,
Mewn pob dawn a gras yſprydol,
Trwy 'th gyfeillach f' a'n fwy duwiol.
Ac os drwg-ddyn fydd ddarllenwr,
Meddwyn, marllyd, neu watwarwr,
Er ei * bleſſer fe 'th fawrha di,
Dal e'n gyfrwys os y gelli.
Gwna 'ddo alw ar Dduw ac adde,
Ei ddrwg gyflwr, a'i bechode,
Credu yng-Hriſt, ac edifaru;
Nid twyll tynnu Dyn at Jeſu.
Cadw'th fach yn afel ynddo,
Nad e fyned a thramwyo,
At ei hên gyfeillion ofer.
I fyw 'n atcas yn ddibryder.
Ond ymhwedd arno gofio,
Mai gwell ofni Duw na'i ddigio;
Cans fe geidw 'rhai a'i hofnant.
Ac fe ddamna 'rhai 'dirmyant.

* *Sicer*,

‡ *Dywedyd*.

† *Yn y galwad ſy'n perthynnu iddo ei hun*.

* *Digrifwch*

*Dih*. 4. 14. *hyd yr* 20. *Pſ*. 103. 17. 1 *Sam*. 2. 30.

Do

Dos gan hynny fe'th dderbynnir,
** Pob mâth o bobl.* Gan bob * ſort, ac feth gymmerir,
I bob dwylo yn dra hyfryd,
Fe'th fawrhaer di'n anwyl hefyd.
Ac tra 'ng *Hymru* ddim criſtnogaeth,
Fe gymmerir dy gwmpniaeth,
*† Angenrheidrwydd.* Fe'th ddarllenir, ac fe gyfyd,
Rhai a'th brintiant pan fo † anghenyd.
*‖ Yn y ſâth.* Gan dy fod mewn ‖ ſhwt gymmeriad,
Bydd yn fwyn, a dangos gariad,
Yn ddiragrith ym mhob teulu,
A Dod allan dy oleuni.
*Rhuf.* 6. 23. Gwna hwy wybod a chyffeſſu,
*Deut.* 28. 15 Fob pob pechod brwnt yn haeddu,
*Datc.* 21. 8. Melldith Duw, a'r Tan Uffernol,
Ym myſc Diawlaid yn dragywyddol.
*Jo.* 14. 6. Ac nad oes un ffordd i gadw,
*Act.* 4. 12. Un rhyw ddyn rhag mynd i ddeſtryw,
Ond yn unig trwy Ghriſt Jeſu,
Ddaeth o'r nef ir ddaer i'n prynu,
*Jo.* 3. 36. Ac na cheidw Chriſt un Chriſtion,
*Eſay.* 55. 7. Ond y gretto ynddo 'n ffyddlon,
Gan droi ymmaith eu pechodau,
A byw'n ol ei ſanctaidd ddeddfau.
Dyſc hwy wilied ei meddyliau,
Dyſc hwy 'ſtyried ei holl eiriau,
Ac i edrych beth a wnelon,
Pa le bynnag ac y byddon.
** Caledi, ſef dydd y farn.* Gwna hwy gofio gorfydd cyfri,
Ger bron Chriſt ar ddydd eu * didri,
Am eu cas a'u drwg weithredoedd,
*Rhuf.* 2. 16. A'u drwg eiriau ym mhob lleoedd.
Ac nad a drwg feddwl heibio,
Heb ei ddannod, heb ei gofio,
Gan y Barnwr mawr Chriſt Jeſu,
Os o'r byd 'r aer cyn difaru.

Dyſc hwy 'ddoli Duw 'n ei Teio,
chyflawni 'dyledſwydde,
d ei gilydd yn griſtnogaidd,
n dra diwyd, ac yn weddaidd:
Fel y tynnaiſt gynt i ‡ ddarllain;
awer un yn ddigon cywrain;
mwyn Chriſt gwna hynny etto,
a fydd hynny i bob *Cymro.*

‡ *Yr ydys yn tybied i lyfrau Mr.* Prichard *dynnu miloedd i ddyſcu darllain.*

Tynn bob rhai at y Scrythyrau,
angos iddynt y rheſymmau,
ows dy feiſtyr yn dy ddechre,
m rheid darllen y Scrythyre.
Dyſc hwy dreulio 'r Sabboth ſanctaidd,
n griſtnogol ac yn weddaidd,
an addoli Duw 'n gyhoeddus,
c yn ddirgel fel mae'n weddus.
Hal hwy o'r pebyll, nâd hwy botian,
y Sabboth, nac i * loetran;
wed ith feiſtir feio hynny,
awer gwaith yn enw'r Jeſu.

* *Segura:*

Gwna hwy wrando'r gair a gofal.
wna hwy arfer gweddi 'n ddyfal
ymryd y communiwn ſanctaidd,
n dra gweddol a chriſtnogaidd.
Gwna i bob rhai ſynych gofio,
aid mynd ymmaith, a rhaid † paccio, † *ymadel.*
wb oddi ymma, cans rhaid marw,
derbyn barn gan Ghriſt yn hoyw.
Pâr ynt wybod ſod dedwyddwch,
rhai ſanctaidd, a * rhialtwch,
y nêf, ac ſod tôſt benyd,
rhai drwg yn uffern danllyd.

* *Gogoniant.* *Mat.* 25. 41

Dyſc nad oes ar ol marwolaeth,
y pwll ddim taledigaeth,
bechodau, ac am frynti,
ns dros ſyth rhaid yno boeni.

Par ir Cymru ſynych goſio,
Mae peth toſt yw gorſod trigo,
Blwyddyn gyfan mewn tywyllwch,
A chadwynau heb ddiddanwch.
Och! faint doſtach a ſydd trigo,
Fyth yn uffern i boenydio,
Dan law Satan mewn cadwynau,
Am ddibriſſio Duw a'i ddeddfau:
Pan y doech i dre *Landdyfri*,
Ac i *Lanfair*, a *Llanedi*,
Mofyn yno pwy ſydd raſſol,
Pwy ſydd ffyddlon a diſeiriol.
Ond cael cwrdd trwy fawr ymofyn,
A'r rhai ſanctaidd ſydd yn taring,
Yn y Dre a'r plwyfe hynny,
Dywaid Heddwch wrth y rheini.
Ac yn enw 'th feiſtyr traetha,
Llîd a bar y Duw gorucha,
Ir troſeddwyr ni ddifarant,
A'r anffyddlon ac ni chredant:
Dywaid wrthynt ir hôn Ficcer,
Wylo'n doſt a chalon dyner,
Am eu brynti, a'u rhybuddio,
‡ *Edifaru.* Wella ei buchedd a ‡ repento.
Dywaid iddo ddyſcu o'r ſcrythur,
Fordd yr Arglwydd mawr yn eglur,
Iddynt hwy, a'i bod er hynny,
Fyth yn byw mewn ffieidd frynti.
Dwed y bydd y dydd diwaetha,
Lai o goſp i Dre Gomorra,
Nag y ſydd i Dre *Llanddyfri*,
Ac i *Lanfair* a *Llanedi*.
‡ *Eglur.* Chriſt y ddengys yn † blaen ddigon,
* *Sef, modd-* Am y rhai ſydd dan y * moddion,
*ion grâs.* Y daw arnynt fwy o'r ſtorom,
*Mat.* 11,23. Naga ddaeth o'r nêf ar *Sodom*.

Canys y ſawl ſy'n pechu 'n rhigyl,
an bregethiad yr efengyl,
'n pentyrru eu hanwiredd,
m droi cefne ar drugaredd.
Dwed na chas yn nyddiau 'r Ficcer,
emmawr iawn yng-*Hymru* 'r Hanner,
'r athrawiaeth, a'r cynghorion,
awſant hwy yn Eglur. ddigon.
Dwed fod Duw yn gofyn llawer,
m mhob gwlad, ac ym mhob * cwartor, * *Cwrr*,
le mae'n raſol yn rhoi amledd, *Luc.* 12, 48.
'i efengyl mewn trugaredd.
Ac pa fwya y ddeellir,
wir 'wllys Duw o'r ſcrythur,
wy o lawer cawn ein curo, *Luc.* 12. 47.
m roi achos i Dduw ddigio.
Gwawdd gan hynny Hên ac Ifangc,
Os hwynthwy a fynnant ddiangc,
lîd a bar yr Arglwydd nefol, )
ſyw 'n ſanctaidd ac yn dduwiol.
Cofia 'n Ifangc y dielir,
r y plant ſydd ddrwg weithredwyr,
nwireddau 'r Tadau 'n gyngan, *Exod.* 20. 5.
yda 'n hanwireddau eu hunan.
Cans o rodio 'n ffyrdd eu Teide,
aent hwy 'n dweid y maes yn ole,
u ‡ cydſent yn eu drygioni, ‡ *Cyttundeb*.
uw ſydd cyfiawn yn eu coſpi.
Gwna hwy ddarllen y trwm achwyn,
naeth dy feiſtir yn ei herbyn:
r mwyn Chriſt bydd yn dra eiriol,
r ynt fod yn ediferiol.
Yn ol traethu hyn ymmhlwyfo,
r hên Ficcer, bryſſia, dere.
wna'r un negês dros d' ail feiſtyr,
m mhlwyf *Mydrim*, ac yn *Merthyr*.

Dwed

Dwêd-wrth bawb ac ſydd yn taring,
Ym mhob plwyf yn ſhîr *Gaerſyrdding*,
Ac wrth bawb o bobol Gymru,
*Jo.* 12. 48. Y Gair y glywſont gaiff eu barnu,
Pan y doech i dai'r bonddigion,
Par ynt newid eu harferion,
Gadel balchder, trawſder, medd-dod,
A gochelyd digio'r Drindod.
* *Yn eglur.* Dwêd yn * blayn pan dônt iw barnu,
Ar y barr o flaen Chriſt Jeſu,
† *Gwahaniaeth.* Na bydd † gwân rhwng Prins a deilaid,
Rhwng cyfoethog a begeriaid.
1 *Pet.* 1. 17 Ac y dylent herwydd hynny,
Lwyr ymadel a'i holl frynti,
Credu ynghriſt, a bod'n difar,
Cyn i mynd hi 'n rhy ddiweddar:
Gwna hwy feddwl am ei 'neidie,
Fwy nag am ei câs bleſſere;
Fwy nag am eu dâ, a'u rhenti,
Eu ffryns, cenel, a'u holl wegi,
Pan y doech i ddwylo'r iſangc,
‖ *Di-ddiwedd* Gwna hwy gofio'r bywyd ‖ didrangc:
Deiſyf arnynt adel heibio,
Eu *h*ynfydrwyed, a repento.
Dangos iddynt nad yw pleſſer,
*Preg.* 11. 9. Y byd hwn ond rhyw beth ofer,
Ac y gorfydd ryw ddydd atteb,
O flaen Chriſt am bob ffolineb.
Ni chyflawna pleſſer bydol,
Chwant yr enaid ſydd anfarwol;
Nid oes dim all wneuthur hynny,
Ond nawdd Duw trwy waed yr Jeſu.
Oh! ymhwedd arnynt adel,
Chwant y Byd, y Cnawd, a'r Cythrel,
*Heb.* 3. 7, 8. Ac ymroi tra'i gelwir heddu,
I waſnaethu'r Arglwydd Jeſu.

Ca

Cans ni wyddant a cant amſer,
I ymadel a diffeithder;
Cans mae'n arſer dwad i'r farchnad,
Groen yr oen fel croen y ddafad.
Dangos iddynt pa ſâth feiſtyr,
Yw Chriſt Jeſu iw waſnaethwyr,
Yn rhoi iddynt * hedd, a bywyd,
Teyrnas nef, a choron hyfryd.
Gwna 'nhwy'n fynych ddyfal gofio,
Nad yw 'r Cythrel ond eu hudo;
Ac nad oes ond yr aflwyddiant,
I'r rhai hynny a'i gwaſnaethant:
Canys o byddant heb eu coſpi,
Gan Dduw ymma am ddrygioni;
Cant ryw bryd, mewn tân uffernol,
Goſp ofnadwi yn dragwyddol.
Ffarwel, deiſyf ar bob Chriſtion,
Nas derbynnont ond a welon,
nnot, yn gyttun a'r ſcrythur,
elly † pleſſu dy ddau feiſtir.
Ond cyn myned, un gair gwrando,
âr i'th Brynwr ddyfal gofio;
an dy brynwyd gynt yn rhanne,
Trwy roi'th fenthyg ‡ êſt yn llappre.
A thrwy 'th oſſod ar ffeneſtri,
Bwytto glybion, ac arhaſeidi,
Uſt, llawn llwydi, êſt yn * ufflon,
a wnant beth y nawr mor * ffinion.
Ond par iddynt herwydd hynny,
Th gadw 'n ſych, a'th ymgeleddu;
el y byddech hir o amſer,
ra gwaſnaethgar ym mhob ‖ cwarter.

* *Heddwch.*

*Job.* 21. 31.

† *Rhyngu bôdd.*

‡ *Aetboſt yn ddarnau,*
‖ *Tyllau Lowſedi,*
* *Gwlyb, llaith,*
‡ *Yn ddryllie*
† *Ffieidd.*
‖ *Ym mhob cwrr o'r wlâd*

Fit

*Fel y deallir wrth y gan ſy'n canlyn Bydd*
*hyſpys ir darllenwr ſyned Brenin* Charl
*y cynta i* Spain, *pan yr oedd efe y*
*Dywyſog* Cymru, *mewn pwrpas i brio*
*merch Brenin y Deyrnas honno; Ac y*
*oedd llawer o Deyrnos* Loeger *yn llaw*
*ofn, na adawe 'r* Spaniards *iddo byt*
*ddychwelyd adref. fe welodd Duw fo*
*yn dda i ddyſodd ac ef adref yn iac*
*lawen; ac ar hyn fe wnaeth Ficc*
Prichard *y Gân hon.*

Y *Muwſys* oll o Helicon,
Y *Graſys* tair, a'r *Nymphs* o'i bron,
Cymrwch bawb eich offer ganu,
I * reſſo o *Spain* Dywyſog *Cymru.*
*Apollo* dôd dy gôr yn gyngan,
Pâr ir *Nymphs* a'r *Graſys* ddawnſiau,
Tra fo'r *Muwſus* ôll yn canu,
Welcwm hôm i Brins y *Cymru.*
Doro ir *Graſys* wiſcoedd gwynion,
Pletha eu gwallt a'r lawrydd gwyrddion
Trwſſia'r *Nymphs* a'u tlyſſe o ddautu,
Fynd i feſto Prins y *Cymru.*
Rho ir *Muſis* offer auraid,
Coronelos dan law'r Ceidwaid,
Fel y gallont gywraint ganu,
Greſſo o *Spain* i Brins y Cymru.
Golod pôb un yn eu gradde,
Gwachel ado dim yn eiſie,
Ag a allo lawenychu,
Clûſt a llygad Prins y *Cymru.*
Gwedyn *Phæbus* taro 'r delyn,
Hôff gan ferched *Iove* dy ganlyn,

* *Creſawi*

† *Croeſaw adre.*

*The Coppies are unintelligible here.* Corenelos dan law, &c. Goreu'n nelos dan law, &c.

---

A'r tain
Dawnſi
Troc
Ganed
Ganed
† Aurai
*Merc*
Gwyſſi
A'r Du
Fynd i
Daw
*Mars*
*Phæb* a
Greſſo
Daw
*Feſta* ar
*Fenus*
I roi gr
Rhod
*Iuno* gy
*Ceres* l
I breſen
* Sôn
Dros y
Cân â'th
Sâff retu
Pâr i
Ddwad
Ac yn
Duw,
*Nept*
*Thetys*
Y rows
Goſtog
*Æolus*
Dwrdd,

A'r tair chwaer y ſydd yn gwenu,
Dawnſio welcwm Prins y Cymru.
Troed *Melpomen* drîſt ei hoer-nad,
Ganed *Calio* lawon ganiad ;
Ganed pawb *Thalia* flaenu,
† Auraid ſers i Brins y Cymru.
*Merchur* dithe, dos i hedfan,
Gwyſſia'r Duwiau, fawr a bychan,
A'r Duwieſſe bawb 'ymdacclu,
Fynd i reſſo Prins y Cymru.
Dawed *Jove* a'i holl oreu-gwyr,
*Mars* mewn rhange a'i holl Ryfelwyr,
*Phæb* a'i ffeiriad oll dan ganu,
Greſſo o *Spain* i Brins y Cymru.
Dawed *Iuno* ar Coach o Faunod,
*Feſta* ar gerbyd o glomennod,
*Fenus* ar elerchod coeſ-ddu,
I roi greſſo i Brins y *Cymru.*
Rhodded *Fenus* iddo degwch:
*Iuno* gyfoeth, *Pallas* heddwch,
*Ceres* lafur gwedi addfedu,
I breſento Prins y Cymru.
* Sôn adeinog hedu dithe,
Dros y moroedd a'r mynydde,
Cân â'th goron ir byd o bobtu,
Sâff return i Brins y Cymru.
Pâr i bawb a'i dillad gore,
Ddwad ei reſſewi adre:
Ac yn ddyfal i foliannu,
Duw, am gadw Prins y Cymru.
*Neptun* donnog a'i Ddolphinniaid,
*Thetys* drwſt fawr a'i Sirenniaid,
Y rows ſhiars i *Driton* ganu,
Goſteg fôr i Brins y Cymru.
*Æolus* chwyrn wyllt ynte oſtegodd,
Dwrdd, a chynwr yr holl wyntodd,

Mewn Coppy arall.
* *Dawnſio welcwm prins y Cymru.*

Coppy arall
† *Zon.*
*Nid wyſi yn coſio i mi ddarllen erioed yn un o'r poetau am* Son *neu* Zon

Zôn.

Ac a wnaeth i *Zephyr* chwythu,
'Rhwyl, wrth fodd Tywyſog Cymru.
*Phœbus* hardd o'r nêf a chwarddodd,
Weld y llongau ar y moroedd;
Ac a wnaeth i'r Haul-wen wenu,
Tra fu'r dydd ar Brins y Cymru.
*Cynthia* hithe ni bu ſegyr,
Na'i morwynion ar yr Awyr;
I oleuo'r byd o bob tu,
Tra fu'r nos, i Brins y Cymru.
*Caſtor*, *Pollux*, ac *Urania*
Pol y gogledd, ac *Aurora*,
A'r holl Sêr oedd yn ymdynnu,
Ledo'r ffordd i Brins y Cymru.
Haul, a Lleuad, ſêr y nefoedd;
Gwynt, a glaw, a thir, a moroedd;
Nef, a Daiar ſyn datcanu,
Ffafar Duw i Brins y Cymru.
Pan y daeth i olwg *Lloeger*;
F'aeth y Duwie i ſtrifio'n ſceler;
Pwy gae gynta dan ymdynnu,
Ddwyn ir dîr Dywyſog Cymru.
*Merchur* am fod drosto 'n Ladmer,
*Jove* am roddi iddo bwer,
*Fenus* am ei fynd i garu,
Fynne'r Dydd gan Brins y Cymru,
*Satwrn* friglwyd tâd y duwie,
Wrth ei oedran ynte mynne,
Ond y *Sûl* 'rhwn oedd e'n barchu,
Gas y Dydd gan Brins y Cymru.
Y pummed dydd o fîs *October*,
Ar ddydd Sûl, dair awr cyn hanner,
Y dygodd Duw dan lawenychu,
I dîr *Lloger* Brins y Cymru.
Duw ddanfonodd ei wîr Angel,
I gyfrwyddo ei holl drafel;

Ac i ddwyn pôb peth o bobtu,
Wrth fôdd calon Prins y Cymru.
O moliannwn ninne'r Drindod,
Ddydd a nos â chalon barod,
Am 'ddo ddwyn Pob peth o bobtu,
Wrth fod calon prins y Cymru.
*Spayn* a fynne mewn cyfrwyſder,
Gadw'n Prins dros ddyddie lawer:
Duw a gwlâd y fynne er hynny,
Fyrr ymchweiliad Prins y Cymru.
Gan i Dduw o gariad atto,
Ddangos Cymmaint ffafar iddo,
Pa fâth roeſo gwych y ddylu,
Brydain roi i Brins y Cymru?
Doed ein *Brenin* a'i *Cynghoriaid*,
Doed yr *Ieirll*, a'r holl *Bennaethiaid*,
Yn eu Rhobs a thrwps o bobtu,
I Reſewi Prins y Cymru.
Doed y grasol *Archeſcobiaid*,
A'r *Eſcobion* a'r *Preladiaid*,
Mewn profeſſiwn i foliannu,
Duw, am gadw Prins y Cymru.
Doed Ardderchawg Arglwydd *Keeper*,
Urddas *Cymru* llewyrch *Lloeger*,
A'r *Britanniaid* hardd o ddautu,
Iddi roeſo Prins y Cymru.
Doed y mwyngaro Cymro,
Colofn y deyrnas *Arglwydd Penfro*,
A'i wyr galant i ffafelu,
Yn nhy'r Brenin Brins y Cymru.
Doed *Mayr Llundain* a'i gwmpeini,
Yn eu Scarlod a'u Cadwyni,
r feirch gwynnion i anrhegu,
Ac i roeſo Prins y Cymru.
Doed y *Marchants* mawrion hwynte,
A'r heolydd a'u gwin gora, &c.

I roi rhwng eu ffryns o bobtu,
I yfed *health* tywyſog Cymru.
  Doed yr holl *Brenhiſhiaid* hwynte,
Dan roi bloedd, a thaflu Cappe,
Yn dra llawen dan † grechwennu,
I roeſo o *Spayn* Dywyſog Cymru.
  Doed Scolheigion yr holl ynys,
Yn eu gradd a'u heureid Ferſys,
A'u hareithieu dan lawenu ;
I roeſawi prins y Cymru.
  Doed offeirieid a'u Plwyſolion,
Gwyr, a gwragedd, merched, meibion,
I'r eglwyſydd i foliannu ;
Duw am gadw prins y Cymru.
  Caner clych yr holl eglwyſydd,
Ni's dadſeinio'r môr a'r mynydd,
Ac i'r ddaiar ſud ddatcanu,
Groeſo o *Spayn* i Brins y Cymru,
  Cynneir Tân a bonffeirs ſagad,
Tan ſy'n dangos gwres ein Cariad,
Fel y gwelo 'r byd o bob tu,
Faint yw'ch ſerch i brins y Cymru.
  Minneu am tylwyth nos a boreu ;
A rof ddiolch ar ſy nglinieu,
I'r gwir Dduw am ddwyn o ddautu,
Yn iach lawen Brins y Cymru.
  Duw ymddiffyno rhag bradwriaeth,
Cadwed Criſt ef rhag pabyddiaeth,
A rhag pawb ſydd yn amcanu,
Drwg, neu ſpeit i brins y Cymru,
  Duw ro galon *Ezekias*,
Synwyr Solyf, Zel *Joſias*,
Dewrder Daſydd, ac at hynny,
Einioes Noe, i brins y Cymru.
  Ioas Cuſai, ſo Gynghorwyr,
*Joſeph*, *Daniel*, ſo golygwyr.

† *Chwerthin.*

Moeſ

---

Moeſe
Byth a
  Criſt
Criſt a
Criſt a'
Ym m
  Argl
A bendi
A rho
Uwch

*Cân*

CLy
  A
Cais by
Am bo
  Myfy
Mewn
Beth oe
Beth ſy
  Dau
Terfync
Rhag m
Y groth
  Camv
Llygredi
Y pryd
Ynghro
  Or lla
Or rhith
Pen trac
Ac felly
  Yr oe
Ei ffuſi

Moeſen, *Samuel*, a ſo'n barnu,
Byth ar faingc dan brins y Cymru.
Criſt a'i eſcyll a'i hadeinio,
Criſt a'i yſpryd a'i Gyf'rwyddo,
Criſt a'i ras a fytho'n nerthu,
Ym mhob achos brins y Cymru.
Arglwydd graſol Cadw'r Deyrnas,
A bendithia'n brenin *Siamas*,
A rho gynnydd gras a gallu,
Uwch law pawb i brins y Cymru.

---

### *Cân yn dangos trueni dyn yn byw ac yn marw heb Griſt.*

CLyw Ddaiar o bob cwrr dy annog mewn cynnwr,
Ac yſtyr dy gyflwr tyn gof lin le,
Cais bydd yn ofalus ddiſeirwch dymherus,
Am bechod peryglus i rogle.
Myfyria yn ddifriſol dy gyflwr anianol,
Mewn meddwl yſprydol dda dduwiol foſt,
Beth oedd dy ddechreuad beth yw d' ymarweddiad,
Beth fydd dy ddiweddiad ni wyddoſt.
Dau lê wedi appwyntio ſy i ddyn i breſwyllio,
Terfynol ai cofio dyfion wir yw,
Rhag magu cenfigen balch oſgedd drwy aſgen,
Y groth ar ddaiaren ddu oer liw.
Camweddus amhuredd oedd ſylwedd dy falwedd,
Llygredig hâd gwagedd a gwegi drwg cry,
Y pryd ith wir greued tan gyſgod mewn caſged,
Ynghroth dy un ſwynged fam gu.
Or llaeth ir gwaed gwydyn or gwaed ir rhith brithwyn,
Or rhith onawd ac eſcyrn gic a gwithi a geſt;
Pen traed ac aelode drwy nerth Duw ai wrthie,
Ac felly gan adde i cynyddeſt.
Yr oeddit ti yno fel clai newydd gweirio,
Ei ffurfio ai rithio fal delw hardd fri;

Yn farwol heb ſymmud nes cael gan Dduw fywyd,
Drwy anadl da yſpryd di aſpri.
Mewn ofer driſt fwriad ymdreiglaiſt yn waſtad,
Trâ fu dy breſwylfad tan gaead glo clyd,
Heb olau ith gonfforddio na rhydd-did i rodio,
Na dim i ti iw deimlo ond yn domlyd.
Ir byd hwn ddyn blegus tro'filen trafaelus,
Yn noeth an olygus mewn gwir gwaedlyd grys;
Pan ddaeth y tymp cyfan ith agwedd go egwan,
Y doiſt yn ddall fudan anfedrus.
Mydſaethod da eu campie ir byd ath dderbynie;
Ath olch ac ath drine yn hynaws ddilys,
Dy fogel a dorren 'mewn cynes lan wlanen,
Hwy a'th rwymmen yn llawen ddyn lliwus.
Ac yno rhai gwyſtlon a geiſſied yn gyſon,
A mamaeth a dwy fron dda laeth lon lwys,
Ith gario di yn ddichllin i dderbyn yn ddi brin,
O rinwedd arogl-win yr Eglwys.
Dy olchi oddiwrth bechod, a gefaiſt dan amod,
It gaſhau a gwrthod fyth Sattan ai Siot,
Y Byd ar cnawd ffeilſion a charu Duw'n ffyddlon,
Ath feichie a fentraſon fyn'd trofot.
Oddiyno yn ddyn newydd hwy'th garian iw ceurydd,
I fod yn llawenydd rhieni diddig;
Ith fagu yn groywber hwy'th lanwon'yn dyner,
A phob rhyw feluſter yn yſtig.
Pan g'eſt, dy draed tanad gweinyddus gynyddiad,
Ni chofiaiſt ddechreuad dy Saliad ir byd,
Na dim o'th addewidion pan henwyd ti yn griſtion;
I fyw i Dduw yn union bob ennyd.
Ond craffu ar bob gwag beth a'i dilyn yn heleth,
A hoffi naturieth rhyw wâg gaſtie mân,
A charu yn anwyledd aneiri o oferedd,
Hyn ydoedd dy fuchedd di yn fychan.
Pan aethoſt ddyn gwiwlan ymhellach mewn oidran,
Cydnabydd dy hunan dy hanes o hyd,

Y Byd ai holl droie y cnawd ai drachwante.
A geraiſt yn ore uwch gweryd.
Dewiſaiſt ſyw yn aflan a rhodio yn ffordd Satan,
Ath leowi dy hunan yn gyfan ar drwg.
Pob gwarth a ſae gwrthyn or ſowdwl ir coryn,
O gamwedd ith ymlyn yn amlwg.
Glan ffrwythydd yſprydol iti oedd ddieithrol,
Ffydd, gobaith cariadol a da duwiol Serch,
Lletteugar drugaredd diddanus amynedd,
Haelioni di drowſedd dra ſerch.
Pob drwg ffrwythe cnawdol iti oedd yſpyſol,
Cartrefol dewiſol hynodol ddrwg bla,
Brad llid a chenfigen gwag gelwydd drwg abſen,
A balchder chwiſigen rhy ſwga.
Trechu dy wanach yn orthrwm ddi ymeiriach,
A lledu dy aflach yn oflin drwy'r frô,
Dal cilwg anghyſion ith war gymmydogion,
A'th rwyde ffals trowſion iw treiſio.
Ac felly cynyddeſt mewn blwydde camdreilieſt,
Dy amſer; y thaſleſt air Duw o'th ôl;
Heb gofio am dy ddiwedd a dyddie blin dialedd,
Yr air ti ir bedd gwaredd yn farwol.
O hir ddilyn hirddrwg ni ddigwydd ond mowrddrwg,
Dawr Ange chwilen ddrwg ai olwg yn dynn,
Am dy holl feie anwireddus gamwedde,
Ai biccell i ddechre it ti ddychryn.
Pan ddêl y cul ſwyddog ciw melyn cymmylog,
Ith ddyfyn yn arfog oth yrfa yn y byd;
Ar farr y Cyfiownedd am ſaich dy ddrwg fuchedd,
I dderbyn o ddialedd a ddilyn.
A dechre oth dy priddlyd ai furie rhychryſlyd,
Gan henaint tuchanllyd egwan,
A chlwyſe leimeirio yn ſwrthedd i ſyrthio,
Mae'n bryd i ti ſydio yn ail ſudan.
Ti fyddi yn meddylio y dichon dy ddwylo,
Fod itti rhag plagio yn gref fwccled,

A nhwythe mor weinion a diffrwyth nas gallon,
Drol ffwrdd dy grach boerion ir pared.
  Ti ſyddi yn chwennychu ith ddau droed dy helpu,
I ſyned i lechu rhag lloches y bedd,
A nhwythe heb ſymmudo yn llwyr wedi ffaelio,
Heb allu dim rhodio i anrhydedd.
  Dy defod dowr eirie ſydd rhwym yn dy ene,
Dy gof ath ſynhwyre oedd ore ith blaid,
Dy gorph i gyd troſto yn aros i amdo,
Ar bedd i ſyn'd iddo ith anhuddiaid.
  Ti roit y pryd hwnnw pedfae ar dy helw,
Er diangc rhag marw ymherodraeth y byd,
Ei lwyddiant ai fowredd am funud yn fwynedd,
I grio am drugaredd, cyn gweryd.
  Ni thyccia dim taccle i wrth ſefyll yr ange,
Er garwed dy gichie cychwyn ſydd raid,
Dy gorph iw hir garchar ar golud ir galar,
Bwyd pryſed yn gynnar di ganaid.
  Ar Enaid o ſywaeth a hudaiſt yn helaeth,
Yn ol dy lyfodraeth yn ddiffaeth i gâs,
A mynd or corphilin trwy gaffael barn erwyn,
Am dy hir ymdrin i andras.
  Ond andras oedd colli'r grâs Chriſt ai gwmpeini,
Y Saint ar merthyri i foli yr ion lwyth,
A myned i udo at Satan ai Eiddo,
I gael ei benydio mewn adwyth.
  Mae'n rhaid ir corph orwedd yngwaelod ei gulfedd,
Heb ſylwedd cyfanedd yn llygredd y llawr,
Nes canu or Arch angel gorn awchus yn uchel,
Iw ddeffro i ail drafel ſydd rhy fawr.
  A'r Enaid pryd hwnnw a yrir yn arw,
Mewn dychryn di ſalw a chwerw ddur nad,
I ym wiſco ai hen domdy ei llettai ai lletty,
I gael i gyd farnu ar oer farnad.
  Pan ddel yr Arch angel ai utcorn di atgel,
I ddyfyn pob gafel ai gofyn gar bron,
Ar barnwr iw holi am bob cnawdol ddireidi,
Och gaethed ſydd cyfri'r hen gofion.

*Cei* weled yr heulwen ar lleuad gwmpaſwen,
O fewn y ffurfafen yn colli i gwawr,
A llewyrch goleulan y ſeren Siriolan,
Yn gyfan a Syrthian un Serthawr.
Cei weled Cwmmyle fel tanllyd gerbyde,
Ar ddiwrnod y bore yn barod,
I dderbyn modd ufudd lu Duw mewn llawenydd,
Ffydd gyda *Mab* Dafydd yn dyſod.
Pan weloch y creigie yn holeeth golcethe,
Gwaſtadtir a brynie ar bronydd ar dân,
Moroedd, y murie yn aſwyſion i ſleiſie,
A'r cyrph yn ei bedde ai byddan.
Rhwng Seion fryn dedwydd a mownt yr oliwydd,
Uwch dyffryn hyfrydwydd *Jehoſa*,
Y bydd y cyfarfod ofnadwy ddyohryndod,
Ir frowdle dda ammod Dduw ymma.
Y Saint a gynhullir mewn awydd ir awyr,
Bob un fal yr Eryr yn bybur ai ran,
I dderbyn y fendith ar meddiant yn ddilyth,
Or deyrnas ddi gyrrith a garan.
A thithe a ddidoli annuwiol ddyn anwir,
I gorlan y geifir lle ith drinir mewn dig,
Gan fod yn benydiol mewn poenau tragwyddol,
Yn ffwrnes uffernol ddu ffyrnig.
Dy gyflwr danghoſais yn orau ag y medrais,
Mewn bwriad dyfais ith ddyſyn yn ol,
I geiſio hedd Jeſu trwy wir edifaru,
Fal hydd ar i frefu yn ddifriſol.
Os ydwyt yn amme un mymryn om geirie,
Chwilie'r yſcrythyre bob bore wrth dy bwyll,
Ac yno wrth ddwys ymgais cei weled yn lledneis,
Y cwbl a ddywedais yn ddi dwyll.
Os byw ydwyt etto rhag itti anobeithio,
Dod gluſt i ymwrando er undyn,
Yn y rhan neſſa os Duw a ganiada,
Ir bywyd mi ddyſca itti eſcyn.

## *Cân Dduwiol.*

GRâs a Bonedd cyfiawn, ac urddas mawr a bri,
I Gwyr gweng a chyffredin, er cariad un a thri,
A ddewch chwi i roddi moliant i'm cywir Arglwydd Jon
A ymroes i farw droſom drwy angau blin a phoen.
Am hynny ninnau ddylem yn ſicer cymmain' un,
O 'wyllys ein calonnau addoli Mab y Dyn,
A hwn ſy ddewiſedig o ſawr ei fri a'i fraint,
Pob Chriſtion ag y gwnelo, mae'n ennill Nêf dihaint.
Cofiwch weled, *Diſes* yn uchel yn ei wn,
A *Lazarus* yn poenydio yn glâf o flaen y cwn,
*Diſes* anrhugarog i wrês y mwg ar tân,
A *Lazar* aeth i'r Nefoedd i foli Duw ar gân.
Pan darfu claddu *Lazar* a'i ddodi yn y Bêdd,
Chriſt e'i hail gyfododd yn jach a gwych ei wêdd,
A hwn fe gas ei barchu ym mhlith Angylion glân,
A *Diſes* anrhugarog i waelod uffern dân, ( ſain
Chwychwi y gwyr cyfoethogion chwi glywſoch ſon a
O fod y tlodi'n meirw ger bron y cwn a'r brain;
Ac felly'r cyfoethogion, *mae leni'n flwyddyn driſt*,
Rhennwch beth o'ch golud rhwng gwir aelodau Chriſt.
Yſtyriwn a meddyliwn cyn myn'd i Uffern dan,
Lle mae y rhingcio dannedd, a gwrês y mwg a'r fflam,
Yſtyriwn cyn mynd yno, meddyliwn ddynion call,
Pob un yn ol ei grechwen ſy'n bwytta cig y llall.
Duw ſy'n ffon ni dderſydd, a Duw ſy'n helpu'r gwan
A Duw ſy Holl-alluog, a Duw i'r gwir a'i ran,
A Duw ſydd gluſtiau i'r byddar, a llygaid i'r rhai dall,
A Duw gyfodai'r forwyn, o farw i fyw yn gall.
Nid oes a all mynegi beth ydyw gwyllys Duw,
Yſtyriodd with y weddw, fe wnaeth ei Mab hi'n fyw,

e wnaeth gwahaniaeth eglur rhwng corph y pren a'i riſc,
c fe jachaodd y cleiſion heb ddim ond cyffwrdd a'i wiſg.
Y Pren pan fo e'n deilio mewn blagur gwych a dail,
Meddyliwn yn y diwedd pa fodd mae gyda'r ſail,
Pan êl ei wreiddau'n bwdr; ni ddug ê ddim lleſad,
Meddyliwn am Drugaredd tra fôm ni ar ein traed.
Nêf i'r neb bu farw yn lân trwy 'wyllys Duw,
A Nef i'r neb ſy 'n clywed, a Nef i'r neb a'i clyw,
A Nef i'r neb a'i dyſco, a'i cano maes yn ffraeth,
c f'allai y dywedai rhyw un, fod Nef i'r gwr a'i gwnaeth.
Mil a chwe chant flwyddyn, deunaw pedwar ac un,
Oedd Oedran Chriſt ein prynwr, yſtyried pob rhyw ddyn,
Vicar *Llan-ymddyfri* a'i rhoes ê maes o'i ben,
Duw roddo ni Drugaredd, a dyweded pawb *Amen*:

---

*Cân ynghylch holl Breſendoldeb Duw.*

GAN fod llygaid y Duw cyſion, *Job.* 34. 21:
Ar bob cwrr o'r ddae'r yn gyſſon, *Pſ.* 11. 45.
Pa mor bur a mo'r ddiffuant, *Dihar.* 5. 21.
Dylem foli Duw'r Gogoniant.
Mae fe'n gwel'd Bwriadau'r Galon, *Pſ.* 94. 8, 9,
Mae fe'n canfod hyd yr eigion, 10, 11.
Nid oes dim anamlwg iddo,
Na dim yn guddiedig rhagddo.
Y mae pob dychymmyg 'ſceler,
Y mae 'n holl feddyliau ofer,
Mae ein rhagrith mae ein ffalſder,
Oll yn amlwg i'r uchelder.
Ie a bydded hyn yn gyſſur,
Mae ein cyſtudd oll a'n llafur, *Mat.* 6. 6.
Mae ein Gweddi ddirgel addas, *Pſ.* 112. 5, 6.
Yn mynd at Orſeddfaingc y Gras,
Pe bai ond phioleid o ddwr afon,
Er mwyn Chriſt a rowa i Griſtion, *Math.* 10 42:

Ni edy Duw mo hynny yn angho'
Heb ei dalu a'i wobrwyo.
  Gan fod Llygaid y Duw cyfion,
Ar bob cwrr o'r ddâr yn gyſſon,
Pa mo'r bur a mo'r ddiffuant,
Dylem ſoli Duw'r Gogoniant.
  Mae'n beth anhawdd ddigon gadw,
Rhac bod neb yn dala ſulw,
Neb rhyw Lygad dyn yn canfod,
Ar a wnelom yma iſod.
  Odid fawr i'r *Mwrddwr* gwaedlyd,
Er dirgeled fo ei ergyd,
Fyn'd yn ddigoſp ei holl ddyddiau,
Oni ddaw ryw bryd i'r goleu.
  Neu y *Godinebwr* aflan,
Sydd yn gwanu ei droed mor yſgafn
Etto odid na fydd digon,
Yn hyll-dremu ar ei droion.
  Pe bai'n boſſibl er hynny,
Gadw'n ddirgel heb gyhoeddi,
Bechod anwyl Monwes dirion,
Maes o olwg neb rhyw ddynion.
*Jerem.* 32. 17, 18. 19.  Mae y Barnwr goruchaf,
Etto 'n diſgwyl ar ein gwartha,
Nid oes le na chyſcod Angau,
A all guddio ein camweddau.
      *Gan fod llygaid y Duw cyfiawn, &c.*
*Gen.* 37. 28; 32.  Brodyr *Joseph* oent yn tybied,
Nad oedd Duw ddim yn yſtyried,
Wrth ei werthu ê'n yſcymmun,
A dyweid celwydd wrth yr henddyn.
  Ond yno ym mhen talm o amſer,
*Gen.* 42. 21. Wedi dyfod arnynt flinder,
Fe wnaeth Duw gydwybod ddeffro,
Ac o bechod eu cyhuddo.

N

Nid oedd na bryd na meddwl *Achan*, *Joſh.* 7. 21.
Wrth guddio Dillad, aur ac arian,
O fod Duw yn craffu arno,
Nes i'r Holl-alluog ddigio.
Na *Gehezi* tydol ynteu, 2 *Bren.* 5.
Pan wrth *Naman* y cymmerai; 21, 22.
Yr Aur melyn yn dra bodlon,
A deu-bar o ddillad gwychion.
Er bod Llygaid Dyn yn gaead,
Er dirgeled oedd y weithred,
Câs y naill a'r llall eu coſpi,
Am eu Bydol chwant a'i brynti.
*Gan fod llygaid y Duw cyfiawn, &c.* *Job.* 34. [illegible]
Am fod Duw gan hynny 'n gweled,
Bob rhyw weithred er dirgeled,
Mae'n beth enbyd i ryfygu,
Maes o olwg Dyn i bechu. 1 *Chron.* 16,
Ond yn anad un peth arall, 29.
Fy mrodyr anwyl byddwn gall,
I addoli Duw yn ddidro,
Can's y fath y mae'n ei geiſio.
I addoli Duw o'r galon,
Gan yſtyried fod Angylion, *Eccleſ.* 5.4,5
Yn dal ſulw ym ni'n weddus,
Ein hymddygiad yn yr Eglwys.
Llygaid Arglwydd Dduw y lluoedd,
Yw Angylion Sanct y Nefoedd, 2 *Chron.* 16.
Och! na fyddwn ni'n anaddas, 9.
O gwmpeini'r fath gymdeithas.
Mae 'n anweddus ac anſyber,
Yngwydd Brenin mawr ei bwer,
Beidio a gwiw ymoſtwng iddo,
A dangos ein gwir barch tuag atto:
O'ch! mwy erchyll i ddyn ddyfod,
O flaen y Fendigedig Drindod,
Heb wir ac jawn ymbaratoad,

At ei Sanctaidd fyth addoliad.
*Gan fod llygaid y Duw cyſon, &c.*
Ni all dyweid yn dda am danom,
A chael clôd ein cymmydogion,
Wneuthur un math o leſad,
Os cydwybod wna ein brad.
Ac ni wna ddim niwed chwaith,
Ddifenwad, enllib, 'ſceler jaith,
Os cydwybod a fydd dirion,
Ac yn dyſt i ddadleu troſom.
Ein mantais yw gan hynny wilied,
Fel Chriſt'nogion da eu gweithred,
Nad aed o'n côf fyth fod y Drindod,
Ac Angylion Nef i'n canfod.
*Gan fod llygaid y Duw cyſon,*
*A'r bob cwrr o'r ddaear yn gyſon, &c.*

---

*Cân ynghylch y Gwrthryſel a dorodd allan yn y Flwyddyn 1641. Yſtyried y darllenydd fod llawer wedi colli lle y nodir ar Serenno hyn *********.*

O Na bai fy mhen yn ddyfroedd,
Mi a foddwn etto'r tiroedd,
O waith cymmaint yw'r 'Scelerder,
Maint yw'r Bai a'r llid a'r Balchder.
Na bai fy llygaid yn ffonhonnau,
Fe ffrydia o honynt allan ddagrau,
Yn ddibaid bob dydd bob Nôs,
Am fod 'nawr ond gormod achos.
Pwy a fu'ſei'n meddwl unwaith,
Am y Gwyr oedd deg eu haraith,
Fod Bradwriaeth mo'r echryſlon,
Yn cael ei meithrin yn eu calon.
Y mae'r Neidr las yn gorwedd,
Dan y perthy mwya' hoffaidd;

Ll

Lle bo ffrwd y Dwr yn dawel,
Mae yno ddyfnder idd ei ochel.
  Y nawr y mae eu hunan gwaedlyd,
Yn dra yſpys jawn i'r holl-fyd,
Gan nad dim ond gwaed y gwirion,
A dyrr ſyched fath genawon,
Llawer gwaith y bu'r *Philiſtiaid*,
Yn gorthrymu'r *Iſraeliaid*.

* *

Erioed ni bu y fath beth yma,
Gan *Farbariaid* gwyllt o'r *India*;
Tebyg genni fod y Gythraul,
Ymhob aelod o'r Gwrthryfel.
  Byth ni thaerai un *Barbariad*,
Mai Duw o'r Nef a roes iddo gennad;
Ladd a lloſci dynion ufudd,
I wir Frenin a gwir Grefydd.
  Ond mae rhai yn mentro dywedyd,
Mai cynhyrfiad y Glan yſpryd,
Ydyw'r achos o'i hymrafael,
A gwiſco am danynt arfau Rhyfel.
  O fy enaid na neſſa,
Ac gyfrinach y rhai yma,
Sydd yn gablaidd jawn yn goſod,
Waith tywyllwch at y Drindod.
  Fe fydd gennym fara hono,
  Ac erbyn trannoeth wedi ei wangco.

* *

  *Duw* a gadwo'n Brenin graſſon,
Rhag eu brad a'i diſtryw creulon,
Nertha o Arglwydd *Dduw* ei ddwylo;
Bydd di yn nerth a tharian iddo.
  *Duw* a adgyweirio ſuriau,
Sion ddinas a'i Hadwyau,
Ac a helo'r Tyrchod allan,
Rhag llwyr ddifa ffrwythau'r winllan.

*Cynghorid*

### *Cynghorion Tâd iw Fâb.*

*Preg.* 12. 1. DEchre'n gynar waith ſancteiddrwydd,
Nid ac byth yn dda'n rhy ebrwydd:
Dechre 'th ſhwrne ar foreu-ddydd,
Gochel aros hyd ganol-ddydd.
Da bod Dydd yn hwy na'r llwybyr,
Toſt bod gwaith heb Ddydd iw wneuthur:
'Rhyn ſy 'w wneuthur dwys yſtyria,
‖ *pa fodd.* Bwedd y ‖ gwnai di hynny gynta.
Mae it gymaint o ſuſneſſon,
Ac y dreulia 'th holl amſeron;
Na fudd ſegur un diwrnod,
† *Ddibenni.* Rhag ir gwaith fod heb ei † orfod.
Drwg it roi ir Diawl dy flode;
A Duw 'n aros am dy ffrwythe:
Mae Duw'n haeddu dy waſanaeth,
'Rhyn nid yw y cythrel diffeth.

---

### *Am godi'n foreu.*

‡ *cyfod.* YN dra boreu ‡ cwyn i fynu:
Na chaed Haul di ar dy wely:
Ar y caniad cynta o'r ceiliog,
Cyffro 'th hun, ac na ſydd ddiog.
Torr dy gyſgu ar y wawr-ddydd,
† *Claiar.* Gochel yſpryd † claer di-ddeunydd:
D' amſer gochel ei cham dreulio,
Nid oes dim ac ellych ſpario.
Amſer huno ſydd iw gyſri,
Megis amſer gwedi golli:
Cyſgu bair in' yn ddiamme,
Fyw ond hanner ein blynydde.

Cw

Cwyn yn awr, cae gyſgu 'th amcan,
Yn y Bêdd, mewn grô a graian.

## Am fyfyrdod boreuol a hwyrol.

YN dy gôf bid Duw goruchaf,
O flaen dim, ac yn ddiwetha: Pſal. 139. 18.
Cau ac agor dy amrante,
Gydag ef, bob nos a bore. Pſ. 63. 6.
Pan yr ae di lawr eſmwythder,
Cofia 'r ae di'n îs ar fyrder:
Ac ar dy foreuol ‡ gwnniad,
Meddwl am yr adgyfodiad.
Fel mae cwſg yn Arwydd Ange,
Felly mae'n Deffroad ynte,
Yn mynegi 'n hadgyfodiad,
Ni pharha mor nos yn waſtad.
Cân y Trwmpet, Dydd a wawria,
Y rhai meirw mi dybyga,
Bod eu heſgyrn yn ymbwnio,
Ai bod nhwy yn ymgofleidio.

‡ Gyfodiad.

## Am Baratoad ir Farn.

GWna oll fal am dragwyddoldeb,
Cofia ar fyrr rhaid rhoddi atteb,
Ger bron Barnwr cadarn, cyfion,
Sy'n gweld holl feddyliau'r galon. Jer. 17. 10.
Yna rhoer y llyfre allan,
A'th weithredoedd fawr a bychan; Dat. 20. 12.
Fyddant yno wrth ei cyfri,
Naill a'i 'th Ladd, neu'th eſcuſodi.
Bydd fyw felly, fal bo i tithe,
Fod yn hy ger bron y Brawdle,

Pan

Dat. 6. 17. Pan bo'r holl weithredwyr gwallys,
* *Aruthrol.* Yno'n crynu yn * echrydus.
Gwel na bo'th gydwybod awchlym,
Ddydd y Farn yn Dyſt i'th Erbyn:
Cais trwy fyw yn raſol ymuna,
Gau ei ſafan hi o'r ſiwra.
Er nas gelli trwy 'th weithredoedd,
Haeddu ar law Dduw mor Neſoedd,
Na chael byth dy gyfri'n gyfion;
*Gal.* 2. 16. Etto bydd di fyw yn union.
† *Nattur.* Bydd fyw'n gynnil, da dy † anian,
Fel po baet i gadw 'th hunan;
‡ *Ymddiried.* Ond na ‡ thruſt ith wael weithredoedd,
Sy 'n rhy wann ith ddwyn ir Neſoedd.
Bydd di ſiwr i fynnu pardwn,
* *Attolwg.* Cyn y delo'r Barn, * ardolwyn.

---

## *Am Ddiwydrwydd.*

FAL y bo i ti waſnaethu,
Duw a'th hunan yn ddi wegi,
Yn dy alwad bydd yn ddiwyd;
Na fydd diog na ſwrth hefyd.
Gwna'n ddioed yr hyn a wnelech,
Mor ebrwydded ac y gallech;
Gyda 'th law, rho 'th rym yn helaeth,
At bob gwaith o'th alwedigaeth.
Coſia wrth weithio ar bob amſer,
Nad dy daliad yw dy bleſſer;
Cyn gwnech orchwyl pwyſa 'n ddi-far,
Dy boll waith ynghyd a'th wobar.
Gwel pa fudd ddaw o'th waith yſtig,
Gweithio am ddim ſydd beth blinedig;
'Rhwn ni chaffo ffrwyth o'i labar,
Siccr yw, y blina 'n gynnar.

Can

Canol d'amſer union dreulia;
Pôb llys gwâg neu ſegur odſa,
Llanw rheini megis Criſtion,
A rhyw weithrediadau graſlon.
*Nâd ith † alwad bâch pennodol,*
*Rwyſtro ar y * cyffredinol;*
*Rho beth amſer yn ‡ brûdd ddigon,*
*I addoli'r Arglwydd cyſon.*

*† Crefft, hwſmonaeth*
** i addoli Duw.*
*‡ Difriſol.*

Rho i Dduw ei eiddo'n bur-lân,
Cymmer d'eiddo 'th hun dy hunan:
Amſer ſydd itt' dreulio'n dduwiol,
A pheth it drîn d'achoſion bydol.
*At bôb gwaith mae cymmwys odſa,*
*Dyſc di nabod hon; a chofia,*
*Rhyn a wnaer i * maes o amſer,*
ydd *ddi-ſlas, heb don na thymmer.*

** Allan.*

Gâd waith diffrwyth ac afleſſiol,
A'r peth ſ' itti'n am-mherthnaſſol:
Drwg ymmhyrru ag yſcall crinion,
Fel † *Domiſian*, heliwr cilion.
*Ydyw hyn yn bwrcas uchel,*
*Cael ond mawr boen am dy drafel?*
*Diles gwegryn dwr neu dwod,*
*A gwaith gwell ag eiſie ei † drafod.*

*† Emprwr. a dreulie amſer i ladd gwybod.*

Digon itt' y gwaith ſydd reidiol;
Bwrw ymmaith waith afleſſiol;
Drwg yw itti'n ddi achoſion,
Ado 'th ſwydd a'th waith cyfreithlon.
*Gweithio'n awr, tra gelwir heddu,*
*Arall ſ' alle bie foru;*
*Cans brau ym fel lleſtri gwyder,*
*Hawdd y torrir ni yn glechder.*

*† Ymorcheſt cyn ei gylch.*

## TERFYN.

## *Ddau Gymro yn Taring, Ym Mhell o'i Gwlad, ac yn ymgyf wrdd ar fynydd, yn chwedleua am a welſon ac a glywſon yn bylch conſurwyr, rheibwyr, dewiniaid a'r fath.*

### *TUDUR.*

DYdd da fo i Ronwy a chroeſo Duw wrtho adre
fo a fu hir gennyf a minne yn ddieithr ymma a
eich gweled, a chael peth gwybodaeth gennych am
hyn a glywais un yn darllen yn llyfr y diharebion, l
mae dihareb yn ſon am fwrw cath i'r cythrel pa bet
oedd feddwl y neb a ddywad hynny yn gyntaf? *Gronu*
Dydd da a fo i *Dudur* a chan dydd da a fo iddo, th
mwyned a fydde i chwedleu: nis gwn i beth yw bwr
cath i'r cythrel, onid bwrw iddo beth diffaith tebyg id
ei hun, i gyflawni dihareb arall ſydd yn dywedyd
ymgais pôb cyffelyb a wir meddant hwy yw pob di
reb, mi a fedrwn ddywedyd i ti chwedl tebyg i'r hyn
ofynnaiſt, ond nad yw'r amſer yn gwaſanaethu, na min
yn cael arfod.

*T.* *Y* mae *Gronwy* amſer i bob peth ti a fuoſt dd
mwyn, llunia'r gwadan mal y bo'r troed a chymm
beth arfod nas gelli aros yn hir:- chwedleua a chy
mydog a'th gar, ac oedd yn hir gantho am danat adref.

Gr. Nid erys mal traeth am Owain: etto nis med
mor ymmado a thi, pan ymgyfarfyddom yr wy yn tybi
mai ſwynwr wyt a'th fod yn fy rheibio.

*T.* Nage *Gronwy*: nis gwn i oddiwrth y gelfydd
honno, nis bu arnaf fwy ofn pobl erioed na rheini.

Gr. *Tudur* ofna Dduw yn unig, nis gallan hwy ddr
i neb ond hyd a bo Duw yn dioddef naill a'i er p
ffydd i blant, mal y dioddefodd ir cythrel brofi Job;
er coſpi annuwioldeb drwg ddynion: ond yſywet
mae diafol yn cael methel ar lawer, nid awn ni y ro
i chwilio am yr achos.

*T.* Hynny *Gronwy* a wnaeth i mi ryfeddu, a gofyn
pa beth oedd fwrw cath i'r cythrail; canis myfi a d
gwn mai aberth rhyw reibiwr neu'r fath i'r cythre
fydde'r gath a fwrid iddo felly; a digon tebyg fod di
yn gorchymmyn iw weiſion aberthu rhyw beth iddo y
mal yr ydoedd plant *Iſrael* i Dduw.

Gr. Gwir yw *Tudur*: ac agos i mi a gollwng tros go fy chwedl, y mae yn gyffelyb fod gormod o rhai ſydd yn cymmeryd arnynt eu bob yn griſtnogion da, etto tan law yn offrymmu aberth i'r cythraul, canys pan oeddwn y gayaf diwaethaf oddi cartref yn *Albania*, fo a ddigwyddodd i mi letteua yno, yn nhy henawgwr glan, lle yr ydoedd o honom yn wyr, yn wragedd, ac yn bobl iefaingc loned y ty, a'i harfer yw yno hirnos gayaf eiſtedd wrth tan yn ol ſwpper, a dywedyd, chwedleu i ddifyrru yr amſer, ac mal yr oeddwn yn gluſt-agored ddigon i wrando ar bawb, cyntaf dim aeth ſon am dano oedd am yr hyn yr wyt yn i ofyn; ebr un wrth y tân a'i gwir yw bod rhai weithie yn bwrw cath i'r cythrel? nis gwn i ebr arall am gath, ond myfi a glywais fod gwr cyfoethog o'n gwlad ni yn rhoi myharen neu fuſtach tew bob nos Clammai i'r cythrel; pa fodd y galle efe hynny ebr finne? Y mae efe ebr ynte weithie yn cymmeryd yr anifail ac yn i rwymo mewn man dirgel ar y mynydd, ac y mae'r cythrel neu rhyw beth yn i gyrchu oddi yno yn ddi daring, nis gwelir mo hwnnw mwy yn pori ar y mynydd; ac weithie y mae efe yn i fwrw tros glogwyn i dorri i wddwf hyd y gwn i dyna aberthu i'r cythrel, canys fo a fydde anhawdd gantho rannu rhwng y toldion gymmaint mewn deng mhlynedd ac y mae efe yn roi ar unwaith i ddiafol. Nawdd Duw ebr llangceſſan iefangc a oedd yn eiſte ynghornel y ſimne, falle wrth waſanaethu'r cythrel a rhoi aberth iddo yn y modd hwnnw yr aeth ein cymmydog ni mór gyfaethog? myfi a glywais fy mam yn dywedyd nad oedd ond gwan i ddechreuad ef, a gwaelach i genedl, ond efe a aeth yn ymmerod o gyfoeth o fewn ychydig amſer; ac yrowran pwy mewn gwlad fonheddiccach nag efe? A fydd ebr finne cyn galled a'r ffola eich cymmydog yn bwrw cath i gythraul, ac yn aberthu iddo nos Glammai; Nis gwn i ebr y fechan gofynnwch i'm mam; ac yno ebr hên-awgwraig lan oedd wrth tan (ac hyd y gwn i mam yr un iefangc oedd honno) gwae a gaffo ddrygair yn iefangc, y mae'r gwr bonheddig y mae'r

faeden gymmen accw yn ſon am dano wedi cael enw
drwg yn hir o amſer, o'i fod yn ymgyrchu a'r cythre
ac yn rhoi llawer eidion teg iddo: ac myfi a glywai
(pan oeddwn yn oedran y grâs beth ffraeth accw he
wr oedd dad i mi (yr hwn o fuaſe ymdeithiwr mawr, a
yſpys jawn ymhob gwlad yn fynych yn dywedyd
fod yn adnabod gwyr yn taring yn Llydew a Llychlyn
a oedd yn offrymmu Aberth i'r Cythrel yn yr un mod
ac y mae ein cymmydog ninne; mal nad peth newyd
neu ammheuthyn mo'r chwedl a glywſoch; ac yr ydoed
hwnnw (medde efe) yn gyfoethog ddigon, Os eb
un, pob un eilwaith mal y rhed y cwn) y dywedw
chwedleu, minne a gaf ddwedyd chwedl bellach, gwran
dewch arno ebr finne, deddfol yw malu yn gyntaf, i'
gyntaf i'r felin, yno ebr ynte, yr ydoedd gwr iefang
wedi priodi hen wraig-weddw gyfoethog o'n hymmy
mi, fo a ddigwyddodd ddyfod haint ymmhlith i dda
a marw iddo o ychen, o wartheg, ac o geffyle lawer
ac ynte (nis gwn i a'i trwy gyngor arall a'i o'i ynfyd
rwydd i hun) a rwymmes geffyl byw wrth bôſt, ac a
hamgylches a chynnyd, ac a wnaeth dan wrtho nes
loſgi yn lludw; beth meddwch a'i bwrw cath neu offrym
mu aberth i'r cythrel yr ydoedd hwnnw; ode drwg
tycciodd iddo, canys cyn i farw, braidd y tale yr hy
a fedde werth y ceffyl; wele ebr pawb mor wir
ddihareb, *drwg y ceidw diafol ei was*. Yno fo a god
gwraig arall i ddywedyd i chwedl hithe, yr ydoedd e
hi (pan oeddwn ni iefangc iawn, ac etto yn ddigo
hen i gadw a dal chwedl drwg i'm cof) hen wraig y
taring yn agos attom, a fydde byth a llygoden ffrein
ar i harffed ac yn porthi honno; gwrando ond yr oed
llawer yn ammeu nad llygoden a oedd hi rhag i dofed
ac fo a ddigwyddodd i was o'r ty i chanfod hi y
myned i ſtafell o'r ty a bwyd iw llygoden ac efe a'i ca
lynodd hi o bell, ac a ſpies trwy dwll arni, ac i gro
ir dyn ond y cythrel oedd yno, canys yr oedd y peth
oedd hi yn i borthi mewn rhith anferth arall yn i olw
ef; fo a fu honno fyw yn hir mewn cyfoeth mawr a
ett

etto drwg iawn a fu i diwedd; io ebr finne *a hir ddilyn drwg y daw'r mawr ddrwg*. Ac yno ebr arall wrth inne, chwychwi ſydd yn darllain llyfre a welwch ac a wyddoch llawer o bethau, ai gwyr fod cythreuliaid yn cyrchu at wyr a gwragedd y rhai y maent hwy yn i alw naill a'i yn ſwynwyr, rheibwyr, daroganwyr a'r fath, ac yn ymrithio iddynt yn y rhith a'r fath y bo goreu gan y rheibiwr neu'r rheibies i cael a'i cadw mal cathod llygod, neu lyffaint, iw gyru i ddial eu llid yn erbyn rhyw rai, neu i gyrchu a dwyn iddynt yr hyn a fo da ganthynt hwy pa beth bynnag a fone hwy yn i chwantu? yn wir ebr finne (heb ſon am a ddarllenais) myfi a glywais am clustieu hen reibies a'i merch hefyd (lle yr ydoedd llawer o wyr da yn gwrando) yn cyffeſu, gadw o honynt hwy y cythrel yn hir o amſer, yn rhith cath, neu lygoden, neu chwannen, neu dwrch weithie, mal y bai goreu ganthynt ai bod yn rhoi iddo ddeſnynnau o'i gwaed an amſerau, ar a dangoſodd yr hen wraig y mannau ac ol, lle a gollyngaie ar i dwyfron waed iddo; da dylaſai honno ebr un i lloſgi; yn wir ebr finne ni loſgwyd dim o honi ar y tro hwnnw, *hi a gafodd ei hoedl ar obaith yr ymwrthode* a'r cythrel, ac y bydde hi gwreigdda yn ol hynny. Y mae yn gyffelyb wrth hynny ebr pawb ynghylch y tan, fod rhyw gyfeillach ac ymgyrchu rhwng y cythrael a rhai o'r hen wragedd ſydd yn cael yr enw o fod yn ſwyno ac yno fe a ddywed rhyw rai fod y planedydd, y conſuriwr, yr hudol a'r fath yn gwneuthur eu caſtie trwy ddyſc a darllain llyfreu ac nad yw'r hen wrageddos ond rhyw bobl wirionffol, ddiſynwyr, a'i bod yn adnabod llyſieuach, a'ch wedi dyſcu rhyw werſi da, i ſwyno a rheini ac i helpu da a dynion; a chyda hynny yr oeddwn inne yn heppian, a rhan fwya yn cyſcu ynghylch y tan; wele ebr ſi hi a aeth yn bell o'r nos wrth chwedleua, ac nis gedu cyſcu i mi eich atteb ddim amgen na hyn, *mai pobl ddrwg annuwiol yw y rhai yr ych yn ſon am danynt, a thrwy help y cythrel y maent hwy yn cael yr yſpyſrwydd ſydd ganthynt a'i* *gwybodaeth i gyd, Duw o'n catwo rhagddyn*, ac a roddo noſwaith dda i chwi bawb oll; can noſwaith dda i cwithe ebr pawb oedd yno heb gyſcu, ac mal hyn yr ymadawſem y nos honno, a thrannoeth myfi a genais yn iach i'm, llettŷwr ac a dynnais tu ac adref, man oedd hir gen i am fod ynddi.

*T.* Wrth hynny *Gronwy* gwir ſyth yw pob dihareb gwedi rhodio pob llef hawdd ſydd i gartref; ac weithian ar Duw dywed i minne yr hyn a dewaiſt heb ddywedyd yno, au y bobl ddiffaith rheini, y mae llawer yn coelio, eu bod hwy yn medru llawer o bethau, ac myfi a wn lle y mae un yr ydys yn cyrchu atti o bell o ffordd am twynion i dda ac i ddynion.

Gr. *Tudur* cyſtal yw bwytta'r cig ac yſed y cawl; brawd yw mygu i dagu; y mae yn gyſtal myned at ddiafol ei hun ac at y rhai ſydd yn i waſnaethu ac yn cael yſpyſſrwydd a gwybodaeth gantho; y mae efe mal y dywedais o'r blaen yn cael methel ar yr rheini, ac ar y rhai ſydd yn cyrchu attynt hwythau, gan dybiad nad oes niwed yn hynny, ie mai da-iawn a chall y maent hwy yn gweithio o fyned at y rheini, am eu bod yn cael yſpyſſrwydd a help ganthynt am lawer o bethau.

*T.* Yn wir *Gronwi* myfi a glywais rai a fuaſe tro eraill gyda'r fath yn dywedyd gael o honynt hwy yſpyſſrwydd am a'r oeddynt yn i ofyn; ar cleifion yn dywedyd weld o honynt hwy rai cleifion yn gwella a ol ſwyno iddynt.

Gr. Dyma mal y mae Duw yn dioddef i'r cythre ddallu y gwrthodedig; canys nis geill y cythrel na helpu na gwaethygu ar neb ond cyhyd ac y bo Duw yn dioddef.

T. Pa ddrwg y ſydd yndyſod o fyned at y rhai y ma Duw yn dioddef iddynt wneuthur daioni?

Gr. *Gwael yw'r daioni a wna'i cythrel a'i weinidogion neb iachau'r corph a lládd yr enaid.* Canys y mae efe yn denu dynion yn y modd hwn i droſſeddu a thorri gorchmynnion Duw'n hwn a ſynne i ddynion ymhob ing ag adfyd alw arno efe, a pheidio a myned at y cythre trwy geiſio help gan i weinidogion ef; *o'i ddwylaw pan gaffo ddim gafael mewn dyn*; a dymma'r modd y mae yn ynnill y rhai colledig i roi cred a ffydd ynddo efe, trwy anobeithio y gwrendu ac y gwna Duw ddim erddynt, neu dybiaid nas geill Duw yn gyſtal, neu nad yw mor barod iw helpu ac yw'r ſwynwr, y rheibiwr, neu'r ſath.

*T.* Pe buaſe ddrwg gan Dduw (yr hwn a wydde bob peth i ddynion ymofyn ac ymgynghori a rhain, fo a fuaſe yn i air yn peri i ddynion nad yngyrchent attynt hwy; canys y cae gwyr o ddyſc yn dywyedyd fod Duw wedi yſpyſſu yn i air bob dim er ſydd reidiol i iechydwriaeth dyn.

G. Gwir yr wyt yn i ddywedyd *Tudur* am rag wybodaeth a rhag weledigaeth Duw, y mae gair Duw yn dangos yn gyflawn ddigon bob dim rheidiol i'n hiechydwriaeth ni; ac am hynny gwrando dithe bellach pa beth y mae'r ſcrythyr lan yn dywedyd am y bobol annuwiol hynny, *Nac edrychwch am ddewiniaid, ac nag ymgynghorwch a'r brudwyr i ymhalogi a'i plegid, yr Arglwydd eich Duw ydwy fi* Levit. 19. 31:

*T.* Nis tybiais i erioed fod gair Duw yn ſon am reibwyr, brudwyr na'r ſath; ac y mae yn rhyſedd gan i wrth glywed hyn paham y mae gwyr ſynhwyrol ſydd yn gwybod y ſcrythyr lan yn gwneuthyr cymmaint cyfri am danynt hwy gan fod gair Duw mor eglur yn i herbyn.

Gr. Y mae llawer yn medru darllain gair Duw, ymreſymmu a dadleu yn ddyſcedig yn y ſcrythur, *ac etto heb ras i fedru dilyn dim ar y maent hwy yn i ddarllain, ac am hynny a daw dialedd diſymmwth arnynt*; canys dymma eirieu yr Arglwydd am y rheini; *y dyn yr hwn a edrycho am ddewiniaid ac am frudwyr, gan butteinio ar eu hol hwynt rhoddaf wyneb yn erbyn y dyn hwnnw a thorraf ef ymmaith o fyſc i bobl medd yr Arglwydd.* Levit. 20. 6. a rhac ofn i neb dybiaid nad yw hyn ond megys bygwth heb daro, darllenwch ſtori Saul brenhin *Iſrael* yr hwn a droſſeddodd orchymmyn yr Arglwydd ac a ymgynghorodd a dewines; 1 *Sam.* 28. 6, 7. dymma eireu'r ſcrythyr am dano, *felly y bu farw* Saul *am i gamwedd yr hwn a wnaeth efe yn erbyn yr Arglwydd, ſef yn erbyn gair yr Arglwydd yr hwn ni chadwaſe efe, ac am iddo geiſio ymgynghori a dewines, ac heb ymgynghori a'r Arglwydd am hynny y lladdodd ef ac y rodd y frenhiniaeth i Ddafydd fab* Jeſſe; 1 Cron. 10. 13, 14. *hwyr a dial* (medd y ddihareb) *dial Duw; a llwyra dial* (mal y gwelwn ymma) *dial Duw*; fo a ddug yn hir gyda *Saul* ac o'r diwedd nis lladdodd ef yn unig, ond efe a ddug hefyd oddiar i hepil frenhiniaeth *Iſrael* yn dragywydd. Ac mal hyn y mae'r Arglwydd yn dywedyd mewn man arall; *Na chaffer ynot a wnelo iw fab neu iw ferch fyned trwy'r tân, neu a arfero ddewiniaeth, planedydd, na droganwyr, na hudol; na ſwynwr ſwynion nac a geiſio gwybodaeth gan gonſuriwr neu frudiwr, nag a ymofynno a'r meirw o herwydd ffieidd-dra gan yr Arglwydd yw pawb a wnelo hyn*, Deut. 18. 10, 11, 12.

*T.* Aros *Gronw*, nis tybiais fod cynnifer celfyddyd a hynn gan y cythrel; nis gwrthwynebir gyda ni dynnu plant rhwng deudan, neu trwy fwa, neu i troi ar eingion y gof, neu i gofod ymmhin neu hoppran y felin, na llawer o gaſtie eraill o'r fath; ac am ddewin, planedydd, brudiwr, daroganwr a'r fath hynny y maent hwy mewn mawr barch a chymmeriad gyda'r gwyr goreu, bonneddigion ac iangwyr trwy'r holl wlad, yr hyn oedd yn fy nallu i nad oeddwn yn meddwl fod gair Duw yn eu herbyn, ond yn hyttrach eu bod yn wyrda am fod y rhain yn eu mawrhau; ac am ſwynwyr a ſwynwragedd nis gellid fod heb y rheini, y maent hwy yn gwneuthur llawer o ddaioni cymmryd y rhan fwya i dda ac i ddynion, gochelwch eich bod yn cam gymmeryd; hudolwyr a chonſurwyr nid oes yrowran fawr ſon am danynt, ac nid rhaid wrthynt i gael hanes, a gwybodaeth am bethau lledrad neu'r hyn a gollwyd, y mae rhai a gwagr ac a gwelle, neu a phioled o ddwfr a feidr hynny, fo mae rhai a dwfr ac a deiliach, neu wrth daflu cnau yn tan nos galan-gaya a ddywed i chwi pwy a fydd marw y flwyddyn honno.

*Gr.* Wele *Tudur* mal dyna fwrw cath i'r cythrol wrth ei fodd, dyſcodd y rheibwyr a'r fath fod yn rhaid aberthu mal y dyſcoedd y ſwynwyr i eraill weddio, y rhai a chwennychent hwy i gwneuthur yn ddyſcyblion i ddiafol, neu o'r lleiaf i gael blâs o'i gelfyddyd; eithr am a ddywedaiſt o fod goreugwyr y wlad yn mawrhau y rhai y mae Duw yn gorchymmyn i gochel, arwydd yw hynny fod diafol wedi i dallu hwy, a Duw ar eu gwrthod, a'i bod yn golledig, onis bydd iddynt gael mewn amſer ymochelyd y cythrel a'i gennadon, ac i edifarhau am a wnaethont; a'r un diwedd a ddaw i'r neb a gyrcho at reibwyr, ſwynwyr a'r fath, ac a ddaeth i *Saul*.

*T. Gronwy*; tydi a ddywedaiſt, os daw cof i mi, fod Duw yn gorchymmyn difa yn llwyr reibwyr, Swynwyr ar fath o blith i bobl; po gellit ti ddangos hynny yngair Duw, myfi a debygwn na bydde mwyach yn gyſtal eu croeſo hwy ar lawer.

G. *Tudur*, y mae yn hawdd ddigon ddangos hynny i ti? a'r dialedd tragywyddol a ddaw arnynt hwy ac ar i dilynwyr, ond bod yr amſer yn fyrr a'm machoſion inne yn fyng alw ymmaith oddi wrthyt.

*T.* O *Gronw*, er a fu rhyngom erioed o fwynder a chymdeithas, ac er mwyn y wlad o'r hon a daethom i o honi, a'r wlad yr y'm ym preſſwylio ynddi, a pheth ſydd fwy na hyn, er mwyn ynnill i Dduw a dwyn o balf y gaeth, ſef, o law a gennau'r cythrel y rhai a ordeiniwyd i fod yn gadwedig, dangos hynny hefyd cyn ymmado.

Gr. Wele *Tudur* yr wyt yn fy attal i megis un a fai wedi fy rheibio trwy dy daerni nas medraf moth nagcau; ac am hynny gwrando pa beth y mae Duw yn y ſcrythyr yn i ddywedyd wrth bobl *Iſrael* ac wrth i eglwys yn dragywyddol, *Na ad* (medd efe) *i reibies fyw yn eich plith, nac ar y ddaiar*; Exod. 22. 18. *Ac yno yn wr yn wraig os bydd ynddynt yſpryd dewiniaeth, neu frud, hwynt, a leddir, yn farw, a cherrig y llabuddiant hwynt, eu gwaed a fydd arnynt eu hunain*, Levit. 20. 27. Y mae Saint *Paul* yn cyfriſ celfyddyd y rhain ymmhlith gweithredoedd y cnawd, ac (medd efe) y rhai a wnant y ſath bethau nid etifeddant deyrnas Dduw, *Gal.* 5. 20, 21. Ac y mae *Ioan* yn i weledigaeth yn dywedyd am y ſath fod i rhan hwynt hwy yn y pwll yn hwn ſydd yn lloſgi o dan a brwmſtan, yr hwn ydyw yr ail farwolaeth. *Dat.* 21. 8. Ah *Tudur* myfi a'th welaf yn crynnu euſus rhag ofn, wrth glywed barn a dialedd Duw ar y bobl annuwiol hyn; gan i fod ef yn gorchymmyn i lladd hwy, fod teyrnas nef wedi cau yn i herbyn, bod tan uffern wedi parottoi iddynt yn dragywydd, ond ynfyd (medd iti) yw y rhai y ſydd yn ceiſio iechyd corphorol, cyfoeth bydol neu pa ddiddanwch daiarol ba bynnag (y ſydd mor fyrr i bara) mor beryglus, ac y rhain? Ffolineb yw prynnu aur yn rhy ddrud; y mae deddfau Duw, a chyfraith dyn yn barod i ddwyn i bywyd, a'r cythrel ſafnrythlyd yn barod bob awr i dderbyn yr enaid ai ddwyn i boenau difeſur, didrangc.

*T.* *Gronwy*, nid ynfyd yn unig yw y rhain a'i holl ddilynwyr, ond yſcelor hefyd yn fy meddwl a'm marn i, a oes, er Duw, ſon yn y ſcrythyr-lan neu mewn ſtoriau eraill fod y fath yn parhau o oes bigilydd o'r dechreuad?

Gr. Oes yn ddiammeu, ni buaſe Duw yn peri i ymochlyd, a'i difa o ddaiar *y ddaear* oni bai fod y fath; yr oedd gen *Pharo* brenhin yr Aipht hudolion yn amſer *Moſes* a mawr oedd i parch ymmhlith yr Aiphtiaid annuwiol, mal y dywedaiſt fod y rhain ymmlhith ein anffyddloniaid ninneu heddyw; *Exod.* 7. Yr ydoedd yn amſer *Saul* lawer, ond mwya ſon y ſydd am y ddewines o *Endor*, 1 *Sam.* 28. 7. Yr ydoedd o amſer bigilydd rai yn parhau ac yn byw ymmhlith plant a phobl Dduw, ond yr oeddynt cyn anamled ymmhlith y cenhedloedd nas gellid moi rhif yr oedd *Simon Magus* ſwynwr mawr yn hude'r bobl o *Samaria* ynnyddieu yr Apoſtolion, yr hwn pan ydoedd yn *Rhufain* efe a wnaeth i'r bobl dybiaid mai Duw oedd efe ac yr hedfane i'r nefoedd, ond fe a ddigwyddodd i Petr fod yno yn edrych arno, pan oedd y cythreuliaid yn i ddwyn rhyngthynt i'r awyr a'r bobl yn i addoli mal Duw yno a gweddiodd Petr, ac y gorſu i'r yſprydion i ollwng bendra mwnwgl i lawr, nes torri o hono i wddwf, *Euſeb. fol.* 564. yr ydoedd heſyd Theudas *Act.* 5: 36. Elymas *Act.* 13. 6. ac eraill lawer a ddaethant i ddihenydd digon drwg bob un.

*T.* *Grenwy*, ymmha le yr oedd cyfraith Dduw y pryd hynny nad oedd yn craſtu ar y rheini, na neb yn coſpi y ſath hynny hyd y yrowran?

Gr. Yr oedd *Tudur* cyfraith Dduw a dyn yn difa llawer, ac etto rhy aml oeddynt hwy, y mae'r ſcrythyr lan yn dangos yrru o *Saul*, pan oedd yn gwrando ar air Duw ac yn dilyn cyngor *Samuel*, y ſwynwyr a'r dewiniaid o wlad *Iſrael*, er ymgyrchu o hono attynt hwy yn ol darfod i'r Arglwydd i ſwrw efe ymmaith, 1 *Sam* 28. 3. Ac am *Joſiah* y mae yn ſcrifennedig mal hyn, y ſwynyddion, a'r dewiniaid, a'r delwau, a'r eulynnod a'r holl phieidd-dra y rhai a welwyd yngwlad *Juda*, ac yn *Jeruſalem* a dynnodd *Joſiah* ymmaith, 2 *Bren.* 23. 24. dymma fol yr ydoedd gwaſanaethwyr Duw o flaen llaw, ac y mae Criſtnogion da yrowran ymmha le bynnag y bo gair Duw yn cael i bregethu yn rhwydd, a'r Efengyl yn barchedig.

*T.* Myfi a glywais mai da oedd illwng gwaed ar y rheibiwr neu'r rheibios, pan fo na da na dynion wedi rheibio.

Gr. Na dda ddim *Tudur* meddiginiaeth wael yw honno a'r cythrel a ddyſcodd i ddynion wneuthur drwg am ddrwg; nid anghyffelyb hyn i aberth yr hwn a loſcodd i geffyl; nis dyle neb nai dofi nai difa hwy ond a fo ac awdurdod gantho, iw coſpi hwy a drwg ddynion eraill.

*T.* Pa beth wrth hynny a wna'r cyffredin lle bo'r ſath yn eu cymmydogaeth?

Gr. Gwrando gair Duw, darllain gair Duw a gweddio yn ffyddlon ac yn ffrwythlon, canys (medd *Petr*) y neb a wrthwynebo'r cythrel yn y ſtydd, efo a ffu oddiwrtho, ac os ffu'r cythrel nis gell y rheibwyr niwed, mwy nag y gallodd *Simon Magus* hedfan i ddallu'r bobl pan weddiodd *Petr*. *Jaco* 4. 7.

*T.* Nid yw ein gweinidogion yn cymmeryd dim poen i ddarllain a dangos gair Duw i ni; ac am bregeth nis clywais i un erioed yn ein heglwys blwyſ ni; y mae'r Bibl yn rhy ddrud i wr tlawd iw brynnu a'i gadw gartreſ, Duw a wyr mai embydus yw cyflwr y cyffredin truain,

*Gr.* Wele *Tudur* pryn dithe y llyfran bychan ymma, ſydd hefyd yn ſychan ei bris, ac etto yn ſawr i ddaioni a'r lleſad a gei di o ſynych ddarllain hwn, a gweddio ar Dduw am roi i ti ddeall; dymma'r peth os arferi beunydd nes cael mwy oleuni gair Duw a'r moddion a ordeiniodd efe i fod yn ei eglwys, cei ddiddanwch mawr i'th enaid, a tharian i ymddiffyn dy gorph rhac picellau diawlig rheibwyr, dewiniaid a'r fath ddrwg ddynion; ti a'm codwaiſt yn rheuir, bydd-wych, a Duw a roddo i ni o'i ſawr ras a'i drugaredd wir edifeirwch calon am ein holl gamweddau, adnewydd deb buchedd, ac iawn Ffydd i dderbyn Criſt a'i holl ddoniau yſprydol; a hynny trwy haeddedigaeth Jeſu Griſt ein Achubwr, ir hwn gyda'r Tâd a'r Yſprd glan y bo mawl a gogoniant yn oes oeſoedd *AMEN.*

---

*Y Llyfrau a Argraphwyd ac ſydd ar werth gan*
Tho. Durſton.

LLyfr O Weddiau Duwiol yn Cynnwys ynddo, mwy na Wyth ugain o Weddiau Duwiol ar amryw Achoſion, newydd Argraphwyd.
Llyfr Teſtament Newydd yn Gymraeg gyda'r Cynhwyſiad.
Llyfyr Gweddi Gyffredin &c.
Llyfr Ymarfer o Dduwioldeb.
Llyfr Meſur Coed, &c.
Llyfr Hunan ymholiad.
Llyfr Ymadrodd ynghylch Dychymygion Dynion yn Addoliad Duw, gan Dr. *King.*
Llyfr Cyfoeth ir Cymru gan *William Dyer.*
Patrwm y Gwir-Chriſtion: Neu, Ddilyniad Jeſu Griſt.
Llyfr Drych y prif Oeſoedd.
Llyfr Cydymaith yr Eglwyſwr, yn ymweled a'r Clâf.
Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol.

# Danghoſiad ym-mha ddalen y ceir pob cân ag y ſydd gynhwyſedig yn y llyfr hwn.

*Cyngor i wrando ag i ddarllen gair Duw* 1
*Hil Frutus* 10
*Truenus gyflwr dyn trwy naturiaeth* 16
*Bywyd a marwolaeth Chriſt* 20
*Adroddiad o gariad Chriſt at y byd,* 28
*Awn i Fethlem* 31
*Chriſt ſydd yn oll yn oll* 34
*Hil Adda* 43
*Cyngor i bechadur i ddyſod at Jeſu Ghriſt* 48
*Cyngor i bechadur i ddyſod at Griſt* 52
*Cynhyrfiad i foli'r Arglwydd Jeſü* 58
*Gwahoddedigaeth i foli Chriſt Jeſu* 62
*Annogaeth i ddiolchgarwch am ein prynedigaeth trwy Ghriſt* 65
*Cynghorion i'r ſawl a ddymunant gael ffafr Duw, &c.* 69
*Cyngor i gredu yngbriſt* 73
*Cyngor i ochelyd cwmpeini drwg* 76
*Galarnad pechadur* 78
*Cynghorion Duwiol* 83
*Cyngor i wr ieſangc* 89
*Cyngor i waſanaethu Duw* 96
*Am weddi ai pherthynaſſau* 106
*Rhybudd i feddwl am Dduw y bore* 119
*Diolch foreuol pan ddihuner gynta* 121
*Diolch i Griſt am eſmwythder* 122
*Rhybudd i ddyn wrth ddilladu y corph,* &c. 123
*Gweddi wrth wiſco am danad* 123
*Arall*
*Rhybudd wrth ymolchi* } 124
*Gweddi wrth ymolchi*
*Gweddi foreuol* 125
*Rhybudd i ymgadw rhag rhuthreu'r byd cnawd a Satan* 128
*Gweddi yn erbyn rhuthreu Satan* 131
*Cynghori yn erbyn profedigaetheu Satan* 133
*Cyngor i weddio ar bob achos* 136
*Cyngor i Llafurwr* 139
*Gweddi'r hwſmon* 140
*Cyngor ir trafaeliwr* 141
*Gweddi'r Trafaeliwr* 142

*Cyngor ir milwr* 144
*Gweddi'r milwr* 145
*Cyngor ir porthmon* 149
*Cyngor cyn mynd i garu* 150
*Canmoliaeth Gwraig dda* 153
*Rhybudd a chyngor i godinebwr* 154
*Cyngor ir meddwyn* 157
*Can ynghylch y diawl a'r meddwon* 163
*Cyngor i ymgadw rhag meddylie drwg* 165
*Cyngor i lywodraethu'n geiriau wrth fodd Duw* 170
*Gweddi am lywodraethu'y geiriau* 172
*Cyngor i ddyn fod bob amſer o Ymddygiad Griſtnogaidd* 173
*Cyngor yn ynghylch bwytta ag yfed* 176
*Gras cyn bwyd* 179
*Gras yn ol bwyd* 180
*Gras cyn bwyd* 181
*Arall cyn bwyd* 181
*Gras yn ol bwyd* } 182
*Gras cyn bwyd* }
*Gras gwedi bwyd* 183
*Gras cyn ſwpper* 184
*Gras yn ol cinio* } 185
*Arall yn ol ſwpper* }
*Arall* 186
*Cerydd am eſceuluſſo ceiſio bendith ar,* &c. 187
*Gweddi* } 188
*Cyngor i gyfrannu a'r anghenus* }
*Cyngor i bob penteulu i lywodraethu ei dy yn Dduwiol* 193
*Dyledſwydd plant yw rhieni* 204
*Pa bethau a ddyle ddyn ſyſyrio arnynt ar y ſabboth* 207
*Cyngor i ymbarattoi cyn dyfod i addoli'n gyhoeddus* 209
*Gweddi 'rhwyn ſy'n Myned i addoli Duw'n gyhoeddus* 212
*Parattoad ir cymmun* 214
*Gweddi cyn derbyn y cymmun* 221
*Pennillion ar gynneddfa rhai dynion* 222
*Llythyr yr awdwr at ryw eglwyſwr* 235
*Catechiſm* 236
*Pethe yw harferu pan ddel y nos* 25
*Hymn cyn mynd i gyſcu* 25
*Diolch am dan a chynnheſſrwydd* 25

---

*Gwe*
*Myfy*
*Pſal*
*Y m*
*Diolc*
*Gwe*
*Diolc*
*Arall*
*Rhan*
*Pſalm*
*Am d*
Cofiw
*Arall.*
*Rhybu*
*Arall.*
*Gwed*
*Byrr y*
Cyngo
*Gwedd*
*Rhybu*
*Gwedd*
*Gwedd*
*Rhybu*
*Llythyr*
*Atteb i*
*Rheſym*
*Ymddid*
*Arall.*
*Agoria*
*Gweddi*
*Diddan*
*Gweddi*
*Gweddi*
*Myfyrd*
*Toſt gyf*
Cwyn
*Ofer yu*
*Cyngor*
*Gweddi*
Cyngor

Gweddi wrth fynd ir gwely 254
Myſyrdod pan ddihuner ganol nos [illegible]
Pſal 23. 258
Y modd y dylè ddyn graſſol ddeſſro, &c. 259
Diolch am etholedigaeth. 261
Gweddi yn erbyn gorthrymder. 263
Diolch am ymwared o ddwylo gelynion. 266
Arall byrrach.
Rhan o'r Pſ. 69. 268
Pſalm 30. 271
Am ddiwedd y byd. 273
Cofiwch angeu 279 cân ar y flwyddyn, 1629. 286
Arall. 293
Rhybudd i gymru. 296
Arall. 304
Gweddi eglwyſwr wrth fyned i ymweled y cleifion yn amſer. 310
Byrr yw oes dyn. 312
Cyngor ir claf. 312
Gweddi'r claf. 316
Rhybudd ir claf alw am weinidog. 319
Gweddir claf cyn cymmeryd phyſſygwriaeth 324
Gweddi fyrrach ir claf. 325
Rhybudd ir claf wneuthur ei ewyllys. 327
Llythyr anrhydeddus Sr. L. M.
Atteb i Sir Lewis Manſel. 331
Rheſymmau'n cyffroi'r claf i fod yn ddioddeſgar. 338
Ymddiddanion rhwng y claf a'i enaid. 340
Arall. 343
Agoriad byrr yn erbyn ofn Angeu [illegible]
Gweddi iw harferyd mewn cleſyd, 348
Diddanwch yn erbyn gwan obaith. 349
Gweddi am faddeuant pechode. 350
Gweddi ir claf ar yr awr ddiwaetha. 354
Myſyrdod ar fywyd ag angeu. 355
Toſt gyflwr yr annuwiol wedi marw. 355
Cwyn a chynger Deiſes. 364
Ofer yw gweddio dros y marw 376
Cyngor Mr. Prichard yw fab, 380
Gweddi Mr. S. P, 383
Cyngor Arall, 386

*Achwyn Mr. Prichard ynghylch Tre* Llanddyfri, 387
*Achwyn Eglwyſwr,* 390
*Rhaid glynu wrth Griſt,* 392
*Gwell Duw na dim,* 392
Chriſt *yw pren y bywyd.* 393
Chriſt *a arwyddoccawyd wrth yr oen paſc.* 394
*Chriſt a arwyddoccawyd wrth y ſarph brês.* 395
*Hymn ar Dydd nadolig.* 396
Cyngor *i geiſio'r Arglwydd Jeſu.* 401
*Pſal.* 38. 415
*Am y Sabboth,* 419
Gweddi *dros yr Eglwys.* 422
*Am dyngu,* 424
*Dyledſwydd gweinidogion* 425
*Am Ragluniaeth Duw.* 431
*Am y Pur dan.* 434
*Am barhad mewn ſtad o ras* 437
*Fe ddylai gwraig ſagu ei phlentyn.* 439
*Cyngor i wraig i beidio triſthau* 440
*Rhybudd i ochelyd gorthrymmu neb* 443
*Gwahoddedigaeth i bechaduriaid i* 444
*Pſalm* 100. 446
*Y Bummed ran* 447

*Y Chweched Rann.*

*Ynghylch Pwyll ac Amynedd.* 456
*Am Weddi.* 458
*Cyngor i'r Llyfr, o waith y ſawl ai danſonedd ef gynt i'r wlâd.* 460
*Cân i groeſawi* Charles. *Tywyſog Cymru adre O* Spain. 470
*Cân yn dangos trueni dyn yn byw ac yn marw heb* Griſt. 475
*Cân Dduwiol.* 480
*Cân ynghylch holl Breſennoldeb Duw.* 481
*Cân ynglych y Gwrthryfel a dorodd allan.* 484
*Cynghorion Tâd yw Fâb:* 486
*Am godi'n foreu.* 486
*Am fyfyrdod boreuol a hwyrol.* 487
*Am Baratoad ir Farn.* 487
*Am Ddiwydrwydd* 48
*Ymddiddan rhwng* Tudur *a* Gronwy. 49

**DIWEDD.**

BRITISH MUSEUM

387
390
392
392
393
394
395
396
401
415
419
422
424
425
431
434
437
439
440
443
444
446
447

456
458
ynt i
460
n. 47
. 47
48
48
484
48
48
48
48
48
49